Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# BIL AMAETHYDDIAETH (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol

Yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol

**Mehefin 2023**

# Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol i Fil Amaethyddiaeth (Cymru)

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan adran Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru a'i osod gerbron Senedd Cymru.

Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 ym mis Medi 2022, a gosodir yn awr Femorandwm diwygiedig yn unol â Rheol Sefydlog 26.46B.

## Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a gyflwynwyd gennyf ar 26 Medi 2022, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

**Lesley Griffiths AS**

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Aelod o Senedd Cymru sy'n gyfrifol am y Bil.
13 Mehefin 2023

# Tudalen Gynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **RHESTR O ACRONYMAU** | | 3 |
| **RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL** | | |
| Pennod 1 | Disgrifiad | 6 |
| Pennod 2 | Cymhwysedd Deddfwriaethol | 11 |
| Pennod 3 | Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | 12 |
| Pennod 4 | Ymgynghori | 90 |
| Pennod 5 | Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | 100 |
| **RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL** | | |
| Pennod 6 | Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol | 110 |
| Pennod 7 | Opsiynau a Costau a Manteision | 127 |
| Pennod 8 | Asesiadau Effaith Integredig | 417 |
| Pennod 9 | Adolygiad ôl-weithredu | 431 |
| **ATODIAD A** | **Tynnu Cymorth yn ôl: Gostyngiad mewn Incwm Busnesau Ffermio - cymharu â data sy'n deillio o Arolwg o Fusnesau Ffermio Cymru** | 434 |
| **ATODIAD B** | **Tybiaethau IMP** | 465 |
| **ATODIAD C** | **Tybiaethau prisiau a ddefnyddiwyd yn y modelu IMP ar gyfer goblygiadau defnydd tir y Senario Cytundeb Masnach gyda'r UE (T2)** | 469 |
| **ATODIAD D** | **Atodiadau i'r Dadansoddiad Cost a Budd Coedwigaeth** | 471 |

## Rhestr o'r Acronymau

| | |
|---|---|
| AA | *Deddf Amaethyddiaeth 2020* |
| ACA | *Ardaloedd Cadwraeth Arbennig* |
| AFBI | *Sefydliad Bwyd-Amaeth a Biowyddorau* |
| AHA | *Deddf Daliadau Amaethyddol 1986* |
| AHDB | *Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth* |
| AHNE | *Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol* |
| ALA | *Cymdeithas y Gyfraith Amaethyddol* |
| AMB | *Ymwrthedd Gwrthficrobaidd* |
| APHA | *Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion* |
| ATA | *Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995* |
| BaOL | *Brexit a'n Tir (papur ymgynghori)* |
| BAU | *Busnes fel arfer* |
| BEIS | *Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol* |
| BPCA | *Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain* |
| BPS | *Cynllun y Taliad Sylfaenol* |
| BVA | *Cymdeithas Filfeddygol Prydain* |
| BVD | *Dolur Rhydd Feirysol Buchol* |
| BVZS | *Cymdeithas Swolegol Milfeddygol Prydain* |
| CAAV | *Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol* |
| CBA | *Dadansoddiad Cost a Budd* |
| CCC | *Y Pwyllgor Newid Hinsawdd* |
| CCERA | *Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig* |
| $CH^4$ | *Methan* |
| CLA | *Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad* |
| CMO | *Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd* |
| CNC | *Cyfoeth Naturiol Cymru* |
| Confor | *Cydffederasiwn y Diwydiannau Coedwigoedd* |
| $CO_2$ | *Carbon Deuocsid* |
| CPH | *Rhif y Daliad* |
| CPI | *Mynegai Prisiau Defnyddwyr* |
| CTS | *Gwasanaeth Olrhain Gwartheg* |
| DA | *Ardal Dan Anfantais* |
| DCD | *Dicyandiamide* |
| DEFRA | *Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig* |
| EIA | *Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol* |
| EID | *Dyfais Adnabod Electronig* |
| EM | *Ei Mawrhydi* |
| EMFF | *Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop* |
| EPS | *Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop* |
| ERAMMP | *Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd* |
| ETS | *System Masnachu Allyriadau* |
| FAPRI | *Sefydliad Ymchwil Polisi Bwyd ac Amaethyddiaeth* |

| | |
|---|---|
| FAO | *Sefydliad Bwyd ac Amaeth* |
| FBI | *Incwm Busnes Fferm* |
| FBS | *Arolwg o Fusnesau Ffermio* |
| FBT | *Tenantiaeth Busnes Fferm* |
| FLA | *Ceisiadau am Drwyddedau Cwympo Coed* |
| FLS | *Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm* |
| FMP | *Cynllun Rheoli Coedwigoedd* |
| FMU | *Uned Rheoli Coedwigoedd* |
| FRAPs | *Trwyddedau Gweithgarwch Perygl Llifogydd* |
| FTE | *Cyfwerth ag amser llawn* |
| FUW | *Undeb Amaethwyr Cymru* |
| GAEC | *Amodau Amaethyddol ac Amgylcheddol Da* |
| GDP | *Cynnyrch Domestig Gros* |
| GDPR | Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Diogelu Data 2018 |
| GHG | *Nwyon tŷ gwydr* |
| GIG | *Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol* |
| GLU | *Unedau Da Byw sy'n Pori* |
| GMEP | *Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir* |
| GoWA | *Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017)* |
| Ha | *Hectar* |
| HRA | *Asesiad Rheoliad Cynefinoedd* |
| IIA | *Asesiadau Effaith Integredig* |
| IACS | *System Integredig Gweinyddu a Rheoli* |
| INNS | *Rhywogaethau Estron Goresgynnol* |
| IMP | *Platfform Modelu Integredig* |
| IPCC | *Y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd* |
| IUCN | *Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur* |
| JSII | *Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder* |
| LACS | *League Against Cruel Sports ( Elusen)* |
| LAM | *Modiwl Dyrannu Tir* |
| LED | *Deuod Allyrru Golau* |
| LMA | *Cytundeb Rheoli Tir* |
| LRCs | *Canolfannau Cofnodion Lleol* |
| LULUCF | *Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth* |
| MoJ | *Y Weinyddiaeth Gyfiawnder* |
| N | *Nitrogen* |
| NECD | *Cyfarwyddeb Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol* |
| NFU | *Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (Cymru)* |
| $NH^3$ | *Amonia* |
| NMP | *Cynlluniau Rheoli Maethynnau* |
| NMVOC | *Cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan* |
| NPTA | *Cymdeithas Genedlaethol y Technegwyr Plâu* |
| NPV | *Gwerth Presennol Net* |
| $N^2O$ | *Ocsid Nitraidd* |
| ONS | *Y Swyddfa Ystadegau Gwladol* |
| P | *Ffosfforws* |
| PAC | *Polisi Amaethyddol Cyffredin* |
| PfG | *Rhaglen Lywodraethu (ymrwymiad)* |

| | |
|---|---|
| PIPSA | *Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth ar gyfer Storio Preifat (cynllun)* |
| $PM^{2.5}$ | *Mater gronynnog* |
| PoW | *Rhaglen Waith* |
| RDPS | *Cynllun Taliadau Datblygu Gwledig* |
| RIA | *Asesiad Effaith Rheoleiddiol* |
| RICS | *Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig* |
| RIW | *Arolygiaeth Wledig Cymru* |
| RPW | *Taliadau Gwledig Cymru* |
| RSPB | *Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar* |
| RSPCA | *Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid* |
| RUMA | *Y Gynghrair Defnydd Cyfrifol o Feddyginiaethau mewn Amaethyddiaeth* |
| RhDG | *Rhaglen Datblygu Gwledig* |
| SAF | *Ffurflen y Cais Sengl* |
| SDA | *Ardal dan Anfantais Fawr* |
| SFARMOD | *Model Fferm Gyfan Silsoe* |
| SFS | *Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy* |
| SFaOL | *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir (papur ymgynghori)* |
| SLM | *Rheoli Tir yn Gynaliadwy* |
| SMNR | *Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy* |
| SMS | *Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy* |
| SoDdGA | *Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig* |
| SoNaRR | *Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol* |
| TB | *Twbercwlosis* |
| TPO | *Gorchymyn Cadw Coed* |
| TRIG | *Grŵp y Diwydiant ar Ddiwygio Tenantiaethau* |
| TWh | *Awr terra-watt* |
| UE | *Yr Undeb Ewropeaidd* |
| UKCCC | *Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd* |
| UKFS | *Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig* |
| UN | *Y Cenhedloedd Unedig* |
| WFG | *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* |
| WWF | *Worldwide Wildlife Fund (for nature)* |

# *RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL*

## Pennod 1 – Disgrifiad

1.1 Mae Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ("y Bil") yn darparu ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) ac yn gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer cymorth ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru ac mewn cysylltiad â hynny.

1.2 Bydd y Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru barhau i wneud taliadau cymorth amaethyddol i ffermwyr yn ystod cyfnod pontio (nodir y cynigion polisi ynghylch y cyfnod pontio yn y cyhoeddiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)).

1.3 Bydd y Bil yn diwygio Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (“Deddf 1986”) a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 (“Deddf 1995”) i ddarparu llwybr i denantiaid ar gyfer datrys anghydfodau o dan rai amgylchiadau.

1.4 Bydd y Bil yn disodli’r pwerau ag iddynt derfyn amser a roddir i Weinidogion Cymru yn Neddf Amaethyddiaeth (AA) 2020, Atodlen 5, sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2024.

1.5 Bydd y Bil yn diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i roi'r pŵer i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ychwanegu amodau “amgylcheddol” at drwyddedau cwympo ac i ddiwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo sydd eisoes wedi’u rhoi er mwyn atal gwaith cwympo coed a fyddai'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall.

1.6 Mae'r Bil yn darparu hefyd ar gyfer gwahardd Maglau a Thrapiau Glud.

1.7 Bydd y Bil, sydd wedi’i rannu’n chwe rhan, yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

## RHAN 1 – RHEOLI TIR YN GYNALIADWY

1.8 Bydd yn pennu pedwar amcan ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

1.9 Bydd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer rhai swyddogaethau yn y modd y maent yn ystyried sy’n cyfrannu orau at gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM), i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaeth honno’n briodol.

1.10 Bydd yn darparu ar gyfer monitro ac adrodd cynnydd at gyflawni'r amcanion, gan gynnwys gosod dangosyddion a thargedau, asesu ei weithrediad, darparu sylfaen dystiolaeth bwysig, a hwyluso craffu ac atebolrwydd.

## RHAN 2 – CYMORTH AR GYFER AMAETHYDDIAETH ETC

### *Pennod 1 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth*

1.11 Bydd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth, megis creu cynlluniau (neu fathau eraill o gymorth) ar gyfer neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol. Y prif fecanwaith a gynigir ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy fydd yr SFS.

1.12 Bydd yn caniatáu gwirio, gorfodi a monitro unrhyw gymorth a ddarperir o dan y pŵer i roi cymorth, gan sicrhau bod yr holl gymorth amaethyddol (trwy gynllun neu fel arall) a gynhelir a / neu a ariennir gan Weinidogion Cymru yn cael ei weinyddu'n gywir.

1.13 Bydd yn nodi’r gofynion adrodd ar gyfer yr holl gynlluniau cymorth ac unrhyw gymorth a ddarperir o dan y pŵer i ddarparu cymorth. Bydd dwy lefel o adrodd gorfodol, Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Effaith.

1.14 Rhaid paratoi'r Adroddiad Blynyddol yn flynyddol a bydd yn rhoi manylion yr holl gymorth ariannol a chymorth nad yw’n ariannol a ddarperir yn ystod pob blwyddyn ariannol.

1.15 Bydd angen paratoi'r Adroddiad Effaith bob pum mlynedd i asesu effaith ac effeithiolrwydd yr holl gymorth a ddarperir (drwy gynllun neu fel arall) o dan y pwerau i ddarparu cymorth yn ystod y cyfnod adrodd.

## *Pennod 2 – Pwerau i addasu ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â chymorth ariannol a chymorth arall*

1.16 Bydd yn disodli’r pwerau ag iddynt derfyn amser yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 er mwyn i Weinidogion Cymru gael newid y modd y ceir cyllido, rheoli a monitro’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)

1.17 Bydd yn darparu pwerau i newid wrth anrhydeddu cynlluniau talu datblygu gwledig (RDPS) yr ymunwyd â nhw cyn ymadael â’r Undeb Ewropeaidd (UE) sy'n estyn y tu hwnt i’r diwrnod Ymadael.

1.18 Bydd yn disodli’r pwerau ag iddynt derfyn amser yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 er mwyn i Weinidogion Cymru gael newid deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy’n ymwneud â gwenynyddiaeth ac is-ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno.

## *Pennod 3 – Ymyriad mewn marchnadoedd amaethyddol*

1.19 Bydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru:

a) Ddatgan bod amodau eithriadol yn y farchnad mewn marchnadoedd amaethyddol.

b) Rhoi cymorth ariannol i gynhyrchwyr yn dilyn datgan bod amodau eithriadol yn y farchnad.

c) Newid deddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy’n ymwneud ag Ymyrraeth yn y Farchnad Gyhoeddus a Chymorth ar gyfer Storio Preifat (PIPSA).

## *Pennod 4 – Tenantiaethau amaethyddol*

1.20 Mae Deddfau 1986 a 1995 wedi’u diwygio i roi llwybr i denantiaid o dan y ddwy Ddeddf ddatrys anghydfodau pan fo’u landlord mewn ffordd afresymol yn gwrthod rhoi cydsyniad i *fater y mae angen cydsyniad arno o dan y denantiaeth* neu i gais i newid cymal cyfyngol yn y cytundeb tenantiaeth, *lle bo’r cais yn cael ei wneud i alluogi’r tenant i wneud cais neu i ofyn* am gymorth ariannol a hefyd, yn achos Deddf 1995, i gydymffurfio â dyletswydd statudol. Bydd hyn yn

sicrhau bod tenantiaid o dan Ddeddf 1986 (sydd eisoes yn cynnwys darpariaethau ynghylch cydymffurfio â dyletswyddau statudol yn dilyn diwygiadau a wnaed o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020) a Deddf 1995 yn gallu cael at gymorth cyflafareddu tebyg.

## RHAN 3 – MATERION SY’N YMWNEUD AG AMAETHYDDIAETH A CHYNHYRCHION AMAETHYDDOL

### *Pennod 1 – Casglu a rhannu data*

1.21 Bydd yn darparu pwerau i alluogi casglu data oddi wrth y sector amaethyddol ar draws dau gategori sydd ar wahân ond sy’n ategu ei gilydd. Y cyntaf oddi wrth bobl sydd mewn 'cadwyn cyflenwi bwyd-amaeth' neu sydd â chysylltiad agos â hi; a’r ail oddi wrth bobl sy'n ymgymryd â 'gweithgareddau perthnasol' sef y rhai sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth

### *Pennod 2 – Safonau marchnata: cynhyrchion amaethyddol*

1.22 Bydd yn disodli’r pwerau ag iddynt derfyn amser yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 er mwyn i Weinidogion Cymru gael gwneud darpariaeth am y safonau y bydd yn rhaid i restr ddynodedig o gynhyrchion amaethyddol gydymffurfio â hi pan gânt eu marchnata yng Nghymru.

### *Pennod 3 – Dosbarthu carcasau etc.*

1.23 Bydd yn disodi’r pwerau ag iddynt derfyn amser yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 er mwyn i Weinidogion Cymru gael gwneud darpariaeth ar gyfer dosbarthu carcasau gwartheg, moch a defaid mewn lladd-dai yng Nghymru.

## RHAN 4 – COEDWIGAETH

1.24 Bydd yn diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i ddarparu ar gyfer ychwanegu amodau sy’n ymwneud â diogelu a gwarchod yr amgylchedd at drwyddedau cwympo coed a rhoi pwerau newydd i CNC ddiwygio, atal a dirymu trwyddedau cwympo coed sydd wedi’u rhoi.

## RHAN 5 – BYWYD GWYLLT

1.25 Bydd yn gwahardd dau ddull o reoli plâu, sef maglau i ddal anifeiliaid gwyllt, a thrapiau glud ar gyfer dal anifeiliaid asgwrn cefn (nid pobl).

## RHAN 6 – CYFFREDINOL

1.26 Bydd yn diffinio’r hyn a olygir wrth 'amaethyddiaeth' a 'gweithgaredd ategol' o fewn cyfyngiadau’r Bil. Bydd y diffiniadau’n adlewyrchu’r holl weithgareddau ffermio yng Nghymru, gan gynnwys arferion a dulliau amaethyddol traddodiadol a modern yng Nghymru.

1.27 Bydd yn nodi pwerau’r rheoliadau trwy’r Bil yn ei gyfanrwydd ac yn nodi pan ddaw pob darpariaeth o dan y Bil i rym.

## ATODLEN 1 – CYNHYRCHION AMAETHYDDOL SY’N BERTHNASOL I DDARPARIAETHAU SAFONAU MARCHNATA

## ATODLEN 2 – MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL ETC SY’N YMWNEUD Â RHANNAU 1 I 3

## ATODLEN 3 – DIWYGIADAU CANLYNIADOL ETC I’R RHEOLIAD AR GYD-DREFNIADAETH Y MARCHNADOEDD

## Pennod 2 – Cymhwysedd Deddfwriaethol

2.1 Mae gan Senedd Cymru ("y Senedd") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

# Pennod 3 – Pwrpas y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

## *Cyflwyniad*

3.1 Mae tir Cymru’n bwysig. Mae’n rhoi bwyd i ni, yn rhoi bywoliaeth, yn cynnal cymunedau ac yn darparu gwasanaethau amgylcheddol hanfodol rydym i gyd yn dibynnu arnynt. Trwy weithio’r tir, mae ffermwyr yn gwneud cyfraniad pwysig at yr economi, yr amgylchedd naturiol a’n cymunedau gwledig.

## *Ymadael â’r Undeb Ewropeaidd (UE) a’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)*

3.2 Mae'r ffordd y darparwyd cymorth i ffermwyr wedi newid dros amser. Wedi'r Ail Ryfel Byd, prif bwrpas polisi amaethyddol oedd sicrhau cyflenwad bwyd digonol a sicr. Cynlluniwyd PAC yr UE, a lansiwyd ym 1962, i fod yn bartneriaeth rhwng amaethyddiaeth a chymdeithas, a rhwng Ewrop a'i ffermwyr.

3.3 Fel aelod o'r UE, Cymru roddodd y PAC ar waith. Caiff ei lywodraethu'n bennaf gan reoliadau'r UE y gellir eu cymhwyso’n uniongyrchol. Ar ôl ymadael â’r UE, ymgorfforwyd y rheoliadau hyn mewn cyfraith ddomestig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 gan ddod yn ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

3.4 Wrth i'r heriau a wynebai Cymru, y DU ac Ewrop newid, mae’r cysylltiad rhwng cymorth ariannol a'r amgylchedd wedi tyfu.

3.5 Mae aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r UE wedi golygu bod amaethyddiaeth yng Nghymru wedi gweithredu mewn amgylchedd cymharol sefydlog ers degawdau. Trwy fod yn aelod, sicrhawyd llawer iawn o gymorth incwm blynyddol i lawer o ffermwyr a mynediad at farchnad fawr ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a ffiniau allanol y farchnad honno wedi’i diogelu gan dariff. Hefyd, llywodraethwyd arferion ffermio a rheoli tir yng Nghymru gan fframwaith cymhleth o ddeddfwriaeth Ewropeaidd a domestig.

3.6 Mae ymadael â’r yr UE yn golygu hefyd ddiwedd PAC yr UE a'i gyllid ar gyfer ffermwyr a’i fframwaith rheoleiddio. Mae amaethyddiaeth yn bwnc sydd wedi'i ddatganoli. Felly, mae gadael yr UE wedi rhoi cyfle i Gymru greu polisi amaethyddol sy’n adlewyrchu’r heriau a'r cyfleoedd unigryw sy'n benodol i Gymru.

3.7 Prif rôl amaethyddiaeth yw cynhyrchu bwyd a chynhyrchion amaethyddol cysylltiedig. Mae siociau diweddar i'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth fyd-eang, fel Covid-19, yr argyfyngau llongau a'r rhyfel yn Wcráin wedi tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau cadwyni cyflenwi gwydn a bwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol.

3.8 Mae'r un mor bwysig bod cynhyrchu bwyd a'r cadwyni cyflenwi sy'n cynnal hynny yn gynaliadwy fel bod cenedlaethau'r dyfodol yn cadw’r gallu i gynhyrchu a chyflenwi cynhyrchion amaethyddol i ac o Gymru.

3.9 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hefyd gyfraniad allweddol amaethyddiaeth at gymeriad diwylliannol a chymdeithasol Cymru yn ogystal â rôl hanfodol y sector wrth helpu’r wlad i wireddu ei nodau o ran llesiant, newid hinsawdd a bioamrywiaeth. Bwriad y Bil hwn yw helpu ffermwyr i sicrhau’r canlyniadau hyn, a chynhyrchu cynhyrchion amaethyddol mewn ffordd gynaliadwy yr un pryd. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y nodau hyn, o'u hystyried yn eu cyfanrwydd, yn ategu ei gilydd.

## *Yr Argyfwng Hinsawdd*

3.10 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn argyfwng hinsawdd, hynny mewn ymateb i dystiolaeth ddiweddaraf y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC). Y bwriad oedd rhoi neges glir na fyddai Llywodraeth Cymru yn caniatáu i'r broses o adael yr UE dynnu ei sylw oddi wrth her newid hinsawdd, sy'n bygwth ein hiechyd, ein heconomi, ein seilwaith, ein hamgylchedd naturiol ac o ganlyniad, ein hiaith a’n diwylliant.

3.11 Yn 2019, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd (UKCCC) i Gymru gynyddu ei tharged lleihau allyriadau 2050 o 80% i 95% ac i ddatgan uchelgais i fod yn sero-net. Yn sgil cyngor pellach gan UKCCC ym mis Rhagfyr 2020, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Senedd

ddiweddaru llwybr statudol Cymru ar gyfer lleihau allyriadau ym mis Mawrth 2021. Mae'r targedau newydd yn mynnu mwy o ymdrech gan bob sector allyriadau, gan gynnwys amaethyddiaeth.

3.12 Er mwyn gwireddu'r buddion hyn, bydd y Bil yn darparu fframwaith i ddisodli’r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) a chynlluniau cymorth amaeth-amgylcheddol eraill yr UE, gan ddarparu cymorth yn eu lle trwy’r pŵer yn y Bil i ddarparu cymorth. Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) arfaethedig fydd y prif gynllun a gaiff ei greu o dan y pŵer i ddarparu cymorth. Nod yr SFS yw gwobrwyo ffermwyr am ddarparu ystod o ganlyniadau a hynny’n ychwanegol at ac yn sgil cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill.

3.13 Mae diwygio amaethyddiaeth ac ymateb i’r argyfyngau hinsawdd a natur yn heriau tymor hir. Mae sector amaeth cynaliadwy’n allweddol i wireddu’n hymrwymiad i wneud Cymru’n sero net erbyn 2050 ac i gyfrannu at adfer natur ac at ymrwymiadau Cymru i fioamrywiaeth yn unol â fframwaith bioamrywiaeth Kunming-Montreal.

3.14 Bydd y Bil yn hanfodol i gyflawni'r nodau hyn, ac yn pennu cyfeiriad ein polisi am y pymtheg i ugain mlynedd nesaf.

## *Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015*

3.15 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru feddwl mwy am y tymor hir. Mae'n gofyn i ni feddwl mewn ffordd gydgysylltiedig i atal problemau a chreu Cymru yr ydym i gyd am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a’r saith Nod Llesiant yn fframwaith i’r Llywodraeth allu gwneud penderfyniadau y bydd yn rhaid i’n hagwedd newydd at reoli tir eu hadlewyrchu.

3.16 Yn unol â’r Rhaglen Lywodraethu[1], mae mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn flaenoriaethau i'r Llywodraeth hon. Tri o’i heriau mwyaf yw cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, ymateb i'r argyfwng hinsawdd a gwrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

3.17 Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cymorth i ffermwyr adlewyrchu'r newid pwysig hwn yn y cyd-destun ac y dylai wobrwyo ffermwyr sy'n gweithredu i ymateb i'r heriau hyn. Mae bod y tu allan i'r UE yn debygol o olygu amgylchedd economaidd anoddach. Rhaid i’r cymorth helpu ffermwyr i addasu i hyn.

3.18 Cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol raglen ddeddfwriaethol uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar 6 Gorffennaf 2021 Cadarnhaodd y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil Amaethyddiaeth i'r Senedd i sefydlu system newydd i helpu ffermwyr, yn seiliedig ar fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM), a fydd yn gwneud y mwyaf o bwerau amddiffynnol natur trwy ffermio.

3.19 Amcan polisi cyffredinol y Bil yw rhoi’r pwerau i Weinidogion Cymru roi amcanion SLM ar waith a’u cefnogi, drwy bwerau i gefnogi’r sector amaethyddol trwy gynllun neu gynlluniau cymorth, neu fathau eraill o gymorth.

3.20 Mae hyn yn cynnwys ein cynigion i:

a) Sefydlu SLM fel prif fframwaith polisi amaeth Cymru.

b) Sefydlu pŵer i ddarparu cymorth i'r sector amaethyddol. Bydd y cymorth, a allai fod ar ffurf cynllun, yn mynd i'r afael â’r newid yn yr hinsawdd a materion iechyd y cyhoedd ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth drwy arfer swyddogaethau yn y ffordd sy'n cyfrannu orau at amcanion SLM. Bydd y dull integredig hwn yn ei gwneud yn bosibl cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a sicrhau gwelliannau i’r agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol hynny.

c) Rhoi cymorth i'r rhannau hynny o'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach sydd hefyd yn cefnogi SLM.

[1] Rhaglen lywodraethu: diweddariad | LLYW.CYMRU (2021)

3.21 Bydd y Bil hefyd yn diwygio deddfwriaethau eraill sy’n ymwneud â thenantiaethau amaethyddol, Coedwigaeth, Maglau a Thrapiau Glud. Bydd yn:

a) sicrhau nad oes cyfyngiadau annheg ar denantiaid o dan gytundebau Deddf 1986 a Deddf 1995 rhag cael y cymorth ariannol a ddarperir o dan y darpariaethau yn y Bil i roi’r pŵer i ddarparu cymorth.
b) bdiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i atodi amodau sy’n ymwneud â diogelu a gwarchod yr amgylchedd at drwyddedau cwympo coed a newid, atal a dirymu trwyddedau cwympo coed sydd wedi’u rhoi.
c) gwahardd dau ddull penodol o reoli plâu, sef maglau i ddal anifeiliaid gwyllt, a thrapiau glud ar gyfer dal anifeiliaid asgwrn cefn (nid pobl).

## *Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM):*

3.22 Mae’r Bil yn pennu pedwar amcan SLM:

a) Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy.
b) Lliniaru effeithiau’r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.
c) Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maen nhw'n eu darparu, a
d) Gwarchod a gwella adnoddau cefn gwlad a diwylliannol a hybu cyfleoedd y cyhoedd i’w defnyddio, a chynnal y Gymraeg a hybu a hwyluso’r defnydd ohoni.

3.23 Hefyd, mae pob un o amcanion SLM yn darparu ar gyfer gwireddu’r amcan mewn ffordd sy’n

a) diwallu anghenion y presennol heb leihau gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a
b) cyfrannu at wireddu’r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (WFG) 2015.

3.24 Mae hyn yn golygu bod cyfrannu at wireddu’r pedwar amcan yn cyfrannu hefyd at ddiwallu anghenion cenedlaethau heddiw ac yfory yng Nghymru.

3.25 Cafodd amcanion SLM eu datblygu a'u llywio gan y broses ymgynghori gynhwysfawr ar Brexit a'n Tir[2], Ffermio Cynaliadwy a'n Tir[3], a Phapur Gwyn Amaeth (Cymru)[4]. Mae'r ymgynghoriadau hyn yn disgrifio datblygiad y fframwaith polisi - Rheoli Tir yn Gynaliadwy - sy'n ategu gofynion deddfwriaeth ddomestig, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[5] a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[6] gan ymateb i'r angen dybryd i ni fynd i'r afael â'r argyfyngau Hinsawdd a Natur a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

3.26 Er eu lles eu hunain a lles cymdeithas, bydd angen i ffermwyr Cymru barhau i gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel a chynnal safonau cynhyrchu uchel yr un pryd. Fodd bynnag, mae mwy a mwy o dystiolaeth bod ffermio dwys yn cael effeithiau andwyol ar gymdeithas a'r amgylchedd drwy ddirywio ansawdd aer a dŵr, cynhyrchu allyriadau carbon, crebachu bioamrywiaeth ar dir fferm a dirywio ecosystemau.

3.27 Mae Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn darparu cyfryngau cymorth a rheoleiddio fydd yn galluogi ac yn annog ffermwyr Cymru i gynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn ffordd gynaliadwy. Hynny ar ffermydd fydd ag ôl troed carbon isel iawn, ecosystemau mwy gwydn fydd yn gartref i fioamrywiaeth gyfoethocach, ac a fydd yn colli llai o faethynnau i aer a dŵr. Bydd gwobrwyo ffermwyr am gyflawni'r amcanion hyn yn helpu i greu sector amaeth cynaliadwy a gwydn yng Nghymru er lles cenedlaethau'r dyfodol.

## ***Deddf Amaethyddiaeth 2020***

3.28 Cafodd Deddf Amaethyddiaeth 2020 ei chyflwyno gerbron Senedd y DU ar 16 Ionawr 2020 a rhoddwyd y Cydsyniad Brenhinol iddi ar 11 Tachwedd 2020. Amcan ei pholisi yw rhoi'r sail gyfreithiol i'r Ysgrifennydd Gwladol allu newid i gynlluniau cymorth ariannol newydd yn Lloegr a'u cynnal, hynny ar sail yr egwyddor "arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus".

3.29 Mae Deddf Amaethyddiaeth 2020 yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i barhau i ddarparu cymorth ariannol i sector

[2] Brexit a'n tir: Sicrhau dyfodol ffermio yng Nghymru (llyw.cymru) (2018)
[3] Ffermio cynaliadwy a'n tir (llyw.cymru) (2019)
[4] Papur Gwyn Amaeth (Cymru) (llyw.cymru) (2020)
[5] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk)
[6] Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016

amaethyddol Cymru drwy fersiwn ddomestig o’r BPS a Chynlluniau Taliadau Datblygu Gwledig y PAC.

3.30 Roedd Llywodraeth Cymru yn glir o'r dechrau mai'r bwriad oedd rhoi’r pwerau perthnasol i Weinidogion Cymru am gyfnod pontio yn unig, tan y byddai deddfwriaeth sylfaenol ar ffurf Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn cael ei chyflwyno.

3.31 Er mwyn mynd i'r afael â phryderon Pwyllgorau'r Senedd, mae'r Ddeddf yn cynnwys dyddiad 'machlud' yn Adran 47 i sicrhau y daw’r darpariaethau yn Atodlen 5, ynghyd â nifer fach o ddarpariaethau cysylltiedig, i ben ddiwedd 2024 yn unol â'r ddarpariaeth honno. Bydd y Bil yn dirymu ac yn disodli'r darpariaethau hynny yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 sy'n machlud.

## RHAN 1 – RHEOLI TIR YN GYNALIADWY

### *Cyflwyniad:*

3.32 Mae gan ffermwyr le arbennig yng nghymdeithas Cymru, sy’n cydnabod eu rôl am gynhyrchu bwyd diogel o safon uchel. Yn aml, nid oes cydnabyddiaeth mor glir i rôl ein tir am gynhyrchu mwy na bwyd, a gallu ffermwyr i’n helpu i ddelio â rhai o'r heriau mwyaf dybryd y mae ein gwlad yn eu hwynebu. Mae cyfrannu at aer a dŵr glân, lleihau allyriadau carbon, dal a storio carbon, cynnal ecosystemau a bod yn rhan allweddol o’r gymuned wledig, bywoliaethau a diwylliant yn enghreifftiau o'r buddion ehangach y mae amaethyddiaeth a'i gweithgareddau ategol yn gallu eu darparu. Mae SLM yn dwyn ynghyd gyfraniad economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol eang a sylweddol amaethyddiaeth a'i gweithgareddau ategol yn un cysyniad.

3.33 Pwrpas polisi SLM yw cyfrannu at gyflawni amcanion penodol ("amcanion SLM"). Yr amcanion hyn yw:

a) Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy.
b) Lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.
c) Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maen nhw'n eu darparu.
d) Cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a’u hymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

3.34 Ym mhob achos, mae cyfrannu at gyflawni pob un o’r amcanion yn golygu (a) diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, a (b) cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (WFG) 2015 (adran 1).

3.35 Nod y Bil yw gwireddu’r amcanion hyn drwy roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer swyddogaethau penodol, megis, er enghraifft, y pŵer i ddarparu cymorth, yn y modd y maen nhw’n ystyried sy’n cyfrannu orau at gyflawni'r

amcanion, i’r graddau y bo hynny’n gyson ag arfer y swyddogaeth honno’n briodol.

3.36 Nodir swyddogaethau Gweinidogion Cymru y mae'r ddyletswydd SLM yn gymwys iddynt yn adran 2(2) a (3), yn amodol ar yr eithriadau yn adran 3

3.37 Diben mabwysiadu'r polisi hwn yw sicrhau bod modd sicrhau canlyniadau economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol arferion rheoli tir er budd pobl Cymru yn y tymor hir.

3.38 Mae darpariaethau monitro ac adrodd SLM (adrannau 4 i 7) yn sicrhau atebolrwydd wrth gyflawni SLM, y gellir craffu arno, bod y polisi’n cael ei ddatblygu’n barhaus a bod ei effeithiolrwydd yn cael ei asesu. Bydd dangosyddion a thargedau yn cael eu gosod i fesur cynnydd, ac fe’u disgrifir yn fanwl yn yr adran 'Adrodd a Monitro' isod.

3.39 Rhagwelir y bydd y pŵer i ddarparu cymorth, Rhan 2, Pennod 1 o’r Bil, yn un o’r prif ddulliau o gyflawni’r amcanion SLM. Mae’r berthynas rhwng Rhan 1 a Rhan 2 yn golygu bod yr amcanion SLM, ynghyd â’r ddyletswydd SLM, yn darparu’r fframwaith polisi a deddfwriaethol i ddarparu cymorth. Pan fydd Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau perthnasol, fel, er enghraifft, y pŵer i ddarparu cymorth yn Rhan 2 o’r Bil, rhaid iddynt weithredu mewn ffordd sydd, yn eu barn nhw, yn gwneud y cyfraniad gorau at yr amcanion SLM i’r graddau y bo hynny’n gyson ag arfer y swyddogaeth yn briodol. Yn y modd hwn, bydd unrhyw gymorth a ddarperir o dan y pŵer i ddarparu cymorth yn cael ei asesu yn erbyn amcanion SLM a’i ddarparu yn unol â’r ddyletswydd SLM.

## *Amcanion SLM:*

3.40 Cafodd amcanion SLM eu datblygu ar sail diffiniad y Cenhedloedd Unedig (CU) o SLM: "Defnyddio adnoddau tir, gan gynnwys priddoedd, dŵr, anifeiliaid a phlanhigion, ar gyfer cynhyrchu nwyddau i ddiwallu anghenion cyfnewidiol dyn, ond gan ddiogelu potensial tymor hir yr adnoddau hyn a chadw eu buddion amgylcheddol yr un pryd." [7]. Maent yn gyson hefyd â rhaglenni a mentrau rhyngwladol megis "Degawd y Cenhedloedd Unedig ar Adfer

[7] https://www.un.org/esa/sustdev/csd/csd16/documents/fao_factsheet/land.pdf (2016)

Ecosystemau 2021-2030", a ddatganwyd ar 1 Mawrth 2019 gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig.

3.41 Mae cwmpas a dyluniad yr amcanion yn ceisio sicrhau bod y sector amaeth yn cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn ffordd sy'n gynaliadwy i bobl Cymru, yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn cadw a gwella cefn gwlad a'r adnoddau diwylliannol ac yn hwyluso mynediad y cyhoedd iddyn nhw, ac yn cyfrannu at ffyniant y Gymraeg.

## *Yr amcan cyntaf – cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy*

3.42 Mae'r amcan hwn yn cydnabod mai prif swyddogaeth a rôl hanfodol amaethyddiaeth a'i gweithgareddau ategol yw cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill. Mae'n bwysig bod ffermwyr yn aros ar y tir ac yn cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn ffordd sy'n gynaliadwy o safbwynt yr amgylchedd, yr economi a chymdeithas.

3.43 Mae amcan cyntaf SLM yn cydnabod hefyd gyfraniad pwysig ffermwyr a'r sector amaethyddol at gadw a hyrwyddo diwylliant Cymru. Wrth fynnu cynhyrchu "bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy" mae'r amcan yn crisialu tair colofn cynaliadwyedd: yr economi, cymdeithas a’r amgylchedd. Mae cysylltiad yn aml rhwng y cymdeithasol a’r economaidd yn yr ystyr, drwy helpu ffermwyr Cymru i aros ar y tir a’i ffermio, caiff y dreftadaeth ddiwylliannol yn y traddodiadau a'r ffordd o weithio y mae’r ffermwyr hyn yn eu hymgnawdoli eu cadw hefyd. Er mwyn i ffermio fod yn wirioneddol gynaliadwy yng Nghymru dylid cefnogi’r cydlyniant a’r gwytnwch y mae ffermydd Cymru, o’u cadw, yn eu darparu i'w cymunedau. Mae geiriad amcan cyntaf SLM yn cyfleu hynny.

3.44 Mae Adran 1(6) yn darparu bod gwytnwch busnesau amaethyddol, gan gynnwys eu gwytnwch economaidd ymhlith agweddau eraill, o fewn y

cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt a'u cyfraniad at yr economi leol yn ffactorau perthnasol (ymhlith pethau eraill) wrth benderfynu a yw bwyd a nwyddau eraill yn cael eu cynhyrchu mewn ffordd gynaliadwy at ddiben yr amcan SLM cyntaf. Mae hyn yn cydnabod rôl allweddol busnesau amaethyddol yn lleol, o fewn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt a'r economi leol, ac yn tanlinellu bod eu gwytnwch, gan gynnwys eu gwytnwch economaidd ymhlith agweddau eraill, yn gwneud cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn fwy cynaliadwy. Mae busnesau amaethyddol gwydn yn cyfrannu at yr agweddau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ac yn cefnogi'r agweddau amgylcheddol a chymdeithasol, ac agweddau eraill, a amlinellir yn yr ail, y trydydd a'r pedwerydd amcan, gan hyrwyddo arferion amaethyddol cynaliadwy trwy sicrhau bod yr amodau'n ffafriol at gefnogi cymunedau ffyniannus, sef sylfaen ein bywyd gwledig, gan gynnal pobl i fyw mewn cymunedau a rheoli tir yn gynaliadwy.

3.45 Mae cynhyrchu bwyd yn elfen sylfaenol o SLM, fel rhan o gynhyrchu nwyddau i ddiwallu anghenion dyn. Mae gwneud hynny mewn ffordd gynaliadwy yn golygu bod ffermwyr yn sicrhau canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol cadarnhaol fel aer glanach a dŵr glanach wrth gynhyrchu bwyd. Mae sicrhau'r canlyniadau hyn yn cyfrannu at sector amaethyddol ac economïau lleol ffyniannus a gwydn. Mae'r amcan yn ategu hefyd amcanion polisi pwysig eraill nad ydynt yn rhan o'r amcanion eraill, megis cynhyrchu nwyddau mewn ffordd sy'n hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid.

3.46 Mae'r amcan hwn yn cefnogi ein huchelgais i ffermwyr Cymru fod yn arweinwyr byd ym maes ffermio cynaliadwy, gan ysgwyddo ein rhwymedigaethau rhyngwladol heb i wledydd sydd â safonau is gynhyrchu bwyd yn ein lle. Er mai newid hinsawdd, dirywiad pridd, ansawdd dŵr a cholli bioamrywiaeth[8] sy'n creu'r risg tymor hir i ganolig fwyaf i sicrwydd cyflenwadau bwyd, mae'r gwrthdaro yn Wcráin wedi'n tynnu'n sylw'n fawr at broblem diogelu cyflenwadau bwyd byd-eang. Mae'r amcan hwn yn cydnabod mor bwysig yw helpu ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy

[8] United Kingdom Food Security Report 2021: Theme 2: UK Food Supply Sources (2021)

mewn ymateb i'r holl heriau hyn. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer monitro’r cynnydd at gyflawni'r amcan hwn ac adrodd arno, gan gynnwys gosod dangosyddion a thargedau, a fydd yn darparu tystiolaeth bwysig ac yn ei gwneud yn haws craffu a sicrhau atebolrwydd.

### *Yr ail amcan – lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd*

3.47 Mae amaethyddiaeth yng Nghymru yn gyfrifol am ryw 14% o holl allyriadau nwyon tŷ gwydr y wlad. Mae'r ail amcan yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau i liniaru’r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, ac yn eu galluogi i wneud hynny. Yn ei dro, mae hyn yn helpu i gefnogi ffermwyr i leihau eu hallyriadau i helpu Cymru i gyrraedd sero net erbyn 2050[9].

3.48 Gwneir hyn drwy gyfuniad o leihau allyriadau amaethyddol a gwneud y gorau o botensial ein tir i ddal a storio carbon atmosfferig. Bydd y cymorth yn cynnwys hefyd addasu i effeithiau'r argyfwng hinsawdd drwy leihau ei effeithiau ar bobl, tir ac isadeiledd Cymru. Felly, mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar fesurau i leihau’r newid yn yr hinsawdd drwy ostwng nwyon tŷ gwydr a dal a storio carbon (lliniaru), ac addasu i effeithiau hinsawdd sy’n newid, er enghraifft, drwy weithredu i leihau'r perygl o lifogydd.

3.49 Mae mentrau iechyd pridd yn enghraifft o'r math o weithredu y mae'r ail amcan wedi'i gynllunio i'w annog. Trwy wella iechyd pridd, gellir cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy gan ddiogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i wneud yr un peth; lleihau allyriadau carbon drwy leihau'r gofyn am wrteithiau artiffisial; yn ogystal â gwella gallu pridd i ddal a storio carbon. Bydd chwilio am gyfleoedd i wneud y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth yn fwy effeithlon hefyd yn gostwng allyriadau carbon, er enghraifft, drwy ddefnyddio adnoddau’n fwy effeithlon a gostwng allyriadau trafnidiaeth.

3.50 Yn ogystal â lleihau allyriadau, mae gan dir amaethyddol yng Nghymru hefyd botensial i weithredu fel sinc carbon. Er enghraifft, gall cynyddu’r

[9] Cyllideb Garbon 2 Cymru Sero net (llyw.cymru)

gorchudd coed ac adfer a gofalu am nodweddion naturiol fel morfeydd heli a mawnogydd helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei nodau sero net.

3.51 Mae'n hanfodol bwysig bod Cymru'n dysgu i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd wrth weithio i'w lliniaru. Mae gan y sector amaethyddol ran i helpu i addasu i rai o'r newidiadau hynny mewn ffordd sy'n rhatach ac sy'n osgoi aflonyddwch. Er enghraifft, rhagwelir y bydd y cynnydd yn nhymheredd y byd yn golygu llifogydd mwy mynych ond gellid rheoli'r difrod trwy ymyriadau yn nalgylchoedd afonydd megis rheoli cyrsiau dŵr neu storio dŵr llifogydd. Gellir lleihau'r niwed a achosir gan dymheredd uwch a mwy o oriau o heulwen trwy gynyddu'r gorchudd coed. Byddai hyn a chamau addasu eraill ynghyd â chefnogi dulliau ffermio blaengar yn cyfrannu hefyd at yr amcan cyntaf - cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn gynaliadwy yn ogystal â gwytnwch ecosystemau ac enillion o ran y fioamrywiaeth.

## *Y trydydd amcan – cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau*

3.52 Mae'r trydydd amcan yn canolbwyntio ar wytnwch ecosystemau gan gynnwys eu cyflwr a'u maint a'r cysylltedd rhwng un a'r llall. Ecosystemau gwydn ac amrywiol yw conglfaen sector amaethyddol cynhyrchiol a chynaliadwy yn ogystal â helpu i sicrhau buddion cymdeithasol ac economaidd ehangach. Yn 2021, datganodd Cymru ei bod yn argyfwng natur gydag 1 o bob 6 rhywogaeth[10] yn y wlad mewn perygl o ddiflannu.

3.53 Ym mis Rhagfyr 2022 ailadroddodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng natur mewn ymateb i Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal COP15 (KM-GBF) gan nodi ei bwriad i ddod yn "arweinydd byd-eang" trwy weithredu a "dysgu gan bobl ledled y byd am goedwigaeth ac adfer natur". Bwriad y ddarpariaeth i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau yw sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r "argyfwng natur" a chyfrannu at ymateb ehangach Cymru i'r KM-GBF.

[10] Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2019)

3.54 Bydd cymryd camau i gyfrannu at wytnwch ecosystemau yn unol â'r ddyletswydd SLM, er enghraifft trwy gynlluniau cymorth y gellir eu sefydlu o dan y Ddeddf hon, yn cyfrannu at nifer o nodau a thargedau'r KM-GBF.

3.55 Mae targedau 7 a 10 y KM-GBF yn arbennig o berthnasol. Mae Targed 10 y KM-GBF yn gofyn am weithredu i:

"Ensure that areas under agriculture, aquaculture, fisheries and forestry are managed sustainably, in particular through the sustainable use of biodiversity, including through a substantial increase of the application of biodiversity friendly practices, such as sustainable intensification, agroecological and other innovative approaches contributing to the resilience and long-term efficiency and productivity of these production systems and to food security, conserving and restoring biodiversity and maintaining nature's contributions to people, including ecosystem functions and services."

3.56 Mae targed 7 y KM-GBF yn gofyn am leihau'r risgiau llygredd ac effaith negyddol llygredd o bob ffynhonnell erbyn 2030 i lefelau nad ydynt yn niweidiol i fioamrywiaeth a swyddogaethau a gwasanaethau ecosystemau. Mae hyn yn cynnwys lleihau maetholion ffo i o leiaf eu hanner, lleihau'r risg gyffredinol o blaladdwyr a chemegau niweidiol eraill i o leiaf eu hanner a gweithio tuag at ddileu llygredd plastig.

3.57 Bwriad y trydydd amcan i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion a ddarperir ganddynt yw sicrhau bod cymorth a chamau eraill a gymerir yn unol â'r ddyletswydd SLM, yn cynnwys, er enghraifft, diogelu'r amgylchedd yn well, gwrthdroi colledion bioamrywiaeth a diogelu cynefinoedd naturiol. Mae'r ffactorau sy'n berthnasol i wytnwch ecosystemau yn cynnwys graddfa, cyflwr, cysylltedd, amrywiaeth a'r gallu i addasu i ffactorau megis newid yn yr hinsawdd, llygredd amgylcheddol a rhywogaethau ymledol. Mae'r manteision a ddarperir gan ecosystemau gwydn yn cynnwys aer glân, dŵr glân a storio carbon yn well.

3.58 Mae ecosystemau gwahanol, bob un â'i hamrywiaeth ei hun o fflora a ffawna, yn gallu gwrthsefyll newidiadau i batrymau hinsawdd a thywydd yn well. Maent hefyd yn gallu gwrthsefyll siociau fel clefydau neu rywogaethau ymledol ac yn helpu cnydau trwy gynyddu nifer y pryfed peillio sy'n cyfrannu at amcan cyntaf SLM, cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn gynaliadwy.

3.59 Mae'r trydydd amcan yn ategu'r amcanion SLM eraill drwy geisio cynnal a chyfoethogi amgylchedd naturiol bioamrywiol sydd ag ecosystemau actif iach sy'n cynnal cynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid. Mae hyn yn cydnabod bod ecosystemau sy'n gweithredu'n iach yn sylfaen i gynaliadwyedd economaidd a chymdeithasol/diwylliannol. Yn unol ag Adroddiad Diogelwch Bwyd cyntaf y DU (2021), mae'n cydnabod ymhellach bod y "risg fwyaf tymor canol i dymor hir i gynhyrchiant domestig y DU yn dod o'r newid yn yr hinsawdd a phwysau amgylcheddol eraill fel diraddio pridd, ansawdd dŵr a bioamrywiaeth.[11]"

### *Y pedwerydd amcan – cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd*

3.60 Mae'r pedwerydd amcan yn ymwneud â'r gwahanol ffyrdd y mae amaethyddiaeth a'n tir yn rhan allweddol o hunaniaeth Cymru gan gynnwys ymhlith eraill, cymunedau cefn gwlad Cymru. Mae'n cydnabod y manteision a ddaw i Gymru o helpu ffermwyr, nid yn unig am eu rôl allweddol fel cynhyrchwyr bwyd a chanlyniadau amgylcheddol ond hefyd fel stiwardiaid ein tir, hanes, iaith a diwylliant.

3.61 Mae amaethyddiaeth a'i gweithgareddau ategol yn sicrhau buddion sy'n allweddol i fywyd cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Daw'r buddion hyn o'r gwasanaethau ehangach y mae ffermio'n eu darparu i gymunedau lleol ac i Gymru gyfan. Mae'r pedwerydd amcan yn cydnabod y lle canolog sydd gan gefn gwlad, gan gynnwys ein tir amaethyddol, yn ein cymunedau yn enwedig yn ardaloedd mwy gwledig Cymru.

3.62 Mae cael mynd i gefn gwlad a manteisio ar y buddion corfforol a meddyliol niferus y mae'n eu darparu yn rhan allweddol o strategaeth llesiant Llywodraeth Cymru. Mae'r pedwerydd amcan yn cydnabod y rôl allweddol y mae'r sector amaethyddol yn ei chwarae wrth hwyluso ac annog mynediad, ac

[11] DEFRA. 2021. 'UK Food Security Report 2021'. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1077015/United_Kingdom_Food_Security_Report_2021_19may2022.pdf page 82. Cyrchwyd ar 31/05/23

wrth gadw a gwella cefn gwlad, gan gynnwys harddwch yr amgylchedd naturiol ac adnoddau diwylliannol Cymru.

3.63 Mae Cymru yn arbennig o gyfoethog yn ei hasedau hanesyddol, ac maen nhw’n rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwylliannol. Mae'r pedwerydd amcan yn ymdrin hefyd â gwarchod a gwella adnoddau diwylliannol, gan gynnwys y dreftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol, a hyrwyddo mynediad iddynt. Gall treftadaeth helpu i feithrin ymdeimlad o le ac o berthyn. Mae cael a chynnal hunaniaeth gytun a gwybod ei bod yn bodoli yn bwysig ynddo'i hun, yn yr un modd ag y mae gwybod y bydd yno ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n meithrin gwerthoedd diwylliannol a chymunedol sy'n gyson ag amcanion cymdeithasol SLM.

3.64 Mae cymunedau amaethyddol yn gallu bod hefyd yn gadarnleoedd i’r iaith a’r diwylliant Cymraeg ac mae'n bwysig eu bod yn cael eu cynnal a'u rhannu. Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod pwysigrwydd ein cymunedau gwledig o ran sicrhau ffyniant y Gymraeg. Mae'r pedwerydd amcan felly yn darparu ar gyfer cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd a thrwy wneud hynny mae hefyd yn cefnogi’r nod llesiant o "Gymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus"[12].

## *Y Ddyletswydd SLM:*

3.65 Mae'r ddyletswydd yn rhoi lle sylfaenol i amcanion SLM ym mholisi amaeth Cymru y dyfodol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer swyddogaethau penodol mewn modd sydd yn eu barn nhw yn “cyfrannu orau” at gyflawni'r amcanion, i’r graddau y bo hynny’n gyson ag arfer y swyddogaeth honno’n briodol (adran 2).

3.66 Pennir swyddogaethau Gweinidogion Cymru y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt yn adran 2(2) a (3), yn amodol i'r eithriadau yn adran 3 (a ddisgrifir isod).

3.67 Mae adran 2(2) yn darparu bod y swyddogaethau sydd o fewn cwmpas yn swyddogaethau o dan y Ddeddf; mae swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad arall sy'n ei gwneud yn ofynnol neu sy’n caniatáu i Weinidogion

[12] Llesiant Cymru: 2021

Cymru ddarparu cymorth ar gyfer (i) amaethyddiaeth neu weithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir at ddiben amaethyddiaeth, neu (ii) weithgareddau ategol; a swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad arall sy'n ei gwneud yn ofynnol, neu sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru reoleiddio (i) amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir at ddiben amaethyddiaeth, neu (ii) weithgareddau ategol.

3.68 Mae adran 2(3) yn darparu eglurder bod y ddyletswydd SLM yn gymwys i'r swyddogaethau y cyfeirir atynt yn is-adrannau (2)(b) a (2)(c) dim ond i'r graddau yr arferir y swyddogaethau hynny i ddarparu cymorth ar gyfer, neu i reoleiddio, (a) amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir at ddiben amaethyddiaeth, neu (b) weithgareddau ategol (ac nid, felly, i'r graddau bod y swyddogaethau hynny'n cael eu harfer at ryw ddiben arall).

3.69 Mae'r cwmpas eang hwn dros swyddogaethau amaethyddol Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn bosibl ymdrin â'r sector mewn ffordd gydlynus. Bydd hynny'n fwy effeithiol o ran gwireddu amcanion SLM. Er enghraifft, gallai mentrau economi gylchol, sy'n gweithio i ostwng allyriadau a gwastraff tra'n cynyddu cynhyrchiant, fod ar eu mwyaf effeithiol os darperir cymorth heibio gât y fferm yn ogystal ag i'r gweithgareddau amaethyddol eu hunain.

3.70 Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried pob un o'r pedwar amcan SLM pan fydd Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaeth berthnasol y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddi, ac er mwyn arfer y swyddogaeth yn y ffordd y tybiant sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion (o'u cymryd gyda'i gilydd), i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaeth honno'n briodol. Bwriedir i'r amcanion ategu'i gilydd ac ambell waith, bydd hynny'n golygu cymryd camau sy'n cyfrannu at yr holl amcanion, ond nid o reidrwydd yr un faint at bob un. Dro arall, efallai na fydd hyn yn bosibl, er enghraifft, lle nad yw arfer swyddogaeth benodol yn cael unrhyw effaith ar un neu fwy o'r amcanion.

3.71 Bwriad y ddyletswydd yw rhoi cyfeiriad polisi clir a chryf, a'r hyblygrwydd sydd ei angen i wneud hynny'n effeithiol. Bydd yn ofynnol bob amser i Weinidogion Cymru arfer swyddogaethau perthnasol yn y ffordd sydd yn eu barn nhw yn cyfrannu orau at amcanion SLM (i'r graddau y bo hynny'n gyson

ag arfer y swyddogaeth honno'n briodol). Mae hyn yn golygu pan fydd mwy nag un opsiwn, y bydd gofyn i Weinidogion Cymru ddewis yr opsiwn a ddaw a'r budd mwyaf yn eu barn nhw o ran Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

## *Eithriadau i'r Ddyletswydd*

3.72 Mae swyddogaethau sy'n ymwneud â'r BPS, gan gynnwys swyddogaethau sy'n llywodraethu cyllido, rheoli a monitro'r PAC i'r graddau y bo'r swyddogaeth yn cael ei harfer mewn ffordd sy'n effeithio ar y BPS, wedi'u heithrio o'r ddyletswydd SLM (adran 3). Hynny am fod y BPS yn gynllun cymorth incwm i bawb nad yw'n bwriadu sicrhau'r canlyniadau polisi y mae amcanion SLM yn ceisio eu cyflawni. Mae angen y swyddogaethau sy'n ymwneud â'r BPS er mwyn cefnogi taliadau i ffermwr yn ystod cyfnod pontio os bydd ffermwr yn dewis peidio ag ymuno â'r SFS.

## *Monitro SLM ac adrodd arno*

3.73 Nod SLM yw trawsnewid polisi amaeth gyda'r bwriad o greu fframwaith polisi fydd yn sicrhau dyfodol cynaliadwy i ffermio er lles cenedlaethau heddiw ac yfory. O gofio hynny, mae darpariaeth ar gyfer monitro ac adrodd effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol dros weithredu SLM. Rhaid hefyd wrth ymgysylltu priodol â'r Senedd, grwpiau buddiant ac eraill a lefel priodol o graffu ganddynt. Mae monitro ac adrodd effeithiol yn hanfodol hefyd er mwyn asesu effeithiolrwydd y polisi ac i ddarparu sylfaen bwysig sy'n tyfu o dystiolaeth ar gyfer datblygu polisi, drwy wella gwybodaeth, arloesi a nodi tueddiadau.

3.74 Mae'n bwysig bod darpariaeth fanwl a phenodol yn cael ei gwneud ar gyfer monitro ac adrodd, gan gynnwys dangosyddion a thargedau penodol, er mwyn gallu asesu cynnydd yn glir, er mwyn hybu'r cyflawni.

3.75 Ar y cyd â monitro cynnydd ac adrodd arno, ar sail amcanion SLM, ceir darpariaeth ar gyfer gwerthuso'r modd y caiff meysydd polisi allweddol eu rhoi ar waith, gan gynnwys y modd y darperir cymorth ariannol.

## ***Dangosyddion a thargedau Rheoli Tir yn Gynaliadwy:***

3.76 Bydd gofyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad o ddangosyddion a thargedau i fesur y cynnydd tuag at gyflawni amcanion SLM drwy arfer y swyddogaethau y mae'r ddyletswydd SLM yn gymwys iddynt.

3.77 Caiff dangosyddion eu pennu fel agweddau mesuradwy o fewn amcan SLM sy'n darparu metrigau ar gyfer asesu cyfraniad gweithred at gyflawni amcanion SLM.

3.78 Er enghraifft, gall sawl dangosydd fesur y trydydd amcan "cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu". Gallai un ohonynt ymdrin â gostwng lefelau llygryddion mewn afonydd islaw mannau lle cynhelir gweithgareddau amaethyddol ac ategol. Byddai targed penodol yn cael ei osod ar sail y dangosydd hwnnw ac adroddir ar y dangosydd a'r targed yn adroddiad yr SLM. Enghraifft arall fyddai pennu dangosyddion a thargedau ar gyfer cynyddu bioamrywiaeth er mwyn cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau. Bydd hyn yn rhoi darlun manwl i Weinidogion Cymru o effeithiolrwydd y camau a gymerir ac os oes angen, gellid addasu'r camau hynny i sicrhau’r cyfraniad gorau at yr amcanion.

3.79 Er mwyn sicrhau y mesurir cynnydd yn gywir ac effeithiol, rhaid bod gan bob amcan SLM o leiaf un dangosydd gwahanol. Gellir gosod dangosyddion pellach, ar gyfer un neu fwy o'r amcanion. Mae'n debygol y bydd y camau a gymerir mewn perthynas ag amcanion SLM yn ategu’i gilydd ac felly gallai fod yn briodol i’r dangosyddion pellach hyn fod yn berthnasol i fwy nag un amcan.

3.80 Yn yr un modd, rhaid bod gan o leiaf un dangosydd ar gyfer pob amcan o leiaf un targed penodol wedi’i bennu ar ei gyfer, er mwyn gallu asesu'r cynnydd yn glir. Gellir gosod targedau pellach sy'n cwmpasu un neu fwy o'r dangosyddion.

3.81 Gall dangosyddion a thargedau gwmpasu Cymru gyfan neu ran ohoni, a gall targedau gwmpasu unrhyw gyfnod o amser sydd ym marn y Gweinidogion yn briodol. Mae hyn yn sicrhau digon o gyfleoedd i fesur canlyniadau’r camau gweithredu yn erbyn y dangosyddion a’r targedau. Er enghraifft, gall newidiadau yn y lefelau carbon mewn pridd gymryd blynyddoedd lawer i fod

yn fesuradwy ac felly, pe bai dal a storio carbon pridd yn cael ei ddefnyddio fel dangosydd, yna byddai angen ystyried ystod o ffactorau perthnasol wrth osod y ffrâm amser priodol, gan gynnwys realiti technegol profi.

3.82 Rhaid cyhoeddi a gosod y datganiad o ddangosyddion a thargedau SLM gerbron y Senedd cyn 31 Rhagfyr 2025.

3.83 Er mwyn sicrhau bod y dangosyddion a thargedau SLM yn effeithiol ac yn gallu ymateb i heriau a blaenoriaethau'r dyfodol, ac er mwyn ystyried y cynnydd o ran yr amcanion SLM, gall Gweinidogion Cymru adolygu'r dangosyddion a'r targedau drwy ddiwygio'r datganiad, ei gyhoeddi a'i osod gerbron Senedd Cymru.

### *Camau i'w cymryd wrth baratoi neu adolygu dangosyddion a thargedau*

3.84 Er mwyn sicrhau bod y dangosyddion a'r targedau yn effeithiol ac yn briodol, bydd gofyn i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac unrhyw bersonau eraill all fod yn eu barn nhw yn briodol, wrth baratoi neu ddiwygio'r datganiad o ddangosyddion a thargedau.

3.85 Bydd gofyn iddynt hefyd roi sylw i ddangosyddion cenedlaethol perthnasol a gyhoeddwyd dan adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr adroddiad ar sefyllfa adnoddau naturiol a'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol (yn y ddau achos, i'r graddau y maent yn ymwneud ag amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu weithgareddau ategol), yr Adroddiad Effaith (os yn berthnasol) a gyhoeddir o dan adran 14 o'r Bil.

3.86 Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ystyried unrhyw faterion eraill sydd yn eu barn nhw yn briodol. Disgwylir y bydd hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, ystadegau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ar gynhyrchu amaethyddol neu incwm busnesau amaethyddol, sy'n deillio o arolygon o'r sector. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, yr Arolwg Busnes Fferm a'r adroddiad Ffeithiau a Ffigurau Ffermio, sy'n darparu ffynonellau gwerthfawr o wybodaeth a data y gellir eu defnyddio i ddatblygu targed a dangosydd ar gyfer lefelau cynhyrchu amaethyddol cynaliadwy.

3.87 Gellir ystyried hefyd unrhyw strategaethau adfer natur a bioamrywiaeth a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru sydd ym marn Gweinidogion Cymru yn briodol.

3.88 Bydd hyn yn sicrhau, wrth fonitro ac adrodd ar SLM, y rhoddir sylw i'r amcanion, polisïau ac adroddiadau cynaliadwyedd ehangach, os ydynt yn berthnasol.

## *Adroddiadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy*

3.89 Adroddiad SLM yw'r mecanwaith ar gyfer asesu ac adrodd ar effeithiolrwydd y camau a gymerir gan Weinidogion Cymru yn unol â'r ddyletswydd i gyflawni amcanion SLM.

3.90 Bydd cyfnod adrodd SLM yn rhedeg mewn cyfnodau o bum mlynedd ac eithrio'r adroddiad cyntaf, a fydd yn rhedeg o'r cyfnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y daw adran 2 i rym gan ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2025. Mae hyn yn sicrhau amserlen adrodd amserol ond a fydd yn rhoi cyfle priodol i fesur cynnydd yn unol â'r dangosyddion a'r targedau. Diben y cyfnod adrodd cyntaf byrrach yw sicrhau bod adroddiadau SLM yn cydredeg ag adroddiadau Effaith y pŵer cymorth ac adroddiadau amgylcheddol ehangach yng Nghymru.

3.91 Mae gofyn i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiadau ddim mwy na deuddeg mis ar ôl diwedd cyfnod adrodd. Bydd yr adroddiad yn nodi eu hasesiad o:

a) y cynnydd cronnus a wnaed, ers i'r ddyletswydd SLM ddod i rym, tuag at gyflawni'r amcanion SLM drwy arfer y swyddogaethau y mae'r ddyletswydd SLM yn gymwys iddynt, a
b) y cynnydd a wnaed, yn ystod y cyfnod adrodd, tuag at gyflawni'r amcanion drwy arfer y swyddogaethau hynny.

3.92 Fel y nodwyd uchod, rhaid i'r adroddiad asesu cynnydd ar sail y dangosyddion a'r targedau sydd wedi'u pennu. Rhaid i'r adroddiad nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob dangosydd yn y datganiad a sut mae hynny wedi cyfrannu at yr amcanion. Ar ben hynny, rhaid i'r adroddiad nodi a yw pob targed wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd. Os oes targed

wedi’i fethu, rhaid esbonio pam a nodi’r camau y mae Gweinidogion Cymru wedi’u cymryd neu’n bwriadu eu cymryd i gyrraedd y targed neu i osod targed newydd priodol.

3.93 Gall yr adroddiad hefyd ymdrin â materion eraill, megis y blaenoriaethau allweddol, y risgiau a'r cyfleoedd sydd ynghlwm â chyflawni'r amcanion SLM, ac effaith y cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion hynny ar nodau ac amcanion ehangach. Bydd hyn yn fodd i’r adroddiad integreiddio effaith ceisio cyflawni'r amcanion SLM ar nodau ehangach Llywodraeth Cymru er enghraifft sut mae gwaith i leihau allyriadau amaethyddiaeth yn cyfrannu at darged sero net 2050 Cymru.

3.94 Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu asesu'r cynnydd a wnaed yn ystod cyfnod adrodd ynghyd â'r cynnydd cronnus ers i'r ddyletswydd SLM ddod i rym.

## *Camau i’w cymryd wrth baratoi adroddiadau*

3.95 Wrth baratoi’r adroddiadau SLM, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried yr adroddiad ar sefyllfa adnoddau naturiol a'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol (yn y ddau achos, i’r graddau y maent yn ymwneud ag amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth neu weithgareddau ategol) a'r adroddiad Effaith (os yn berthnasol) a gyhoeddir o dan adran 14 o'r Bil.

3.96 Hefyd, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw faterion eraill sy’n briodol yn eu barn nhw. Disgwylir y bydd hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, ystadegau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru am gynhyrchiant amaethyddol neu incwm busnesau amaethyddol, sy’n deillio o arolygon o’r sector.

3.97 Gellir ystyried hefyd unrhyw strategaethau adfer natur a bioamrywiaeth a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru sydd ym marn Gweinidogion Cymru yn briodol.

3.98 Disgwylir, wrth baratoi adroddiadau SLM, yr ystyrir, ymhlith eraill, unrhyw adroddiadau hanesyddol a dros dro ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol sy’n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

3.99 Bydd hyn yn sicrhau bod adroddiadau SLM yn cael eu llunio yng nghyd-destun camau adrodd a gweithredoedd cynaliadwyedd ehangach yng

Nghymru a bod data priodol yn cael eu hystyried wrth adrodd ar gynnydd tuag at yr amcanion SLM. Bydd hefyd yn annog bod yr adroddiad ar weithredu amgylcheddol a chamau eraill ledled Cymru yn cael ei wneud a'i gymhwyso mewn ffordd gydlynol gan ddarparu sail gadarn ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol sy'n gwireddu amcanion SLM a nodau cynaliadwyedd ehangach mewn ffordd holistig.

# RHAN 2 – CYMORTH AR GYFER AMAETHYDDIAETH AC ATI

## *Pennod 1 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth*

### *Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth*

### *Cyflwyniad:*

3.100 Mae penderfyniad y Deyrnas Unedig i ymadael â'r UE wedi arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol, yn enwedig i'r sector amaethyddol. Mae ffermwyr Cymru, fel ffermwyr eraill yr UE, wedi cael elwa ar ddegawdau o arian y Polisi Amaethyddol Cyffredin a marchnad sengl a oedd wedi'i diogelu gan ffin tariff allanol.

3.101 Yn nau ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, Brexit a'n Tir[13] a Ffermio Cynaliadwy a'n Tir[14], nododd Gweinidogion Cymru mai eu huchelgais oedd cyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) gerbron y Senedd.

3.102 Yn sgil hynny, cynhaliodd Gweinidogion Cymru ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Amaeth (Cymru)[15] lle amlinellwyd eu bwriad i weithredu egwyddorion Rheoli Tir Cynaliadwy a chan ddefnyddio'r fframwaith hwnnw, esboniwyd sut y byddent yn darparu cymorth am reoli tir yn gynaliadwy i'r sector amaeth ledled Cymru.

[13] Brexit a'n tir: Sicrhau dyfodol ffermio yng Nghymru (llyw.cymru) (2018)
[14] Ffermio cynaliadwy a'n tir (llyw.cymru) (2019)
[15] Papur Gwyn Amaeth (Cymru) (llyw.cymru)

3.103 Mae Gweinidogion Cymru yn ceisio sicrhau bod dyfodol amaethyddiaeth a ffermio ledled Cymru yn gynaliadwy drwy roi cymorth i ffermwyr nawr a sicrhau gallu cenedlaethau'r dyfodol barhau i ffermio ar dir amaethyddol.

3.104 Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag, amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy'n cael eu cynnal yng Nghymru.

3.105 Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth, sy'n cynnwys y gallu i sefydlu, gweinyddu a chau cynllun neu gynlluniau sy'n galluogi ac yn cefnogi cyflawni'r amcanion SLM. Disgwylir mai'r SFS a gynigir fydd y prif fecanwaith ar gyfer darparu cymorth i ffermwyr yng Nghymru. Fel y nodir yn y fframwaith SLM, o dan Ran 1 o'r Bil, rhaid arfer y pŵer i ddarparu cymorth (o dan Ran 2) yn y modd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion SLM, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaeth honno'n briodol.

3.106 Er mwyn sicrhau tryloywder, atebolrwydd ac effeithiolrwydd priodol a pharhaus ar gyfer y cymorth a ddarperir o dan y pŵer i ddarparu cymorth, mae yna ddwy ddarpariaeth fonitro ac adrodd orfodol (adrannau 12 a 13), sy'n darparu ar gyfer Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Effaith. Maen nhw'n cael eu disgrifio yn fanwl yn yr adran 'Gofynion Adrodd' isod.

## *Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael*

3.107 Mae'r pŵer i ddarparu cymorth yn rhoi mecanwaith i Weinidogion Cymru helpu ffermwyr i gynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn ffordd gynaliadwy sy'n cefnogi ymrwymiadau Llywodraeth Cymru o ran yr amgylchedd a'r hinsawdd, gan gefnogi hefyd ein cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith ac yn cefnogi pob dinesydd yng Nghymru i fynd i amgylcheddau cefn gwlad a hanesyddol.

3.108 Gellir darparu cymorth ariannol neu fathau eraill o gymorth. Mae adran 9 yn darparu y gellir rhoi cymorth ariannol drwy wahanol ddulliau megis grant, benthyciad, neu warant neu unrhyw ffurf arall. Mae'n bosib hefyd y bydd

cymorth nad yw’n ariannol ar gael, gan gynnwys ar ffurf gwasanaethau cynghori.

3.109 Un o nodau’r pŵer i ddarparu cymorth yw paratoi a chynnal sector amaethyddol ffyniannus sy'n darparu nwyddau nid yn unig i’r farchnad gartref ond dramor hefyd, ac un sy'n helpu ffermwyr i gael pris premiwm am werthu eu nwyddau, yn ogystal â chynorthwyo ffermwyr i ymateb i’r argyfyngau natur a hinsawdd.

3.110 Mae'r pŵer i ddarparu cymorth yn darparu rhestr anghyflawn o'r math o ddibenion y gellir darparu cymorth ar eu cyfer yn benodol. Gall dibenion yn y rhestr gael eu diwygio, eu dileu a’u hategu trwy ddefnyddio rheoliadau. Gall diwygiad o’r fath gael ei ystyried yn briodol, er enghraifft, os bydd arferion rheoli tir yn y dyfodol, blaenoriaethau'r llywodraeth, neu anghenion amgylcheddol yn gofyn am hynny. Gellir rhoi cymorth at ddibenion ar wahân i'r rhai a restrir cyhyd â’u bod ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag, amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy’n cael eu cynnal yng Nghymru.

3.111 Dyma'r rhestr o’r dibenion a disgrifiad o bob un:

a) ***Annog cynhyrchu bwyd mewn modd sy’n amgylcheddol gynaliadwy*** – Darparu ar gyfer cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, mewn ffordd a fydd yn cefnogi arferion / dulliau amaethyddol sy'n gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol ac sy'n defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd ac ar gyfradd sy'n cynnal ac yn gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu.

b) ***Helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a’u cymunedau*** – Cyfrannu at gymunedau gwledig ffyniannus ac amrywiol trwy gryfhau’r cysylltiadau rhwng busnesau’r sector a’u cymunedau lleol; cefnogi gwytnwch economaidd busnesau amaethyddol trwy arallgyfeirio ar ffermydd a chryfhau busnesau fferm er mwyn cefnogi a chyfrannu at gymunedau gwledig (lleol) ffyniannus.

c) ***Gwella gwytnwch busnesau amaethyddol*** – Camau gweithredu sy’n helpu i gadw ffermwyr ar y tir, trwy gefnogi gwytnwch a ffyniant busnesau amaethyddol yn y dyfodol gan gynnwys newydd-ddyfodiaid a chynllunio ar gyfer olyniaeth sy’n cyfrannu at sicrhau cynaliadwyedd sector amaethyddol Cymru a chynhyrchu bwyd a nwyddau eraill.

d) ***Cynnal yr iaith Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd*** – Cynnal a hyrwyddo defnydd o’r iaith Gymraeg ledled y sector, trwy gamau gweithredu sy’n hwyluso ei defnydd ar draws pobl lefel o gymhwysedd; annog dysgwyr newydd i ymgysylltu â’r iaith Gymraeg ledled y sector amaethyddol.

e) ***Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr*** – Bydd ffermydd yn lleihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys drwy wneud defnydd effeithlon o danwydd ac ynni, lleihau mewnbynnau allanol a chadw da byw a chnydau cynhyrchiol.

f) ***Dal a storio carbon i’r eithaf*** – Gwella’r stociau carbon presennol ar y fferm a’u gwella, er enghraifft drwy gynyddu cyfran y carbon yn y pridd, adfer mawnogydd, plannu coed a/neu berthi/gwrychoedd a rheoli coetiroedd fferm.

g) ***Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau*** - Osgoi effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, rhywogaethau a chynefinoedd a sicrhau manteision iddynt.

h) ***Cadw a gwella tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol*** - Gwarchod a gwella harddwch naturiol, y dreftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol.

i) ***Gwella ansawdd aer*** - Aer sydd ag ond ychydig o lygredd (gronynnau wedi'u gwneud gan bobl a nwyon niweidiol) gan gynnwys deunydd gronynnol mân (PM2.5), amonia (NH3) a chyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOC).

j) ***Gwella ansawdd dŵr*** - Mae'r amgylchedd dŵr (gan gynnwys dŵr mewndirol) yn cael ei reoli'n gynaliadwy i gynnal cymunedau iach, busnesau llewyrchus a bioamrywiaeth.

k) ***Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol a ymgysylltiad y cyhoedd â nhw*** - Mae pobl yn gallu mynd i gefn gwlad yn rhwydd a mwynhau’r buddion iechyd a lles.

l) ***Lliniaru risgiau o lifogydd a sychder*** - Mae ffermydd yn paratoi ar gyfer cyfnodau o law isel neu uchel, gan leihau'r risgiau i'r fferm a chymunedau o lifogydd, sychder ac erydiad arfordirol gan gynnwys trwy fesurau atal llifogydd sy’n seiliedig ar natur.

m) ***Cyflawni a hyrwyddo safonau iechyd a lles anifeiliaid uchel*** - Mae anifeiliaid yn iach, cynhyrchiol ac yn byw bywyd o ansawdd da.

n) ***Sicrhau'r effeithlonrwydd adnoddau gorau posibl*** – Gweithio mewn ffordd gylchol drwy ddefnyddio adnoddau a deunyddiau gyhyd â phosibl ac osgoi pob gwastraff.

o) **Annog busnesau amaethyddol i reoli ynni'n effeithiol (gan gynnwys trwy fabwysiadu arferion i arbed ynni a defnyddio ynni'n effeithiol, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar eu tir) -** Gall rheoli ynni'n effeithlon gynnwys y broses o gynllunio, gweithredu a monitro'r defnydd o adnoddau ynni er mwyn cynyddu cynhyrchiant, lleihau costau a lleihau effeithiau amgylcheddol. Gall rheoli arferion ynni effeithlon fel hyn helpu busnes amaethyddol i fod yn fwy cystadleuol a gwydn a mwy proffidiol a chynaliadwy a gallai gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar eu tir.

3.112 Lle rhestrir diben sydd ag "ac", er enghraifft, "cadw a gwella tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol", mae hyn yn golygu y gallai'r diben fod 'naill ai' i gadw neu i wella, neu i gadw a gwella.

3.113 Yn ystod diwygiadau cam 2, cyflwynodd Llywodraeth Cymru dri diben ychwanegol y gellir darparu cymorth ar eu cyfer.

3.114 Ar gyfer pob un o'r dibenion ychwanegol a restrir uchod yn 3.102(b), (c), a (d) mae amlinelliad mwy cynhwysfawr wedi'i ddarparu isod i ddisgrifio cwmpas y dibenion ychwanegol hyn. Maen nhw'n ategu prosesau presennol, ac yn hollbwysig, amcanion SLM.

3.115 **Diben (b):** *helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau.*

3.116 Mae'r diben hwn yn cynnwys cymorth y gellir ei ddarparu i alluogi ffermwyr i arallgyfeirio y tu allan i'w busnes craidd (e.e. cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill) a symud i feysydd fel gwerthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr a phrosesu nwyddau.

3.117 Gallai cymorth a ddarperir o dan y diben hwn geisio amrywio dulliau ffermio a chynyddu ymgysylltiad cymunedol mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo cynnydd mewn bioamrywiaeth neu wytnwch ecosystemau ar ffermydd. Er enghraifft, trwy brosiectau cydweithredol fel perllannau cymunedol neu drwy ddefnyddio arbenigedd lleol sy'n gallu darparu gwasanaethau ategol megis bondocio. Gallai hyn helpu i wneud busnesau fferm yn fwy gwydn yn ogystal â chadw'r manteision economaidd a chyflogaeth yn yr ardal leol. Hefyd, gellid

cefnogi arferion arloesol fel gwerthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr, er enghraifft trwy ddefnyddio bocsys llysiau a chig.

3.118 Gallai cymorth a ddarperir o dan y diben hyrwyddo arferion arloesol sydd â'r nod o ailfywiogi busnesau amaethyddol, yn ogystal â chreu cyfleoedd mewn cymunedau gwledig. Gallai effaith bosibl hyn ar hyrwyddo busnesau newydd a gwreiddiol greu rhagor o gyfleoedd a chyflogaeth i bawb mewn ardaloedd gwledig. Hefyd, gallai annog cenhedlaeth iau o berchnogion busnesau i 'aros yn lleol' sydd yn ei dro yn cefnogi'r gymuned leol ac yn helpu i gadw treftadaeth a diwylliant Cymreig eu cymunedau.

3.119 Mae busnesau sydd wedi arallgyfeirio yn fwy tebygol o allu gwrthsefyll heriau'r dyfodol hefyd.

3.120 Byddai lleihau pellter teithio nwyddau ar gyfer eu prosesu a'u gwerthu yn arwain at fanteision amgylcheddol trwy leihau'r daith bwyd ac allyriadau. Mae bwyd sydd wedi teithio llai yn tueddu i ddioddef llai o ddiraddio, e.e. mewn micro faetholion, a allai arwain at fwyd iachach ar gyfer defnyddwyr Cymru. Gallai'r dull gweithredu hwn hyrwyddo meddylfryd economi gylchol mewn economïau gwledig, gan leihau costau, gwastraff a'r angen i fewnforio nwyddau.

3.121 Hefyd, mae dulliau gweithredu sy'n hyrwyddo trefn o brosesu a gwerthu cynnyrch yn fwy lleol yn helpu i atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng tir amaethyddol a'i ddefnydd, lle mae'r daith bwyd o'r pridd i'r plât yn mynd yn fwy tryloyw i ddefnyddwyr, gan arwain o bosibl at gynyddu ymwybyddiaeth o amaethyddiaeth a diddordeb ynddi.

3.122 **Diben (c): gwella gwytnwch busnesau amaethyddol***.* Nod y diben ychwanegol hwn yw cefnogi ffyniant busnesau amaethyddol yn y dyfodol. Mae busnesau amaethyddol gwydn mewn sefyllfa well i weithredu ac ymateb i newidiadau yn yr amgylchedd neu'r farchnad lle maen nhw'n gweithredu. Mae busnesau amaethyddol gwydn yn fwy tebygol o ffynnu a goroesi digwyddiadau annisgwyl yn y sector; a chyfrannu at gymunedau gwledig ffyniannus gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd tir amaethyddol Cymru yn cael ei gynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

3.123 Hefyd, mae busnesau amaethyddol gwydn yn fwy tebygol o ddarparu cyflogaeth hirdymor ddibynadwy a chyfleoedd i ddarparu gwasanaethau

ategol, lle mae sgiliau a phrofiad yn cael eu gwerthfawrogi. Gall cyfleoedd eraill ddeillio o amrywio incwm y fferm trwy fentrau ychwanegol, sy'n gallu darparu mwy o sefydlogrwydd.

3.124 Hefyd, gallai cymorth yn y maes hwn gael ei gynllunio i gynorthwyo newydd-ddyfodiaid i'r sector yn ogystal â chynorthwyo ffermwyr i gynllunio ar gyfer olyniaeth, trwy gefnogi busnesau amaethyddol i wella eu gwytnwch.

3.125 Byddai camau gweithredu o dan y diben hwn yn ceisio darparu'r adnoddau angenrheidiol i ffermwyr er mwyn sicrhau bod eu busnesau yn fwy gwydn, gwybodus ac addasol.

3.126 **Diben (d):** *cynnal yr iaith Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.* Nod y diben ychwanegol hwn yw cydnabod bod busnesau amaethyddol yn ein cymunedau nid yn unig yn gynhyrchwyr ac yn stiwardiaid amgylcheddol allweddol, ond eu bod yn bwysig i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg hefyd. Mae'n bwysig cefnogi a chynnal y busnesau hyn ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Disgwylir y bydd hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ategu dibenion eraill, gan gynnwys y diben yn adran 8(2)(b).

3.127 Mae'r diben hwn yn ceisio atgyfnerthu a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn lleoliadau amaethyddol, gan weithio tuag at gynnal a chynyddu ei defnydd yn y gweithle, er mwyn cefnogi siaradwyr newydd a'r rhai sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg.

3.128 Yn ystod Cyfnod 3 cafodd gwelliant ei gynnwys yn adran 9(3) sy'n cyfyngu cymorth ariannol a ddarperir o dan adran 8 i berson sy'n rhedeg tir ei ddiben pennaf yw amaethyddiaeth. Mae'r gwelliant yn cyfyngu'r cymorth ariannol i berson sydd â meddiant ar y tir yr hawlir cymorth ariannol ar ei gyfer, sy'n ysgwyddo risg entrepreneuraidd y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â rheoli'r tir, ac sydd yn rheoli'r tir o ddydd i ddydd. Mae'r gwelliant hwn yn eithrio'r rhai sy'n cynnal gweithgareddau amaethyddol ac ategol ar dir comin, o bosibl newydd-ddyfodiaid, yn ogystal â'r rhai lle nad amaethyddiaeth yw'r defnydd tir pennaf. Mae'r gwelliant hwn yn cyfyngu ar gwmpas y cymorth ariannol y gall Gweinidogion Cymru ei ddarparu yn ogystal ag effeithio ar ddyletswyddau a phwerau cysylltiedig eraill.

### *Pŵer i wneud darpariaeth am gyhoeddi gwybodaeth am gymorth*

## *Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael:*

3.129 Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth trwy reoliadau i gyhoeddi gwybodaeth benodol am y cymorth sy'n cael, neu wedi cael, ei ddarparu o dan y pŵer i ddarparu cymorth. Caiff y rheoliad ragnodi'r wybodaeth sydd ei hangen, gan gynnwys gwybodaeth am y sawl sy'n cael cymorth, swm y cymorth a ddarperir, a dibenion y cymorth a ddarperir.

3.130 Ar hyn o bryd, o dan y cynlluniau cymorth amaeth presennol, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi teitl masnachu'r busnes (sy'n cynnwys enwau naturiol, yn ogystal ag enw'r busnes) a phedwar digid cyntaf y cod post (hynny i osgoi camddefnydd posib o'r wybodaeth). Dim ond os yw'r swm a roddir yn fwy na swm penodol (£1,250 ar hyn o bryd) y caiff yr wybodaeth hon ei chyhoeddi. Byddai Llywodraeth Cymru am barhau i gyhoeddi'r wybodaeth hon am y cymorth a ddarperir o dan y pŵer i ddarparu cymorth, er mai dim ond pan fo'r swm a roddir yn fwy na swm penodol y caiff ei chyhoeddi.

3.131 Ystyrir ei bod yn briodol nodi diben y cymorth a roddir, hynny er mwyn bod yn dryloyw a hefyd i ddangos beth sydd wedi'i gyflawni neu sy'n ofynnol o'r cymorth a roddwyd.

3.132 Nid nod y polisi hwn yw defnyddio rheoliadau o dan yr adran hon i'w gwneud yn ofynnol cyhoeddi data am y cyfansymiau a delir o dan y pŵer i ddarparu cymorth (boed hynny drwy gynllun neu fel arall). Hynny am y caiff yr wybodaeth honno ei darparu yn yr Adroddiad Blynyddol (gweler isod). Yn hytrach, bydd y data'n ymwneud yn unig â'r symiau o gymorth a roddir i unigolion.

### *Cynlluniau cymorth aml-flynyddol*

## *Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael:*

3.133 Mae adran (11) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi 'Cynllun Cymorth Aml-flwyddyn' (MASP) mewn perthynas â chymorth amaethyddol o dan y Bil. Mae'r MASP yn ceisio rhoi sicrwydd a thryloywder i'r sector amaethyddol bod gan Lywodraeth Cymru gynllun neu gyfres o weithgareddau cymorth i'r sector yn y dyfodol, y disgwylir iddynt gael eu darparu yn unol ag adran 8 (pŵer i ddarparu cefnogaeth).

3.134 Pwrpas y MASP yw darparu dogfen neu gynllun, sy’n nodi: -

a. sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu darparu cymorth yn ystod cyfnod y cynllun sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion rheoli tir cynaliadwy; a

b. manylion y cynlluniau cymorth sy'n weithredol neu y bwriedir iddynt ddod yn weithredol o fewn y cyfnod a bennir yn y cynllun.

3.135 Bydd y MASP yn darparu crynodeb o bob cynllun cymorth sy’n weithredol neu y disgwylir iddo ddod yn weithredol yn ystod cyfnod y cynllun, fel yr SFS. Bydd hefyd yn cynnwys manylion unrhyw gymorth arall y bwriedir ei gynnig, er enghraifft rhaglenni Gwybodaeth, Trosglwyddo ac Arloesi.

3.136 Y bwriad yw rhoi sicrwydd, tryloywder ac eglurder i'r sector amaethyddol am fwriadau Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ar draws y sector, gan alluogi'r sector a'i fusnesau i gynllunio ymlaen llaw mewn cylchoedd o bum mlynedd.

3.137 Bydd MASP newydd yn cael ei gyhoeddi bob pum mlynedd. Ar gyfer pob cylch pum mlynedd, rhaid gosod cynllun newydd gerbron y Senedd ddim mwy na 12 mis cyn dechrau cyfnod y cynllun newydd, sy'n dangos i'r sector fwriad Gweinidog Cymru i ddarparu cymorth yn ystod y pum mlynedd nesaf.

3.138 Os neu pan y gwneir unrhyw newidiadau, er enghraifft pan na fydd cynllun cymorth yn cael ei redeg mwyach, neu os yw'r amodau ar gyfer y cynllun wedi'u newid, mae angen adlewyrchu'r newidiadau hyn a diweddaru'r cynllun cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Hefyd, bydd angen cyhoeddi'r cynllun wedi'i ddiweddaru a'i osod gerbron y Senedd.

3.139 Ni fwriedir i'r MASP ddarparu rhagamcanion ariannol. Bydd yn gweithredu fel cyfrwng i roi sicrwydd a thryloywder i'r sector ynghylch cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i'r sector ac ar draws y sector o fewn cyfnod y cynllun.

## *Pŵer i wneud darpariaeth am wirio cymhwysedd ar gyfer cymorth, etc.*

## *Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael:*

3.140 Rhaid wrth system gynhwysfawr a chydlynol o fesurau i wirio, gorfodi a monitro'r cymorth a ddarperir o dan y pŵer i ddarparu cymorth.

3.141 Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl gymorth amaethyddol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yn cael ei weinyddu'n gywir. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n briodol, a thrwy hynny sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn cael ei ddiogelu a'i ddefnyddio'n briodol ac at y dibenion y'i bwriadwyd. Bydd y system o wiriadau yn sicrhau bod afreoleidd-dra'n cael ei weld ac yr eir i'r afael ag ef. Mae angen iddo weithredu hefyd fel anogaeth i gydymffurfio.

3.142 Caiff y ddarpariaeth sy'n rhoi'r pŵer i ddarparu cymorth ei defnyddio i ddarparu cymorth, gyda Gweinidogion Cymru yn pennu'r amodau ('rheolau'r cynllun'). Er enghraifft; bydd gan yr SFS a gynigir set o amodau a fydd yn disgrifio'r gofynion o ran bod yn gymwys i'r Cynllun; y goblygiadau a'r camau i'w cymryd pan gaiff tir ei brynu neu ei werthu yn ystod cyfnod y contract; newid trefniadau'r contract; pa weithgareddau amaethyddol y bydd y Cynllun yn darparu cymorth ar eu cyfer; a pha gamau y mae'n rhaid i ffermwr eu cymryd i gael taliad. Gellir darparu cymorth yn unol ag unrhyw amodau y mae Gweinidogion Cymru'n ystyried sy'n briodol. Bydd hynny'n caniatáu hyblygrwydd a'r gallu i addasu i newidiadau o ran rheoli'r tir.

3.143 Bydd gan bob cynllun cymorth sy'n cael ei sefydlu dan y pŵer i ddarparu cymorth ei ganllawiau ei hun.

3.144 Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau yn ymwneud â gorfodi cydymffurfiaeth â’r amodau y darparwyd unrhyw gymorth ar eu cyfer, yn ogystal â gwneud darpariaeth ynghylch cosbau ac apeliadau (ymhlith materion eraill). Gall hynny gynnwys, ymhlith pethau eraill, gosbau ariannol; adennill cymorth ariannol sydd wedi’i dalu; atal unrhyw gymorth (ariannol neu nad yw’n ariannol, neu'r ddau); gwahardd yr hawl i gael cymorth penodol am gyfnod penodol neu nes y bodlonir amodau penodedig.

3.145 Yn ystod y broses gam 2, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynnwys gwelliant *“ar gyfer adennill symiau sy’n ddyledus mewn cysylltiad â chosbau ariannol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer llog, gosod symiau yn erbyn symiau eraill, a sicrwydd ar gyfer taliad.”* Mae’r gwelliant hwn yn darparu bod y ddarpariaeth gwneud rheoliad mewn perthynas â chadarnhau cymhwysedd ar gyfer cymorth ac ati yn ddigon eang i sicrhau bod modd adennill unrhyw symiau sy’n ddyledus yn erbyn cosbau ariannol.

## *Gofynion o ran Adrodd*

3.146 Caiff adroddiad ei baratoi ar bob cynllun cymorth ac unrhyw gymorth a ddarperir o dan y pŵer i ddarparu cymorth. Gofynnir am adroddiadau ar ddwy lefel: Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Effaith.

3.147 Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn darparu gwybodaeth am y cymorth sydd wedi’i ddarparu bob blwyddyn. Gallai gynnwys gwybodaeth arall sy’n briodol ym marn Gweinidogion Cymru, er enghraifft, gwariant y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i’w dalu.

3.148 Bydd yr Adroddiad Effaith yn darparu gwybodaeth feintiol ac ansoddol ar effaith y cymorth sydd wedi'i ddarparu trwy’r pŵer i ddarparu cymorth, dros gyfnod o bum mlynedd. Trafodir pob un o'r adroddiadau hyn yn eu tro, isod.

## *Adroddiad Blynyddol am y Cymorth a ddarperir o dan adran 8 (pŵer i ddarparu cymorth)*

---

### *Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael:*

3.149 Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, bydd gofyn paratoi Adroddiad Blynyddol ar bob cymorth ariannol a chymorth nad yw'n ariannol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Rhaid i'r Adroddiad Blynyddol ymdrin â'r meysydd allweddol canlynol:

a) Cyfanswm y cymorth ariannol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod adrodd.
b) Manylion pob cymorth nad yw'n ariannol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod adrodd.
c) Manylion yr holl gymorth ariannol a chymorth nad yw'n ariannol a ddarperir o dan bob cynllun cymorth a sefydlwyd o dan y 'pŵer i ddarparu cymorth'.

3.150 Yn ogystal, caiff yr adroddiad ddarparu hefyd unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sy'n briodol. Bwriad hyn yw dangos, er enghraifft, fanylion unrhyw gymorth sydd wedi'i dynnu'n ôl, neu unrhyw gymorth ariannol wedi'i dalu sydd wrthi'n cael ei dalu'n ôl a'r rhesymau am hynny. Gall hefyd ddangos unrhyw daliadau untro i gefnogi unrhyw brosiectau gwariant cyfalaf. Gall Gweinidogion Cymru hefyd ddarparu gwybodaeth am y nifer sydd wedi elwa ar y cymorth, o dan bob cynllun cymorth neu fel arall.

3.151 Bwriad yr Adroddiad Blynyddol yw canolbwyntio yn bennaf ar wybodaeth ariannol lefel uchel, er enghraifft: faint o arian sydd wedi ei wario o dan y pŵer i ddarparu cymorth. Hefyd, gallai weithredu fel cyfrwng ar gyfer adroddiadau pellach, i esbonio ar beth y mae'r arian wedi'i wario yn ogystal â rhoi cipolwg demograffig o'r ffermwyr a'r mathau o ffermydd sydd wedi elwa ar y pŵer i ddarparu cymorth, er enghraifft, nifer y ffermydd sydd wedi ymrwymo i gynllun cymorth a sefydlwyd o dan y pŵer i ddarparu cymorth.

3.152 Nid bwriad yr Adroddiad Blynyddol yw asesu’r pŵer i ddarparu dibenion cymorth, na'r amcanion Rheoli Tir Cynaliadwy.

3.153 Rhaid i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Senedd o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd y cyfnod adrodd. Er enghraifft, os bydd cyfnod adrodd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2028, rhaid i'r Adroddiad Blynyddol gael ei gyhoeddi a'i osod gerbron Senedd Cymru erbyn 31 Mawrth 2029.

3.154 Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu llunio adroddiad interim, sy'n ymdrin â holl feysydd yr Adroddiad Blynyddol ond dros gyfnod byrrach, mae’r pŵer hwn ar gael i Weinidogion Cymru o dan adrannau 58A a neu 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## *Adroddiad Effaith*

### ***Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael***

3.155 Bob pum mlynedd caiff y cymorth a ddarperir o dan y pŵer i ddarparu cymorth ar gyfer y cyfnod adrodd perthnasol ei werthuso. Bydd canlyniadau’r gwerthusiad yn cael eu hamlinellu mewn Adroddiad Effaith. Bydd y cyfnod cyntaf ar gyfer adrodd ar effaith yn gyfnod o fwy na phum mlynedd, ac mae’n cael ei drafod ym mharagraff 3.144.

3.156 Mae gofyn i Weinidogion Cymru baratoi Adroddiad Effaith o fewn 12 mis ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd. Mae’n rhaid i’r Adroddiad Effaith amlinellu’r dibenion y darparwyd cymorth ar eu cyfer, a rhaid iddo gynnwys asesiad o effaith ac effeithiolrwydd cymorth o’r fath, gan gynnwys (a) y ffordd a’r graddau y mae'r cymorth, trwy gynllun neu fel arall, wedi cyflawni’r dibenion y darparwyd y cymorth ar eu cyfer a (b) y ffordd a’r graddau y mae’r cymorth a ddarparwyd wedi cyfrannu at gyflawni amcanion SLM.

3.157 Os bydd yr asesiad yn barnu nad yw’r cymorth wedi cyflawni’i ddiben, bwriedir i’r Adroddiad Effaith nodi’r camau y dylid eu cymryd i unioni'r methiant. Er enghraifft, ar lefel cynllun cymorth fel yr SFS arfaethedig, gellid nodi’r camau y mae buddiolwyr y cynllun cymorth (ffermwyr) wedi’u cymryd, wrthi’n eu cymryd, neu heb eu cymryd a sut y gellid unioni hyn.

3.158 Er enghraifft, yn achos plannu coed, mae coed yn cael eu plannu fel coed ifanc ond bydd angen amser arnynt i dyfu; gall defnyddio cnydau gorchudd, dulliau pori a gorffwys a chylchdroi cnydau i adfer pridd gymryd hyd at 30 mlynedd neu fwy i ddangos gwelliant mewn profion carbon pridd, ac yn achos creu cynefinoedd gall gymryd amser i fywyd gwyllt ymgartrefu ynddynt. Bydd yr asesiad hefyd yn dangos a yw'r camau yn addas i'r diben neu a oes angen eu haddasu, yn ogystal â darparu sylfaen o dystiolaeth i ystyried camau ychwanegol er mwyn cyflawni diben y cymorth.

3.159 Mae'r dull hwn yn sicrhau (a) bod hyblygrwydd wrth fonitro a gwerthuso pob cymorth a ddarperir yn y dyfodol o dan y pŵer i ddarparu cymorth, a (b) bod pob cymorth yn cael ei werthuso a yw’n bodloni'r dibenion a restrir o dan y pŵer i ddarparu cymorth, neu unrhyw ddiben arall sy'n bodloni amodau’r cymorth ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol a gynhelir yng Nghymru.

3.160 Hefyd, caiff Gweinidogion Cymru gynnwys gwybodaeth arall yn yr Adroddiad Effaith sy’n cael ei hystyried yn berthnasol i’r asesiad o effaith ac effeithiolrwydd y cymorth yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth ynglŷn ag a yw'r camau a gymerir o dan gynllun cymorth yn dal i fod yn addas, a ydynt wedi'u cymryd, wrthi’n cael eu cymryd, neu a yw’r ffordd y gweinyddir y cynllun yn addas i'r diben.

3.161 Rhaid i'r Adroddiad Effaith gael ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Senedd o fewn deuddeg mis ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd. Bydd y cyfnod adrodd cyntaf yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2029 (felly rhaid gosod yr Adroddiad Effaith cyntaf gerbron Senedd Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2030 fan bellaf). Bydd y cyfnod adrodd cyntaf yn ymdrin â chyfnod mwy na phum mlynedd; hynny er mwyn sicrhau bod pum mlynedd gyntaf yr SFS arfaethedig yn cael eu hasesu ac i gyd-fynd â chyfnodau’r contract. Wedi hynny, bydd y cyfnod adrodd yn para pum mlynedd, er enghraifft, gyda'r ail gyfnod adrodd yn dechrau ar 1 Ionawr 2030 ac yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2034.

3.162 Er bod yr Adroddiad Effaith yn destun cyfnod adrodd o bum mlynedd, os na fydd hynny’n cael ei ystyried yn briodol bellach, er enghraifft, os bydd cyfnod contract yr SFS arfaethedig yn newid ac os bydd yn amcan polisi yn y dyfodol i alinio’r Adroddiad Effaith â chyfnodau'r contract, ceir darpariaeth sy'n galluogi diwygio'r cyfnod adrodd drwy reoliadau.


3.163 Mae'r darpariaethau'n ceisio sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn effeithiol, bod atebolrwydd a bod ymgysylltu priodol â'r Senedd, grwpiau buddiant ac eraill. Bydd yr Adroddiad Effaith yn bwysig i asesu effeithiolrwydd y polisi ac i ddarparu sylfaen bwysig sy’n tyfu o dystiolaeth ar gyfer datblygu polisi, er enghraifft trwy wella gwybodaeth, arloesi a nodi tueddiadau.

3.164 Yr Adroddiad Effaith fydd un o'r prif ffynonellau data hefyd ar gyfer adroddiad yr SLM a fydd yn dangos asesiad o sut mae'r sector amaethyddol yn cyflawni amcanion SLM.


3.165 Mae'r siart llif (ffigur 1) isod yn ddarlun o sut y byddai data'n cael eu cofnodi am gynllun cymorth neu'n cael eu darparu fel arall o dan y pŵer i ddarparu cefnogaeth, a sut y gallai'r data hyn lifo o gynllun cymorth drwodd i'r adroddiadau SLM gan roi golwg ehangach i ni ar y targedau a'r dangosyddion sy'n gysylltiedig â'r adroddiad SLM. Bydd hyn, yn ei dro, yn dangos sut y bydd y canlyniadau'n cyfrannu at yr ymrwymiadau ehangach y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi adroddiadau arnynt.

3.166 Mae Ffigur 2 yn darparu darlun o lif y data gan ddefnyddio gweithred ar lefel cynllun cymorth o dan y pŵer i ddarparu cymorth. Mae'n olrhain diben y weithred a'i ganlyniad wrth iddo symud i fyny drwy'r lefelau adrodd gwahanol, o'r pŵer i ddarparu cymorth, hyd at dargedau, dangosyddion ac amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, a'u hadroddiadau cyfatebol gan arwain at adroddiadau ac ymrwymiadau eraill Llywodraeth Cymru fel sero net 2050.

Ffigur 1. Trosolwg o’r llif data o Gynllun i’r Adroddiad ar Ymrwymiadau Llywodraeth Cymru.



Ffigur 2. Darlun o’r llif data o weithredoedd ar lefel cynllun i adroddiadau ar nodau ehangach Llywodraeth Cymru



### *Camau i’w cymryd wrth baratoi adroddiad o dan adran 14:*

3.167 Wrth baratoi pob Adroddiad Effaith, bydd angen i Weinidogion Cymru roi sylw i'r canlynol; dibenion darparu’r cymorth, pob Adroddiad Blynyddol blaenorol sydd wedi'i gyhoeddi yn y cyfnod adrodd o dan sylw, yr Adroddiad Effaith diweddaraf (blaenorol), ac unrhyw faterion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried sy’n briodol, er enghraifft problemau wrth weinyddu’r pŵer i ddarparu cymorth (e.e. a yw'n addas i'r diben).

3.168 Drwy sicrhau bod sylw’n cael ei roi i'r pedair agwedd wrth baratoi'r Adroddiad Effaith, bydd hyn yn sicrhau bod y gwerthusiad o effaith y pŵer i ddarparu cymorth yn fwy cyflawn a chadarn.

## *Pennod 2 – pwerau i addasu deddfwriaeth sy’n ymwneud â chymorth ariannol a chymorth arall*

---

### *Pŵer i addasu deddfwriaeth sy’n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol*

3.169 Mae’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn rhoi cymorth i ffermwyr a rheolwyr tir yng Nghymru, ond bydd yn cael ei ddileu’n raddol ar ôl i'r DU ymadael â’r UE. Darparodd PAC 2014-20 daliadau uniongyrchol i ffermwyr Cymru trwy gynlluniau gwyrddu, ailddosbarthu a ffermwyr ifanc y BPS a darparwyd cymorth i’r Economi Wledig ehangach trwy’r Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG). Mae’r Bil yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth Cynllun y Taliad Sylfaenol i’r graddau y mae’n effeithio ar Gymru. Gall rheoliadau o’r fath gael eu gwneud trwy ddefnyddio’r weithdrefn gadarnhaol.

### *Deddf Amaethyddiaeth 2020 - effaith 'cymal machlud'*

3.170 Mae Llywodraeth Cymru wedi cael pwerau i'w rhoi i Weinidogion Cymru drwy Atodlen 5 (ac adrannau cysylltiedig eraill) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, a fydd yn machlud ar 31 Rhagfyr 2024. Mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru allu parhau i ddarparu'r cymorth presennol i ffermwyr ar ôl 2020 a sicrhau bod y sector amaethyddol a'r marchnadoedd amaeth yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i ni ymadael â'r UE.

### *Y sefyllfa bresennol*

3.171 Mae Gweinidogion Cymru wedi creu fersiynau cyfatebol o fesurau'r UE i gynnal cynlluniau fydd yn cefnogi blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu, gan ddefnyddio pwerau a ddarperir yn Atodlen 5 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

### *Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael*

3.172 I ddisodli'r pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 a sicrhau y gellir parhau i ddarparu cymorth amaethyddol dros y cyfnod pontio. Mae'n bosib y bydd angen pwerau i addasu'r BPS yn ystod y cyfnod pontio (yn amodol ar gynnal ymgynghoriad) i ddarparu taliad sefydlogi.

## Pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r polisi amaethyddol cyffredin

### *Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael*

3.173 Bydd y pwerau hyn yn disodli'r pwerau ag iddynt derfyn amser i addasu trefniadau cyllido, rheoli a monitro'r PAC yn Neddf Amaethyddiaeth 2020.

3.174 Byddant yn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod y cymorth i ffermwyr yn parhau a bod y sector amaethyddol a'r marchnadoedd amaeth yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i ni ymadael â'r UE. Gall Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, wneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth PAC trwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.

### *Pwerau i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth i wenynyddiaeth*

### *Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael*

3.175 Mae Rhaglen Gwenynyddiaeth yr UE yn rhoi cymorth ar gyfer gwenyna drwy'r rhaglenni gwenynyddiaeth cenedlaethol, gyda'r nod o wella'r amodau cyffredinol ar gyfer cynhyrchu a marchnata mêl a chynhyrchion eraill gwenyna.

3.176 Mae'n cynnwys cymorth technegol i wenynwyr, help i wrthsefyll clefydau a phlâu, trawstrefa, gwaith labordy a marchnata cynhyrchion gwenyna, ailstocio, rhaglenni ymchwil cymhwysol, monitro'r farchnad a gwella ansawdd y cynnyrch.

3.177 Mae'r Bil yn cynnwys pŵer gwneud rheoliad er mwyn i Weinidogion Cymru allu addasu deddfwriaeth yn ymwneud â chymorth ar gyfer gwenynyddiaeth ac is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno. Mae hyn yn disodli'r pŵer ar gyfer Gweinidogion Cymru yn y ddarpariaeth machlud yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 y DU, sy'n dod i ben ddiwedd 2024. Gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio rheoliadau i wneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth gwenynyddiaeth trwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.

### *Pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig*

---

#### *Y sefyllfa bresennol*

3.178 Mae Gweinidogion Cymru wedi creu fersiynau cyfatebol o fesurau'r UE i gynnal cynlluniau fydd yn cefnogi blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu, gan ddefnyddio pwerau a ddarperir yn Atodlen 5 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

#### *Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael*

3.179 Bydd y pwerau hyn i wneud rheoliadau yn disodli'r pwerau ag iddynt derfyn amser i addasu deddfwriaeth yn ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig, yn Neddf Amaethyddiaeth 2020, y gallai fod eu hangen i roi cymorth ochr yn ochr ag unrhyw gynllun(iau) newydd a sefydlir o dan y Bil. Gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio rheoliadau i addasu deddfwriaeth yn ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig trwy ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.

### *Pennod 3 – Ymyriad mewn Marchnadoedd a Chymorth ar gyfer Storio Preifat*

---

#### *Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael*

3.180 Mae tair agwedd i'r ddeddfwriaeth ar ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol. Ceir pwerau i Weinidogion Cymru:

a) Ddatgan bod amodau eithriadol mewn marchnadoedd amaethyddol.
b) Rhoi cymorth ariannol i gynhyrchwyr ar ôl datgan amodau eithriadol yn y farchnad.
c) Addasu deddfwriaeth yr UE a gadwyd sy'n ymwneud ag Ymyriad Cyhoeddus a Chymorth ar gyfer Storio Preifat (PIPSA)

3.181 Mae'r ddau bŵer cyntaf yn ymwneud ag ymateb i amodau eithriadol mewn marchnadoedd amaethyddol. Mae'r posibilrwydd o amodau o'r fath, y rhai all gael effaith niweidiol ddifrifol ar gynhyrchwyr amaethyddol, yn golygu y byddai'n ddymunol bod gan Weinidogion Cymru y pwerau i allu ymateb iddynt.

3.182 Roedd deddfwriaeth i roi pwerau i Weinidogion ac i ddiffinio'r camau y gall Gweinidogion eu cymryd mewn argyfwng sy'n effeithio ar y sector amaethyddol yn cael ei gwneud ar lefel yr UE cyn ymadawiad y DU. Yna, cafodd pwerau tebyg eu cynnwys yn Neddf Amaethyddiaeth (2020) sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddatgan bod amodau eithriadol yn y farchnad.[16]

3.183 Yn dilyn datganiad o'r fath, mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion ymyrryd mewn marchnadoedd drwy ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i gynhyrchwyr amaethyddol mewn amgylchiadau o'r fath[17], a thrwy agor cynlluniau ymyrraeth cyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat.[18] [19]

3.184 Mae'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru ymyrryd yn y farchnad a geir yn y Ddeddf Amaethyddiaeth yn rhan o'r cymal "machlud", sy'n golygu y dônt i ben ddiwedd 2024.[20] Y rheswm am hyn yw bod y Senedd wedi gofyn am gynnwys pwerau sylfaenol i Weinidogion Cymru mewn deddfwriaeth Gymreig, a dyna felly eu cynnwys yn y Bil hwn.

3.185 Mae'n amhosibl rhagweld pryd y bydd angen i Weinidogion ddefnyddio'r pwerau hyn, oherwydd wrth eu natur, fe'u defnyddir yn unig mewn argyfwng. Ond mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y pwerau hyn yn angenrheidiol, gan y gallai fod angen i Weinidogion ymateb yn gyflym mewn argyfwng i ddiogelu'r cyflenwad bwyd a rhwystro diffyg yn y farchnad. Darparu cymorth a rheoli'r cyflenwad bwyd yw'r ffyrdd mwyaf uniongyrchol i Weinidogion o wneud hyn.

3.186 Pe na bai pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru allu ymyrryd yn y farchnad, ni fyddai gan Weinidogion yr arfau fyddai eu hangen arnynt i ymateb i argyfyngau yn y sector amaethyddol. Gallai hyn arwain at fethiant busnesau amaethyddol ac, o bosibl, peryglu cyflenwadau bwyd.

---

[16] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/21/schedule/5/paragraph/7/enacted

[17] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/21/schedule/5/paragraph/8/enacted

[18] Disgrifir natur a manylion cynlluniau Ymyriad Cyhoeddus a Chymorth ar gyfer Storio Preifat yn Rheoliad yr UE a ddargedwir 1308/2013: https://www.legislation.gov.uk/eur/2013/1308/part/II/title/I/chapter/I/2020-12-31

[19] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/21/schedule/5/paragraph/9/enacted

[20] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/21/section/47/enacted

3.187 Y trydydd pŵer a roddir i Weinidogion allu ymyrryd yn y farchnad yw'r pwerau i addasu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â PIPSA. Er y gall cynlluniau PIPSA gael eu defnyddio i ymateb i argyfwng, mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn caniatáu eu defnyddio hefyd pan nad oes amodau eithriadol yn y farchnad. Fel gyda'r ddau bŵer cyntaf, mae'r pŵer hwn i Weinidogion Cymru wedi'i gynnwys yn y ddarpariaeth machlud yn Neddf Amaethyddiaeth 2020, sy'n golygu y daw i ben ddiwedd 2024[21]. Gall Gweinidogion Cymru wneud newidiadau i'r adran hon trwy'r weithdrefn gadarnhaol.

3.188 Ar hyn o bryd mae'r PAC yn darparu pwerau i dynnu cynhyrchion gwarged o'r farchnad a sefydlogi prisiau'r farchnad trwy brynu a storio nwyddau penodol a'u hailwerthu pan fydd prisiau wedi codi (Ymyrraeth Gyhoeddus) neu drwy dalu cynhyrchwyr i storio cynnyrch am gyfnod y cytunir arno er mwyn eu tynnu o'r farchnad (Cymorth ar gyfer Storio Preifat).

3.189 Bydd y pwerau domestig hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid y ffordd y rhoddir y darpariaethau hyn ar waith mewn ffyrdd na ddarperir ar eu cyfer yn y ddeddfwriaeth bresennol ar hyn o bryd, i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu teilwra i'r farchnad ddomestig.

3.190 Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newid y cynhyrchion sy'n gymwys am gynlluniau cymorth penodol, i'w teilwra i amodau'r farchnad ddomestig. Mae pŵer penodol hefyd i ddileu'r cynlluniau hyn yn raddol wrth i'r sector fynd yn hunan-gynhaliol.

3.191 Y bwriad yw gallu gweithredu'r pwerau hyn drwy orchymyn o fewn deufis ar ôl rhoi'r Cydsyniad Brenhinol i'r Bil

[21] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/21/section/47/enacted

## *Datrys anghydfodau sy'n ymwneud â chymorth ariannol a chydymffurfio â'r ddyletswydd statudol*

### *Cefndir*

3.192 Mae llawer o lesoedd o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 (Deddf 1986) a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 (Deddf 1995) yn cynnwys cymalau cyfyngol safonol sy'n rhwystro'r tenant rhag cynnal gweithgareddau a allai newid offer sefydlog y landlord neu ddefnydd tir ar y daliad heb i'r tenant yn gyntaf gael cydsyniad y landlord i'r gweithgaredd (e.e. codi neu newid adeiladau, buddsoddi mewn offer sefydlog newydd, cymryd tir arall neu arallgyfeirio i weithgareddau nad ydynt yn rhai amaethyddol fel rheoli tir amgylcheddol.

3.193 Mae llawer o landlordiaid a thenantiaid yn cydweithio'n effeithiol i drafod a goresgyn problemau sy'n deillio o gymalau cyfyngol heb orfod troi at ddatrys anghydfod.

3.194 Er enghraifft, mae tenantiaid yn aml yn gweithio gyda'u landlordiaid i gytuno ar gynlluniau arallgyfeirio ac i ymrwymo i gynlluniau rheoli amgylcheddol. Deellir efallai nad yw hyn yn bosib yn achos pob tenant a gall fod gan rai tenantiaid gymalau cyfyngol a ysgrifennwyd sawl blwyddyn yn ôl sydd bellach yn cyfyngu ar eu gallu i ddatblygu busnes cynhyrchiol a hyfyw.

3.195 Nid oes darpariaethau cyffredinol yn Neddfau 1986 neu 1995 sy'n galluogi tenant i herio cymal cyfyngol mewn les drwy gyfryngau datrys anghydfod.

### *Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael*

3.196 Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau nad oes cyfyngiadau annheg ar denantiaid cytundebau AHA ac FBT rhag cael y cymorth ariannol a ddarperir o dan bŵer darparu cymorth y Bil.

3.197 Mae'r Bil yn diwygio'r ddwy ddeddf i roi llwybr i denantiaid o dan y ddwy Ddeddf ddatrys anghydfodau pan fo'u landlord mewn ffordd afresymol yn

gwrthod rhoi cydsyniad i *fater y mae angen cydsyniad arno o dan y denantiaeth* neu i gais i newid cymal cyfyngol yn y cytundeb tenantiaeth, *lle bo'r cais yn cael ei wneud i alluogi'r tenant i wneud cais neu i ofyn* am gymorth ariannol. Mae'r diwygiad yn Neddf 1986 yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, ac mae Deddf 1995 yn ddarpariaeth uniongyrchol yn ogystal â bod yn bŵer gwneud rheoliadau. Mae hyn yn ganlyniad i'r ffordd y cafodd y Deddfau eu drafftio.

3.198 Er mwyn i'r ddau ddiwygiad allu dilyn yr un amserlen, y bwriad yw cychwyn y ddwy ddarpariaeth yr un pryd trwy orchymyn cychwyn.

3.199 Bwriad y prosesau newydd yw cynnig cymhelliant i denantiaid a landlordiaid drafod a dod i gytundeb er mwyn osgoi costau datrys anghydfod, tra'n darparu amddiffyniad deddfwriaethol a chyfrwng datrys i'r tenantiaid hynny nad ydynt yn gallu dod i gytundeb rhesymol gyda'u landlord.

3.200 Mae'r Bil yn diwygio Deddf 1986 a Deddf 1995 mewn perthynas â mathau eraill o gymorth ariannol, e.e. pŵer i ddarparu cymorth, Cynllun y Taliad Sylfaenol, deddfwriaeth yn ymwneud â chymorth ar gyfer gwenynyddiaeth ac ati a Deddf 1995 mewn perthynas â dyletswydd statudol.

## RHAN 3 – MATERION YN YMWNEUD AG AMAETHYDDIAETH A CHYNHYRCHION AMAETHYDDOL

### *Pennod 1 – Casglu a rhannu data*

### *Cyflwyniad*

3.201 Mae'r pwerau casglu data yn ein galluogi i gasglu data oddi wrth y sector amaethyddol mewn dau gategori penodol ond ategol. Yn gyntaf oddi wrth bobl o fewn neu sydd â chysylltiad agos â'r 'gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth'; ac yn ail oddi wrth bobl sy'n ymgymryd â 'gweithgareddau perthnasol' sef gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth. Yn y ddau achos, rhaid i'r gweithgareddau ddigwydd yng Nghymru.

## *Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael*

3.202 Mae'r pwerau hyn rhoi’r pŵer i Lywodraeth Cymru gasglu a rhannu data ar gynhyrchiant, anifeiliaid a phlanhigion. Defnyddir y pwerau hyn i helpu ffermwyr a chynhyrchwyr i gynyddu cynhyrchiant drwy gasglu a rhannu data, gan gynnwys gwybodaeth am brisiau, am gynnyrch penodol ym mhob cam o'r gadwyn fwyd. Bydd hyn yn helpu i reoli anwadalwch y farchnad a risg. Bydd hefyd yn help i wella iechyd anifeiliaid a phlanhigion a’u holrhain yn well drwy gasglu a rhannu data am enedigaethau, marwolaethau a symudiadau anifeiliaid, arwyddion o glefydau a’r defnydd o filfeddyginiaethau ynghyd â chasglu a rhannu data am blanhigion, plâu planhigion a chlefydau sy’n cael eu mewnforio.

3.203 Ni fydd unrhyw ddata sy'n cael eu casglu am naill ai'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth neu weithgaredd perthnasol yn cael eu casglu oddi wrth berson sy'n ymgymryd â gweithgareddau amaethyddol anfasnachol, megis tyfu llysiau i'w bwyta'n bersonol neu hobïwyr. Mae'r darpariaethau'n nodi na all y ddyletswydd osod amod i gasglu oddi wrth bobl nad ydynt yn ymgymryd â gweithgaredd perthnasol am elw neu wobr.

3.204 Cyn casglu unrhyw ddata, cyhoeddir ein bwriad i gasglu data, y rhesymau dros gasglu’r data ac oddi wrth bwy y byddwn yn casglu'r data.

3.205 Mae dau faes casglu data cysylltiedig o fewn y sector amaethyddol:

## *Y Gadwyn Cyflenwi Bwyd-Amaeth*

3.206 Mae darpariaethau’r gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth yn ein galluogi i gasglu data am unrhyw weithgaredd sy'n gysylltiedig â chadwyn gyflenwi, neu ran o gadwyn gyflenwi, sy'n arwain at gynhyrchu bwyd neu ddiod i'w fwyta gan bobl. Er enghraifft, byddai cadwyn cyflenwi bwyd-amaeth yn cynnwys y ffermwr sy'n tyfu cnydau am fwyd, y melinydd sy’n malu'r cnwd ar gyfer gwneud bara a’r siop sy'n gwerthu'r bara i'r defnyddiwr. Neu’r ffermwr sy'n magu da byw, y

marchnadoedd da byw lle maen nhw’n cael eu gwerthu a’r siop sy'n gwerthu'r bwyd neu’r ddiod.

### *Gweithgaredd Perthnasol*

3.207 Mae’r darpariaethau sy’n ymwneud â gweithgareddau perthnasol yn ein galluogi i gasglu data oddi wrth y rhai sy'n cynnal gweithgareddau sy'n amaethyddol eu natur, ond nad ydyn nhw’n rhan o’r gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth. Er enghraifft, cnydau sy'n cael eu tyfu ar gyfer ynni hyd at y pwynt y maent yn cael eu troi'n ynni heibio gât y fferm, neu weithgaredd sy'n gysylltiedig â garddwriaeth addurnol. Bydd y data’n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar Lywodraeth Cymru i allu monitro newidiadau yn y farchnad, nodi tueddiadau'r farchnad a chynyddu ein dealltwriaeth o'r sector. Er enghraifft, os oes argyfwng yn y farchnad bydd gan Weinidogion Cymru y data i’w helpu i benderfynu a oes angen ymyrryd ac os oes sut.

3.208 Diffinnir y term 'gweithgaredd perthnasol' o fewn y Bil fel gweithgaredd a restrir o dan y diffiniad cyffredinol o amaethyddiaeth (adran 51) a / neu weithgaredd ategol (adran 52).

3.209 Mae'n bwysig nodi y gallai ffermwr fod yn rhan o gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth ac y gallai gynnal gweithgaredd perthnasol. Nid ydynt o reidrwydd yn bethau ar wahân.

3.210 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru wella adran 32(3)(e) fel gwelliant technegol er mwyn cyd-fynd â’r iaith a ddefnyddir mewn darpariaethau gorfodi eraill yn y Bil. Nid oes unrhyw newid i effaith y gwelliant sy’n galluogi darparu swyddogaethau rhoi i berson mewn perthynas â gorfodi gofynion gwybodaeth.

3.211 Mae adran 33 yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i lunio adroddiad ar weithrediad y drefn casglu data o fewn Adrannau 25 i 32 o'r Bil, bob pum mlynedd.

3.212 Bydd yr adroddiad yn darparu lefel ychwanegol o dryloywder a sicrwydd ynghylch gweithrediad y darpariaethau casglu data, dros gyfnod adrodd o bum mlynedd (olynol) ar gyfer yr holl ddata sy'n cael eu casglu o bob rhan o'r sector. Bydd pob cyfnod adrodd yn para pum mlynedd, gyda'r cyfnod adrodd cyntaf yn dechrau ar y diwrnod y daw'r darpariaethau casglu data i rym. Yn

dilyn pob cyfnod adrodd, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a gosod yr adroddiad gerbron y Senedd o fewn 12 mis ar ôl diwedd y cyfnod adrodd.

## *Pennod 2 – Safonau marchnata: Cynhyrchion amaethyddol*

### *Cefndir*

3.213 Tan i'r DU adael yr UE, gosodwyd safonau ar gyfer marchnata cynhyrchion amaethyddol ar lefel yr UE. Datblygwyd Rheoliadau'r UE ar gyfer rhai cynhyrchion amaethyddol ar sail priodoleddau arbennig y cynhyrchion hynny a chadwyd y Rheoliadau hynny yn Nghymru ar ôl ymadael â'r UE. Er mwyn gallu addasu rheoliadau o'r fath yn y dyfodol, yn ogystal â pharhau i orfodi'r ddeddfwriaeth bresennol, cynhwyswyd pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer safonau ar gyfer marchnata cynhyrchion amaethyddol.

### *Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael*

3.214 O dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, mae gan Weinidogion Cymru y pwerau i wneud darpariaeth ynghylch y safonau y mae'n rhaid i restr ddynodedig o gynhyrchion amaethyddol gydymffurfio â nhw[22]. Mae ganddynt hefyd y pŵer i ychwanegu, dileu neu newid y disgrifiad o unrhyw gynnyrch yn y rhestr[23]. Oherwydd cymal "machlud" yn Neddf Amaethyddiaeth 2020, disgwylir i'r pwerau hyn ddod i ben ddiwedd 2024[24]. Cafodd y cymal machlud hwn ei gynnwys ar gais y Senedd, a oedd am weld cynnwys pwerau sylfaenol i Weinidogion Cymru mewn deddfwriaeth Gymreig.

3.215 Nid oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau penodol ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau hyn i ddiwygio'r deddfwriaeth ynghylch safonau

[22] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/21/schedule/5/paragraph/16/enacted
[23] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/21/schedule/5/paragraph/17/enacted Pwynt 3
[24] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/21/section/47/enacted Pwynt 1(a)

marchnata amaethyddol, ond cred fod angen pwerau o'r fath er mwyn gallu diweddaru deddfwriaeth os bydd amgylchiadau'n newid yn nhrefniadaeth y farchnad, dewisiadau defnyddwyr a datblygiad technolegol. Bwriad deddfwriaeth o'r fath yw gwneud y farchnad yn fwy effeithiol a meithrin hyder defnyddwyr drwy unioni'r anghymesuredd yn yr wybodaeth sydd gan gynhyrchwyr, manwerthwyr a defnyddwyr am gynhyrchion amaethyddol.

3.216 Byddai angen y darpariaethau hyn ar Weinidogion Cymru hefyd i ddiwygio darpariaethau gorfodi'r ddeddfwriaeth bresennol, os bydd newidiadau o'r fath yn ddymunol.

3.217 Os na chaiff pwerau i Weinidogion Cymru ynghylch safonau marchnata ar gyfer cynhyrchion amaethyddol eu cynnwys yn y Bil, neu os bydd problem ynghylch eu gweithredu, mae perygl o gallai ffermwyr, proseswyr bwyd a manwerthwyr Cymru orfod ysgwyddo baich biwrocrataidd trwm. Hynny am y gallai rheoliadau safonau marchnata gael eu newid yn rhannau eraill y DU, ond gan aros yr un peth yng Nghymru.

3.218 Byddai'n rhaid i fusnesau Cymreig wedyn gydymffurfio â dwy set wahanol o reoliadau er mwyn cael parhau i werthu cynhyrchion amaethyddol i'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, sy'n farchnadoedd hanfodol i fusnesau Cymru. Byddai hyn yn debygol o greu problemau gan fod y cadwyni cyflenwi amaethyddol a bwyd rhwng gwledydd y DU wedi'u hintegreiddio mor dynn.

3.219 Y bwriad yw i'r pwerau safonau marchnata yn y Bil ddod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru, trwy orchymyn.

## *Pennod 3 – Dosbarthu carcasau penodol*

### *Cefndir*

3.220 Mae rheoliadau ynghylch dosbarthu carcasau wedi bod yn nodwedd o gyfraith yr UE ers y 1960au ar gyfer gwartheg a'r 1970au ar gyfer moch.[25] [26]. Yn fwy diweddar, darparwyd pwerau yng nghyfraith yr UE i wneud darpariaeth ar gyfer dosbarthu cig defaid ar sail wirfoddol, er nad yw'r rheoliadau hynny

[25] https://www.legislation.gov.uk/eur/1968/805/pdfs/eur_19680805_adopted_en.pdf
[26] https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/HTML/?uri=CELEX:31975R2759&from=EN

wedi'u rhoi ar waith yng Nghymru eto[27]. Ar ôl gadael yr UE, cynhwyswyd pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu gyfer dosbarthu carcasau gwartheg, defaid a moch mewn lladd-dai yng Nghymru yn Neddf Amaethyddiaeth 2020[28]. Mae'r pwerau hyn yn destun cymal "machlud" sy'n golygu y dônt ben ddiwedd 2024[29]. Cafodd y cymal machlud hwn ei gynnwys ar gais y Senedd, a oedd am weld cynnwys pwerau sylfaenol i Weinidogion Cymru mewn deddfwriaeth Gymreig.

### *Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael*

3.221 Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgynghori ar gynlluniau i wneud is-ddeddfwriaeth ar ddosbarthu carcasau defaid, a'r bwriad yw defnyddio'r pwerau a gynigir yma i wneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod pwerau gwneud rheoliadau o'r fath yn ofynnol hefyd er mwyn gwella deddfwriaeth dosbarthu carcasau eidion a moch yn y dyfodol. Mae hyn yn seiliedig ar brofiad blaenorol o reoliadau dosbarthu carcasau'r UE, yr oedd angen eu diweddaru o bryd i'w gilydd i adlewyrchu technolegau newydd a newidiadau yn amodau'r farchnad.

3.222 Diben rheoliadau'r Llywodraeth ar ddosbarthu carcasau yw gwella tryloywder a thegwch i'r cynhyrchydd, gwneud y farchnad yn fwy effeithiol ac ennyn hyder defnyddwyr. Lladd-dai sydd wedi teimlo'u heffaith fwyaf, am mai dyna lle mae'r dosbarthu'n digwydd. Mae creu fframwaith mewn deddfwriaeth ar gyfer dosbarthu carcasau wedi arwain at dryloywder o safbwynt y prisiau sy'n cael eu talu i gynhyrchwyr am garcasau gwartheg a moch, gan ddibynnu ar eu hansawdd, wedi'i alluogi trwy gynnwys darpariaethau ynghylch adrodd ar brisiau yn y rheoliadau.

3.223 Mae'r ddeddfwriaeth wedi ennyn hyder prynwyr carcasau gwartheg a moch bod y cynnyrch maen nhw'n ei brynu yn cwrdd â'r safonau y maen nhw'n gofyn amdanyn nhw. Heb fframwaith deddfwriaethol i greu system raddio safonol, mae'n annhebygol a fyddai prynwyr wedi gallu teimlo mor hyderus.

---

[27] https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/HTML/?uri=CELEX:32013R1308&from=EN, Erthygl 10
[28] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/21/schedule/5/paragraph/18/enacted
[29] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/21/section/47/enacted

3.224 Os na fydd pwerau i Weinidogion Cymru ar ddosbarthu carcasau yn y Bil, mae perygl y gallai lladd-dai Cymru orfod ysgwyddo baich biwrocrataidd trwm os yw rheoliadau ar ddosbarthu carcasau yn cael eu newid mewn rhannau eraill o'r DU. Yna byddai'n rhaid i ladd-dai Cymru gydymffurfio â dwy set wahanol o reoliadau er mwyn cael parhau i werthu cynhyrchion amaethyddol i'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, lle mae'r rhan fwyaf o gig coch o Gymru yn cael ei fwyta[30]. Byddai hyn yn debygol o greu problemau gan fod y cadwyni cig coch rhwng gwledydd y DU wedi'u hintegreiddio mor dynn.

3.225 Y bwriad yw i'r pwerau hyn ddod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru, trwy orchymyn.

## RHAN 4 – COEDWIGAETH

### ***Diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 er mwyn atodi amodau at drwyddedau cwympo coed ac i ddiwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed ar ôl eu rhoi.***

### ***Cefndir***

3.226 Mae cwympo coed yn rhan angenrheidiol o'r gwaith o reoli coetir yn gynaliadwy, gan gynaeafu carbon sydd wedi'i gloi yn y pren a'i ddefnyddio yn lle deunyddiau trwm ar ynni fel concrit a dur. Mae rheoli coetiroedd hefyd yn bwysig i wella neu gynnal cyflwr cynefinoedd coetir er enghraifft o ran amrywiaeth strwythurol neu i greu bylchau yng nghanopi'r coed.

3.227 Rheoleiddir y gwaith o gwympo coed yng Nghymru drwy Ddeddf Coedwigaeth 1967 ("Deddf 1967") sy'n gofyn ar i berchennog gael trwydded cwympo coed cyn torri coed. Mae Deddf 1967 yn caniatáu nifer o eithriadau i'r angen am drwydded gwympo, llawer ohonynt er mwyn i'r economi allu mynd yn ei blaen o ddydd i ddydd e.e. cwympo coed er mwyn rheoli clefydau, osgoi perygl, cynaeafu ychydig o bren at ddefnydd personol, neu i ymgymerwr statudol megis trydan neu wasanaethau dŵr allu gwneud ei waith.

[30] https://meatpromotion.wales/cy/ystadegau-diwydiant

3.228 Gweinyddir trwyddedau cwympo gan yr "awdurdod coedwigaeth priodol", sef yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

## *Amodau mewn Trwyddedau Cwympo Coed*

3.229 Mae trwydded cwympo coed yn rhoi caniatâd i gwympo coed lle na fyddai'n gyfreithlon cwympo coed hebddi o dan Ddeddf 1967. Nid yw'n diystyru'r angen i gydymffurfio â deddfwriaeth arall, megis yr angen am drwydded o dan ddeddfwriaeth wahanol neu'r rhwymedigaeth ar ddeiliad y drwydded i gydymffurfio â'r gyfraith.

3.230 Ar hyn o bryd mae'r Ddeddf Coedwigaeth yn caniatáu atodi rhai amodau at drwyddedau cwympo coed sy'n gysylltiedig ag ailstocio a chynnal a chadw'r coed hynny ar ôl eu hailstocio. Ond nid yw'n caniatáu atodi amodau at drwyddedau cwympo i ddiogelu integriti safleoedd gwarchodedig, rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod neu elfennau sensitif eraill o'r amgylchedd.

3.231 Gallai CNC drwy hynny gyhoeddi trwydded cwympo coed a allai gael effaith negyddol ar yr amgylchedd a thorri deddfwriaeth amgylcheddol arall megis Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

3.232 Roedd y mater hwn yn destun llythyr gan Brif Weithredwr CNC at Weinidog yr Amgylchedd ar y pryd, Hannah Blythyn, ym mis Tachwedd 2018 wedi i'r cyhoedd ddod yn ymwybodol o waith cwympo coed gyda thrwydded ar Ynys Môn ac anallu CNC i atodi amodau at y trwyddedau cwympo at ddibenion cadwraeth, y gellid eu gorfodi trwy gyfraith.

3.233 Lluniodd aelod o'r cyhoedd ddeiseb ar wefan deisebau Llywodraeth y DU a Senedd Cymru'n galw am ddiwygio Deddf 1967 i ddiogelu bywyd gwyllt, Cafodd dros 11,000 o lofnodion eu casglu ym mis Mai 2019. Daeth deiseb debyg i ben ym mis Chwefror 2021 gydag oddeutu 12,000 o lofnodion.

3.234 Cododd Darren Millar AS Cymru yr un pwnc yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Ionawr 2019 a chafodd beth sylw yn y cyfryngau. Cafodd deiseb oedd yn galw am newidiadau i'r Ddeddf Coedwigaeth er mwyn diogelu cynefin gwiwerod coch ei thrafod yn y Senedd ar 8 Rhagfyr 2021. Mae'r gohebu ynghylch diogelu cynefinoedd rhag cwympo coed yn parhau.

### *Diwygio/atal/dirymu trwyddedau*

3.235 Nid oes gan CNC bwerau i ddiwygio, atal na dirymu trwydded y mae wedi'i rhoi os bydd y gweithgaredd trwyddedig yn troi’n annerbyniol, er enghraifft os bydd newid perchennog yn arwain at newid amcanion, neu os bydd clefyd yn taro’r rhywogaethau a ddefnyddir i ailstocio.

3.236 Fodd bynnag, gall sefyllfa droi’n annerbyniol hefyd yn sgil gweld cyfyngiadau ychwanegol ar ôl rhoi’r drwydded - cyfyngiadau megis rhywogaethau gwarchodedig na sylwyd trwy ddamwain neu’n fwriadol arnynt cynt. Er enghraifft presenoldeb y wiwer goch mewn ardal gwympo, a phresenoldeb rhywogaethau o ystlumod prin.

3.237 Bydd yr olaf yn fwy tebygol o ddigwydd wrth i ni ddod yn fwy dibynnol ar geisiadau cywirach a mwy cymesur fel ymgais i symleiddio prosesau rheoleiddio. Y pŵer i newid trwydded gwympo coed er mwyn gallu mynd i’r afael â phroblem yw’r prif fwriad. Dewis olaf fydd atal neu ddirymu trwydded.

### *Y sefyllfa bresennol*

3.238 Mae CNC yn asesu pob cais am drwydded cwympo coed yn ôl y gofynion cyfreithiol ac ar sail yr arferion coedwigaeth da a nodir yn Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (UKFS). Yr UKFS yw'r safon gyfeirio a thechnegol ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy yn y DU ac mae llywodraethau'r DU yn ei chymeradwyo.

3.239 Mae'n disgrifio nifer o ofynion cyfreithiol, ynghyd â gofynion arferion da a chanllawiau ar reoli coed o safbwynt pridd, dŵr, bioamrywiaeth, pobl, yr amgylchedd hanesyddol, tirwedd a newid yn yr hinsawdd ac arfer coedwigaeth dda gyffredinol.

3.240 Gwrthodir ceisiadau am drwyddedau cwympo coed sy'n amlwg yn mynd yn groes i'r UKFS, hynny am na fyddai'r cais, wrth fethu â chydymffurfio â'r UKFS, er budd “coedwigaeth dda" yn unol â Deddf Coedwigaeth 1967.

3.241 Mae gofyn i goedwigwyr a pherchenogion tir gadw hefyd at ddeddfwriaeth amgylcheddol a deddfwriaeth ehangach sy’n ymwneud â chwympo coed a gweithgareddau cysylltiedig. Mae'r sector coedwigo wedi derbyn y broses

trwyddedu bresennol ac mae hi wedi gweithio'n effeithiol gyda thrwyddedau cwympo coed yn brif arf ar gyfer cael caniatâd i gwympo coed yng Nghymru yn y 7-8 mlynedd diwethaf. Cyn hynny, rhoddwyd y rhan fwyaf o drwyddedau cwympo coed fel rhan o gytundeb grant rheoli lle'r oedd amodau'n cael eu hymgorffori, eu monitro a'u gorfodi o dan gontract y grant.

3.242 Mae'r UKFS a'r modd y dehonglir Deddf Coedwigaeth 1967 wedi esblygu gyda pholisi coedwigaeth dros y blynyddoedd i gwmpasu ystod ehangach o faterion amgylcheddol na'r hyn a ragwelwyd gyntaf pan gafodd Deddf 1967 ei drafftio a'i phasio.

3.243 Fodd bynnag, mae sefyllfaoedd wedi codi, pan aed yn groes i'r rheolau neu pan welwyd sensitifeddau eraill ar ôl rhoi'r drwydded, lle byddai rhagor o eglurder ar ffurf amodau a'r gallu i ddiwygio/atal/dirymu trwydded wedi amddiffyn bioamrywiaeth a'r amgylchedd yn arbennig yn well.

## *Amodau mewn Trwyddedau Cwympo Coed*

3.244 Mae trwyddedau cwympo coed yn cael eu rhoi o dan Adran 10 Deddf Coedwigaeth 1967. Mae'r amodau yn Adran 12 yn ymwneud yn unig ag ailblannu coed a chynnal a chadw'r coed hynny wedi hynny. O dan y Ddeddf bresennol, ni cheir atodi amodau at drwydded gwympo coed yng Nghymru o dan ddarpariaethau presennol Deddf 1967 i ddiogelu safle dynodedig neu'r amgylchedd ehangach rhag effaith cwympo coed e.e. trwy nodi sut a phryd y gellir torri coed, a chan bwy.

3.245 Mae trwyddedau cwympo yn destun y darpariaethau asesu yn Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (y Rheoliadau Cynefinoedd). Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i CNC roi cyngor, yn eu rôl fel y "corff gwarchod natur priodol", ar gymhwyso amodau i ganiatâd neu gydsyniad er mwyn osgoi unrhyw effeithiau andwyol ar safle Ewropeaidd (fel y'i diffiniwyd yn y Rheoliadau Cynefinoedd).

3.246 Fodd bynnag, nid yw CNC fel yr awdurdod cymwys sy'n penderfynu a ddylid rhoi trwydded gwympo coed yn cael atodi'r fath amodau at drwyddedau cwympo oherwydd cyfyngiadau Deddf Coedwigaeth 1967. O dan y Rheoliadau Cynefinoedd, os daw CNC i'r casgliad bod angen amod i atal y

gwaith cwympo rhag cael effaith andwyol, ni ddylai ganiatáu'r drwydded gwympo os nad oes modd gorfodi'r amodau angenrheidiol yn gyfreithiol.

3.247 Ceir sefyllfa debyg o ran dyletswyddau CNC o dan Reoliadau Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 (“y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr”), lle nad oes modd atodi amodau sydd eu hangen i fodloni'r Gyfarwyddeb at drwydded cwympo coed.

3.248 Mae Deddf Coedwigaeth 1967 y rhoddir y drwydded drwyddi yn gofyn am groes-gydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol arall gan gynnwys rhywogaethau gwarchodedig a thrwyddedau amgylcheddol. Mae Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) yn datgan hynny hefyd.

3.249 Pan nad yw cais am drwydded gwympo’n bodloni’r gofyn am 'Arferion coedwigaeth dda' fel y'i nodir yn UKFS bydd CNC yn cynghori'r ymgeisydd i ail-ystyried. Os bydd y cais yn parhau’n annerbyniol ar ôl ei ail-gyflwyno, bydd CNC yn gwrthod rhoi’r drwydded gan nodi'r rhannau perthnasol o Safon Coedwigaeth y DU.

3.250 Llwyddir i osgoi gwrthod trwydded neu gydsyniad ar hyn o bryd trwy gytundeb anffurfiol rhwng CNC a’r ymgeisydd fel a nodir isod. Nid oes grym cyfreithiol i gytundeb o’r fath.

3.251 Os nad oes amodau addas, mae CNC yn rhoi llythyr cynghori gyda’r drwydded cwympo coed, sy'n nodi'r angen i gydymffurfio â deddfau arall.

3.252 Mae CNC wedi datblygu hefyd gynllun tymor hir a gwirfoddol ar gyfer rheoli coedwigoedd. Mae’n gyfrwng i ymgeiswyr ddisgrifio’u gweledigaeth, eu hamcanion rheoli a sut y byddant yn ateb gofynion amgylcheddol allweddol. Ond yn gyfnewid am gael caniatâd cwympo hirdymor rhaid iddynt 'optio i mewn' i delerau tebyg i’r rheini sy'n bodoli yn yr Alban gan ddefnyddio cytundeb rheoli tir a wnaed dan Adran 16 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

3.253 Ond gan fod cytundebau rheoli tir yn drefniant gwirfoddol rhwng y partïon, a chan eu bod yn gallu bod yn gostus i'w llunio, maent yn anymarferol ar gyfer y drefn trwyddedu cwympo coed gyfan.

3.254 Mae effaith gronnus cwympo coed ar gynefin yn bwysig o safbwynt gwytnwch poblogaethau bywyd gwyllt a dyletswydd Adran 6 CNC o dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 "i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ….

a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau" i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

3.255 Mae ystyried y ddyletswydd hon eisoes yn rhan o drefn y drwydded cwympo coed. Mae CNC yn ystyried anghenion rhywogaethau wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau cwympo coed, yn ogystal â'i Gynlluniau Adnoddau Coedwig ei hun. I'w helpu â hyn, mae ymgeiswyr ac CNC yn cynnal arolygon o safleoedd bywyd gwyllt a defnyddir hefyd ddata monitro a'r hyn a gafwyd trwy'r Ganolfan Cofnodion Leol.

3.256 Er bod hyn yn ymwneud â phroses fewnol CNC, gallai'r pŵer i atodi amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed gryfhau'r amddiffyniad i gynefin lle y tybir bod angen hynny.

3.257 Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn diogelu amrywiaeth o fywyd gwyllt a'u cynefin. Mae adran 10(3)(c) yn eithrio gweithred rhag bod yn anghyfreithlon os oedd yn "ganlyniad gweithred gyfreithlon ac ni ellid yn rhesymol fod wedi ei hosgoi." Gall y cyfyngiadau ar yr amodau y gellir eu hatodi at drwydded cwympo ei gwneud hi'n anodd amddiffyn rhai elfennau ar fywyd gwyllt o ystyried yr eithriad uchod, er nad yw hyn yn effeithio ar rywogaethau Gwarchodedig Ewropeaidd ac adar Atodlen 1.

## *Diwygio/atal/dirymu trwyddedau*

3.258 Ar hyn o bryd nid oes pwerau gan CNC i ddiwygio, atal na dirymu trwydded gwympo coed.

3.259 Os bydd perchennog coetir yn newid, mae trwydded cwympo coed yn pasio i'r perchennog newydd (er na rhoddir mohoni yn y Gofrestrfa Tir). Ni ellir caniatáu newid amcanion y drwydded e.e. i ailstocio â rhywogaeth wahanol. Er y gellir gwneud hyn drwy gytundeb anffurfiol rhwng CNC a'r perchennog, dim ond yr amodau a nodwyd yn y drwydded gwympo wreiddiol y gellir eu gorfodi os cânt eu torri.

3.260 Nid oes pwerau i atal na dirymu trwydded gwympo coed os caiff deddfwriaeth amgylcheddol arall ei thorri sy'n arwain at ddifrod amgylcheddol e.e. llygru dŵr neu pan na chafodd presenoldeb rhywogaethau gwarchodedig ei hystyried wrth roi trwydded cwympo coed.

## *Llywodraethau datganoledig eraill*

3.261 Mae'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi disodli Deddf Coedwigaeth 1967 â'u deddfwriaeth eu hunain sy'n golygu eu bod yn cael atodi amodau at drwyddedau cwympo coed. Mae deddfwriaeth yr Alban yn cynnwys pwerau hefyd i ddiwygio/atal/dirymu trwyddedau cwympo sydd eisoes wedi'u rhoi.

## *Cynyddu'r gosb am gwympo coed heb drwydded*

3.262 Yn Neddf Coedwigaeth 1967, nodir y dirwyon am beidio â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi a all gynnwys peidio â chydymffurfio ag amodau mewn trwydded cwympo coed, yn adran 24, ac maen nhw'n ddirwyon "heb derfyn" Lefel 5. Ond mae adran 17 sy'n delio â chwympo coed yn anghyfreithlon, rhoddir dirwy lefel 4 (£2500). Mae hyn yn golygu bod person sy'n cwympo coed yn anghyfreithlon yn cael llai o ddirwy na rhywun sy'n torri amodau trwydded cwympo coed. Codwyd y terfynau ar y dirwyon hyn yn Lloegr gan Atodlen 16 paragraff 2 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021.

## *Diben y ddeddfwriaeth*

3.263 Byddai'r ddau bŵer canlynol yn berthnasol i bob cais am drwydded cwympo coed yng Nghymru.

## *Pŵer i Atodi Amodau*

3.264 Rydym am ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i roi'r pŵer i CNC allu atodi amodau "amgylcheddol" at drwyddedau cwympo coed er mwyn atal gwaith cwympo allai fynd yn groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall. Mae hyn yn ychwanegol at yr amodau presennol a nodir ar hyn o bryd yn y Ddeddf Coedwigaeth 1967.

3.265 Defnyddir yr amodau amgylcheddol hyn pan fydd tîm Trwyddedu CNC o'r farn bod angen cynnwys amodau i warchod rhywogaeth neu gynefin penodol neu os bydd pryderon amgylcheddol neu sensitifeddau eraill wedi codi yn ystod ymgynghoriad o fewn proses ymgeisio.

3.266 Ychwanegir yr amodau newydd hyn pan fydd hynny'n briodol ac yn gymesur i'r gweithgaredd y gwneir cais amdano ac fe'u geirir fel eu bod yn orfodadwy ac yn berthnasol. Cânt eu cymhwyso yn unol ag Egwyddorion Rheoleiddio CNC, Cod y Rheoleiddiwr ac egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Bydd dal gofyn datblygu'r amodau yn unol â'r geiriad cyfreithiol angenrheidiol. Er y ceir enghreifftiau o'r *math* o amodau y gellir eu defnyddio yn Nhabl 1.

3.267 Byddai'r pŵer hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r diffyg cyswllt rhwng trwydded gwympo a'i heffaith ar ddeddfwriaeth amgylcheddol arall fel Rheoliadau Cynefinoedd 2017. Byddai hefyd yn helpu CNC i gwrdd â'i ddyletswydd gyfreithiol (dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 o ran Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) a dyletswydd Adran 6 y Ddeddf honno.

3.268 Byddai'r pŵer hefyd yn golygu bod y gwaith o orfodi'r amodau amgylcheddol hynny yn dod o dan bwerau Deddf Coedwigaeth 1967 ac fel rhan o swyddogaethau CNC fel yr awdurdod coedwigaeth priodol yng Nghymru.

3.269 Mae'r Alban a Gogledd Iwerddon wedi cael pwerau tebyg. Mae'r strategaeth England Trees yn esbonio yr ystyrir rhoi dyletswyddau statudol a phwerau statudol newydd i'r Comisiwn Coedwigaeth, er mwyn adlewyrchu gwerth cymdeithasol ac amgylcheddol coetiroedd yn well.

### *Pŵer i Ddiwygio/Atal/Dirymu trwydded*

3.270 Rydym am ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i gymryd pwerau fydd yn galluogi CNC i ddiwygio, atal neu ddirymu trwydded gwympo ar ôl iddi gael ei rhoi.

3.271 Bydd y gallu i newid trwydded gwympo gyda chytundeb deiliad y drwydded yn helpu i ddelio â newid yn yr amcanion neu pan fydd gwybodaeth ychwanegol wedi dod i'r fei ers rhoi'r drwydded. Mae "gyda chytundeb y deiliad" yn adlewyrchu'r hyn a ddigwyddodd yn yr Alban yn Forestry & Land Management (Scotland) Act 2018.

3.272 Bydd y newidiadau arfaethedig i Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn caniatáu diwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo sydd eisoes wedi'u rhoi pan na chydymffurfiwyd ag amodau amgylcheddol neu lle y mae trwydded a roddwyd

eisoes yn debygol o achosi niwed amgylcheddol e.e. pan fo sensitifedd newydd wedi dod i'r amlwg yn annisgwyl.

3.273 Bydd y newidiadau arfaethedig i Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn galluogi CNC i gymryd nifer o gamau drwy gyflwyno hysbysiad, gan gynnwys newid yr amodau amgylcheddol yn y drwydded gwympo, newid y drwydded gwympo ei hun, pennu camau adfer, neu atal neu ddirymu'r drwydded gwympo.

3.274 Bydd y newidiadau arfaethedig hefyd yn caniatáu i hysbysiadau newid, atal neu ddirymu trwydded gwympo gael effaith ar unwaith os bydd CNC yn ystyried bod hyn yn angenrheidiol oherwydd risg sydd ar fin digwydd a risg difrifol o niwed amgylcheddol (“amgylchiadau brys”).

3.275 Mae’r newidiadau’n cynnwys hefyd ddarpariaeth sy’n gosod allan y drefn i’w dilyn pan gaiff rhybudd ei rhoi o dan y pwerau newydd neu pan gaiff trwydded gwympo ei newid trwy gytundeb, sy’n ymwneud â thrwydded gwympo ar gyfer coed sy’n destun Gorchymyn Cadw Coed (TPO).

3.276 Mae atal neu ddirymu trwydded yn cael eu hystyried yn ganlyniadau eithafol ac ni wneir hynny ond mewn amgylchiadau eithriadol pan na fyddai newid yr amodau neu'r drwydded gwympo yn mynd i'r afael â'r mater neu os na ellir cytuno ar y newid hwnnw.

I gydnabod hyn, mae'r newidiadau arfaethedig yn nodi hefyd ddarpariaeth i allu codi cyfnod atal yn gynnar lle bo hynny’n briodol.

3.277 Fel rhan o'r pwerau newydd, mae'r newidiadau arfaethedig yn cyflwyno trosedd newydd, sy'n galluogi CNC i gymryd camau gorfodi lle gwelir nad yw camau a bennir mewn hysbysiad a roddwyd yn sgil torri amodau wedi cael eu cymryd. Gwneir darpariaeth pan fydd tir wedi newid dwylo, i sicrhau bod y perchennog newydd yn cael gwybod am y camau sydd eu hangen a’i fod wedi cael cyfle i gymryd y camau hynny cyn y cymerir camau gorfodi troseddol yn ei erbyn am beidio â chymryd y camau hynny o dan y drosedd newydd.

3.278 Nid oes terfyn ar lefel y ddirwy, hynny fel y ddirwy bresennol yn Neddf Coedwigaeth 1967 am beidio â chydymffurfio â hysbysiad. Mae'r newidiadau arfaethedig yn galluogi CNC i fynd ar dir a chymryd y camau a nodir mewn hysbysiad na chydymffurfiwyd â nhw, ac adennill costau hynny oddi wrth y perchennog. Hynny er mwyn sicrhau bod modd cymryd camau lle bo angen i

leihau’r niwed amgylcheddol a achosir pan na fydd y perchennog wedi cymryd y cam hwn yn y cyfnod a nodir yn yr hysbysiad.

3.279 Mae’r newidiadau arfaethedig i Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn nodi darpariaeth i sicrhau bod sail gan y person cywir i apelio yn erbyn hysbysiadau gwahanol sy’n ymwneud â newid, atal neu ddirymu yn sgil pwerau newydd.

3.280 Mae’r newidiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn caniatáu talu iawndal hefyd am ddibrisiant yng ngwerth pren o ganlyniad i roi’r hysbysiad. Bydd yr iawndal ar gael pan gaiff trwydded gwympo ei dirymu neu ei newid oherwydd niwed amgylcheddol sy'n digwydd heb unrhyw fai ar ddeiliad y drwydded. Mae hyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth ddigolledu sydd eisoes o fewn Deddf Coedwigaeth 1967 am wrthod rhoi trwydded cwympo coed. Ceir darpariaeth hefyd er mwyn gallu talu iawndal i’r person cywir pan gaiff hysbysiad i newid, atal neu ddirymu trwydded ei ganslo wedi hynny o ganlyniad i apêl lwyddiannus. Gallai’r iawndal gynnwys gwerth y dibrisiant yn y pren a/neu gostau rhesymol a ysgwyddir, gan ddibynnu ar y math o drwydded a ganslwyd.

3.281 Hyd yma, does dim iawndal wedi ei dalu o dan y ddarpariaeth bresennol o fewn Deddf Coedwigaeth 1967.

3.282 Yn unol ag egwyddorion Cyfraith Gyhoeddus a'i Egwyddorion Rheoleiddio, bydd CNC yn gweithio lle medrir gyda deiliaid trwydded cwympo coed i gytuno ar waith lliniaru neu adferol drwy newid y drwydded yn hytrach na’i hatal neu ei dirymu.

## *Cynyddu’r gosb am gwympo coed heb drwydded*

3.283 Bydd y newidiadau arfaethedig yn newid y gosb yn adran 17 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 am gwympo coed heb drwydded i ddirwy heb derfyn. Mae hyn yn berthnasol i'r pwerau i ddiwygio/atal/dirymu trwydded gwympo a ddisgrifir uchod. Os torrir amodau sy'n ymwneud â chwympo coed, daw hynny o dan drosedd adran17 a bydd yn cynnwys peidio â chydymffurfio â hysbysiad i atal neu ddirymu trwydded gwympo. Byddai peidio â chydymffurfio â gofyn i gymryd “camau” (e.e. gwaith adfer) mewn hysbysiad yn cael ei drin o dan y drosedd newydd yn adran 24C.

3.284 Lefel 4 neu £2500, yw lefel y ddirwy o dan adran 17, sy'n is na'r ddirwy heb derfyn bresennol yn adran 24 a'r drosedd newydd yn adran 24C. Mae perygl y gallai gadael dirwy adran 17 ar ei lefel bresennol danseilio effeithiolrwydd y pwerau newydd. Bydd cynyddu'r ddirwy adran 17 i ddirwy heb derfyn yn unioni'r anghysondeb rhwng y ddirwy heb derfyn am beidio â chydymffurfio â hysbysiad adran 24 a'r ddirwy gyfyngedig bresennol am gwympo coed yn anghyfreithlon yn adran 17. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Llysoedd ynghylch maint y ddirwy am drosedd fwy.

### *Yr effaith y bwriedir iddi ei chael*

3.285 Gofynnir am y pŵer i atodi amodau ac i ddiwygio/atal/dirymu trwyddedau cwympo coed sydd eisoes wedi'u rhoi i atal gwaith cwympo coed fyddai'n mynd yn groes i deddfwriaeth amgylcheddol arall. Prif effaith hynny fyddai diogelu bywyd gwyllt ac amddiffyn yr amgylchedd rhag niwed, er y gallai fod rhesymau eraill hefyd dros newid trwyddedau cwympo coed, fel newid yn amcanion y perchennog.

3.286 Mae hefyd yn galluogi gorfodi amodau "amgylcheddol" o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967; helpu i alinio Deddf Coedwigaeth 1967 â deddfwriaeth amgylcheddol arall megis Rheoliadau Cynefinoedd 2017 a galluogi CNC i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) a bodloni ei ddyletswydd adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

3.287 Bydd cynyddu'r ddirwy gysylltiedig yn adran 17 i fod yn ddirwy heb derfyn yn unioni'r anghysondeb presennol rhwng rhannau gwahanol ond cysylltiedig o Ddeddf Coedwigaeth 1967. Bydd hefyd yn anogaeth gryfach dros beidio â chwympo coed yn anghyfreithlon, gan roi hyblygrwydd i'r llysoedd osod dirwyon uwch os yw hynny'n briodol.

3.288 Ymhlith rhesymau eraill y mae'r awydd i wneud y drefn trwyddedu coedwigaeth yn gyson â systemau rheoleiddio eraill CNC. Mae hyn yn berthnasol i'r pŵer i ddiwygio, atal a dirymu yn ogystal ag i'r pŵer i atodi amodau at drwyddedau cwympo.

### *Pa mor aml y caiff ei ddefnyddio*

## *Amodau amgylcheddol*

3.289 Byddai cynnwys amodau generig neu sylfaenol i amddiffyn yr amgylchedd ehangach, er enghraifft, i atal llygredd, yn gwella'r rhan fwyaf o drwyddedau cwympo. Mae gofyn eisoes ar i'r sector coedwigaeth gydymffurfio â deddfwriaethau amgylcheddol eraill, ond bydd hyn yn ffurfioli cydymffurfiaeth o fewn y drefn drwyddedu.

3.290 Ni ddylai atodi amodau o'r fath olygu mwy o faich gan mai dyma sut y dylai'r sector coedwigaeth fod yn gweithio eisoes i gydymffurfio â'r gyfraith.

3.291 Amcangyfrifir y gallai fod angen amodau pellach ar 31% o drwyddedau, oherwydd ffactorau sy'n benodol i'r safle. Gallai'r amodau ar gyfer y sensitifeddau mwy cyffredin fod yn rhai generig. Efallai y bydd angen amodau mwy pwrpasol ar 4% arall os oes rhywbeth arbennig o sensitif ar y safle neu lle ceir nifer o sensitifeddau yr un pryd.

3.292 Mae'r 3 lefel neu'r "haen" hyn yn golygu y gellid cymhwyso amodau yn ôl yr angen o ran sensitifeddau a'r risg posibl o niweidio'r amgylchedd.

3.293 Bydd CNC yn atodi'r amodau hyn at drwyddedau cwympo lle teimlir eu bod yn briodol ac yn gymesur i'r gweithgaredd y gwneir cais amdano ac fe'u geirir fel eu bod yn orfodadwy ac yn berthnasol. Cânt eu cymhwyso yn unol â Dibenion Cyffredinol CNC o dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 a'i dyletswydd gydbwyso o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967, ynghyd ag Egwyddorion Rheoleiddio CNC, Cod y Rheoleiddiwr ac egwyddorion cyfraith gyhoeddus.

## *Pwerau i ddiwygio/atal neu ddirymu trwyddedau*

3.294 Bydd y modd y defnyddir pwerau i ddiwygio trwyddedau cwympo coed lle ceir cytundeb ar y ddwy ochr yn amrywio yn ôl yr angen, naill ai gan CNC neu'r sector coedwigaeth. Os, ar ôl caniatáu trwydded gwympo, y bydd torri amod amgylcheddol neu ymddangosiad sensitifedd annisgwyl yn peri niwed i'r amgylchedd, bydd y pwerau newydd yn caniatáu i CNC gyflwyno hysbysiad i newid y drwydded gwympo i fynd i'r afael â'r niwed, neu i atal neu ddiddymu'r

drwydded gwympo.  Mae atal neu ddirymu trwydded gwympo yn cael ei weld fel canlyniad eithafol gan y byddai'r costau i'r sector preifat yn debygol o fod yn uchel, gan ddibynnu ar natur y safle a'r contract cyflenwi pren.

3.295  Am y rheswm hwn, defnyddir y pwerau hyn o dan yr amgylchiadau prin pan na all newid amodau'r drwydded neu newid y drwydded gwympo ei hun unioni'r mater neu pan na ellir cytuno arnynt. Ym mhob achos, yn unol ag Egwyddorion Rheoleiddio CNC, bydd CNC yn gweithio gyda deiliaid trwyddedau cwympo i gytuno ar waith lliniaru neu adferol drwy newid trwydded er mwyn osgoi atal neu ddirymu trwydded.

## ***Cyffredinol***

3.296  Y bwriad yw defnyddio'r pwerau hyn pan fo angen clir i wneud hynny, yn enwedig o dan Reoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a rheoliadau amgylcheddol eraill.

3.297  Bydd gofyn cyfiawnhad dros ddefnyddio'r pwerau hyn a byddant yn gymesur ac yn briodol yn unol ag egwyddorion rheoleiddio CNC a'i ddyletswydd cydbwyso yn Adran 1 (3) (a) o Ddeddf Coedwigaeth 1967. Hefyd bydd angen ystyried yr amgylchiadau lle caiff CNC wrthod cais i newid.

3.298  Gallai gorddefnyddio'r amodau hyn y tu hwnt i ddyletswydd cydbwyso CNC beryglu gwneud trwyddedau cwympo yn rhy feichus i'w gweithredu'n ymarferol nac yn ariannol. Bydd hynny'n effeithio ar reoli coetiroedd.

3.299  Gan fod perchenogion preifat yn aml yn defnyddio'u hincwm i ariannu gwaith rheoli ar goetir, gallai cynyddu baich ariannol cydymffurfio fod yn ddigon o rwystr i bobl rhag rheoli coetiroedd ac arwain at golli'r ecosystem gysylltiedig neu fuddion cynhyrchu coed.

3.300  Gellir osgoi hynny trwy ddefnyddio'r pwerau yn unol â Diben Cyffredinol CNC o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'i ddyletswydd cydbwyso o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967, ac â'r gofyn i weithredu yn unol â Chyfraith Gyhoeddus, Cod y Rheoleiddiwr a'i Egwyddorion Rheoleiddio. Bydd yn sicrhau hefyd bod y pwerau'n cael eu defnyddio'n gymesur a bod cyfiawnhad iddynt. Bydd hyd a lled y darpariaethau apelio a digolledu yn diogelu rhag hysbysiadau anghymarus gan CNC.

### *Dim defnydd ôl-weithredol*

3.301 Y bwriad yw defnyddio'r pwerau hyn ar gyfer trwyddedau cwympo coed a roddir wedi i'r ddarpariaeth hon ddod i rym. Gan fod gan drwyddedau cwympo "oes" o 2 flynedd, nid ystyrir bod angen cael pwerau ôl-weithredol i ddiwygio/atodi amodau neu atal neu ddirymu trwyddedau cwympo presennol.

### *Effeithiau anfwriadol*

3.302 Gallai fod goblygiadau masnachol i'r sector coedwigaeth breifat ac i CNC o ganlyniad i atal neu ddirymu trwydded ar ôl iddi gael ei chaniatáu. Fodd bynnag, fel yn yr Alban, byddai hyn ond yn gymwys pan fernir nad oedd diwygio'r drwydded yn ddigon i leihau neu rwystro'r niwed amgylcheddol neu'r achos o dorri amodau neu ddeddfwriaeth. Byddai'r hawl i apelio a'r posibilrwydd o orfod talu iawndal os bydd apêl yn llwyddiannus yn cadw CNC rhag gorddefnyddio'r pwerau i ddiwygio, atal neu ddirymu trwydded gwympo.

3.303 Mae cryn bryder yn y sector coedwigaeth y bydd rhoi pŵer cyffredinol i CNC atodi amodau at drwyddedau cwympo yn arwain at ledu'i chenhadaeth dros amser, gyda mwy a mwy o amodau'n cael eu hatodi at drwyddedau a defnyddio pwerau i ddiwygio/atal/dirymu trwyddedau sydd eisoes wedi'u caniatáu.

3.304 Byddai hyn yn niweidiol i'r sector ac i amcan Llywodraeth Cymru o ddod â mwy o goetir o dan reolaeth ac rydym am ei osgoi. Mae Deddf Coedwigaeth 1967 eisoes yn cynnwys darpariaethau i alluogi deiliad trwydded cwympo coed i apelio yn erbyn amodau. Fel uchod, rhaid i'r amodau a gymhwysir gan CNC gydymffurfio ag egwyddorion Cyfraith Gyhoeddus, y cod rheoleiddwyr ac Egwyddorion Rheoleiddio CNC ei hunain, ac â'i Ddiben Cyffredinol o dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 a'i ddyletswydd cydbwyso o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 a fydd yn gwrthweithio hyn.

3.305 Cynigir bod canllawiau clir i ymgeiswyr yn cael eu cyhoeddi gyda'r pwerau hyn fel bod ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn glir ynghylch pryd y bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio a'r hyn sy'n ofynnol. Y nod yw gallu gweithredu'n effeithlon a chynaliadwy o fewn y gyfraith, gan osgoi dirwyon, cosbau, euogfarnau troseddol posibl, a chyhoeddusrwydd andwyol, hynny er

mwyn elwa ar drwydded gymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllaw anstatudol “Diwygio Deddf Coedwigaeth 1967: papur dulliau Cyfoeth Naturiol Cymru” sy’n esbonio sut y bydd CNC yn defnyddio'r pwerau hyn sydd wedi cael eu darparu fel dogfen ategol i'r Bil hwn.

**Tabl 1** System haenau o amodau ac enghreifftiau o fathau o amodau.

*Pwysig. Nid yw’r amodau eu hunain wedi’u datblygu eto a bydd angen eu hystyried ynghyd â’r geiriad cyfreithiol angenrheidiol yn ofalus.

| **Haen** | **Amod** | **Rheswm** | Enghraiff o fath o amod * |
|---|---|---|---|
| 1 – Y rhan fwyaf o drwyddedau | e.e. Atal llygredd | Lleihau’r risg o ddigwyddiadau llygru, a sicrhau eu bod yn cael eu riportio’n brydlon, er mwyn i’r Awdurdod Trwyddedu allu cymryd y camau priodol. | Enghraifft wedi’i chodi o drwydded forol:-<br>Atal llygredd – Rhaid i Ddeiliad y Drwydded gadw at yr arferion atal llygredd gorau. Rhaid rhoi gwybod i’r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw achos o lygredd cyn gynted â phosibl trwy ffonio 0300 065 3000. |
| 2 - Amodau cyffredinol ar gyfer themâu sy’n codi dro ar ôl tro e.e. Nodweddion ACA | e.e. mae dyfrgwn yn nodwedd dynodedig o ACA: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae’n bosib y gellid cytuno ar amod generig ar gyfer hyn. | Angen cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) | Enghraifft o nodyn cynghori ar drwydded cwympo coed: -<br><br>Gall teneuo a llwyrgwympo ddifrodi neu ddinistrio safleoedd gorffwys a gwalau dyfrgwn<br><br>CYNAEAFU<br><br>Llwyrgwympo<br>• Cyfyngu ar lwyrgwympo mewn parthau glannau afon i gynnal gorchudd coetir.<br>• Cynnal pentyrau tocion a pheidio â tharfu arnynt.<br>• Osgoi cwympo coed o fewn 30 m i walau neu 100 – 200 m i safleoedd bridio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 - Amodau Penodol – 4% | E.e. llawer o sensitifeddau mewn un lle | Llwybrau effeithau ar gyfer nifer o sensitifeddau. | Penodol e.e. osgoi tymor magu |

## Rhan 5 – BYWYD GWYLLT

### *Cyd-destun*

3.306 Bydd y Bil yn creu troseddau newydd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Bydd person sy'n defnyddio magl i ddal anifail gwyllt yn cyflawni trosedd. Bydd person sy'n defnyddio trap glud i ddal anifail asgwrn cefn yn cyflawni trosedd. O gael collfarn ddiannod, bydd person sy'n euog o drosedd yn atebol o gael ei garcharu am gyfnod na fydd fwy na 6 mis neu o gael dirwy heb derfyn - sy'n gyson â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

3.307 Mae defnyddio maglau i ddal cadnoid a chwningod a defnyddio trapiau glud i ddal cnofilod ill dau yn sbarduno safbwyntiau cryf ac yn ennyn llawer o ddiddordeb cyhoeddus a gwleidyddol.

### *Maglau*

3.308 Gellir prynu maglau dirwyn mewn amrywiaeth o siopau ac ar-lein. Y cyfan yw magl mewn gwirionedd yw dolen wedi'i hangori wedi'i gwneud o gebl. Fe'i defnyddir er mwyn dal cadnoid neu gwningod gerfydd eu gyddfau a'u cadw'n sownd nes gall y gweithredwr ddychwelyd a'i ladd. Mae ciperiaid a ffermwyr yn defnyddio'r dulliau cyfreithiol hyn o ddal a lladd anifeiliaid – cadnoid yn bennaf – sy'n cael eu hystyried yn bla am eu bod yn hela adar gâm a fagwyd ar gyfer eu saethu, ac ŵyn.

3.309 Credir bod llawer o ddefnydd arnynt yng Nghymru ond tybir bod llawer o'r amcangyfrifon yn anghywir am fod pobl yn amharod i'w riportio. Yn ôl adroddiad gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) [31] yn 2012 cafodd rhwng 17,200 a 51,600 o faglau cadnoid eu defnyddio yng Nghymru. Canfu'r un adroddiad nad yw maglau'n cael eu defnyddio i'r un graddau i ddal cwningod.

[31] Defra, UK - Science Search

3.310 O ddadansoddi canlyniadau'r arolwg, ceir awgrym mai dim ond 115 o ddaliadau yng Nghymru sy'n defnyddio maglau cwningod, gyda chyfartaledd o 12 magl yn cael eu defnyddio ar bob daliad ar unrhyw un adeg. Weithiau defnyddir maglau i ddal cwningod am fwyd.

3.311 Gwyddys bod maglau'n achosi dioddefaint corfforol a meddyliol i'r anifeiliaid sy'n cael eu dal ynddynt[32,33,], yn enwedig gan y gall yr anifail fod yn sownd am oriau lawer - yn gyfreithiol - neu am ddyddiau - yn anghyfreithiol[34.] Gall anafiadau a geir mewn magl arwain at farwolaeth araf a phoenus i'r anifail, a gall anifeiliaid eraill ymosod arno a'i ladd.

3.312 Pan fydd anifail yn ymladd i gael ei hun yn rhydd, gall y fagl lithro i'r corff neu i rannau ôl y corff. Gall wedyn anafu ei ddannedd a'i gorff wrth iddo geisio brathu ei hun yn rhydd.

3.313 Hyd yn oed os cymerir gofal o ran maint y fagl a'i lleoliad, maent wrth eu natur yn anwahaniaethol ac o'r herwydd mae llawer o anifeiliaid nad ydynt yn cael eu targedu'n cael eu dal a'u hanafu neu hyd yn oed eu lladd. Mae hynny'n cynnwys rhywogaethau gwyllt a domestig yn ogystal â da byw.

3.314 Canfu astudiaeth Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) er bod 84 y cant o ddefnyddwyr maglau'n dweud eu bod wedi ymdrechu i osgoi dal rhywogaethau nad ydynt yn eu targedu, roedd 60% wedi dal anifeiliaid nad oeddent wedi'u targedu ar ryw adeg neu'i gilydd.

3.315 Yn eu plith, daliwyd ysgyfarnogod, ceirw, dyfrgwn, a chŵn a chathod anwes (roedd 5 allan o'r 17 o ddefnyddwyr maglau cwningod yn yr astudiaeth wedi dal cath o leiaf unwaith). Canfu astudiaeth Defra mai'r mochyn daear oedd yr anifail nad oedd yn darged oedd yn cael ei ddal amlaf gyda 25 y cant o weithredwyr yn dweud iddynt ddal moch daear yn eu maglau.

### *Trapiau Glud*

---

[32] Munro, R. and Munro, H.M.C. (2008) 'Traps and Snares' *in Animal Abuse and Unlawful Killing Forensic Veterinary Pathology*. Edinburgh, Elsevier Saunders

[33] Rochlitz, I., Pearce, G.P. and Broom, D.M. (2010) The Impact of Snares on Animal Welfare. OneKind Report on Snaring, Centre for Animal Welfare and Anthrozoology, Department of Veterinary Medicine, Cambridge University Animal Welfare Information Service.

[34] O dan adran 11 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n anghyfreithlon peidio ag archwilio magl ar ôl ei gosod o leiaf unwaith bob 24 awr

3.316 Mae trapiau glud ar gael yn rhwydd i unrhyw un eu prynu. Mae amrywiaeth eang o fanwerthwyr yn eu gwerthu a chan mai’r cyfan ydynt yw bwrdd (plastig neu gerdyn) gyda glud nad yw'n sychu arno, gellir eu gwneud gartref yn hawdd hefyd. Mae'r trapiau hyn yn cael eu defnyddio'n bennaf[35] i ddal cnofilod gerfydd eu coesau neu eu blew pan ddônt i gysylltiad â'r glud. Mae'r trapiau hyn yn cael eu defnyddio'n aml gan aelodau'r cyhoedd yn ogystal â chan reolwyr pla proffesiynol.

3.317 Nid oes gofyn i ddefnyddiwr trap glud feddu ar unrhyw sgiliau na gwybodaeth am y rhywogaethau 'pla' y maent yn ceisio eu dal. Un o'r prif bryderon yw beth i’w wneud â'r anifail ar ôl ei ddal. Mae’n bosibl na fydd llawer o aelodau'r cyhoedd yn deall sut mae trafod a lladd yr anifail ar ôl ei ddal (mae'n annhebygol y bydd modd gollwng yr anifail yn rhydd yn ddiogel heb greulondeb o’r trap glud i’w ryddhau rywle arall), ac mae’n bosibl felly y cyfan a wneir yw taflu’r trap glud gyda'r anifail byw yn dal i fod yn sownd wrtho.

3.318 Efallai na fydd y rhan fwyaf o bobl yn deall y gallai hynny fod yn drosedd o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Gallai fod yn drosedd hefyd os na ydynt yn gallu lladd yr anifail yn drugarog, hynny am nad ydynt yn gwybod sut i wneud hynny neu am nad oes ganddynt y sgiliau i wneud hynny.

3.319 Yn wir, canfu pôl piniwn YouGov[36] na fyddai dros hanner yr ymatebwyr yn gwybod beth i'w wneud ag anifail byw wedi'i ddal neu y byddent yn argymell gweithred fel boddi, a fyddai'n anghyfreithlon. Dim ond 20 y cant oedd yn gwybod mai’r dull cyfreithiol a ffefrir yw taro'r anifail gydag ergyd sydyn fyddai’n ei ladd ar unwaith.

3.320 Ceir hanesion bod rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu gan gynnwys anifeiliaid anwes fel cathod, yn cael eu dal mewn trapiau glud. Mae hynny’n awgrymu bod hynny’n arwain at anafiadau difrifol a hyd yn oed marwolaeth. Yn wir, dyna sy’n digwydd. Ceir hanesion hefyd bod anifeiliaid targed a rhai nad ydynt yn darged sy’n cael eu dal yn cael anafiadau difrifol a phoenus gan gynnwys datgymalu a thorri coesau a rhwygo’u croen. Ambell waith, bydd anifail yn geisio cnoi trwy ei goes i’w ryddhau ei hun. Mae

[35] Mae trapiau/byrddau glud yn cael eu defnyddio hefyd i ddal pryfed fel chwilod du. Ni chaiff hyn ei wahardd gan y bydd y gwaharddiad dan sylw ond yn effeithio ar anifeiliaid asgwrn cefn.

[36] Humane Society International (HSI), 2015. Inhumane, Indiscriminate, Indefensible: The case for a UK ban on rodent glue traps. Available at: https://www.hsi.org/wp-content/uploads/assets/pdfs/hsi-glue-trap-report.pdf

anifeiliaid sydd wedi'u dal yn dioddef hefyd o flinder, diffyg dŵr a newyn a gallent foddi yn y glud neu gael eu hysglyfaethu gan anifeiliaid eraill. Rhwng 2016 a 2021 derbyniodd y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA) yn unig 270 o adroddiadau yn ymwneud â thrapiau glud, gyda saith o'r rhain yng Nghymru.

3.321 Roedd y ffigyrau blynyddol yn sylweddol is yn ystod y pandemig, ac mae'n bwysig cydnabod y bydd y rhan fwyaf o achosion o ddioddef sy'n gysylltiedig â byrddau glud yn digwydd heb eu gweld a heb eu cofnodi.

3.322 Mae tri o bob pedwar digwyddiad y mae'r RSPCA yn ymateb iddo yn ymwneud â dal rhywogaeth nad yw wedi'i dargedu, gan gynnwys tylluanod ac adar gwyllt eraill, gwiwerod, draenogod, a chathod anwes. Maent yn angheuol yn aml, a ffactor bwysig iawn yw bod y trapiau glud dan sylw yn cael eu gosod gan y cyhoedd/amaturiaid a rheolwyr proffesiynol.

## *Galwadau i'w gwahardd*

### ***Maglau***

3.323 Cafwyd llawer yn galw am weithredu ers blynyddoedd ac mae'r galw ar gynnydd. Yn 2015, arweiniodd hyn at ddatblygu Cod ar yr Arfer Orau wrth Ddefnyddio Maglau i Reoli Cadnoid[37] a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â chynrychiolwyr nifer o randdeiliaid â diddordeb, gan gynnwys defnyddwyr maglau. Ond ni allai'r adroddiad blynyddol cyntaf i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (CCERA) ar ddefnyddio maglau yng Nghymru[38] gadarnhau bod defnyddwyr maglau wedi mabwysiadu'r Cod yn eang.

3.324 O'r herwydd argymhellodd adroddiad Pwyllgor CCERA 2017 fod Llywodraeth Cymru yn paratoi deddfwriaeth ddrafft nawr fel ei bod mewn sefyllfa i weithredu ar unwaith os na fydd y llywodraeth, y diwydiant a rheolwyr tir gyda'i gilydd yn cyflawni uchelgeisiau'r Cod.

[37] Côd ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoaid | LLYW.CYMRU
[38] cr-ld11086-w.pdf (senedd.cymru)

3.325 Gofynnwyd i gynrychiolwyr defnyddwyr maglau sawl gwaith am dystiolaeth ar gadw at y Cod ond ni chafwyd ymateb ganddynt yn y chwe blynedd ers cyflwyno'r Cod.

3.326 Dywedodd y League Against Cruel Sports (LACS) fod pôl piniwn YouGov yr oeddynt wedi ei gomisiynu ym mis Ionawr 2021 wedi canfod bod 78 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru am i'r defnydd o faglau gael ei wneud yn anghyfreithlon[39].

3.327 Mae Pwyllgor Deisebau'r Senedd wedi ystyried dwy ddeiseb yn galw am wahardd maglau yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd 6,514 wedi llofnodi deiseb P-06-1159 erbyn i'r Pwyllgor Deisebau ei chau ym mis Hydref 2021[40]. Casglodd deiseb gynharach (P-05-715) a drefnwyd gan LACS 1,405 o lofnodion erbyn Tachwedd 2017 a chafodd ei chau gan y Pwyllgor Deisebau yn sgil trafodaeth ac argymhellion CCERA.

3.328 Yn Senedd y DU yn 2021 daeth deiseb yn galw am wahardd gwerthu, defnyddio a chynhyrchu maglau dirwyn i law gyda thros 100k o lofnodion[41]. Ym mis Ionawr 2022 a chyn i'r ddeiseb gau, ymatebodd Defra 'Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod rhai pobl yn ystyried maglau'n fodd greulon a diangen o ddal anifeiliaid gwyllt a bydd yn galw am dystiolaeth ar ddefnyddio maglau', gan ychwanegu 'bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod ganddi'r wybodaeth ddiweddaraf un ar y mater hwn, a llywir ein barn gan yr ymatebion a ddaw'. [42]

3.329 Atseiniwyd yr alwad i wahardd maglau yng ngwledydd eraill Prydain Fawr. Canfu arolwg barn diweddar yn yr Alban - lle mae maglau yn cael eu rheoleiddio - fod 76 y cant o Albanwyr am wahardd maglau[43]. Gallai hynny fod wedi sbarduno Llywodraeth yr Alban i gyhoeddi ei hymrwymiad i gynnal adolygiad a fyddai'n cynnwys gwaharddiad fel un o'r opsiynau[44].

[39] Calls for Welsh Government to ban barbaric snares | League Against Cruel Sports
[40] Cafodd ei chau am fod Llywodraeth Cymru eisoes yn ystyried y pwnc.
[41] Sy'n golygu ei bod yn debygol o gael ei drafod yn Nhŷ'r Cyffredin
[42] https://petition.parliament.uk/petitions/600593
[43] 76% of Scots want to see a ban on the use of snares - OneKind
[44] Snares to trap animals could be banned due to illegal use | Scotland | The Times

### *Trapiau glud*

3.330 Mae trapiau glud yn cael eu hystyried yn greulon[45],[46], ac mae cymdeithasau lles anifeiliaid wedi bod yn galw ers tro am eu gwahardd. Cefnogwyd yr alwad gan aelodau Cymdeithas Filfeddygol Prydain a Chymdeithas Sŵolegol Filfeddygol Prydain sydd wedi tynnu sylw at ddulliau tebyg, megis calchu adar, sydd eisoes yn anghyfreithlon. Mae pryderon wedi'u codi nid yn unig mewn perthynas â'r anifeiliaid nad ydynt yn darged sy'n cael eu dal mewn trapiau glud ac yn dioddef anafiadau neu farwolaeth boenus, ond hefyd â'r rhywogaethau targed. Nid yw cnofilod – y cyfeirir atynt yn aml fel 'plâu' - bob amser yn cael cynnig yr un amddiffyniad rhag poen ac anaf mewn deddfwriaeth.

3.331 Er bod cnofilod yn byw yn agos aton ni a'u bod bob amser yn bryder sylweddol o ran iechyd pobl, mae pob anifail yn beth byw er hynny. Am hynny, mae galwadau i sicrhau lefel isaf o ddyngarwch wrth ddelio â phroblem cnofilod wedi bod yn tyfu. Mae trapiau glud yn anghydnaws â hynny.

3.332 Pasiwyd deddfwriaeth i wahardd defnyddio trapiau glud yn Lloegr ym mis Ebrill 2023 er y bydd rheolwyr pla proffesiynol wedi'u heithrio. Mae union fanylion yr eithriad hwn heb ei gyhoeddi eto, na chwaith sut y bydd y drwydded yn gweithio. Ni ddaw i rym tan wanwyn 2024. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd newydd gyhoeddi ei bwriad i gyflwyno gwaharddiad llwyr ar drapiau glud (dim eithriadau) pan ddaw cyfle deddfwriaethol. Daw hyn yn dilyn deiseb o dros 5,000 o lofnodion yn galw am waharddiad yn yr Alban.

3.333 Canfu pôl piniwn YouGov fod 68 y cant o'r bobl a holwyd eisiau gweld gwahardd trapiau glud gyda dim ond 9 y cant yn gwrthwynebu[47]. Mae deiseb ar Change.org wedi denu dros 75,000 o lofnodion[48]. Cafodd deiseb arall a gyflwynwyd i Senedd Cymru yn 2021 ei gwrthod ar sail gweithdrefnol am iddi

[45] Baker, S.E., Ayers, M., Beausoleil, N.J., Belmain, S.R., Berdoy, M., Buckle, A.P., Cagienard, C., Cowan, D., Fearn-Daglish, J., Goddard, P., Golledge, H.D.R., Mullineaux, E., Sharp, T., Simmons, A. and Schmolz, E. (2022) An assessment of animal welfare impacts in wild Norway rat (Rattus norvegicus) management. Animal Welfare 2022, (31) pp 51-68.
[46] Scottish Animal Welfare Commission: report on the use of rodent glue traps in Scotland www.gov.scot/publications/scottish-animal-welfare-commission-report-use-rodent-glue-traps-scotland/documents
[47] Humane Society International (HSI), 2015. Inhumane, Indiscriminate, Indefensible: The case for a UK ban on rodent glue traps. Available at: https://www.hsi.org/wp-content/uploads/assets/pdfs/hsi-glue-trap-report.pdf
[48] 'https://www.change.org/p/the-department-for-environment-food-and-rural-affairs-defra-ban-cruel-glue-traps-in-the-uk'

gyrraedd ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei bwriad i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd.

## Rhan 6 – CYFFREDINOL

### *Diben y Ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael:*

3.334 Mae'r Bil yn rhoi diffiniad o "amaethyddiaeth" a "gweithgareddau ategol". Maent yn gysyniadau canolog yng nghyd-destun y Bil. Diffinnir y termau hyn, at ddibenion y Bil, yn adrannau 51 a 52. Mae'r diffiniadau'n adlewyrchu ehangder ffermio yng Nghymru, gan gynnwys ffermio traddodiadol a modern yng Nghymru, tra'n sicrhau bod y sector yn parhau i arloesi gydag anogaeth a chefnogaeth Gweinidogion Cymru. Mae'r diffiniadau'n ceisio cyfleu'r ystod o arferion arloesol sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd yn ogystal ag edrych ymlaen at gamau y gall fod angen i'r diwydiant eu cymryd wrth iddo addasu i'r heriau sydd o'n blaenau.

### *Ystyr "amaethyddiaeth" a chyfeiriadau cysylltiedig:*

3.335 Mae'r diffiniad o "amaethyddiaeth" yn cynnwys yr ystod o weithgareddau amaethyddol y gallai Gweinidogion Cymru fod eisiau eu cefnogi, yn unol â'u pŵer i ddarparu cymorth. Mae hefyd wedi'i lunio yng nghyd-destun y ddyletswydd i Reoli Tir yn Gynaliadwy a'r swyddogaethau cyfatebol o fewn y Bil.

3.336 Hefyd o fewn y diffiniad y mae arferion a dulliau ffermio mwy modern, sy'n dangos bod ffermio'n esblygu'n gyson i adlewyrchu nid yn unig hinsawdd a thirwedd sy'n newid, ond hefyd datblygiadau yn y dechnoleg sy'n cynnal amaethyddiaeth, megis amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir. O ganlyniad, mae'r diffiniad yn cynnwys ystod eang o'r hyn y gellid ei ystyried yn ddulliau ffermio traddodiadol, yn ogystal â gweithgareddau ffermio newydd. Mae'r gweithgareddau hyn yn caniatáu i'r sector fod yn gynaliadwy, yn ystwyth ac yn arloesol o ran ei gyfraniad at gyflawni amcanion SLM.

3.337 Mae'r rhestr isod yn ehangu ar rannau'r diffiniad:

a) Rheoli a thrin gerddi, gan gynnwys garddwriaeth addurnol a gerddi marchnad (fel mathau ar arddwriaeth)

b) Ffermio cnydau âr ar gyfer cynhyrchu bwyd neu nwyddau amaethyddol, gan gynnwys defnyddio cnydau ar gyfer bio-ynni.

c) Cadw a bridio da byw ar gyfer cynhyrchu bwyd, diod, olewau, ffibrau neu ledr neu i bori tir.

d) Cadw anifeiliaid godro ar gyfer cynhyrchu cynhyrchion llaeth.

e) Amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir, sy'n tyfu planhigion mewn ecosystem gaeedig lle mae newidynnau amgylcheddol yn cael eu rheoli. Mae hyn yn amrywio o ddefnyddio polytwnelau i ddulliau ffermio fertigol.

3.338 Cyflwynwyd gwelliant y llywodraeth i gynnwys cyfeiriad at 'busnesau amaethyddol' yn adran 48(3) o'r Bil. Mae'r gwelliant hwn yn nodi'n glir bod angen dehongli cyfeiriadau yn y Bil at 'fusnesau amaethyddol' yn unol â diffiniad 'amaethyddiaeth' yn adran 51(1). Wrth ystyried a yw busnes penodol yn fusnes amaethyddol, bydd angen ystyried natur y busnes penodol ochr yn ochr â diffiniad amaethyddiaeth.

## *Ystyr "gweithgaredd ategol"*

3.339 Diffinnir "gweithgaredd ategol" yn adran 52 o'r Bil. Mae gweithgareddau ategol yn berthnasol yng nghyd-destun y ddyletswydd SLM, gan fod y ddyletswydd yn ymwneud (ymysg pethau eraill) ag arfer rhai o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â gweithgareddau ategol. Mae diffiniad "gweithgaredd ategol" yn adlewyrchu cwmpas y sector ochr yn ochr â'i weithgareddau craidd o gynhyrchu bwyd a nwyddau eraill ar dir amaethyddol. Disgrifir potensial Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth mewn cysylltiad â gweithgareddau ategol yn yr adran am y pŵer i ddarparu cymorth.

3.340 Mae'r diffiniad o "weithgaredd ategol" yn cael ei rannu'n weithredoedd amgylcheddol a busnes ac mae'n golygu:

a) gweithredu ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth mewn ffordd sy'n cynnal ac yn gwella gwytnwch ecosystemau, yn lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd ac yn creu a rheoli cynefinoedd.
b) gwerthu, marchnata, paratoi, pecynnu, prosesu neu ddosbarthu dosbarthu cynhyrchion sy'n deillio o amaethyddiaeth.

3.341 Mae'r gweithredoedd amgylcheddol sy'n rhan o'r diffiniad o "weithgaredd ategol" yn cynnwys y camau y gellir eu cymryd i helpu i gyflawni amcanion SLM ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth. Er nad yw'r camau hyn o reidrwydd yn cynhyrchu cynhyrchion amaethyddol eu hunain, maent yn cwmpasu llawer o'r camau ehangach y mae llawer o ffermwyr yng Nghymru eisoes yn eu cymryd. Gallai enghreifftiau gynnwys dulliau naturiol i amddiffyn rhag llifogydd, cynlluniau rheoli ynni a chreu ecosystemau fel banciau chwilod.

3.342 Mae'r gweithredoedd busnes sy'n ffurfio rhan o'r diffiniad yn cynnwys y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth ehangach a gall gynnwys gweithgareddau nad ydynt yn digwydd ar dir amaethyddol er enghraifft pecynnu bwyd, marchnata cynhyrchion neu ladd-dai. Trwy gynnwys y camau hyn o fewn y diffiniad o "weithgaredd ategol", caniateir cynorthwyo a gweithredu sydd o fudd i'r sector cyfan ac sy'n caniatáu dulliau arloesol a chydlynol mewn perthynas â chadwyni cyflenwi amaethyddol.

3.343 Mae'r diffiniad hwn hefyd yn caniatáu darparu cymorth i ochr gadwyn gyflenwi'r sector gan gydnabod, wrth geisio lleihau allyriadau, y bydd yn rhaid wrth fwy o effeithlonrwydd a diwydiant cadarn ynghyd â meddwl cydgysylltiedig i fynd i'r afael â'r hyn sy'n digwydd y tu hwnt i gât y fferm.

## ***Pŵer i ddiwygio***

3.344 Mae Adran 53 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniadau o "amaethyddiaeth" (Adran 51) a "gweithgaredd ategol" (adran 52), trwy reoliadau. Gellir defnyddio'r pŵer hwn i sicrhau bod y Bil yn gallu addasu er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn arferion amaethyddol o ganlyniad i newidiadau technolegol neu mewn dulliau rheoli tir yn y dyfodol.

3.345 Mae adran 53 hefyd yn cynnwys gwelliant i'r Bil sy'n disgrifio'r weithdrefn uwchgadarnhaol, sy'n darparu ar gyfer gofynion pellach lle gwneir rheoliadau sy'n newid y diffiniad o "amaethyddiaeth" neu "weithgaredd ategol". Mae'r weithdrefn yn ei

gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau yr ymddengys yn debygol y caiff y rheoliadau effaith arnynt, ar ddrafft o'r rheoliadau arfaethedig. Rhaid caniatáu o leiaf 12 wythnos ar gyfer cyflwyno sylwadau. Rhaid ystyried y sylwadau a rhaid cyhoeddi crynodeb o'r sylwadau.

3.346 Pan osodir y rheoliadau drafft gerbron y Senedd, rhaid eu cyhoeddi gyda datganiad sy'n nodi a oes unrhyw wahaniaethau rhwng y drafft yr ymgynghorwyd arno a'r drafft sy'n cael ei osod gerbron y Senedd. Lle ceir gwahaniaethau, rhaid i'r datganiad nodi manylion y gwahaniaethau hynny. Mae'r diwygiad yn darparu na chaiff y rheoliadau drafft eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd tan ar ôl i 40 diwrnod ddod i ben - cyfrifir y cyfnod hwn o ddiwrnod gosod y rheoliadau. Nid yw'r cyfnod yn cynnwys unrhyw adeg pan fydd y Senedd wedi'i diddymu neu pan fydd toriad os yw hynny am fwy na phedwar diwrnod.

# Pennod 4 Ymgynghori

4.1 Yn 'Diogelu Dyfodol Cymru[49]', amlinellodd Llywodraeth Cymru ei blaenoriaethau ar gyfer sicrhau ffyniant Cymru yn y dyfodol ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae ymadael â'r UE wedi golygu ymadael â Pholisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yr UE, a lansiwyd ym 1962.

4.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n helaeth ers 2017 ar ystod o opsiynau ar gyfer SLM, cymorth i ffermydd ar ôl yr UE, tenantiaethau amaethyddol, diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967, maglau a diwygio amaethyddiaeth.

4.3 Bu'r amcanion polisi a'r adolygiad o'r diwydiant ffermio yn Brexit a'n Tir50 a Ffermio Cynaliadwy a'n Tir51 yn ystyried yr heriau sy'n ein hwynebu wrth sicrhau dyfodol ffermio yng Nghymru a'r cyfleoedd i ddiwygio.

4.4 Adeiladodd *Papur Gwyn Amaeth (Cymru)*[52] ar y cynigion hyn gan roi cyfeiriad i'r Bil hwn ar gyfer un o'r diwygiadau mwyaf uchelgeisiol ac arwyddocaol i'r sector yn ein hoes. Y nod yw chwyldroi ein diwydiant ffermio i wireddu'n weledigaeth o Gymru gynaliadwy, ffyniannus a gwyrddach. Mae ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid ar gyfer rheoleiddio Trapiau Glud hefyd wedi digwydd.

4.5 Mae amcanion polisi a darpariaethau'r Bil hwn wedi cael eu llywio a'u llunio gan yr ymgynghoriadau hyn ac yn sgil ymgysylltu â rhanddeiliaid am y diwygiadau i Drwyddedau Cwympo Coed Ddeddf Coedwigaeth 1967 ac am wahardd maglau a thrapiau glud.


4.6 Oherwydd yr ymgynghori helaeth a gynhaliwyd eisoes ar y cynigion yn y Bil, a sesiynau ymgysylltu amrywiol â rhanddeiliaid, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ychwanegol ar y Bil drafft cyn ei gyflwyno i'r Senedd.

---

[49] Diogelu dyfodol Cymru | LLYW.CYMRU
[50] Brexit a'n tir: Sicrhau dyfodol ffermio yng Nghymru (llyw.cymru) (2018)
[51] Ffermio cynaliadwy a'n tir (llyw.cymru) (2019)
[52] Papur Gwyn Amaeth (Cymru) (llyw.cymru) (2020)

## Amserlen ymgynghori:

**Ffigur 1:** Amserlen ymgynghori ar bolisïau amaethyddiaeth, coedwigaeth, maglau a thrapiau glud yn y dyfodol.




### ***2017: Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy (SMNR) – Diwygio Deddf Coedwigaeth 1967***

4.7 Cafodd y ddarpariaeth i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 ei chynnig yn y lle cyntaf yn yr ymgynghoriad "Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy" a gynhaliwyd rhwng Mehefin a Medi 2017[53] . Derbyniwyd 128 o ymatebion i'r cynigion i alinio amodau trwyddedau cwympo coed â'r SMNR a

[53] Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy | LLYW.CYMRU

derbyniwyd 130 o ymatebion ar y gallu i ddiwygio neu ddirymu trwyddedau cwympo coed.

4.8 Roedd yr ymatebwyr ar y cyfan yn gefnogol i'r ddau gynnig. Ceir crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru[54].

4.9 Ond, roedd pryderon y gallai cwmpas yr amodau fod yn rhy eang gan arwain at ormod o ofynion oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru. Codwyd pryderon hefyd mewn perthynas â gallu CNC i gyflawni dyletswyddau ychwanegol gyda'i adnoddau presennol.

4.10 Ymgynghorwyd ar y bwriad i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i atodi amodau at drwyddedau cwympo coed, ac i ganiatáu diwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed ar ôl eu rhoi, fel rhan o Bapur Gwyn Amaeth (Cymru) a gynhaliwyd rhwng 16 Rhagfyr 2020 a 25 Mawrth 2021. Fodd bynnag, y tro hwn ni welwyd tueddiadau clir yn yr ymateb i'r cynnig i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967, oherwydd yn rhannol nifer fach yr ymatebion a nodai farn benodol ar hyn.

4.11 Cynhaliwyd ymgynghoriad arall â rhanddeiliaid ei gynnal drwy'r Grŵp Rhanddeiliaid Darpariaethau Coedwigaeth Bil Amaeth (Cymru) o dan oruchwyliaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru CNC sydd wedi helpu i lunio bwriad polisi Deddf Coedwigaeth 1967 a'r diwygiadau iddi.

4.12 Cadeiriwyd y grŵp rhanddeiliaid hwn gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth ysgrifenyddiaeth CNC a chafodd ei sefydlu i alluogi rhanddeiliaid a phartïon â diddordeb i roi sylwadau a mewnbwn i ddatblygiad y darpariaethau coedwigaeth.

4.13 Roedd y sefydliadau canlynol yn aelodau o'r grŵp: Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig, Confor (Cydffederasiwn y Diwydiannau Coedwigoedd), y Gymdeithas Frenhinol Er Gwarchod Adar (RSPB), Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Cymru, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Coed Cadw, FUW, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CLA (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad), CNC a Llywodraeth Cymru. Gwahoddwyd sefydliadau eraill ond nid oedd yn bosib iddynt ymaelodi.

---

54 rheoli-adnoddau-naturiol-crynodeb-o-ymatebion.pdf (llyw.cymru)

4.14 Bydd ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ar y cynigion yn parhau wrth i CNC ddatblygu canllawiau i baratoi staff mewnol a rhanddeiliaid allanol ar gyfer pan ddaw'r pwerau i rym. Bydd y canllawiau hyn yn seiliedig ar Egwyddorion Gweithredu a'r papur Dull sy'n rhan o ddogfennau ategol y Bil hwn.

### *2018: Brexit a'n Tir*

4.15 Cafodd ymgynghoriad cyntaf Llywodraeth Cymru ei gynnal rhwng Gorffennaf a Hydref 2018. Nododd Brexit a'n Tir nad oedd yr arian a roddwyd i ffermwyr drwy PAC yr UE wedi gwneud y sector yn wydn nac wedi'i alluogi i fynd i'r afael â'r heriau amgylcheddol sy'n ein hwynebu.

4.16 Cafwyd 12,203 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O'r ymatebion hyn, roedd 11,160 yn rhan o saith ymgyrch unigryw gan gynnwys gan yr Undebau Ffermio, World-wide Fund for Nature (WWF), yr RSPB a Ymddiriedolaeth Natur Cymru. Cafodd 1,043 o ymatebion unigol eu cyflwyno i'r ymgynghoriad.

4.17 Roedd y farn a fynegwyd gan ymatebwyr yn gryf ac yn eang. Yn gyffredinol, cododd ffermwyr bryderon am y cynigion ac roedd y grwpiau amgylcheddol o blaid y cynigion.

4.18 Ceir crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru[55]

### *2019: Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*

4.19 Cafodd Ffermio Cynaliadwy a'n Tir ei gynnal rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2019, yn seiliedig ar yr ymatebion i'n hymgynghoriad cyntaf, Brexit a'n Tir, y dadansoddiad o'r cynigion ar gyfer darparu cymorth yn y dyfodol a ddatblygwyd ynddo, a hefyd y cyd-destun a roddir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WFG) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

4.20 Ar sail yr ymatebion a ddaeth i law, penderfynodd Llywodraeth Cymru adolygu a newid y derminoleg i osgoi'r gamddealltwriaeth a brofwyd gyda Brexit a'n Tir. Mae'r fframwaith polisi arfaethedig, Rheoli Tir yn Gynaliadwy

[55] crynodeb-o-ymatebion-brexit.pdf (llyw.cymru)

(SLM), yn nodi cynigion ar sut y dylai'r Llywodraeth a ffermwyr weithio gyda'i gilydd i Reoli Tir yn Gynaliadwy, gan gydbwyso anghenion cenhedlaeth heddiw â'n rhwymedigaethau i'r nesaf, gan gynnwys ffermwyr Cymru yn y dyfodol.

4.21 Cafwyd dros 3,322 o ymatebion i'r ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir. O'r rhain, roedd 508 ohonynt yn ymatebion unigryw gan unigolion a sefydliadau, a chyflwynwyd 2,816 o ymatebion eraill fel rhan o ymgyrchoedd gan Undeb Amaethwyr Cymru (NFU), y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) a Ramblers Cymru.

4.22 Yn ôl y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir, roedd y mwyafrif yn cymeradwyo'r fframwaith polisi oedd yn cael ei gynnig fel y ffordd ymlaen.

4.23 Ceir crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru[56].

## *Ymgynghori pellach â ffermwyr*

4.24 Ar ôl Ffermio Cynaliadwy a'n Tir, gwnaethom lansio ymarfer cyd-ddylunio dros gyfnod o chwe mis, gan weithio'n uniongyrchol gyda ffermwyr a rhanddeiliaid i ystyried rhai agweddau ymarferol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) arfaethedig mewn ffordd na fyddai'n bosibl trwy fformat ymgynghori ysgrifenedig ffurfiol. Contractiwyd ymgynghorydd annibynnol i gynnal yr ymarferiad cyd-ddylunio, a chymerodd tua 2000 o ffermwyr ran ynddo. Gofynnwyd i ffermwyr am eu barn am sawl pwnc lefel uchel, fel rheoli cynefinoedd, cyfleoedd i ddatblygu ffermydd ac iechyd anifeiliaid i'n helpu i ddatblygu'r SFS. Er enghraifft, dangosodd data o'r arolwg a thrafodaethau un ac un bod ffermwyr yn barod yn fras i dderbyn y syniad eu bod yn darparu bwyd a nwyddau amgylcheddol ar y tir, cyn belled â bod y naill yn ategu'r llall. Casglwyd hefyd ymatebion cyffredinol, gan gynnwys pwysigrwydd bod system o daliadau cymorth yn helpur ffermydd teuluol a'r daliadau mwy fel ei gilydd a phwysigrwydd gweithio gyda ffermwyr wrth ddatblygu'r cynllun. Ers hynny, rydym wedi lansio'r ail gam cyd-ddylunio sy'n casglu barn am gynigion polisi manylach a pharhau â'n hymrwymiad i ddatblygu'r SFS gyda ffermwyr.

[56] Cynigion diwygiedig ar gyfer cefnogi ffermwyr Cymru ar ôl Brexit | LLYW.CYMRU

4.25 Ceir crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru.[57] Mae cylch arall o gydlunio bron wedi'i gwblhau ac fe'i cyhoeddir yn ddiweddarach eleni.

### ***2019: Tenantiaethau Amaethyddol***

4.26 Rhwng Ebrill a Gorffennaf 2019 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad hefyd ar fwriad y polisi ar Denantiaethau Amaethyddol, hynny fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus ehangach ar Ddiwygio Tenantiaeth Amaethyddol[58]. Tynnwyd sylw amrywiaeth eang o randdeiliaid oedd â diddordeb mewn amaethyddiaeth, cymunedau gwledig a'r amgylchedd naturiol at yr ymgynghoriad. Derbyniwyd cyfanswm o 33 ymateb gan denantiaid amaethyddol, landlordiaid a rhanddeiliaid.

4.27 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ddiwygio Deddf 1986. Nodwyd gan lawer o'r rheini oedd yn cytuno bod cymalau cyfyngol yn broblem arbennig i denantiaid Deddf 1986, gan eu rhwystro rhag bodloni safonau rheoleiddio, arallgyfeirio ac ymuno â chynlluniau rheoli tir.

4.28 Ceir crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru[59].

### ***2020/2021: Papur Gwyn Amaeth (Cymru)***

4.29 Mewn ymateb i'r adborth ar yr ymgynghoriadau a restrir uchod, mireiniwyd y cynigion gan Lywodraeth Cymru ac ymgynghorwyd arnynt. Cyhoeddwyd **Papur Gwyn Amaeth (Cymru)** ar 16 Rhagfyr 2020. Disgrifiai ac adeiladai ar yr uchelgais i ddiwygio'r ffordd y darperir cymorth gan Lywodraeth Cymru i amaethyddiaeth yn y dyfodol a'n bwriad i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn y Senedd, gan ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer.

a) Rheoli Tir yn Gynaliadwy: polisi a chymorth yn y dyfodol;
b) Cymorth i amaethyddiaeth yn y dyfodol;
c) Tenantiaethau Amaethyddol;
d) Diwygio rheoliadau;

[57] Cyd-ddylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i Gymru (llyw.cymru)
[58] Diwygio tenantiaethau amaethyddol | LLYW.CYMRU
[59] Diwygio tenantiaethau amaethyddol | LLYW.CYMRU

e) Cymorth i ddiwydiant a'r gadwyn gyflenwi yn y dyfodol;

f) Coedwigaeth a rheoli coetiroedd;

g) Gwella iechyd a lles anifeiliaid;

h) Rheoleiddio'r defnydd o Faglau;

i) Monitro gwell drwy ddefnyddio data a thechnoleg o bell yn effeithiol; a

j) Disodli rhai pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Amaeth (DU) 2020

4.30 Daeth yr ymgynghoriad 12 wythnos i ben ar 26 Mawrth 2021.

4.31 Cyhoeddwyd dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Ceir crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru.[60]

4.32 Derbyniwyd 232 o ymatebion unigol (a nodwyd yn Atodiad 3 o'r Crynodeb o'r ymatebion) a 887 o ymatebion fel rhan o ymgyrch a drefnwyd gan y League Against Cruel Sports (LACS).

4.33 Daeth dadansoddiad annibynnol o Bapur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) i'r casgliad fod ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan tuag at y cynigion ar gyfer cyflwyno SLM. Ond amod i hynny oedd yr angen am fwy o fanylion, yn enwedig ynghylch y cymorth i amaethyddiaeth yn y dyfodol.

4.34 Ni welwyd tueddiadau clir gan y rhai a ymatebodd i’r cynnig ar denantiaethau amaethyddol a anelai at gael gwared ar rwystrau canfyddedig i wella cynhyrchiant, newid strwythurol ac ymuno â chynllluniau cymorth i ffermydd yn y dyfodol.

4.35 Roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd i’r cynnig o blaid estyn y ddarpariaeth i landlordiaid, gan nodi tegwch fel ystyriaeth allweddol. Roedd hyn yn wahanol i’n hymgynghoriad blaenorol ar ddiwygio tenantiaethau.

4.36 Ni ddaeth digon o dystiolaeth i’r amlwg i gefnogi estyn y ddarpariaeth i denantiaid a landlordiaid Busnesau Fferm. Felly, ni ystyriwyd ar y pryd bod angen gwelliannau pellach i'r ddarpariaeth ddrafft yr ymgynghorwyd arni yn y lle cyntaf.

[60] Bil Amaethyddiaeth (Cymru) | LLYW.CYMRU

4.37 Cafodd cynigion i ddiwygio deddfwriaeth i roi pwerau i Weinidogion yng Nghymru i reoleiddio maglau eu cynnwys ym Mhapur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru).

4.38 Ar y cyfan, roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn teimlo y dylid gwahardd defnyddio maglau'n llwyr. Mynegwyd barn gref ynglŷn â lles anifeiliaid. Roedd rhai'n galw am ragor o reolaeth neu reoleiddio ond roedd y nifer fwyaf - nifer ohonynt wedi'u trefnu trwy ymgyrch LACS - yn galw am waharddiad llwyr.

4.39 O ganlyniad i'r ymgynghoriad a'r gwaith a wnaed ar y Cod Arfer Orau o'r blaen[61], cafodd ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i wahardd maglau i ddal bywyd gwyllt ei gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021.

4.40 Ceir crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru[62].

4.41 Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn gwnaed llawer o waith i ddiffinio cwmpas ac amserlen y Bil. Cytunodd gweinidogion y dylid cyfyngu cwmpas y Bil i gyflwyno'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'r pwerau i ddarparu cymorth yn y dyfodol, diwygio Trwyddedau Cwympo Coed Deddf Coedwigaeth 1967, Gwahardd Maglau a Thrapiau Glud a disodli'r pwerau ag iddynt derfyn amser yn Atodlen 5 (a darpariaethau perthnasol eraill) Deddf Amaethyddiaeth 2020.

## *2021: Trapiau glud*

4.42 Yn dilyn awgrymiadau gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ei bod yn ystyried deddfu i reoleiddio trapiau glud yn Lloegr, ac wrth adolygu'r opsiynau yng Nghymru, nodwyd cyfle i Fil Amaethyddiaeth (Cymru) ddiwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Bu swyddogion yn trafod â rhanddeiliaid rhwng Tachwedd 2021 ac Ionawr 2022. Gofynnwyd i'r diwydiant rheoli plâu, mudiadau lles anifeiliaid ac awdurdodau lleol am eu hymateb er mwyn deall maint y defnydd; effaith gwaharddiad a'r gefnogaeth iddo; ac unrhyw dystiolaeth arall o blaid neu yn erbyn gwahardd trapiau glud.

[61] Côd ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoaid | LLYW.CYMRUCode of best practice on the use of snares in fox control (GOV.WALES)
[62] Papur Gwyn Amaeth (Cymru) crynodeb o'r ymatebion summary of responses (llyw.cymru)

4.43 Roedd y ddau gorff rheoli pla mawr yn y DU, Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain (BPCA) a Chymdeithas Genedlaethol y Technegwyr Plâu (NPTA) wedi anfon ymatebion[63]. Mae'r ddau sefydliad yn llwyr gefnogi gwahardd y cyhoedd (gan gynnwys rheolwyr plâu amatur) rhag defnyddio trapiau glud. Ond maent wedi galw am eithriad ar gyfer rheolwyr plâu proffesiynol.

4.44 Sail eu barn yw y gall trapiau glud fod yn ddull cyflymach mewn sefyllfaoedd lle mae'r bygythiad i iechyd y cyhoedd yn fwy difrifol gan ddadlau nad yw cnofilod bob amser yn hawdd i'w dal a bod gwenwyn yn gallu bod yn aneffeithiol weithiau. Fodd bynnag, mae'r ddwy gymdeithas yn cydnabod y gall yr amgylchiadau hyn fod yn brin a bod yn well gan reolwyr plâu ddefnyddio dulliau eraill pan fo hynny'n bosibl[64].

4.45 Cafwyd ymatebion gan chwech o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid a dargedwyd. O'r rhain, dywedodd dau nad ydyn nhw byth yn defnyddio trapiau glud, a dim ond dau sy'n eu defnyddio mewn amgylchiadau hynod brin. Yn ôl un awdurdod lleol, roedd trapiau glud yn cael eu defnyddio lawer llai nag yn 1 y cant o'r holl ddigwyddiadau rheoli plâu ac roedd un arall heb eu defnyddio yn y 12 mis diwethaf

4.46 Cododd un ymatebydd bryderon sylweddol ynghylch gwahardd trapiau glud, gan gyfeirio at amgylchiadau penodol megis cartref person bregus â phroblemau symud, neu ysbyty, neu gegin bwyty - lle ystyrir mai trap glud yw'r ffordd gyflymaf o ddal cnofilod.

4.47 Fodd bynnag, dywedodd dau awdurdod lleol nad ydynt byth yn defnyddio trapiau glud i ddal fertebratau gan eu bod yn eu hystyried yn greulon, a'u bod felly yn defnyddio dulliau amgen i reoli plâu bob amser, sy'n awgrymu ei bod yn gwbl bosibl defnyddio dulliau amgen i ddal cnofilod. Dywedodd un awdurdod lleol mewn dinas sydd yn defnyddio trapiau glud ambell waith nad yw'n

---

[63] Ceir crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru i randdeiliaid a'r alwad am dystiolaeth am drapiau glud

[64] Cyfrifodd y BPCA, ar sail sampl o 404 o aelodau sy'n defnyddio byrddau glud, bod 6 y cant yn eu defnyddio'n ddyddiol, 30 y cant bob mis, 18 y cant bob chwarter, 16 y cant bob blwyddyn, 3 y cant lai nag unwaith y flwyddyn a 3 y cant byth. Nid oedd gwybodaeth ynghylch faint o'r ymatebwyr sy'n gweithredu yng Nghymru - sy'n fater perthnasol o gofio bod problemau llygod yn fwy tebygol mewn ardaloedd poblog.

rhagweld effeithiau mawr pe bai trapiau glud yn cael eu gwahardd a’i fod yn wir yn cefnogi’r cynnig.

4.48 Dywedwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad nad yw rheolwyr plâu Awdurdodau Lleol fel arfer yn gadael y safle lle gosodir trap glud nes bod yr anifail yn cael ei ddal a'i ladd yn gyflym i leihau dioddefaint er nad oedd hyn yn arfer ymhlith y ddwy gymdeithas rheoli plâu (cyfeirion nhw at y gofyn i ddychwelyd i drap ddim mwy na 12 awr ar ôl ei osod[65]).

4.49 Ni wnaeth gwasanaethau rheoli plâu sydd ohonynt eu hunain wedi gwahardd defnyddio trapiau glud sôn bod problemau wedi codi – maen nhw’n gallu dal plâu ym mhob sefyllfa. Dylid nodi na thrafodwyd y sbardunau economaidd yn yr ymatebion – sef pa mor gyflym y mae’r anifail yn cael ei ddal neu pa mor aml y mae angen dychwelyd i roi cynnig ar wahanol ddulliau. Ni chyflwynwyd chwaith unrhyw dystiolaeth o effeithiau ariannol.

## *Ymgynghori Pellach ar Gymorth yn y Dyfodol*

4.50 Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn ac yn deall yr alwad yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Amaeth am ragor o fanylion am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig (SFS) a’r cynlluniau pontio er mwyn rhoi amser i'r diwydiant baratoi ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.

4.51 Ym mis Gorffennaf 2022, yn barod ar gyfer Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru, cyhoeddwyd amlinelliad o’r cynigion ar gyfer yr SFS[66] a lansiwyd yr ail gam cyd-ddylunio. Mae'r broses hon yn caniatáu i ni drafod y cynigion â ffermwyr mewn ffordd ystyrlon a bydd yn dangos ymhellach i'r Senedd sut y bwriedir defnyddio'r pwerau sydd yn y Bil.

4.52 Yn 2023, byddwn yn ymgynghori ar ein cynigion terfynol ar gyfer yr SFS. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar ein cynlluniau manwl ar gyfer y cyfnod pontio gan gynnwys y taliadau sefydlogi a sut y byddwn yn lleihau'r taliadau hyn dros

[65] Nid yw'r 12 awr a nodwyd yn ofyn cyfreithiol ond daw o god ymarfer y diwydiant a ddiweddarwyd yn 2017 gan y Gynghrair Rheoli Plâu (sy'n cynnwys y BPCA, NPTA a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd). Mae'r Cod yn nodi ystod o safonau gan gynnwys bod trapiau glud yn cael eu harchwilio o fewn 12 awr ar ôl eu gosod, neu o leiaf cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

[66] Cynllun Ffermio Cynaliadwy | LLYW.CYMRU

y cyfnod pontio. Byddwn ni hefyd yn ymgynghori ar ein cynlluniau i gymell ffermwyr i ymuno â'r Cynllun. Mae dadansoddiad cychwynnol o’r manteision/costau wedi'i gynnal ac fe'i ystyrir yn rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddio (RIA) sy'n cyd-fynd â'r Bil.

### *Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Y Gweithgor Tenantiaethau*

4.53 Ym mis Tachwedd 2022 sefydlodd Llywodraeth Cymru Weithgor Tenantiaeth gyda chynrychiolwyr o'r sector yn aelodau ohono i ystyried y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) bras. Daeth y grŵp i nifer o gasgliadau ar ddyluniad y cynllun a chododd nifer o bryderon am rai agweddau ar ddeddfwriaeth tenantiaethau amaethyddol am y gallent ei gwneud yn anodd i rai ffermwyr tenant ymuno â’r cynllun. Yn eu plith yr oedd y diffiniad o amaethyddiaeth yn Neddfau 1986 a 1995, rheolau hwsmonaeth dda a darpariaethau i ddatrys anghydfodau Tenantiaethau Busnes Fferm.

4.54 Cafodd adborth y gweithgor ei ystyried yn ofalus gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu gwelliannau cam 3, ac wedi hynny cyflwynodd welliant i’r darpariaethau datrys anghydfodau ar gyfer FBTs ar sail cryfder y dadleuon a gyflwynwyd gan y grŵp.

## *Pennod 5 Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth*

5.1. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi penderfyniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) yn nodi, mewn perthynas â'r rhain:

a) y person neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo;
b) sut y mae arfer y pŵer;
c) priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
d) y weithdrefn a ddefnyddir; hynny yw, ai "cadarnhaol", "negyddol", ynteu "dim gweithdrefn", a’r rhesymau pam y weithdrefn honno sy’n briodol.

5.2. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth lle ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad pan fydd y cynigion wedi'u ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Amaethyddiaeth (Cymru)**

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adroddiadau rheoli tir yn gynaliadwy – Adran 6(10) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 6(9) sy'n pennu cyfnodau adrodd yr adroddiadau SLM.<br><br>Mae gofyn i Weinidogion Cymru baratoi adroddiad ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan nodi eu hasesiad o'r cynnydd at gyflawni amcanion SLM (adran 6(1)). Mae hyn yn cynnwys adroddiadau ar y cynnydd mewn perthynas â dangosyddion a thargedau dros y cyfnod adrodd (adran 6(2) i (6)). Rhaid cyhoeddi'r adroddiad a'i osod gerbron y Senedd ddim mwy na 12 mis ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd (adran 6(8)). Y cyfnod adrodd yw (a) yn achos yr adroddiad cyntaf, y cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod y daw adran 2 (dyletswydd Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r amcanion) i rym gan orffen ar 31 Rhagfyr 2025; (b) yn achos yr adroddiadau wedi hynny, cyfnodau dilynol o 5 mlynedd.<br>Mae'r pŵer i newid y cyfnod adrodd yn rhoi hyblygrwydd rhag ofn y bydd angen newid y cyfnod adrodd i ystyried blaenoriaethau sy'n newid | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Mae darpariaethau adrodd SLM yn fecanwaith pwysig i asesu'r modd y cyflawnir y polisi SLM ac ar gyfer atebolrwydd a chraffu.<br>Gallai'r rheoliadau wella'r Bil (adran 6(9)) a bydd y weithdrefn gadarnhaol yn rhoi cyfle priodol i graffu ac i sicrhau atebolrwydd petai Gweinidogion Cymru yn penderfynu arfer y pŵer i wneud rheoliadau er mwyn diwygio'r cyfnod adrodd ar gyfer adroddiadau SLM. |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | a/neu newid yng nghyfnod adrodd y pŵer darparu cymorth.<br>Mae sicrhau bod cyfnod adrodd y pŵer i ddarparu cymorth a chyfnod adrodd SLM yn cydamseru yn gwneud y ddau adroddiad yn fwy effeithiol gan y bydd gwybodaeth yn yr adroddiad pŵer i ddarparu cymorth yn debygol o ymddangos yn yr adroddiad SLM. | | |
| Y Pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth -<br>Adran 8(4)(a) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu, drwy gyfrwng y rheoliadau, rhagor o ddibenion at y rhestr o ddibenion y pŵer i ddarparu cymorth. Yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ychwanegu at ddibenion y pŵer i ddarparu cymorth a nodir yn adran 8(2). Nid yw'r rhestr honno'n gynhwysfawr, ond mae'n nodi’r dibenion y gellir darparu cymorth ar eu cyfer neu mewn cysylltiad â nhw. Efallai y bydd angen diwygio hyn yn y dyfodol wrth i flaenoriaethau newid ac wrth asesu'r dibenion fel y’u nodwyd ar hyn o bryd. | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Gallai'r rheoliadau hyn ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn cysylltiad â dibenion y pŵer i ddarparu cymorth. Felly, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol. Mae’r dibenion yn disgrifio blaenoriaethau’r taliadau o dan y pŵer i ddarparu cymorth a bydd unrhyw newidiadau (ychwanegu, dileu neu addasu cofnodion) yn cael effaith ar ddyluniad y cynllun a'r disgwyliadau ar aelodau'r cynllun. O'r herwydd mae'n angenrheidiol bod unrhyw newidiadau yn cael eu hystyried a bod cyfle i’w herio. |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth - Adran 8(4)(b) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru ddileu diben o'r rhestr o ddibenion y pŵer i ddarparu cymorth. Bydd yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru i ddileu diben a nodir yn adran 8(2) drwy gyfrwng rheoliadau. Gellir ystyried y pŵer hwn yn briodol pe bai'r dibenion ar gyfer darparu cymorth yn y dyfodol yn newid. Gweler uchod (Adran 8(4)(a) am fwy o fanylion). | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Gallai'r rheoliadau hyn ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn cysylltiad â dibenion y Pŵer i ddarparu cymorth. Felly, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol. Gweler uchod (Adran 8 is-adran (4)(a) am ragor o fanylion). |
| Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth - Adran 8 (4)(c) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru newid disgrifiad o ddiben yn y rhestr o ddibenion y pŵer i ddarparu cymorth. Bydd yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru newid disgrifiad o ddibenion drwy reoliadau. Gellir ystyried bod y pŵer hwn yn briodol pe bai'r dibenion ar gyfer darparu cymorth yn y dyfodol yn newid. Gweler uchod (Adran 8 (4)(a) am fwy o fanylion). | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Gallai'r rheoliadau hyn ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn cysylltiad â dibenion y pŵer i ddarparu cymorth. Felly ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol. Gweler uchod (Adran 8 is-adran (4)(a) am ragor o fanylion). |
| Pŵer i wneud darpariaeth am gyhoeddi gwybodaeth am gymorth – Adran 10(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â chyhoeddi gwybodaeth am gymorth sydd yn cael neu wedi cael ei ddarparu. Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer pennu gwybodaeth gan gynnwys ynghylch derbynnydd cymorth, faint o gymorth | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Gall y pŵer gynnwys cyhoeddi data sy'n ymwneud â busnesau ac unigolion sy'n derbyn cymorth o dan y pŵer i ddarparu cymorth. Mae'r pŵer hefyd yn bellgyrhaeddol ei gwmpas. Oherwydd yr angen am dryloywder wrth |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | a ddarperir, a dibenion unrhyw gymorth a ddarperir.<br><br>Caiff rheoliadau o dan y pŵer hwn osod gofyniad ar unrhyw berson, gan gynnwys Gweinidogion Cymru. | | ddefnyddio arian cyhoeddus teimlir bod y weithdrefn gadarnhaol, a'i lefel uchel o graffu, yn briodol. Mae gwybodaeth hefyd wedi'i diogelu o dan GDPR. |
| Pŵer i wneud darpariaeth i wirio am gymhwysedd ar gyfer cymorth ac ati – Adran 12(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer sicrhau bod y meini prawf cymhwysedd am gymorth wedi'u bodloni, a bod mesurau cydymffurfio a gorfodi ar waith. Caiff y pŵer hwn roi pwerau mynediad, atal cymorth ac adennill cymorth sydd eisoes wedi ei dalu.<br><br>Ni chaiff rheoliadau o dan y pŵer hwn awdurdodi mynediad i annedd breifat heb warant gan ynad heddwch. | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Oherwydd effaith eang y pwerau hyn a'r angen iddynt gael eu cyfiawnhau a bod yn briodol mewn perthynas â'r hyn y maent yn ei sefydlu (cymhwysedd am daliadau a chydymffurfio ag amodau'r cymorth) teimlir bod y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn rhoi digon o sicrwydd i sicrhau bod y pŵer yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn deg. |
| Adroddiad Effaith – Adran 14(7) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio cyfnod adrodd, is-adran (6), yr Adroddiad Effaith. Yn achos yr Adroddiad Effaith cyntaf, mae'r "cyfnod adrodd" yn golygu'r cyfnod sy'n dechrau'r diwrnod y daw adran 8 i rym ac yn gorffen ar 31 Rhagfyr 2029. O ran adroddiadau effaith dilynol, mae'r cyfnodau adrodd wedi hynny bob pum mlynedd. | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Pennir cyfnod adrodd ar hyn o bryd o bum mlynedd. Os na fydd y cyfnod adrodd hwn bellach yn addas, gellir ei ddiwygio, ond dylid ceisio cyd-fynd â chyfnod adrodd SLM. Gellid newid y cyfnod adrodd os yw'r angen yn codi er mwyn cyd-fynd â chyfnodau contract (SFS). Mae'r adroddiad effaith hefyd yn darparu tryloywder ac |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae cyfnod adrodd yr Adroddiad Effaith yn cyd-fynd â chyfnod adrodd yr adroddiad SLM. | | atebolrwydd ar gyfer defnyddio arian cyhoeddus. Bydd y weithdrefn gadarnhaol yn darparu digon o lwybrau ar gyfer craffu priodol os caiff y pŵer hwn ei arfer. |
| Pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r BPS – Adran 16(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Dyma bŵer i addasu'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r cynllun taliad sylfaenol. Mae'n bŵer eang, heb gysylltiad â diben penodol. | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Mater technegol / gweithdrefnol yw hwn yn bennaf, ac ni chaiff ei ddefnyddio ond i newid rheolau manwl y cynllun a geir yng nghyfraith yr UE a ddargedwir. |
| Pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin – Adran 17(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Dyma bŵer i newid y modd y caiff y PAC ei ariannu, ei reoli a'i fonitro, i ddarparu ar gyfer unrhyw newid sydd ei angen ar gyfer cymorth i'r dyfodol. | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Mater technegol / gweithdrefnol yw hwn yn bennaf, ac ni chaiff ei ddefnyddio ond i newid rheolau manwl cynllun a geir yng nghyfraith yr UE a ddargedwir. |
| Pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer gwenynyddiaeth – Adran 18(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Dyma bŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer gwenynyddiaeth. | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Mae angen y pŵer hwn i newid y cynllun ar gyfer gwenynwyr ac i addasu i newidiadau er mwyn cynorthwyo gwenynyddiaeth. |
| Pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bydd yn caniatáu addasu'r ddeddfwriaeth ar ddatblygu gwledig. Y bwriad yw bod datblygu gwledig yn parhau o leiaf am y tymor byr a | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Mater technegol / gweithdrefnol yw hwn yn bennaf, ac ni chaiff ei ddefnyddio ond i newid rheolau manwl cynllun a geir |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| gwledig – Adran 19(1) | | | bydd ei angen yn ystod y cyfnod pontio. | | yng nghyfraith yr UE a ddargedwir. |
| Pŵer i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyriad yn y farchnad gyhoeddus a chymorth ar gyfer storio preifat – Adran 23 is-adran (1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer i wneud rheoliadau i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyriad yn y farchnad gyhoeddus a chymorth ar gyfer storio preifat (PIPSA) gan gynnwys cael newid y cynnyrch amaethyddol sy'n gymwys am ymyriad yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat. | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Bydd unrhyw newidiadau yn rhai technegol/gweithdrefnol eu natur yn bennaf ac ni chânt eu defnyddio ond pan fydd angen newid y manylion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir. |
| Cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth: gofyniad i ddarparu gwybodaeth – Adran 25 is-adran (2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ei gwneud yn ofynnol i berson yn y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth neu sydd â chysylltiad agos â hi, i ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig ag unrhyw rai o weithgareddau'r person sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi i'r graddau bod y gweithgareddau hynny'n digwydd yng Nghymru. | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Mae posibilrwydd y gallai ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth roi baich ar yr unigolyn hwnnw a bydd angen ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys yr angen i gasglu'r wybodaeth a'i defnyddio. Gwelir bod angen y weithdrefn gadarnhaol. |
| Gweithgaredd perthnasol: gofyniad i ddarparu gwybodaeth Adran 27 is-adran (2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gwneud gweithgaredd berthnasol (nad yw'n berson yn y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth neu sydd â chysylltiad agos â hi) i ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd i'r graddau bod y gweithgaredd yn digwydd yng Nghymru. | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Mae posibilrwydd y gallai ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth roi baich ar yr unigolyn hwnnw a bydd angen ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys yr angen i gasglu'r wybodaeth a'i defnyddio. Gwelir bod angen y weithdrefn gadarnhaol. |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Gorfodi gofynion gwybodaeth – Adran 32 is-adran (1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi gofyniad i ddarparu gwybodaeth. | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Canlyniad posibl y pŵer yw y caiff cosb ariannol ei rhoi ar berson am beidio â chydymffurfio. Gwelir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol er mwyn sicrhau bod modd craffu ar y defnydd o’r pŵer hwn |
| Safonau marchnata – Adran 34 is-adran (1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Y pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch safonau marchnata sy’n ymwneud â chynhyrchion amaethyddol a restrir yn Atodlen 1, y bydd yn rhaid iddynt gydymffurfio â nhw, ac y gellir eu gorfodi os na fydd cydymffurfio. | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Bydd y darpariaethau ynghylch safonau marchnata yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid y safonau ar gyfer y cynnyrch rhestredig sy’n cael eu marchnata yng Nghymru er mwyn gallu moderneiddio, i gyd-fynd â'r sector domestig orau, ac i gyd-fynd â newidiadau mewn mannau eraill yn y DU.<br><br>Mae angen y weithdrefn gadarnhaol am fod y darpariaethau gorfodi’n caniatáu pŵer mynediad. |
| Safonau Marchnata – Adran 34 is-adran (6) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i newid Atodlen 1 sy’n rhestru cynnyrch amaethyddol ac Adran 32 i gyfrif am newidiadau/datblygiadau yn y maes yn y dyfodol. | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Byddai’r rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Felly mae’r weithdrefn penderfynu gadarnhaol yn briodol |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Dosbarthu Carcasau – Adran 35 is-adran (1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaethau ynghylch dosbarthu, adnabod a chyflwyno carcasau gan ladd-dai yng Nghymru. Byddai'n eu galluogi i'w haddasu er lles y sector. Bydd yn caniatáu hefyd i Weinidogion Cymru orfodi'r darpariaethau hyn. | Gweithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol | Mae angen y weithdrefn gadarnhaol gan fod y darpariaethau gorfodi'n caniatáu'r pŵer mynediad. |
| Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, drosiannol etc. – Adran 49(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r rheoliadau'n briodol i sicrhau, pan fo angen diwygio deddfwriaeth arall er mwyn rhoi'r Bil hwn ar waith yn llawn, nad oes angen deddfwriaeth sylfaenol arall. | Gweithdrefn Penderfyniad Negyddol | Os nad yw'r rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, bernir bod y weithdrefn negyddol yn briodol. |
| Pŵer i ddiwygio adrannau 51 a 52 – Adran 53 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio adran 51 (ystyr "amaethyddiaeth" a chyfeiriadau cysylltiedig) ac adran 52 (ystyr "gweithgaredd ategol") trwy reoliadau. Mae'r pŵer hwn yn sicrhau y gellir diwygio'r diffiniadau i adlewyrchu unrhyw newidiadau y gall fod eu hangen yn y dyfodol ac i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben. | Gweithdrefn Penderfyniad Uwchgadarnhaol | Gallai'r rheoliadau hyn ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, ac yn benodol, dau ddiffiniad sydd wrth wraidd y Bil.<br>Ystyrir felly bod y weithdrefn uwchgadarnhaol yn briodol |

# *Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol*

## Pennod 6 - Crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

## Cyflwyniad

6.1. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) wedi’i gwblhau ar gyfer y Bil, ac mae’n dilyn isod.

6.2. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy’n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

6.3. Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd. Mae'r tabl wedi’i ddylunio i gyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

<table>
<tr><td colspan="3">Y Bil Amaethyddiaeth</td></tr>
<tr><td colspan="3">Y dewis a ffefrir: Disgrifiad byr o’r dewis a ffefrir, gan gynnwys ‘cyfeiriad’ at y tudalennau perthnasol yn yr RIA.<br>Cymorth y Dyfodol: Opsiwn 3 – Deddfu i gyflwyno cymorth sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) (Y Dewis a Ffefrir)<br>Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol: Opsiwn 2 – Cyflwyno pwerau Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol yn y Bil<br>Tenantiaethau Amaethyddol: Opsiwn 3 - Diwygio Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995<br>Safonau Marchnata: Opsiwn 2 – Cyflwyno pwerau Safonau Marchnata yn y Bil<br>Dosbarthu Carcasau: Opsiwn 2 – Cyflwyno pwerau Categoreiddio Carcasau yn y Bil<br>Coedwigaeth: Opsiwn 2 – Ychwanegu Amodau Amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed a galluogi i drwyddedau cwympo coed gael eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu ar ôl eu caniatáu.<br>Maglau a Thrapiau Glud: Opsiwn 3 – Gwahardd y defnydd o faglau a thrapiau glud o dan unrhyw amgylchiadau.</td></tr>
<tr><td>Cam: Cyflwyniad</td><td>Cyfnod arfarnu: 2022 - 2050</td><td>Blwyddyn sylfaen Pris:2020</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Cost Cyfanswm: £9,101,644,256**<br>**Gwerth presennol: £ 6,063,931,474** | **Cyfanswm Manteision Cyfanswm: £ Heb ei Feintioli**<br>**Gwerth presennol: £ Heb ei Feintioli** | **Gwerth Presennol Net (NPV): £-6,063,901,474** |

## Costau gweinyddol

**Costau:**
**Cymorth yn y Dyfodol:** Amcangyfrifir bod y costau gweinyddol yn Opsiwn 3 (deddfu i sefydlu Cynllun SLM yn y dyfodol) £31.2 miliwn yn uwch nag o dan Opsiwn 1 (cymorth yn dod i ben erbyn diwedd 2024) a £5.8 miliwn yn uwch nag o dan Opsiwn 2 (cadw'r sefyllfa bresennol). Mae hyn yn bennaf gan nad oes taliadau'n cael eu gwneud i ffermwyr o dan opsiwn 1, sy'n arwain at brin unrhyw gostau gweinyddol. Mae gan opsiwn 3 hefyd gost drosiannol o system TGCh newydd y gellir ei rhannu'n £19.3 miliwn o gostau cyfalaf ac £16.2 miliwn o gostau galluogi. Mae'r costau hyn a ddefnyddir yn y dadansoddiad wedi'u rhagdybio a bydd y gwir gost yn ddibynnol ar ddyluniad terfynol y cynllun.

**Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol:** Mae cyfrifo costau ar gyfer y cynnig hwn yn amrywio gan mai natur y pwerau arfaethedig hyn yw hwyluso ymateb i argyfwng. Ni allwn wybod pryd y bydd argyfwng yn digwydd, nac ar ba raddfa, felly bydd costau yn amrywio gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Mewn cynllun i gefnogi’r sector llaeth, a lansiwyd yn 2020 gan ddefnyddio pwerau tebyg i’r rhain, talwyd cyfanswm cyfwerth â £1,182,000 i ffermwyr ym mhrisiau 2022. Yn yr amgylchiadau hyn, dim ond rhan benodol o’r sector llaeth a gafodd ei heffeithio, felly mae’n bosibl y bydd argyfyngau eraill angen cyllideb fwy ar gyfer taliadau os ydynt yn effeithio ar sector cyfan.

**Tenantiaethau Amaethyddol:** Disgwylir y bydd cyfanswm y gost i fusnesau rhwng £172,000 (Achos Gorau) a £334,000 (Achos Gwaethaf) y flwyddyn o'i gychwyn a’i weithredu drwy is-ddeddfwriaeth**.** Mae'r costau hyn yn gysylltiedig â chyflafareddu; am ragor o fanylion, gweler tabl 56.

**Safonau Marchnata:** Nid oes unrhyw gostau ariannol rhagweladwy gan nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau arfaethedig dros safonau marchnata yn y cyfnod a bennir.

**Dosbarthu Carcasau:** Mae datblygu polisi ar gyfer cynigion yn ymwneud â dosbarthu carcasau defaid yn parhau, ac nid yw wedi cyrraedd y pwynt lle mae modd cyfrifo costau yn gywir.

**Coedwigaeth:** Mae'r costau i'r Sector Preifat sy'n gysylltiedig ag ychwanegu'r amodau amgylcheddol fel a ganlyn
1. Darparu data arolwg ategol a chael cyngor ecolegol proffesiynol: £97,000-£107,000 y flwyddyn, yn codi i £138,000-£152,000 erbyn 2050
2. Amcangyfrifir bod darparu ffurflenni i CNC o'i amodau amgylcheddol yn costio rhwng £8,000-£9,000 y flwyddyn, yn codi i £15,000-£16,000 erbyn 2050.

Amcangyfrifir bod costau i'r Sector Preifat sy'n gysylltiedig â diwygio’n wirfoddol trwyddedau cwympo coed yn dod i £31,000 y flwyddyn. Amcangyfrifir bod costau gweinyddol a chyfalaf ychwanegol CNC yn dod i £3,000 y flwyddyn. Mae cost untro hefyd i ddatblygu a gweithredu fframwaith amodau o £345,000, a ysgwyddir gan CNC yn 2022-23.

**Maglau:** Bydd y costau o gyfathrebu'r gwaharddiad ar ddefnyddio maglau yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. Byddai costau post uniongyrchol, cyhoeddi Hysbysiadau i'r Wasg a defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru am amser

| | | | |
|---|---|---|---|
| sy'n cyfateb i oddeutu wythnos o amser Swyddog Gweithredol, yn dod i £750. Disgwylir i’r gost hon gael ei hysgwyddo yn 2023-24.<br><br>**Trapiau Glud:** Bydd y costau o gyfathrebu'r gwaharddiad ar ddefnyddio trapiau glud yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. Byddai costau post uniongyrchol, cyhoeddi Hysbysiadau i'r Wasg a defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru am amser sy'n cyfateb i oddeutu wythnos o amser Swyddog Gweithredol, yn dod i £750. Disgwylir i’r gost hon gael ei hysgwyddo yn 2023-24. | | | |
| **Trosiannol: £36,763,500** | **Rheolaidd: £891,876,716** | **Cyfanswm: £928,640,216** | **Gwerth presennol: £632,788,395** |
| **Arbedion cost:**<br><br>Mae costau gweinyddol wedi’u meintioli wedi'u cyfrifo o'u cymharu â llinell sylfaen Opsiwn 1. Felly, mae unrhyw arbedion cost eisoes wedi’u cynnwys yn y ffigurau uchod. | | | |
| **Trosiannol: £Amh** | **Rheolaidd: £Amh** | **Cyfanswm: £Amh** | **PV: £Amh** |
| **Cost weinyddol net: £632,788,395** | | | |

## Costau cydymffurfio

**Cymorth yn y Dyfodol:** Rydym yn amcangyfrif y bydd cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd/rhanddeiliaid o'r cynllun a'i ofynion cysylltiedig yn gyffredinol o ran rheoli bioamrywiaeth/cynefinoedd a'r amgylchedd hanesyddol. Mae gan hyn y potensial i gynyddu nifer yr atgyfeiriadau Rheoliadau EIA (Amaethyddiaeth) a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru a chynyddu'r llwyth gwaith gorfodi. Rydym yn amcangyfrif y bydd hyn yn arwain at gost gynyddol flynyddol o £43,000 yn Opsiwn 3 o gymharu ag Opsiynau 1 a 2. Nid yw'r costau o gydymffurfio â'r cynllun yn y dyfodol wedi'u mesur eto.

**Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol:** Mae cyfrifo costau ar gyfer y cynnig hwn yn amrywiol gan mai natur y pwerau arfaethedig hyn yw hwyluso ymateb i argyfwng. Ni allwn wybod pryd y bydd argyfwng yn digwydd, nac ar ba raddfa, felly bydd costau yn amrywio. Cyflwynwyd cynllun 2020 i gefnogi’r sector llaeth yn fewnol, ac roedd yn cynnwys taliadau untro, felly nid oedd unrhyw gostau cydymffurfiaeth barhaus.

**Tenantiaethau Amaethyddol:** Bydd costau amser i bob unigolyn, ond bydd hyn yn amrywio fesul achos. Mae'r ffaith nad yw cytundebau, trafodaethau ac anghydfodau sydd wedi codi rhwng tenantiaid amaethyddol a thirfeddianwyr hyd yma wedi'u datgelu yn ei gwneud hi'n amhosibl nodi'r gwir gost. Mae'n amhosibl hefyd gwybod union nifer yr anghydfodau newydd a fydd yn codi o ganlyniad i'r ddarpariaeth hon, ac mae meintoli yn arwain at berygl o gamsyniad mawr.

**Safonau Marchnata:** Nid oes unrhyw gostau ariannol rhagweladwy gan nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau arfaethedig dros safonau marchnata yn y cyfnod a bennir.

**Dosbarthu Carcasau**: Mae datblygu polisi ar gyfer cynigion yn ymwneud â dosbarthu carcasau defaid yn parhau, ac nid yw wedi cyrraedd y pwynt lle mae modd cyfrifo costau yn gywir.

**Coedwigaeth:** Amcangyfrifir bod costau monitro a gorfodi blynyddol sy'n gysylltiedig ag ychwanegu'r amodau yn dod i £30,000 i CNC a rhwng £3,000-£6,000 i'r sector preifat. Mae costau hefyd oherwydd y cynnydd disgwyliedig yn nifer yr apeliadau, £2,000 i CNC a £10,000 i Lywodraeth Cymru. Mae costau blynyddol tebyg sy'n gysylltiedig â diwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed. Y costau i CNC yw £3,000 (monitro a gorfodi) ac £8,000 (apeliadau). Amcangyfrifir bod y costau i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â mwy o apeliadau yn dod i £20,000.

**Maglau:** Rhagwelir y bydd y mwyafrif llethol o ddefnyddwyr maglau yn newid i ddulliau rheoli plâu amgen, a bydd y ddeddfwriaeth yn gweithredu fel rhwystr, gan arwain at ddim gwaith ychwanegol i'r heddlu. Mae'r effeithiau disgwyliedig ar y system cyfiawnder troseddol wedi'u hystyried gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac ystyrir nad oes fawr ddim effaith ar y system gyfiawnder, os o gwbl. Rhagwelir felly y bydd y costau cydymffurfio yn £sero

**Trapiau Glud:** Bydd cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth newydd, fel y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth, yn amodol ar y mwyafrif o bobl yn cadw at y gyfraith. Mae'r effeithiau disgwyliedig ar y system cyfiawnder troseddol wedi'u hystyried gan y Weinyddiaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £0** | **Rheolaidd: £3,347,040** | **Cyfanswm: £3,347,040** | **Gwerth presennol: £2,184,754** |

## Costau eraill

| |
|---|
| **Cymorth yn y Dyfodol:** Nid ydym eto mewn sefyllfa i nodi'r gwariant blynyddol disgwyliedig ar daliadau i ffermwyr o dan gynllun SLM yn y dyfodol. At ddibenion y dadansoddiad hwn, rydym wedi rhagdybio y bydd cyllideb flynyddol o £278 miliwn yn cael ei chynnal mewn termau real dros y cyfnod arfarnu. Mae hyn yr un fath ag ar gyfer Opsiwn 2. Mae Opsiwn 1 yn rhagdybio y gallai'r £278 miliwn fod ar gael i'w wario ar flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru. Gellid disgwyl y byddai hyn yn cronni buddion, ond mae hyn y tu allan i gwmpas y dadansoddiad hwn. Mae Opsiwn 3 hefyd yn rhagdybio costau cynyddol blynyddol o £4,100 ar gyfer Cyswllt Ffermio yn sgil cynnydd yn y ddarpariaeth a'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm yn sgil cynnydd yn nifer y staff.<br><br>**Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol:** Mae cyfrifo costau ar gyfer y cynnig hwn yn anodd iawn gan mai natur y pwerau arfaethedig hyn yw hwyluso ymateb i argyfwng. Ni allwn wybod pryd y bydd argyfwng yn digwydd, nac ar ba raddfa, felly ni allwn gynllunio costau disgwyliedig.<br><br>**Tenantiaethau Amaethyddol:** Nid oes unrhyw gostau meintiol eraill wedi'u nodi.<br><br>**Safonau Marchnata:** Nid oes unrhyw gostau ariannol rhagweladwy gan nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau arfaethedig dros safonau marchnata yn y cyfnod a bennir.<br><br>**Dosbarthu Carcasau**: Mae datblygu polisi ar gyfer cynigion yn ymwneud â dosbarthu carcasau defaid yn parhau, ac nid yw wedi cyrraedd y pwynt lle mae modd cyfrifo costau yn gywir.<br><br>**Coedwigaeth:** Bydd ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed yn arwain at fwy o ymgynghori a chysylltu â Thimau Amgylchedd CNC (o'r sector coedwigaeth drwy gyngor cyn ymgeisio ac o Drwyddedu Coedwigaeth CNC fel rhan o ymgynghoriad mewnol CNC). Disgwylir y bydd Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ychwanegol. Cost flynyddol hyn i CNC yw £22,000. Disgwylir cost flynyddol ychwanegol o £1,000 am yr un rhesymau ynghylch diwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed.<br><br>**Maglau:** Nid oes unrhyw gostau meintiol eraill wedi'u nodi. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £0** | **Rheolaidd: £8,169,657,000** | **Cyfanswm: £8,169,657,000** | **Gwerth presennol: £5,428,928,325** |

## Costau heb eu meintioli ac anfanteision

**Cymorth yn y Dyfodol:** Nid yw cost unrhyw gynllun yn y dyfodol wedi'i feintioli; bydd yn dibynnu ar ddyluniad cynllun y dyfodol. Bydd hyn yn arwain at gostau cyfalaf trosiannol canlyniadol, yn ogystal â thaliadau refeniw parhaus i ffermwyr. Y rhagdybiaeth yw y bydd y costau o fewn lefelau'r gyllideb bresennol. Bydd yr effaith economaidd ar y sector hefyd yn cael ei hasesu fel rhan o ddyluniad unrhyw gynllun yn y dyfodol.

**Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol:** Mae cyfrifo costau ar gyfer y cynnig hwn yn amrywio gan mai natur y pwerau arfaethedig hyn yw hwyluso ymateb i argyfwng. Ni allwn wybod pryd y bydd argyfwng yn digwydd, nac ar ba raddfa, felly byddai unrhyw ragfynegiadau o gostau anfesuradwy ar hyn o bryd yn rhy dybiannol i fod yn gadarn.

**Tenantiaethau Amaethyddol:** Bydd gwneud y diwygiad yn cynyddu cyfanswm yr anghydfodau sy'n codi. Ar gyfer pob achos newydd, bydd cost i fusnes a allai gael ei ysgwyddo naill ai gan y landlord, y tenant neu'r ddau (yn dibynnu ar natur yr achos). Nid yw'r gost hon wedi'i meintoli.

**Safonau Marchnata:** Nid oes unrhyw gostau ariannol rhagweladwy gan nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau arfaethedig dros safonau marchnata yn y cyfnod a bennir

**Dosbarthu Carcasau**: Mae datblygu polisi ar gyfer cynigion yn ymwneud â dosbarthu carcasau defaid yn parhau, ac nid yw wedi cyrraedd y pwynt lle mae modd cyfrifo costau yn gywir.

**Coedwigaeth:** Nid oedd modd mesur rhai o gostau'r sector preifat a allai godi o ganlyniad i'r pwerau newydd. Mae costau yn debygol o godi mewn perthynas ag amodau safleoedd penodol ar gyfer safleoedd hynod sensitif neu gymhleth. Fodd bynnag, oherwydd natur amrywiol iawn trwyddedau cwympo coed, a'r amodau newydd eu hunain, o ran mynychder, graddfa, rhywogaethau coed, ansawdd pren, a sensitifrwydd safleoedd, ni fu modd mynegi gwerth ariannol gan nad yw'r gost yn hysbys. Hefyd, mae'r ffactorau hyn yn berthnasol i'r costau anfesuradwy ar gyfer diwygio, atal a dirymu trwyddedau sydd eisoes wedi'u cyhoeddi. Mae elfen o gostau anfesuradwy eisoes yn rhan o'r patrwm arferol o gynllunio i reoli coedwig, gan ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer gwaith cwympo coed os oes angen. Nid os modd meintioli costau iawndal i'r sector preifat oherwydd ffactorau anhysbys a hynod amrywiol megis pa mor aml y defnyddir pwerau a'r tebygolrwydd y ceid apêl lwyddiannus. O dan Ddeddf Coedwigaeth 1967, nid oes cofnod bod iawndal wedi'i dalu. Bydd data yn cael ei gasglu i lywio'r adolygiad ar ôl cyflwyno'r ddeddfwriaeth er mwyn deall costau ychwanegol yn well.

**Maglau:** Nid oedd modd meintoli effaith gwahardd maglau ar fusnesau ac unigolion sy'n eu defnyddio. Nid ydym yn disgwyl i'r gwaharddiad ar faglau gael fawr o effaith ariannol yn y tymor hir.

**Trapiau Glud:** Nid oedd modd meintoli effaith gwahardd trapiau glud ar fusnesau ac unigolion sy'n eu defnyddio. Nid ydym yn disgwyl i'r gwaharddiad ar drapiau glud

## Manteision

**Cymorth yn y Dyfodol:** Drwy gyflwyno'r fframwaith deddfwriaethol hwn, bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol wrth wneud penderfyniadau ynghylch cymorth yn y dyfodol. Nid yw lefelau'r cyllid na'r effaith ar y diwydiant wedi'u meintoli eto. Mae nifer o gysylltiadau achosol, clir rhwng camau sy'n rhoi budd economaidd i ffermwyr (e.e. iechyd anifeiliaid a thargedu'r defnydd o faethynnau) a chyflawni canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol. Bydd cefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy ochr yn ochr â chefnogi ffermwyr i gymryd camau sy'n ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn cefnogi'r sector amaethyddol ac yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiadau statudol.

Bydd manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol uniongyrchol yn cael eu gwireddu drwy gamau gweithredu sy'n galluogi cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy; lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo; cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau; gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd atynt a'u hymgysylltiad â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.

**Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol:** Mae cyfrifo manteision ar gyfer y cynnig hwn yn amrywio gan mai natur y pwerau arfaethedig hyn yn hwyluso ymateb i argyfwng. Ni allwn wybod pryd y bydd argyfwng yn digwydd, nac ar ba raddfa, felly ni allwn gynllunio manteision disgwyliedig. Maen nhw'n debygol o fod yn seiliedig ar y cymorth ariannol sy'n cael ei dalu i ffermwyr, ynghyd ag unrhyw fantais hirdymor i'r busnes a'r cadwyni cyflenwi sydd wedi cronni o'r ffermydd hynny sy'n parhau i fod yn solfent.

**Tenantiaethau Amaethyddol:** Bwriad yr opsiwn hwn yw hwyluso mynediad at gynlluniau cymorth ariannol i'r ffermwyr tenant hynny a allai fod wedi cael eu cyfyngu'n annheg fel arall. Mae manteision cymryd rhan mewn cynllun cymorth ariannol wedi'u nodi yn asesiadau effaith Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

**Safonau Marchnata:** Nid oes unrhyw fanteision ariannol rhagweladwy gan nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau arfaethedig dros safonau marchnata yn yr amser a bennir

**Dosbarthu Carcasau:** Mae datblygu polisi ar gyfer cynigion yn ymwneud â dosbarthu carcasau defaid yn parhau, ac nid yw wedi cyrraedd y pwynt lle mae modd cyfrifo costau yn gywir. Bydd cyflwyno'r rheoliad dosbarthu carcasau yn y sector defaid yn gwella tryloywder a thegwch yn y gadwyn gyflenwi, ond nid oes modd mesur y manteision ar hyn o bryd.

**Coedwigaeth:** Mae disgwyl i fioamrywiaeth a manteision amgylcheddol gynyddu o ganlyniad i'r ddarpariaeth i ychwanegu amodau amgylcheddol, gan mai'r nod yw lleihau niwed amgylcheddol a darparu gwell amddiffyniad i fywyd gwyllt. Mae'r manteision hyn yn anodd eu meintoli neu eu mynegi mewn termau ariannol o ystyried natur amrywiol trwyddedau cwympo coed o ran mynychder, graddfa ac amodau safle

| | |
|---|---|
| unigol. Cynigir y dylid casglu data perthnasol i fonitro'r manteision fel rhan o adolygiad ar ôl cyflwyno'r ddeddfwriaeth.<br><br>**Maglau:** Mae nifer fach o anifeiliaid nad ydynt yn darged a allai gael eu dal mewn maglau yn anifeiliaid anwes - cathod a chŵn gan amlaf. Mae perchnogion yr anifeiliaid hyn yn aml yn wynebu costau milfeddygol sylweddol a chyfnod hir o adsefydlu ar gyfer eu hanifail anwes. Nid yw'r costau hyn yn ddata y gellir ei gasglu, felly nid ydynt yn hysbys ar hyn o bryd; serch hynny, byddai'r gwaharddiad ar faglau yn cynrychioli arbediad i unigolion y byddai eu hanifeiliaid yn osgoi anafiadau yn y dyfodol. Yn fwy cyffredinol, bydd gwaharddiad ar faglau yn arwain at safonau uwch o ran lles anifeiliaid. Nid yw gwerth hyn wedi'i feintioli.<br><br>**Trapiau Glud:** Bydd gwaharddiad ar drapiau glud yn arwain at safonau uwch o ran lles anifeiliaid. Nid yw gwerth hyn wedi'i feintioli. | |
| **Cyfanswm: £Heb ei feintioli** | **PV: £Heb ei feintioli** |

## Tystiolaeth, rhagdybiaethau a ffactorau ansicr allweddol

**Cymorth yn y Dyfodol:** Mae costau wedi'u tynnu o dimau gweithredol CNC a Llywodraeth Cymru. Gwnaeth y pecyn Tystiolaeth SFS a gynhyrchwyd gan ERAMMP osod sylfaen o dystiolaeth a oedd yn asesu camau yn erbyn y canlyniadau mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cyflawni. Tynnodd y dadansoddiad hwn ar ganfyddiadau dros 800 o bapurau tystiolaeth wedi'u hadolygu gan gymheiriaid. Mae'r adroddiadau ar ei waith i'w gweld yma: [Adnoddau | ERAMMP.](#) Helpodd y gwaith hwn i nodi rhesymeg gadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer camau sy'n sicrhau canlyniadau SLM. Dyluniad unrhyw gymorth yn y dyfodol yw'r ansicrwydd allweddol, a bydd lefel y canlyniadau a gyflawnir yn ddibynnol ar hyn.

**Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol:** Mewn gwirionedd, mae'r pwerau sy'n cael eu cynnig yma yn barhad o'r pwerau presennol sydd wedi'u datblygu'n gyntaf yn neddfwriaeth yr UE ac yna yn Neddf Amaethyddiaeth 2020. Yn hynny o beth, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried opsiynau polisi ehangach ar hyn o bryd, gan na fu unrhyw arwydd bod rhanddeiliaid na llunwyr polisi eisiau i opsiynau eraill ar gyfer pwerau deddfu dros amodau eithriadol yn y farchnad gael eu hystyried.

**Tenantiaethau Amaethyddol:** Darparwyd data gweinyddol yn ymwneud â thenantiaid Deddf Daliadau Amaethyddol a Thenantiaethau Busnes Fferm gan Taliadau Gwledig Cymru (RPW). Darparwyd amcangyfrifon yn ymwneud â chost cyflafareddu gan arbenigwyr o'r diwydiant.

**Safonau Marchnata:** Mewn gwirionedd, mae'r pwerau sy'n cael eu cynnig yma yn barhad o'r pwerau presennol sydd wedi'u datblygu'n gyntaf yn neddfwriaeth yr UE ac yna yn Neddf Amaethyddiaeth 2020. Yn hynny o beth, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried opsiynau polisi ehangach ar hyn o bryd, gan na fu unrhyw arwydd bod rhanddeiliaid na llunwyr polisi eisiau i opsiynau eraill ar gyfer pwerau deddfu mewn perthynas â Safonau Marchnata ar gyfer cynnyrch amaethyddol a bwyd gael eu hystyried.

**Dosbarthu Cascasau:** Mewn gwirionedd, mae'r pwerau sy'n cael eu cynnig yma yn barhad o'r pwerau presennol sydd wedi'u datblygu'n gyntaf yn neddfwriaeth yr UE ac yna yn Neddf Amaethyddiaeth 2020. Yn hynny o beth, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried opsiynau polisi ehangach ar hyn o bryd, gan na fu unrhyw arwydd bod rhanddeiliaid na llunwyr polisi eisiau i opsiynau eraill ar gyfer pwerau deddfu mewn perthynas â dosbarthu carcasau gael eu hystyried.

**Coedwigaeth:** Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid wedi llywio a chraffu ar y dadansoddiad. Mae'r Grŵp yn cynnwys y sefydliadau canlynol: Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig, Confor, RSPB, Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Cymru, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Coed Cadw, FUW, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CLA (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad), CNC a Llywodraeth Cymru. Gwahoddwyd sefydliadau eraill ond nid oeddent yn gallu cymryd rhan. Mae'r wybodaeth sydd ei hangen i gwblhau'r CBA wedi'i chasglu o sawl ffynhonnell, yn enwedig gan y Grŵp Rhanddeiliaid ond hefyd gan staff CNC. Mae gwybodaeth hefyd wedi dod o ERAMMP ac o Forest Research. Mae gwybodaeth am gostau staff CNC a chyflogau cyfartalog wedi dod o Adran Gyllid CNC.

**Maglau a Thrapiau Glud:** Yn seiliedig ar ymgynghoriad â’r cyhoedd, busnesau, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus. Yn ogystal, trafodaethau gydag arbenigwyr Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill sy'n gwneud gwaith rheoli llwynogod.

# Bwriad Polisi'r Bil Amaethyddiaeth

6.4. Mae darpariaethau'r Bil Amaethyddiaeth wedi'u nodi isod; am fanylion pellach, gweler rhan 1 o'r memorandwm esboniado

## Rhan 1 – Rheoli Tir yn Gynaliadwy

6.5. Bydd yn pennu pedwar amcan ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

a) cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy;

b) lliniaru’r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo;

c) cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu,

d) gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, a hybu mynediad y cyhoedd iddynt ac ymgysylltiad y cyhoedd â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso’r defnydd ohoni.

6.6. Ym mhob achos, cyfrannu at gyflawni amcan yw (a) diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, a (b) cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

6.7. Yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer rhai swyddogaethau yn y modd y credant sy’n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion SLM, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaeth yn briodol.

6.8. Yn darparu ar gyfer monitro ac adrodd cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion, gan gynnwys gosod dangosyddion a thargedau, i asesu’r gweithredu, i ddarparu sylfaen dystiolaeth bwysig ac i hwyluso craffu ac atebolrwydd.

# Rhan 2 – Cymorth ar gyfer Amaethyddiaeth Etc

## ***Pennod 1 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth***

6.9. Yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth, megis creu cynllun (neu gynlluniau) (neu fathau eraill o gymorth) i gyfrannu at gyflawni'r amcanion SLM. Y prif ddull arfaethedig o gyflawni hyn yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

6.10. Gellir darparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol yng Nghymru, neu mewn cysylltiad â nhw. Mae adran 8 yn nodi nifer o ddibenion (e.e. annog cynhyrchu bwyd mewn modd amgylcheddol gynaliadwy, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr) y gellir darparu cymorth, yn benodol, ar eu cyfer neu mewn cysylltiad â nhw.

6.11. Yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â gwirio, gorfodi a monitro unrhyw gymorth a ddarperir o dan y pŵer cymorth, gan sicrhau bod yr holl gymorth amaethyddol a gyllidir gan Weinidogion Cymru yn cael ei weinyddu'n gywir.

6.12. Yn nodi sut yr adroddir yn erbyn yr holl gynlluniau cymorth ac unrhyw gymorth a ddarperir o dan amodau'r pŵer i ddarparu cymorth. Bydd dwy lefel o ofynion adrodd gorfodol, Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad Effaith.

6.13. Rhaid i bob Adroddiad Effaith gael ei baratoi bob 5 mlynedd[67] i asesu effaith ac effeithiolrwydd yr holl gymorth (boed hynny drwy gynllun neu fel arall) a ddarperir yn ystod y cyfnod adrodd o dan bwerau cymorth. Bydd yr asesiad yn erbyn y dibenion y darparwyd cymorth ar eu cyfer, yr amcanion SLM ac unrhyw faterion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn berthnasol. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu diwygio'r cyfnod adrodd os oes angen.

[67] Mae gan Weinidogion Cymru'r grym i ddiwygio'r cyfnod adrodd hwn.

## *Pennod 2 – Pwerau i addasu deddfwriaeth sy’n ymwneud â chymorth ariannol a chymorth arall*

6.14. Yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, y gallu i fodloni'r bwriad polisi o ddarparu ar gyfer cyfnod pontio wedi'i reoli wrth i daliadau o dan y BPS ddod i ben a'r SFS arfaethedig gael ei gyflwyno.

6.15. Yn disodli'r pwerau amser cyfyngedig yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin (PAC).

6.16. Yn darparu pwerau i addasu deddfwriaeth yn ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig. Dylai hyn ganiatáu i gynlluniau talu ar gyfer datblygu gwledig, yr ymrwymwyd iddynt cyn i’r DU ymadael â’r Undeb Ewropeaidd (UE) sy’n ymestyn y tu hwnt i’r diwrnod Ymadael, gael eu hanrhydeddu.

6.17. Yn disodli'r pwerau amser cyfyngedig yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth a ddargedwir yn ymwneud â chymorth i wenynyddiaeth.

## *Pennod 3 – Ymyriad mewn marchnadoedd amaethyddol*

6.18. Yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru:

a) Wneud datganiad o amodau eithriadol mewn marchnadoedd amaethyddol.

b) Darparu cymorth ariannol i gynhyrchwyr yn dilyn datganiad o amodau eithriadol yn y farchnad.

c) Addasu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn ymwneud ag Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storfeydd Preifat (PIPSA).

### *Pennod 4 – Tenantiaethau amaethyddol*

6.19. Yn diwygio'r diffiniad o "gymorth ariannol berthnasol" yn adran 19A (7) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. Mae'r cyfeiriad at adran 8 o'r Bil yn darparu llwybr i denantiaid ddatrys anghydfod o dan amgylchiadau lle gall eu landlord fod yn atal caniatâd yn afresymol i fater y mae angen ei ganiatâd o dan y denantiaeth neu gais i newid cymal cyfyngol yn y cytundeb tenantiaeth lle gwneir y cais hwnnw i alluogi'r tenant i ofyn neu wneud cais am gymorth ariannol. Mae'r diffiniad yn cael ei ddiwygio hefyd mewn perthynas â chynlluniau trydydd parti, cynllun y taliad sylfaenol, y polisi amaethyddol cyffredin, cymorth i wenynyddiaeth a chymorth i ddatblygu gwledig.

6.20. Yn mewnosod Adran 8A newydd yn Neddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 i roi'r un hawliau i gyflafareddu i denantiaid FBT â thenantiaid AHA.

## Rhan 3 – Materion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol

### *Pennod 1 – Casglu a rhannu data*

6.21. Yn darparu pwerau i alluogi casglu data o'r sector amaethyddol ar draws dau gategori penodol ond cyflenwol, yn gyntaf gan bobl o fewn 'cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth' neu sydd â chysylltiad agos â chadwyn o'r fath; ac yn ail gan y bobl hynny sy'n ymgymryd â 'gweithgareddau perthnasol' sydd, yn y cyd-destun hwn, yn golygu pobl sy'n ymgymryd â gweithgareddau amaethyddol neu weithgareddau ategol.

### *Pennod 2 – Safonau marchnata: cynhyrchion amaethyddol*

6.22. Yn disodli'r pwerau amser cyfyngedig yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch y safonau y mae'n rhaid i restr benodedig o gynhyrchion amaethyddol, y gellir ei diwygio gan Weinidogion Cymru, gydymffurfio â nhw pan gânt eu marchnata yng Nghymru. Mae'r rhestr o gynhyrchion wedi'i nodi yn Atodlen 1 i'r Bil.

### *Pennod 3 – Dosbarthu etc carcasau penodol*

6.23. Yn disodli'r pwerau amser cyfyngedig yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer adnabod, dosbarthu a chyflwyno carcasau gwartheg, moch a defaid mewn lladd-dai yng Nghymru.

## Rhan 4 – Coedwigaeth

6.24. Cyflwyno diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967 i ychwanegu amodau amgylcheddol sy’n canolbwyntio ar ddiogelu a gwarchod yr amgylchedd at drwyddedau cwympo coed a chyflwyno pwerau newydd i Cyfoeth Naturiol Cymru ddiwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed ar ôl iddynt gael eu caniatáu.

## Rhan 5 – Bywyd Gwyllt

6.25. Yn gwahardd dau ddull penodol o reoli plâu, sef defnyddio maglau i ddal anifeiliaid gwyllt a defnyddio trapiau glud i ddal anifeiliaid asgwrn cefn (nad ydynt yn bobl).

## Rhan 6 – Cyffredinol

6.26. Yn diffinio'r hyn a olygir gan 'amaethyddiaeth' a 'gweithgareddau ategol' at ddibenion y Bil, gan geisio adlewyrchu'r ystod eang o weithgareddau ffermio a wneir yng Nghymru, gan gwmpasu gweithgareddau yr ystyrir eu bod yn weithgareddau ffermio traddodiadol, yn ogystal â gweithgareddau ffermio mwy modern (e.e. amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir).

6.27. Yn rhoi manylion am y gwahanol bwerau i wneud rheoliadau ac yn nodi pryd y bydd pob darpariaeth o dan y Bil yn dod i rym.

ATODLEN 1 – CYNHYRCHION AMAETHYDDOL SY’N BERTHNASOL I DDARPARIAETHAU SAFONAU MARCHNATA

ATODLEN 2 – MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL ETC SY’N YMWNEUD Â RHANNAU 1 I 3

ATODLEN 3 – DIWYGIADAU CANLYNIADOL ETC I’R RHEOLIAD AR GYD-DREFNIADAETH Y MARCHNADOEDD

# Pennod 7 - Opsiynau a Costau a Manteision

## *Cymorth yn y Dyfodol*

## *Cyflwyniad*

***Bwriad Polisi Pwerau Cymorth***

7.1. Yn Ffermio Cynaliadwy a'n Tir (2019) a'r Papur Gwyn Amaeth (Cymru) (2020), nododd Llywodraeth Cymru sut y bydd egwyddorion SLM yn darparu fframwaith hirdymor ar gyfer polisi a chymorth amaethyddol yn y dyfodol. Bydd yr agwedd gyfannol hon yn sicrhau bod y canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o arfer rheoli tir er budd hirdymor y wlad. Bydd y Bil Amaeth yn sicrhau bod gan Weinidogion Cymru y pwerau sydd eu hangen i barhau i gefnogi ffermwyr yng Nghymru am fabwysiadu arferion sy'n cyfrannu at SLM.

7.2. Mae'r Bil yn nodi pedwar amcan SLM:

a) cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy;
b) lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo;
c) cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu;
d) gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt ac ymgysylltiad y cyhoedd â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.

7.3. Mae'r Bil yn cynnwys pwerau cymorth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth (ariannol neu fel arall) i amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol yng Nghymru, neu mewn cysylltiad â nhw, mewn ffordd a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn. Mae hyn yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i ffermwyr Cymru fod yn arweinwyr byd ym maes ffermio cynaliadwy, gan gynhyrchu bwyd mewn cytgord â'r amgylchedd.

7.4. Mae'r darpariaethau yn darparu'r dull cyflawni i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth drwy gynllun neu fel arall er mwyn cyflawni'r amcanion SLM. Rhaid i

Weinidogion Cymru arfer y swyddogaeth hon yn y modd y maent yn ystyried sy’n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion SLM. Mae'r dibenion a nodir yn y pŵer cymorth yn darparu enghreifftiau o sut y gall cynlluniau gefnogi a chyfrannu tuag at gyflawni'r amcanion SLM.

7.5. Y prif fecanwaith cyflawni ar gyfer SLM fydd y SFS arfaethedig a fydd yn cefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ac yn eu helpu ar yr un pryd i gymryd camau i leihau eu hôl troed carbon a darparu ar gyfer natur.

7.6. Cyhoeddwyd amlinelliad o gynigion y Cynllun a'r camau nesaf ar 6 Gorffennaf 2022, ac mae i'w weld yma:

https://llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-cynigion-bras-ar-gyfer-2025

***Cyfraddau Talu***

7.7. Bydd taliadau’n cymell a gwobrwyo ffermwyr am weithredoedd sy’n sicrhau canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd cadarnhaol. Bydd y taliad yn gwobrwyo'r ffermwyr hynny sy'n ffermio'r tir mewn ffordd gynaliadwy ac yn tynnu sylw at y cyfraniadau cadarnhaol y maent wedi'u gwneud.

7.8. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth i alluogi penderfyniad i gael ei wneud ar lefel y taliad am wahanol gamau o fewn unrhyw gynllun cymorth yn y dyfodol. Mae’r meysydd sy'n cael eu hystyried yn cynnwys:

a) Cost y camau gweithredu i fusnesau fferm yn ôl y math o dir a nodweddion a lleoliad y fferm;

b) Gwerth am arian;

c) Ystyried refeniw a chostau cyfalaf i lywio strwythur talu;

d) Ystyried dylanwadau diwylliannol a chymdeithasol ar gyfer cyflawni gweithredoedd sy'n dylanwadu ar y nifer sy'n manteisio arnynt;

e) Capio taliadau i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu mewn ffordd deg;

f) Gwerth cymdeithasol canlyniadau

7.9. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith modelu eang drwy ei Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) i ddeall yr effeithiau amgylcheddol ac economaidd ar lefel fferm ac i helpu i lywio cyfraddau talu.

7.10. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yma:

[Llwyfan Modelu Integredig ERAMMP (IMP) | ERAMMP]

***Dadansoddiad Economaidd ac Amgylcheddol***

7.11. Nid yw'r Bil Amaethyddiaeth yn diffinio dull cyflawni ar gyfer cymorth yn y dyfodol. Mae'r SFS arfaethedig yn dal i gael ei ddylunio (ar hyn o bryd, mae'n cael ei gyd-ddylunio gyda rhanddeiliaid), felly nid yw asesiad o'r costau a'r manteision yn bosibl ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal dadansoddiad economaidd o'r SFS arfaethedig. Bydd y dadansoddiad hwn yn ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer darparu'r cynllun o ran gwerth am arian ac effeithiau economaidd cynigion terfynol i fyny ac i lawr y gadwyn gyflenwi.

7.12. Drwy'r IMP, byddwn hefyd yn mesur effaith amgylcheddol ddisgwyliedig y cynllun a'i gyfraniad at ystod o dargedau Llywodraeth Cymru.

***Ymgynghoriad Pellach***

7.13. Yn 2023, bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar y cynigion terfynol i gyflwyno'r SFS. Bydd yr Ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cynlluniau manwl ar gyfer cyfnod pontio, gan gynnwys dull gweithredu taliadau sefydlogrwydd a sut y byddant yn cael eu lleihau dros gyfnod pontio.

***Cynllun Terfynol***

7.14. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2023, bydd cynigion y cynllun yn cael eu hadolygu a'r Dadansoddiad Economaidd yn cael ei ddiweddaru. Dyma'r pwynt lle bydd Gweinidogion Cymru'n gallu gwneud penderfyniad terfynol ar y strwythur, y camau gweithredu a'r cyfraddau talu o fewn yr SFS arfaethedig.

***Opsiynau***

*7.15.* Mae tri opsiwn wedi'u cyflwyno fel rhan o'r Dadansoddiad Cost a Budd hwn:

a) **Opsiwn 1**: Peidio â chyflwyno deddfwriaeth i ddarparu cymorth yn y dyfodol - tynnu cymorth yn ôl

b) **Opsiwn 2:** Deddfu i gadw’r sefyllfa bresennol (Cynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau tir eraill)

*c)* **Opsiwn 3:** Deddfu i gyflwyno cymorth sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy (yr Opsiwn a Ffefrir)

7.16. Mae'r opsiynau wedi’u hasesu yn erbyn eu cyfraniad at yr amcanion SLM.

*7.17.* Nid yw'r Bil yn gosod cyllidebau na pharamedrau ar sut y dylai cynllun gael ei ddylunio. Mae rhagdybiaethau wedi'u cynnwys a'u hesbonio o dan bob opsiwn.

***Crynodeb a Chasgliad***

7.18. Mae asesiad manwl o gostau a manteision pob un o'r tri opsiwn a ystyriwyd fel rhan o'r dadansoddiad hwn yn dilyn. Mae'r dadansoddiad o dystiolaeth yn awgrymu’r canlynol:

a) Mae **Opsiwn 1** (tynnu cymorth yn ôl) yn debygol o gyflwyno her sylweddol i hyfywedd economaidd llawer o fusnesau fferm yng Nghymru, gydag effeithiau cymdeithasol negyddol canlyniadol ar ffermio a chymunedau ffermio. Mae Opsiwn 1 hefyd yn annhebygol iawn o wireddu canlyniadau amgylcheddol, gan gynnwys y targedau a’r cyllidebau carbon sy'n rhan o fframwaith statudol Cymru a tharged Sero Net Senedd Cymru ar gyfer 2050. **Felly, ni argymhellir yr opsiwn hwn.**

b) Ni fydd **Opsiwn 2 (cadw’r sefyllfa bresennol)** yn mynd i'r afael â sefyllfa fregus bresennol llawer o ffermydd yng Nghymru. Mae gan newidiadau mewn amodau marchnadoedd y potensial i waethygu hyn ymhellach, gan arwain at ffermydd yn gadael y diwydiant neu o dan bwysau i ddwysáu systemau ffermio er mwyn cael yr elw mwyaf posibl. Er mwyn cyrraedd y targedau a'r cyllidebau carbon sy'n rhan o fframwaith statudol Cymru, rhaid i allyriadau ym mhob sector (gan gynnwys amaethyddiaeth a defnydd tir) ostwng yn gyflymach nag sydd wedi digwydd yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Mae cadw’r sefyllfa bresennol yn annhebygol iawn o wireddu'r targedau statudol hyn. **Felly, ni argymhellir yr opsiwn hwn.**

c) Byddai **Opsiwn 3 (Cynllun SLM yn y dyfodol)** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried y ffordd mae cynlluniau cymorth amaethyddol yn y dyfodol yn cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Drwy gyflwyno'r fframwaith deddfwriaethol hwn, bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol wrth wneud penderfyniadau ynghylch cymorth yn y dyfodol. Er nad yw'r lefelau cyllid na'r effaith ar y diwydiant wedi'u meintioli eto, at ddibenion y dadansoddiad hwn, y rhagdybiaeth yw bod cyllideb flynyddol o £278 miliwn yn cael ei chynnal mewn termau real dros y cyfnod arfarnu. Mae yna hefyd nifer o gysylltiadau achosol clir rhwng gweithredoedd sy'n rhoi budd economaidd i ffermwyr (e.e. iechyd anifeiliaid a thargedu cymhwyso maetholion) a chyflawni canlyniadau amgylcheddol. Bydd cefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy ochr yn ochr â chefnogi ffermwyr i gymryd camau sy'n ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn cefnogi'r sector amaethyddol ac yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiadau statudol. **Dyma'r opsiwn a ffefrir.**

**Amcangyfrif o'r Costau Blynyddol ar gyfer pob Opsiwn o 2024**

| **Cost (£K)** | **Opsiwn 1** | **Opsiwn 2** | **Opsiwn 3** |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 11,229 | 311,508 | 321,082 |
| *Gweinyddu* | - | 22,278 | 27,700[68] |
| *Trawsgydymffurfio ac EIA* | 1,344 | 1,344 | 1,382 |
| *Cyngor (Cyswllt Ffermio ac FLS)* | 8,385 | 8,385 | 12,500 |
| *Taliadau i ffermwyr* | - | 278,000 | 278,000 |
| *ERAMMP* | 1,500 | 1,500 | 1,500 |
| | - | - | - |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 171 | 2,716 | 2,775 |
| *Gweinyddu* | 27 | 2,572 | 2,627 |
| *Trawsgydymffurfio ac EIA* | 143 | 143 | 148 |
| | - | - | - |
| Sector Amaeth | - | 588 | 882 |
| | - | - | - |

[68] Er mwyn cyfrifo'r amcangyfrif hwn o gostau blynyddol, mae cost uwchraddio TG untro o £35.4 miliwn yn angenrheidiol hefyd. Heb yr uwchraddio hwn, amcangyfrifir y bydd y gost flynyddol yn codi i £35.2 miliwn. Mae dadansoddiad o'r costau TG a phryd y byddant yn codi yn nhabl 44.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 11,400 | 314,811 | 324,739 |
| Costau Ychwanegol i’r Llinell Sylfaen | - | 303,411 | 313,339 |

7.19. Rhagwelir y bydd y costau amcangyfrifedig yn Opsiynau 2 a 3 yn sylweddol uwch nag o dan Opsiwn 1 (cymorth yn dod i ben erbyn diwedd 2024). Mae hyn yn bennaf oherwydd nad oes taliadau'n cael eu gwneud i ffermwyr o dan yr opsiwn hwn, ynghyd â gostyngiad canlyniadol mewn costau gweinyddu.

7.20. Mae'r costau amcangyfrifedig yn Opsiwn 3 (deddfu i sefydlu Cynllun SLM yn y dyfodol) yn uwch nag o dan Opsiwn 2 (cadw’r sefyllfa bresennol) yn bennaf oherwydd cynnydd amcangyfrifedig mewn costau gweinyddu a chynghori. Amcangyfrifir hefyd y bydd mwy o gost i'r sector amaeth o dan Opsiwn 3. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr angen i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i gyflwyno cynllun yn y dyfodol sy'n bodloni amcanion strategol SLM. Dylid nodi, er mai'r amcangyfrifon gorau sydd ar gael ar hyn o bryd yw’r costau a gyflwynir yma, maent yn debygol o fod yn amrywiol iawn gan y byddant yn dibynnu ar ddyluniad manwl unrhyw gynllun yn y dyfodol. Fel y nodwyd eisoes, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud dadansoddiad economaidd o'r CFfC arfaethedig.

### *Asesiad o Fanteision*

#### Amcan SLM - cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy

*Opsiwn 1: Peidio â chyflwyno deddfwriaeth i ddarparu cymorth yn y dyfodol - tynnu cymorth yn ôl*

7.21. Mae'r opsiwn hwn yn dangos gostyngiad sylweddol o 30% yn Incwm cyfanredol Busnesau Fferm (FBI) dros y tymor hwy. Mae ffermydd defaid arbenigol yn cael eu heffeithio'n arbennig, gyda gostyngiad o 83% yn yr FBI cyfanredol.

7.22. Mae amrywiaeth fawr mewn perfformiad, o ran refeniw busnes a rheoli costau busnes ar draws ffermydd o'r un maint economaidd. O dan yr opsiwn hwn, mae'n debygol y byddai'r amrywioldeb hwn o ran perfformiad yn parhau, er y gellid disgwyl y bydd ffermydd sy'n gwneud colled, neu elw bach iawn, yn arbennig o fregus yn wyneb

newidiadau yn amodau'r farchnad a allai gynyddu nifer y ffermydd sy'n gwneud colledion.

7.23. Mae tynnu cymorth yn ôl hefyd yn lleihau gallu busnesau fferm i ymateb i newidiadau mewn amodau'r farchnad drwy symud i fentrau mwy proffidiol yn y tymor hwy. Mae ffermydd yn fwy tebygol o addasu eu systemau presennol yn hytrach na newid i fod yn fentrau newydd. Yn yr achos hwn, gall ffermydd defaid newid i fod yn ffermydd pori cymysg neu ffermydd sy'n arbenigol mewn bîff. O ganlyniad i hyn, mae 12% o'r ffermydd sydd wedi'u modelu mewn perygl o adael amaethyddiaeth llawn amser a 32% o'r boblogaeth o dan bwysau ariannol.

7.24. Mae'n anodd rhagweld ymatebion mathau o ffermydd unigol oherwydd yr ystod o ffactorau sy'n effeithio ar wneud penderfyniadau ar fferm. Fodd bynnag, byddai cryn bwysau i addasu i dynnu cymorth yn ôl a allai arwain at ddwysáu, dad-ddwysáu neu dir yn mynd allan o ddefnydd amaethyddol. Mae risg mewn sawl ardal y byddai cynhyrchu bwyd yn dod i ben yn llwyr ac, mewn ardaloedd eraill, byddai'r dwysáu yn effeithio ar gynaliadwyedd cynhyrchu bwyd dros y tymor hwy.

*Opsiwn 2: Deddfu i gadw'r sefyllfa bresennol (BPS a chynlluniau tir)*

7.25. Mae'r opsiwn hwn yn dangos cynnydd o 17% mewn FBI cyfanredol dros y tymor hwy er gwaethaf gostyngiad o 7% yn nifer y ffermydd llawn amser.

7.26. Yn yr opsiwn hwn, mae gan ffermydd fwy o allu i ymateb i newidiadau ym mhrisiau gât y fferm nag yn Opsiwn 1. Adlewyrchir hyn mewn cyfran fwy o'r boblogaeth fferm a fodelwyd yn newid i fod yn fentrau mwy proffidiol - llaeth yn yr achos hwn.

7.27. Mae tua 33% o boblogaeth ffermydd sydd wedi'u cynnwys yn yr Arolwg o Fusnesau Ffermio (FBS) eisoes yn gwneud colled (felly gall y teuluoedd ffermio sy'n gysylltiedig â'r busnesau fferm hyn fod yn ddibynnol ar ffynonellau incwm eraill gan aelodau eraill o'r aelwyd). Mae'r modelu yn dangos bod busnesau fferm yn agored i newidiadau bach ym mhrisiau gât y fferm, yn enwedig y rhai sy'n gwneud colled eisoes.

7.28. Fel ag yn achos Opsiwn 1, mae hyn yn debygol o wthio ffermwyr i gynyddu eu helw drwy ddwysáu neu ddad-ddwysáu. Gallai hyn effeithio ar aelodaeth o gynlluniau amaeth-amgylcheddol.

7.29. Mae ffermydd yn llai agored i newidiadau bach mewn prisiau gât fferm nag yn Opsiwn 1 ac maent wedi cynyddu'r gallu i ymateb i newidiadau dros y tymor hwy. Fodd bynnag, gallai fod effeithiau rhanbarthol mawr lle nad yw ffermydd yn gallu newid e.e. oherwydd y dirwedd, y math o bridd neu'r gallu i ariannu newid.

*Opsiwn 3: Deddfu i alluogi cymorth sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy*

7.30. Yn yr opsiwn hwn, byddai'n rhaid i gynlluniau cymorth yn y dyfodol ystyried yr amcan SLM i gynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy. Byddai gofyniad deddfwriaethol i fonitro ac adrodd cynnydd yn erbyn targedau a fyddai'n galluogi adolygu cymorth yn y dyfodol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r amcan.

7.31. Drwy gyflwyno fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cymorth yn y dyfodol, bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol wrth wneud penderfyniadau ynghylch cymorth yn y dyfodol. Er nad yw'r lefelau cyllid na'r effaith ar y diwydiant wedi'u meintioli eto, at ddibenion y dadansoddiad hwn, y rhagdybiaeth yw y bydd cyllideb flynyddol o £278 miliwn yn cael ei chynnal mewn termau real dros y cyfnod arfarnu. Nid proffwydoliaeth na gwarant o lefelau ariannu'r dyfodol yw hyn; bydd yn dibynnu ar setliadau cyllido gan Drysorlys Ei Mawrhydi (EM) a phroses gyllideb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

7.32. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y dadansoddiad yn dangos nifer o gysylltiadau clir rhwng camau gweithredu sy'n rhoi budd economaidd i ffermwyr (e.e. iechyd anifeiliaid a thargedu'r defnydd o faethynnau) a chyflawni canlyniadau amgylcheddol.

## *Amcan SLM - lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo*

*Opsiwn 1: Peidio â chyflwyno deddfwriaeth i ddarparu cymorth yn y dyfodol – tynnu cymorth yn ôl*

7.33. Yn yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw gymorth ariannol i fusnesau fferm gyfrannu at gyflawni'r targed Sero Net erbyn 2050.

7.34. Byddai tynnu cymorth yn ôl yn effeithio ar sefyllfa ariannol y fferm, sy'n debygol o leihau gallu ffermydd i wneud buddsoddiadau cyfalaf neu i gyflwyno newidiadau i arferion ffermio a fyddai'n cynyddu dalfeydd carbon ac yn lleihau allyriadau.

7.35. Gall tynnu cymorth yn ôl wthio busnesau fferm i ddefnyddio cymaint o'u harwynebedd amaethyddol â phosibl i gynyddu incwm. Byddai hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd ffermwyr yn rhannu tir ar gyfer gweithredoedd (megis plannu coed) i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. I'r gwrthwyneb, lle mae tir yn gadael amaethyddiaeth, gellir plannu coed ar y tir hwn. Mae hyn yn debygol o effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiad i blannu 180,000 hectar (ha) o goetir newydd erbyn 2050.

7.36. Er y gallai Llywodraeth Cymru ddarparu cyngor ac arweiniad i fusnesau fferm drwy Cyswllt Ffermio ar fesurau i liniaru'r newid yn yr hinsawdd, mae'r opsiwn hwn yn debygol o leihau gallu'r diwydiant i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn y tymor hwy.

*Opsiwn 2: Deddfu i gadw'r sefyllfa bresennol (BPS a chynlluniau ar y tir)*

7.37. Yn yr opsiwn hwn, ni fyddai'r rhan fwyaf o'r cymorth ariannol yn cael ei gyfeirio at gyflawni canlyniadau amgylcheddol. Yn ôl Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC), er mwyn cyflawni Sero Net yng Nghymru, rhaid i allyriadau ddisgyn ym mhob sector (gan gynnwys amaethyddiaeth a defnydd tir), a hynny'n gynt nag sydd wedi digwydd yn y 30 mlynedd diwethaf.

7.38. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae busnesau fferm yn agored i newidiadau yn y farchnad, ond gall parhad cymorth ganiatáu i rai ffermwyr addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

7.39. Mae cyfraddau creu coetir presennol yn sylweddol is na'r hyn sydd ei angen i gyrraedd y targedau mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt. Mae potensial i'r sector preifat ymyrryd yn y maes hwn, ond mae i ba raddau y byddai hyn yn cyflawni Parthau Nitradau Sero Net yn aneglur, a gallai arwain at effeithiau niweidiol ar gymunedau gwledig heb hwyluso gan y Llywodraeth.

7.40. Ar hyn o bryd mae Glastir yn darparu cymorth ar gyfer ystod o gamau gweithredu newid hinsawdd a chamau lliniaru, ond nid yw'n debygol y bydd y lefel hon o gymorth yn ymateb i'r heriau cynyddol a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

*Opsiwn 3: Deddfu i alluogi cymorth sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy*

---

7.41. Yn yr opsiwn hwn, byddai'n rhaid i gynlluniau cymorth yn y dyfodol ystyried yr amcan SLM i liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. Byddai gofyniad deddfwriaethol i fonitro ac adrodd cynnydd yn erbyn targedau fel bod modd adolygu cymorth yn y dyfodol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r amcan.

7.42. Mae'r Bil yn cynnwys dibenion cymorth sydd wedi'u dylunio i gyflawni yn erbyn y gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynyddu cyfraddau storio carbon.

7.43. Byddai cymorth uniongyrchol ar gael ar gyfer amrywiaeth o gamau, gan gynnwys plannu coed ac effeithlonrwydd adnoddau.

7.44. Bydd y fframwaith deddfwriaethol a nodir gan amcanion a dibenion cymorth SLM yn sicrhau bod mesurau i liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo yn cael eu hystyried wrth ddylunio cynlluniau yn y dyfodol. Bydd hyn yn cefnogi'r sector amaethyddol ac yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiad i Sero Net.

### *Amcan SLM - cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu cynnig.*

*Opsiwn 1: Peidio â chyflwyno deddfwriaeth i ddarparu cymorth yn y dyfodol – tynnu cymorth yn ôl. Yn yr opsiwn hwn, ni fyddai cymorth ariannol i fusnesau fferm gyfrannu at gyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.*

7.45. Byddai tynnu cymorth yn ôl yn effeithio ar sefyllfa ariannol y fferm, sy'n debygol o leihau'r tebygolrwydd y bydd ffermydd yn cyflwyno newidiadau mewn arferion ffermio er budd natur.

7.46. Os bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi'r gorau i gymorth i fusnesau fferm, yna ni fyddai camau i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn cael eu hariannu ar y rhan fwyaf o'r tir yng Nghymru.

7.47. Gall tynnu cymorth yn ôl wthio busnesau fferm i ddefnyddio cymaint o'u harwynebedd amaethyddol â phosibl i sicrhau'r incwm mwyaf posibl. Byddai hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y byddai ffermwyr yn rhannu tir er budd natur.

7.48. Os yw tir yn mynd allan o ddefnydd amaethyddol, gallai hyn ddod â manteision i ecosystemau ond byddai hynny'n dibynnu ar y defnydd ohono yn y dyfodol.

7.49. Er y gallai Llywodraeth Cymru roi cyngor ac arweiniad i fusnesau fferm drwy Cyswllt Ffermio ar gamau gweithredu i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau, mae'r opsiwn hwn yn debygol o leihau gallu'r diwydiant i gymryd camau o'r fath.

*Opsiwn 2: Deddfu i gadw’r sefyllfa bresennol (BPS a chynlluniau tir)*

7.50. Yn yr opsiwn hwn, byddai Glastir a’r Cynllun Rheoli Cynaliadwy yn parhau i ariannu camau sy'n cyfrannu at gyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

7.51. Mae llawer o fusnesau fferm yn cymryd camau ar hyn o bryd i fynd i'r afael â’r dirywiad mewn bioamrywiaeth ond gall amodau masnachu yn y dyfodol fygwth y cynnydd hwn os bydd hyfywedd ffermydd yn dod o dan fwy o bwysau.

7.52. Gall parhau â'r cymorth (yn enwedig BPS) ganiatáu i rai ffermydd ymateb i newidiadau yn amodau'r farchnad drwy gynyddu'r gallu i ariannu cyfnod pontio i system fwy proffidiol. Pan fo'r newidiadau hyn yn golygu dwysáu defnydd tir,

gallai hyn leihau'r tebygolrwydd o fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

*Opsiwn 3: Deddfu i alluogi cymorth sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy*

---

7.53. Yn yr opsiwn hwn, byddai'n rhaid i gynlluniau cymorth yn y dyfodol ystyried yr amcan SLM i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau. Byddai gofyniad deddfwriaethol i fonitro ac adrodd cynnydd yn erbyn targedau a fyddai'n galluogi adolygu cymorth yn y dyfodol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r amcan.

7.54. Mae'r Bil yn cynnwys dibenion cymorth i gyflawni'r nod o gynnal a chadw a gwella gwytnwch ecosystemau. Byddai cymorth uniongyrchol ar gael ar gyfer amrywiaeth o gamau gan gynnwys cynnal a chadw a chreu cynefinoedd.

7.55. Bydd y fframwaith deddfwriaethol a nodir gan yr amcanion SLM a dibenion cymorth yn sicrhau bod mesurau i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau yn cael eu hystyried wrth ddylunio cynlluniau yn y dyfodol. Bydd hyn yn cefnogi'r sector amaethyddol ac yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hymrwymiad i adfer natur.

## *Amcan SLM - gwarchod a gwella cefn gwlad a'r adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt ac ymgysylltiad y cyhoedd â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.*

*Opsiwn 1: Peidio â chyflwyno deddfwriaeth i ddarparu cymorth yn y dyfodol - tynnu cymorth yn ôl*

---

7.56. Byddai tynnu cymorth i ffermydd yn ôl yn cael effaith sylweddol ar Incwm Busnes Fferm o dan yr opsiwn hwn. Mae'n debygol y bydd cael gwared ar gyllid sy'n elfen sylweddol o lawer o incymau busnes fferm yng Nghymru yn cael effaith amlwg ar gymunedau gwledig.

7.57. Dros y tymor hwy, wrth i'r diwydiant symud i addasu i'r newid, mae potensial i strwythur y diwydiant newid yn sylweddol, gydag effeithiau rhanbarthol amrywiol ar adnoddau diwylliannol oherwydd newid mewn defnydd tir.

7.58. O dan yr opsiwn polisi hwn, byddai amddiffyniadau cyfreithiol presennol ar gyfer nodweddion hanesyddol a mynediad i'r cyhoedd yn aros, ond ni fyddai unrhyw gyllid ar gyfer tir amaethyddol i wella neu hyrwyddo ymgysylltiad.

7.59. Mae gan newidiadau i strwythur y sector amaethyddol y potensial i newid cyfraniad y sector at wydnwch y Gymraeg. Gallai tynnu cymorth yn ôl arwain at gynnydd yn y nifer o ffermwyr sy'n gwneud colled ac sydd mewn perygl o adael y diwydiant a'u cymunedau gwledig, a fyddai'n cael effaith wedyn ar y Gymraeg.

*Opsiwn 2: Deddfu i gadw'r sefyllfa bresennol (BPS a chynlluniau tir)*

7.60. Byddai ymyriadau presennol i warchod a gwella cefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol, a mynediad iddo, drwy Glastir yn parhau o dan yr opsiwn polisi hwn.

7.61. Byddai cadw'r sefyllfa bresennol yn cynnig rhywfaint o wydnwch i'r sector yn erbyn newidiadau yn y farchnad yn y dyfodol dros y tymor hwy. Fodd bynnag, oherwydd amrywioldeb ym mherfformiad ffermydd a gallu cyfyngedig rhai ffermydd i newid i fentrau mwy proffidiol, gallai fod amrywiaeth ddaearyddol yn yr effaith ar gymunedau gwledig, ac felly'r Gymraeg.

*Opsiwn 3: Deddfu i alluogi cymorth sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy*


7.62. O dan yr opsiwn polisi hwn, byddai'n rhaid i bob cymorth ar gyfer amaethyddiaeth yn y dyfodol ystyried yr amcan hwn.

7.63. Bydd angen i gymorth yn y dyfodol i amaethyddiaeth ddangos y gallu i gyflawni'r amcan hwn ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a darparu ymrwymiadau amgylcheddol megis Sero Net. Bydd hyn yn helpu i alluogi newid teg i economi carbon isel, gan sicrhau bod effeithiau a chyfleoedd wedi'u dosbarthu'n deg ar draws Cymru.

### Y Camau Nesaf

7.64. Mae prosiectau a fydd yn cael eu cyflwyno cyn i'r penderfyniad ar gynllun terfynol gael eu gwneud wedi'u rhestru isod.

## Llinell amser Datblygu'r Cynllun



## Opsiynau

### *Opsiwn 1: Peidio â chyflwyno deddfwriaeth i ddarparu cymorth yn y dyfodol – tynnu cymorth yn ôl*

### *Cyflwyniad*

7.65. Yn yr opsiwn polisi hwn, rydym yn rhagdybio y bydd pob taliad i fusnesau fferm (gan gynnwys y rhai o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), a chynlluniau tir a ariennir gan y Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG), Glastir a'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS)) yn cael eu tynnu'n ôl heb unrhyw beth i'w disodli. Nid oes cyfnod pontio. Mae'r cynlluniau presennol yn parhau tan y daw'r pwerau amser cyfyngedig, a gymerodd Gweinidogion Cymru yn Neddf Amaethyddiaeth y DU (2020) i alluogi parhad y cymorth amaethyddol presennol, i ben ar 31 Rhagfyr 2024.

7.66. Rydym yn rhagdybio bod cyngor ar ffurf Cyswllt Ffermio a'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm yn parhau.

7.67. Rydym yn rhagdybio y bydd y drefn reoleiddio a ddarperir gan Drawsgydymffurfio a chan Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 yn cael ei chynnal[69]. Mae hyn yn sicrhau bod ffocws yr asesiad ar y newidiadau amcangyfrifedig a allai godi oherwydd y newid i gymorth amaethyddol ac nid oherwydd newidiadau yn y drefn reoleiddio.

### *Effaith ar Gostau*

*7.68.* Mae'r holl gostau a gyflwynir isod yn ffigurau blynyddol, a rhagdybir y byddant yn cael eu cynnal mewn termau real gydol y cyfnod arfarnu, oni nodir yn wahanol. Lle defnyddiwyd costau presennol, mae manylion pellach yn Opsiwn 2.

## Llywodraeth Cymru - Cyfanswm Cost £11,229,104

**Costau gweinyddol** - £0

[69] Mae'r rheoliadau hyn bellach wedi'u diweddaru - Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (Diwygio) 2020 (legislation.gov.uk) ond mae'r costau yn yr asesiad hwn yn ymwneud â rheoliadau 2017.

7.69. O dan y senario hwn, nid oes unrhyw gostau gweinyddol yn gysylltiedig â BPS; na rhaglenni tir y Rhaglen Datblygu Gwledig; ac yn unol â hynny, nid oes unrhyw gost yn gysylltiedig â darparu swyddogaethau corfforaethol[70] sy’n gysylltiedig â'r rhaglenni hyn.

**Costau cydymffurfio** - £1,344,104

7.70. Rydym yn rhagweld bod rhai costau cydymffurfio yn parhau oherwydd ni fyddai diwedd y pwerau amser cyfyngedig i alluogi parhad y cymorth amaethyddol presennol yn newid y waelodlin reoleiddio sy'n gysylltiedig â rheoliadau EIA a Thrawsgydymffurfio yn sylweddol.

7.71. Gan y byddai Rheoliadau EIA (Amaethyddiaeth) yn parhau i fod yn berthnasol, rydym yn rhagdybio y bydd y gyfradd arolygu yr un fath. Mae hyn yn cynrychioli cost o £188,461.

7.72. Rydym yn rhagdybio y byddai arolygiadau Trawsgydymffurfio yn parhau i fod yn berthnasol, gan gynrychioli cost o £1,155,643.

**Costau eraill** - £9,885,000

7.73. Rydym yn rhagdybio y byddai rhaglen ERAMMP yn dal i fynd yn ei blaen, gan y byddai angen y rhaglen i greu tystiolaeth o effeithiau amgylcheddol yr opsiwn polisi, i lywio, er enghraifft, yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR), adroddiad statudol, gan CNC, sy'n darparu asesiad o’r graddau y mae adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy. Byddai ERAMMP yn golygu cost o £1.5 miliwn.

7.74. Er nad oes unrhyw gymorth amaethyddol uniongyrchol yn cael ei ddarparu i ffermwyr o dan yr opsiwn hwn, rydym yn rhagdybio y bydd Cyswllt Ffermio'n cael ei gynnal ar gost o £8.0 miliwn.

7.75. Rydym yn rhagdybio y bydd y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm (FLS) yn parhau ar gost o £385,000.

## Cyfoeth Naturiol Cymru - Cyfanswm Cost £170,882

---

**Costau Gweinyddol a Chyngor** - £27,443

[70] Er enghraifft, cyfrifyddu/llywodraethu corfforaethol/apeliadau/cydymffurfio ac achredu

7.76. Wrth i'r rhaglenni Glastir ac SMS ddod i ben, cost y rhaglenni hyn fyddai sero.

7.77. Mae CNC yn rhoi trwyddedau gweithgarwch perygl llifogydd (FRAPs)[71] i ffermwyr sy'n dymuno gweithio ar neu yn ymyl prif afon, strwythur atal llifogydd, amddiffynfa fôr neu orlifdir. Rydym yn rhagdybio y bydd hyn yn parhau ar gost o £27,443.

**Costau cydymffurfio** - £143,439

7.78. Rydym yn rhagweld y bydd rhai costau cydymffurfio yn parhau gan na fyddai pwerau amser cyfyngedig i alluogi'r cymorth amaethyddol presennol i barhau yn newid y llinell sylfaen rheoleiddio sy'n gysylltiedig â rheoliadau EIA a Thrawsgydymffurfio yn sylweddol.

7.79. Byddai Rheoliadau EIA (Amaethyddiaeth) yn parhau i fod yn berthnasol ac rydym yn rhagdybio y bydd y gyfradd arolygu yr un fath. Mae hyn yn cynrychioli cost o £23,755[72].

7.80. Rydym yn rhagdybio y byddai arolygiadau Trawsgydymffurfio yn parhau i fod yn berthnasol, gan gynrychioli cost o £119,684.

**Sector Amaeth –** Cyfanswm Cost £0

7.81. Mae'r opsiwn hwn yn rhagdybio y bydd yr holl daliadau i fusnesau fferm (gan gynnwys y rhai o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), a'r cynlluniau tir a ariennir gan y RhDG, Glastir a'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy) yn cael eu tynnu'n ôl heb eu disodli. Y gost i'r sector amaethyddol yng Nghymru o wneud cais am gyllid fyddai sero.

**Cyfanswm cost - £11,399,986**

## Effaith ar Fanteision

***Platfform Modelu Integredig***

[71] Cyfoeth Naturiol Cymru / Trwyddedau amgylcheddol ar gyfer gweithgareddau perygl llifogydd

[72] Nid yw'r amcangyfrifon cost hyn yn cynnwys ymgynghoriadau sgrinio tir comin, sydd bellach wedi'u cynnwys o dan Reoliadau EIA (iwygio) (2020). Mae'r rhain yn achosion cymhleth a bydd angen mewnbwn ar draws CNC. Ar hyn o bryd, nid yw'r costau hyn yn hysbys.

7.82. Mae asesu manteision yn yr adran hon yn ymgorffori dadansoddiad sy’n defnyddio Platfform Modelu Integredig (IMP) Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP)[73].

7.83. Opsiwn 1 (cymorth yn dod i ben ar ddiwedd 2024) ac Opsiwn 2 (cadw’r sefyllfa bresennol) yn cyflwyno canlyniadau modelu gan ddefnyddio'r IMP.

7.84. Mae'r IMP yn gyfrwng ar gyfer archwilio’n gyflym effeithiau ymyriadau polisi a rheoli ar hyfywedd fferm, defnydd tir a chanlyniadau amgylcheddol yng Nghymru. Mae'n defnyddio dull integredig, gan gydnabod bod ymyriadau'n arwain at sawl effaith a bod effeithiau polisi mewn un sector yn cael effeithiau anuniongyrchol mewn sectorau eraill. Mae'n cynnwys cadwyn o fodelau arbenigol ac arloesol sy'n ymdrin ag amaethyddiaeth, coedwigaeth, penderfyniadau dyrannu defnydd tir, dŵr, aer, priddoedd, bioamrywiaeth, gwasanaethau ecosystem a phrisio.

7.85. Mae'r IMP yn cael ei gymhwyso i 'ffermydd llawn amser' (> 1 gweithiwr Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)). Mae newidiadau mewn defnydd tir yn cael eu sbarduno gan economeg ar y fferm ac addasrwydd tir. Nid ydynt yn ystyried sgiliau nac ymatebion diwylliannol ac ymddygiad. Mae rhagdybiaethau llawn sy'n sail i'r modelu wedi'u cynnwys yn Adroddiad ERAMMP 60[74].

7.86. Defnyddiwyd yr IMP i archwilio newidiadau mewn defnydd tir amaethyddol a allai ddeillio o newidiadau yn amodau'r farchnad yn sgil cytundeb masnach gyda'r UE (Scenario T2) ac o dynnu BPS yn ôl.

7.87. **Mae'r modelu yn amcangyfrif effeithiau ar y 7,726 o ffermydd llawn amser yng Nghymru. Mae'r boblogaeth enghreifftiol hon yn cyfrif am:**

a) 31% o'r oddeutu 24,500 o ffermydd yn arolwg amaethyddol mis Mehefin; mae'r ffermydd hyn yn cynhyrchu 88% o'r allbwn safonol ac yn cyfrif am 83% o ofyniad llafur amaethyddiaeth Cymru;
b) 86% o'r holl wartheg (a 99% o'r holl wartheg godro) yng Nghymru;
c) 90% o’r holl ddefaid yng Nghymru;
d) 74% o holl dir arolwg amaethyddol mis Mehefin yng Nghymru, ac o fewn hynny, 84% o dir pori garw, 70% o dir pori parhaol, 84% o dir cnwd a 66% o goed ar ffermydd[75].

[73] https://erammp.wales/cy
[74] ERAMMP Adroddiad-60 IMP Senarios Defnydd Tir Adroddiad Terfynol.pdf
[75] Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y rhan fwyaf o goedwigaeth fasnachol

**Tabl 1: Dosbarthiadau Incwm Busnes Fferm o fewn IMP**

| Fel math o fferm llinell sylfaen | Incwm posibl fel mathau eraill o ffermydd | Dosbarthiad | Dehongliad |
|---|---|---|---|
| <£6,000 y flwyddyn | <£6,000 y flwyddyn. | Fferm dan bwysau | Yn debygol o adael amaeth llawn amser |
| <£6,000 y flwyddyn | >£6,000 y flwyddyn | Fferm dan bwysau | Yn debygol o newid y math o fferm drwy werthu i fenter arall |
| £6,000-£13,000 | Unrhyw swm | Ffermydd yn aros yr un fath | Gallu parhau ond yn annhebygol o allu newid y math o fferm |
| >£13,000 | <£13,000 + codiad incwm + cyllid | Ffermydd yn aros yr un fath | Dim digon o gymhelliant economaidd i newid math o fferm |
| >£13,000 | >=£13,000 + codiad FBI + cyllid | Ffermydd yn newid math | Yn debygol bod digon o gymhelliant economaidd i newid y math o fferm |

7.88. **Mae allbynnau IMP a ddefnyddir yma yn seiliedig ar ganlyniadau tynnu taliadau BPS o bob fferm llawn amser wedi'i modelu mewn dwy senario:**

a) effaith tymor byrrach tynnu'n ôl, ar y cyd â chyflwyno prisiau amcangyfrifedig Cytundeb Masnach gyda'r UE;

b) effaith fwy hirdymor tynnu'n ôl, ar y cyd â chyflwyno prisiau amcangyfrifedig Cytundeb Masnach gyda'r UE.

7.89. Rhagdybir bod tynnu cymorth yn ôl yn newid ar unwaith (h.y. nid oes cyfnod pontio), felly ni ystyrir unrhyw broses o dynnu taliadau yn ôl yn raddol.

Mae prisiau amcangyfrifedig Cytundeb Masnach gyda'r UE yr un fath â'r rhai a ddefnyddir yn Opsiwn Polisi 22 CBA (senario enghreifftiol T2). Mae manylion pellach am

T2 a rhagdybiaethau model sylfaenol i'w cael yn ERAMMP Report-60 IMP Senarios Defnydd Tir Adroddiad Terfynol.pdf.

**Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021**

7.90. Nid yw cyflwyno Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 wedi'i gynnwys yn yr asesiad o'r tri opsiwn. Bydd y rheoliadau'n cael eu hystyried fel rhan o ddyluniad cymorth i ffermydd yn y dyfodol.

**Defnydd amgen o gyllid**

7.91. O dan yr opsiwn hwn, gallai £278 miliwn fod ar gael i'w wario ar flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru. Gellid disgwyl y byddai hyn yn cronni manteision ond mae hyn y tu allan i gwmpas y dadansoddiad hwn.

## *Effeithiau ar Fusnes Fferm*

**Colli Cynllun y Taliad Sylfaenol**

7.92. Mae'r BPS yn cyfrannu gwariant cyhoeddus o tua £238 miliwn at amaethyddiaeth Cymru yn flynyddol. Mae data o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio (FBS) yn awgrymu ei fod yn cyfrannu at sefyllfa ariannol busnesau fferm, gyda:

a) tua hanner y ffermydd yn gwneud elw o £10 o leiaf am bob £100 o gostau, o dan y drefn bresennol o gymorth, gyda hyn yn gostwng i tua 15% heb unrhyw gymorth cyhoeddus[76];

*b)* tua thraean yn gwneud colled, o dan y drefn bresennol o gymorth, gyda hyn yn cynyddu i tua 75% heb unrhyw gymorth cyhoeddus

7.93. Drwy'r cyfraniad hwn at sefyllfa ariannol ffermydd, mae'r BPS yn cyfrannu at wydnwch ariannol busnes fferm. O dan yr opsiwn polisi hwn, ni fyddai'r cyfraniad hwn yn parhau mwyach.

[76] BPS a Glastir

**Colli Glastir**

7.94. Cyfrannodd Glastir wariant cyhoeddus o £40 miliwn at amaethyddiaeth Cymru yn 2019-20. Mae'r taliadau'n seiliedig ar gostau yr eir iddynt ac incwm a gollwyd felly, ar y lefel gyfanredol, mae'n annhebygol o gyfrannu (neu wneud cyfraniad bach yn unig) at Incwm cyfanredol Busnes Fferm. Fodd bynnag, ar lefel fferm unigol, gall gyfrannu at broffidioldeb busnes fferm, yn dibynnu ar effeithlonrwydd a sylfaen gostau'r fferm wrth ymgymryd â chamau Glastir.

**Colli'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS)**

7.95. Mae'r SMS yn cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd i wella adnoddau naturiol, gan sicrhau manteision i'r fferm, busnesau gwledig a chymunedau gwledig. Ni wneir unrhyw daliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan yr SMS.

**Proffidioldeb Cymharol Ffermydd**

7.96. Mae Atodiad A yn cynnwys dadansoddiad gan ddefnyddio'r Arolwg o Fusnesau Ffermio (FBS) ar broffidioldeb cymharol ffermydd o wahanol fathau a meintiau ac effaith taliadau BPS a Glastir ar y proffidioldeb hwn.

7.97. Mae Tabl 2 yn dangos amcangyfrifon poblogaeth o broffidioldeb cymharol ar gyfer y 9,700 o ffermydd[77] sydd ag Allbwn Safonol o €25,000 o leiaf - mae ffermydd llai o faint[78] wedi'u heithrio. Hefyd wedi'u heithrio mae mathau o ffermydd gyda nifer fach o ffermydd, megis garddwriaeth, dofednod a moch.

7.98. Mae proffidioldeb cymharol yn cael ei fynegi fel £ elw am bob £100 o gostau - fe'i defnyddir i gyfrif am wahanol feintiau economaidd ffermydd.

7.99. Pan gynhwysir taliadau BPS a Glastir, mae tua 33% o'r boblogaeth o ffermydd sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn eisoes yn gwneud colled (felly gall y teuluoedd ffermio sy'n gysylltiedig â'r busnesau fferm hyn fod yn ddibynnol ar ffynonellau incwm eraill gan aelodau eraill o'r aelwyd).

---

[77] Tua 16,000 o ffermydd yng Nghymru sy'n derbyn BPS. Felly, mae'r dadansoddiad hwn yn eithrio tua 6,000 o ffermydd sydd ag Allbwn Safonol o lai na €25,000

[78] Mae'r ffermydd "micro" hyn yn cyfrif am tua 60% o ffermydd yng Nghymru, 5% o'r allbwn safonol a 15% o'r tir amaethyddol.

**Tabl 2: Elw a cholled fesul £100 o gostau, taliadau BPS a Glastir wedi'u cynnwys. Mae data'n dangos nifer y ffermydd ym mhob categori.**

| | Elw | Elw ymylol | Unrhyw golled | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | **4,829** | **1,642** | **3,229** | **9,700** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Arolwg o Fusnesau Fferm 2019-2020

7.100. O dynnu taliadau BPS a Glastir (Tabl 3), mae cyfanswm allbwn ffermydd yn cynnwys allbwn o werthu cynnyrch amaethyddol yn unig, ac allbwn o arallgyfeirio. Mae hyn yn dangos bod 75% o ffermydd ym mhoblogaeth yr FBS yn gwneud colled pan fo taliadau BPS a Glastir wedi'u heithrio. Mae tua 15% o'r boblogaeth yn dal i wneud elw sy'n fwy nag elw ymylol.

7.101. Mae'r data hwn yn cynrychioli darlun statig h.y. nid yw'n caniatáu unrhyw ymateb gan y ffermwr i golli cyllid (megis strategaeth i leihau costau'r fferm). Felly, mae'r data'n cael ei ystyried orau fel llinell sylfaen sy'n nodi graddfa uchaf debygol yr effaith.

**Tabl 3: Elw a cholled fesul £100 o gostau, taliadau BPS a Glastir wedi'u heithrio (Nifer y ffermydd)**

| Band allbwn | Elw (o leiaf £10 am bob £100 o gostau) | Elw ymylol (o leiaf £0 a llai na £10 am bob £100 o gostau | Unrhyw golled (pob gwerth negyddol) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Llai na £125,000 | 477 | 383 | 5,039 | 5,899 |
| £125,000 i £250,000 | 429 | 291 | 1,567 | 2,287 |
| £250,000 i £500,000 | 240 | 153 | 540 | 934 |
| O leiaf £500,000 | 218 | 135 | 226 | 580 |
| **CYFANSWM** | **1,365** | **963** | **7,373** | **9,700** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Arolwg o Fusnesau Fferm 2019-2020

7.102. Felly, ychydig dros 4,100[79] yw'r cynnydd yn nifer y ffermydd sy'n gwneud colled yn absenoldeb taliadau BPS neu Glastir, sef tua 42% o boblogaeth y ffermydd sydd yn y dadansoddiad hwn.

7.103. Mae cymhariaeth o Dablau 2 a 3 yn dangos bod nifer y ffermydd sy'n gwneud elw sy'n fwy nag elw ymylol yn disgyn o 4,829 (50% o'r boblogaeth yn y dadansoddiad) pan gynhwysir taliadau BPS a Glastir, i 1,365 (14%) pan fo taliadau o'r fath wedi'u heithrio. Mae Atodiad A yn dangos bod y ffermydd sy'n gwneud elw i'w gweld ar draws y sbectrwm maint ffermydd a mathau o fferm.

7.104. Mae'r data hwn yn rhoi ymdeimlad o faint tebygol y pwysau ariannol ac, o ganlyniad, newidiadau i fusnesau fferm a allai fod yn angenrheidiol o dan senario polisi o'r fath. Bydd graddfa hyn hefyd yn adlewyrchu amodau'r farchnad (prisiau mewnbwn ac allbwn).

**Strwythur y Diwydiant**

7.105. Dangosir effaith tynnu BPS yn ôl isod ar gyfer dwy senario a fodelwyd gan ddefnyddio'r Platfform Modelu Integredig (IMP):

a) Effaith tymor byrrach tynnu'r BPS yn ôl a gweithredu prisiau Senario Cytundeb Masnach gyda'r UE (T2). Yn y senario hon, nid yw ffermydd yn gallu newid y math o fferm, gadael amaethyddiaeth llawn amser na mynd drwy broses gwerthu/prynu.
b) Effaith fwy hirdymor tynnu'r BPS yn ôl a gweithredu prisiau Senario Cytundeb Masnach yr UE-DU. Yn y senario hon, mae ffermydd yn gallu ymateb drwy newid y busnes, gadael amaethyddiaeth llawn amser neu fynd drwy broses werthu/brynu.

7.106. Mae manylion y rhagdybiaethau trawsnewid ffermydd hyn yn Atodiad B. Mae manylion poblogaeth IMP wedi'u hamlinellu ar ddechrau'r opsiwn polisi hwn[80]. Lle bo angen at ddibenion cymharu, mae prisiau 2015 wedi'u trosi i brisiau 2020 gan ddefnyddio datchwyddyddion *Cynnyrch Domestig Gros* (GDP) y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

7.107. Byddai'r opsiwn polisi o gael gwared ar y BPS yn cynrychioli newid mawr mewn polisi ac yn debygol o arwain at drawsnewid yn y mathau o ffermydd dros y tymor hwy. Mae'r trawsnewidiadau hyn yn debygol o gael effeithiau ychwanegol sylweddol

[79] 7,373 – 3,229
[80] Manylion pellach yma: [ERAMMP Adroddiad-60 Llwyfan Modelu Integredig ('IMP') Senarios Defnydd Tir Adroddiad Terfynol.pdf]

ar yr ystod o ganlyniadau amgylcheddol[81], yn ogystal ag effeithiau cymdeithasol negyddol tebygol ar ffermio a chymunedau ffermio, oherwydd yr effaith ar incwm ffermydd.

7.108. Mae Ffigur 1 yn dangos strwythur y 7,726 o ffermydd llawn amser a fodelwyd cyn (oren) ac ar ôl (glas) tynnu cymorth yn ôl a chyflwyno prisiau senario Masnach yr UE. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r ymateb hirdymor a fodelwyd i newidiadau mewn proffidioldeb.

7.109. Mae'r senario'n dangos gostyngiad mawr mewn ffermydd defaid arbenigol (mewn ardaloedd dan anfantais fawr (SDA)) sydd naill ai'n gadael amaethyddiaeth llawn amser neu'n newid i fod yn ffermydd pori cymysg neu ffermydd bîff arbenigol. Ar ffermydd gwartheg a defaid iseldir, mae cymysgedd o ffermydd yn gadael amaethyddiaeth llawn amser neu'n newid i systemau godro neu systemau da byw gwahanol.

7.110. Yn y tymor hwy, mae 190 o ffermydd llawn amser (2.5%) yn newid y math o fferm. Mae'r gyfran fechan hon o ffermydd yn gallu newid yn fwriadol i systemau mwy proffidiol[82]. Mae ffermydd sy'n newid y math o fferm yn ffermydd gwartheg iseldir, pori cymysg SDA ac ŷd yn bennaf. Mae hwn yn newid llai nag o dan Opsiwn 2 (cadw'r sefyllfa bresennol) lle mae’r BPS yn parhau a lle mae prisiau Masnach yr UE yn cael eu cyflwyno, ac mae 29% o ffermydd yn newid math o fferm, sy'n dangos mwy o allu i ariannu'r trawsnewid.

7.111. Yn achos 97.5% o ffermydd a fodelwyd, dangosir y byddant yn parhau i fod yr un math o fferm. Mae'r ffermydd sy'n weddill o dan bwysau, ond ddim yn gallu newid, naill ai oherwydd diffyg cyfle neu ddiffyg FBI i ariannu'r trawsnewid i system fwy proffidiol.

7.112. Mae 6.5% o ffermydd yn yr efelychiad yn methu â chyrraedd y trothwy o £6,000 y flwyddyn yn y llinell sylfaen a fodelwyd, felly maent yn agored i adael amaethyddiaeth


---

[81] Dangosir yr ansicrwydd am gyfeiriad ac ystod yr effeithiau amgylcheddol posibl o dan y senario hon yn, er enghraifft: M.S. Reed, K. Arblaster, C. Bullock, R.J.F. Burton, A.L. Davies, J. Holden, K. Hubacek, R. May, J. Mitchley, J. Morris, D. Nainggolan, C. Potter, C.H. Quinn, V. Swales, ac S. Thorp (2009) Using scenarios to explore UK upland futures, Futures 41, 619–630

[82] Noder, ar ôl cwblhau'r Senarios Defnydd Tir a chyn rhedeg y senario tynnu’r BPS yn ôl, cytunwyd gyda Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru i addasu'r rheolau sy'n pennu trawsnewid i fathau eraill o ffermydd. Roedd y newidiadau'n cynnwys gofynion cyfalaf ychwanegol am newid yn y math o fferm i fferm odro; a thrawsnewid ffermydd amhroffidiol i'r math o fferm broffidiol sydd â'r FBI mwyaf fesul uned o ofyniad cyfalaf. Bydd y ddau newid wedi lleihau'r tebygolrwydd o drawsnewid i fferm odro o dan y senario hwn o dynnu BPS yn ôl o gymharu â Senario Cytundeb Masnach gyda’r UE (T2). Dylid cofio hyn wrth ystyried y canlyniadau.

llawn amser. O dan y senario hon, unwaith y bydd BPS yn cael ei dynnu'n ôl a Phrisiau Senario Masnach yr UE gael eu cyflwyno, credir y bydd 12.3% o ffermydd yn yr efelychiad yn gadael amaethyddiaeth llawn amser. Mae hyn yn gynnydd o gymharu ag Opsiwn 2 (cadw'r sefyllfa bresennol) sy'n dangos bod 7.1% yn gadael. Mae'n bosibl y byddai'r ffermydd hyn yn parhau mewn amaethyddiaeth ran-amser neu y byddai'r tir yn cael ei drosglwyddo i ffermydd cyfagos.

**Ffigur 1. Effaith y senario ar strwythur y diwydiant yn ôl yr efelychiad (Tynnu'r BPS yn ôl gyda phrisiau Senario Masnach gyda'r UE)**




7.113. O dan yr opsiwn polisi hwn, mae'n debygol y byddai gan ffermydd lai o allu i ymateb i newidiadau yn amodau'r farchnad, oherwydd gostyngiad mewn FBI. Byddai cynnydd yn nifer y ffermydd sy'n gwneud colled, gyda mwy o ffermydd yn wynebu risg o adael amaethyddiaeth llawn amser.

**Incwm cyfanredol Busnes Fferm**

7.114. Mae'r newid a ddangosir yn yr efelychiad mewn FBI cyfanredol yn adlewyrchiad o dynnu cymorth amaethyddol yn ôl a hefyd o newid hirdymor amcangyfrifedig mewn prisiau gât y fferm, fel y trafodir o dan Opsiwn 2 (cadw'r sefyllfa bresennol).

7.115. Unwaith y bydd prisiau Senario Masnach yr UE yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr â thynnu'r BPS yn ôl, mae FBI cyfanredol yn lleihau 41% yn y tymor byrrach o

gymharu â'r llinell sylfaen prisiau cyn Senario'r Cytundeb Masnach, wedi' ariannu gan y BPS (Tabl 4).

7.116. Dros y tymor hwy, mae busnesau fferm yn gallu ymateb i'r newidiadau drwy drawsnewid i fathau mwy proffidiol o ffermydd, lle bo modd, er bod FBI cyfanredol 30% yn is na'r llinell sylfaen prisiau gwreiddiol cyn Senario'r Cytundeb Masnach, wedi'i ariannu gan y BPS. Mae hyn yn adferiad bychan o'r effeithiau tymor byrrach ac yn adlewyrchu trawsnewid i ffwrdd o ddefaid tuag at systemau bîff sy'n cynnig elw (cymharol) uwch (sy'n elwa ar y cynnydd o 3% yn yr efelychiad ym mhrisiau bîff gorffenedig a phrisiau gwartheg bîff i'w difa) a godro.

7.117. Mae'r effaith ar FBI yn fwyaf amlwg mewn ffermydd defaid (yn enwedig Defaid Arbenigol SDA) lle mae'r gostyngiad o 1% ym mhrisiau ŵyn gorffenedig, ar y cyd â thynnu'r BPS yn ôl, yn achosi gostyngiad sylweddol yn y maint elw gros (a'r elw) o fewn systemau ffermio nad ydynt yn gynhenid yn broffidiol iawn ac efallai na fyddant yn gallu trawsnewid i fathau eraill o ffermydd.

**Tabl 4: Incwm cyfanredol Busnesau Fferm (FBI) yr efelychiad yn y tymor byrrach a hwy (Senarios tynnu'r BPS yn ôl), ffermydd llawn amser**


| | Llinell sylfaen (gyda BPS) | Tymor byrrach (Tynnu'r BPS yn ôl, prisiau senario Masnach yr UE) | Tymor hwy (Tynnu'r BPS yn ôl, prisiau senario Masnach yr UE) |
|---|---|---|---|
| **Math o fferm** | **FBI cyfanredol (£ miliwn)** | **FBI cyfanredol (£ miliwn)** | **FBI cyfanredol (£ miliwn)** |
| Ydau | 2.6 | 1.0 | 0.25 |
| Cnwd Cyffredinol | 1.5 | 0.7 | 0.2 |
| Godro | 122.7 | 107.6 | 111.5 |
| Gwartheg Iseldir | 19.9 | 6.1 | 8.9 |
| Cymysg | 7.9 | 4.3 | 16.5 |
| Arall | 3.0 | 1.7 | 1.7 |
| Defaid Arbenigol | 66.6 | 13.4 | 11.3 |
| Bîff Arbenigol | 6.2 | 3.5 | 17.9 |
| Pori Cymysg SDA | 29.3 | 15.7 | 13.4 |
| Pori Amrywiol DA | 34.1 | 21.2 | 24.3 |
| **CYFANSWM** | **293.2** | **175.2** | **205.8** |

Noder. Gwerthoedd 2015 wedi'u trosi i brisiau 2020 gan ddefnyddio datchwyddyddion cynnyrch domestig gros ONS

7.118. Mae Ffigur 2 yn dangos statws busnes fferm yn yr efelychiad y mathau presennol o ffermydd llawn amser pe baent yn parhau yn eu math presennol o fferm mewn sefyllfa o dynnu'r BPS yn ôl a chyflwyno prisiau Senario Masnach gyda'r UE. Mae 32% o'r boblogaeth a fodelwyd o dan bwysau ariannol. Mae hyn o gymharu â 10% o ffermydd a fyddai o dan bwysau o dan Opsiwn 2 (cadw'r sefyllfa bresennol) yn ôl yr efelychiad.

7.119. Mae'r cyfuniad o'r newidiadau bach mewn prisiau a thynnu'r BPS yn ôl yn arwain at gynnydd mawr yn nifer y ffermydd sydd o dan bwysau, ond gyda chyfle isel i ymateb drwy drawsnewid i systemau mwy proffidiol.

**Ffigur 2. Statws ffermydd llawn amser yn ôl yr efelychiad o dan y senario (tynnu'r BPS yn ôl gyda phrisiau senario Masnach gyda'r UE, *n*=7,177)**



7.120. Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar amcangyfrifon o brisiau'r farchnad ar gyfer mewnbynnau ac allbynnau amaethyddol. Mae data o Fynegai Prisiau Amaethyddol y DU[83] yn darparu mynegai o bris allbynnau a mewnbynnau amaethyddol ar gyfer y DU a ddefnyddir i olrhain newid dros amser. Dengys hwn bod chwyddiant blynyddol hyd at fis Mawrth 2022 yn 11.8% ar gyfer allbynnau amaethyddol; a 25.4% ar gyfer mewnbynnau amaethyddol. Os yw chwyddiant mewnbwn uwch na chwyddiant allbwn yn parhau, o ran allbynnau model ERAMMP, byddai'n awgrymu:

a) **Ffermydd yn newid math –** ychydig iawn o newid yn y ffermydd a fydd yn newid math yn ôl yr efelychiad, oherwydd diffyg opsiynau amgen o ran math o fferm a llai o allu i ariannu'r trawsnewid i fentrau mwy proffidiol;

b) **Ffermydd o dan bwysau –** nifer uwch o ffermydd o dan bwysau mewn ardaloedd ucheldir a bryniog (Ardaloedd Dan Anfantais (DA) ac Ardaloedd Dan Anfantais Fawr (SDA));

c) **Ffermydd yn gadael amaethyddiaeth llawn amser -** nifer uwch o ffermydd yn gadael amaethyddiaeth llawn amser, yn bennaf mewn ardaloedd ucheldir a bryniog (Ardaloedd Dan Anfantais ac Ardaloedd Dan Anfantais Fawr).

**Newidiadau mewn allbwn**

7.121. Modelodd gwaith dan arweiniad y Sefydliad Bwyd-Amaeth a Biowyddorau (AFBI)[84] effeithiau amcangyfrifedig lleihau neu ddileu taliadau uniongyrchol, fel y'u cyflwynir ar hyn o bryd i ffermwyr, ar amaethyddiaeth y DU a Gweinyddiaethau Ddatganoledig.

7.122. Dyma brif ganfyddiadau'r ymchwil:

a) Mae lleihau neu ddileu taliadau uniongyrchol wedi'u datgysylltu i ffermwyr yn cael effeithiau anwastad ar gynhyrchu a phrisiau gât y fferm ar gyfer prif nwyddau amaethyddol y DU;

[83] API – Mynegai prisiau allbynnau a mewnbynnau amaethyddol – hysbysiad ystadegau (data at fis Mawrth 2022) - GOV.UK (www.gov.uk) (Saesneg yn unig)

[84] **Patton, Feng, Davis, Caskie, Sherry a Binfield (2020). Impact on UK Agriculture of Changes to Direct Payments Following Brexit, Agri-Food and Biosciences Institute**
https://www.afbini.gov.uk/publications/impact-uk-agriculture-changes-direct-payments-following-brexit

b) Nwyddau amaethyddol a gynhyrchir gan sectorau fferm sydd fwyaf dibynnol ar gymorthdaliadau ar gyfer incwm ffermydd sy'n profi'r newidiadau mwyaf a ragwelir ym mhrisiau gât y fferm a chyfeintiau cynhyrchu, yn enwedig bîff a chig defaid;
c) Mae fframwaith masnachu'r DU-UE sydd ar waith pan fydd taliadau uniongyrchol wedi'u datgysylltu yn cael eu lleihau neu eu dileu yn cael effaith sylweddol ar gynhyrchu a pharamedrau eraill y farchnad ar gyfer gwahanol nwyddau amaethyddol.

7.123. Mae Tabl 5, a gymerwyd o'r adroddiad hwn, yn dangos newidiadau amcangyfrifedig yng nghyfanswm gwerth allbwn amaethyddol yng Nghymru mewn senarios a adeiladwyd sy'n ystyried tynnu taliadau'r BPS yn ôl. Fodd bynnag, rhaid ystyried maint y datgysylltu. Mae'r adroddiad yn nodi'r canlynol:

7.124. Er nad yw taliadau wedi'u datgysylltu yn gysylltiedig â chynhyrchu, maen nhw'n gallu dylanwadu ar ymddygiad ffermwyr, gan arwain at lefelau uwch o allbwn nag arfer. Mae yna ansicrwydd mawr ynglŷn ag i ba raddau y mae taliadau wedi'u datgysylltu yn dylanwadu ar gynhyrchu, ac felly mae tri senario gwahanol yn cael eu hystyried at ddibenion dadansoddi polisi. Yn unol â'r rhagdybiaeth am ddatgysylltu sy'n cael ei gwneud yng ngweddill system fodelu Sefydliad Ymchwil Polisi Bwyd ac Amaeth (FAPRI) yr UE, rhagdybir yn y lle cyntaf bod yr effaith gynhyrchu ar y taliadau Colofn I wedi'u datgysylltu yn gymharol 'wan', h.y. mae effaith cynhyrchu ffisegol cynnydd £1 mewn taliad uniongyrchol yn 30% o effaith cynnydd £1 yn y pris. Mae rhagdybiaeth 'gymedrol' 60% a rhagdybiaeth 'gadarn' 100% wedi'u cynnwys hefyd. Mae'r olaf yn cynnwys yr un ymateb cynhyrchu â chymorth wedi'i ddatgysylltu'n llawn.

7.125. Ar y cyfan, mae'r dadansoddiad yn dangos mai'r sectorau bîff a defaid yw'r sectorau mwyaf tebygol o brofi dirywiad mewn lefelau gweithgarwch a chynhyrchu mewn ymateb i ostyngiadau yn y BPS a dileu'r BPS. Mae'r effaith a ragwelir yn dibynnu ar y rhagdybiaethau ynglŷn â'r graddau y mae'r taliadau datgysylltu'n cael effaith sy'n ysgogi cynhyrchu. Mae cryn ansicrwydd yn y maes hwn.

7.126. Gall effeithiau dosbarthiadol newidiadau polisi o'r fath ar lefel y fferm fod yn arwyddocaol gan fod cyfran helaeth o ffermydd yn ddibynnol ar daliadau uniongyrchol i wneud elw, yn enwedig yn y sectorau bîff a defaid.

7.127. Mae'r canlyniadau cyffredinol yn awgrymu y bydd cyfanswm gwerth yr allbwn amaethyddol yng Nghymru yn gostwng ychydig, rhwng 1.3% a 4%. Pan ychwanegir

gwerth taliadau colofn 1 a cholofn 2 at hyn, amcangyfrifir bod y gwerth cyfunol (allbwn amaethyddol ynghyd â thaliadau colofn 1 a 2) yn gostwng 14-16%.

**Tabl 5: Amcangyfrif o newidiadau mewn gwerth allbynnau yng Nghymru**

| | |
|---|---|
| **Newidiadau a ragwelir yng ngwerth yr allbwn oherwydd newidiadau i daliadau uniongyrchol Colofn 1: rhagdybiaeth datgysylltu o 30%**[85] | |
| | Gostyngiad o 100% yng Ngholofn 1 |
| Cyfanswm Gwerth Amaethyddol yr Allbwn | - 1.3% |
| Gwerth yr Allbwn + Taliadau Uniongyrchol (Colofn 1 + Colofn 2) | - 13.7% |
| **Newidiadau a ragwelir yng ngwerth yr allbwn oherwydd newidiadau i daliadau uniongyrchol Colofn 1: rhagdybiaeth datgysylltu o 60%** | |
| | Gostyngiad o 100% yng Ngholofn 1 |
| Cyfanswm Gwerth Amaethyddol yr Allbwn | - 2.6% |
| Gwerth yr Allbwn + Taliadau Uniongyrchol (Colofn 1 + Colofn 2) | - 14.8% |
| **Newidiadau a ragwelir yng ngwerth yr allbwn oherwydd newidiadau i daliadau uniongyrchol Colofn 1: rhagdybiaeth datgysylltu o 100%** | |
| | Gostyngiad o 100% yng Ngholofn 1 |
| Cyfanswm Gwerth Amaethyddol yr Allbwn | - 4.0% |
| Gwerth yr Allbwn + Taliadau Uniongyrchol (Colofn 1 + Colofn 2) | - 16.0% |

7.128. Mae gwahaniaethau methodolegol pwysig rhwng IMP ERAMMP a'r gwaith a ddyfynnir uchod. Defnyddiodd y gwaith dan arweiniad yr AFBI fodel cydbwysedd rhannol FAPRI-UK[86] sy'n cynnwys system o hafaliadau sy'n cwmpasu'r sectorau godro, bîff, defaid, moch, dofednod, gwenith, barlys, ceirch, hadau rêp a biodanwydd.

7.129. Mae model y DU yn cynnwys is-fodelau ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n adlewyrchu meysydd cyfrifoldeb y gweinyddiaethau datganoledig.

[85] SEFYDLIAD BWYD-AMAETH A BIOWYDDORAU (afbini.gov.uk)
[86] Ibid.

7.130. Yn gyffredinol, modelir y cyflenwad ar gyfer pob un o bedair gwlad cyfansoddol y DU, tra bod y galw wedi'i fodelu ar lefel y DU. Mae hyn yn cynhyrchu rhagamcanion o niferoedd da byw, lladd, cynhyrchu, prisiau'r farchnad, derbyniadau'r farchnad, taliadau uniongyrchol a mewnbynnau dethol ar gyfer pob un o wledydd y DU.

7.131. Ar y llaw arall, mae IMP ERAMMP yn cynnwys system integredig o 11 o fodelau cysylltiedig[87], gan gynnwys:

a) Model Fferm Cyfan Silsoe SFARMOD - rhaglen linol fecanistig o ffermio hirdymor sy'n optimeiddio defnydd a rheolaeth tir yn seiliedig ar gynyddu elw cyfyngedig neu amcanion lluosog wedi'u pwysoli.
b) Modiwl Dyrannu Tir (LAM) - mae'r modiwl hwn yn dangos newidiadau i ddefnydd tir a systemau ffermio drwy set o reolau a throthwyon; gan gymharu math presennol o fferm â'r math o fferm amgen mwyaf proffidiol.

7.132. Mae IMP ERAMMP wedi cael ei deilwra'n arbennig i gefnogi datblygiad polisïau newydd sy'n canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol, defnydd tir ac amaethyddiaeth o dan wahanol fathau o senarios economaidd a rheoleiddiol yng Nghymru yn y dyfodol.

7.133. Y gwahaniaethau mwyaf amlwg rhwng IMP ERAMMP a'r model FAPRI-UK yw:

a) Mae FAPRI-UK yn amcangyfrif effeithiau ar brisiau cyffredinol cynhyrchwyr a gwerth allbynnau, gan weithio ar lefel sector/gwlad (yn hytrach na fferm).
b) Mae IMP ERAMMP yn cymryd rhagfynegiadau prisiau o fodelau FAPRI-UK ac yn amcangyfrif newid mewn defnydd a rheolaeth tir, o dan wahanol sefyllfaoedd polisi posibl, ar lefel y fferm, yn seiliedig ar yr opsiynau sydd gan fferm i wneud yr elw mwyaf. Fel y nodwn uchod, mae'r modelu yma wedi'i gyfyngu i ffermydd llawn amser.
c) Mae IMP ERAMMP yn efelychu effaith y senario yng Nghymru yn unig, gyda rhagdybiaeth ymhlyg nad oes adborth i brisiau gât y fferm.
d) Er bod y rhain yn fodelau gwahanol gyda gwahanol ddibenion a gosodiadau penodol, maent yn cyflenwi’i gilydd wrth geisio cael dealltwriaeth eang o effeithiau posibl newidiadau i bolisi amaethyddol.

[87] Modelau IMP | ERAMMP

7.134. Felly, nid oes modd cymharu'r ddau fodel yn uniongyrchol o ran eu hadeiladwaith, eu gweithrediad a'u cwmpas; yn hytrach, gellir edrych ar effeithiau amcangyfrifedig y senario polisi hwn drwy wahanol lensys a chanolbwyntio ar wahanol agweddau.

7.135. Gyda'i gilydd, fodd bynnag, maent yn rhoi syniad o faint tebygol effeithiau'r senario polisi hwn, nad ydynt yn ymddangos yn anghyson â'i gilydd - sy'n awgrymu, ar lefel gwlad, effeithiau mwy amlwg ar fesurau sy'n ymwneud ag incwm ffermydd a dangosyddion elw, a chynnydd disgwyliedig yn nifer y ffermydd sydd o dan bwysau economaidd, yn y byrdymor o leiaf. Mae'r data o'r dadansoddiad o ffermydd ym mhoblogaeth yr FBS (uchod) yn cefnogi hyn hefyd, gan ddangos cynnydd mawr yn nifer y ffermydd sy'n gwneud colled.

**Hyfywedd byrdymor busnesau fferm yng Nghymru**

7.136. O dan y system bresennol o gymorth, mae Opsiwn 2 (cadw'r sefyllfa bresennol) yn dangos, o ran rhwymedigaethau cyfredol:

a) Mae gan 4% o'r fferm rwymedigaethau rhwng £25-50,000, ac asedau rhwng £25-50,000;

b) Mae gan 3% arall o ffermydd rwymedigaethau rhwng £50-100,000, ac asedau rhwng £50-100,000;

c) Mae gan 1% arall o ffermydd rwymedigaethau sy'n fwy na £100,000, ac asedau rhwng £50-100,000;

7.137. Os yw'r rhwymedigaethau cyfredol yn debyg i asedau cyfredol neu'n fwy na'r asedau cyfredol, gall y fferm wynebu trafferthion ariannol byrdymor. Pan fydd hyn yn digwydd, gall y ffermydd hyn fod yn llai gwydn yn ariannol i newid.

7.138. Yn y tymor byr, y ffermydd hyn, tua 8%, sy'n debygol o fod fwyaf bregus yn sgil colli’r BPS os yw'r golled hon yn effeithio ar broffidioldeb eu busnes fferm.

**Hyfywedd hirdymor busnesau fferm**

7.139. Bydd ffermydd sydd â chyfanswm rhwymedigaethau uchel angen llif incwm cyson (neu werthu asedau) er mwyn sicrhau y gallant ad-dalu llog ar fenthyciadau.

7.140. O dan y system bresennol o gymorth, mae gan 19% o ffermydd rwymedigaethau dros £200,000.

7.141. Mae'n debygol y byddai tynnu cymorth amaethyddol yn ôl yn effeithio'n negyddol ar sefyllfa credyd ffermydd. Gallai dileu ffynhonnell incwm ddylanwadu ar allu ffermydd i wasanaethu rhwymedigaethau a gallai arwain at werthu asedau i sicrhau bod y busnes yn gallu parhau neu drawsnewid i system ffermio fwy proffidiol. I'r ffermydd hynny sydd ag asedau mwy, gallai fod cynnydd mewn benthyciadau yn erbyn yr asedau hynny. Gallai unrhyw ansefydlogrwydd uwch yn y farchnad ddylanwadu ymhellach ar hyn. Bydd cydbwysedd asedau i rwymedigaethau ar bob fferm yn bwysig o ran llywio eu hymateb i'r opsiwn polisi hwn.

**Incwm Aelwydydd Fferm a Gwariant Busnes**

7.142. Mae'n debygol, o dan y senario hon:

a) Y byddai incwm aelwydydd fferm yn gostwng yn unol â'r gostyngiad mewn incwm busnes fferm, yn y tymor byr o leiaf. Mae'n debygol y byddai ymateb gan y ffermwr neu aelod o aelwyd y fferm i hyn, er enghraifft, drwy ddod â ffynonellau incwm eraill i mewn i'r aelwyd. Byddai union natur ymateb aelwyd y fferm yn adlewyrchu amgylchiadau unigol;

b) Mae unrhyw ostyngiad net mewn gwariant busnes fferm yn debygol o effeithio'n negyddol ar fusnesau sy'n cyflenwi ffermydd 88, gyda rhai ohonynt yn lleol i fusnes y fferm, ac eraill o ymhellach i ffwrdd, gan gynnwys yn Lloegr.

c) Mae'n debygol hefyd y bydd gostyngiad mewn cyflogaeth leol ar y fferm, ynghyd â gostyngiad mewn gwariant busnesau fferm gyda chyflenwyr lleol, yn effeithio'n negyddol ar wydnwch cymdeithasol (gan gynnwys ar y Gymraeg) y cymunedau gwledig dan sylw, er bod graddfa effaith o'r fath yn anodd ei hamcangyfrif a bydd yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau lleol.

**Cyflogaeth**

7.143. Amcangyfrifir bod tua 50,000 o weithwyr yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol mewn amaethyddiaeth[89] (sy'n cynrychioli tua 3.8% o'r cyfanswm cyflogaeth yng Nghymru), sy'n cynnwys prif ffermwyr, cyfarwyddwyr, partneriaid busnes a'u priod llawn amser a

---

[88] Mae'n bosibl, o dan yr opsiwn hwn, bod arbedion gwariant cyhoeddus o beidio â chefnogi amaethyddiaeth yn uniongyrchol yn cael eu gwario ar gefnogi economïau gwledig i addasu i'r newid polisi hwn yn lle.

[89] Arolwg Amaethyddol Cymru 2021

rhan-amser, a gweithwyr rheolaidd ac achlysurol[90]. Amcangyfrifir bod hyn yn Ofyniad Llafur Safonol o tua 34,000 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn.

7.144. Mae cynnydd mawr yn nifer y ffermydd sy'n gwneud colled yn debygol iawn o effeithio ar y lefel hon o gyflogaeth ar ffermydd, yn ogystal ag effeithiau eraill ar ffermydd megis newid dulliau cynhyrchu i leihau costau amrywiol neu newid mentrau. Bydd yr union newid yn adlewyrchu amgylchiadau unigol busnesau fferm, felly mae'n anodd amcangyfrif yr effaith gyffredinol ar lefel gyfanredol.

7.145. O ran cyflogaeth ar ffermydd, mae unrhyw ostyngiad yn fwy tebygol o gael ei adlewyrchu drwy ostyngiad yn nifer y gweithwyr rheolaidd ac achlysurol (sy'n ffurfio 25% o'r cyfanswm) yn y tymor byr, a thros gyfnod hwy drwy ostyngiad yn nifer y prif ffermwyr llawn amser a rhan-amser, a/neu drwy newid o gyflogaeth lawn amser i ran-amser ar y fferm. I'r gwrthwyneb, gall fod effeithiau hefyd lle mae'r ffermydd sy'n broffidiol o hyd yn ehangu ac yn defnyddio mwy o weithwyr rheolaidd/achlysurol/contract. Mae'n anodd amcangyfrif yr amserlen ar gyfer unrhyw newidiadau o'r fath, ond mae'n bosibl mai’r effaith net fydd cynnydd yn y gyfradd y mae cyfanswm cyflogaeth ffermydd (gweithwyr rheolaidd ac achlysurol) ar bob fferm yng Nghymru wedi bod yn gostwng[91].

7.146. O ystyried effaith tynnu cymorth amaethyddol yn ôl ar nifer y ffermydd sy'n gwneud elw, mae'n debygol y byddai colli’r BPS yn cynyddu cyfradd colli cyflogaeth reolaidd ac achlysurol ar y fferm, gydag effeithiau dilynol ar y cymunedau mae cyflogwyr yn byw ynddynt, os nad oes cyfleoedd cyflogaeth eraill ar gael.

## *Effeithiau ar Reoli Tir*

### Stocio

7.147. Dros y tymor hwy, mae’r efelychiad yn dangos symudiad mawr i Unedau Da Byw sy’n Pori (GLUs) bîff ar draul GLUs defaid (Tabl 6). Mae'r symudiad hwn yn adlewyrchu ffermydd yn newid eu cydbwysedd cymharol o dda byw h.y. cyflwyno bîff i

[90] O ystyried y gwahanol gategorïau o weithwyr, nid yw'n wir bod hyn yn cynrychioli tua 50,000 o weithwyr Cyfwerth ag Amser Llawn

[91] Mae data o Arolwg Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Cymru yn dangos bod cyfanswm cyflogaeth (gweithwyr rheolaidd ac achlysurol) ar bob fferm yng Nghymru wedi gostwng o 57,828 yn 2010 i 50,401 yn 2021, sef gostyngiad o 13% dros y cyfnod.

systemau defaid, yn hytrach na newid i systemau fferm hollol newydd (sy'n gofyn am fuddsoddiad cyfalaf mwy o faint).

**Tabl 6. Newid mewn niferoedd da byw yn ôl yr efelychiad o dan dynnu cymorth amaethyddol yn ôl a chyflwyno Prisiau Senario Masnach gyda'r UE.**

| | **% Newid mewn Unedau Da Byw sy'n Pori (GLUs)** |
|---|---|
| Bîff | +65% |
| Godro | +4% |
| Defaid | -47% |
| **CYFANSWM** | **+1.5%** |

7.148. Mae GLUs godro yn mynd drwy newid llawer llai. Mae Tabl 7 yn dangos y cyfraniad isel y mae'r BPS yn ei wneud at gyfanswm allbwn ffermydd godro. Ar y cyd â'r trawsnewid isel i systemau godro a welir yn yr efelychiad, mae hyn yn debygol o gyfrif am yr effaith gymharol isel ar GLUs godro.

**Tabl 7. BPS fel canran o gyfanswm allbwn, 2019/2020.**

| | **Nifer yn y sampl FBS** | **BPS (£/fferm)** | **Cyfanswm allbwn (£/fferm)** | **BPS fel % o gyfanswm allbwn** |
|---|---|---|---|---|
| **Gwartheg a defaid mynydd** | 130 | 26,866 | 127,467 | 21.0% |
| **Defaid mynydd** | 86 | 33,915 | 125,678 | 26.9% |
| **Gwartheg a defaid ucheldir** | 76 | 17,009 | 97,426 | 17.4% |
| **Gwartheg a defaid iseldir** | 52 | 18,120 | 112,788 | 16.1% |
| **Godro mynydd ac ucheldir** | 52 | 19,396 | 440,578 | 4.4% |
| **Godro iseldir** | 51 | 18,906 | 517,712 | 3.7% |

Ffynhonnell: Arolwg Busnes Fferm[92]

[92] Prifysgol Aberystwyth (2020) Canlyniadau Llyfryn Incwm Fferm Cymru 2019/20

7.149. Yn ôl Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (GMEP), pan fo cynnydd mewn niferoedd stoc ymhlith deiliaid cytundeb Glastir, roedd y ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn, ac eithrio cymryd rhan yn y cynllun, yn cynnwys:

a) newid ym mhrisiau'r farchnad (28%)
b) argaeledd tir i'w rentu (24%)
c) newid mewn argaeledd staff (3%) a
d) cheisio gwella incwm (7%)

7.150. O dan yr opsiwn polisi hwn, mae'n debygol y bydd y sbardunau uchod ar gyfer cynyddu niferoedd stoc yn parhau. Bydd newid rhwng cydbwysedd cymharol gwahanol systemau da byw yn cael eu dylanwadu gan brisiau'r farchnad. Fodd bynnag, mae'r senario modelu yn awgrymu, yn absenoldeb y BPS, bod gan fusnesau fferm lai o allu i symud i systemau mwy proffidiol, felly maent yn parhau yn eu systemau presennol ond o dan bwysau ariannol cynyddol, neu'n gadael amaethyddiaeth llawn amser.

**Defnydd tir**

7.151. Mae Tabl 8 yn dangos canlyniad tymor hwy y newidiadau a efelychwyd yn statws ffermydd llawn amser.

7.152. Dros yr hirdymor, gyda ffermydd yn gallu trawsnewid i wahanol systemau ffermio, mae gostyngiad yng nghyfanswm yr arwynebedd amaethyddol ar ffermydd llawn amser. Mae hyn yn adlewyrchu ffermydd yn gadael amaethyddiaeth llawn amser. Mae gostyngiadau mawr yn arwynebedd cnydau a mwy o laswelltir cylchdro (dros dro). Mae hyn yn adlewyrchu'r prisiau allbwn ŷd is a amcangyfrifir o dan Senario Masnach yr UE a chynnydd mewn gwartheg bîff a godro sy'n arwain at ddwysáu systemau glaswelltir. Mae arwynebedd coetir ar ffermydd llawn amser yn lleihau hefyd; mae hyn unwaith eto'n adlewyrchu’r ffaith bod ffermydd yn gadael amaethyddiaeth llawn amser yn hytrach na bod coetir yn cael ei gwympo.

**Tabl 8. Newidiadau mwy hirdymor wedi’u hefelychu mewn defnydd tir o dan Brisiau Senario Masnach gyda’r UE a thynnu’r BPS yn ôl.**

| | Llinell Sylfaen cyn Prisiau Cytundeb Masnach gyda’r UE, | Tymor hwy, Prisiau Cytundeb Masnach | %Newid |
|---|---|---|---|

| | a ariennir gan y BPS (ha) | gyda'r UE, Dim BPS (ha) | |
|---|---|---|---|
| **Arwynebedd tir âr** | 65,859 | 57,289 | -13.0 |
| **Glaswellt dros dro** | 142,724 | 153,191 | 7.3 |
| **Glaswellt parhaol** | 467,703 | 450,615 | -3.7 |
| **Tir pori garw** | 248,431 | 241,004 | -3.0 |
| **Coetir llydanddail** | 51,809 | 48,032 | -7.3 |
| **Coetir conwydd** | 17,295 | 9,653 | -44.2 |
| **Cyfanswm** | **993,821** | **959,783** | **-3.4** |

**Defnydd o Faethynnau**

7.153. O ystyried y cynnydd mewn GLUs bîff ar draul defaid, mae cynnydd yn y llwyth N o garthion bîff dros y tymor hwy (Tabl 9). Mae'r llwyth N o garthion gwartheg godro yn cynyddu ychydig, gan adlewyrchu'r cynnydd llai yn y fuches odro. Ar y cyfan, mae cyfanswm y llwyth N yn cynyddu, er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y ffermydd llawn amser, sy'n adlewyrchu'r dwysáu mewn systemau glaswelltir.

**Tabl 9. Newid canrannol yn y llwyth Nitrogen (N) o wrtaith a da byw (swm carthion uniongyrchol, tail a slyri) o dan Brisiau Senario Masnach yr UE a thynnu'r BPS yn ôl.**

| Ffynhonnell | Newid |
|---|---|
| **Gwrtaith N (kT N)** | -3.9% |
| **Carthion gwartheg godro (kT N)** | +4.1% |
| **Carthion gwartheg bîff (kT N)** | +55.8% |
| **Carthion defaid (kT N)** | -51.8% |
| **Cyfanswm y newid** | +4.8% |

## *Effeithiau ar Fanteision Amgylcheddol*

**Ansawdd Dŵr**

7.154. O dan yr opsiwn polisi hwn, mae'n debygol y byddai effaith negyddol ar ansawdd dŵr. Mae hyn yn deillio o efelychu'r canlynol:

a) Cyfangiad mewn tir pori garw;
b) Dwysáu systemau glaswelltir (cynnydd mewn glaswellt dros dro, llai o laswellt parhaol);
c) Cynnydd mewn niferoedd gwartheg bîff a godro ar draul defaid;
d) Cynnydd yng nghyfanswm y llwyth N.

7.155. Ar ben hynny, mae colli Glastir (heb ei fodelu yn yr IMP) yn debygol o effeithio ymhellach ar ansawdd dŵr. Amcangyfrifwyd bod Glastir 2012-16[93] yn darparu'r gostyngiadau canlynol mewn llwythi llygryddion amaethyddol cenedlaethol:

a) Gostyngiad o 1% mewn Nitrad;
b) Gostyngiad o 0.94% mewn ffosfforws (P);
c) Gostyngiad o 0.11% mewn gwaddod.

7.156. Mae'n annhebygol y byddai'r manteision hyn yn cael eu cynnal o dan yr opsiwn polisi hwn.

7.157. Mae'n debygol y byddai'r effaith ar ansawdd dŵr yn amrywio'n rhanbarthol. Gall ardaloedd lle credir y bydd mwy o ffermydd, yn ôl yr efelychiad, yn gadael amaethyddiaeth llawn amser weld gwelliannau, yn dibynnu ar beth mae'r defnydd tir yn trawsnewid iddo. Fodd bynnag, mewn ardaloedd lle mae ffermydd yn trawsnewid i systemau mwy dwys, gall fod dirywiad os nad yw'r trawsnewid yn cyd-fynd â mabwysiadu gweithgareddau i leihau colledion i ddŵr. O ystyried y byddai'r opsiwn polisi hwn yn cael gwared ar bob cymorth amaethyddol, ni fyddai unrhyw gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gael i gefnogi mabwysiadu'r gweithgareddau hyn.

## Ansawdd Aer

7.158. Mae llygredd aer yn gwaethygu cyflyrau iechyd presennol ac mae'n gysylltiedig â chost ddifrifol i gymdeithas. Mae llawer o ganlyniadau gwael o lygredd aer yn gysylltiedig â *Deunydd Gronynnol* (PM2.5), y gall amonia ($NH_3$) fod yn elfen sylweddol ohono. Felly, gall gostyngiadau mewn amonia, neu ryng-gipio gronynnau PM2.5, gael effeithiau cadarnhaol ar ansawdd aer.

7.159. O dan yr opsiwn polisi hwn, mae'n debygol y byddai effaith amrywiol ar ansawdd aer oherwydd y newidiadau yn yr efelychiad o ddefaid i wartheg bîff, dwysáu glaswelltir a gostyngiad yn nifer y ffermydd llawn amser.

[93] Adnoddau | Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (gmep.cymru)

7.160. Lle mae ffermydd yn gadael y byd amaeth yn llwyr yn yr efelychiad, ac nad yw'r tir yn aros mewn amaethyddiaeth, mae potensial i drawsnewid i goetir. Yn yr ardaloedd hyn, gall fod gwelliant yn yr ansawdd aer oherwydd llai o allyriadau o amaethyddiaeth a mwy o PM2.5 yn cael ei ryng-gipio gan goed.

7.161. Lle dangosir ffermydd yn trawsnewid o systemau defaid i systemau mwy dwys (e.e. gwartheg godro a bîff), mae potensial i ansawdd aer waethygu wrth i fewnbynnau maethynnau gynyddu ar laswelltir mwy dwys oni bai bod y newidiadau'n cyd-fynd â newidiadau ymarferol i leihau allyriadau amonia.

**Bioamrywiaeth**

7.162. Mae'r effeithiau ar fioamrywiaeth yn yr opsiwn hwn yn debygol o fod yn amrywiol ac yn benodol i leoliad.

7.163. Byddai dwysáu defnydd tir, a chynnydd mewn mewnbynnau, yn arwain at waethygu canlyniadau bioamrywiaeth. Gallai ardaloedd lle gallai coetir gael ei blannu ar dir sy'n gadael amaethyddiaeth llawn amser weld manteision bioamrywiaeth. I'r gwrthwyneb, gall coetir ar ffermydd sy'n gadael amaethyddiaeth llawn amser beidio â chael eu rheoli mwyach, a allai effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth.

7.164. Mae'r cynnydd mewn llwythi N a efelychwyd yn debygol o gael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, fel y bydd unrhyw ostyngiadau mewn ansawdd dŵr.

7.165. Canfu gwerthusiad GMEP newidiadau mewn addasrwydd cynefinoedd o ganlyniad i gyfranogiad yn y cynllun ar gyfer 75% o'r 21 o rywogaethau o blanhigion a fodelwyd, yn sgil dad-ddwysáu rheoli llystyfiant a newidiadau mewn nodweddion pridd. Dywedodd GMEP hefyd fod 13% yn fwy o ffermydd Glastir yn fwy tebygol o fod wedi cymryd camau i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth na ffermydd nad ydynt yn rhan o Glastir. Mae’n annhebygol y byddai'r manteision hyn yn cael eu cynnal o dan yr opsiwn polisi hwn.

7.166. Ar y cyfan, mae'n annhebygol yn yr opsiwn polisi hwn y byddai unrhyw gynnydd yn arwynebedd y tir amaethyddol sy'n cael ei reoli ar gyfer manteision bioamrywiaeth, a byddai tir sy'n cael ei reoli yn y fath fodd ar hyn o bryd yn wynebu risg o ddirywio mewn cyflwr. Mae dwysáu systemau ffermio yn debygol o ddod ag anfanteision mewn ardaloedd lle mae hyn yn digwydd. Mae gan dir sy'n gadael amaethyddiaeth y

potensial i gynnig manteision bioamrywiaeth, ond byddai hyn yn dibynnu ar gyfer beth mae'r tir hwnnw'n cael ei ddefnyddio.

**Stociau Carbon**

7.167. Mae stociau carbon yn debygol o leihau yn y senario hon oherwydd:

a) Colli glaswelltir parhaol a garw yn yr efelychiad wrth i'r tir hwn drawsnewid i gylchdroi glaswellt;
b) Byddai cynnydd mewn stociau carbon yn digwydd pe bai tir a fyddai'n gadael amaethyddiaeth llawn amser yn ôl yr efelychiad yn cael ei blannu fel coetir.

7.168. Efallai y bydd ffermydd sy'n aros mewn amaethyddiaeth llawn amser yn annhebygol o greu coetir neu wrychoedd fel y byddai angen i gynyddu stociau carbon yn sylweddol yn yr opsiwn polisi hwn. Mae dileu'r BPS a'r newid mewn prisiau yn efelychu symudiad tuag at ddwysáu mwy o dir, yn hytrach na rhannu tir ar gyfer plannu coed, wrth i ffermydd geisio cynnal elw o dan amgylchiadau heriol.

**Allyriadau nwyon tŷ gwydr**

7.169. Mae'r cynnydd wedi'i efelychu mewn niferoedd gwartheg bîff a godro ar draul defaid, a chynnydd cyffredinol o 1.5% yng nghyfanswm GLUs, yn debygol o arwain at gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol.

7.170. Mae potensial i rai allyriadau ostwng lle mae'r gostyngiad mewn tir âr yn digwydd ar fawn. Gallai hyn hefyd fod yn berthnasol ar dir sydd wedi gadael amaethyddiaeth, yn dibynnu ar y defnydd o'r tir hwnnw yn y dyfodol.

7.171. Awgrymodd tystiolaeth o'r GMEP fod Glastir wedi cyfrannu at ostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a dal a storio mwy o garbon, yn ogystal â lleihau nwyon eraill sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd (gwybodaeth bellach yn Opsiwn 2 – cadw'r sefyllfa bresennol). Mae'n debygol o dan y senario polisi hwn na fyddai'r manteision hyn yn cael eu darparu mwyach.

7.172. Ar y cyfan, mae'r lleihad yn yr efelychiad yng nghyfanswm yr arwynebedd amaethyddol ar ffermydd llawn amser, ynghyd â chynnydd yng nghyfanswm y GLUs, yn debygol o gael effeithiau negyddol ar allyriadau yn gyffredinol oni bai bod camau i

leihau allyriadau yn cyd-fynd ag unrhyw ddwysáu. O ystyried y byddai'r opsiwn polisi hwn yn cael gwared ar bob cymorth amaethyddol, ni fyddai unrhyw gynlluniau Llywodraeth Cymru ar waith i gefnogi ffermydd i fuddsoddi mewn camau i leihau allyriadau.

## *Effeithiau eraill ar fanteision*

### Colli'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS)

7.173. Mae'r SMS yn cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd i wella adnoddau naturiol ac mae'n cefnogi a hwyluso cydgysylltu â chynlluniau eraill i wella gallu busnesau fferm a gwledig a chymunedau gwledig i wrthsefyll effeithiau'r hinsawdd[94].

7.174. Mae tystiolaeth o werthusiad cychwynnol[95] yn nodi bod yr SMS yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar fynd i'r afael â chyfyngiadau cynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol ac ystyried ariannu a gweithredu ar raddfa tirwedd neu ddalgylch. Cofnododd y gwerthusiad o'r SMS y camau cydweithredol canlynol:

a) helpu ffermwyr i ddeall effeithiau eu gweithgareddau a gwella ansawdd dŵr, a lleihau effaith nitradau yn mynd i mewn i gyrsiau dŵr;
b) adfer glannau afon i fynd i'r afael ag erydu pridd;
c) creu coridorau clir mewn rhostir ar gyfer bywyd gwyllt;
d) gwella cynefinoedd rhostir grug ar gyfer adar sy'n nythu ar y ddaear;
e) creu gwlyptiroedd ychwanegol;
f) glanhau ffosydd er mwyn cynyddu eu capasiti;
g) rheoli rhywogaethau estron goresgynnol (INNS).

[94] Mae astudiaethau achos o brosiectau SMS ar gael yma: Cynllun Rheoli Cynaliadwy (llyw.cymru)
[95] Bebb a Bryer, Ymchwil OB3 gyda chyfraniadau gan Rob Owen a Sue Rice, Partneriaeth BRO (2021) Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy: Adroddiad Gwerthusiad Proses a Damcaniaeth Newid, ar gyfer Llywodraeth Cymru. Nododd yr adroddiad mai dim ond allbynnau uniongyrchol y gellir adrodd arnynt ar hyn o bryd (e.e. nifer y coed a blannwyd, neu hectarau wedi'u hadfer) yn hytrach na'r manteision ecosystemau a'r canlyniadau economaidd-gymdeithasol ehangach, tymor hwy a all gymryd sawl blwyddyn i'w gwireddu'n llawn

7.175. Roedd effeithiau'r prosiectau cydweithredol hyn ar yr economi yn cynnwys y canlynol:

a) cyflogi menywod â sgiliau llif gadwyn mewn prosiect coetir;
b) cyflogi prentisiaid a phobl ifanc mewn sawl prosiect;
c) cyflogi pobl leol a gweithio gyda chontractwyr lleol lle bynnag y bo modd;
d) creu cyfleoedd economaidd newydd i ffermwyr sy'n rheoli coetiroedd.

7.176. Nododd y gwerthusiad y canlynol: Roedd bron pob un o'r prosiectau a gyfwelwyd yn teimlo y byddai eu gweithgareddau wedi bod yn annhebygol o ddigwydd heb gyllid SMS. Ni fyddai eu canlyniadau wedi cael eu cyflawni heb y cyllid oni bai eu bod wedi sicrhau ffynhonnell gyllido arall. Mae hyn yn awgrymu cryn dipyn o ychwanegolrwydd.

7.177. Yn absenoldeb cymhellion ariannol, mae'n annhebygol y bydd cymaint â hyn o weithgarwch cydweithredol yn digwydd. Felly, mae'n debygol y bydd colli'r SMS yn yr opsiwn polisi hwn yn golygu nad oes bellach unrhyw gymhelliad ariannol na mecanwaith ar gyfer gwaith cydweithredol.

7.178. Nid oes gennym werthusiad llawn o'r SMS eto. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn rhesymol tybio y byddai gostyngiad sylweddol yn y gweithgarwch cydweithio a chydweithredu sydd wedi'i ariannu o dan yr SMS, ac effaith negyddol ar ganlyniadau amgylcheddol, o dan yr Opsiwn hwn.

## *Opsiwn 2: Deddfu i gadw'r sefyllfa bresennol (Cynllun y Taliad Sylfaenol a chynlluniau tir eraill)*

### *Cyflwyniad*

7.179. Yn yr opsiwn polisi hwn, rydym yn rhagdybio bod deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i alluogi parhau â chynlluniau cymorth hanesyddol yr UE i gefnogi'r sector amaeth yng Nghymru.

7.180. Rhagdybir y bydd y cynlluniau cymorth hyn (gan gynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) a chynlluniau tir sy'n cael eu hariannu gan y RhDG, Glastir a'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy) yn parhau, gan weithredu o dan yr un gyllideb a bod y gyllideb hon yn cael ei chynnal mewn termau real drwy gydol y cyfnod arfarnu. Rydym yn

cymryd yn ganiataol nad oes cyfnod pontio gan fod y cynlluniau sydd wedi gweithredu'n hanesyddol yn parhau i redeg.

7.181. Rydym yn rhagdybio bod cyngor ar ffurf Cyswllt Ffermio a’r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm yn parhau.

7.182. Rydym yn rhagdybio y bydd y drefn reoleiddio a ddarperir gan Drawsgydymffurfio a chan Reoliadau Asesu Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 yn cael ei chynnal.

### *Effaith ar Gostau*

7.183. Mae'r holl gostau a gyflwynir isod yn ffigurau blynyddol, a rhagdybir y byddant yn cael eu cynnal mewn termau real drwy gydol y cyfnod arfarnu, oni nodir yn wahanol.

## Llywodraeth Cymru - Cyfanswm Cost £311,507,559

---

**Costau gweinyddol** - £22,278,455

7.184. Nid oes modd dadgyfuno'n llawn gostau gweinyddol pob cynllun unigol nac ar gyfer pob un o Golofnau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Mae'r ddwy golofn yn seiliedig ar System Rheoli Gweinyddol Integredig (IACS) ac yn defnyddio gweithlu aml-weithredol. Mae ffigurau'n seiliedig ar amcangyfrifon sy'n darparu cost ddangosol ar gyfer gwahanol feysydd gwaith a Cholofnau'r PAC.

7.185. Mae'r ffigurau'n cynnwys costau Llywodraeth Cymru ar gyfer prosesu cynlluniau'r PAC (BPS) a'r RhDG, Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF)[96] a phob cynllun Brexit/Covid arall. Mae'r costau hefyd yn cynnwys archwiliadau rheoliadol gan Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW), datblygiad a chymorth TGCh a swyddogaeth statudol rheoli cofnodion Rhif y Daliad (CPH). Mae'r costau'n cwmpasu:

a) Costau rhedeg parhaus (costau staff);
b) Costau Cymorth Technegol a ariennir gan yr UE;
c) Costau Rhaglen Taliadau Gwledig Cymru (RPW).

[96] Nid yw'r EMFF yn rhan o gymorth amaethyddol. Ni allwn ddatgysylltu costau gweinyddu'r EMFF oddi wrth gostau mewnol eraill.

*7.186.* Cyfanswm y costau cyfartalog blynyddol[97] yw *£22,278,455*, gyda 38% yn wariant ar weinyddu BPS a 62% ar weinyddu prosiectau a rhaglenni tir y RhDG (Glastir yn bennaf). Mae 28% o gostau gweinyddu BPS yn gostau sy'n gysylltiedig â gwahanol swyddogaethau corfforaethol i weithredu asiantaeth dalu achrededig.

**Costau cydymffurfio** - £1,344,104

7.187. Mae Trawsgydymffurfio yn gofyn i ffermwyr gydymffurfio â safonau ar gyfer iechyd a lles y cyhoedd, planhigion ac anifeiliaid. I dderbyn cymorth, rhaid i ffermwyr gydymffurfio â chyfres o reolau sylfaenol. Mae rheolau cydymffurfio yn cynnwys:

a) gofynion rheoli statudol, gofynion mewn rheoliadau sy'n berthnasol i bob ffermwr, waeth a yw’n derbyn cymorth ai peidio;
b) amodau amaethyddol ac amgylcheddol da (GAEC), sy’n berthnasol i ffermwyr sy'n derbyn cymorth yn unig.

7.188. Mae archwiliadau ar ffermydd yn asesu cydymffurfiaeth, mae ffermwyr nad ydynt yn cadw at y safonau gofynnol yn gweld eu cymorth yn cael ei leihau a gallant wynebu cosbau eraill.

**Tabl 10: Costau archwiliadau ar fferm i Lywodraeth Cymru**

| Rheoleiddio | Cost Flynyddol | Nodiadau |
|---|---|---|
| Trawsgydymffurfio ar y Tir | £192,761 | Yn seiliedig ar gyfradd reoli o 1% o hawlwyr y cynllun |
| Trawsgydymffurfio Adnabod Da Byw | £962,882 | Yn seiliedig ar ofyniad i 3% o geidwaid defaid a gwartheg gael eu harchwilio. |
| Asesiad Effaith Amgylcheddol | £188,461 | Os bydd CNC yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am dramgwydd posibl, rhaid i ecolegydd ymchwilio i unrhyw ddifrod posib i dir cynefin. |

7.189. Rydym yn rhagweld y bydd y costau cydymffurfio hyn yn aros yr un fath yn yr opsiwn hwn.

**Taliadau i Ffermwyr - £278,000,000**

[97] Cost flynyddol gyfartalog yw hon sydd wedi'i chyfrifo gan ddefnyddio costau yr aeth Llywodraeth Cymru iddynt rhwng 2018 a 2020

7.190. Amcangyfrifir y bydd cost taliadau'r PAC, gan gynnwys y BPS[98] a rhaglenni tir y RhDG, dros y cyfnod 2021/22 i 2023/24, yn £278 miliwn y flwyddyn.

7.191. Rydym yn rhagdybio y bydd y lefel hon o gyllideb yn cael ei chynnal mewn termau real ar draws y cyfnod arfarnu. Nid proffwydoliaeth na gwarant o lefelau ariannu'r dyfodol yw hyn; bydd yn dibynnu ar setliadau cyllido gan Drysorlys EM a phroses gyllideb Llywodraeth y dadansoddiad hwn.

**Costau eraill - £9,885,000**

7.192. Amcangyfrifir y bydd cost taliadau'r PAC, gan gynnwys y BPS[99] a rhaglenni tir y RhDG, dros y cyfnod 2021/22 i 2023/24, yn £278 miliwn y flwyddyn.

7.193. Rydym yn rhagdybio y bydd y lefel hon o gyllideb yn cael ei chynnal mewn termau real ar draws y cyfnod arfarnu. Nid proffwydoliaeth na gwarant o lefelau ariannu'r dyfodol yw hyn; bydd yn dibynnu ar setliadau cyllido gan Drysorlys EM a phroses gyllideb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae'r gost yn amcangyfrif dangosol at ddiben ymgymryd â'r dadansoddiad hwn.

7.194. Mae ERAMMP[100] yn cyflwyno rhaglen monitro a modelu sy'n casglu data ar draws tirwedd Cymru, gan gysylltu unrhyw newid ag effeithiau economaidd ac amgylcheddol. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r rhaglen hon yn parhau am gost flynyddol o £1.5 miliwn (yr un fath ag Opsiwn 1).

7.195. Mae Cyswllt Ffermio[101] yn cefnogi datblygiad sector tir mwy proffesiynol, proffidiol a gwydn. Mae'n cynnwys rhaglen integredig o drosglwyddo gwybodaeth, arloesi a gwasanaethau cynghori sydd â’r nod o sicrhau mwy o gynaliadwyedd, gwell cystadleurwydd a gwell perfformiad amgylcheddol. Cost flynyddol Cyswllt Ffermio yw £8.0 miliwn (yr un fath ag Opsiwn 1).

7.196. Mae'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm (FLS) yn cyflawni rôl bwysig yn ymgyrch Llywodraeth Cymru i gynhyrchu diwydiant cynaliadwy sy'n cael ei reoli'n broffesiynol ledled Cymru.

---

[98] Mae cyfanswm y costau ar gyfer CTS yn adlewyrchu taliad CTS i bob hawlydd yng Nghymru, sef cyfanswm o tua 16 0000 o ffermydd.

[99] Mae cyfanswm y costau ar gyfer BPS yn adlewyrchu taliad BPS i bob hawlydd yng Nghymru, sef cyfanswm o tua 16 0000 o ffermydd.

[100] https://erammp.wales/en

[101] Cyswllt Ffermio - eich helpu chi i yrru eich busnes yn ei flaen | Busnes Cymru (llyw.cymru)

7.197. Y nod yw rhoi arweiniad cyson, cywir a phroffesiynol i gwsmeriaid o ran pob maes polisi a chynllun ffermio a gwledig a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Maent yn cynnwys:

a) Cynllun y Taliad Sylfaenol / Glastir;
b) Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG);
c) Iechyd a lles anifeiliaid;
d) Cadw cofnodion / Archwiliadau;
e) Cofrestriadau Da Byw (Gwasanaeth Olrhain Gwartheg CTS / Dyfais Adnabod Electronig EID);
f) Newidiadau i ardaloedd a chofrestriadau tir;
g) Rhaglen CPH;
h) Mynediad at system RPW Ar-lein;
i) Datblygu cynlluniau i'r dyfodol.

7.198. Rydym yn cymryd bod y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm (FLS) yn parhau ar gost o £385,000 (yr un fath ag Opsiwn 1).

## Cyfoeth Naturiol Cymru - Cyfanswm Cost £2,715,725

Costau Gweinyddol a Chyngor - £2,572,286

7.199. Mae Glastir yn cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru, gyda chymorth CNC, sy'n darparu'r ochr dechnegol ac yn rhoi cyngor ar geisiadau i'r cynllun, sy'n cwmpasu:

a) Ceisiadau am drwyddedau cwympo coed (FLA);
b) Barn Effaith Amgylcheddol;
c) Trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop (EPS);
d) Caniatâd ar gyfer cynigion ar safleoedd dynodedig.
e) Trwyddedau Gweithredoedd Risg Llifogydd

7.200. Amcangyfrifir mai cost flynyddol cyngor ar Glastir yw £2,419,716

7.201. Mae CNC hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad ar geisiadau o dan y Cynllun Rheoli Cynaliadwy, a hynny am gost flynyddol o £125,127.

7.202. Mae CNC yn cyhoeddi trwyddedau gweithgarwch perygl llifogydd[102] i ffermwyr sy'n dymuno gweithio ar neu'n agos at brif afon, strwythur amddiffyn rhag llifogydd neu amddiffyn rhag y môr neu orlifdir. Rydym yn rhagdybio mai'r gost yw £27,443 (yr un fath ag Opsiwn 1).

**Costau cydymffurfio** - £143,439

7.203. Amcangyfrifir mai cost rôl CNC o ran cyflawni safonau Trawsgydymffurfio yw £119,684 y flwyddyn (yr un fath ag Opsiwn 1).

7.204. Mae'r sefydliadau sy'n rhan o brosesau archwilio rheoleiddiol eraill sy'n ymwneud â Thrawsgydymffurfio neu yr ymgynghorir â nhw am gyngor technegol, yn ogystal â CNC, yn cynnwys: Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, Awdurdodau Lleol, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, CADW, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Lleol a CNC. Bydd cost gysylltiedig ychwanegol i'w sefydliadau hefyd ond, gan fod y rhan fwyaf yn gysylltiedig â gofynion rheoleiddio eraill, byddai llawer yn dal i fodoli heb Drawsgydymffurfio ac, o'r herwydd, nid ydym yn mesur y costau hyn.

7.205. Mae CNC hefyd yn gorff ymgynghori o dan reoliadau Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA). Caiff Llywodraeth Cymru ymgynghori â CNC ar geisiadau a gyflwynir iddi o dan y rheoliadau hyn. Amcangyfrifir fod y gost i CNC o ddarparu cyngor i Lywodraeth Cymru yn £23,755 bob blwyddyn (yr un fath ag Opsiwn 1).

## Y Sector Amaethyddol - Cyfanswm Cost £588,000

**Costau gweinyddol** - £588,000

7.206. Er mwyn hawlio BPS a rhai taliadau eraill, rhaid i ffermwr gynnal gweithgareddau amaethyddol yn y flwyddyn hawlio. Mae tystiolaeth yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru gan y ffermwr drwy’r Ffurflen Cais Sengl[103] (SAF).  Mae Tabl 1 yn dangos yr amcangyfrif o nifer yr SAFs a gyflwynwyd, a'r broses a ddefnyddiwyd, yn 2019.

[102] Cyfoeth Naturiol Cymru / Trwyddedau gweithredoedd risg llifogydd
[103] Ffurflen Cais Sengl | is-bwnc | LLYW.CYMRU

**Tabl 11. Nifer y Ffurflenni Cais Sengl a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn 2019.**

| Proses gwblhau'r cwsmer | Ceisiadau a gyflwynwyd | Ceisiadau heb unrhyw newidiadau (amcangyfrif) | Ceisiadau gyda newidiadau (amcangyfrif) |
|---|---|---|---|
| **Hunanwasanaeth** | 9,357 | 4,198 | 5,159 |
| **Cymorth Digidol Llywodraeth Cymru** | 1,025 | 460 | 565 |
| **Cymorth gan Undebau Ffermio ac Asiantau (amcangyfrif)** | 5,942 | 2,666 | 3,276 |
| **CYFANSWM** | 16,324 | 7,324 | 9,000 |

7.207. Mae nifer yr oriau sydd eu hangen gyda'r gwahanol brosesau cwblhau'r cwsmer hyn yn amrywio (o tua 1 i 3 awr y cwsmer ar gyfer ceisiadau heb unrhyw newidiadau; i tua 2-4 awr ar gyfer ceisiadau gyda newidiadau). Amcangyfrifir mai cost yr amser hwn i ffermwyr ac asiantau fydd £15/awr i ffermwyr a £30 yr awr i asiantau[104].

7.208. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gost flynyddol i ffermwyr o gyflwyno ceisiadau BPS yw £588,000.

## Cyfanswm Cost - £314,811,284

[104] Ffynhonnell yr amcangyfrifon hyn yw'r amcangyfrifon blynyddol o oriau a weithiwyd ac enillion i weithwyr y DU yn ôl rhyw, a llawn amser a rhan-amser, gan Ddosbarthiad Galwedigaethol Safonol, o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol Earnings and hours worked, occupation by four-digit SOC: ASHE Table 14 - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

## *Effaith ar Fanteision*

7.209. Yn yr opsiwn polisi hwn, rhagdybir y bydd cynlluniau a rhaglenni tir sy'n bodoli eisoes (BPS, SMS, Glastir) yn parhau i ddarparu amrywiaeth o fanteision.

7.210. Mae’r allbynnau IMP a ddefnyddir yma yn seiliedig ar ganlyniadau senario defnydd tir wedi'i modelu ('Senario Cytundeb Masnach gyda’r UE', T2) gydag amcangyfrif o’r newidiadau i brisiau gât y fferm yn dilyn cytundeb masnach rhwng yr UE a'r Deyrnas Unedig.

7.211. Mae allbynnau'n adlewyrchu'r amcangyfrif o’r goblygiadau defnydd tir hirdymor yn sgil y newid amcangyfrifedig mewn prisiau gât y fferm, gyda pharhad y system bresennol o gymorth yn erbyn llinell sylfaen 2015.

7.212. Amlinellir elfennau a rhagdybiaethau allweddol y senario yn Adroddiad ERAMMP 60[105]. Darperir trosolwg o'r IMP o dan Opsiwn 1 (cymorth yn dod i ben ar ddiwedd 2024).

7.213. Amcangyfrifir y bydd y newid mewn prisiau gât y fferm yn y senario o gymharu â phrisiau 2015 fel a ganlyn:

a) Llaeth +1.2%;
b) Cig Eidion +3%;
c) Cig oen -1%.

7.214. Mae'r amcangyfrif o'r newid mewn prisiau yn golygu gostyngiad hirdymor ym mhrisiau cig oen gorffenedig a chynnydd mewn prisiau cynhyrchion llaeth, gwartheg godro (difa a lloi) a bîff (gwartheg bîff gorffenedig a gwartheg bîff i'w difa).

7.215. Mae canlyniadau’r efelychiad yn adlewyrchu effaith y newidiadau a amcangyfrifir ym mhrisiau'r farchnad o ganlyniad i senario Cytundeb Masnach gyda’r UE. Mae'r senario hon yn rhagdybio parhad y system bresennol o gymorth (h.y. Cynllun y Taliad Sylfaenol). Cynhaliwyd y gwaith modelu yn 2019, cyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin.

7.216. Aeth Adroddiad 60 ERAMMP[1] ati i fodelu chwe senario, gan gynnwys T2, sy’n cynnwys newidiadau mewn prisiau gât y fferm. Roedd y senarios hyn yn seiliedig ar ragdybiaethau eang ynghylch manylion y cytundeb masnach gyda'r UE, yn ogystal â newidiadau posibl mewn prisiau yn sgil cytundebau gydag UDA, Awstralia a Seland

[105] ERAMMP Adroddiad-60 IMP Senarios Defnydd Tir Adroddiad Terfynol.pdf

Newydd. Dyluniwyd y senarios hyn i ddeall sut y gall ystod o newidiadau mewn prisiau gât y fferm effeithio ar amaethyddiaeth, defnydd tir a chanlyniadau amgylcheddol.

7.217. Dylid dehongli'r allbynnau a fodelwyd yn y goleuni hwn. Maent yn dangos effeithiau posibl newidiadau yn amodau'r farchnad dros y tymor hwy, o dan y system bresennol o gymorth, yn hytrach na rhagweld canlyniad pendant. Mae'n bwysig nodi nad oedd yr IMP yn ystyried y gallai'r cynnydd a efelychwyd mewn cynhyrchion llaeth gyfyngu ar y newid mewn prisiau llaeth wrth i'r cyflenwad a'r galw am y cynnyrch ailfaintoli.

## *EFFEITHIAU AR FUSNES FFERM*

### Cynllun y Taliad Sylfaenol

7.218. Rhoddodd BPS £238 miliwn i ffermwyr Cymru yn 2019-20.

### Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG)

7.219. Roedd Cymunedau Gwledig - RhDG 2014-2020[106] Llywodraeth Cymru yn rhaglen fuddsoddi saith mlynedd a oedd yn cefnogi ystod eang o weithgareddau. Mae'r opsiwn hwn yn ystyried amcanion SLM sy'n canolbwyntio ar elfennau tir y RhDG.

7.220. Cyllideb Glastir yn 2019-20 oedd £40 miliwn. Mae taliadau'r cynllun yn seiliedig ar incwm a gollwyd a chostau yr aed iddynt.

7.221. Mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) yn cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd i wella adnoddau naturiol, gan sicrhau manteision i'r fferm, busnesau gwledig a chymunedau gwledig. Nid oes unrhyw daliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud i ffermwyr o dan yr SMS oherwydd rheolau cymorth gwladol.

### Proffidioldeb cymharol ffermydd

7.222. Mae Tabl 12 yn dangos proffidioldeb cymharol ffermydd yn 2019/20 yn ôl allbwn safonol. Mae allbwn safonol[107] yn darparu mesur dirprwyol ar gyfer gwerth cyfanswm yr allbwn o gynhyrchu amaethyddol, arallgyfeirio, Colofn 1 (BPS) a Cholofn 2 (Glastir).

---

[106] Dogfen Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 i 2020 | LLYW.CYMRU

[107] Allbwn safonol cynnyrch amaethyddol (cnwd neu dda byw) yw gwerth ariannol cyfartalog yr allbwn amaethyddol ar bris gât y fferm, mewn ewro yr hectar neu y pen o dda byw Glossary:Standard output (SO) - Statistics Explained (europa.eu).

7.223. Mynegir proffidioldeb cymharol fel £ o elw am bob £100 o gostau ac fe'i defnyddir i gyfrif am wahanol faint economaidd ffermydd. Dyma'r categorïau sy'n cael eu defnyddio:

a) Elw – o leiaf £10 am bob £100 o gostau;
b) Elw ymylol - rhwng £0 a £10 am bob £100 o gostau;
c) Unrhyw golled - pob gwerth negyddol;

7.224. Mae'r dadansoddiad yn dangos:

a) Roedd 50% o'r 9,700 o ffermydd yn gwneud elw mwy nag elw ymylol. O'r 4,849 o ffermydd hyn, mae 57% yn y band allbwn lleiaf (llai na £125,000);
b) Gwnaeth 33% o'r 9,700 o ffermydd golled. O'r 3,229 o ffermydd hyn, mae ychydig dros ddwy ran o dair (69%) yn y band allbwn lleiaf (llai na £125,000);
c) Mae ffermydd yn gwneud colled ym mhob band maint: 38% (llai na £125,000), 31% (o leiaf £500,000), 27% (£125,000 i £250,000), a 22% (£250,000 i £500,000).

**Tabl 12. Proffidioldeb cymharol ffermydd yn ôl allbwn safonol, nifer y ffermydd.**

| Band allbwn safonol | Elw | Elw ymylol | Unrhyw golled | Cyfanswm y ffermydd |
|---|---|---|---|---|
| **Llai na £125,000** | 2,752 | 929 | 2,219 | 5,899 |
| **£125,000 i £250,000** | 1,275 | 389 | 623 | 2,287 |
| **£250,000 i £500,000** | 494 | 235 | 204 | 934 |
| **o leiaf £500,000** | 308 | 89 | 183 | 580 |
| **CYFANSWM** | 4,829 | 1,642 | 3,229 | 9,700 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Arolwg o Fusnesau Ffermio 2019-2020[108]

7.225. Mae amrywiaeth fawr mewn perfformiad, o ran refeniw busnes a rheoli costau busnes ar draws ffermydd o'r un maint economaidd. Adlewyrchir y patrwm hwn hefyd wrth ddadansoddi yn ôl y math o fferm. Mae Tabl 13 yn dangos y canlynol:

[108] Mae'r ffigurau ar gyfer poblogaeth yr Arolwg o Fusnesau Ffermio (ffermydd ag o leiaf €25,000 o Allbwn Safonol). Nid ydynt yn cynnwys yr arbenigwyr dofednod, moch a garddwriaeth

a) Ym mhob math o fferm, mae busnesau yn gwneud elw. Mae'r gyfran ar ei huchaf ar gyfer ffermydd pori SDA (62%) ac ar ei hisaf ar gyfer ffermydd pori DA (33%).
b) O'r ffermydd a wnaeth golled, mae 33% yn ffermydd pori SDA, 33% yn ffermydd pori DA ac 14% yn ffermydd godro;
c) O'r ffermydd a wnaeth elw, mae 57% yn ffermydd pori SDA, 14% yn ffermydd pori DA ac 13% yn ffermydd godro.
d) Mae ffermydd ym mhob math o fferm yn gwneud colled: mae 25% yn ffermydd pori SDA, 51% yn ffermydd pori DA a 32% yn ffermydd godro;

**Tabl 13. Proffidioldeb cymharol ffermydd yn ôl y math o fferm, nifer y ffermydd**

| Math o fferm | Elw | Elw ymylol | Unrhyw golled | Cyfanswm y ffermydd |
|---|---|---|---|---|
| **Godro** | 632 | 336 | 459 | 1,427 |
| **Pori SDA** | 2,751 | 618 | 1,075 | 4,444 |
| **Pori DA** | 674 | 332 | 1,059 | 2,065 |
| **Eraill** | 773 | 356 | 635 | 1,764 |
| **CYFANSWM** | 4,829 | 1,642 | 3,229 | 9,700 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Arolwg o Fusnesau Ffermio 2019-2020

7.226. Nododd adroddiad 2018[109] ar gyfer ffermydd y DU:

a) Mae'r 25% uchaf o ffermydd, ar draws pob math o fferm, yn perfformio 1.8 gwaith yn well na'r 25% isaf;
b) Mae llai na 5% o'r amrywiaeth ym mherfformiad ffermydd yn gysylltiedig â ffactorau daearyddol (megis pridd a hinsawdd);
c) Mae dros 70% o'r gwahaniaeth [mewn perfformiad] rhwng ffermydd yn y chwartel uchaf a ffermydd yn y chwartel isaf oherwydd penderfyniadau gwahanol a wneir gan y ffermwr.

7.227. O dan yr opsiwn polisi hwn, mae'n debygol y byddai'r amrywioldeb hwn mewn perfformiad yn parhau. Gellid disgwyl i ffermydd sy'n gwneud colled, neu elw ymylol, fod yn arbennig o agored i newidiadau yn amodau'r farchnad a allai gynyddu nifer y ffermydd sy'n gwneud colledion.

[109] The Andersons Centre and Associates (2018) The characteristics of high performing farms in the UK, adroddiad a gyhoeddwyd gan AHDB

### Strwythur y diwydiant

7.228. Mae Ffigur 3 yn dangos strwythur y 7,726 o ffermydd llawn amser a fodelwyd cyn (oren) ac ar ôl (glas) cyflwyno prisiau Senario Cytundeb Masnach gyda’r UE yn ôl yr efelychiad. Mae'r ffigurau hyn (mewn glas) yn cynrychioli'r ymateb hirdymor a fodelwyd i newidiadau hirdymor mewn proffidioldeb.

7.229. Dangosir ffermydd godro, cymysg a bîff arbenigol (SDA) yn cynyddu mewn niferoedd, gyda gostyngiadau yn nifer y ffermydd defaid a phori cymysg mewn ardaloedd DA, SDA ac ardaloedd nad ydynt yn DA/SDA.

7.230. O'r 7,726 o ffermydd, mae’r efelychiad yn dangos y byddai 19% yn trawsnewid i fath gwahanol o fferm. Mae'r rhain yn bennaf mewn ardaloedd iseldir a DA ac yn newid i odro neu ffermio cymysg, gan dyfu cnydau i gefnogi busnesau da byw.

7.231. Bydd 71% o’r ffermydd a fodelwyd yn parhau i fod yr un math o fferm ag ydynt nawr yn ôl yr efelychiad. O'r ffermydd hyn, nid oes gan draean unrhyw gyfle i newid y math o fferm e.e. ardaloedd SDA lle nad oes llawer o ddewisiadau eraill heblaw ffermio defaid/bîff. Nid oes digon o gymhelliad gan y ddwy ran o dair arall e.e. ffermydd godro sydd eisoes yn fwy proffidiol.


7.232. Mae'r ffermydd sydd o dan bwysau mewn ardaloedd ucheldir a mynydd yn bennaf (DA ac SDA), er bod bron i 20% yn ffermydd gwartheg a defaid iseldir. Mae ffermydd bîff a defaid yn cael eu heffeithio'n andwyol o gymharu â'r ffermydd godro.

7.233. Mae 6.5% o’r ffermydd a efelychwyd yn methu â chyrraedd y trothwy o £6,000 y flwyddyn yn y llinell sylfaen a fodelwyd, felly mae posibilrwydd y gallent adael amaethyddiaeth llawn amser. Ar ôl i Brisiau Senario Masnach gyda’r UE gael eu cyflwyno, bydd 7.1% o’r ffermydd a fodelwyd yn gadael amaethyddiaeth llawn amser yn ôl yr efelychiad. Mae'r ffermydd hyn mewn ardaloedd ucheldir a mynydd (DA/SDA) yn bennaf ac maent yn ffermydd bîff a defaid gan mwyaf. O ystyried yr amodau amgylcheddol (e.e. pridd, gorchudd tir, llethr, hinsawdd), mae llai o fathau eraill o ffermydd a all gyflawni FBI digonol yn yr efelychiad yn yr ardaloedd hyn.

7.234. Mae'n bosibl y bydd y ffermydd hyn yn parhau i ffermio'n rhan amser, neu gallai’r tir drosglwyddo i ffermydd cyfagos a pharhau i gael ei ffermio.

7.235. Mae'r senario a fodelwyd yn dangos bod newidiadau cymharol fach i brisiau gât y fferm yn cael effeithiau ar strwythur y diwydiant. Mae ffermydd sydd eisoes yn gwneud colled yn debygol o gael eu heffeithio'n arbennig gan y newidiadau hyn ac efallai na fydd ganddynt y cyfle na'r adnoddau i newid y busnes i gynyddu elw.

**Ffigur 3. Effaith y senario (T2) ar strwythur y diwydiant yn ôl yr efelychiad**




7.236. Bydd sut mae busnesau fferm yn ymateb i newidiadau yn amodau'r farchnad yn ganlyniad proses benderfynu hir a chymhleth a fydd yn amrywio o un busnes fferm i'r llall. Disgrifir cymhlethdod penderfyniadau o'r fath mewn adolygiad llenyddiaeth[110] a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, er bod y gwaith hwn yn gysylltiedig â ffermydd bach a bach iawn, y tu allan i'r ffermydd llawn amser a fodelwyd o fewn ERAMMP.

7.237. Nododd yr adolygiad hwn y canlynol, 'mae amrywiaeth sylweddol yn yr ymatebion ymddygiadol i argyfyngau economaidd yn y gorffennol, a allai fod yn allweddol ar gyfer yr ymatebion a allai ddeillio o bwysau incwm yn gysylltiedig â'r DU yn gadael yr UE a symudiad oddi wrth daliadau uniongyrchol tuag at daliadau ar gyfer nwyddau cyhoeddus dan bolisi amaethyddol yng Nghymru, ac mae angen cynnwys ffactorau sy'n mynd y tu hwnt i'r model busnes syml o gwmni sy'n gwneud cymaint o elw â phosibl. Gellir ystyried camau gweithredu ffermwyr ac aelwydydd fel canlyniad cydadwaith rhwng awydd yr unigolyn i weithredu (sy'n deillio o gymdeithasoli a

[110] Bradley, Hill, O'Prey, Griffiths, Williams (2021) Deall cymhellion ffermwyr: ffermydd bach a bach iawn Adroddiad Terfynol: Atodiad: Adolygiad Llenyddiaeth, adroddiad i Lywodraeth Cymru https://llyw.cymru/deall-cymhellion-ffermwyr-ffermydd-bach-bach-iawn

rhyngweithio), adnoddau materol yr aelwyd ffermio (maint y fferm, cyfalaf, sgiliau llafur, cyfalaf cymdeithasol, safle yng nghylch bywyd, (deiliadaeth) a strwythurau allanol (prisiau cymharol, polisi, cyfleoedd y farchnad lafur, normau cymdeithasol a diwylliannol ac ati). Yn hynny o beth, mae'n bosibl y byddai amrywiaeth eang o ymatebion yn dod i'r amlwg, gan gynnwys rhai (megis cynyddu allbynnau) a allai fod yn wrthgyferbyniol. Bydd diffyg ymateb yn nodweddiadol o ymddygiad rhai, ond bydd hynny i'w weld yn llai cyffredin wrth i newidiadau mewn amgylchiadau ymddangos yn fwy parhaol.'

7.238. Ni all y modelu adlewyrchu'r realiti cymhleth hwn. Fodd bynnag, ochr yn ochr â'r amrywioldeb ym mherfformiad ffermydd, mae'n dangos bod busnesau fferm na fyddant yn gallu gwrthsefyll newidiadau i'r farchnad yn y dyfodol o bosibl. Ar gyfer ffermydd na fyddant o bosibl yn newid i fusnes gwahanol o bosibl, gallai'r newidiadau hyn arwain at sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu oni bai bod camau eraill yn cael eu cymryd o fewn y busnes i gynyddu maint yr elw (e.e. drwy leihau mewnbynnau lle bo modd neu ddwysáu'r cynhyrchu).

## *Incwm Cyfanredol Busnesau Fferm*

7.239. Dros y tymor byrrach (Tabl 14), os yw ffermydd yn parhau fel ag y maent ar hyn o bryd, mae gostyngiad o 8% mewn FBI[111] cyfanredol mewn ymateb i'r newid mewn prisiau gât y fferm yn ôl yr efelychiad. Gwelir gostyngiadau gan amlaf mewn ffermydd gwartheg a defaid iseldir a ffermydd defaid arbenigol mewn SDA.

7.240. Dros y tymor hwy, gyda ffermydd yn gallu trawsnewid i fod yn wahanol fusnesau neu allan o amaethyddiaeth, dangosir cynnydd o 17% o £293 miliwn y flwyddyn (llinell sylfaen 2015, prisiau 2020) i £344 miliwn y flwyddyn (yn dilyn senario cytundeb masnach gyda'r UE, prisiau 2020) yn yr efelychiad.[112]

7.241. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod llai o ffermydd llawn amser, wrth i ffermydd drawsnewid i fath mwy proffidiol o fferm, yn bennaf i ffermydd godro. Mae gostyngiadau yn ôl y sector yn adlewyrchu'r ffermydd hyn yn trawsnewid i fusnesau newydd (Ffigur 4).

---

[111] Ddim yn cynnwys taliadau Glastir. Mae'r rhain yn seiliedig ar incwm rhagdybiedig a chostau yr aed iddynt ac fe'u hystyrir yn niwtral o ran cost.

[112] Wedi'u trosi i brisiau 2020 gan ddefnyddio datchwyddyddion ONS. Mae Adroddiad 60 ERAMMP yn adrodd mewn prisiau 2015.

**Tabl 14. Efelychiad o Incwm Cyfanredol Busnesau Fferm (FBI) yn y tymor byrrach a mwy hirdymor (Senario Cytundeb Masnach gyda'r UE), ffermydd llawn amser.**

| Math o fferm | FBI llinell sylfaen a fodelwyd (£ miliwn) | Senario Cytundeb Masnach gyda'r UE - FBI tymor byrrach (£ miliwn) | Senario Cytundeb Masnach gyda'r UE - FBI tymor hwy (£ miliwn) |
|---|---|---|---|
| **Ydau** | 2.6 | 4.1 | 0.1 |
| **Cnwd cyffredinol** | 1.5 | 2.2 | 0.1 |
| **Godro** | 122.7 | 130.4 | 222.0 |
| **Gwartheg / defaid iseldir** | 19.9 | 13.2 | 3.6 |
| **Cymysg** | 7.9 | 8.9 | 20.6 |
| **Arall** | 3.0 | 2.7 | 2.4 |
| **Defaid Arbenigol (SDA)** | 66.6 | 47.7 | 38.0 |
| **Bîff Arbenigol (SDA)** | 6.2 | 5.4 | 10.7 |
| **Pori cymysg SDA** | 29.3 | 25.5 | 21.6 |
| **Pori amrywiol DA** | 34.1 | 30.9 | 24.4 |
| **Cyfanswm** | **293.2** | **271.5** | **343.6** |


Noder. Prisiau 2020.

7.242. Mae Ffigur 4 yn dangos statws busnes fferm y mathau presennol o ffermydd llawn amser pe baent yn parhau yn eu math presennol o fferm yn senario Cytundeb Masnach gyda'r UE yn ôl yr efelychiad. Mae 10% o'r boblogaeth a fodelwyd o dan bwysau ariannol. Mae hyn o gymharu â 32% o ffermydd sydd o dan bwysau yn Opsiwn 1 (cymorth yn dod i ben ar ddiwedd 2024) yn ôl yr efelychiad.

7.243. Mae'r newidiadau bach mewn prisiau yn y senario hon yn arwain at newid bach yn nifer y ffermydd sydd o dan bwysau ond yn ysgogi newid sylweddol yn y math o fferm

(29% o ffermydd yn trawsnewid), yn bennaf drwy gamau bwriadol ar ran ffermwyr ar ffermydd hyfyw, yn hytrach na thrwy werthu a phrynu ffermydd anhyfyw.

**Ffigur 4. Efelychiad o statws ffermydd llawn amser o dan y senario (T2, n=7,177)**




### Ffermydd sydd â llai nag 1 FTE

7.244. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys ffermydd sydd â llai nag un FTE. Er eu bod yn fach yn economaidd, mae ffermydd rhan-amser yn gorchuddio 29% o'r tir amaethyddol a byddant yn cael effaith ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol.

7.245. Yn ôl adroddiad ar gymhellion ffermydd bach a bach iawn yng Nghymru,[113] roedd dwy ran o dair o ffermydd bach (66%) a hanner (48%) y ffermydd bach iawn yn cael taliadau o gynlluniau amgylcheddol (megis Glastir), ac mae traean (36%) o ffermydd bach a llai na chwarter (23%) o ffermydd bach iawn yn ystyried y taliadau hyn yn hanfodol.

[113] Bradley, Hill, O'Prey, Griffiths, Williams (2021) Deall cymhellion ffermwyr: ffermydd bach a bach iawn Adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru

***Hyfywedd byrdymor busnesau fferm yng Nghymru – Cymharu asedau a rhwymedigaethau cyfredol ar gyfer ffermydd yng Nghymru, 2018-19***

7.246. Fel arfer, bydd gan gyfran fawr o'r asedau ar fferm, megis tir neu eiddo, werth ariannol, ond mae hyn yn anodd neu'n gostus i'w wireddu yn y tymor byr. Mae Tabl 15 yn rhoi syniad o allu ffermydd yng Nghymru i ariannu eu gofynion ariannol uniongyrchol o'r asedau cyfredol, megis arian parod, cynilion neu stoc. Os yw'r rhwymedigaethau cyfredol yn debyg i asedau cyfredol neu'n fwy na'r asedau cyfredol, gall y fferm wynebu trafferthion ariannol byrdymor. Pan fydd hyn yn digwydd, gall y ffermydd hyn fod yn llai gwydn yn ariannol i newid.

7.247. Mae Tabl 15 yn dangos y canlynol:

a) Mae gan 73% o ffermydd asedau cyfredol sy'n llai na £100,000;
b) Mae gan 91% o ffermydd rwymedigaethau cyfredol sy’n llai na £100,000;
c) Mae ffermydd sydd ag asedau is yn tueddu i fod â rhwymedigaethau is, ond mae ffermydd ym mhob categori sydd â rhwymedigaethau mwy o faint. Er enghraifft, mae gan tua 10% o ffermydd sydd ag asedau o dan £100,000 rwymedigaethau mewn categori mwy o faint.
d) Ar y cyfan, mae amrywiaeth eang yn sefyllfa ariannol byrdymor ffermydd.

**Tabl 15. Canran (%) y ffermydd ym mhob grŵp ar gyfer asedau cyfredol a chyfanswm rhwymedigaethau**

| **Rhwymedigaethau cyfredol** | **Asedau cyfredol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **<£25,000** | **£25,000 - <£50,000** | **£50,000 - <£100,000** | **£100,000 - <£200,000** | **£200,000+** | **Cyfanswm** |
| **£0 - <£5,000** | 8% | 10% | 15% | 5% | 3% | **42%** |
| **£5,000 - <£25,000** | 6% | 4% | 9% | 5% | 1% | **26%** |
| **£25,000 – <£50,000** | 4% | 4% | 3% | 2% | 1% | **14%** |
| **£50,000 - <£100,000 -** | 1% | 2% | 3% | 2% | 1% | **9%** |
| **£100,000+** | X | X | 1% | 3% | 3% | **9%** |
| **CYFANSWM** | **20%** | **21%** | **32%** | **17%** | **9%** | **100%** |

Ffynhonnell: Ffigur E4 Incymau ffermydd yng Nghymru, 2018/2019[114] o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio. X = Ni ddangosir y gwerth gan ei fod yn seiliedig ar lai na 5 fferm o'r sampl.

[114] Incymau ffermydd yng Nghymru, 2018-19 (llyw.cymru) (Saesneg yn unig)

### *Hyfywedd hirdymor busnesau fferm: Cymharu cyfanswm yr asedau a rhwymedigaethau ar gyfer ffermydd yng Nghymru, 2018-19*

7.248. Mae cyfanswm rhwymedigaethau yn cynnig mesur o'r dyledion ac yn adlewyrchu cyfanswm dyled (byrdymor a hirdymor) y busnes fferm. Bydd lefelau uchel o rwymedigaethau yn gofyn am lif incwm cyson (neu werthu asedau) er mwyn sicrhau y gellir talu'r llog ar fenthyciadau. Os yw cyfanswm rhwymedigaethau fferm yn rhy uchel (o gymharu â'r cyfanswm asedau), gallai'r fferm gael trafferth diwallu ei hanghenion buddsoddi o enillion. Ar y llaw arall, gall cynyddu lefelau'r benthyciadau er mwyn buddsoddi yn y fferm helpu i wella perfformiad y fferm.

7.249. Mae Tabl 16 yn dangos y canlynol:

a) Mae gan 51% o ffermydd asedau gwerth dros £1 miliwn;
b) Mae gan 52% o ffermydd rwymedigaethau rhwng £10,000 a £500,000;

7.250. Roedd gan bron bob un o'r ffermydd sydd â'r lefel uchaf o rwymedigaethau hefyd asedau gwerth £1 miliwn o leiaf;

a) Mae hyn yn rhoi arwydd arall o gyfran y ffermydd a allai fod heb wydnwch ariannol yn y tymor hwy.

7.251. Gall ffermydd sydd â lefel uchel o gyfanswm rhwymedigaethau fod yn llai gwydn yn wyneb newid neu efallai y bydd rhaid iddynt waredu rhai asedau i reoli rhwymedigaethau.

**Tabl 16. Canran (%) y ffermydd ym mhob grŵp ar gyfer cyfanswm asedau a chyfanswm rhwymedigaethau**

| **Cyfanswm rhwymedigaethau** | **Cyfanswm asedau** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **<£200,000** | **£200,000 - <£500,000** | **£500,000 - <£1 miliwn** | **£1 miliwn - <£2 filiwn** | **£2 filiwn+** | **Cyfanswm** |
| **£0 - <£10,000** | **3%** | **4%** | **19%** | **12%** | **2%** | **40%** |
| **£10,000 - <£50,000** | **3%** | **3%** | **7%** | **8%** | **2%** | **22%** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **£50,000 – <£200,000** | **X** | **2%** | **6%** | **8%** | **2%** | **18%** |
| **£200,000 - <£500,000 -** | **X** | **X** | **2%** | **6%** | **3%** | **12%** |
| **£500,000+** | **X** | **X** | **X** | **2%** | **5%** | **7%** |
| **CYFANSWM** | **6%** | **9%** | **34%** | **37%** | **14%** | **100%** |

Ffynhonnell: Ffigur E3 Incymau Ffermydd yng Nghymru, 2018/2019[115], Arolwg o Fusnesau Ffermio. X = Ni ddangosir y gwerth gan ei fod yn seiliedig ar lai na 5 fferm

7.252. Ar y cyfan, gall y sefyllfa a ddisgrifir yma aros heb ei newid o dan yr opsiwn polisi. Fodd bynnag, gall mwy o anwadalwch ym mhrisiau'r farchnad olygu bod ffermwyr yn gweld y gallai eu gallu i wasanaethu dyled gael ei leihau. Gall hyn arwain atynt yn mabwysiadu strategaethau megis ceisio lleihau rhwymedigaethau cyffredinol drwy, er enghraifft, wireddu cyfran o'u cyfanswm asedau.

**Incwm aelwydydd fferm**

7.253. Mae Incwm Busnesau Fferm (FBI) yn debygol o gwmpasu cyfran yn unig o'r incwm sy'n mynd i mewn i'r aelwyd fferm ehangach. Mae data o Loegr yn dangos, yn 2014/15[116], fod FBI yn cyfrif am 68% o incwm aelwydydd fferm[117]. Roedd gan 91% o aelwydydd fferm incwm oddi ar y fferm gan y prif ffermwr neu ei briod neu bartner o dan y gyfraith gyffredin. Roedd tua hanner yr aelwydydd prif ffermwr yn cael o leiaf 50% o'u hincwm oddi ar y fferm o ffynonellau heb enillion megis buddsoddiadau a phensiynau.

7.254. Yn ôl arolwg o aelwydydd fferm Cymru yn 2010,[118] roedd gan 41% ohonynt incwm oddi ar y fferm yn ogystal ag incwm fferm, gyda 39% o ffermydd bach iawn yn ystyried yr incwm oddi ar y fferm fel y ffynhonnell incwm bwysicaf.

[115] Incymau ffermydd yng Nghymru, 2018-19 (llyw.cymru) (Saesneg yn unig)
[116] Defra (2016) Farm Household Income and Household Composition: Results from the Farm Business Survey, England 2014/15. Dyma'r flwyddyn ddiweddaraf i ddata am incwm aelwydydd fferm gael ei gyhoeddi.
[117] Mae incwm aelwydydd fferm yn cynnwys Incwm Busnes Fferm (gan gynnwys incwm o fentrau arallgyfeirio), incwm oddi ar y fferm y prif ffermwr a'i briod/partner o dan y gyfraith gyffredin ac incwm gan aelodau eraill o'r aelwyd.
[118] Arsyllfa Wledig Cymru AROLWG O AELWYDYDD FFERM YNG NGHYMRU.doc (walesruralobservatory.org.uk)

7.255. Daeth arolwg[119] o ffermydd bach a bach iawn[120] yng Nghymru i'r casgliad nad yw maint economaidd (fel y'i diffinnir yn nhermau Allbwn Safonol) yn ganllaw dibynadwy ar gyfer lefelau incwm aelwydydd ar gyfer y ffermydd hyn. Y ffynhonnell incwm a ddyfynnir amlaf oedd gwarged masnachu (gwerthiannau tynnu costau cynhyrchu) o weithgarwch ffermio (91%), ac yna BPS (76%), cyflogau ac enillion hunangyflogaeth oddi ar y fferm (64%), taliadau amgylcheddol (54%), pensiynau (46%), arallgyfeirio ar y fferm (35%) ac elw ar fuddsoddiadau megis incwm rhent (33%).

7.256. Mae hyn yn dangos dull cymhleth o wneud penderfyniadau ar y fferm, gydag ystod o ffactorau yn cyfrannu ar wahân i FBI. Mae ffynonellau incwm ychwanegol yn debygol o olygu bod llawer o ffermydd yn fwy cadarn a gwydn i newidiadau yn y farchnad nag yr awgrymir o ddadansoddi FBI yn unig.

**Cyflogaeth Fferm**

7.257. Mae'r sector ffermio yn defnyddio llafur mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys partneriaid yn y busnes, gwaith achlysurol, gwaith di-dâl a threfniadau anffurfiol eraill.

7.258. Mae amcangyfrifon ar gyfer y gweithlu ffermio yn amrywio yn dibynnu ar ba fathau sydd dan sylw. Mae gwahaniaeth hefyd rhwng cyfrifon pen syml ac amcangyfrifon sy'n cyfrifo faint o waith a wneir i gyrraedd ffigur Cyfwerth ag Amser Llawn.

7.259. Yn 2021, amcangyfrifodd Arolwg Amaethyddol Cymru gyfanswm cyflogaeth fferm[121] (gweithwyr rheolaidd a gweithwyr achlysurol) ar bob fferm yng Nghymru fel 50,401 o bobl ac, o'r rheini:

a) Roedd 35% yn brif ffermwyr, cyfarwyddwyr, partneriaid busnes (llawn amser) a’u priod;

b) Roedd 40% yn brif ffermwyr, cyfarwyddwyr, partneriaid busnes (rhan-amser) a’u priod;

c) Roedd 25% yn weithwyr rheolaidd ac achlysurol.

[119] Bradley, Hill, O’Prey, Griffiths, Williams (2021) Deall cymhellion ffermwyr: ffermydd bach a bach iawn Adroddiad Terfynol: Atodiad.

[120] Mae gan ffermydd bach iawn drosiant (allbwn safonol) sy’n llai na €25,000; amcangyfrifir bod gan ffermydd bach drosiant (allbwn safonol) o €25,000 - €125,000.

[121] Arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth: Mehefin 2021 | LLYW.CYMRU

7.260. Mae'r Arolwg yn dangos bod cyfanswm cyflogaeth (gweithwyr rheolaidd a gweithwyr achlysurol) ar bob fferm yng Nghymru wedi gostwng o 57,828 yn 2010 i 50,401 yn 2021, sy'n ostyngiad o 13%.

7.261. Mae'r Arolwg yn amcangyfrif hefyd y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn sydd eu hangen yn seiliedig ar swm wedi'i bwysoli o arwynebedd tir a niferoedd da byw, yn hytrach nag arsylwad uniongyrchol. Mae hyn yn rhoi Gofyniad Llafur Safonol o tua 34,000 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn. Nid yw'n glir sut mae hyn yn cymharu ag amcangyfrifon o weithwyr cyfwerth ag amser llawn mewn sectorau eraill.

7.262. Yn ôl amcangyfrifon y Farchnad Lafur122 ar gyfer mis Ionawr 2022, cyfanswm y gweithwyr cyflogedig yng Nghymru yw 1.29 miliwn. Felly, mae cyflogaeth amaethyddol o ryw 50,000 yn cynrychioli tua 3.8% o gyfanswm cyflogaeth yng Nghymru.

7.263. Yn yr opsiwn polisi hwn, mae'n ymddangos yn debygol y gallai'r gostyngiad araf mewn cyfanswm cyflogaeth ar y fferm (a nodwyd ar gyfer y cyfnod 2010-21) barhau. Mae potensial am ostyngiad mwy pe bai newidiadau yn y farchnad yn arwain at lai o FBI, ail-strwythuro'r diwydiant neu ffermydd sy'n symud o amaethyddiaeth lawn amser i ran-amser, fel yr efelychwyd yn Senario Masnach gyda'r UE.

**Yr Economi Wledig**

7.264. Gellir ystyried effeithiau ehangach amaethyddiaeth ar gyflogaeth wledig drwy luosyddion economaidd sy'n rhoi amcangyfrif o newidiadau economaidd byrdymor. Defnyddir lluosyddion yn y tymor byr gan fod newid mwy hirdymor yn debygol o arwain at addasiadau o fewn yr economi, sy'n lleihau'r effeithiau cychwynnol.

7.265. Gall lluosyddion**[123]** fod naill ai'n:

a) Math I, sy'n ystyried yr effaith uniongyrchol (y newid mewn allbwn yn y diwydiant sy'n ddarostyngedig i'r newid cychwynnol yn y galw terfynol) a'r effaith anuniongyrchol (yr effaith ar allbwn diwydiannau sy'n cyflenwi'r diwydiant a oedd yn amodol yn wreiddiol ar newid yn y galw terfynol.)

[122] Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru - Trosolwg o'r Farchnad Lafur, Chwefror 2022

[123] **Nid ydym yn meintoli'r swyddi hyn fel rhan o'r CBA, yn unol â** chanllawiau'r Llyfr Gwyrdd**. Pe bai'n cael ei feintioli, yn dilyn** addasiad ar gyfer dadleoli ac amnewid**, byddai disgwyl i'r lluosydd fod yn is**

b) Math II, sy'n ceisio ymgorffori effaith a ysgogir (yr effaith sy'n deillio o newidiadau i wariant defnyddwyr oherwydd effeithiau ar incwm cartrefi yn dilyn newidiadau mewn cyflogaeth o ganlyniad i'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol).

7.266. Un dull o amcangyfrif lluosyddion economaidd yw drwy ddefnyddio tablau mewnbwn-allbwn[124].

***Awgrymodd astudiaeth yn 2021[125] fod lluosyddion ar gyfer gwahanol sectorau o amaethyddiaeth Cymru fel a ganlyn:***

**Tabl 17. Lluosyddion allbwn a chyflogaeth yn ôl sector (Cymru)**

| Sector | Math o Allbwn 1 | Math o Allbwn 2 | Cyflogaeth |
|---|---|---|---|
| Ydau | 1.14 | 1.40 | 1.20 |
| Tatws | 1.17 | 1.48 | 1.15 |
| Garddwriaeth | 1.14 | 1.43 | 1.16 |
| Gwartheg | 1.70 | 2.22 | 1.21 |
| Defaid | 1.69 | 2.20 | 1.21 |
| Moch | 1.05 | 1.35 | 1.17 |
| Dofednod | 1.46 | 1.92 | 1.17 |
| Godro | 1.72 | 2.22 | 1.22 |
| Cymedr | 1.38 | 1.78 | 1.18 |

7.267. Mae modelu arall[126], sy'n edrych ar effaith taliadau Colofn 1 a Cholofn 2 ar gyflogaeth oddi ar y fferm yn y DU, wedi awgrymu'r canlynol: *the contribution to employment in the agricultural supply chain of Pillar 1 is about 17 per cent and of Pillar 2 about 14 per cent (estimated elasticities in the static model are 0.17 and 0.14, respectively). Clearly, per Euro spent, the contribution of Pillar 2 again is higher than Pillar 1. The fact that CAP payments show higher overall employment creation in the agricultural supply chain compared to the rest of the economy suggests farmers'*

[124] Mae'r dull lluosydd mewnbwn-allbwn yn rhagdybio elw cyson i raddfa (cyfernodau technegol sefydlog), fel bod newid mewn allbwn yn arwain at newid cyfrannol sefydlog mewn mewnbynnau, a hefyd fod capasiti gormodol ar gael i ddarparu ar gyfer cynnydd mewn gofynion mewnbwn materol a llafur am brisiau a chyflogau presennol. Fel un tabl mewnbwn-allbwn i Gymru, nid yw effeithiau rhyngranbarthol â gweddill y DU wedi'u hadlewyrchu'n llawn.
[125] Thomson, S., Revoredo-Giha, C., Atterton, J., Meador, E. a McMillan, J. (2021) Evaluating the significance of agri-supply chains in rural economies: Inter-industry dependency insights from disaggregating UK Input-Output tables. Adroddiad prosiect i Defra. SRUC. Mae'r awduron yn nodi bod diffyg data masnach rhyngranbarthol rhwng rhanbarthau'r DU yn debygol o fod wedi gorliwio'r amcangyfrifon lluosyddion ar gyfer Cymru.
[126] Rizov, Davidova a Bailey (2018). Employment effects of CAP payments in the UK non-farm economy, European Review of Agricultural Economics Vol 45 (5) (2018) tt. 723–748

*spending on production and consumption activities, along the supply chain, generates spillovers and is important for non-farm employment in spite of subsidy decoupling.* Mae'r astudiaeth yn nodi, o ran cyflogaeth gyffredinol, *the magnitude of the overall estimated effect is 1.4% which is relatively small but of economic significance*

7.268. Gellir ystyried pwysigrwydd economaidd ffermydd o fewn yr economi leol gan ddefnyddio Arolwg o Fusnesau Ffermio 2019-2020, sy'n dangos lefelau amcangyfrifedig o wariant busnes ar gyfer categorïau costau busnes penodol. Mae'r gwariant hwn yn debygol o gael effaith gadarnhaol yn yr economi wledig (Tabl 18). Noder fod yr amrediad o gwmpas y cyfartaledd yn eang, gan guddio'r amrywioldeb rhwng ffermydd.

**Tabl 18. Amcangyfrifon o wariant oddi ar y fferm yn ôl y math o fferm, £ fesul fferm**

| | **Ffermydd godro mynydd ac ucheldir** | **Ffermydd godro iseldir** | **Ffermydd Defaid Mynydd** | **Gwartheg a Defaid Mynydd** | **Ffermydd Gwartheg a Defaid Ucheldir** | **Ffermydd Gwartheg a Defaid Iseldir** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y ffermydd mewn sampl** | 55 | 47 | 80 | 118 | 75 | 46 |
| **Porthiant – dwysfwydydd a brynwyd** | 110,358 | 134,747 | 14,286 | 18,408 | 10,982 | 8,661 |
| **Milfeddygaeth a meddyginiaeth** | 13,772 | 16,217 | 5,476 | 5,278 | 3,799 | 3,195 |
| **Gwrteithiau** | 20,653 | 22,261 | 5,439 | 7,223 | 6,996 | 6,940 |
| **Peiriannau – contract** | 3,261 | 4,108 | 716 | 970 | 903 | 1,155 |
| **Peiriannau – tanwydd** | 12,205 | 14,153 | 5,731 | 6,160 | 5,308 | 5,458 |
| **CYFANSWM** | **160,249** | **191,486** | **31,648** | **38,039** | **27,988** | **25,409** |

Ffynhonnell. Arolwg o Fusnesau Ffermio Cymru 2019-20

7.269. Mae'r galw am fewnbynnau a gwasanaethau amaethyddol yn digwydd o fewn yr economi amaethyddol "leol" (mae "lleol" yn y cyd-destun hwn yn amrywio rhwng

gwahanol ardaloedd), gyda rhai elfennau mawr o'r gwariant yn mynd y tu allan i Gymru, i Loegr (yn enwedig ar gyfer ffermydd ger y ffin) a thu hwnt[127].

*7.270.* Mae'r astudiaeth a nodwyd uchod[128] yn awgrymu *although in theory decoupled from farm output, Pillar 1 payments do in fact affect the supply and demand linkages between farms and firms.* Ymhellach, *CAP payments play a very important role for job creation in the industries up- and downstream of agriculture. It is interesting that the effect of Pillar 1 remains larger than Pillar 2.* Fodd bynnag, wrth edrych ar yr effaith ar gyflogaeth mewn ardaloedd gwledig yn unig (eto ar lefel y DU), awgrymir bod *the contribution of Pillar 2 to rural employment is higher (1.2 per cent) compared to the contribution of Pillar 1 (1.0 per cent).*

7.271. Yn ôl adolygiad 2021[129] o'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS): 'Several projects highlighted how they were contributing to increased spending in the local community by using local contractors such as mechanics, builders' merchants, and web designers for all possible activity under the auspices of SMS. This additional spending was claimed by projects as adding a much-needed boost to the local economy.……Other projects felt that the improvements made to the landscape would attract more visitors and thereby increase local spend'.

### ***Mae astudiaeth yn 2014[130] o'r Alban yn nodi:***

a) 'economic and social resilience are not separate components of resilience but are complementary. Strengthening economic resilience enables increase in social resilience. Progress in one of the areas brings progress in the other; consequently, if economic resilience declines, social resilience is also likely to decline;

b) one of the roles of the private sector enterprises is to enhance rural community resilience. They do that through their adaptive capacity and the ability to adapt to stresses and changes. Rural private sector enterprises help to transform rural

[127] Er enghraifft, yn 2019, cyrhaeddodd gwerth gwrteithiau a fewnforiwyd i'r DU bron i 1.1 biliwn o ddoleri'r UD. Ffynhonnell; [• UK imports of fertilizers 2012-2019 | Statista]
[128] Rizov, Davidova a Bailey (2018) Employment effects of CAP payments in the UK non-farm economy, European Review of Agricultural Economics Vol 45 (5) (2018) tt. 723–748
[129] Bebb a Bryer, Ymchwil OB3 gyda chyfraniadau gan Rob Owen a Sue Rice, Partneriaeth BRO (2021) Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy: Adroddiad Gwerthusiad Proses a Damcaniaeth Newid, ar gyfer Llywodraeth Cymru.
[130] Steiner ac Atterton, 2014, 'The contribution of rural businesses to community resilience', Local Economy, cyf. 29, rhif 3, tt. 228-244

communities into more sustainable and vibrant places. This “adaptive capacity” means that they are important in shaping and re-shaping the lives of rural citizens.’

7.272. Byddai effaith gadarnhaol BPS, Glastir a phrosiectau a rhaglenni eraill a ariennir gan y RhDG ar gyflogaeth ar y fferm ac oddi ar y fferm, o dan yr opsiwn polisi hwn, yn parhau i gyfrannu at wydnwch cymdeithasol cymunedau gwledig. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, byddai gostyngiad mewn gwydnwch economaidd yn effeithio'n negyddol ar wydnwch cymdeithasol. Gallai newidiadau ym mhrisiau'r farchnad, fel y dangoswyd yn Senarios Defnydd Tir ERAMMP, sy’n arwain at lai o hyfywedd fferm gael effaith negyddol ar gymunedau gwledig felly.

**Newidiadau yn amodau'r farchnad ers i'r modelu IMP gael ei wneud**

7.273. Mae Mynegai Prisiau Amaethyddol y DU[131] yn darparu data blynyddol am brisiau allbynnau a mewnbynnau amaethyddol ar gyfer y DU.

**Tabl 19: Pwyntiau allweddol Mynegai Prisiau Amaethyddol y DU am y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2022**

| Prisiau allbynnau | Prisiau mewnbwn |
|---|---|
| • Cynyddodd y mynegai prisiau ar gyfer allbynnau amaethyddol 11.8%<br>• Y cyfraniad am i fyny mwyaf at y gyfradd chwyddiant ar gyfer allbynnau amaethyddol oedd: llaeth (4.9%), gwenith (2.2%) a rêp had olew (1.6%).<br>• Y cyfraniad am i lawr mwyaf oedd: defaid ac ŵyn (-0.5%), planhigion porthiant (-0.4%) a llysiau ffres (-0.3%). | • Cynyddodd y mynegai prisiau ar gyfer mewnbynnau amaethyddol 25.4%.<br>• Y cyfraniad am i fyny mwyaf at y gyfradd chwyddiant ar gyfer mewnbynnau amaethyddol oedd: gwrteithiau a chynhyrchion gwella pridd (10.4%), ynni ac ireidiau (3.4%) a bwydydd anifeiliaid cyfansawdd (3.2%). |

[131] API – Mynegai prisiau allbynnau a mewnbynnau amaethyddol – hysbysiad ystadegau (data at fis Mawrth 2022) - GOV.UK (www.gov.uk) (Saesneg yn unig)

7.274. Mae mynegeion pris ar gyfer allbynnau a mewnbynnau amaethyddol hyd at fis Mawrth 2022 (2015 = 100), a'r gyfradd chwyddiant flwyddyn ar ôl blwyddyn yn cael eu dangos yn Nhabl 20.

**Tabl 20. Mynegeion pris ar gyfer allbynnau a mewnbynnau amaethyddol a'r gyfradd chwyddiant flwyddyn ar ôl blwyddyn**

| **Allbynnau** | **Mynegai Mawrth 2022 (2015 = 100)** | **Cyfradd chwyddiant (%) 12 mis hyd at fis Mawrth 2022** |
|---|---|---|
| Holl allbynnau amaethyddol | 144.1 | 11.8% |
| Cynhyrchion cnwd | 165.5 | 14.4% |
| Ydau | 201.3 | 20.9% |
| Gwenith | 198.6 | 14.8% |
| Haidd | 216.7 | 51.6% |
| Anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid | 132.3 | 10.1% |
| Gwartheg a lloi | 130.1 | 11.2% |
| Defaid ac ŵyn | 151.3 | -7.5% |
| Llaeth | 150.2 | 23.9% |
| **Mewnbynnau** | | |
| Holl fewnbynnau amaethyddol | 149.9 | 25.4% |
| Nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio mewn amaethyddiaeth ar hyn o bryd | 154,5 | 27.2% |
| Hadau | 122.0 | 3.7% |
| Ynni ac iryddion | 168.5 | 42.9% |
| Gwrteithiau a chynhyrchion gwella pridd | 250.7 | 127.6% |
| Cynhyrchion diogelu planhigion | 159.5 | 10.8% |
| Bwydydd anifeiliaid | 154.2 | 19.3% |

7.275. Rhagdybiaethau IMP yw newidiadau hirdymor i brisiau allbynnau ar ôl i'r DU ymadael â'r UE: Llaeth +1.2%, Cig Eidion +3% a Chig Oen -1%, o gymharu â llinell sylfaen 2015. Gweler Atodiad C am restr lawn o'r prisiau a ddefnyddir yn yr IMP.

7.276. Mae prisiau ERAMMP ar gyfer allbynnau a mewnbynnau yn rhagdybio dim newid neu newid isel o gymharu â llinell sylfaen 2015. Mae'r gyfradd chwyddiant wirioneddol (blwyddyn hyd at fis Mawrth 2022) ar gyfer pob mewnbwn ac allbwn yn llawer uwch na'r newidiadau a ragdybiwyd gan ERAMMP, a gynhyrchwyd yn 2019 ac a ddefnyddiodd y newidiadau i brisiau gât y fferm a fodelwyd gan FAPRI[132]. Roedd hyn cyn i'r DU ymadael â'r UE a chyn y gyfradd chwyddiant gynyddol yn 2021 ac ymosodiad Rwsia ar Wcráin yn 2022.

7.277. Fodd bynnag, mae model ERAMMP yn cymhwyso newid hirdymor i brisiau allbynnau a mewnbynnau, yn hytrach na siociau tymor byr. Nid yw'n glir pa mor hir y bydd y gyfradd uchel bresennol o chwyddiant ar gyfer mewnbynnau ac allbynnau amaethyddol, a gofnodwyd gan yr API, yn para.

7.278. O ran canlyniadau modelu ERAMMP, mae'n anodd amcangyfrif yn ffyddiog yr amserlen ac felly effaith net newidiadau mewn prisiau. Byddai prisiau allbynnau uwch parhaus yn arwain at lai o ffermydd llawn amser o dan bwysau a llai o ffermydd yn trawsnewid yn ôl yr efelychiad. Byddai prisiau mewnbwn uwch parhaus yn rhoi mwy o ffermydd llawn amser o dan bwysau ac yn eu gorfodi i drawsnewid allan o ffermio llawn amser yn ôl yr efelychiad.

7.279. Mae tabl 20 yn dangos chwyddiant blynyddol ar 11.8% hyd at fis Mawrth 2022 ar gyfer allbynnau amaethyddol a 25.4% ar gyfer mewnbynnau amaethyddol. Os bydd y cydbwysedd hwn (chwyddiant mewnbynnau uwch na chwyddiant allbynnau) yn cael ei gynnal, yna o ran allbynnau model ERAMMP, gallai awgrymu'r canlynol:

a) **Ffermydd yn aros yr un fath** - mae llai yn aros yr un fath, gyda mwy yn gadael amaethyddiaeth llawn amser;
b) **Ffermydd yn newid math –** prin unrhyw newid o ran nifer y ffermydd sy'n newid math yn ôl yr efelychiad gan nad oes llawer o opsiynau o ran math arall o fferm;
c) **Ffermydd o dan bwysau –** mwy o ffermydd o dan bwysau mewn ardaloedd ucheldir a mynydd (DA/SDA)

[132] FAPRI-UK Brexit Report - FINAL Clean.pdf (afbini.gov.uk)

d) **Ffermydd yn gadael amaethyddiaeth llawn amser –** mwy o ffermydd yn gadael amaethyddiaeth lawn-amser, yn bennaf mewn ardaloedd ucheldir a mynydd (DA/SDA).

## *EFFEITHIAU AR REOLI TIR*

### Stocio

7.280. Dengys Arolwg Amaethyddiaeth a Garddwriaeth Cymru 2021 y canlynol:

a) Rhwng 2010-21, cynyddodd nifer y defaid ac ŵyn 15% (o 8.24 miliwn i 9.46 miliwn), cynyddodd nifer y mamogiaid magu o 3.88 miliwn i 4.37 miliwn;
b) Yn yr un cyfnod, roedd gostyngiad cyffredinol o ychydig o dan 1% yn nifer y gwartheg a lloi, gan adlewyrchu gostyngiad yn y fuches bîff. Cynyddodd nifer y gwartheg godro 13%.

7.281. Dangosir y newidiadau tymor hwy a efelychwyd mewn niferoedd da byw o dan senario Cytundeb Masnach gyda'r UE yn Nhabl 21. Mae'r gostyngiad mewn niferoedd defaid a efelychwyd o ganlyniad i ffermydd yn gadael amaethyddiaeth a ffermydd llawn amser yn trawsnewid i fathau eraill o ffermydd. Mae'r cynnydd mewn gwartheg godro o ganlyniad i ffermydd hyfyw yn trawsnewid i fod yn ffermydd godro.

**Tabl 21. Newidiadau a efelychwyd mewn Unedau Da Byw sy'n Pori (GLUs) yn senario Cytundeb Masnach gyda'r UE (T2)**

| | **% y newid mewn Unedau Da Byw sy'n Pori (GLUs)** |
|---|---|
| **GLU Bîff** | + 0.7% |
| **GLU Godro** | + 73% |
| **GLU Defaid** | - 34% |

7.282. Mae Tabl 22, o Raglen Monitro a Gwerthuso Glastir[133], yn dangos canran yr ymatebwyr a ymatebodd i'r arolwg a gofnododd newid yn nifer y da byw sy'n pori, wedi'i briodoli i gytundeb Cynllun Glastir.

[133] Anthony, S; Stopps, J a Whitworth, E (2017) Wales Farm Practices Survey. Statistical Analysis and Main Results. Annex 3. Yn: Emmett, B.E a'r tîm GMEP (2017) Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir. Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cymru (Cyfeirnod y contract: C147/2010/11). NERC/Centre for Ecology & Hydrology (Prosiectau CEH: NEC04780/NEC05371/NEC05782)

7.283. Yn ôl yr adroddiad, pan oedd cynnydd mewn niferoedd stoc, roedd y ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn, ar wahân i gymryd rhan yn y cynllun, yn cynnwys yn fwyaf aml:

a) newid ym mhrisiau'r farchnad (28%)
b) argaeledd tir i'w rentu (24%)
c) newid mewn argaeledd staff (3%)
d) ceisio gwella incwm (7%).

7.284. Daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol: there is evidence of a net decrease in total breeding ewe numbers on farms participating in the Advanced level of the Glastir scheme. Change occurs on only a proportion of farms in scheme and is less than background rate of change occurring on non-scheme farms due to other market factors.

**Tabl 22. Newid mewn stoc a adroddwyd gan gyfranogwyr y cynllun Glastir**

| | **Defaid (*n* = 184)** | **Gwartheg Bîff Sugno (*n*= 113)** | **Gwartheg Bîff Tew (*n*=24)** | **Godro (*n* = 42)** |
|---|---|---|---|---|
| **Canran yr ymatebwyr i'r arolwg sy'n adrodd Gostyngiad mewn Stoc** | 20% | 10% | 0% | 5% |
| **Canran yr ymatebwyr i'r arolwg sy'n adrodd Cynnydd mewn Stoc** | 5% | 8% | 4% | 10% |
| **% y newid net yn nifer y da byw ar draws pob fferm** | - 4% | - 2% | 2% | 1% |

7.285. Mae'n anodd amcangyfrif newidiadau mewn stoc dros y tymor hwy o dan yr opsiwn polisi hwn. Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae yna lawer o ffyrdd y gall busnes ymateb i newidiadau yn y farchnad, ac nid yw pob un ohonynt yn cynnwys newidiadau i stoc. Fodd bynnag, mae Senario Masnach yr UE yn awgrymu y gallai ymatebion tymor hwy i newidiadau yn amodau'r farchnad gynnwys newidiadau mewn stoc, gyda symudiad tuag at sectorau sydd â maint elw uwch a gostyngiad mewn

sectorau sy'n agored i'r newidiadau mewn prisiau. Mae ymatebion i'r arolwg Glastir uchod yn awgrymu hefyd y gallai niferoedd stoc gynyddu ymhlith cyfranogwyr mewn ymateb i amodau'r farchnad yn y dyfodol. Gallai hyn ddylanwadu ar y manteision sy'n cael eu cyflawni gan Glastir yn yr opsiwn polisi hwn.

**Defnydd Tir**

7.286. Mae Tabl 23 yn dangos canlyniad tymor hwy y newidiadau a efelychwyd[134] yn statws ffermydd llawn amser.

7.287. Mae dwysáu systemau glaswelltir a reolir wedi’i efelychu, gyda chynnydd o 66% yn arwynebedd y borfa dros dro. Cysylltir hyn gyda'r cynnydd yn niferoedd y gwartheg godro a gostyngiad mewn defaid. Mae arwynebedd y coetir ar ffermydd llawn amser hefyd yn lleihau; mae hyn unwaith eto'n adlewyrchu ffermydd yn gadael amaethyddiaeth llawn amser yn hytrach na choetir yn cael ei gwympo.

7.288. Efelychir cyfanswm o 6,060 hectar o goetir newydd yn cael ei blannu ar ffermydd sy'n gadael amaethyddiaeth llawn amser. Daw'r rhan fwyaf o'r coetir newydd o blannu coed (4,679 hectar) yn hytrach nag o adfywiad naturiol (1,381 hectar). Mae'r model yn dangos y gall plannu coed ddigwydd os yw'r tir yn cynhyrchu NPV cadarnhaol ac os yw'n addas ar gyfer tyfu coed (h.y. ddim yn rhy serth, dim pridd mawn nac ardal ddynodedig warchodedig). Os nad yw'r NPV yn ddigon i dalu costau buddsoddi mewn plannu coed, efelychir adfywiad naturiol i goetir nas rheolir.

7.289. Mae'n bosibl y gall rhywfaint neu'r cyfan o'r tir hwn sy’n gadael amaethyddiaeth llawn amser yn ôl yr efelychiad drosglwyddo i ffermydd cyfagos a pharhau i gael ei ffermio, ond nid yw rheolau model yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd hwn. Pe bai'r tir yn parhau mewn amaethyddiaeth, byddai'r canlyniadau amgylcheddol sy'n deillio o hynny yn amrywio.

[134] Mae newidiadau mewn defnydd tir yn cael eu sbarduno gan sefyllfa economaidd y fferm ac addasrwydd y tir. Nid ydynt yn ystyried sgiliau nac ymatebion diwylliannol ac ymddygiad

**Tabl 23. Newidiadau tymor hwy a efelychwyd mewn defnydd tir o dan Senario Masnach yr UE[135] (T2)**

| | Llinell sylfaen 2015 | Senario Masnach yr UE (T2) | % newid |
|---|---|---|---|
| **Tir âr (ha)** | 65,859 | 65,554 | -0.5% |
| **Porfa dros dro (ha)** | 14,2724 | 237,099 | +66% |
| **Porfa barhaol (ha)** | 46,7703 | 368,419 | -21% |
| **Tir pori garw (ha)** | 24,8431 | 246,361 | -0.8% |
| **Coetir llydanddail (ha)** | 51,809 | 49,615* | -4.2% |
| **Coetir conwydd (ha)** | 17,295 | 10,915* | -36.9% |

* Ardaloedd coetir yw'r rhai sydd ar ffermydd llawn amser, nid yw hyn yn cynnwys yr amcangyfrif o 6,060 hectar o goetir newydd ar ffermydd sy'n gadael amaethyddiaeth lawn amser yn ôl yr efelychiad.

## *Arferion Rheoli Tir*

### Glastir

7.290. Mae newidiadau a amcangyfrifir mewn arferion fferm o Glastir[136] yn Nhabl 24.

**Tabl 24. Camau gweithredu ffermwyr o dan Glastir (2012-2016)**

| Mater | % y ffermwyr Glastir sy'n cymryd camau | |
|---|---|---|
| Ffermydd yn cymryd camau er mwyn gwella'r busnes | **Godro**<br>• 59% Effeithlonrwydd Tanwydd ac Ynni<br>• 62% Effeithlonrwydd Maethynnau<br>• 79% Iechyd Anifeiliaid<br>• 23% Arallgyfeirio | **Bîff a defaid**<br>• 28% Effeithlonrwydd Tanwydd ac Ynni<br>• 32% Effeithlonrwydd Maethynnau<br>• 62% Iechyd Anifeiliaid<br>• 23% Arallgyfeirio |

[135] Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw newid yn yr hinsawdd, na newidiadau eraill yn y dyfodol mewn prisiau/costau sy'n cael eu sbarduno gan ffactorau y tu allan i'r senario a fodelwyd (T2)
[136] GMEP-Final-Report-Exec-Summ-2017.pdf

| | | |
|---|---|---|
| | • 51% Effeithlonrwydd Defnydd Dŵr | • 26% Effeithlonrwydd Defnydd Dŵr |
| Ffermydd yn cymryd camau i addasu i fygythiadau newid hinsawdd | **Godro**<br>• 9% Llifogydd<br>• 9% Sychder<br>• 22% Erydu pridd<br>• 13% Bioamrywiaeth<br>• 27% Plâu a chlefyd<br>• 36% Straen gwres | **Bîff a defaid**<br>• 9% Llifogydd<br>• 7% Sychder<br>• 13% Erydu pridd<br>• 11% Bioamrywiaeth<br>• 20% Plâu a chlefyd<br>• 18% Straen gwres |
| | **% y cynnydd mewn ffermydd sy'n cymryd camau o gymharu â'r rhai nad ydynt yn ffermwyr Glastir** | |
| Cynnydd yn nifer y ffermydd sy'n adfer neu'n creu coetir | • Cynnydd o 11% i ffermwyr Glastir Sylfaenol<br>• Cynnydd o 20% i ffermwyr Glastir Uwch | |
| Ffermwyr yn gweithredu i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth | • Cynnydd o 13% yn nifer y ffermydd sy'n cymryd camau<br>• 26% yn fwy tebygol o fod wedi sefydlu llystyfiant a lleiniau clustogi heb eu trin<br>• 15% yn fwy tebygol o fod wedi gadael sofl mewn caeau i ddarparu gorchudd dros y gaeaf | |
| Ffermydd yn cymryd camau ar ansawdd dŵr croyw | • 29% yn fwy tebygol o fod wedi ffensio nentydd<br>• 6.8% yn fwy o ffermydd yn gorchuddio tomenni tail<br>• Cynnydd o 8% mewn graddnodi taenwyr tail | |
| Ffermydd yn cymryd camau ar ansawdd pridd | • Cynnydd o 10% yn y tebygolrwydd o gynnal profion maethynnau pridd<br>• Cynnydd o 10% yn y tebygolrwydd o raddnodi taenwyr gwrtaith | |

*7.291.* Cofnododd GMEP[137] newidiadau hefyd mewn arferion rheoli ffermydd ar ffermydd nad ydynt yn rhan o gynllun amaeth-amgylchedd rhwng 2009 a 2016[138]. Nododd yr adroddiad:

[137] Anthony, S; Stopps, J a Whitworth, E (2017) Wales Farm Practices Survey. Legacy and Synthesis. Annex 4. Yn: Emmett, B.E a'r tîm GMEP (2017) Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir. Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cymru (Cyfeirnod y contract: C147/2010/11). NERC/Centre for Ecology & Hydrology (Prosiectau CEH: NEC04780/NEC05371/NEC05782)

[138] Er mwyn canfod a fu gwelliant yn arferion ffermydd Cymru heb effeithiau cynllun, cymharwyd ymatebwyr i Arolwg Arferion Ffermydd Cymru 2009 a 2016 nad oedd ganddynt unrhyw hanes o gymryd rhan mewn unrhyw un o gynlluniau amaeth-amgylcheddol Cymru.

a) Tystiolaeth o lefel gefndirol o welliant mewn arferion ffermydd Cymru rhwng 2009 a 2016. Roedd hyn yn arbennig o wir am reoli tail ar ffermydd gwartheg a defaid. Gwnaeth nifer sylweddol uwch o ffermydd nad ydynt yn rhan o gynllun gwblhau Cynlluniau Rheoli Tail ac aethant ati i weithredu ar y rhain drwy weithredu nifer uwch o gamau gweithredu penodol.
b) Newid cadarnhaol sylweddol mewn ffermydd nad ydynt yn rhan o gynllun sy'n honni eu bod wedi cyflawni camau rheoli maethynnau unigol rhwng 2009-2016. Roedd y camau hyn yn ymwneud â defnydd mwy effeithlon o adnoddau a rheoli llygredd dŵr gwasgaredig, megis cynnal profion maethynnau pridd a graddnodi taenwyr gwrtaith.
c) Bu gostyngiad sylweddol yn y nifer a oedd yn cwblhau cynlluniau asesu neu ddiogelu pridd rhwng 2009-2016, a gellir priodoli hynny i'r newid yn y gofynion GAEC o dan Trawsgydymffurfio. Fodd bynnag, bu cynnydd yn y nifer a oedd yn cymryd camau rheoli pridd penodol, yn enwedig ffermydd godro ar gaeau glaswelltir.

7.292. Gellid disgwyl i newidiadau mewn ymarfer o ganlyniad i Glastir a lefel cefndirol y gwelliant barhau o dan yr opsiwn polisi hwn. Byddai hyn yn dibynnu ar barhau i fod yn aelod o'r cynlluniau presennol (neu barhau i gymryd y camau uchod y tu allan i aelodaeth o gynllun) ac ymatebion i unrhyw newidiadau yn amodau'r farchnad.

---

**Defnydd o Faethynnau**

7.293. O ystyried y cynnydd mewn GLUs godro ar draul defaid, mae cynnydd mawr wedi'i efelychu mewn llwythi Nitrogen o garthion gwartheg godro. Mae'r newid i systemau godro, a systemau cylchdroi glaswellt, yn cynyddu llwythi gwrtaith N. Ar y cyfan, mae cyfanswm y llwythi N yn cynyddu'n sylweddol (Tabl 25).

**Tabl 25. Newid canran mewn llwythi Nitrogen o wrtaith a da byw (swm carthion uniongyrchol, tail a slyri uniongyrchol) o dan Senario Masnach yr UE**

| **Ffynhonnell** | **Newid** |
|---|---|
| Gwrtaith N (kT N) | +24.9% |
| Carthion gwartheg godro (kT N) | +72.9% |
| Carthion gwartheg bîff (kT N) | +0.2% |
| Carthion defaid (kT N) | -42.0% |
| **CYFANSWM y Newid** | +21.2% |

## *EFFEITHIAU AR FANTEISION AMGYLCHEDDOL*

**Ansawdd Dŵr - Newid mewn llwyth N, P a gwaddodion**

7.294. Mae tabl 26 yn dangos crynodeb o'r newid amcangyfrifedig mewn ansawdd dŵr o werthoedd llinell sylfaen 2015 ar gyfer Cymru ar gyfer llwyth N, P a gwaddodion o dan senario Cytundeb Masnach gyda'r UE. Mae hyn yn cyfrif am ymatebion gan y diwydiant i newid yn yr amgylchedd masnachu. Amcangyfrifir bod cynnydd mewn rhai llygryddion a fodelwyd, gyda'r cynnydd cyfrannol mwyaf mewn N (+26%), yna P (+11%).

**Tabl 26. Newid a efelychwyd mewn ansawdd dŵr yn Senario Masnach gyda'r UE (T2)**

| | **Llinell sylfaen** | **Senario Masnach yr UE** | **Newid** | **% newid** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nitrad kt $NO_3$ N | 30.11 | 38.00 | 7.89 | 26% |
| Ffosfforws kt P | 0.72 | 0.80 | 0.08 | 11% |
| Gwaddodion kt | 194 | 194 | -0.37 | 0% |

7.295. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu cyfraniadau cymharol gwahanol ddefnyddiau tir amaethyddol at y gwahanol fathau o lygryddion hyn, a'r patrwm o newid amaethyddol. Cynnydd mewn ffermydd godro gyda mwy o fewnbynnau maethynnau, wedi'u gosod yn erbyn lleihad mewn glaswellt garw, defaid a gwartheg bîff. Mae ffermio godro yn achosi mwy o lygredd N a P yr hectar, o gymharu â defnyddiau tir eraill, felly mae'r canfyddiadau hyn i'w disgwyl.

7.296. Pan fydd newidiadau mewn N, P a gwaddodion yn cael eu mapio ar lefel dalgylch y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD):

a) Mae cynnydd wedi’i efelychu dros y rhan fwyaf o Gymru ar gyfer llwyth N, P a gwaddodion.
b) Gellir gweld gostyngiadau mewn N a P mewn rhai dalgylchoedd, gyda llawer o ddalgylchoedd yn gweld llai o waddodion (cynnydd mewn llwythi gwaddodion lle mae godro yn ehangu, gostyngiad ar gyfer dalgylchoedd gyda gostyngiad mewn defaid).
c) Bydd statws N dŵr yfed[139] yn dirywio mewn ardaloedd lle mae godro'n ehangu yn ôl yr efelychiad.

7.297. O dan yr opsiwn polisi hwn, gellid disgwyl i ostyngiadau mewn llwythi llygredd amaethyddol a ddarperir gan gontractau Glastir (heb eu modelu yn IMP) barhau:

a) - 1.0% Nitrogen
b) - 0.94% Ffosfforws
c) - 0.11% Gwaddodion

7.298. Mae hyn yn dangos na all manteision presennol a ddarperir gan Glastir o dan yr opsiwn polisi hwn fod yn ddigon i wrthbwyso gostyngiadau posibl mewn ansawdd dŵr

[139] Mae'r statws hwn yn ymwneud â'r cyfarwyddebau dŵr yfed, ac nid y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

sy'n deillio o newidiadau i'r diwydiant a all ddigwydd mewn ymateb i amodau'r farchnad yn y dyfodol. Mae senario’r efelychiad yn dangos pwysau i symud tuag at systemau mwy dwys sydd, oni bai bod mesurau hefyd i leihau colledion maethynnau i aer a dŵr, â'r potensial i gael effeithiau niweidiol ar ansawdd dŵr.

7.299. Mae'n debygol y bydd gwahaniaethau rhanbarthol dros y tymor hwy o dan yr opsiwn hwn, gydag ardaloedd lle mae ffermydd yn symud i systemau mwy dwys yn gweld y potensial i ansawdd dŵr waethygu o gymharu ag ardaloedd eraill lle gall ffermydd adael amaethyddiaeth neu symud i systemau llai dwys.

**Ansawdd aer**

7.300. Mae Tabl 27 yn dangos crynodiad $PM_{2.5}$ ar gyfer y newidiadau llinell sylfaen a chyfartalog mewn amonia, a chrynodiad $PM_{2.5}$ yn y senario cytundeb masnach gyda’r UE. Mae hyn yn amcangyfrif cynnydd mewn amonia, sy'n adlewyrchu'r newid i system odro, a chynnydd mewn crynodiad $PM_{2.5}$ ar gyfartaledd.

**Tabl 27. Newidiadau a efelychwyd mewn Amonia a $PM_{2.5}$ o dan y Senario Cytundeb Masnach gyda’r UE (T2)**

| | |
|---|---|
| d) Newid cyfartalog mewn $NH_3$ (kg) | e) +11,938 |
| f) Newid cyfartalog mewn crynodiad $PM_{2.5}$ (µg/m$^3$) | g) +0.03 |

**Blynyddoedd o Fywyd a Gollir oherwydd ansawdd aer**

7.301. Mae effeithiau ar iechyd pobl yn dibynnu ar nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â’r llygredd a lefel y llygredd. Mesurir effaith lefelau $PM_{2.5}$ mewn Blynyddoedd o Fywyd a Gollir. Y metrig hwn yw blynyddoedd o fywyd a gollir ar draws y boblogaeth yn y maes astudio. Mae gostyngiad yn nifer y Blynyddoedd o Fywyd a Gollir yn ganlyniad positif.

7.302. Yn yr efelychiad, mae crynodiadau $Pm_{2.5}$ yn cynyddu ychydig (+0.04 µg/m$^{3)}$ ar gyfartaledd i Gymru o dan y senario a fodelwyd (T2) oherwydd cynnydd mewn allyriadau $NH_3$. Mae dirywiad ansawdd aer yn adlewyrchu effaith negyddol dwysáu amaethyddol sy'n gorbwyso effaith gadarnhaol creu coetir newydd.

7.303. Mae hyn yn arwain at anfantais iechyd net o gynnydd blynyddol mewn 59.5 o Flynyddoedd o Fywyd a Gollir.

7.304. Ar raddfa genedlaethol, mae'r senario yn dangos crynodiad uwch o $PM_{2.5}$ , yn enwedig yn yr ardaloedd mwy poblog. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng Nghanol y De (Caerdydd) a'r Gogledd-ddwyrain.

7.305. Amcangyfrifir bod Glastir[140] wedi cyflwyno'r effeithiau canlynol ar ansawdd aer:

a) gostyngiad o 0.79% mewn Ocsid Nitraidd (N2O) gyda
b) gostyngiad o 0.40% yn sgil newidiadau yn y defnydd o wrtaith;
c) gostyngiad o 0.31% yn sgil newidiadau mewn niferoedd stoc;
d) gostyngiad o 0.08% yn sgil camau eraill o dan Glastir.

7.306. Mae'r manteision Glastir hyn yn cael eu sbarduno'n bennaf gan wrtaith a stocio. O dan yr opsiwn polisi hwn, pe bai dwysáu systemau glaswelltir a chynnydd mewn stoc yn codi o newidiadau yn amodau'r farchnad (fel yr efelychwyd yn y Senario Masnach gyda'r UE), efallai na fydd y manteision hyn yn ddigon i wrthbwyso cynnydd ehangach mewn allyriadau, a gallai ansawdd aer waethygu. Byddai'r effeithiau hyn yn amrywio'n rhanbarthol.

**Bioamrywiaeth**

7.307. Gwerthfawrogir bioamrywiaeth yn ERAMMP yn ei gyfraniad at gyflwr a swyddogaeth ecosystemau a gwasanaethau a stociau cysylltiedig. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â Chyfrifon Cyfalaf Naturiol ONS[141] a The Dasgupta Review of Economics of Biodiversity[142].

7.308. Nid yw model ERAMMP yn darparu prisiad cynhenid o fioamrywiaeth mewn perthynas â rhywogaethau unigol. Ar wahân i'r heriau economaidd sy'n gysylltiedig â phrisio rhywogaethau a bioamrywiaeth, mae'r data neu'r modelau math fortecs penodol i rywogaethau unigol i alluogi modelu ar raddfa genedlaethol yn rhy brin.

**Bioamrywiaeth – Newid cyffredinol yn y boblogaeth adar**

7.309. Mae cynnydd a lleihad ym maint poblogaethau adar yn ganlyniad anochel i newidiadau mewn defnydd tir. O dan senario Cytundeb Masnach gyda'r UE, gwelwyd

---

[140] Atodiad 5: Adroddiad Terfynol Glastir (2017) [Adnoddau | Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (gmep.wales)]
[141] [Cyfalaf Naturiol - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Saesneg yn unig)]
[142] [Final Report - The Economics of Biodiversity: The Dasgupta Review]

cynnydd yn yr efelychiad yn y gorchudd indrawn a glaswellt cylchdroadol oherwydd cynnydd mewn ffermydd godro. Hefyd, gwelwyd rhywfaint o dir ffermio yn symud allan o amaethyddiaeth a mwy o goetir, yn enwedig coetir conwydd mewn systemau ucheldir.

7.310. Dangosir bod maint poblogaeth y rhan fwyaf o rywogaethau o adar yn gostwng ychydig o dan y senario hon yn yr efelychiad. Mae'r rhan fwyaf o newidiadau yn rhai dibwys.

**Tabl 28. % y rhywogaethau adar a efelychwyd a fyddai'n newid o dan senario Cytundeb Masnach gyda'r UE**

| | % y rhywogaethau adar sy'n newid |
|---|---|
| **Cynnydd Sylweddol** | 3% |
| **Cynnydd Posibl** | 0 |
| **Dim newid** | 71% |
| **Lleihad Posibl** | 9% |
| **Lleihad Sylweddol** | 18% |

7.311. Roedd mwyafrif y rhywogaethau y rhagwelwyd y byddent yn cynyddu'n sylweddol yn rhai sy'n arbenigo mewn cynefinoedd coetir. Ymhlith y rhesymau posibl dros hyn mae'r defnydd isel o gaeau indrawn a choedwigoedd conwydd gan rywogaethau adar, o gymharu â'r cynefinoedd y rhagwelir y byddant yn cymryd lle'r coetiroedd conwydd.

**Bioamrywiaeth - Addasrwydd cynefinoedd i blanhigion**

7.312. Mae Tabl 29 yn dangos y newidiadau a ragwelir mewn addasrwydd cynefinoedd i rywogaethau planhigion dros gyfnod o 25 mlynedd ar gyfer y senario Cytundeb Masnach gyda'r UE.

7.313. Mae cyfran y ffermydd yr efelychwyd y byddent yn aros fel yr un math o fferm o dan y senario hon yn arwain at ychydig o newidiadau sylweddol o ran addasrwydd cynefinoedd i blanhigion yn y tri grŵp arbenigol.

7.314. Mae cynnydd mewn coetiroedd yn gysylltiedig â ffermydd yn gadael amaethyddiaeth llawn amser, sef symudiad sy'n arwain at gynnydd amcangyfrifedig mewn gofod arbenigol ffafriol i lawer o arbenigwyr coetir.

**Tabl 29. Newid a efelychwyd mewn addasrwydd cynefinoedd i rywogaethau planhigion dros 25 mlynedd (Senario Masnach yr UE)**

| | Pob rhywogaeth | Rhywogaethau âr | Rhywogaethau coetir | Rhywogaethau Monitro Safonau Cyffredin (CSM) (planhigion arbenigol cynefinoedd lled-naturiol eraill) |
|---|---|---|---|---|
| **Dim newid** | 182 | 11 | 50 | 127 |
| **Gostyngiad sylweddol** | 113 | 0 | 24 | 91 |
| **Cynnydd sylweddol** | 61 | 2 | 21 | 45 |
| **Cyfanswm** | **356** | **13** | **95** | **263** |

7.315. Canfu gwerthusiad GMEP newidiadau mewn addasrwydd cynefinoedd o ganlyniad i gymryd rhan mewn Glastir ar gyfer 75% o'r 21 o rywogaethau planhigion a fodelwyd, yn sgil rheoli llystyfiant yn llai dwys a newidiadau mewn nodweddion pridd. Gellid rhagdybio bod y manteision hyn yn cael eu cynnal yn yr opsiwn polisi hwn, yn dibynnu ar barhad rheolaethh briodol o gynefinoedd priodol.

7.316. Ar y cyfan, nid yw'r opsiwn polisi hwn yn awgrymu bod unrhyw gynnydd mewn tir amaethyddol sy'n cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae ymatebion ffermydd unigol i newidiadau yn amodau'r farchnad yn y dyfodol yn debygol o fod yn amrywiol ac yn cael eu sbarduno gan ystod o ffactorau.

**Rhestr Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth (LULUCF); a chategorïau nad ydynt yn LULUCF**

7.317. Mae'r adran hon yn amlinellu newidiadau a efelychwyd mewn stociau ac allyriadau o'r Senario Cytundeb Masnach gyda'r UE (T2).

**Tabl 30: Newidiadau a efelychwyd mewn stociau ac allyriadau o dan T2**

| **Newid mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol a gwlyptiroedd** | **LULUCF carbon, carbon gwrychoedd, carbon rheoli coetir** |
|---|---|
| Ar gyfer newid mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol a gwlyptiroedd, modelir y canlynol:<br>1. allyriadau blynyddol ar gyfer y llinell sylfaen;<br>2. allyriadau blynyddol ar gyfer y senario;<br>3. newid yn yr allyriadau blynyddol o'r llinell sylfaen i'r senario (gwahaniaeth rhwng gwerthoedd 1 a 2);<br>4. newid cronnus mewn allyriadau hyd at y flwyddyn 2025 a 2050 (gwerth 3 wedi'i luosi â 5 ar gyfer 2025 a 30 ar gyfer 2050). | Ar gyfer LULUCF carbon, carbon gwrychoedd, carbon rheoli coetir, modelir y canlynol:<br>1. cyfanswm stociau yn y gronfa pridd a biomas ar gyfer llinell sylfaen (lle bo hynny'n bosibl);<br>2. cyfanswm stociau yn y gronfa pridd a biomas a phren wedi'i gynaeafu ar gyfer y senario yn y flwyddyn 2025 a 2050, a gyfrifwyd gan gyfrif am gyfraddau anunionlin o newid o'r llinell sylfaen;<br>3. newid yng nghyfanswm y stociau yn y gronfa pridd a biomas a phren wedi'i gynaeafu o'r llinell sylfaen i senario erbyn 2025 a 2050 (gwahaniaeth rhwng gwerthoedd 1 a 2);<br>4. newid yng nghyfanswm y stociau fel cyfwerth â Charbon Deuocsid ($CO_2$), sy'n cynrychioli'r newid mewn nwyon tŷ gwydr atmosfferig oherwydd trosglwyddiad carbon net rhwng y pridd/biomas/pren a'r atmosffer (gwerth 3 wedi'i drosi i gyfwerth â $CO_2$). |
| Mae allyriadau blynyddol ar gyfer nwyon tŷ gwydr amaethyddol a nwyon tŷ gwydr | Ar gyfer stociau carbon (LULUCF carbon, carbon gwrychoedd a charbon |

| | |
|---|---|
| gwlyptiroedd wedi'u modelu, ac yna mae newid cronnus dros amser yn cael ei gyfrifo drwy luosi â nifer y blynyddoedd.<br><br>Mae hynny oherwydd bod y systemau hyn, yn fras, yn creu allyriadau nwyon tŷ gwydr bob blwyddyn ac mae ganddynt berthynas uniongyrchol rhwng rheoli ac allyriadau blynyddol cyfartalog. | rheoli coetir), mae newid yn anunionlin dros amser mewn ymateb i newid yn y system.<br><br>Mae newid yn digwydd mewn ymateb i newid mewn defnydd neu reolaeth tir, creu coetir neu wrych, ond rydym yn rhagdybio nad oes unrhyw allyriadau net os nad oes newid.<br><br>Mae'r newid yn cynrychioli trosglwyddiad carbon rhag cael ei storio yn y pridd a biomas i garbon atmosfferig neu i'r gwrthwyneb. Oherwydd hyn, adroddir cyfanswm y newid ar gyfer blwyddyn benodol, yn hytrach nag fel cyfartaledd blynyddol.<br><br>Mae LULUCF yn darparu llinell sylfaen stoc ar gyfer y gronfa pridd a biomas. Mae cyfrifo llinell sylfaen yn anoddach ar gyfer gwrychoedd a choetir presennol gan fod data ar rywogaethau, cyflwr a rheolaeth yn wael; ni cheisiwyd gwneud hyn. |

**Tabl 31. Allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol blynyddol (kt$CO_2$e/bl)**

| | **2020** | **2050** | **Newid** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y fflwcs mewn nwyon tŷ gwydr amaethyddol | 4,816 | 6,243 | 1,427 |
| O hwn: Fflwcs nwyon tŷ gwydr amaethyddol fel $N_2O$ | 1,464 | 1,809 | 345 |
| O hwn: Fflwcs nwyon tŷ gwydr amaethyddol fel methan | 3,352 | 4,435 | 1,083 |

**Tabl 32. Cyfanswm cronnus allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol blynyddol (kt$CO_2$e/bl)**

| **Gwerth llinell sylfaen** (ktCO2e/bl) | **Gwerth terfynol 2050** (ktCO2e/bl) | **Cyfanswm cronnus allyriadau ychwanegol erbyn 2050** (ktCO2e) |
|---|---|---|
| 4,816 | 6,243 | 42,823 Fflwcs nwyon tŷ gwydr amaethyddol ychwanegol |

7.318. Mae'r cynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol yn adlewyrchu'r cynnydd mawr a efelychwyd mewn godro a chylchdroadau âr/porfa, nad ydynt yn cael eu gwrthbwyso gan ostyngiadau llai o faint mewn gwartheg bîff a defaid. Mae hyn, ynghyd â chynnydd mewn arwynebedd o dan gylchdroadau âr/porfa, yn cynyddu allyriadau $N_2O$. Erbyn 2050, amcangyfrifir y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol, a briodolir i raddau helaeth i ehangiad ffermydd godro, yn dod i 42,823 kt$CO_2$e.

**Defnydd Tir – newid mewn stociau carbon**

**Tabl 33. Newid cronnus mewn stociau carbon**

| **Categori LULUCF** | **Newid hyd at 2050** |
|---|---|
| Tir Cnwd (4B) a Glaswelltir (4C) (kt$CO_2$e) | Tir cnwd, colled o: 2,797<br>Glaswelltir, cynnydd o: -15 |
| Tir Coedwig (4A) (ktCO2e) | Cynnydd o: -365 |
| Cynhyrchion Pren wedi'u cynaeafu (4G) (ktCO2e) | Cynnydd o: -162 |

7.319. Dengys yr efelychiad bod carbon mewn systemau tir cnwd a glaswelltir yn cael ei golli wrth i laswelltir parhaol a garw drawsnewid i gylchdro âr/porfa. Modelwyd cynnydd llai o faint yn adlewyrchu ardaloedd bychain o greu coetir a glaswelltir gwrych newydd. Roedd colled net o garbon dros gategorïau LULUCF 4 B, C, A a G o 2,255 kt $CO_2$e hyd at 2050.

**Tabl 34.**

| **Gwerth llinell sylfaen** | **Gwerth terfynol 2050** | **Newid ffisegol hyd at 2050** |
|---|---|---|
| Stociau o 173,399 kt C mewn Tir Cnwd (4B) a Glaswelltir (4C)<br>(llinell sylfaen coedwigaeth a chynhyrchion pren wedi'u cynaeafu heb ei amcangyfrif) | Stociau o 171,144 kt C Mewn Tir Cnwd a Glaswelltir a choedwigaeth newydd a chynnyrch pren wedi'i gynaeafu (4 A,B, C a G) | 8,269 kt$CO_2$e<br>Colledion o stociau carbon yn LULUCF (4 A,B,C a G) |

7.320. Mae cyfanswm y newid mewn stociau carbon ar gyfer pob categori LULUCF yn y tabl uchod (h.y. tir cnwd a glaswelltir, tir coedwig a chynhyrchion pren wedi'u cynaeafu) yn cyfateb i gynnydd amcangyfrifedig mewn nwyon tŷ gwydr atmosfferig o 8,269 kt$CO_2$e erbyn 2050.

**Gwlyptiroedd – newid mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr**

**Tabl 35.**

| **Gwerth linell sylfaen (**(ktCO2e/bl) | **Gwerth terfynol 2050** (ktCO2e/bl) | **Newid ffisegol hyd at 2050** ($ktCO_2e$) |
|---|---|---|
| 873 | 872 | -34<br>Allyriadau ychwanegol o wlyptiroedd (4D) |

7.321. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr o wlyptiroedd yn gostwng ychydig, gan adlewyrchu'r arwynebedd bach o fawndir a fydd yn dod allan o amaethyddiaeth yn ôl yr efelychiad. Erbyn 2050, amcangyfrifir bod y gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr gwlyptir yn cyfateb i 34 $ktCO_2e$.

*Fel y dangosir yn Nhabl 36, mae'r senario a fodelir yn dangos cynnydd net mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr hyd at 2050.*

**Tabl 36. Crynodeb o'r newid amcangyfrifedig mewn stociau carbon ac allyriadau nwyon tŷ gwydr.**

| **Categori** | **Categori stocrestr: (Noder: Mae rhifau negyddol yn dangos bod carbon yn cael ei ddal a'i storio neu allyriadau wedi'u hosgoi)** | **Cyfanswm y newid cronnus mewn nwyon tŷ gwydr atmosfferig 2020-2025 (ktCO2e)** | **Cyfanswm y newid cronnus mewn nwyon tŷ gwydr atmosfferig 2020-2050 (ktCO2e)** |
|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | Fflwcs nwyon tŷ gwydr amaethyddol ychwanegol (KtCO2eq) | 7,137 | 42,823 |
| Defnydd Tir | Colledion o stociau carbon mewn newid defnydd tir a | 2,960 | 8,269 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | choedwigaeth a chynhyrchion pren wedi'u cynaeafu (4A, 4B, 4C a 4G)[143] (KtCO2eq) | | |
| Gwlyptiroedd | Fflwcs allyriadau ychwanegol o wlyptiroedd (4D) (KtCO2eq) | -6 | -34 |
| Gwrychoedd | Heb ei amcangyfrif | | |
| Rheoli coetir | Heb ei amcangyfrif | | |
| | **CYFANSWM** | 10,091 | 51,058 |

**Tabl 37. Crynodeb o newidiadau a efelychwyd mewn gwasanaethau ecosystemau a bioamrywiaeth ar gyfer 2050**

| **Mater** | **Newid cronnus 2020- 2050** |
|---|---|
| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr a stoc carbon** | |
| **Fflwcs nwyon tŷ gwydr amaethyddol ychwanegol (cynnydd mewn allyriadau carbon) (1)** | +42,823 $ktCO_2e$ |
| **Colledion o stociau carbon mewn newid defnydd tir a choedwigaeth a chynhyrchion pren wedi'u cynaeafu (cynnydd mewn allyriadau carbon) (2)** | +8,269 $ktCO_2e$ |
| **Fflwcs nwyon tŷ gwydr gwlyptir ychwanegol (gostyngiad mewn allyriadau carbon o wlypdir) (3)** | -34 $ktCO_2e$ |
| **Gwrychoedd** | Heb ei amcangyfrif |
| **Coetiroedd** | Heb ei amcangyfrif |
| **Nwyon tŷ gwydr (cynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr net o amaethyddiaeth, newid defnydd tir a gwlyptiroedd) (4)** | **+51,058 ktCO2e** |
| **Ansawdd aer** | |

[143] Tir coedwig (4A), Tir cnwd (4B), Glaswelltir (4C), Gwlyptiroedd (4D), Aneddiadau (4E), Tir arall (4F), cynhyrchion pren wedi'u cynaeafu (4G)

| | |
|---|---|
| **Ansawdd aer - Newid ar gyfartaledd yn y crynodiad** $PM_{2.5}$ **wedi'i bwysoli yn ôl poblogaeth ar draws awdurdodau unedol** | + 0.04 µg/$m^3$ |
| **Iechyd cyhoeddus – effaith ar flynyddoedd o fywyd a gollir** | |
| **Ansawdd aer – Effeithiau iechyd (5)** | +60 o flynyddoedd o fywyd yn cael eu colli bob blwyddyn ar draws y boblogaeth |
| **Llygredd - cynnydd mewn llwyth llygredd amaethyddol** | |
| **Newid yn y llwyth amaethyddol blynyddol, nitrad (6)** | +7.89kt $NO_3N$ |
| **Newid yn y llwyth amaethyddol blynyddol, ffosfforws (6)** | +0.08kt P |
| **Newid yn y llwyth amaethyddol blynyddol, gwaddod (6)** | -0.37kt Z |
| **Newid mewn ansawdd dŵr** | |
| **Ansawdd dŵr – statws y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr oherwydd N a P (7)** | 65 o gyrff dŵr yn dirywio<br>3 chorff dŵr yn gwella |
| **Bioamrywiaeth** | |
| **Bioamrywiaeth – rhywogaethau adar (8)** | Rhagwelir y bydd 19% o rywogaethau yn dirywio<br>Rhagwelir y bydd 3% o rywogaethau yn cynyddu |
| **Bioamrywiaeth – rhywogaethau planhigion (8)** | Rhagwelir y bydd 32% o rywogaethau yn dirywio<br>***DS erbyn 2040**<br>Rhagwelir y bydd 17% o rywogaethau yn cynyddu ***DS erbyn 2040** |

a) ) Mae'r cynnydd mewn allyriadau yn adlewyrchu'r newidiadau amrywiol o ran defnydd tir a ragwelir a'r ardaloedd cymharol sy'n mynd drwy gyfnod o ddwysáu amaethyddol neu'n gadael defnydd amaethyddol. Mae'r cynnydd net mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr amaethyddol i'w briodoli i raddau helaeth i ehangiad ffermydd godro.

b) Mae newidiadau defnydd tir yn creu cynnydd a gostyngiadau mewn stociau carbon oherwydd trawsnewid rhwng mathau o ddefnydd tir amaethyddol (colled net) a chreu coetir newydd (nid yw enillion yn gwrthbwyso colled o drawsnewid rhwng

mathau o ddefnydd tir amaethyddol). Mae gostyngiad net mewn stociau C erbyn 2050.

c) Mae'r gostyngiad yn adlewyrchu gwlyptir yn gadael defnydd amaethyddol i naill ai adfer llystyfiant byr neu goetir naturiol.

d) Mae cynnydd a gostyngiadau mewn gwahanol leoliadau oherwydd effeithiau net newidiadau mewn nwyon tŷ gwydr o weithgarwch amaethyddol, newid defnydd tir ar bridd mawn a newid defnydd tir amaethyddol a gorchudd coetir newydd. Mae maint y gwerth negyddol yn dibynnu ar faint y dwysáu amaethyddol a maint y newid mewn defnydd tir amaethyddol, a faint mae hyn yn cael ei wrthbwyso gan ddal a storio mewn coetir newydd a llai o allyriadau o wlyptiroedd. Mae cynnydd net mewn nwyon tŷ gwydr atmosfferig erbyn 2050.

e) Mae effeithiau ar iechyd pobl yn dibynnu ar nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau llygredd is (neu uwch). Mae cynnydd a gostyngiadau mewn ansawdd aer mewn gwahanol leoliadau oherwydd newidiadau mewn allyriadau amaethyddol (+ a -) a lle mae coetir newydd yn tynnu llygryddion aer.

f) Mae'r newidiadau yn adlewyrchu cyfraniadau cymharol gwahanol ddefnyddiau tir amaethyddol at y gwahanol lygryddion hyn, a phatrwm o newid amaethyddol. Mae ffermio godro yn achosi mwy o lygredd N a P, o gymharu â defnyddiau tir eraill

g) Mae ansawdd dŵr yn cynyddu ac yn lleihau mewn gwahanol leoliadau oherwydd newidiadau mewn gweithgarwch amaethyddol. Felly, dangosir nifer net y cyrff dŵr sy'n dirywio a gwella. Mae dirywiad ansawdd dŵr yn cael ei sbarduno'n bennaf gan ddwysáu amaethyddol oherwydd ehangiad ffermio godro. Mae'r ffigyrau'n dangos y newidiadau disgwyliedig yn statws y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr oherwydd newidiadau mewn P a N.

h) Mae gwelliannau mewn bioamrywiaeth yn cael eu sbarduno'n sylweddol gan y rhagdybiaeth bod tir sy'n gadael amaethyddiaeth yn mynd drwy adfywiad naturiol. Mae cynnydd a lleihad mewn meintiau poblogaeth adar/planhigion yn ganlyniad anochel i newidiadau mewn defnydd tir. O dan senario cytundeb masnach gyda’r UE, efelychwyd cynnydd yng ngorchudd indrawn a glaswellt cylchdroadol. Yn ogystal, symudodd rhywfaint o dir ffermio allan o amaethyddiaeth a bu cynnydd yn arwynebedd coetir, yn enwedig coetir conwydd mewn systemau ucheldir. Rhagwelir y bydd mwy o rywogaethau'n dirywio na chynyddu o ran maint y boblogaeth yn gyffredinol. Roedd y rhan fwyaf o'r rhywogaethau y rhagwelwyd y byddant yn cynyddu'n sylweddol yn rhai sy'n arbenigo mewn cynefinoedd coetir.

## *Effeithiau eraill ar fanteision*

**Tabl 38. Canlyniadau Glastir (2012-2016)**

| **Mater** | **Effaith cymryd rhan yn Glastir** |
|---|---|
| Niferoedd da byw | • - 3.9% o ostyngiad mewn mamogiaid magu<br>• - 1.7% o ostyngiad mewn gwartheg sugno<br>• + 1.5% o gynnydd mewn gwartheg bîff tew<br>• + 0.8% o gynnydd mewn gwartheg godro |
| Gostyngiad mewn gwrtaith: Nitrogen wedi'i weithgynhyrchu ar laswelltir | • - 8.8% ffermydd godro<br>• - 12.2% gwartheg a defaid (DA ac iseldir)<br>• - 4.5% gwartheg a defaid (SDA) |
| Gostyngiad mewn gwrtaith: Ffosfforws wedi'i weithgynhyrchu ar laswelltir | • - 13.7% ffermydd godro<br>• - 9.4% gwartheg a defaid (DA ac iseldir)<br>• - 6.5% gwartheg a defaid (SDA) |
| Gostyngiad mewn llwythi llygryddion amaethyddol cenedlaethol | • - 1.0% Nitrogen<br>• - 0.94% Ffosfforws<br>• - 0.11% Gwaddodion<br>• - 0.64% Methan<br>• - 0.79% Ocsid Nitraidd |
| Ôl troed carbon | • Gostyngiad o 9.5% yn ôl troed carbon cyfartalog oen pwysau byw<br>• Gostyngiad o 18% yn ôl troed carbon cyfartalog llaeth |
| Bioamrywiaeth | • Newidiadau mewn addasrwydd cynefinoedd ar gyfer 75% o'r 21 o rywogaethau planhigion a fodelwyd, yn sgil dad-ddwysáu rheoli llystyfiant a newidiadau mewn nodweddion pridd |

7.322. Mae'n rhesymol rhagdybio, o dan yr opsiwn polisi hwn, y bydd y gwaith o gynnal, yn y man lleiaf, y canlyniadau amgylcheddol presennol sydd eisoes wedi'u cyflawni o dan Glastir yn parhau. Bydd hyn yn dibynnu ar os bydd yr ymyriadau rheoli o dan y cynllun yn parhau i gael eu cymhwyso. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, efallai na fydd y manteision hyn yn ddigon mawr i wrthbwyso'r defnydd ehangach o dir a newidiadau stocio a allai ddigwydd mewn ymateb i newid yn amodau'r farchnad.

**Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS)**

7.323. Mae’r SMS yn cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd i wella adnoddau naturiol mewn ffordd sy’n sicrhau manteision i fusnesau fferm a gwledig a chymunedau gwledig. Mae hefyd yn cefnogi ac yn hwyluso cydgysylltu â chynlluniau eraill er mwyn gwella gwydnwch i effeithiau newid hinsawdd.

7.324. Mae gwerthusiad 2021[144] o'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) yn cofnodi'r gweithgareddau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a wnaed gan brosiectau sy'n cymryd rhan.

7.325. Nododd y gwerthusiad y canlynol, ‘Roedd bron pob un o'r prosiectau a gyfwelwyd yn teimlo y byddai eu gweithgareddau wedi bod yn annhebygol o ddigwydd heb gyllid SMS. Ni fyddai eu canlyniadau wedi cael eu cyflawni heb y cyllid oni bai eu bod wedi sicrhau ffynhonnell gyllido arall*.’* Mae hyn yn awgrymu lefel uchel o ychwanegolrwydd.

7.326. Felly, mae'n rhesymol rhagdybio y byddai'r cydweithio hwn yn parhau, er ei bod yn rhy gynnar i gael gwerthusiad terfynol o'r rhaglen. Felly, ni allwn amcangyfrif effaith hirdymor SMS ar gyflawni canlyniadau.

**<u>Trawsgydymffurfio</u>**

7.327. Nid yw effeithiau Trawsgydymffurfio wedi cael eu modelu na'u meintioli'n benodol.

7.328. Fodd bynnag, mae GMEP[145] yn nodi: ‘Cross Compliance has generally raised awareness of diffuse pollution issues.’ Fodd bynnag, daeth Asiantaeth yr Amgylchedd

[144] Bebb a Bryer, Ymchwil OB3 gyda chyfraniadau gan Rob Owen a Sue Rice, Partneriaeth BRO (2021) Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy: Adroddiad Gwerthusiad Proses a Damcaniaeth Newid, ar gyfer Llywodraeth Cymru.

[145] Anthony, S; Stopps, J a Whitworth, E (2017) Wales Farm Practices Survey. Legacy and Synthesis. Annex 4. Yn: Emmett, B.E a'r tîm GMEP (2017) Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir. Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cymru (Cyfeirnod y contract: C147/2010/11). NERC/Centre for Ecology & Hydrology (Prosiectau CEH: NEC04780/NEC05371/NEC05782)

Ewrop[146] i'r casgliad (o lefel yr UE) bod, 'cross-compliance has led to some reduction in pressures on the environment, for example nutrient emissions. Yet, there is still non-compliance by farmers, cases of infringement and potential for improving implementation at all levels.'

7.329. Felly, mae'n rhesymol rhagdybio y byddai'r ymwybyddiaeth hon, ac unrhyw newidiadau cysylltiedig yn ymarferol, yn parhau o dan yr opsiwn hwn.

## *Crynodeb o fanteision wedi'u meintoli*

**Tabl 39. Tabl cryno o'r prif fanteision wedi'u meintioli sy'n cael eu prisio yn opsiwn polisi y Sefyllfa Bresennol**

| **Manteision** | **Gwerth presennol hyd at 2025** | **Gwerth presennol hyd at 2050** | **Math o werth** |
|---|---|---|---|
| Ansawdd Aer | -£4 miliwn | -£33 miliwn | Gostyngiad yng nghostau effeithiau iechyd o lygredd aer |
| Ansawdd Dŵr | -£5 miliwn | -£22 miliwn | Budd i bobl o wybod am/mwynhau amgylcheddau dŵr croyw o ansawdd uwch |
| Nwyon tŷ gwydr | | | Budd o leihau ffynonellau nwyon tŷ gwydr: |

[146] Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop (2019) The European environment — state and outlook 2020. Knowledge for transition to a sustainable Europe

| | | | |
|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth | -£1,681 miliwn | -£8,028 miliwn | Ffynonellau amaethyddol (da byw a mewnbynnau) |
| Defnydd tir | -£698 miliwn | -£1,707 miliwn | Newidiadau i ddefnydd tir |
| Gwlyptiroedd | £1.34 miliwn | £6.41 miliwn | Ffynonellau gwlyptir (mawndiroedd) |
| **Cyfanswm nwyon tŷ gwydr** | -£2,377 miliwn | -£9,728 miliwn | Budd o leihau crynodiadau nwyon tŷ gwydr atmosfferig o ffynonellau nad ydynt yn cael eu masnachu |

7.330. Mae dulliau a rhagdybiaethau ar gyfer y gwerthoedd hyn yn y ffynonellau a restrir isod[147,148].

**Newidiadau i economi ffermydd**

**Tabl 40. Effeithiau a efelychwyd ar economi'r fferm, a amcangyfrifir o'r Senario Cytundeb Masnach gyda'r UE, (T2)**

| | **2050** |
|---|---|
| **Newid yn incwm busnes fferm blynyddol (Gyda thrawsnewid ffermydd)** | +17% |
| **Ffermydd sy'n wynebu risg o adael amaethyddiaeth llawn amser** | +7% |

[147] Ceir manylion llawn yn Dickie, I., Tinch, R., Dutton, A. a Jassi, J. (2020). Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP). ERAMMP Adroddiad-27: Methodolegau Prisio. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (Prosiect Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU 06297) Ar gael ar wefan ERAMMP ERAMMP Adroddiadau Blwyddyn-2 (2020) | ERAMMP

[148] ERAMMP Adroddiad-60 IMP Senarios Defnydd Tir Adroddiad Terfynol.pdf

**Canlyniadau prisio: Gwybodaeth gefndir.**

a) Blwyddyn pris: 2020
b) Gwerthoedd presennol: Cyfnod amser 25 a 50 mlynedd
c) Mae dulliau arfarnu a rhagdybiaethau yn cydymffurfio â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM (e.e. gostyngiad o 3.5% yn y gyfradd ddisgownt / cyfradd disgownt iechyd ar gyfer ansawdd aer)
d) Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn seiliedig ar ddull LULUCF[149] nad yw'n cynnwys allyriadau annatod (gallai'r rhain fod yn 20-30% ychwanegol).
e) Gwerthoedd carbon wedi'u diweddaru:
f) Cynhaliodd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) adolygiad a diweddariad o'r gwerthoedd carbon ar gyfer arfarnu ym mis Medi 2021.
g) Mae'r gwerthoedd wedi cynyddu oherwydd: targedau rhyngwladol newydd (Cytundeb Paris 2016); targedau domestig newydd (nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050); Brexit (mae'r DU wedi ymadael â *System Masnachu Allyriadau* (ETS) yr EU ac wedi cyflwyno ETS y DU); a thechnoleg (costau ynni adnewyddadwy/ batris yn gostwng yn gyflymach na'r disgwyl). Noder fod manteision y gostyngiad yng nghostau technoleg yn cael eu gorbwyso gan y tri ffactor blaenorol.
h) Mae'r gwerthoedd carbon wedi'u diweddaru ar gyfer 2021 dros dair gwaith yn uwch na'r hen werthoedd.

## *Opsiwn 3: Deddfu i gyflwyno cymorth sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy (yr Opsiwn a Ffefrir)*

### *Cyflwyniad*

7.331. Mae'r Bil Amaethyddiaeth yn cyflwyno amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) ac yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer swyddogaethau, gan gynnwys darparu cymorth amaethyddol, yn y ffordd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion hyn.

7.332. Mae amcanion SLM yn gysylltiedig ag 14 diben cymorth:

(a) hyrwyddo’r broses o gynhyrchu bwyd mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy;

[149] Stocrestr Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir ac Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Coedwigaeth

(b) helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a’u cymunedau;

(c) gwella gwytnwch busnesau amaethyddol;

(d) cynnal yr iaith Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd;

(e) lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;

(f) dal a storio mwy o garbon;

(g) cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau;

(h) gwarchod a gwella tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol;

(i) gwella ansawdd aer;

(j) gwella ansawdd dŵr;

(k) cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol, a’u hymgysylltiad â nhw;

(l) lliniaru risgiau llifogydd a sychder;

(m) cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid;

(n) cynyddu effeithlonrwydd adnoddau.

7.333. Nid yw'r Bil Amaethyddiaeth yn gosod paramedrau ar sut y dylai cynlluniau SLM gael eu dylunio a'u darparu yn y dyfodol, neu lefel y cyllid a ddarperir.

7.334. Mae'r opsiwn hwn yn nodi costau dangosol cynllun yn y dyfodol sy'n bodloni gofynion SLM a thargedau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt. Mae hefyd yn cynnwys tystiolaeth sy'n asesu budd cymryd camau mewn perthynas â phob un o'r dibenion cymorth. Nid oes unrhyw fesur o ganlyniadau amgylcheddol na chost i ffermwyr wrth gymryd y camau.

7.335. Gwnaeth y pecyn Tystiolaeth SFS a gynhyrchwyd gan ERAMMP osod sylfaen o dystiolaeth a oedd yn asesu camau yn erbyn y canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cyflawni. Tynnodd y dadansoddiad hwn ar ganfyddiadau dros 800 o bapurau tystiolaeth a adolygwyd gan gymheiriaid.

7.336. Mae'r adroddiadau ar y gwaith hwn i'w gweld yma: [Adnoddau | ERAMMP]

7.337. Helpodd y gwaith hwn i nodi rhesymeg gadarn wedi'i seilio ar dystiolaeth ar gyfer unrhyw gynllun yn y dyfodol, gan nodi camau a fydd yn sicrhau'r canlyniadau mae Llywodraeth Cymru yn ceisio eu cyflawni.

**Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru (RhDG) 2014-20.**

7.338. Bydd cymorth yn y dyfodol oddi mewn i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn canolbwyntio ar gostau a buddion darparu cymorth refeniw yn uniongyrchol i ffermwyr. O dan y system bresennol, y ddau gyfrannydd mwyaf at hyn yw Cynllun y Taliad Sylfaenol a Glastir, sy'n cyfrannu tua £278m y flwyddyn. Mae costau a buddion elfennau cymorth eraill (fel Cyswllt Ffermio a'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm) wedi'u cynnwys hefyd.

7.339. Fodd bynnag, mae'r cymorth refeniw yn cael ei ddarparu fel rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-20 yn ehangach. Roedd adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion y costau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Gwledig, ac y dylai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru (argymhelliad 2). Felly, isod rydym yn cyflwyno gwybodaeth am gwmpas a chymorth ariannol Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 er mwyn darparu'r cyd-destun ehangach hwn.

7.340. Cynlluniwyd Cynllun Datblygu Gwledig Cymru[150] i hyrwyddo cystadleurwydd a chreu twf a swyddi cynaliadwy i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad Cymru. Roedd ymyriadau yn canolbwyntio ar weithgareddau sy'n sbarduno twf economaidd, yn cefnogi cynaliadwyedd cymunedau gwledig ac yn helpu i drechu tlodi.

7.341. Egwyddor gyffredinol y Cynllun Datblygu Gwledig oedd sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ganolog i'r buddsoddiad. Defnyddiwyd y cyllid ar gyfer gweithgareddau sy'n arwain at fudd hirdymor, gan gefnogi amrywiaeth a gwytnwch yn y diwydiannau ffermio, coedwigaeth a bwyd a buddsoddi mewn twf gwyrdd. Mae hyn yn helpu i gefnogi busnesau fferm, yn rhoi llai o bwyslais ar gymorthdaliadau ac yn canolbwyntio mwy ar gyfleoedd masnachol. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn gweithio ochr yn ochr â Cholofn 1 i helpu i gyflwyno'r newid sydd ei angen ar y diwydiant er mwyn ymateb i'r heriau anodd sydd ar y gweill. Mae yna gysylltiadau amlwg rhwng Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGF).

[150] United Kingdom - Rural Development Programme (Regional) - Wales (gov.wales)

Roedd y Cynllun Datblygu Gwledig yn cynnwys chwe blaenoriaeth (a mesur cymorth technegol):

- Blaenoriaeth 1: Meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig
- Blaenoriaeth 2: gwella hyfywedd a chystadleurwydd ffermydd ym mhob maes amaethyddol
- Blaenoriaeth 3: hybu trefniadaeth y gadwyn fwyd, lles anifeiliaid a rheoli risg mewn amaethyddiaeth gan hyrwyddo technolegau fferm arloesol a rheolaeth gynaliadwy ar goedwigoedd
- Blaenoriaeth 4: adfer, cadw a gwella ecosystemau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a choedwigaeth
- Blaenoriaeth 5: hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r newid tuag at economi carbon isel ac economi sy'n gallu gwrthsefyll hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth
- Blaenoriaeth 6: Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig

7.342. Mae Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 wedi ymrwymo'n llawn, fel rhan o'r cynllunio wrth gefn. Mae elfen o orwario wedi'i chynnwys yn y gyllideb ariannol gyffredinol er mwyn cyflwyno'r rhaglen yn llwyddiannus.

Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2022[151], dyma'r ffigurau ar gyfer dyraniad, ymrwymiad a gwariant gronnol dros y cyfnod cyfan y rhaglen:

| **Dyraniad (£m)** | | **Ymrwymiad (£m)** | | **Gwariant (£m)** | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | EAFRD | Cyfanswm | EAFRD | Cyfanswm | EAFRD |
| 842 | 562 | 847 | 567 | 680 | 470 |

**Tabl 1**

Mae'r tabl isod yn dangos ffigurau gwariant blynyddol ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer y blynyddoedd 2019-22

| | **2020** | | **2021** | | **2022** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **EAFRD (£m)** | **Cyfanswm Cyhoeddus (£m)** | **EAFRD (£m)** | **Cyfanswm Cyhoeddus (£m)** | **EAFRD (£m)** | **Cyfanswm Cyhoeddus (£m)** |
| Blaenoriaeth 1[152] | | | | | | |

[151] [Cynllun Datblygu Gwledig: yr arian a ddyrannwyd, a ymrwymwyd ac a wariwyd | LLYW.CYMRU]
[152] Nid oes ffigurau ar gyfer Blaenoriaeth 1 gan ei bod yn crynhoi blaenoriaethau 2-6

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 2 | 4.299 | 7.427 | 4.231 | 7.279 | 4.824 | 8.531 |
| Blaenoriaeth 3 | 6.287 | 10.188 | 8.187 | 15.432 | 8.905 | 16.802 |
| Blaenoriaeth 4 | 37.462 | 46.795 | 34.687 | 43.940 | 32.905 | 42.358 |
| Blaenoriaeth 5 | 2.991 | 4.841 | 4.324 | 6.569 | 6.036 | 9.890 |
| Blaenoriaeth 6 | 16.259 | 26.961 | 13.411 | 21.779 | 17.147 | 29.446 |
| **Cyfanswm** | **67.297** | **96.211** | **64.840** | **95.000** | **69.818** | **107.026** |
| Cymorth Technegol | 2.314 | 4.366 | 1.428 | 2.694 | 4.261 | 8.039 |
| **Cyfanswm gwariant y Rhaglen** | **69.612** | **100,578** | **66.268** | **97.694** | **74.079** | **115.066** |

Tabl 2

O safbwynt y cynlluniau economaidd-gymdeithasol a ariennir o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig, mae ffigurau hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2022 yn cael eu dangos isod

| **Cynllun** | **Nifer o Gylchoedd y Cynllun** | **Dyraniad i'r Cynllun (£m)** | **Ceisiadau a dderbyniwyd** | **Nifer yr Arfarniadau a Gwblhawyd** | **Nifer y Ceisiadau sydd wedi'u Cymeradwyo** | **Cyfanswm wedi'i ymrwymo i brosiectau (£m)** | **Cyfanswm Gwariant (£m)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Datblygu Cydweithredu a'r Gadwyn Gyflenwi* | 15 | 54.712 | 120 | 120 | 101 | 75.131 | 51.399 |
| Cynllun Cynllunio Coedwigoedd Cydweithredol | 2 | 0.109 | 0 | 0 | 0 | 0.064 | 63.932 |
| Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol Cymru | 2 | 31.000 | 0 | 0 | 0 | 29.573 | 7.890 |
| Partneriaeth Arloesi Ewrop | Ddim yn berthnasol | 2.475 | 7 | 7 | 1 | 2.475 | 1.884 |
| Seilwaith Ffermydd a Choedwigaeth | Ddim yn berthnasol | 0.050 | 0 | 0 | 0 | - | - |
| Cynllun Grant Busnes Fferm | 9 | 23.608 | 2,919 | 2,919 | 2,359 | 21.184 | 20.376 |
| Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd* | 9 | 50.062 | 152 | 151 | 136 | 58.361 | 40.091 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi* | Ddim yn berthnasol | 91.290 | 15 | 15 | 15 | 94.373 | 78.476 |
| LEADER | Ddim yn berthnasol | 46.481 | 75 | 75 | 75 | 47.424 | 38.043 |
| Y Cynllun Cynghori Busnesau Gwledig* | Ddim yn berthnasol | 14.322 | 5 | 5 | 5 | 14.211 | 12.654 |
| Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig* | Ddim yn berthnasol | 7.742 | 2 | 2 | 2 | 6.288 | 5,062 |
| Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig* | 7 | 18.331 | 225 | 225 | 188 | 20.479 | 18.729 |
| Cynllun Rheoli Cynaliadwy | 5 | 20.162 | 52 | 52 | 50 | 23.657 | 13.485 |
| Grant Cynhyrchu Cynaliadwy | 7 | 27.710 | 73 | 73 | 72 | 27.743 | 20.084 |
| Cymorth Technegol | Ddim yn berthnasol | 37.000 | 8 | 8 | 8 | 37.258 | 29.897 |
| Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren | 5 | 7.015 | 90 | 90 | 80 | 6.893 | 6.393 |
| **Cyfanswm Economaidd-gymdeithasol** | **61** | **432.071** | **3,743** | **3,742** | **3,092** | **465.117** | **344.540** |

Tabl 3

O safbwynt cynlluniau amaeth-amgylchedd a ariennir o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig, mae ffigurau hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2022 yn cael eu dangos isod

| Cynllun | Nifer o Gylchoedd y Cynllun | Dyraniad i'r Cynllun (£m) | Cyfanswm wedi'i ymrwymo i brosiectau (£m) | Cyfanswm Gwariant (£m) |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Monitro a Rheoli Risg Coedwigoedd | Amh | 0.164 | 0.299 | 0.164 |
| Glastir Uwch | 4 | 192.133 | 178.166 | 147.392 |
| Glastir – Tir Comin | Amh | 37.490 | 33.724 | 28.592 |
| Glastir Sylfaenol | Amh | 99.823 | 100.148 | 100.148 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Glastir – Organig | 3 | 33.192 | 29.260 | 25.995 |
| Glastir – Grantiau Bach | 9 | 10.608 | 10.339 | 10.327 |
| Glastir – Creu Coetir | 11 | 22.481 | 15.924 | 11,804 |
| Glastir – Rheoli Coetir | Amh | 0.960 | 0.620 | 0.621 |
| Glastir – Adfer Coetir | 9 | 5.004 | 5.013 | 3.730 |
| Cynlluniau Gwaddol | Amh | 8.102 | 8.217 | 6.992 |
| **Cyfanswm Amaeth-amgylchedd** | **36** | **409.956** | **381.711** | **335.76** |

**Tabl 4**

### *Effaith ar Gostau*

7.342 Mae'r holl gostau a gyflwynir isod yn ffigurau blynyddol, a rhagdybir y byddant yn cael eu cynnal mewn termau real drwy gydol y cyfnod arfarnu, oni nodir yn wahanol.

## Llywodraeth Cymru - Cyfanswm Cost £321,081,643 + chost untro o £35,500,000

---

**Costau gweinyddol** - *£ 27,700,000 + chost untro o £35,500,000*

7.343 Costau dangosol amcangyfrifedig yw'r costau a ddarperir. Y sail ar gyfer amcangyfrif costau gweinyddol cynllun SLM yn y dyfodol (gan gynnwys y costau pontio) yw'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r PAC h.y. BPS a'r RhDG 2014 – 2020.

7.344 Mae model cyflenwi gweithredol presennol RPW yn ei gwneud yn ofynnol i dimau fod yn aml-weithredol, gan weithio ar draws gwahanol gynlluniau ar draws Colofnau 1 a 2 y PAC. Mae hyn yn golygu nad oes modd datgysylltu'n llawn gostau gweinyddol pob gweithgarwch, cynllun unigol neu Golofnau unigol y PAC.

7.345 Yn ogystal, mae cynllun(iau) SLM y dyfodol yn dal i gael eu datblygu, felly nid yw gofynion / prosesau penodol yn gwbl hysbys.

7.346 Dim ond ar ôl i Fodel Gweithredu Targed y dyfodol, yn cynnwys Dyluniad a Strwythurau Sefydliadol, gael ei gytuno y gellir pennu'r costau terfynol ar gyfer darparu cynllun SLM yn y dyfodol.

7.347 Mae'r costau gweinyddol ar gyfer cynllun SLM yn y dyfodol yn bennaf seiliedig ar gostau amcangyfrifedig rhedeg cynlluniau Datblygu Gwledig presennol, yn ogystal â rhywfaint o waith mapio ychwanegol rhagarweiniol a fydd ei angen ar gyfer pennu llinell sylfaen.

7.348 Amcangyfrifir mai'r gost weinyddol flynyddol ar gyfer cynllun SLM yn y dyfodol, heb gynnwys archwiliadau ac ymweliadau safle, yw £24.59 miliwn

7.349 Amcangyfrifwyd costau archwilio cynllun SLM yn y dyfodol gan ddefnyddio costau a data archwiliadau tir Datblygu Gwledig presennol. Mae archwiliadau wedi'u rhannu'n ddau gategori:

**Tabl 41. Amcangyfrif o gostau archwilio cynllun**

| Archwiliadau ar y Tir | Archwiliadau Gwaith Cyfalaf | Cyfanswm Cost Archwilio Blynyddol |
|---|---|---|
| Yn seiliedig ar gyfradd archwilio o 5% o ffermydd, amcangyfrifir mai'r gost gyfartalog flynyddol yw **£1.3 miliwn**. | Nid oes digon o wybodaeth i ddarparu costau ar gyfer archwiliadau gwaith cyfalaf. Ar gyfer yr ymarfer hwn, defnyddir costau presennol. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir mai costau cyfartalog blynyddol archwilio gwaith cyfalaf yw **£134,000**. | Felly, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost archwilio gyfartalog flynyddol ar gyfer cynllun yw **£1.43 miliwn**. |

**<u>Ymweliadau safle</u>**

7.350 Ni wyddys ar hyn o bryd a fydd angen ymweliadau safle ac, os bydd eu hangen, ar ba lefel y bydd angen eu cynnal (h.y. nifer yr ymweliadau).

7.351 Rhagwelir y bydd angen rhyw fath o ymweliadau monitro / rheoli, ac y bydd modd cyflawni rhai ohonynt drwy Arsylwi'r Ddaear; fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddeall yn well yr hyn y gellir ei gyflawni.

7.352 Gall rôl ymweliad safle fod yn ehangach na chwmpas presennol ymweliad safle Glastir e.e. gallai fod yn asesu llwyddiant ehangach a darpariaeth y contract wrth gyflawni ei amcanion.

7.353 Rhagdybir y byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan weithiwr proffesiynol ac y byddai 4,000 o ffermydd y flwyddyn yn derbyn ymweliad; amcangyfrifir mai'r gost ychwanegol yw £1.68 miliwn y flwyddyn.

**Tabl 42. Amcangyfrif o gostau gweinyddol Cynllun SLM y dyfodol**

| | **Cost (£ miliwn)** |
|---|---:|
| Cost weinyddol flynyddol | 24.59 |
| Archwiliadau cynllun | 1.43 |
| Ymweliadau safle | 1.68 |
| **CYFANSWM** | **27.7** |

7.354 O dan yr opsiwn hwn, mae'n rhesymol rhagdybio y byddai angen datblygu system newydd ar gyfer ymgeisio ar-lein a rheoli contractau, yn unol â gweithrediadau RPW presennol a disgwyliadau'r diwydiant.

7.355 Rhagwelir y byddai angen pecyn datblygu system TGCh RPW gwerth £19.3 miliwn i gyflwyno'r swyddogaeth ymgeisio ar-lein, a gallu all-lein, fel bod modd cynhyrchu contractau'n awtomatig er mwyn lleihau'r baich gweinyddol.

7.356 Yn ogystal â hyn, amcangyfrifwyd mai costau galluogi TGCh RPW untro sy'n gysylltiedig â'r pecyn datblygu TGCh yw £16.2 miliwn.

7.357 Dylai cost datblygu TGCh ddarparu arbedion effeithlonrwydd wrth gyflwyno unrhyw gynllun yn y dyfodol o 2025 ymlaen. Heb wneud dadansoddiad manwl, amcangyfrifir y gallai hyn arbed tua 20% o gostau cyfartalog blynyddol parhaus o gychwyn cynllun y dyfodol.

7.358 O dan y senario hon, amcangyfrifir mai'r costau gweinyddol blynyddol (gan gynnwys costau TG blynyddol) fydd £27.7 miliwn erbyn 2029. Pe na bai gwelliannau TGCh yn digwydd, amcangyfrifir y byddai costau parhaus yn uwch yn y dyfodol.

7.359 Argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylai'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ddarparu rhagor o wybodaeth am gostau'r system, ac y dylid

cynnwys yr wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru (argymhelliad 8).

Mae'r wybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys yn Nhabl 44 isod.

**Tabl 43. Costau gweinyddol blynyddol gyda gwelliannau TG**

| | **Heb unrhyw welliannau TG** | **Gyda gwelliannau TG** |
|---|---|---|
| Cost gyfalaf untro - TG | | £19.3 miliwn |
| Cost alluogi untro - TG | | £16.2 miliwn |
| Cost weinyddol flynyddol | £35.2 miliwn | £27.7 miliwn |

**Tabl 44. Dadansoddiad blynyddol o welliannau TG**

| | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|
| **Datblygu System TGCh** | **£2.5m** | **£6.4m** | **£8.1m** | **£2.3m** |
| *Swyddogaeth Geo-ofodol* | £0.25m | £1.15m | £1.0m | £0.3m |
| *Systemau Grant* | £1.75m | £3.0m | £1.0m | £0m |
| *Adolygiad Cynaliadwyedd Fferm* | £0m | £1.5m | £1.0m | £0m |
| *Prosesau a Chontract SFS* | £0.5m | £0.5m | £2.6m | £1.4m |
| *Archwiliadau SFS* | £0m | £0m | £1.0m | £0.4m |
| *Safonau Gofynnol Cenedlaethol* | £0m | £0.25m | £1.5m | £0.2m |
| **Cost Galluogi TGCh** | **£4.4m** | **£4.4m** | **£4m** | **£3.4m** |
| *Darpariaeth Dechnegol – Safonau Cymorth, Rheoli, Cydymffurfiaeth a Diogelwch ar gyfer seilwaith y wladwriaeth yn y dyfodol* | £2.9m | £2.9m | £2.5m | £2.0m |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Darparu a chynnal amgylcheddau datblygu a phrofi* | £0.75m | £0.75m | £0.75m | £0.65m |
| *Gofynion Ategol* | £0.25m | £0.25m | £0.25m | £0.25m |
| *Argyfyngau* | £0.5m | £0.5m | £0.5m | £0.5m |

***Costau cydymffurfio*** *- £ 1,381,643*

7.360 System sy'n annog ffermwyr i gydymffurfio â safonau ar gyfer iechyd a lles y cyhoedd, planhigion ac anifeiliaid yw Trawsgydymffurfio. Er mwyn derbyn cymorth, rhaid i ffermwyr gadw at set o reolau sylfaenol. Mae manylion Trawsgydymffurfio wedi'u nodi yn Opsiwn 2 (cadw'r sefyllfa bresennol).

7.361 O dan yr opsiwn polisi hwn, rydym yn rhagdybio y bydd y drefn reoleiddio yn cael ei chynnal, a bod y costau fel y nodir yn Opsiwn 2 yn berthnasol.

**Tabl 45: Costau rheoleiddio**

| **Rheoleiddio** | **Cost Flynyddol** | **Nodiadau** |
|---|---|---|
| Trawsgydymffurfio ar y Tir | £192,761 | Yn seiliedig ar gyfradd reoli o 1% o hawlwyr y cynllun |
| Trawsgydymffurfio Adnabod Da Byw | £962,882 | Yn seiliedig ar ofyniad i 3% o geidwaid defaid a gwartheg gael eu harchwilio. |

7.362 Fodd bynnag, mae costau'n wahanol i gostau Opsiwn 2 ar gyfer rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA). Rydym yn rhagweld y bydd cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd/rhanddeiliaid o'r cynllun a'i ofynion cysylltiedig yn gyffredinol o ran rheoli bioamrywiaeth/cynefinoedd a'r amgylchedd hanesyddol. Mae gan hyn y potensial i gynyddu nifer yr atgyfeiriadau Rheoliadau EIA (Amaethyddiaeth) sy'n dod i law Llywodraeth Cymru a chynyddu'r llwyth gwaith gorfodi. O dan yr opsiwn hwn, rydym yn rhagdybio bod costau'r llwyth gwaith cynyddol hwn yn ychwanegu 20% ychwanegol at gostau BAU ar gyfer gwaith

Gorfodi Rheoliadau EIA (Amaethyddiaeth). Felly, mae'r costau blynyddol yn cynyddu o £188,000 i £226,000.

7.363 ***Taliadau i Ffermwyr*** *- £278,000,000*

Nid ydym eto mewn sefyllfa i nodi'r gwariant blynyddol disgwyliedig ar daliadau i ffermwyr o dan gynllun SLM yn y dyfodol. At ddibenion y dadansoddiad hwn, rydym wedi rhagdybio y bydd cyllideb flynyddol o £278 miliwn yn cael ei chynnal mewn termau real dros y cyfnod arfarnu. Nid proffwydoliaeth na gwarant o lefelau ariannu'r dyfodol yw hyn; bydd yn dibynnu ar setliadau cyllido gan Drysorlys EM yn y dyfodol a phroses gyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'r gost yn amcangyfrif dangosol at ddiben ymgymryd â'r dadansoddiad hwn.

**Costau eraill -** £14,000,000

7.364 Mae ERAMMP[153] yn cyflwyno rhaglen monitro a modelu sy'n casglu data ar draws tirwedd Cymru, gan gysylltu unrhyw newid ag effeithiau economaidd ac amgylcheddol. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r rhaglen hon yn parhau a chost flynyddol ERAMMP i Lywodraeth Cymru fyddai £1.5 miliwn (yr un fath ag Opsiynau 1 a 2).

7.365 Rydym yn rhagdybio y bydd Cyswllt Ffermio yn parhau i gefnogi datblygiad sector tir mwy proffesiynol, proffidiol a gwydn i gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae'r rhaglen yn cynnwys rhaglen integredig o drosglwyddo gwybodaeth, arloesedd a gwasanaethau cynghori sydd â’r nod o sicrhau mwy o gynaliadwyedd, gwell cystadleurwydd a gwell perfformiad amgylcheddol. Rydym yn rhagdybio lefel uwch o ddarpariaeth, ac amcangyfrifir bod costau Cyswllt Ffermio 50% yn uwch nag yn Opsiwn 1 a 2. Mae hyn yn gyfystyr â chost flynyddol o £12 miliwn.

7.366 Bydd y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm (FLS) yn parhau i gyflawni rôl bwysig yn ymgyrch Llywodraeth Cymru i gynhyrchu diwydiant cynaliadwy a reolir yn broffesiynol ledled Cymru. O dan y senario polisi hwn, mae'r FLS yn rhoi arweiniad cyson, cywir a phroffesiynol i gwsmeriaid o ran galluogi ffermwyr i ffermio mewn ffordd sy'n bodloni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

[153] https://erammp.wales/cy/adnoddau

7.367 Rydym yn rhagdybio y bydd cynnydd yn lefel y staffio, ac amcangyfrifir bod costau blynyddol yr FLS 30% yn uwch nag yn Opsiynau 1 a 2. Mae hyn yn gyfystyr â chost flynyddol o £500,000.

7.368 Darperir costau amcangyfrifedig y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm a Cyswllt Ffermio fel amcangyfrifon dangosol lefel uchel o gostau'r dyfodol at ddiben y Dadansoddiad Cost a Budd hwn. Nid yw'r amcangyfrifon isod yn cynrychioli ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid yn y dyfodol.

## Cyfoeth Naturiol Cymru - Cyfanswm Cost £2,775,453

***Costau Gweinyddol a Chyngor*** - £2,627,263[154]

7.369 Mae'n rhy gynnar i amcangyfrif costau CNC ar gyfer darparu cyngor, cydsyniad (pan fo angen) a thrwyddedau (pan fo angen) sy'n gysylltiedig â swyddogaethau statudol CNC ar gyfer cynllun SLM yn y dyfodol. Yn yr un modd, mae'n rhy gynnar i allu amcangyfrif yr effaith ar nifer y Trwyddedau Gweithredoedd Risg Llifogydd (FRAPs) y gall ffermwyr ofyn amdanynt. Nid ydym yn gwybod beth fydd cost cyhoeddi FRAPs i CNC o dan yr opsiwn hwn, felly nid yw wedi'i chynnwys.

7.370 Mae'r amcangyfrifon cost isod yn ymwneud â chostau staff CNC sy'n gysylltiedig â darparu cyngor, cydsyniad (pan fo angen) a thrwyddedau (pan fo angen) ynghylch mewn perthynas â thair ymyrraeth SLM:

a) **Creu Coetir i fodloni <u>gofyniad y cynllun</u> - gwasanaeth dilysu CNC.** Mae'r costau'n ymwneud ag amser staff CNC mewn perthynas â'r cyngor technegol, darparu cyngor Asesu Rheoliadau Cynefin (HRA); cynnal asesiadau Cynefin Blaenoriaeth; cynnal asesiadau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop; goruchwylio asesiadau safle dynodedig ac asesiadau tirwedd, Asesu Effeithiau Amgylcheddol (os oes angen) a dyluniad cynllun creu coetir.

b) **Rheoli Coetiroedd - Trwyddedau Cwympo Coed**. Mae'r costau'n ymwneud ag amser staff CNC yn asesu a chyhoeddi trwyddedau cwympo coed a theneuo coed, yn cynnwys monitro a gorfodi, ac, os oes angen, HRA.

[154] Cost gyfartalog yw hon sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2025 a 2050. Mewn gwirionedd, mae disgwyl y bydd costau yn £9 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod 5 mlynedd gyntaf y cynllun (tabl X) cyn gostwng i oddeutu £1.1 miliwn wedi hynny (tabl Y)

c) **Rheoli Cynefinoedd - Cydsyniad a Chyngor ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)**. Mae'r costau'n ymwneud ag amser staff CNC mewn perthynas ag asesu, yna rhoi, gwrthod neu addasu caniatâd ar gyfer gweithrediadau ar SoDdGA.

7.371 Mae costau CNC yn seiliedig ar ddefnyddio costau a model cyflawni Busnes fel Arfer (BAU) - mae'n rhy gynnar yn natblygiad y cynllun i amcangyfrif a chynnwys unrhyw arbedion effeithlonrwydd posibl a allai gael eu cyflwyno wrth ddarparu cyngor a gwasanaethau CNC ar gyfer cynllun y dyfodol. Nid yw'r arbedion cost posibl yn hysbys felly.

7.372 Mae'r costau'n adlewyrchu'r rhagdybiaethau uchod am nifer y ffermydd sy'n rhan o gynllun SLM yn y dyfodol yn y cyfnod 2025-29, a'r gyfradd ymadael dybiedig a'r gyfradd nad ydynt yn cael eu dethol a nodwyd uchod.

a) Mae’r costau cydsyniad a chyngor ar SoDdGA yn seiliedig ar amcangyfrifon CNC ynghylch nifer y ffermydd sy'n hawlio BPS gyda SoDdGA (ac eithrio SoDdGA sydd ar dir comin).
b) Mae’r costau rheoli coetiroedd a thrwyddedau cwympo coed cysylltiedig yn seiliedig ar holl boblogaeth ffermydd BPS. Bydd yr angen am drwydded cwympo coed yn dibynnu ar amcanion a chanlyniadau dymunol y gweithgarwch, felly nid oedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn caniatáu dull gweithredu gwahanol.
c) Mae'r costau creu coetiroedd yn seiliedig ar amcangyfrifon Llywodraeth Cymru ar nifer y ffermydd BPS sy'n plannu coed.

**Tabl 46: Costau CNC yn ymwneud â chynllun SLM y dyfodol**

| £ | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 |
|---|---|---|---|---|---|
| Creu Coetiroedd | 5,111,757 | 5,419,307 | 5,726,857 | 6,034,407 | 6,280,447 |
| Rheoli Coetiroedd - Trwyddedau Cwympo Coed | 1,815,258 | 1,920,750 | 2,167,444 | 2,280,780 | 2,371,449 |
| Rheoli Cynefinoedd - Cydsynio a Chyngor ar SoDdGA | 1,014,639 | 1,071,282 | 1,129,028 | 1,186,222 | 1,231,978 |
| Cyfanswm | 7,941,654 | 8,411,339 | 9,023,329 | 9,501,409 | 9,883,874 |

7.373 O ran costau am y cyfnod y tu hwnt i 2029, rydym yn rhagdybio'r canlynol:

**Tabl 47: Costau CNC yn ymwneud â chynllun SLM y dyfodol ar ôl 2029**

| Rôl CNC | Amlder |
| --- | --- |
| **Creu Coetir Trothwy 10% - gwasanaeth dilysu.** | Unwaith yn unig pan fydd ffermwr yn ymuno â'r cynllun ond heb ei ailadrodd wedi hynny, hyd yn oed os yw ffermwr yn ail-ymuno â'r cynllun ar ôl i'r contract 5 mlynedd cyntaf ddod i ben. |
| **Rheoli Coetiroedd - Trwyddedau Cwympo Coed** | Nid yw'r rhagdybiaethau presennol yn caniatáu cyfrifo y tu hwnt i 2029 ond mae'n debygol y bydd costau'n ailadrodd. Nid yw'r rhain yn hysbys ar hyn o bryd. |
| **Rheoli Cynefinoedd - Cydsynio a Chyngor ar SoDdGA.** | Ailadrodd bob 5 mlynedd pan fydd ffermwr yn ailymuno â'r SFS ar ôl i'r contract 5 mlynedd cyntaf ddod i ben i gwmpasu adolygu, asesu, addasu, cyhoeddi neu wrthod caniatâd. |

***Costau cydymffurfio -** £148,190*

7.374 Amcangyfrifir mai cost rôl CNC o ran cyflawni safonau Trawsgydymffurfio yw £119,684 y flwyddyn, yr un fath ag yn Opsiwn 1 a 2.

7.375 Fodd bynnag, mae costau'n wahanol Opsiwn 2 ar gyfer rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA). Rydym yn rhagweld y bydd cynnydd yn ymwybyddiaeth y cyhoedd/rhanddeiliaid o'r cynllun a'i ofynion cysylltiedig yn gyffredinol o ran rheoli bioamrywiaeth/cynefinoedd a'r amgylchedd hanesyddol. Mae gan hyn y potensial i gynyddu nifer yr atgyfeiriadau Rheoliadau EIA (Amaethyddiaeth) sy’n dod i law a chynyddu'r llwyth gwaith gorfodi. Amcangyfrifir y bydd y gost i CNC o roi cyngor i Lywodraeth Cymru yn cynyddu 20% i £28,506

## Y Sector Amaethyddol - Cyfanswm Cost £882,000

***Costau gweinyddol** - £882,000*

### *Costau ymuno â chynllun SLM i ffermwyr*

7.376 Bydd costau i ffermwyr o gydymffurfio â gofynion y cynllun newydd, ond mae'r costau hyn yn ddibynnol ar ddyluniad y cynllun terfynol a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o ddadansoddiad economaidd yn y dyfodol ac nid ydynt wedi'u cynnwys yma.

7.377 Yn ogystal, rydym yn rhagdybio y bydd y broses ar gyfer ymuno â chynllun SLM yn y dyfodol yn cynnwys cais a fydd yn cael ei asesu. Amcangyfrifir costau hyn fel a ganlyn:

### *Gwybodaeth am y Fferm*

7.378 Yn Opsiwn 2, amcangyfrifir mai cost flynyddol llenwi ffurflen y Cais Sengl ar gyfer 16,000 o ffermwyr (ar gyfer y sector cyfan) yw £588,000 y flwyddyn. Rydym yn rhagdybio bod y gost o ddarparu fersiwn estynedig o wybodaeth yn ffurflen y Cais Sengl 50% yn uwch na'r cymedr hwn, sy'n rhoi cyfanswm cost i'r sector o £882,000 y flwyddyn. Mae'r cynnydd yn y gost yn gysylltiedig â darparu data sy'n gysylltiedig â'r canlyniadau SLM e.e. cyflwr cynefin neu ddefnydd carbon. Dim ond ffermydd sy'n dewis ymuno â'r cynllun fyddai'n mynd i gostau ymgeisio a chydymffurfio.

## Cyfanswm Cost - £324,739,096 + chost untro o £35,500,000

---

# *Manteision*

*Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr*

### *Maint y broblem*

7.379 Roedd amaethyddiaeth yn cyfrif am 14% o allyriadau Cymru yn 2019 (5.3 MtCO2e). Y prif allyriadau amaeth yw methan (66%) ac ocsid nitraidd (22%), gyda dim ond 12% o allyriadau'r sector yn garbon deuocsid. Mae allyriadau eplesu enterig da byw (yn bennaf o wartheg a defaid) yn gyfrifol am 58% o allyriadau'r sector yn 2019, a rheoli tail (16%). Ffynonellau arwyddocaol eraill o allyriadau yw taenu

gwrtaith anorganig a chalch ar briddoedd amaethyddol (11% o allyriadau) a thanwydd ar gyfer peiriannau symudol amaethyddiaeth (10% o allyriadau)[155].

### *Targedau*

7.380 Mae targedau a chyllidebau Cymru wedi'u gosod yn y gyfraith ac yn dilyn argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC)[156]:

a) Cyllideb Garbon 2 (2021-25): gostyngiad cyfartalog o 37% (gyda therfyn gwrthbwyso o 0%);
b) Cyllideb Garbon 3 (2026-30): gostyngiad cyfartalog o 58%;
c) 2030: gostyngiad o 63%;
d) 2040: gostyngiad o 89%;
e) 2050: gostyngiad o 100% o leiaf (sero net).

7.381 Ar gyfer systemau amaethyddol, y ddau brif nwy tŷ gwydr yw methan (CH4) ac ocsid nitraidd (N2O). Mae tua hanner yr holl allyriadau anthropogenig o gyfansoddion nitrogen yn deillio o golledion o ffermydd naill ai fel N2O, nitrad ffo neu amonia, ac maent yn deillio o arferion gwrtaith neu wastraff anifeiliaid. Mae methan yn cael ei gynhyrchu gan facteria wrth i wartheg a defaid ddadelfennu'r seliwlos yn eu deiet, gan gynhyrchu llaeth a chig i'w fwyta gan bobl o ardaloedd mawr o laswelltir a fyddai'n anaddas ar gyfer ffermio âr[157].

7.382 Mae cyfanswm yr allyriadau o'r sector amaeth yng Nghymru wedi gostwng 10% rhwng 1990 a 2019, wedi'i sbarduno i raddau helaeth gan ostyngiad cyffredinol yn nifer y da byw a'r defnydd o wrtaith nitrogen. Yn 2019, bu cynnydd o 2% mewn allyriadau sector amaeth Cymru o gymharu â 2018. Eplesu enterig gwartheg nad ydynt yn wartheg godro, defaid a gwartheg godro yw'r cyfranwyr pennaf o hyd at allyriadau Cymru o fewn y sector amaethyddol.

*7.383* Mae adroddiad ERAMMP 7[158] yn nodi ei bod yn bwysig deall cydbwysedd nwyon tŷ gwydr y fferm gyfan i werthfawrogi effaith cynhyrchu amaethyddol yn llawn 'mae'r rhyngweithio rhwng dal a storio carbon, allyriadau a newidiadau mewn stoc carbon i gyd wedi'u cysylltu â gweithgareddau ar raddfa fferm.'

---

[155] Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021-2025): Dogfen Crynodeb (llyw.cymru)
[156] Ibid.
[157] Ibid.
[158] ERAMMP Adolygiad o Dystiolaeth SFS 7 Nwyon Tŷ Gwydr f1.1.pdf

### ***Camau i sicrhau canlyniad***

7.384 Dyma'r camau a all sicrhau'r canlyniad:

a) Gwella perfformiad da byw (rheoli anifeiliaid; newid deiet; treulio anaerobig);
b) Rheoli tir (defnydd o godlysiau; systemau nad ydynt yn ddibynnol ar fewnbynnau artiffisial);
c) Defnyddio ynni'n fwy effeithlon a lleihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil.

### ***Manteision gweithredu***

#### *Gwella perfformiad da byw*

7.385 Tystiolaeth a gymerwyd o adroddiad ERAMMP 68[159].

**Rheoli anifeiliaid a newid deiet**

7.386 Caiff protein nad yw'n cael ei ddefnyddio gan yr anifail ei ysgarthu mewn wrin ac ymgarthion, gan ddod yn ffynhonnell ocsid nitraidd yn y pridd. O ran newid deiet, mae tystiolaeth ERAMMP yn nodi'r anhawster o ran rhagweld 'allbwn N ymylol mewn wrin mewn ymateb i newidiadau mewn cyfansoddiad deiet.' Nodwyd y canlynol hefyd:

a) mae'n bwysig cael a defnyddio fformiwleiddiadau porthiant cywir i ddarparu'r cydbwysedd mwyaf priodol rhwng maeth egni a phrotein.
b) Mae tystiolaeth fod pori glaswellt sy'n cynnwys llawer o siwgr yn effeithiol i leihau cyfansoddion nitrogen mewn wrin ac ymgarthion.

***Rheoli Tir***

*7.387* O ran rheoli tir mewn perthynas â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, daw tystiolaeth ERAMMP i'r casgliad canlynol:

**Cloi biolegol gyda chodlysiau**

[159] ERAMMP Adroddiad-68 Adolygiad o Dystiolaeth Datgarboneiddio_cym.pdf

7.388 Ar hyn o bryd, mae sefydlogi biolegol gyda chodlysiau yn darparu 5.9% o gyfanswm mewnbynnau N yn y DU (*Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig* (DEFRA) - UK Soil Nutrient Balances for 2019). Mae'r dystiolaeth gan ERAMMP yn awgrymu y byddai tyfu meillion ar laswelltir dros dro ac ar laswelltir parhaol sy'n addas ar gyfer hadu heb drin, *'*yn darparu gostyngiad arwyddocaol o allyriadau ocsid nitrus, ac yn lleihau'r angen am osodiadau ffrwythlonwr/gwrtaith a'u hallyriadau cysylltiedig. Fodd bynnag mae rheolaeth leiau gwair-llysiau yn gofyn am reolaeth ofalus mewn sefydlu a chynnal.*'* Mae codlysiau hefyd yn darparu mewnbynnau N i gnydau âr mewn system cylchdroi cnydau.

**Mabwysiadu systemau sy'n llai dibynnol ar fewnbynnau**

7.389 Ar lefel genedlaethol, mae'r allyriadau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cnydau organig a da byw organig yn llai ar gyfer ffermio organig o gymharu â ffermio confensiynol: 20% ar gyfer cnydau, 4% ar gyfer da byw a 6% yn gyffredinol. Byddai systemau ffermio organig ar gyfer da byw yn arwain at ostyngiad bach mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr cyffredinol (4 i 6%) yn bennaf drwy ddefnyddio cnydau codlysiau i sefydlogi nitrogen – gan leihau allyriadau o weithgynhyrchu gwrtaith a lleihau'r allyriadau ocsid nitraidd o daenu gwrtaith ar dir. Byddai disgwyl cyfraddau dal a storio carbon gwell ar gyfer ffermio organig oherwydd cylchdroadau cnydau hirach gyda lleiniau yn defnyddio codlysiau porthiant, wrth i dir âr gael ei droi'n laswelltir. Fodd bynnag, byddai dal a storio carbon yn cyrraedd terfyn ar ôl tua 20 mlynedd.

7.390 Mae tystiolaeth ERAMMP yn nodi bod astudiaethau'n dangos y gallai fod gostyngiad mewn cynhyrchu llaeth, gyda chynhyrchiant bîff a defaid yn parhau i fod yn weddol debyg i'r lefelau presennol. Byddai angen gwneud iawn am y gostyngiad mewn cynhyrchiant naill ai drwy gynhyrchu mewn gwledydd eraill - gyda'r allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig, neu ostyngiad mewn gwastraff bwyd.

***Da byw – godro, bîff a defaid***

7.391 Mae gwella effeithlonrwydd cynhyrchu yn lledaenu allyriadau nwyon tŷ gwydr dros fwy o unedau cynhyrchu, gan ganiatáu i'r cynnyrch gael ei gynhyrchu ar gymhareb is o allyriadau fesul uned cynhyrchu. O fewn systemau godro, mae gofyniad maethol cynnal pob anifail yn gweithredu fel allyriad sefydlog cyn y gall cynhyrchu (twf,

beichiogrwydd neu laetha) ddigwydd. Mae'r gofynion hyn yn gysylltiedig â chostau economaidd ac amgylcheddol o ran mewnbynnau adnoddau (porthiant, dŵr, tir cnwd, gwrtaith, tanwydd ffosil) a nwyon tŷ gwydr.[160]

**Cyfansoddiad deiet**

7.392 Mae tystiolaeth[161] a ddyfynnir yn adroddiad ERAMMP 68 yn nodi bod effeithlonrwydd bwydo gwartheg godro yn cael ei gyflawni orau drwy:

a) fwydo carbohydradau startsh i ategu porthiant.
b) bwydo porthiant o ansawdd uchel gyda lefelau treulio uchel a gyflawnir drwy gynaeafu cynnar a dulliau cadwraeth da, ynghyd â gwell pori drwy ail-hadu a threfnau pori a reolir.
c) prosesu porthiant optimaidd trwy ei dorri'n fân i gynyddu treuliad deunydd sych.

7.393 Mae gan borthiant a maeth y potensial i liniaru cynhyrchiant llaeth $CH_4$/uned enterig ar ffermydd godro dwys 2.5-15%.

7.394 Ar gyfer gwartheg bîff a defaid, porthiant o ansawdd uchel yw'r ffactor pwysicaf gan fod atchwanegiadau porthiant amgen yn cael eu cyfyngu'n bennaf i anifeiliaid sy'n cael eu cadw dan do.

7.395 Mae adroddiad ERAMMP 68 yn dod i'r casgliad canlynol:

a) I grynhoi ar gyfer system gwartheg bîff, gall rheoli da byw, geneteg ac ymyriadau deiet leihau allyriadau tua 30%
b) Yn y sector defaid, gellid sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau drwy leihau amrywioldeb perfformiad ffermydd o fewn y math o fferm (iseldir, ucheldir, mynydd). Gellir gwneud hyn drwy gynyddu nifer yr ŵyn sy'n cael eu magu fesul mamog a chyfradd twf ŵyn 30%[162] i lefelau perfformiad ffermydd sy'n perfformio'n well.

---

[160] T.68 Adroddiad ERAMMP 68, 'Decarb evidence review V.0.6'
[161] Knapp, J. R., G. L. Laur, P. A. Vadas, W. P. Weiss, a J. M. Tricarico. (2014). Invited review: enteric methane in dairy cattle production: quantifying the opportunities and impact of reducing emissions. J. Dairy Sci. 97:3231– 3261.
[162] Jones, A. K., Jones D.L. a Cross P. (2014). The carbon footprint of lamb: sources of variation and opportunities for mitigation. Agricultural Systems 123: 97-107 a ddyfynnir yn adroddiad ERAMMP 68

***Defnyddio ynni'n fwy effeithlon***

7.396 Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn amcangyfrif y gall gostyngiad o 20% mewn costau ynni fferm gynrychioli'r un budd llinell waelod â chynnydd o 5% mewn gwerthiant[163]. Mae nifer o ffyrdd y gall ffermwyr weithredu ymyriadau effeithlonrwydd ynni, ac mae llawer ohonynt yn rhad iawn neu am ddim.

7.397 Ar gyfartaledd, mae awyru yn cyfrif am 14% o filiau ynni[164] ar draws y sector amaethyddol, felly gall sicrhau bod unrhyw adeiladau fferm newydd yn defnyddio awyru naturiol, neu addasu adeiladau presennol i gynyddu awyru naturiol, arwain at arbedion sylweddol. Mae atebion mewn perthynas â goleuo yn cynnwys defnyddio bylbiau golau arbed ynni a defnyddio synwyryddion i sicrhau nad yw goleuadau ymlaen pan nad oes eu hangen. Mae cadw offer o bob math mewn cyflwr gweithio da yn helpu i sicrhau eu bod yn rhedeg mor effeithlon â phosibl, gan leihau'r defnydd o drydan neu danwydd.

**Tabl 48: Astudiaethau achos gan yr Ymddiriedolaeth Garbon**

| Math o fferm | Ymyrraeth | Arbedion blynyddol ar gyfartaledd |
|---|---|---|
| Fferm ieir | Goleuadau *Deuod Allyrru Golau* (LED) | £12,500 |
| Fferm a storfa grawn | Ffannau a synwyryddion storfa grawn | £2,750 |
| Fferm lysiau | Cywasgwyr | £2,600 |

7.398 Mae llai o alw am ynni ar y fferm hefyd yn helpu i leddfu'r pwysau ar y Grid Cenedlaethol, gan gyfrannu at gyflenwad mwy dibynadwy i ddefnyddwyr domestig a busnesau eraill.

**Manteision eraill**

7.399 Mae adroddiad 68 ERAMMP yn nodi bod gan fesurau i leihau allyriadau ocsid nitraidd fanteision lluosog o ran gwella ansawdd aer a dŵr a lleihau ewtroffigedd

[163] GBF Guide Energy Efficiency in Agriculture_Final.pdf (storage.googleapis.com)
[164] Ibid.

cynefinoedd. Mae gan leihau allyriadau methan fudd eilaidd hefyd o ran lleihau ffurfiant oson yn yr atmosffer is (hyd at 15 cilometr). Nwy tŷ gwydr yw oson ac mae'n achosi problemau iechyd i bobl, yn ogystal â niwed i lystyfiant.

**Tabl 49: Crynodeb o effaith camau gweithredu dethol**

| Opsiwn | Sylwadau | Effeithiolrwydd o ran lleihau allyriadau | |
|---|---|---|---|
| | | $CH_4$ | $N_2O$ |
| Deiet – lleihau protein | Cyfyngu i ddognau gwartheg – nid pori, anodd ei fodelu | Dim | - 20% |
| Gorchuddion storfeydd slyri | Yn arbennig o effeithiol os gellir dal a llosgi $CH_4$ | - 10 i -60% | Dim |
| Tomenni tail solet wedi'u cywasgu/gorchuddio | Yn bennaf yn lleihau ocsid nitraidd o amodau aerobig | Bach | - 30% |
| Gwahanu solidau-hylifau | Gwaith ychwanegol i ffermwyr | -50% i -100% | Cynyddu allyriadau |
| Treulio anaerobig | Opsiwn drud, angen rheoli’r broses yn dda. | - 50 i -90% | Dim |
| Asideiddio slyri | Effeithiol ar gyfer lleihau allyriadau $NH_3$. Anodd ymdrin ag asid | -96% | Cynyddu allyriadau |
| Gwasgaru tail – chwistrellu ac ymgorffori | Gwelliannau amrywiol – yn dibynnu ar amodau pridd. Lleihau allyriadau $NH_3$ ac $N_2O$ anuniongyrchol | Dim | Amrywiol |
| Atalyddion nitreiddio | *Dicyandiamide* (DCD)[165] a NBPT[166] yn effeithiol ar gyfer taenu tail a gwrtaith. | Dim | -42% i -20% |

---
165 Dicyandiamide
166 N-(n-butyl) thiophosphoric triamide (NBPT).

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Canlyniadau cymysg ar gyfer anifeiliaid sy'n pori, gyda DCD yn dadelfennu'n gyflym mewn amodau cynnes | | |
| Effeithlonrwydd gwrtaith N a thail | Gostyngiadau sylweddol yn bosibl | Dim | -50% |
| Sefydlogi biolegol gyda chodlysiau | Dadleoli taenu gwrtaith yn sylweddol. Allyriadau isel. Drud ar gyfer âr lle mae codlysiau'n dadleoli cnydau eraill | Dim | -11% i -23% |
| Mabwysiadu systemau sy'n llai dibynnol ar fewnbynnau | Arbed allyriadau sy'n gysylltiedig â sefydlogi biolegol. Allbynnau is. | Dim | 4-6% |

Ffynhonnell: Tabl 5.1 Dadansoddiad Cryno o Opsiynau Lliniaru, Adroddiad ERAMMP 68

## *Dal a storio mwy o garbon*

### Maint y Broblem

7.400 Dywedodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn ei adroddiad yn 2020[167] na fydd targed sero net y DU yn cael ei gyflawni heb newidiadau yn y modd rydym yn defnyddio ein tir. Rhaid i'r newidiadau hynny ddechrau nawr. Ni fydd mesurau polisi presennol yn gwireddu'r uchelgais angenrheidiol.

7.401 Rhwng y flwyddyn sylfaen (1990) a 2019, mae dalfa net LULUCF[168] wedi newid o fod yn ffynhonnell allyriadau ar 78 MtCO2e i ddalfa allyriadau ar -246 MtCO2e. Ers 2001, mae'r sector LULUCF yng Nghymru bron bob amser wedi bod yn ddalfa net o

[167] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd (2020) Land use: Policies for a Net Zero UK Land-use-Policies-for-a-Net-Zero-UK (2).pdf

[168] Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth Y chwe dosbarth tir yn LULUCF yw A: Tir Coedwig, B: Tir Cnwd, C: Glaswelltir, D: Gwlyptiroedd, E: Aneddiadau ac F: Tir arall. Mae seithfed categori ar gyfer y gronfa o gynhyrchion pren wedi'u cynaeafu, categori G. Land Use, Land-Use Change and Forestry (LULUCF) | UNFCCC.

nwyon tŷ gwydr, gan fod yn ffynhonnell net ym 1990, ac yna am gyfnod byr rhwng 1999 a 2000[169], yn unig.

*7.402* Ar gyfer Cymru, mae Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr 2018 yn nodi dalfa net o 444 kt CO2e, sy'n cael ei ddominyddu gan y broses dal a storio carbon a ddarperir gan y goedwigaeth bresennol – dalfa o 1210 kt CO2e[170]. Mae angen dal a storio mwy o garbon.

**Targedau**

7.403 Mae targedau a chyllidebau Cymru yn cael eu pennu gan y gyfraith ac yn dilyn argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd[171]:

7.404 LULUCF yw'r unig sector sydd â'r gallu i dynnu allyriadau o'r atmosffer. Rhaid i Gymru amddiffyn coetiroedd hynafol, rheoli ein priddoedd yn well a sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y coetiroedd sy'n cael eu creu. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i blannu 43,000 hectar o goetir newydd erbyn 2030 a 180,000 hectar erbyn 2050.

7.405 Dros y 5 mlynedd nesaf, nod Llywodraeth Cymru yw adfer 600-800 hectar o fawndir wedi'i ddiraddio bob blwyddyn drwy ein Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd.

**Camau i sicrhau canlyniad**

7.406 Yn ei adroddiad yn 2020, nododd y Pwyllgor Newid Hinsawdd 5 cam allweddol, ‘such that around one-fifth of [UK] agricultural land is released by 2050 for actions that reduce emissions and sequester carbon:’

a) Arferion ffermio carbon isel (isod rydym yn trafod rheoli priddoedd amaethyddol)
b) Coedwigo ac amaeth-goedwigaeth (isod rydym yn trafod ehangu coedwigaeth a choetiroedd)

---

169 Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 Llywodraeth Cymru (2021 – 2025)
170 Prosser, H. (2022). Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a’r Amgylchedd (ERAMMP) ERAMMP Adroddiad-68: Adolygiad o Leihau Allyrru Nwyon Tŷ Gwydr a Dal a Storio Carbon mewn Amaethyddiaeth i Ffurfio Polisi Amaethyddiaeth a Defnydd Tir. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (Canolfan Prosiectau Ecoleg a Hydroleg y DU 06297 a 06810)
171 Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 Llywodraeth Cymru (2021 – 2025)

c) Mawndiroedd (isod rydym yn trafod adfer mawndiroedd)
d) Cnydau bio-ynni (a drafodir isod)
e) Lleihau'r defnydd o'r bwydydd mwyaf dwys o ran carbon (heb eu cwmpasu).

## ***Manteision gweithredu***

7.407 Daw'r dystiolaeth o adroddiad 68 ERAMMP[172]

### **Ehangu Coedwigaeth a Choetiroedd**

7.408 O ran potensial dal a storio carbon coedwigaeth, mae'r dystiolaeth gan ERAMMP yn dod i'r casgliad mai ehangu coetiroedd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddal a storio mwy o garbon. Ond mae pryderon am effaith bosibl cynhyrchu allbwn amaethyddol.

7.409 Er mwyn cyrraedd y targedau, mae adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd yn argymell bod rhaid i gyfraddau plannu coed gynyddu o ddim ond 80 hectar yn 2019 i o leiaf 4,500 hectar y flwyddyn erbyn 2025 yng Nghymru, a pharhau i godi i 7,500 hectar y flwyddyn erbyn 2035.

7.410 Ar ôl allyriadau cychwynnol yn sgil aflonyddu at y pridd a cholli llystyfiant presennol, mae bwlch rhwng plannu a'r dal a storio mwyaf. Yn y tymor byr hyd at 2050, byddai coed conwydd yn darparu'r ddalfa garbon fwyaf, tra bod coed llydanddail yn dal a storio carbon yn y cyfnod 2050-2100 a thu hwnt.

7.411 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai mân gyfraniadau yn unig y gall rheoli coetiroedd eu gwneud at ddal a storio carbon[173].

7.412 Mae cynhyrchion pren wedi'u cynaeafu yn cadw (h.y. yn dal a storio i bob pwrpas) carbon yn y biomas coediog y maent wedi eu gwneud ohono. Mae gweithgynhyrchu cynhyrchion pren yn gofyn am fewnbynnau cymharol isel o ynni ac adnoddau anadnewyddadwy eraill. Felly, gall yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n ymwneud â gweithgynhyrchu cynhyrchion pren fod yn gymharol isel, o gymharu â chynhyrchion cyfatebol a wneir o goncrit a dur.

---

[172] Prosser, H. (2022). Prosser, H. (2022). Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP) ERAMMP Adroddiad-68: Adolygiad o Leihau Allyrru Nwyon Tŷ Gwydr a Dal a Storio Carbon mewn Amaethyddiaeth i Ffurfio Polisi Amaethyddiaeth a Defnydd Tir. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (Canolfan Prosiectau Ecoleg a Hydroleg y DU 06297 a 06810) [ERAMMP Adroddiad 68 Adolygiad o Dystiolaeth Datgarboneiddio.cym.pdf]

[173] Fodd bynnag, mae adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd 2020 yn nodi bod dod â choetir llydanddail a esgeuluswyd yn ôl i reolaeth gynaliadwy sy'n cydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU yn darparu ystod eang o fanteision, gan gynnwys dal a storio mwy o garbon a gwell gwydnwch i fygythiadau posibl a allai gynyddu gyda hinsawdd gynhesach (e.e. plâu a chlefydau, gwynt a thân).

7.413 Gellir defnyddio biomas pren wedi'i gynaeafu fel tanwydd yn lle tanwydd ffosil hefyd. Fodd bynnag, mae amrywiaeth mawr yn y canlyniadau o Ddadansoddiadau Cylch Bywyd ar y manteision cyffredinol ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr

## ***Priddoedd amaethyddol***

### *Pori glaswelltir*

7.414 Mae tystiolaeth ERAMMP yn dod i'r casgliad bod tystiolaeth anghyson am effaith pori ar ddal a storio carbon, er y gallai pori ysgafn-cymedrol fod yn fanteisiol. Nodir bod astudiaethau amrywiol yn dod i'r casgliad bod *cyfraddau dal a storio yn yr ystod minws 0.25 i plws 0.35 t C/ha/y flwyddyn) â gwallau mawr. Mae llawer yn dibynnu ar reolaeth flaenorol y glaswelltir*. Nid yw astudiaethau o arferion pori cylchdroadol wedi dangos unrhyw dueddiadau cyson mewn lefelau carbon yn y pridd na lefelau dal a storio carbon.

### *Effeithiau gwrtaith ar ddal a storio carbon yn y pridd*

7.415 Mae tystiolaeth ERAMMP yn dod i'r casgliad y gall defnyddio gwrtaith gynyddu ymgorfforiad carbon, ond mae ganddo hefyd y potensial i gynyddu dadelfennu carbon yn y pridd. Anfantais taenu gwrtaith hefyd yw ei fod yn cynyddu allyriadau N2O, felly gall allyriadau cyffredinol gynyddu.

### *Crynodeb am Laswelltiroedd*

7.416 Mae ymchwil arall[174] wedi dod i'r casgliad nad oes modd i laswelltiroedd weithredu fel dalfa garbon am byth, a'r esboniad mwyaf tebygol am ddalfeydd carbon glaswelltir a welwyd dros gyfnodau byr yw effeithiau defnydd tir a rheoli tir cyn dechrau cyfnodau mesur fflwcs. Yn syml, nid yw bod â glaswelltir yn arwain at ddalfa garbon, ond gall rheolaeth ddoeth o laswelltiroedd a reolwyd yn wael yn y gorffennol gynyddu capasiti'r ddalfa.

---

[174] Smith P. (2014) Do grasslands act as a perpetual sink for carbon? Global Change Biology 20, 2708–2711

*7.417* Felly, mae'n bwysig cynnal y stociau hyn. Gall rheoli glaswelltiroedd a reolwyd yn wael yn y gorffennol gynyddu capasiti'r ddalfa (er y bydd hyn yn gostwng dros amser).

*Âr*

7.418 O ran effaith tir âr ar ddal a storio carbon yn y pridd, mae ERAMMP yn dod i'r casgliad bod cynnydd mewn dal a storio yn gyfyngedig oni bai bod âr yn cael ei droi'n laswelltir neu'n goetir. Ymddengys mai cnydau gorchudd yw'r brif ffordd o gynyddu carbon organig yn y pridd.

### *Amaeth-goedwigaeth*

7.419 Mae ERAMMP yn dod i'r casgliad bod y dystiolaeth ar gyfer manteision dal a storio carbon o amaeth-goedwigaeth yn ymddangos yn sylweddol ar gyfer systemau 'coed a chnydau', ond yn llai felly ar gyfer systemau 'coed a bugeilio' sydd eisoes â stociau carbon mawr yn y pridd. Mae hefyd yn bwysig ystyried colled pridd wrth dyfu coed.

### *Gwrychoedd/Perthi*

7.420 Mae ERAMMP yn dod i'r casgliad bod cyfleoedd i ddal a storio carbon hyd at 75,000t CO2e/blwyddyn drwy gynyddu hyd gwrychoedd yng Nghymru – o bosibl hyd at lefelau ym 1984 a chynt.

7.421 Byddai cynyddu lled ac uchder gwrychoedd yn cynyddu'r carbon mewn biomas ond gallai fod ag anfanteision o ran cyflawni tocio effeithiol oni bai bod gwrychoedd yn cael tyfu ac yna'n cael eu plygu - tasg ddrud a llafurus. Mae carbon yn y pridd hefyd yn cynyddu o amgylch perimedrau caeau âr.

### *Mawndiroedd*

7.422 Mae tystiolaeth ERAMMP yn pwysleisio, er bod yr allyriadau fesul ardal uned o fawndir wedi'i addasu yn gymharol isel, mae eu maint mawr yn eu gwneud yn gyfranwyr sylweddol at allyriadau nwyon tŷ gwydr cyffredinol mawndiroedd. O ganlyniad, mae mawndiroedd yn y DU wedi newid o fod yn ddalfeydd nwyon tŷ gwydr net cymedrol yn hanesyddol i ffynonellau mawr o allyriadau.

7.423 Byddai canolbwyntio ar adfer y categorïau mawn gyda'r ffactorau allyriadau uchaf yn fwyaf buddiol o ran lleihau allyriadau. Gan ystyried arwynebedd, byddai adfer glaswelltir a choedwigaeth helaeth a dwys ar fawndiroedd yn cynnig y budd mwyaf.

*7.424* Y prif ddull lliniaru yw ail-wlychu mawndiroedd presennol drwy godi'r lefel trwythiad, er enghraifft, drwy gau ffosydd draenio, i adfer swyddogaeth y mawn fel dalfa net o CO2 a storfa garbon led-barhaol.

7.425 Mae tystiolaeth ERAMMP yn nodi bod adfer mawn ar raddfa eang ac yn barhaus wedi cyfrannu at ostyngiad yng nghyfanswm yr allyriadau ond, hyd yma, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith adfer wedi digwydd o fewn corsydd ucheldirol wedi'u haddasu, sy'n cynhyrchu ffynonellau allyriadau cymedrol fesul ardal uned, yn hytrach na chategorïau â ffactorau allyriadau uwch fesul ardal uned megis glaswelltir a choedwigaeth planhigfa mewn ardaloedd iseldir.

7.426 Gallai mynd i'r afael ag allyriadau parhaus o'r ardaloedd hyn leihau allyriadau’n sylweddol ond byddai'n wynebu rhwystrau logistaidd ac economaidd-gymdeithasol sylweddol, yn enwedig ar gyfer adfer mawn ar iseldir. Yn y cyfamser, gall parhau i adfer corsydd ucheldir wedi'u haddasu, yn arbennig categorïau allyrru uwch megis ardaloedd sy'n erydu'n weithredol, fod yn opsiynau mwy ymarferol ar gyfer lleihau allyriadau

## *Cnydau bio-ynni*

7.427 Mae tystiolaeth ERAMMP yn dod i'r casgliad bod gan gnydau bio-ynni fanteision cyffredinol ond rhaid iddynt ystyried colled carbon pridd wrth sefydlu planhigion. Yn gyffredinol, mae cnydau bio-ynni yn bwysig ar gyfer dal a storio carbon. Cofnodir llosgi cnydau bio-ynni hefyd fel gweithred dim allyriadau o gymharu â llosgi tanwydd ffosil ar gyfer ynni.

## *Senarios*

7.428 Amcangyfrifwyd[175] rhagamcaniadau lliniaru ar gyfer defnydd tir yng Nghymru gan ddefnyddio dwy senario allweddol. (1) Canolog – busnes fel arfer yn y bôn gan ystyried y polisïau presennol a (2) Ymestyn.

**Tabl 50: Allyriadau blynyddol – Kt CO2 e – Rhagamcaniadau Allyriadau Blynyddol – Senario Ymestyn o gymharu â senario Canolog**

| | 2020 | 2030 | | 2040 | | 2050 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Canolog | Ymestyn | Canolog | Ymestyn | Canolog | Ymestyn |
| Coedwigaeth | -1146 | -1328 | -1236 | -1609 | -1618 | -1628 | -2008 |
| Tir Cnwd | 946 | 1461 | 1462 | 1763 | 1759 | 1940 | 1935 |
| Glaswelltir | -643 | -834 | -908 | -1083 | -1157 | -1236 | -1312 |
| Gwlyptir (*) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Aneddiad | 653 | 497 | 437 | 377 | 304 | 289 | 218 |
| Cynnyrch pren wedi'i gynaeafu | -318 | -147 | -178 | -33 | -55 | -30 | -51 |
| Cyfanswm | -483 | -322 | -391 | -552 | -731 | -634 | -1187 |

(*) Amcangyfrifir allyriadau gwlyptir ar gyfer tynnu mawn yn unig. Mae hyn yn sero yng Nghymru.

Ffynhonnell: Tabl 4.5 Adroddiad ERAMMP 68 – Cymru

7.429 I ddechrau, mae'r cydbwysedd nwyon tŷ gwydr yn cael ei ddominyddu gan allyriadau CO2 net o golli stociau carbon yn y pridd (2.0 tCO2 e/ha/bl), sy'n digwydd o ganlyniad i baratoi safle a'r trawsnewid rhwng colli llystyfiant a sefydlu'r coed yn llawn. O ganlyniad, mae llai o garbon yn cael ei ddal a’i storio yn y camau cynnar ar gyfer y cyfraddau plannu uwch, ac mae'r prif fanteision yn digwydd o 2040 ymlaen, wrth i goed newydd dyfu'n gyflym.

7.430 Ynghyd â lleihau allyriadau o'r senarios rheoli mawn (685 kt CO2e), gallai'r senario ymestyn leihau allyriadau 1872 kt CO2e/blwyddyn erbyn 2050 o gymharu â'r senario Canolog.

[175] Thomson, A., Buys, G., Cliverd, H. Malcolm, H., Henshall, H. a Matthews R. (2020) Projections of Emissions and Removals from the LULUCF Sector to 2050/2100 : National Atmospheric Emissions Inventory Report ERG 1103 a adroddwyd yn adroddiad ERAMMP 68

7.431 Byddai ehangu coetir 180,000 hectar erbyn 2050 yn lleihau allyriadau 304 kt CO2e/blwyddyn yn 2050 - gostyngiad o 2176 kt CO2e/blwyddyn. Yn y cyfnod hyd at 2050, byddai dal a storio carbon ar ei uchaf mewn coetiroedd conwydd, tra bod coetiroedd llydanddail yn dal a storio mwy o garbon yn y cyfnod 2050-2100 a thu hwnt.

## ***Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau***

### *Maint y broblem*

7.432 Daeth adroddiad SoNARR 2016[176] gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'r casgliad bod gan bob ecosystem broblemau gydag un neu fwy o briodoleddau gwytnwch. Mae hyn yn golygu y gallai eu gallu i ddarparu gwasanaethau a manteision ecosystemau fod mewn perygl. Ni ellir dweud bod gan unrhyw ecosystem, ar sail yr asesiad, yr holl nodweddion sydd eu hangen ar gyfer gwytnwch.

7.433 Nododd adroddiad Sefyllfa Byd Natur Cymru 2019[177]:

a) O'r 6,500 o rywogaethau sydd i'w cael yng Nghymru sydd wedi'u hasesu gan ddefnyddio meini prawf Rhestr Goch Ranbarthol yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN)178, ac y mae digon o ddata ar gael ar eu cyfer, mae 523 (8%) ohonynt dan fygythiad o ddiflannu o Brydain Fawr ar hyn o bryd.

b) Yn ogystal, gwnaed asesiadau o risg diflaniad yng Nghymru ar gyfer 3,902 o rywogaethau yr oedd digon o ddata ar gael ar eu cyfer. O'r rhain, mae 666 (17%) ohonynt dan fygythiad o ddiflannu o Gymru, ac mae 73 (2%) arall wedi diflannu'n barod.

c) O ran dosbarthiad179 rhywogaethau yng Nghymru:

   i) Mae 30% o rywogaethau wedi gostwng yn eu dosbarthiad ers 1970, o gymharu â 23% o rywogaethau sydd wedi cynyddu yn eu dosbarthiad yn yr un cyfnod;

---

[176] Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR): Asesu'r modd y rheolir adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Adroddiad Technegol. (Saesneg yn unig) Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016

[177] State-of-Nature-2019-Wales-summary.pdf (nbn.org.uk)

[178] Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur

[179] Ystod ddaearyddol y rhywogaeth honno

ii) ac mae 39% wedi gostwng yn eu dosbarthiad yn y 10 mlynedd diwethaf; o gymharu â 30% o rywogaethau sydd wedi cynyddu yn eu dosbarthiad yn ystod y 10 mlynedd diwethaf.

7.434 Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020-21[180] Llywodraeth Cymru yn nodi mai ei uchelgais yw '*gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, oherwydd bod iddi werth cynhenid, a sicrhau budd sy'n para i'r gymdeithas'*. Targed Llywodraeth Cymru yw bod 30% o dir yn cael ei warchod ar gyfer natur erbyn 2030.

## ***Camau i sicrhau canlyniad***

### *Ucheldiroedd*

7.435 Mae da byw yn ffactor allweddol wrth benderfynu ar gyflwr y cyfresi hyn o gynefinoedd lled-naturiol. Mae cynefinoedd lled-naturiol yn ddibynnol ar drefn barhaus o bori blynyddol priodol (neu/a lladd gwair yn achos dolydd gwair) a ategir gan reolaeth briodol o lystyfiant llwyni.

7.436 Mae tystiolaeth[181] a ddyfynnir gan ERAMMP yn awgrymu, yn yr ucheldiroedd,

a) mai lefelau "cymedrol" ac "amrywiol" (yn ofodol ac yn amserol) o bori yw'r rhai mwyaf priodol ar gyfer darparu llawer o wasanaethau ecosystem (gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â charbon pridd a bioamrywiaeth);
b) mae cyflwr cynefin gorgors cynhyrchiant isel a chynefinoedd 'mynydd' wedi gwella lle mae cyfraddau stocio wedi gostwng i gyfartaleddau blynyddol o tua 0.05 uned da byw ha-1 bl-1 neu lai, yn aml gyda da byw'n gadael y cynefin yn y gaeaf;
c) Ar orgors, mae angen arferion llosgi cywir ac adfer hydroleg naturiol drwy gau ffosydd (llinellau wedi'u torri trwy rostir at ddibenion draenio).

### *Iseldiroedd*

7.437 Yn gyffredinol, yr ymyriadau allweddol a nodir ar iseldir yw:

---

[180] Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020 i 2021 (llyw.cymru)

[181] Martin, D., Fraser, M.D., Pakeman, R.J. a Moffat, A.M. (2013) Natural England Review of Upland Evidence 2012 - Impact of moorland grazing and stocking rates. Natural England Evidence Review, Number 006. Dywed yr adolygiad hwn *"It is likely that prolonged grazing exclusion could be detrimental in all but the very lowest productivity or most climatically suppressed habitats, as competitive species increase and gaps for colonisation by less competitive species are lost."*

a) Pori o fewn trothwyon dwysedd stocio blynyddol eang (trothwyon is ac uwch sy'n cwmpasu'r ystod o sefyllfaoedd sy'n briodol ar gyfer cynefinoedd lled-naturiol)
b) Ymyriadau pori manylach sy'n berthnasol i gynefinoedd lled-naturiol penodol neu gyfres o gynefinoedd, gan gynnwys amrywiadau o ran: trothwyon stocio tymhorol; patrymau pori gofodol a thymhorol a rhywogaethau a bridiau da byw sy'n pori.
c) Ymyriadau rheoli eraill megis clirio prysgwydd, rhedyn, brwyn a gwella ffensys, gatiau, pwyntiau dŵr i hwyluso rheoli pori'n briodol;
d) Ymyriadau rheoli sy'n benodol i rai mathau o gynefinoedd: lladd gwair a chynaeafu (dolydd gwair) a gwrteithio/calchu (dolydd gwair).

7.438 Mae adroddiad ERAMMP yn cyfeirio at dystiolaeth[182] bod angen i daliadau blynyddol ar gyfer rheoli pori gael eu hategu gan daliadau cyfalaf ar gyfer ymyriadau megis tynnu prysgwydd, ffensio a chodi waliau.

7.439 O ran cynefinoedd glaswelltir lled-naturiol iseldir, mae adroddiad ERAMMP yn dyfynnu tystiolaeth[183] o Brosiect Dolydd Cwm Elan:

a) mae asideiddio pridd cynyddol yn safle pob dôl yn annhebygol o gynnal y cymunedau llystyfiant presennol, ac mae angen adfer yr arfer traddodiadol o galchu cyfnodol;
b) mae taenu haen denau o dail buarth fferm bob hyn a hyn yn bwysig i gynnal y cymunedau planhigion a ddymunir ynghyd â darparu cnwd gwair mwy derbyniol;
c) dangoswyd bod rhaglen o redyn a phrysgwydd yn dod â budd sylweddol i ystod ac ansawdd glaswelltir llawn rhywogaethau.

7.440 Mae'r canlyniadau'n dangos bod rhai safleoedd eisoes yn dangos lefelau cyfoeth rhywogaethau sy'n nesáu at lefelau dolydd SoDdGA cyfagos (er heb bresenoldeb rhai rhywogaethau dolydd prinnach) o fewn dim ond 10 mlynedd o ddechrau eu rheoli'n briodol.

---

182 Beaufoy G. a Jones G. (2011) HNV farming in England and Wales – findings from three local projeBPS. EFNCP

183 Hayes M.J., Lowther R.A. (2014) Conservation management of species-rich grasslands in the Elan Valley, Radnorshire. Adroddiad Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru Rhif: 8, 75 tt, Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor.

**Coetiroedd**

7.441 Mae adroddiad ERAMMP yn cyfeirio at dystiolaeth[184] o bedwar dull amgen o reoli cynefinoedd, a allai fod yn berthnasol i'r ardaloedd o goetir hynafol sy'n weddill yng Nghymru:

a) ychydig iawn o ymyrraeth;
b) rheolaeth draddodiadol i fioamrywiaeth;
c) rheolaeth anhraddodiadol i ffafrio un neu ychydig o rywogaethau coed a allai fod wedi bod yn gyffredin yn y gorffennol neu beidio;
d) rheoli rhywogaethau, ar gyfer rhywogaethau sydd dan fygythiad.

7.442 Mae'r adroddiad yn nodi hefyd fod corff cryf o dystiolaeth wyddonol sy'n dangos pwysigrwydd pren marw i lawer o rywogaethau.

7.443 Roedd y ffactorau sy'n cyfrannu at ddirywiad adar coetiroedd eraill yn cynnwys darnio coetiroedd a llai o gysylltedd o ran coetiroedd, ysglyfaethu, newidiadau cynefinoedd a achosir gan boblogaethau uwch o geirw a choetiroedd gwlyb yn parhau i sychu.

*Tir wedi'i wella*

7.444 Mae Adroddiad ERAMMP 25 Atodiad 4B[185] yn ystyried tir fferm wedi'i wella.

## Rheoli glaswelltir yn well

7.445 Mae'r adroddiad ERAMMP yn nodi'r canlynol:

a) Mae tystiolaeth dda y gall addasu dyddiadau torri gwair neu bori cyntaf ar laswelltiroedd wedi'u gwella neu wedi'u lled-wella fod o fudd i blanhigion gwyllt ac

[184] Gotmark, F. (2013) Habitat management alternatives for conservation forests in the temperate zone: Review, synthesis, and implications. Forest Ecology and Management 306, 292-307.
[185] Keenleyside, C.B., Maskell, L.C., Smart, S.M., Siriwardena, G.M. ac Alison, J. (2020). Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (ERAMMP): Report-25: SFS Evidence Review Annex-4B - Building Ecosystem Resilience in Improved Farmland. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (Canolfan Prosiectau Ecoleg a Hydroleg y DU 06297) Adolygiad Tystiolaeth Cynllun Ffermio Cynaliadwy Rhaglen Monitro'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP)

infertebratau, a hefyd mamaliaid pan fo gwair yn cael ei dorri'n anaml iawn. Mae rhai rhywogaethau adar yn elwa ar batrymau torri gwair penodol ond nid yw astudiaethau wedi dangos effeithiau clir ar gyfer adar yn gyffredinol.

b) Mae tystiolaeth dda bod trosi glaswelltir wedi'i wella/lled-wella i laswelltir sy'n llawn rhywogaethau o fudd i blanhigion gwyllt ac infertebratau;

c) Mae tystiolaeth dda bod creu lleiniau clustogi glaswellt parhaol neu ymylon caeau mewn tir âr, a'u rheolaeth ddilynol ar gyfer bioamrywiaeth, yn arwain at fwy o amrywiaeth o blanhigion, pryfed peillio ac infertebratau eraill. Gall y stribedi hyn ddarparu cynefinoedd gwerthfawr i famaliaid bach, ysgyfarnogod brown, draenogod, llyffantod cyffredin, nadroedd y gwair, madfallod cyffredin ac adar.

### *Rheoli tir âr (mewn caeau ac ar ymylon caeau)*

7.446 Mae'r adroddiad ERAMMP yn nodi'r canlynol:

a) Mae tystiolaeth dda o fanteision i infertebratau, gan gynnwys abwydod a biota pridd eraill (yn ogystal â phryfed peillio sy’n ymweld mewn rhai achosion) o'r ymyriadau canlynol wrth reoli cnydau âr: llai o ddefnydd o chwynladdwyr a phlaladdwyr; llai o dechnegau troi'r tir; cylchdroi cnydau (yn enwedig gyda chodlysiau); a chnydau gorchudd.

b) Mae tystiolaeth dda o fanteision bioamrywiaeth o ddau ymyriad mewn rheoli sofl ydau. Mae gadael sofl dros y gaeaf (heb ei chwistrellu) tan ddiwedd y gaeaf yn cael effeithiau cadarnhaol clir ar adar ac ar boblogaethau ysgyfarnogod brown. Mae cyfuno sofl gaeaf heb ei chwistrellu gyda braenar y gwanwyn (fel bod y tir i bob pwrpas yn fraenar am flwyddyn) yn cynnig manteision ychwanegol i amrywiaeth planhigion a strwythur llystyfiant ac amrywiaeth infertebratau, gan barhau i ddarparu cynefin i adar ac ysgyfarnogod brown ar yr un pryd.

c) Mae tystiolaeth dda bod lleiniau braenar neu heb eu hau o fewn cnwd âr yn cael effeithiau cadarnhaol ar yr ehedydd a'r gornchwiglen, a hefyd ar blanhigion.

d) Mae tystiolaeth o fanteision cadarnhaol canlynol i infertebratau o: bentiroedd cadwraeth (wedi'u cnydio ond heb eu chwistrellu); pentiroedd cnydau ŷd heb eu cynaeafu; a phlannu lleiniau neithdar/blodau gwyllt.

7.447 Mae gan goridorau bywyd gwyllt, lleiniau pryfed peillio a banciau chwilod mewn caeau y potensial i ddarparu cynefin i amrywiaeth o fywyd gwyllt. Gall safleoedd gaeafu ar gyfer infertebratau, llochesau ar gyfer mamaliaid bach, adnoddau neithdar a phaill ar gyfer pryfed peillio, a safleoedd nythu a bwydo ar gyfer adar i gyd gael eu hannog drwy greu ymylon caeau. Yn ogystal â bod yn gynefinoedd yn eu rhinwedd eu hunain, maent yn amddiffyn nodweddion eraill, megis gwrychoedd neu gyrsiau dŵr, rhag gweithrediadau'r fferm. Maent hefyd yn gallu gweithredu fel coridorau, gan helpu bywyd gwyllt i symud drwy'r dirwedd.

7.448 Bydd coridorau bywyd gwyllt mewn caeau o fudd i amrywiaeth o rywogaethau bywyd gwyllt ar y fferm. Mae gwahanol opsiynau o ran coridorau bywyd gwyllt mewn caeau yn bosibl, megis hau gyda chymysgedd sypwellt, yn cynnwys blodau gwyllt er budd bwydwyr neithdar, neu drin ymylon ar gyfer planhigion âr prin.

## *Rheoli tir a nodweddion nad ydynt yn amaethyddol*

7.449 Mae'r adroddiad ERAMMP yn nodi'r canlynol:

a) Mae pyllau ar dir fferm yn gynefin pwysig i fywyd gwyllt gwlyptiroedd yn y dirwedd amaethyddol. Mae rhwydweithiau iach o'r pyllau hyn, ar wahanol gyfnodau o'u 'hoes', yn helpu rhywogaethau gwlyptiroedd i symud o amgylch cynefinoedd tir fferm. Bydd creu, adfer a rheoli pyllau fferm o fudd i'r rhan fwyaf o amffibiaid ac adar, ac mae rhywfaint o dystiolaeth yn dangos manteision canlyniadol ar gyfer cyfoeth rhywogaethau daearol yn lleol.

b) Mae gwrychoedd a chynefinoedd llinellol coediog eraill ar dir wedi'i wella yn darparu cynefinoedd ac yn effeithio'n gadarnhaol ar gyfoeth a digonedd fflora, infertebratau ac adar, ac yn cynyddu cysylltedd y dirwedd.

## *Manteision gweithredu*

a) Amcangyfrifodd adroddiad Defra 2011, Economic Valuation of the Benefit of SSSIs,[186] werth economaidd SoDdGA yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â'r ystod ganlynol o nwyddau a gwasanaethau ecosystem:

[186] GHK Consulting Ltd, mewn cydweithrediad â Dr Mike Christie o Brifysgol Aberystwyth, ADAS, IEEP, Rick Minter and the Research Box (2011) Benefits of Sites of Special Scientific Interest, adroddiad i Defra. Mae'r

| Gwasanaethau darparu | Gwasanaethau rheoleiddio | Gwasanaethau diwylliannol |
|---|---|---|
| Bwyd masnachol<br>Bwyd gwyllt<br>Ddim yn fwyd | Rheoleiddio'r hinsawdd<br>Rheoleiddio dŵr<br>Puro dŵr<br>Peillio | Ymdeimlad o le<br>Rhywogaethau carismatig<br>Rhywogaethau nad ydynt yn garismatig |

7.450 Daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol:

a) Yn seiliedig ar yr ardaloedd o gynefinoedd gwahanol yng Nghymru, amcangyfrifir bod y cyhoedd yn fodlon talu £128 miliwn bob blwyddyn am y manteision sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd gan SoDdGA yng Nghymru. Amcangyfrifir bod y manteision ychwanegol o gynyddu'r cyllid i alluogi pob safle i gyrraedd cyflwr ffafriol yn £103 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol yng Nghymru.
b) Byddai cyflawni cyflwr ffafriol i bob SoDdGA yn gwella manteision cadwraeth SoDdGA a'r gwasanaethau ecosystemau y maent yn eu darparu. Byddai disgwyl i'r gwasanaethau rheoleiddio gynyddu wrth i safleoedd gyflawni cyflwr ffafriol, er y byddai hon yn broses hirdymor. Byddai gwasanaethau diwylliannol yn cynyddu, o ganlyniad i'r manteision mae pobl yn eu cael o fodolaeth bioamrywiaeth a'r profiad gwell mae safleoedd yn ei gynnig i bobl. Amcangyfrifir mai cyfanswm gwerth y manteision yw £231 miliwn yn flynyddol.

## ***Gwarchod a gwella tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol***

### *Maint y broblem*

7.451 Mae tua chwarter Cymru wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)[187] neu'n Barc Cenedlaethol[188]. Mae AHNE a Pharciau Cenedlaethol yn cynnwys rhai o ardaloedd mwyaf hardd, ysblennydd a dramatig cefn gwlad Cymru.

adroddiad yn cynnwys disgrifiad llawn o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i amcangyfrif gwerthoedd economaidd. http://randd.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=None&Completed=1&ProjectID=17005

[187] Mae 5 AHNE yng Nghymru: Ynys Môn; Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy; Gŵyr; Llŷn; a Dyffryn Gwy
[188] Mae tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru: Bannau Brycheiniog; Arfordir Penfro; ac Eryri.

Mae'r rhain yn dirweddau o bwys cenedlaethol gyda dynodiad sy’n rhoi'r statws uchaf i gadwraeth tirwedd.

7.452 Nododd adolygiad 2017[189] o dirweddau dynodedig, ‘*er i’r ardaloedd hyn gael eu dynodi yn y lle cyntaf oherwydd ansawdd eu tirwedd ac, yn achos Parciau Cenedlaethol, oherwydd eu bod yn cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, cytunwyd eu bod yn bwysig hefyd oherwydd yr amrywiaeth eang o nodweddion eraill sydd ganddynt, megis byd natur, cyflenwad dŵr, bwyd a charbon.’* Dywedodd yr adolygiad fod angen cymryd camau pellach mewn tirweddau dynodedig i fynd i'r afael â dirywiad bioamrywiaeth er mwyn cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau.

7.453 Mae'r amgylchedd hanesyddol[190] hefyd yn rhan annatod o'n tirwedd ac yn rhan o'r hyn sy'n gwneud Cymru y wlad ydyw. Mae treftadaeth ddiwylliannol, a'i lle yng nghefn gwlad Cymru, yn rhoi persbectif hanesyddol a fynegir drwy'r dirwedd.

7.454 Mae nodweddion hanesyddol heb eu dynodi yn gyffredin drwy ein holl dirweddau. Mae'r mwyafrif helaeth o'r nodweddion hyn i'w gweld ar dir preifat, felly tirfeddianwyr unigol sy'n gofalu am yr asedau diwylliannol hyn yn yr hirdymor. Mae gofyniad trawsgydymffurfio GAEC 7 yn mynd y tu hwnt i ddeddfwriaeth drwy osod rheolau ychwanegol ar ddiogelu henebion cofrestredig a hefyd rai nodweddion tirwedd megis gwrychoedd, waliau cerrig, crawiau a ffosydd. Er hyn, mae'r rhan fwyaf o safleoedd archaeolegol heb eu dynodi yn parhau i fod heb eu diogelu ac mewn perygl o gael eu difrodi gan rai arferion ffermio neu ddirywio oherwydd ddiffyg cynnal a chadw.

7.455 Adroddodd Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir[191] yn 2017 ar gyflwr Nodweddion yr Amgylchedd Hanesyddol ar dir fferm fel a ganlyn:

a) Roedd 8% wedi'u difrodi;
b) Roedd 24% yn dangos arwyddion mawr o ddirywiad;
c) Roedd 11% yn dangos arwyddion o ddirywiad posibl;
d) Roedd 13% yn gadarn, gyda diffygion hirsefydlog;
e) Roedd 35% yn gadarn, gyda mân ddiffygion;

---

[189] Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru. Adolygiad o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru (llyw.cymru)
[190] Mae gan Gymru bedwar o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO, 4,300 o Henebion Cofrestredig (gall henebion o bwysigrwydd cenedlaethol fod yn 'gofrestredig' ac mae'r safleoedd hyn wedi'u diogelu gan y gyfraith rhag gwaith niweidiol) a 58 o dirweddau hanesyddol cofrestredig.
[191] RhMGG-Adroddiad Terfynol -2017.pdf (erammp.wales) (Saesneg yn unig)

f) Roedd 9% mewn cyflwr gwych.

7.456 Y bygythiadau mwyaf a nodwyd ar safleoedd oedd:

a) llystyfiant yn tyfu drostynt (50%);
b) difrod gan stoc (25%) megis sathru, tyllu, treuliad llwybrau; a
c) gweithrediadau amaethyddol (13%), megis rhychu, aredig, draenio, clirio cerrig a gwella porfa.

## *Camau i sicrhau canlyniad*

### *Tirweddau*

7.457 Argymhellodd adolygiad 2015[192] o dirweddau dynodedig yng Nghymru y dylai, '*their special qualities are maintained, enhanced and widely appreciated.'* Dylid nodi y bydd camau a gymerir o dan "ddibenion cymorth" eraill SLM sydd wedi'u rhestru yn y Bil Amaethyddiaeth yn cyfrannu hefyd at rinweddau arbennig tirweddau yng Nghymru.

#### Yr Amgylchedd Hanesyddol

7.458 Mae CADW[193] yn argymell yr opsiynau canlynol i'w hystyried, yn erbyn materion penodol:

**Tabl 51: Materion tirweddau hanesyddol ac opsiynau i fynd i'r afael â nhw**

| Mater | Effaith | Opsiynau i'w hystyried |
|---|---|---|
| Sathru neu erydu gan dda byw | Gall da byw ddifrodi safleoedd archaeolegol drwy sathru neu drwy greu creithiau erydu. Gall hyn anffurfio heneb a difrodi'r wybodaeth sydd ynddi. Weithiau, | • Lleoli cafnau dŵr ac offer bwydo mewn ardaloedd llai sensitif<br>• Symud offer bwydo yn rheolaidd er mwyn lleihau effaith<br>• Peidio â gadael i dda byw bori wrth ymyl heneb yn ystod amgylchiadau gwlyb pan fo'r heneb yn fwy agored i niwed |

192 Yr Athro Terry Marsden John Lloyd-Jones Dr Ruth Williams (2015) Tirweddau Cenedlaethol: Gwireddu eu Potensial Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru - Adroddiad Terfynol (llyw.cymru)
193 CADW (2006) Gofalu am Henebion ar y Fferm (llyw.cymru)

| | | |
|---|---|---|
| | mae hyn yn digwydd yn sgil gor-stocio yn unig ond, yn fwy cyffredin, mae'n gysylltiedig â phwyntiau symud neu gynnull da byw, megis bylchau gatiau a chafnau bwyd | • Addasu nifer y da byw, yn enwedig ar gyfer da byw mwy o faint, megis gwartheg a cheffylau, sy'n gallu amharu'n ddirfawr ar gloddweithiau, neu newid i fath ysgafnach o dda byw i leihau'r posibilrwydd o ddifrod<br>• Cynnal a chadw ffiniau gwrth-stoc mewn cyflwr da<br>• Gosod ffensys newydd a/neu symud bylchau gatiau i helpu i reoli da byw<br>• Atgyweirio creithiau erydiad gydag arweiniad priodol |
| Defnyddio cerbydau fferm | Gall cerbydau achosi difrod pan fydd rhigolau olwynion yn torri i mewn i'r ddaear, yn enwedig ar lethr. Gall cerbydau hefyd wrthdaro'n ddamweiniol â nodweddion sy'n sefyll, gan ddisodli neu ansefydlogi cerrig a gwaith maen. | • Defnyddio llwybr amgen i ffwrdd oddi wrth y safle archeolegol<br>• Ar adegau allweddol o'r flwyddyn, defnyddio cerbydau ysgafnach neu gerbydau sydd â theiars pwysedd ddaear isel<br>• Sefydlu un llwybr parhaol. Gall hyn olygu cryn amharu ar y ddaear, felly dylid ceisio cyngor archaeolegol cyn cyflawni gwaith<br>• Cadw cerbydau i ffwrdd oddi wrth olion sy'n sefyll |
| Gwella glaswelltir | Nid yw defnyddio calch, gwrtaith a chwynladdwyr yn debygol o wneud difrod i olion hynafol. Os oes angen ail-hadu, dylid defnyddio dulliau megis drilio | • Rheoli chwyn drwy eu torri neu ddefnydd wedi'i dargedu o chwynladdwyr<br>• Os oes angen ail-hadu, defnyddio technegau trin y tir sydd â'r effaith leiaf<br>• Gofyn am gyngor (trwy gais sgrinio Asesu Effaith Amgylcheddol) cyn trin y |

| | | |
|---|---|---|
| | uniongyrchol a rhychio hadau, sy'n achosi'r ymyrraeth leiaf, os yw'n bosibl. | tir neu symud cerrig maes a chlogfeini o unrhyw borfa barhaol |
| Adnewyddu tir pori | Mae llawer o nodweddion hanesyddol yng Nghymru yn sefyll mewn tir pori sy'n cael ei drin o bryd i'w gilydd i wella ei gyfansoddiad cyn ei ail-hadu. Er mai anfynych y mae hyn yn digwydd, bob tro y caiff tir ei aredig, gallai hyn ddileu rhan arall o unrhyw archaeoleg sydd o dan y ddaear. | • Sicrhau nad yw'r tir yn cael ei drin yn ddyfnach nag yn y gorffennol<br>• Defnyddio triniaeth ar yr wyneb i wella ffrwythlondeb y tir<br>• Ystyried troi tir bas yn hytrach nag aredig |
| Prysgwydd neu redyn yn gordyfu | Os nad oes pori digonol efallai y bydd prysgwydd, rhedyn a chwyn yn tyfu dros heneb. Gall gwreiddiau, yn enwedig gwreiddgyffion rhedyn, dreiddio dyddodion archaeolegol, gan amharu arnynt. | • Rheoli prysgwydd drwy dorri ar lefel y ddaear a'i drin â chwynladdwr i atal aildyfiant<br>• Osgoi dadwreiddio llystyfiant a phrysgwydd gan fod hyn yn gallu amharu ar unrhyw archaeoleg o dan wyneb y ddaear<br>• Cynyddu pori lle bo'n ymarferol i helpu i atal prysgwydd neu redyn rhag aildyfu |
| Ffensys newydd, pyllau dŵr | Mae codi ffensys, cloddio pyllau a phlannu coed i gyd yn debygol o amharu ar | • Gosod ffensys i ffwrdd o safleoedd archaeolegol lle bynnag y bo modd<br>• Gosod pyllau i ffwrdd o safleoedd archaeolegol |

| | | |
|---|---|---|
| a phlannu coed | unrhyw archaeoleg o dan y ddaear | • Peidio â phlannu coed ar safleoedd archaeolegol heb gyngor arbenigol |
| Gofalu am henebion ar dir âr | Mae tyfu cnydau âr yn difrodi olion archeolegol drwy ddymchwel cloddweithiau, drwy gorddi olion o dan y ddaear a thrwy erydu haenau amddiffynnol o bridd | • Peidio â thyfu cnydau ar safleoedd archaeolegol<br>• Drilio uniongyrchol yn lle aredig<br>• Trin y tir cyn lleied â phosibl — cylchdroi yn lle aredig<br>• Ar dir gwastad, lleihau'r dyfnder aredig presennol i osgoi difrod newydd (mae hyn yn annhebygol o weithio ar lethrau)<br>• Osgoi cyflwyno cyfarpar mwy o faint sy'n cynyddu'r dyfnder aredig<br>• Osgoi is-briddio, clirio cerrig neu weithrediadau draenio newydd<br>• Sicrhau nad yw gweithrediadau tyfu a chynaeafu yn annog cywasgu neu erydu pridd |

### *Manteision gweithredu*

*7.459* Mae ein tirweddau gwarchodedig yn bwysig i'n heconomi ymwelwyr ac yn ffurfio rhan o'n cynnig craidd: Tirweddau naturiol gwarchodedig a hygyrch – sy'n cynnig profiadau lles ystyrlon a chyfoes o ansawdd uchel. Cymeriad y dirwedd, a ffurfiwyd yn rhannol gan arferion amaethyddol, yw un o'r rhinweddau arbennig y mae llawer o'n tirweddau gwarchodedig wedi'u dynodi amdanynt. Mae miliynau o ymwelwyr yn mwynhau'r rhinweddau arbennig hyn bob blwyddyn. Disgrifiodd adolygiad 2015[194] dirluniau dynodedig fel *y 'ffatrïoedd llesiant' newydd, dynamig a chynhyrchiol'.*

7.460 Nododd adolygiad 2017[195] fod rhinweddau arbennig y tirweddau dynodedig yn mynd y tu hwnt i'w gwerth gweledol ac amwynder a'u bod yn derbyn eu rôl hanfodol

194 Yr Athro Terry Marsden John Lloyd-Jones Dr Ruth Williams (2015) Tirweddau Cenedlaethol: Gwireddu eu Potensial Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru Yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru - Adroddiad Terfynol (llyw.cymru)

195 Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru. Yr Adolygiad o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru (llyw.cymru)

fel darparwr budd cyhoeddus a phreifat ehangach o fewn eu hardaloedd a thu hwnt a bod y cyswllt cynhenid rhwng pobl a lle yn ffurfio conglfaen pwysig o lesiant yng Nghymru.

7.461 Mae CADW yn dweud[196] nad yw nodweddion hanesyddol yn perthyn i archaeolegwyr a haneswyr yn unig. Maent yn adnodd i bawb ac yn gwneud cyfraniad enfawr i'n heconomi heddiw. Maent yn rhan hanfodol o dirwedd sy'n denu miliynau o ymwelwyr ac yn sail i ddiwydiant twristiaeth ffyniannus. Maent yn ychwanegu diddordeb at ystod o weithgareddau hamdden cefn gwlad ac yn cefnogi ystod eang o fusnesau fferm sydd wedi arallgyfeirio yn anuniongyrchol, o lety gwely a brecwast i farchnadoedd ffermwyr.

## ***Gwella ansawdd aer***

### *Maint y broblem*

7.462 Mae dod i gysylltiad â llygryddion aer yn cynyddu iechyd gwael a marwolaethau cynnar. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif bod yr hyn sy'n cyfateb i tua 1,604 o farwolaethau yn cael eu priodoli'n flynyddol i gysylltiad â $PM_{2.5}$ a 1,108 o farwolaethau i gysylltiad ag $NO_2$. Gall llygredd aer effeithio'n anghymesur ar grwpiau poblogaeth sy'n agored i niwed e.e. plant, pobl hŷn, rhai sydd ag afiechyd sylfaenol. Amcangyfrifir mai cost i gymdeithas llygredd aer o gostau i'r gwasanaeth iechyd a cholli diwrnodau gwaith yng Nghymru yw £1 biliwn bob blwyddyn[197].

7.463 Nid yw amonia ($NH_3$) mewn crynodiadau isel yn effeithio ar iechyd pobl, ond mae'n cyfuno â nwyon eraill i wneud Deunydd Gronynnol (gan gynnwys $PM_{2.5}$). Mae amaethyddiaeth yn cyfrannu tua 85% o allyriadau amonia Cymru[198].

7.464 Mae ansawdd aer gwael hefyd yn cael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth. Gall amonia, a'r dyddodiadau nitrogen sy'n deillio ohono, asideiddio priddoedd a dŵr, gwenwyno cennau ac achosi i rai planhigion berfformio'n well nag eraill[199].

7.465 Mesurodd y dystiolaeth isod gost amonia i fioamrywiaeth yn y DU. Er nad oes consensws clir ynghylch y dull gorau o amcangyfrif costau bioamrywiaeth a gollir,

---

[196] CADW (2006) Gofalu am Henebion ar y Fferm (llyw.cymru)
[197] https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/08/PHW-MAD-Air-Pollution-final-Cymraeg.pdf
[198] 40794 Cynllun Aer Glân i Gymru (llyw.cymru)
[199] Ammonia-report.pdf (royalsociety.org)

roedd yr astudiaethau a nodwyd yn awgrymu costau yn yr ystod o £0.2-£4.0 fesul cilogram o amonia[200].

**Tabl 52. Gwerthoedd amcangyfrifedig colledion bioamrywiaeth oherwydd allyriadau amonia**

| **Dull** | **Amcangyfrif (£ fesul cilogram o $NH_3$, prisiau 2018[201])** | **Cafeatau** | **Ffynonellau** |
|---|---|---|---|
| Parodrwydd i dalu | £0.42[202] | Yn cynnwys dadansoddiad yn ôl y math o gynefin ac yn nodi ymateb dos gwahaniaethol yn dibynnu ar ddyddodiad nitrogen presennol. Penodol i'r DU. | Jones et al. (2018) |
| Adfer ecosystemau | £0.24 i'r DU[203] | Yn rhagdybio bod cymdeithas yn barod i ysgwyddo costau adfer a darparu amcangyfrif is o'r costau hynny. | Ott et al.(2006) |
| Difrod i ecosystemau drwy ddyddodiad daearol – adolygu a dadansoddi amcangyfrifon blaenorol[204] | £3.40–£16.80[205] | Ar gyfer Ewrop i gyd, nid yn benodol i'r DU. Yn seiliedig ar amcangyfrifon ar gyfer nitrogen yn hytrach nag amonia yn benodol. | Brink et al. (2011) |
| Costau amgylcheddol ewtroffigedd dŵr croyw, dull cymysg | £0.60[206] | Dim gwahaniaeth rhwng effaith nitrogen a ffosfforws, ac mae costau'n eithaf heterogenaidd. Gwerthoedd wedi'u hallosod gan Brink et al. (2011) ar gyfer N yn unig. Costau dŵr croyw yn unig. | Pretty et al., (2003), a ddadansoddwyd gan Brink et al. (2011) |
| Dewis rheoleiddiol datganedig | £3.70 i'r DU[207] | Yn seiliedig ar gymharu deddfwriaeth bresennol â'r costau sy'n gysylltiedig â dulliau deddfwriaethol amgen a'r gostyngiadau mewn allyriadau y byddent yn eu cynhyrchu. | Eclaire (2015) |

200 Ammonia-report.pdf (royalsociety.org)
201 Wedi'i drosi i brisiau 2018 gan ddefnyddio Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018).
202 £414 y dunnell (prisiau 2017).
203 €0.12 y cilogram yn y DU (prisiau 2004).
204 Terfyn isaf yn seiliedig ar Ott et al. (2006) yn cynrychioli cost adfer colled bioamrywiaeth; terfyn uchaf wedi'i bennu ar swm sydd bum gwaith y terfyn isaf fel gwerth posibl wrth ddefnyddio dull gwasanaeth ecosystem
205 €2–10 y cilogram o N, ym mhrisiau 2004.
206 €0.30 y cilogram o N, prisiau 2002
207 Prisiau 2014 rhagdybiedig (heb eu nodi).

Ffynhonnell: RAND Europe Analysis - Royal Society Evidence Synthesis report on Ammonia[208]

7.466 Mae gan gamau gweithredu sy'n cael eu hariannu o dan y diben hwn y potensial i gynnig arbedion cost drwy leihau iechyd gwael a marwolaethau cynnar a sicrhau manteision bioamrywiaeth. Yn eu tro, gall y manteision bioamrywiaeth hyn gyfrannu at ganlyniadau iechyd cadarnhaol drwy sicrhau bod ecosystemau'n gallu parhau i ryng-gipio gronynnau niweidiol.

### *Targedau*

7.467 Er mwyn llwyddo i gyrraedd y targed ar gyfer 2030 a bennwyd gan y Gyfarwyddeb Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol (NECD), bydd angen i allyriadau amonia'r DU fod 16% yn is o gymharu â lefelau 2005. O gymharu â'r llygryddion NECD eraill, mae allyriadau amonia wedi amrywio, gan ddisgyn rhwng 1990 a 2007 ond codi ers hynny. Ers 2005, nid yw allyriadau amonia o amaethyddiaeth wedi gweld gostyngiadau sylweddol ar lefel y DU; yn wir, roedd allyriadau amonia o wrtaith a gweddillion treuliad anaerobig yn uwch yn 2019 nag yn 2005[209].

## *Camau i sicrhau'r canlyniad*

### *Technegau gwasgaru isel*

7.468 Mae eisoes yn ofynnol i ffermwyr ddefnyddio cyfarpar gwasgaru gyda thaflwybr isel o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, ond gall dulliau manwl-gywir arwain at lai fyth o allyriadau a mwy o fanteision. Gall ymgorffori tail o dan wyneb y pridd leihau allyriadau amonia hyd at 98%[210]. Fodd bynnag, mae amseru'r gwasgaru yn bwysig, pan fo'r cnwd yn gallu cymryd maethynnau orau. Mae gwasgaru slyri yn ystod yr hydref a'r gaeaf yn arwain at ormod o nitrogen yn y pridd, pan fo mwy o leithder yn y pridd, tra bod allyriadau'n llawer is pan fo slyri'n cael ei wasgaru yn y gwanwyn[211]**.** Dim ond pan fo'r pridd yn

[208] Ammonia-report.pdf (royalsociety.org)
[209] Rhestr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol, 'Ammonia emissions from agriculture'.
[210] ERAMMP Adroddiad-68 Adolygiad o Dystiolaeth Datgarboneiddio_cym.pdf
[211] NEWID HINSAWDD AC AMAETHYDDIAETH – OPSIYNAU LLINIARU AC ADDASU (llyw.cymru)

sych y dylid cynnal chwistrellu dwfn, sy'n gallu arwain at ostyngiad o 90% mewn allyriadau amonia[212], er mwyn atal llygredd dŵr.

### *Cloriau storfeydd slyri*

7.469 Mae gosod clawr dros storfa slyri, sy'n gallu bod ar ffurf clawr sefydlog, cynfas sy’n arnofio ar wyneb y slyri neu fagiau slyri, yn atal dŵr glaw rhag gwanedu’r slyri, gan arwain at arbediad ym maint y storfa. Mae gan bob math o orchudd ei fanteision a’i anfanteision. Ar gyfer tanciau dur a choncrit newydd, dangosodd tystiolaeth o fodelu ERAMMP[213] fod cloriau anhyblyg ysgafn a gorchuddion hyblyg, tebyg i babell yn lleihau allyriadau amonia o storfa tua 80%. Mae cynfasau arnofio yn opsiwn da ar gyfer lagwnau â chloddiau pridd, gan allyrru 50% yn llai o amonia na storfa heb ei gorchuddio. Gall bagiau slyri ostwng allyriadau amonia o'r storfa oddeutu 95% ond dim ond hyn a hyn y gallant ddal ac efallai na fyddant yn addas ar gyfer pob lleoliad.

### *Siediau da byw*

7.470 Gellir lleihau allyriadau amonia drwy drosglwyddo slyri i storfa cyn gynted â phosibl a lleihau'r cysylltiad ag aer. Mae'r atebion i leihau allyriadau yn cynnwys carthu’n aml, cadw tail dofednod yn sych, triniaeth aer a lloriau allyriadau isel. Dangosodd allbynnau model ERAMMP[214] y canlynol:

a) **Carthu'n aml (gwartheg godro)** – Arwain at 15% yn llai o allyriadau amonia mewn siediau.

b) **Lloriau allyriadau isel (gwartheg godro)** - Gall systemau llawr gyda rhychau a sgrafelliwr dannedd leihau allyriadau amonia mewn siediau 35%.

c) **Sychu tail dofednod** – Mae cynyddu deunydd sych o 30% i 60% yn lleihau amonia 30%.

d) **Triniaeth aer** – Systemau sydd wedi'u gosod ar allfeydd siediau sydd wedi'u hawyru'n fecanyddol ac sy'n effeithiol lle mae'r anifeiliaid yn cael eu cadw dan do am y rhan fwyaf o'r amser, gyda rhai yn lleihau allyriadau amonia yn yr aer hyd at 90%

---

[212] Low emission slurry spreading systems help to reduce ammonia emissions (qub.ac.uk)
[213] ERAMMP SFS Adolygiad Tystiolaeth 8 Ansawdd Aer f1.1.pdf
[214] Ibid.

### ***Manteision Ychwanegol i Ffermwyr***

*Targedu gwasgaru slyri*

7.471 Mae angen defnyddio lefelau is o wrtaith i ddiwallu anghenion cnydau wrth i golledion i'r aer a dŵr leihau. Gall gwerth nitrogen a gaiff ei ennill drwy wasgaru slyri â pheiriant gwasgaru slyri allyriadau isel o gymharu â phlât tasgu, yn dibynnu ar yr amser o'r flwyddyn, fod mor uchel â[215]:

a) £12/ha yn fwy gyda system 'trailing shoe';
b) £19/ha yn fwy gyda chwistrelliad bas.

7.472 Gall gwasgaru wedi'i dargedu fel hyn arwain at fwy o gynnyrch hefyd. Amcangyfrifir bod defnyddio system 'trailing shoe' yn cynyddu cynnyrch ail gnwd silwair 21% o gymharu â'r defnydd o blât tasgu216.

*Gorchudd storfa slyri*

7.473 Mae arbedion yn codi o ostyngiad yng nghyfanswm y slyri sydd angen ei storio ac o'r ffaith bod slyri â gwerth gwrtaith uwch drwy gael ei wanhau llai gan law. Mewn astudiaeth achos Ffermio Sensitif i Ddalgylch Afon, arbedodd y fferm £1,658 y flwyddyn drwy ddargyfeirio dŵr i ffwrdd o'r storfa slyri[217] yn ogystal â lleihau allyriadau amonia a gwella cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol.

*Siediau da byw allyriadau isel*

7.474 Mae carthu'n aml a lloriau allyriadau isel yn cyfrannu at arbedion posibl drwy wella amodau byw ac iechyd traed anifeiliaid, gan eu bod yn darparu amgylchedd glanach a sychach ar gyfer da byw.

---

[215] 2020 - Spreading the benefits – Low Emission Slurry Spreading (LESS) - Teagasc | Agriculture and Food Development Authority
[216] AFBI Low emission slurry spreading systems help to reduce ammonia emissions (qub.ac.uk)
[217] Reducing ammonia emissions from slurry storage on a dairy farm - CSF171 (naturalengland.org.uk)

### ***Gwella ansawdd dŵr***

*Maint y broblem*

7.475 Amcangyfrifir bod colledion maethynnau i ddŵr o amaethyddiaeth yng Nghymru yn oddeutu 37,000 tunnell o nitrad-N a 700 tunnell o ffosfforws i ddŵr bob blwyddyn[218]. Yn ogystal â bod yn niweidiol i ansawdd dŵr, mae colli maethynnau yn effeithio ar berfformiad busnes fferm hefyd.

7.476 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi nodi llygredd ffosfforws fel "problem sylweddol" mewn afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yng Nghymru ac wedi cyflwyno targedau diwygiedig sydd gryn dipyn yn llymach ar gyfer lleihau llygredd ffosfforws[219]. Mae CNC yn nodi risgiau blodau algaidd, colli rhywogaethau sy'n sensitif i faethynnau a dadocsigeneiddio swbstradau afonydd. Mae CNC yn nodi hefyd mai dŵr sy'n draenio o ffermydd a thir fferm yw un o'r pum prif achos o lygredd dyfroedd ymdrochi, gyda thail a slyri yn golchi i afonydd, gan arwain at ysgarthion yn cyrraedd y môr.

7.477 Mae colli adnodd pridd drwy erydu yn effeithio ar ansawdd dŵr hefyd, a gall gyfrannu at ewtroffigedd dyfroedd, ansawdd dŵr gwael sy'n arwain at swyddogaeth ecosystem wael, a gwaddodiad mewn cyrsiau dŵr[220]. Yn ogystal, mae adroddiad Sefydliad Bwyd ac Amaeth (FAO) y Cenhedloedd Unedig (UN), 'Status of the World's Soil Resources'[221], yn nodi y gallai diraddio ac erydu pridd arwain at broblemau o ran cynhyrchu digon o fwyd i ateb y galw. Felly, mae angen cymryd camau i leihau erydiad pridd ar gyfer diogeledd bwyd yn ogystal ag ansawdd dŵr.

7.478 Mae costau'n codi o ansawdd dŵr gwael mewn nifer o ffyrdd, y mwyaf nodedig o'r rhain yw cost glanhau a thrin dŵr llygredig. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi amcangyfrif bod cost llygredd dŵr rhwng £700 miliwn ac £1.3 miliwn y flwyddyn yng Nghymru a Lloegr[222]. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn amcangyfrif bod tua dwy ran o dair o'r llygredd gwasgaredig yng nghyrsiau dŵr Cymru a Lloegr yn dod o

---

[218] Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP) Cynllun Ffermio Cynaliadwy - Adolygiad Tystiolaeth - Adolygiad Technegol

[219] Asesiad Cydymffurfiaeth Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws (Saesneg yn unig)

[220] Environment and Rural Affairs Monitoring & Modelling Programme (erammp.wales)

[221] Status of the World's Soil Resources: Main Report (fao.org)

[222] National Audit Office Report (HC 188 2010-2011): Environment Agency: Tackling diffuse water pollution in England (nao.org.uk)

amaethyddiaeth, gan gynnwys 60% o nitradau, 25% o ffosffadau a 75% o waddodion[223]. Yn ogystal, gwaetha'n byd yw ansawdd y dŵr, mwya'n byd y mae'n ei gostio i'w drin cyn cael ei yfed gan bobl, a bydd defnyddwyr yn ysgwyddo'r costau hyn trwy eu biliau dŵr.

7.479 Yng Nghymru, mae cyrff dŵr arfordirol a mewndirol yn darparu amgylchedd ar gyfer chwaraeon a hamdden, i drigolion a thwristiaid. Soniwyd am gymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau awyr agored (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â dŵr) fel rheswm dros ymweld â Chymru gan 44% o ymwelwyr sy'n aros dros nos, 30% o ymwelwyr dydd a 45% o ymwelwyr o dramor yn 2019[224], gyda "Chwaraeon, difyrrwch a gweithgareddau hamdden" yn cynhyrchu £467 miliwn o Werth Ychwanegol Gros yng Nghymru yn yr un flwyddyn[225]. Dangosodd data o Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014/15 fod £5.6 biliwn wedi'i wario yn ystod ymweliadau â'r awyr agored ar gyfer hamddena gan bobl sy'n byw yng Nghymru, gyda 63% yn gwario arian wrth ymweld â'r traeth, 74% wrth ymweld â'r môr a 64% wrth ymweld ag arfordir eraill.

7.480 Yn ôl ymchwil ar ansawdd dŵr yng Nghymru '...improving water quality of a beach from good to excellent has an estimated value of £2.58 per existing visit and leads to an average 52% increase in the number of visits, resulting in an overall value of £199,164/month per person' and that 'Improving water quality of a river stretch to above bad/poor has a value of £0.99 per existing visit and leads to a 64% increase in the number of visits, resulting in an overall value of £15,671/month per person'[226]. Mae hyn yn dangos maint y gost bosibl o enillion economaidd a gollir oherwydd ansawdd dŵr gwael, yn ogystal â'r golled bosibl pe bai ansawdd dŵr yn dirywio.

### *Targedau*

7.481 Yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE, mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi'i chadw yng nghyfraith y DU ac mae gan CNC gynlluniau ar waith i fodloni'r Gyfarwyddeb.

---

223 Layout 1 (ofwat.gov.uk)
224 Arolwg Ymwelwyr Cymru: 2019 | LLYW.CYMRU
225 Proffil Economi Ymwelwyr Cymru: 2021 | LLYW.CYMRU
226 Revealed preference valuation of beach and river water quality in Wales: Journal of Environmental Economics and Policy: Vol 11, No 1 (tandfonline.com)

Mae gan CNC dargedau o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd hefyd, er enghraifft, mewn perthynas â ffosfforws fel y nodwyd uchod.

7.482 Mae Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru nodi pob ardal ymdrochi boblogaidd yng Nghymru yn flynyddol a monitro ansawdd yr ardaloedd ymdrochi hyn. Yn 2021, roedd 105 o ardaloedd dyfroedd ymdrochi yng Nghymru, gydag 85 yn cael eu hystyried yn rhai "rhagorol", 14 yn "dda", a chwech yn "ddigonol”.

## *Camau i sicrhau’r canlyniad*

7.483 Mae'r camau y gellir eu cymryd o fewn amaethyddiaeth i wella ansawdd dŵr yn cynnwys y rhai sy'n rhyng-gipio llygryddion cyn iddynt fynd i mewn i gyrsiau dŵr, a'r rhai sy'n lleihau allyriadau llygryddion yn y lle cyntaf.

7.484 **Ardaloedd glan afon -** ardaloedd glaswelltir naturiol neu wedi'u hailsefydlu neu goridorau wrth ymyl yr afon sy'n cynnwys coed, llwyni a glaswellt, sy'n gweithredu fel clustog yn erbyn colli maethynnau i ddŵr. Maent hefyd yn darparu cysgod sy'n gallu atal twf algáu a thymheredd dŵr is. Fodd bynnag, rhaid rheoli parthau glan afon yn briodol oherwydd y risg o ddeunydd coed yn rhwystro neu'n difrodi ceuffosydd a phontydd i lawr yr afon a fyddai'n cynyddu yn hytrach na lleihau risg llifogydd.

a) **Cynlluniau Rheoli Maethynnau (NMP)** – mae cyfanswm unrhyw faethynnau sy'n cael eu hychwanegu at bridd ac amseru'r gwasgaru yn bwysig i ateb y galw am faethynnau ac atal llygredd diangen trwy golledion. Mae deall cyfansoddiad pridd, drwy brofi, a gofynion maethol cnydau yn helpu i bennu dewis cnydau a chaniatáu gwasgaru maethynnau sy'n bodloni'r cnwd, gan arwain at wasgaru sy'n angenrheidiol yn unig. Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr ymgymryd ag NMP mewn perthynas â nitrogen, ond gall ffermwyr leihau eu hallyriadau ymhellach drwy gynnal profion fel rhan o'u cynllun, a chynnal cynllunio mewn perthynas â maethynnau eraill megis ffosfforws.

b) **Cnydau gorchudd amlrywogaeth** – Cânt eu plannu pan fyddai'r tir yn foel fel arall, er mwyn atal gormodedd o ddŵr yn y pridd ac i leihau dŵr ffo, yn enwedig o ganlyniad i lawiad trwm. Mae defnyddio rhywogaethau lluosog yn helpu i gydbwyso maethynnau, gan wella ffrwythlondeb. Mae ymchwil yn awgrymu y gall cost gweithredu gael ei wrthbwyso gan fwy o gynnyrch yn y dyfodol.

## ***Manteision gweithredu***

### *Ardaloedd glan afon*

7.485 Mae tystiolaeth ERAMMP[227] yn awgrymu nad yw technegau rheoli llifogydd naturiol megis parthau glan afon yn debygol o roi llawer o ryddhad mewn digwyddiadau llifogydd mawr ac eithafol, ond gellir gwireddu eu gwerth yn rhyng-gipio llygryddion yn gymharol gyflym. Bydd y gwelliannau sy'n deillio o hynny i ansawdd dŵr yn arwain at lai o gostau trin dŵr a budd economaidd drwy chwaraeon, hamdden a thwristiaeth yn fewndirol ac ar yr arfordir.

7.486 Mae Coed Cadw hefyd yn nodi y gall cynnydd mewn tymheredd dŵr amharu ar ecosystemau afonydd, gan effeithio ar ansawdd dŵr. Mae'r cysgod a ddarperir gan goed, llwyni a llystyfiant arall yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i dymheredd dŵr, gan sicrhau manteision ecolegol[228].

**Cynlluniau Rheoli Maethynnau (NMP)**

7.487 Gall NMP ddod â manteision i'r cyhoedd ac i fusnesau fferm. Bydd lleihau'r tebygolrwydd y bydd maethynnau'n mynd i gyrsiau dŵr yn arwain at fanteision mewn perthynas â chostau trin dŵr (sy'n cael eu talu yn y pen draw gan ddefnyddwyr drwy eu biliau dŵr). Bydd dealltwriaeth o ofynion maethynnau, a defnyddio maethynnau yn briodol, yn gwella proffidioldeb fferm drwy ddefnyddio llai o wrtaith[229.] Canfu Newell Price et al., (2011) y gallai defnyddio systemau argymell gwrtaith leihau colledion ffosfforws tua 5%, yn dibynnu ar y defnydd presennol o faethynnau[230.]

### *Cnydau gorchudd amlrywogaeth*

7.488 Mae tystiolaeth wedi dangos, er bod cymhelliant ariannol amlwg i ffermwyr dyfu'r cnwd mwyaf proffidiol bob amser, mae cynnydd o ran cynnyrch hirdymor sy'n gwrthbwyso costau tymor byr cyflwyno cylchdroadau cnydau. Mae hyn yn deillio o

[227] ERAMMP SFS Adolygiad Tystiolaeth Atodiad 9 Lleihau Llifogydd f1.1.pdf
[228] keeping-rivers-cool.pdf (woodlandtrust.org.uk)
[229] Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP) Cynllun Ffermio Cynaliadwy Adroddiad Terfynol Atodiad Technegol
[230] Method No (alterra.nl)

ailgyflenwi maethynnau a thorri cylchoedd clefydau a phlâu231. Canfu astudiaeth yn 2016 gan y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) dros bum mlynedd ymateb cynnyrch cymedrig o 0.36 t/ha yn sgil defnyddio cnydau yn yr hydref cyn haidd y gwanwyn, gan arwain at fudd o £43/ha yn haidd y gwanwyn gyda gwasgaru nitrogen-N nodweddiadol232. Roedd y cynnydd yn fwy lle na ddefnyddiwyd N, er bod budd cynnyrch a phris yn is ar y cyfan. Mae astudiaethau eraill hefyd wedi gweld mwy o gynnyrch gyda gwahanol gnydau[233]. Mae defnyddio llai o wrtaith yn rhoi arbedion pellach[234].

**Tabl 53: Ymatebion cymedrig (pum mlynedd) ar gyfer cynnyrch cnwd a maint elw dros N ar gyfer defnydd cnydau gorchudd yr hydref cyn barlys y gwanwyn**

| | Dim cnwd gorchudd | Yn dilyn cnwd gorchudd | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Cynnyrch (t/ha) | | | |
| Dim gwasgaru N | 3.64 | 4.6 | 0.96 (+26%) |
| N wedi'i gwasgaru ar 150kg/ha | 5.56 | 5.92 | 0.36 (+8%) |
| Maint elw pris (£/ha) dros N | | | |
| Dim gwasgaru N | 437 | 552 | 115 |
| N wedi'i wasgaru ar 150kg/ha | 567 | 610 | 43 |

Rhagdybio N ar £0.67/kg a haidd ar £1.20/t

*Ffynhonnell: White, Holmes, Morris, a Stobart: Research Review No. 90 'A review of the benefits, optimal crop management practices and knowledge gaps associated with different cover crop species.'*

7.489 Yn ogystal, mae gwell strwythur pridd yn arwain at ddraeniad gwell, llai o risg o sychder, llai o ddibyniaeth ar fwydydd anifeiliaid protein soi wedi'u mewnforio (lle mae cynhyrchu codlysiau wedi'i gynnwys) a rheoli chwyn. Mae ffermwyr a chymdeithas yn teimlo'r manteision hyn, gyda llai o fewnforion yn cyfrannu at fynd i'r

231 Microsoft Word - 120712 Crop rotation briefing_final (foeeurope.org)
232 rr90.pdf (windows.net)
233 NFS-313-AAB-NFS-2014.pdf (tmaf.co.uk), SustainablesoilmanagementandcovercroppracticesESA2016.pdf,
234 Microsoft Word - 120712 Crop rotation briefing_final (foeeurope.org)

afael â'r newid yn yr hinsawdd, a llai o angen am ymyriadau rheoli chwyn, gan arbed amser ac arian i ffermwyr.

### ***Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol, a'u hymgysylltiad â nhw***

*Maint y broblem*

7.490 Mae gan Gymru dros 20,000 o filltiroedd (33,000 cilometr) o hawliau tramwy cyhoeddus[235]. Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn cynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd sy'n agored i'r holl draffig. Dywedodd y Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir[236] fod 66% o hawliau tramwy cyhoeddus yn hawdd eu defnyddio[237], a nodwyd ei bod yn ymddangos bod hyn wedi cynyddu'n raddol dros y 10 mlynedd diwethaf o linell sylfaen o tua 40%[238].

7.491 Mae'r Cod Cefn Gwlad[239] wedi cael ei gynhyrchu a'i hysbysebu, ar ryw ffurf neu'i gilydd, ers 1951 i fodloni dyletswydd CNC a Natural England i hysbysu am ymddygiad cyfrifol a rhoi cyhoeddusrwydd iddo. Er bod gofyniad i hysbysu'r cyhoedd am eu cyfrifoldebau mewn perthynas â mynediad i'r cyhoedd, dogfen gynghori yn unig yw'r Cod Cefn Gwlad.

7.492 Mae 60,000 hectar o dir mynediad agored hefyd[240]. O dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, mae un rhan o bump o'r wlad bellach wedi'i mapio fel ardal hygyrch i gerddwyr. Yn gyffredinol, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n mynd ar y tir hwn ymddwyn yn gyfrifol a pheidio ag ymyrryd â rheoli tir[241].

7.493 Lle nad oes hawl mynediad sy'n galluogi'r cyhoedd i gyrraedd ardal o dir mynediad CRoW, nid oes ganddynt yr hawl i groesi tir arall. Er mwyn iddynt gael mynediad,

---

[235] Cael mynediad i gefn gwlad | LLYW.CYMRU
[236] GMEP-Final-Report-2017.pdf (erammp.wales)
[237] Mae'r ffigur yn cyfeirio at y cyfnod rhwng 2013-16
[238] 41% yn 2005-06
[239] Cyfoeth Naturiol Cymru / Y Cod Cefn Gwlad: cyngor i'r rhai sy'n ymweld â chefn gwlad
[240] Mae tir mynediad agored, o dan Ddeddf CRoW, yn cynnwys cefn gwlad agored (mynydd, gwaun, rhostir a thir isel) a 'thir comin cofrestredig', sy'n cynnwys tir a gofnodir ar y cofrestrau swyddogol a ddelir gan awdurdodau cofrestru'r tiroedd comin. Mae hefyd yn cynnwys ardaloedd o 'dir pwrpasol' lle mae perchnogion, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, yn caniatáu mynediad am ddim. Nid yw'n cynnwys glaswelltir wedi'i wella'n amaethyddol na'i led-wella; Cyfoeth Naturiol Cymru / Tir Mynediad Agored
[241] Rheoli Mynediad Cyhoeddus i Ardaloedd o Dir (cyfoethnaturiol.cymru)

byddai angen gwneud darpariaeth drwy orchymyn creu llwybr neu ar hyd llwybr caniataol[242].

*7.494* Argymhellodd Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad Llywodraeth Cymru yn ei adroddiad yn 2021[243] y dylid "sicrhau bod cyllid amaeth-amgylcheddol ar gael ar gyfer gwelliannau i fynediad a'r seilwaith ategol, gan nodi, 'y gallai cynllun cyllido amaethyddol diwygiedig ar ôl Brexit gefnogi'r gwaith o wella mynediad ymarferol i dir mynediad, ac oddi mewn iddo.'

## ***Costau'r mater i ddiwydiant/cymdeithas***

7.495 Mae tystiolaeth o 2014 yn dangos mai dim ond 28% o holl oedolion Cymru sy'n bodloni'r lefel gweithgarwch corfforol a argymhellir drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored.[244]

7.496 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru[245] yn amcangyfrif y canlynol

a) Mae bod yn egnïol yn gorfforol o fudd i iechyd unigolion a'r boblogaeth ac yn lleihau'r risgiau o ordewdra a chyflyrau cronig; costiodd anweithgarwch £35 miliwn i'r *Gwasanaeth Iechyd Gwladol* (GIG) yng Nghymru yn 2015[246].

b) Nodwyd bod cefnogi cerdded a beicio yn 'ddewis gorau' i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol[247].

7.497 Mae gwaith mwy diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru[248] wedi nodi bod un astudiaeth[249] yn amcangyfrif bod cost flynyddol gordewdra ar ei ben ei hun i'r GIG yng Nghymru dros £73 miliwn yn 2008-09, a gynyddodd i bron i £86 miliwn pe bai gordewdra a bod dros bwysau'n cael eu cynnwys. Cafodd y rhain eu hamlygu gan yr

---

[242] Rheoli Mynediad Cyhoeddus i Ardaloedd o Dir (cyfoethnaturiol.cymru)
[243] Adroddiad Cyngor Terfynol y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad (llyw.cymru)
[244] CNC. 2015. Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014: Adroddiad Terfynol. Cyhoeddwyd Gorffennaf 2015. Rhif yr adroddiad: 260-119555. Cyfoeth Naturiol Cymru a ddyfynnir yn SONARR.
[245] Iechyd Cyhoeddus Cymru 2018 Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol
[246] Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae anweithgarwch corfforol yn costio £35 miliwn y flwyddyn i GIG Cymru - ymchwil newydd. [Datganiad i'r wasg] (10 Hyd 2017) [Dyfynnwyd yn 2018 Mawrth 2018]. ]Ar gael yn: http://www.screeningforlife.wales.nhs.uk/news/46348

[247] Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gwneud gwahaniaeth: Buddsoddi mewn iechyd a lles cynaliadwy ar gyfer pobl Cymru. Tystiolaeth ategol 2016. Iechyd Cyhoeddus Cymru. [Ar-lein] 2016. Ar gael yn: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/87106

[248] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach – Ymgorffori templed ar gyfer polisi cynllunio
[249] C. J. Phillips, C. Harper, J. Rance ac A. Farr, "Assessing the costs to the NHS associated with alcohol and obesity in Wales," Llywodraeth Cymru, 2010 a ddyfynnir yn Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021).

awduron fel amcangyfrifon ceidwadol a fydd wedi cynyddu dros y degawd canlynol. Yn ôl astudiaeth[250] fwy diweddar sy'n edrych ar gostau a ragwelir i'r GIG yng Nghymru, os bydd lefelau gordewdra yn parhau i godi, bydd yn costio £465 miliwn y flwyddyn erbyn 2050, gyda'r gost i gymdeithas a'r economi yn ei chyfanrwydd yn £2.4 biliwn.

## *Camau i sicrhau'r canlyniad*

7.498 Mae'r camau y gellid eu cymryd yn y maes hwn i helpu pobl i ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol a chael mynediad iddo yn cynnwys:

a) uwchraddio llwybrau cerdded i fod yn llwybrau aml-ddefnydd
b) gwella llwybrau presennol i'w gwneud yn fwy hygyrch
c) sefydlu llwybrau cysylltiedig a llwybrau mynediad newydd
d) sefydlu mynediad newydd

7.499 Mae cyngor cynhwysfawr gan Cyfoeth Naturiol Cymru[251] i reolwyr tir ynglŷn â'r camau y dylent eu hystyried i helpu ymwelwyr â'u tir i ddilyn y Cod Cefn Gwlad.

### Manteision y camau cyflawni

7.500 O ran cyfraniad uniongyrchol hygyrchedd cefn gwlad Cymru, nododd Amaethyddiaeth yng Nghymru[252]:

a) Mae safon cefn gwlad a thirwedd Cymru wedi cael ei nodi fel cymhelliant allweddol i ymwelwyr - gwnaeth dros hanner yr ymwelwyr dydd (54%) o'r DU a thua dwy ran o dair (67%) o ymwelwyr sy'n aros yma o'r DU restru'r dirwedd fel rheswm dros ymweld yn 2016.
b) Mae Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016[253] yn datgelu bod ymwelwyr dydd o'r DU, ymwelwyr sy'n aros o'r DU, ac ymwelwyr o dramor yn fodlon iawn gyda'u taith i Gymru.

[250] Iechyd Cyhoeddus Cymru, "Gwneud Gwahaniaeth: Buddsoddi mewn Iechyd a Lles Cynaliadwy ar gyfer Pobl Cymru (Crynodeb Gweithredol)," 2016.
[251] Cyfoeth Naturiol Cymru / Y Cod Cefn Gwlad: cyngor i reolwyr tir
[252] Llywodraeth Cymru (2019) Amaethyddiaeth yng Nghymru Amaethyddiaeth yng Nghymru | LLYW.CYMRU
[253] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016: Ymwelwyr sy'n aros o'r DU (llyw.cymru)

Ansawdd yr amgylchedd naturiol sy'n derbyn y sgôr cyfartalog uchaf o'r holl agweddau penodol a werthuswyd (9.0/10) ar gyfer y tri grŵp.

c) O'r ymwelwyr sy'n aros a ddaeth i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, rhestrodd 75% mai cerdded oedd eu prif weithgarwch.

d) Cynhyrchodd cerdded a dringo mynyddoedd tua £562 miliwn o alw ychwanegol yn economi Cymru a £275 miliwn o werth ychwanegol gros (GVA) yn 2009. Amcangyfrifwyd bod hyn tua 16% o gyfanswm GVA twristiaeth ar gyfer y flwyddyn honno.

*7.501* Mae adroddiad SONARR CNC[254] yn dweud bod adnoddau naturiol yn gwneud cyfraniad sylweddol at iechyd corfforol a lles meddyliol pobl yng Nghymru, a hynny drwy wella iechyd a diogelu iechyd. Mae corff cynyddol o dystiolaeth[255] yn dangos cysylltiad cadarnhaol rhwng treulio amser mewn amgylchedd naturiol ac iechyd meddwl. Mae'n ymddangos bod effeithiau'n wahanol yn ôl statws economaidd-gymdeithasol, oedran a rhyw, ond ‘lle defnyddir amgylcheddau naturiol fel lleoliadau ar gyfer hybu iechyd meddwl neu therapi, mae'r canlyniadau, er yn wan, yn tueddu i fod yn gadarnhaol ac yn gost-effeithiol.’

7.502 Dangoswyd mynediad i'r amgylchedd i gefnogi dysgu a chwarae plant er mwyn gwella eu datblygiad gwybyddol. Gall profiadau a gafwyd drwy blentyndod barhau i fywyd diweddarach; mae agwedd plentyn tuag at ymarfer corff yn gosod sylfaen i'w arferion fel oedolyn[256]

7.503 Yn ehangach, mae'r ONS[257] yn amcangyfrif bod gwerth blynyddol y manteision iechyd o gyfalaf naturiol yng Nghymru yn £269 miliwn yn 2020, ac o dir fferm yn £18 miliwn y flwyddyn.

**Tabl 54: Gwerth manteision iechyd o gyfalaf naturiol, 2020 (ONS)**

| | £ miliwn (prisiau 2020) | % |
|---|---|---|
| Ardaloedd adeiledig a gerddi | 109 | 40.5% |

[254] Cyfoeth Naturiol Cymru Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR): Asesiad o reolaeth gynaliadwy o’n adnoddau naturiol. Adroddiad Technegol. Pennod 5. Lles yng Nghymru (Saesneg yn unig)
[255] Natural England. 2015. Connection to Nature: Evidence Briefing. Access to Evidence Information Note EIN015 a ddyfynnir yn adroddiad SONARR CNC.
[256] Bird W. 2004. Natural Fit: Can Green Space and Biodiversity Increase Levels of Physical Activity? RSPB. Yn Natural Childhood Report (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) a ddyfynnir yn SONARR.
[257] ONS (2022) Health benefits from recreation, natural capital, UK: 2022 Health benefits from recreation, natural capital, UK: 2022 - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

| | | |
|---|---|---|
| Arfordirol | 54 | 20.0% |
| Coetir | 45 | 16.7% |
| Tir fferm | 18 | 6.7% |
| Mynydd | 10 | 3.7% |
| Dŵr croyw | 24 | 8.9% |
| Arall | 8 | 2.9% |
| CYFANSWM | 269 | 100% |

### ***Lliniaru risgiau Llifogydd a Sychder***

*Maint y broblem*

7.504 Rhagwelir y bydd y newid yn yr hinsawdd yn cynyddu amlder a difrifoldeb digwyddiadau llifogydd a sychder yn y DU. Dywed yr UK Food Security Report 2021[258] fod y risg tymor canolig i dymor hir fwyaf i gynhyrchu bwyd domestig y DU yn dod o newid hinsawdd a phwysau amgylcheddol arall fel diraddio pridd, ansawdd dŵr a bioamrywiaeth. Mae patrymau tywydd annibynadwy yn creu ystod o risgiau hirdymor a byrdymor ar gyfer cynhyrchu bwyd yn y dyfodol a gallai arwain at leihau cynnyrch[259] neu fethiant cnydau.

7.505 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrif bod tua un ym mhob wyth eiddo yng Nghymru mewn perygl o lifogydd[260]. Gall llifogydd arwain at ganlyniadau dinistriol, yn amrywio o ddifrodi/colli cartrefi a busnesau, amharu ar wasanaethau hanfodol, difrod i seilwaith, niwed amgylcheddol, colledion da byw, methiant cnydau a cholli bywyd dynol. Mae CNC[261] yn amcangyfrif bod cost difrod eiddo i aelwydydd yn unig o lifogydd Chwefror 2020 yn fwy nag £81 miliwn. Cyfanswm pecyn cyllid CNC ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn 2020/21 oedd £34.5 miliwn.

7.506 Yn ôl adroddiad a gomisiynwyd gan Water UK[262], er bod y gost o allu gwrthsefyll digwyddiadau sychder eithafol yn gymharol 'gymedrol', sef £4 y flwyddyn fesul

---

258 United_Kingdom_Food_Security_Report_2021_19may2022.pdf (publishing.service.gov.uk)
259 Gwelodd sychder anamserol a digwyddiadau glaw trwm gynnyrch gwenith y DU yn gostwng 40% yn 2020.
260 Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad blynyddol rheoli perygl llifogydd 2020-2021
261 Chwefror 2020 Llifogydd yng Nghymru: Crynodeb Data Digwyddiad Llifogydd (cyfoethnaturiol.cymru)
262 Research shows more action needed to protect against growing drought risk | Water UK

cartref[263], gallai diffyg gweithredu arwain at gostau dyddiol o hyd at tua £1.3 biliwn yn ystod y sefyllfaoedd mwyaf eang o sychder difrifol.

### *Targedau*

7.507 Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y buddsoddiad 'mwyaf erioed' mewn amddiffyn rhag llifogydd, sef £214 miliwn dros dair blynedd. Mae CNC yn ymgymryd â Chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ac yn cynnal Cynlluniau Llifogydd Cymunedol a Chynllun Rheoli Traethlin, ond nid oes targedau penodol o ran gwydnwch i lifogydd, ac mae rhai yn gweld hynny'n rhan hanfodol o gynllunio ar gyfer rheoli llifogydd.

7.508 Mae'r sefyllfa'n debyg o ran sychder. Mae CNC yn cynhyrchu cynllun sychder, ac mae dyletswydd statudol ar gwmnïau dŵr hefyd i baratoi cynllun sychder, ymgynghori arno, ei gyhoeddi a’i gynnal.

### *Camau i sicrhau’r canlyniad*

7.509 Gall ffermydd gymryd camau er mwyn eu helpu i allu gwrthsefyll llifogydd a sychder yn well, a gallant hefyd helpu i ostwng y tebygolrwydd y bydd y mathau hyn o ddigwyddiadau'n digwydd. Bydd unrhyw gamau mae ffermwyr yn eu cymryd i leihau eu hallyriadau, cynyddu'r broses o storio carbon ar eu tir a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau yn gwneud cyfraniad cyffredinol at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r risgiau o lifogydd a sychder cysylltiedig. Mae'r camau canlynol yn cyfrannu at allu fferm i wrthsefyll llifogydd a sychder.

#### **Cynaeafu dŵr**

7.510 Mae dulliau'n cynnwys cipio dŵr glaw dros gyfnod y gaeaf, er enghraifft o doeau, neu greu pyllau/cronfeydd dŵr fel storfa ddŵr.

[263] Cyfanswm o £111.4 miliwn y flwyddyn, yn seiliedig ar amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol o 27.8 miliwn o gartrefi yn y DU yn 2020

7.511 Gellir storio dŵr glaw a gipiwyd dros y gaeaf i'w ddefnyddio dros y misoedd cynhesach, yn enwedig mewn cyfnodau o sychder, i ostwng y pwysau ar adnoddau dŵr croyw.

7.512 Storio dŵr gan ddefnyddio pyllau, ffosydd, cronfeydd dŵr â chloddiau, sianeli neu orlifdiroedd - Yn yr un modd ag offer cynaeafu dŵr, gellir defnyddio nodweddion fel pyllau i gasglu a storio dŵr dros ben i'w ddefnyddio mewn cyfnodau sych, a chynnig manteision i fywyd gwyllt hefyd. Gall sianeli a gorlifdiroedd ddarparu lle dynodedig i ddŵr llif gasglu er mwyn amddiffyn eiddo ac asedau fferm eraill.

**Parthau glan afon**

7.513 Ardaloedd glaswelltir naturiol neu wedi'u hailsefydlu neu goridorau wrth ymyl nant sy'n cynnwys coed, llwyni a glaswellt, ac mae'n ddull Lliniaru Llifogydd Naturiol. Maent yn gweithredu fel llusg ar ddyfroedd llifogydd, gan arafu dŵr llif, ac mae dŵr hefyd yn treiddio'n ddyfnach i briddoedd coetir oherwydd cyfraddau ymdreiddio uwch, gan arwain at lai o ddŵr ffo ar yr wyneb. Fodd bynnag, rhaid rheoli parthau glan afon yn briodol oherwydd y risg o ddeunydd coed yn rhwystro neu'n difrodi ceuffosydd a phontydd i lawr yr afon a fyddai'n cynyddu yn hytrach na lleihau’r risg o lifogydd.

**Lleiniau amlrywogaeth**

7.514 Lleiniau sydd ag amrywiaeth eang o fathau o blanhigion, gan gynnwys glaswellt, perlysiau a chodlysiau. Yn ogystal â manteision ar gyfer iechyd pridd, mae cynnwys rhywogaethau sydd â gwreiddiau hir fel sicori, maglys neu ribwellt yn gwella cyfraddau cadw dŵr ar dir fferm i liniaru llifogydd a chynyddu gwydnwch i gyfnodau sych ac amodau sychder.

## ***Manteision y camau***

### *Cynaeafu dŵr*

7.515 Er bod gosod offer neu greu pwll i storio dŵr yn amlwg yn golygu costau gosod ymlaen llaw, bydd hefyd yn arwain at arbedion yn y dyfodol. Gellir defnyddio dŵr

wedi'i storio yn lle prynu dŵr y prif gyflenwad, gan helpu i ddarparu ffynhonnell ddibynadwy o ddŵr drwy'r flwyddyn, a fyddai'n arbennig o werthfawr pe bai sychder. Bydd llai o alw am ddŵr y prif gyflenwad gan fusnesau fferm hefyd yn lleddfu'r pwysau ar gyflenwad i eiddo domestig a busnesau eraill, gan fod o fudd i ddefnyddwyr dŵr yn fwy cyffredinol. Mewn adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd 2009[264], gwelwyd ffermydd yn arbed symiau sylweddol yn dilyn cyflwyno cynaeafu dŵr, gan gynnwys fferm yn Wrecsam lle'r oedd system storio dŵr glaw wedi talu am ei hun o fewn y flwyddyn gyntaf o weithredu. Yn ogystal, gall systemau storio atal dŵr glaw rhag mynd i mewn i storfeydd slyri, neu lifo ar draws iardiau budr cyn mynd i mewn i gyrsiau dŵr a'u llygru.

### *Parthau glan afon*

7.516 Fel rhan o becyn tystiolaeth ERAMMP[265], cafodd parthau glan afon eu hystyried fel rhan o'r adolygiad Lliniaru Llifogydd. Mae crynodeb o'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu y gall parthau glan afon gael effaith gadarnhaol mewn digwyddiadau llifogydd ar raddfa lai drwy leihau gollyngiad sianel, gan arwain at lifoedd is, er nad yw parthau glan afon ar ffermydd unigol yn debygol o gael llawer o effaith pe bai llifogydd eithafol. Er hynny, gallai parthau glan afon fod â manteision sylweddol i fusnesau fferm yn ystod llifogydd llai ac amlach drwy leihau'r risg o golli neu ddifrodi adeiladau, peiriannau, da byw a chnydau. Ar raddfa dalgylch, mae modelu adfer coedwigoedd glan afon yn y New Forest yn awgrymu y gellid sicrhau gostyngiad mewn llif brig o tua 100km$^2$ , sy’n dangos potensial gweithredu cydweithredol ymhlith ffermwyr. Mae astudiaethau achos a ddefnyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn dangos manteision posibl Rheoli Llifogydd Naturiol ar raddfa dalgylch[266].

7.517 Mae cynnal a chadw parthau glan afon yr un mor bwysig â'u creu, er mwyn atal deunydd pren rhag mynd i mewn i'r cwrs dŵr a rhwystro neu ddifrodi seilwaith, gan y gall hyn gynyddu yn hytrach na lleihau perygl llifogydd.

### *Lleiniau amlrywogaeth*

---

[264] Rainwater Harvesting on Farms(2).pdf (ecosystemsdirect.co.uk)
[265] ERAMMP SFS Adolygiad Tystiolaeth 9 Lleihau Llifogydd f1.1.pdf
[266] Cyflwyniad PowerPoint (publishing.service.gov.uk)

7.518 Yn yr un modd â pharthau glan afon, mae manteision posibl i ffermydd drwy leihau perygl llifogydd[267] a cholledion neu ddifrod yn dilyn hynny mewn digwyddiadau llifogydd ar raddfa lai. Gall gallu glastiroedd dwfn i wrthsefyll amodau sych[268] yn well greu arbedion drwy leihau'r angen am fwydydd anifeiliaid atodol pan fydd glastiroedd eraill yn methu. Gall lleiniau amlrywogaeth hefyd arwain at fanteision economaidd i fusnesau fferm.[269] Canfu tystiolaeth fod cymysgeddau porfa-codlysiau yn cynhyrchu'n dda ac y gellir eu defnyddio i leihau costau a gwella proffidioldeb, yn enwedig pan fo prisiau gwrtaith yn uchel a/neu brisiau nwyddau llaeth yn isel.

## ***Cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid***

### *Maint y broblem*

7.519 Mae iechyd pobl ac iechyd anifeiliaid yn dibynnu ar ei gilydd ac yn dibynnu ar iechyd yr amgylchedd y maent yn bodoli ynddo. Mae'r ffordd y gofalir am anifeiliaid fferm a'r ffordd mae eu hiechyd yn cael ei reoli yn cael effaith fawr ar yr anifeiliaid eu hunain ond hefyd ar y busnes fferm, yr amgylchedd a chymdeithas. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli a, lle bo'n bosibl, dileu afiechydon anifeiliaid er mwyn gwella iechyd a lles anifeiliaid a gwarchod iechyd y cyhoedd. Mae rhai afiechydon heintus anifeiliaid yn hysbysadwy, sy'n golygu bod rhaid rhoi gwybod am unrhyw achos. Gall clefydau hysbysadwy fod yn:

a) endemig – eisoes yn bresennol yn y DU, megis TB buchol
b) egsotig – ddim yn bresennol yn y DU fel arfer, megis clwy'r traed a'r genau.

7.520 Prif bwrpas y system hysbysu yw canfod achosion posibl a/neu gychwyn olrhain cysylltiadau. Gall rhai afiechydon, megis y gynddaredd, basio rhwng anifeiliaid a phobl. Yn ôl yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, mae tua 40 o filheintiau

267 ERAMMP SFS Adolygiad Tystiolaeth 2 Rheoli Porfa f1.1.pdf
268 untitled (agricology.co.uk)
269 An economic comparison of systems of dairy production based on N-fertilized grass and grass-white clover grassland in a moist maritime environment - Humphreys - 2012 - Grass and Forage Science - Wiley Online Library

posibl yn y DU ac mae'n bosibl y gallai tua 300,000 o bobl mewn amrywiaeth o alwedigaethau ddod i gysylltiad â nhw. Er bod y rhan fwyaf o heintiau yn ysgafn ac yn cyfyngu eu hunain, mae mwy a mwy o dystiolaeth y gall rhai heintiau acíwt achosi effeithiau iechyd hirdymor.

7.521 Er bod rhai clefydau yn hysbysadwy, nid felly y rhan fwyaf ohonynt (mae hyn yn cynnwys rhai bygythiadau economaidd, lles ac iechyd cyhoeddus sylweddol). Mae clefydau endemig, sy'n cyfyngu ar gynhyrchu, yn cyfyngu'n fawr ar gynhyrchu da byw yn effeithlon ac yn cael effaith ar ôl troed carbon ffermio da byw. Mae systemau ffermio Cymru yn arbennig o agored i effeithiau clefydau endemig gan eu bod wedi'u seilio ar dir pori i raddau helaeth. Mae cynnydd a lledaeniad ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) yn fygythiad i'r gallu i reoli heintiau mewn anifeiliaid yn ogystal â phobl. Gan fod defnyddio gwrthfiotigau yn sbardun i ddatblygu AMR, rhaid i ni leihau'r angen i ddefnyddio gwrthfiotigau drwy atal clefydau heintus mewn anifeiliaid. Gallwn wneud hyn drwy godi statws iechyd buchesi a diadellau, gan gymhwyso'r egwyddor bod "atal yn well na gwella”.

7.522 Nod deddfwriaeth ar les anifeiliaid yw sicrhau nad yw anifeiliaid yn cael poen neu ddioddefaint di-angen. Mae'r Ddeddf Lles Anifeiliaid yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar berchnogion a cheidwaid anifeiliaid i ofalu am yr anifeiliaid y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae gwella safonau lles anifeiliaid ac ansawdd eu cynnyrch yn gwneud cyfraniad sylweddol wrth fodloni disgwyliadau gan y cyhoedd am fwyd mwy diogel a gwell.

7.523 Gall clefydau heintus gael effeithiau ariannol difrifol a hirdymor ar broffidioldeb fferm. Er enghraifft:

a) Amcangyfrifir fod costau Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD) mewn fferm bîff 100 buwch yn £4,500 y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd cost BVD ar gyfer fferm odro 130 buwch yn £15,000 y flwyddyn.

b) Amcangyfrifir fod y gost sy'n gysylltiedig â chlefyd Johne i fuches bîff 100 buwch o leiaf £1,700 y flwyddyn, gyda rhai amcangyfrifon yn codi i £4,500 y flwyddyn.

c) Mae'r clafr yn achosi colledion economaidd a lles difrifol, ac yn costio tua £5.86 miliwn y flwyddyn i'r diwydiant defaid yng Nghymru.

7.524 Mae adroddiad dadansoddiad cost a budd o flwyddyn 1 HerdAdvance yn cwmpasu'r dadansoddiad o ddata llinell sylfaen a gasglwyd gan AHDB ar yr ymweliadau cychwynnol â'r gyfran gyntaf o ffermydd a recriwtiwyd i'r prosiect. Mae'r

colledion llinell sylfaen i'r ffermydd, yn seiliedig ar lefelau clefydau a adroddwyd a chostau clefydau a gyhoeddwyd, yn dangos:

a) ar hyn o bryd, mae mastitis yn costio £10,761 y fferm y flwyddyn ar gyfartaledd i ffermydd HerdAdvance.
b) yn yr achosion canolrifol, gan ragdybio cost o £323 yr achos, mae cloffni yn costio £10,480 i bob fferm ar hyn o bryd.
c) wedi'i gyfrifo o gost ganolrifol i'r diwydiant, gellid rhagdybio bod clefyd Johne yn costio £4,680 i fferm 180 buwch yng ngrŵp HerdAdvance.

7.525 Mae costau eraill i'r diwydiant/cymdeithas yn cynnwys:

a) Mae effeithiau peidio â mynd i'r afael ag AMR yn eang ac yn gostus dros ben, nid yn unig yn nhermau ariannol ond hefyd o ran iechyd byd-eang, diogeledd bwyd, lles amgylcheddol a datblygiad economaidd-gymdeithasol.
b) Mae dwyster allyriadau cynhyrchu cig a llaeth anifeiliaid sy'n cnoi cil yn sensitif i newidiadau mewn agweddau cynhyrchu allweddol, megis cyfraddau ffrwythlondeb anifeiliaid benyw, cyfraddau marwolaethau, cynnyrch llaeth, cyfraddau twf a chymarebau trosi porthiant. Mae'r holl baramedrau hyn yn cael eu dylanwadu gan statws iechyd, felly mae disgwyl i wella statws iechyd arwain at ostyngiadau mewn dwyster allyriadau[270].
c) Gall rhai afiechydon gael eu trosglwyddo o anifeiliaid i bobl, felly mae gwella iechyd hefyd yn helpu i ddiogelu'r rhai sy'n byw ac yn gweithio ar y fferm.

## *Targedau*

7.526 Sefydlodd Llywodraeth Cymru y rhaglen dileu Twbercwlosis (TB) er mwyn cyflawni'r nod hirdymor o ddileu TB buchol yng Nghymru. Y targed yw i Gymru fod â statws heb TB swyddogol rhwng 2036 a 2041. Mae'r ystadegau TB buchol diweddaraf yng Nghymru hyd at fis Mawrth 2022 yn dangos y cynnydd a wnaed:

[270] Skuce,P. et al (2016). Livestock health and greenhouse gas emissions. ClimateXchange, Scotland's Centre of Expertise on Climate | SEFARI

a) Mae achosion newydd o TB wedi gostwng o 1,185 yn 2009 i 634 yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2022, sef gostyngiad o 46.5%.

b) Mae anifeiliaid sy'n cael eu lladd ar gyfer rheoli TB wedi gostwng o 11,655 yn 2009 i 10,117 yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2022, sef gostyngiad o 13.2%.

c) Ar 31 Mawrth 2022, roedd 988 o fuchesi dan gyfyngiadau, o gymharu â'r uchafbwynt o 2,268 buches a oedd dan gyfyngiadau ar 31 Mawrth 2009, sef gostyngiad o 56.4%.

d) Mae mynychder mewn buchesi wedi gostwng o'r uchafbwynt ym mis Ebrill 2009 o 7.8% i 5.4% ym mis Mawrth 2022, sef gostyngiad o 30.9%.

7.527 Mae gwella iechyd a lles da byw sy'n cael eu ffermio i gefnogi datblygiad diwydiant ffermio ffyniannus hefyd yn flaenoriaeth hirsefydlog i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Mae blaenoriaethau'r Grŵp Fframwaith yn cynnwys:

a) dileu BVD
b) dileu'r clafr
c) defnyddio meddyginiaethau yn gynaliadwy (AMR ac anthelminteg)
d) lleihau cloffni mewn da byw 25%.

7.528 O ran cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn:

a) Mae tua 11,000 o fuchesi gwartheg yng Nghymru. Hyd yma, mae tua 9,163 o'r rhain wedi'u sgrinio ar gyfer BVD (tua 83.3%) drwy raglen Gwaredu BVD ac mae 2,539 (28%) wedi profi'n bositif am y feirws.

b) Yn ôl arolwg o ffermwyr Cymru, cafodd achosion o'r clafr eu cofnodi ar 15.8% o ffermydd yn 2015.

c) Yn y sectorau bîff, defaid a llaeth, mae mesur cynnydd tuag at ddefnydd cynaliadwy o feddyginiaethau yn heriol gan fod y defnydd yn parhau i fod yn anhysbys neu heb ei brofi i raddau helaeth oherwydd nad yw data ar gael (mae mesur defnydd gwrthficrobaidd ar ffermydd bellach yn dod yn rhan o'r Cynllun Gwarant Fferm Da Byw).

d) Yn ôl yr astudiaeth ddiweddaraf sy'n ymchwilio i achosion o gloffni ar ffermydd llaeth y DU, roedd 70 achos i bob 100 o wartheg y flwyddyn[271]. Er y dylid nodi bod y

[271] The Impact of Clinical Lameness on the Milk Yield of Dairy Cows | Elsevier Enhanced Reader

ffigur hwn yn hanesyddol, nid yw mynychder cloffni wedi gostwng yn sylweddol yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf[272]. Felly, mae'n deg rhagdybio mai ychydig iawn o newid a fu mewn mynychder, ac mae lefelau Cymru'n debyg i lefelau'r DU gyfan.

7.529 Mae'r Gynghrair Defnydd Cyfrifol o Feddyginiaethau mewn Amaethyddiaeth wedi nodi targedau penodol i sector ar gyfer lleihau, mireinio neu ddisodli gwrthfiotigau mewn amaethyddiaeth anifeiliaid ar gyfer 2021-2024. Mae adroddiad diweddaraf Tasglu Targedau'r *Gynghrair Defnydd Cyfrifol o Feddyginiaethau mewn Amaethyddiaeth* (RUMA) yn datgelu bod sectorau da byw y DU yn gwneud cynnydd da ar dargedau defnyddio gwrthfiotigau. Mae crynhoi data cadarn yn parhau i fod yn flaenoriaeth, yn enwedig yn y sectorau anifeiliaid sy'n cnoi cil.

## *Camau i sicrhau'r canlyniad*

7.530 Gellir cyflawni safonau uchel o iechyd a lles anifeiliaid drwy:

a) gymryd agwedd ragweithiol at atal a rheoli clefydau drwy weithredu cylch gwella iechyd anifeiliaid a chynnal safonau da o fioddiogelwch

b) mynd y tu hwnt i'r isafswm cyfreithiol drwy fabwysiadu safonau lles uwch i sicrhau bod anifeiliaid yn cael ansawdd bywyd da.

## *Manteision gweithredu*

7.531 Amcangyfrifodd adroddiad dadansoddiad cost a budd blwyddyn 1 HerdAdvance y gwelliannau credadwy canlynol a'r manteision ariannol y byddent yn eu cyflwyno fesul buches:

a) gostyngiad o 20% mewn mastitis (£2,152)

b) gostyngiad o 10% mewn cloffni (£1,048)

c) cynnydd o 5% mewn cynhyrchu llaeth yn sgil camau effeithiol i fynd i'r afael â chlefyd Johne (£1,620)

---

[272] (PDF) A Cross-Sectional Study Into the Prevalence of Dairy Cattle Lameness and Associated Herd-Level Risk Factors in England and Wales (researchgate.net)

d) gostyngiad o 10% mewn achosion o BVD (£837).

7.532 Byddai hyn i gyd yn cyfateb i £8,664 i bob fferm ag 180 o wartheg neu £1.8 miliwn ar draws pob un o'r 195 o ffermydd. Dylid dehongli'r ffigur hwn gyda gofal gan ei bod yn debygol y bydd gorgyffwrdd rhwng meysydd clefydau, er enghraifft, mae'n hysbys bod clefyd Johne yn dylanwadu ar gynhyrchu llaeth, mastitis a chloffni.

7.533 Datblygwyd cadwyni rhesymeg i ni gael gwell dealltwriaeth o wahanol fanteision cymdeithasol Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Er bod y cadwyni rhesymeg wedi'u llunio i gwmpasu materion allweddol yn unig, ac na fwriedir iddynt fod yn gynhwysfawr, maent yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol ar gyfer y manteision tebygol o gyflawni safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid. Er bod lefel yr hyder yn nhystiolaeth y gadwyn resymeg yn ganolig, nododd y byddai da byw iachach a mwy cynhyrchiol yn sicrhau:

a) gwell cynhyrchiant, fel bod angen llai o dda byw ar gyfer yr un allbwn
b) mae cynnal a gwella bioddiogelwch yn fudd ynddo'i hun
c) llai o effeithiau meddyginiaethau milfeddygol ar rywogaethau eraill (e.e. chwilod tail) a phrosesau ecosystemau (e.e. cylchdroi maethynnau) a gwasanaethau ecosystemau (e.e. ansawdd dŵr) cysylltiedig
d) llai o wrthfiotigau’n gollwng i'r amgylchedd
e) gwell ansawdd aer a llai o allyriadau carbon fesul allbynnau uned, sy'n fanteision anuniongyrchol anifeiliaid mwy cynhyrchiol.

7.534 Fel y nodwyd yn y gadwyn resymeg, mae'r rhesymeg y tu ôl i fesurau bioddiogelwch yn rhagofalus, gan gydnabod bod bioddiogelwch da yn fantais. Adlewyrchir hyn hefyd mewn sawl adolygiad tystiolaeth wyddonol o TB buchol, sy'n annog gweithredu mesurau bioddiogelwch ymarferol a rhagofalus. Mae'r ymchwil ganlynol yn nodi rôl gadarnhaol bioddiogelwch gwell mewn perthynas ag iechyd anifeiliaid, perfformiad anifeiliaid a defnyddio llai o wrthfiotigau:

a) Daeth Ohlson et al (2010)[273] o hyd i gysylltiad rhwng llai o achosion o heintiau a gwell bioddiogelwch ar lefel buches.

[273] Risk factors for seropositivity to bovine coronavirus and bovine respiratory syncytial virus in dairy herds - Ohlson - 2010 - Veterinary Record - Wiley Online Library

b) Yn eu hadolygiad, trafododd Stokstad et al (2020)[274] bwysigrwydd gweithredu mesurau bioddiogelwch i atal a lleihau clefydau anadlol mewn gwartheg h.y. mae bioddiogelwch yn arwain at anifeiliaid sy'n perfformio'n well a llai o ddefnydd o wrthfiotigau.

c) Mae sawl astudiaeth ac asesiad yn nodi bod statws bioddiogelwch fferm uchel a/neu welliannau mewn bioddiogelwch yn arwain at lai o ddefnydd gwrthficrobaidd (Laanen, et al 2013[275], Gelaude, et al 2014[276] a Postma, et al 2016[277]).

7.535 Mae clefydau endemig, sy'n cyfyngu ar gynhyrchiant, yn cyfyngu'n fawr ar gynhyrchu da byw yn effeithlon ac yn cael effaith ar ôl troed carbon ffermio da byw. Mae gwaith a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi nodi gwell iechyd anifeiliaid fel mesur lliniaru effeithiol. Mae'n helpu i gyfrannu at ffermydd mwy proffidiol, llai o lygredd ac allyriadau nwyon tŷ gwydr a llai o risg i iechyd pobl[278]. Roedd yr adroddiad yn amcangyfrif effeithiau lliniaru a chostau gwella iechyd gwartheg a defaid. Modelwyd yr effaith lliniaru gyda chynnydd mewn cynhyrchiant. Amcangyfrifir bod cynllunio iechyd gwell ar gyfer iechyd gwartheg yn darparu arbedion i'r ffermwyr ac yn cyfrannu at ostyngiadau. Gall cynllunio iechyd gwell ar gyfer defaid hefyd wneud cyfraniad pwysig i'r ymdrech liniaru, gyda chostau yn is na'r pris carbon.

7.536 Felly, manteision y diben ar gyfer cymorth hwn yw:

a) anifeiliaid iachach sydd ag ansawdd bywyd da

b) anifeiliaid mwy cynhyrchiol yn arwain at ffermydd yn perfformio'n well yn ariannol

c) gwell defnydd o feddyginiaethau, gyda newid i ffwrdd o'r rhai sy'n cael eu defnyddio i drin problemau (gwrthfiotigau) i'r rhai a ddefnyddir yn bennaf i'w hatal (e.e. brechlynnau)

d) llai o effeithiau negyddol ar yr amgylchedd, gan gynnwys ôl troed carbon

e) bwyd mwy diogel a llai o risg i iechyd y cyhoedd.

---

[274] Frontiers | Using Biosecurity Measures to Combat Respiratory Disease in Cattle: The Norwegian Control Program for Bovine Respiratory Syncytial Virus and Bovine Coronavirus (frontiersin.org)

[275] Relationship between biosecurity and production/antimicrobial treatment characteristics in pig herds - PubMed (nih.gov)

[276] Biocheck.UGent: a quantitative tool to measure biosecurity at broiler farms and the relationship with technical performances and antimicrobial use - PubMed (nih.gov)

[277] Evaluation of the relationship between the biosecurity status, production parameters, herd characteristics and antimicrobial usage in farrow-to-finish pig production in four EU countries | Porcine Health Management | Full Text (biomedcentral.com)

[278] Non-CO2-abatement-in-the-UK-agricultural-sector-by-2050-Scottish-Rural-College.pdf (theccc.org.uk)

## *Cynyddu effeithlonrwydd adnoddau*

7.537 Mae strategaeth Mwy nag Ailgylchu Llywodraeth Cymru[279] yn dweud bod economi gylchol yn cadw adnoddau a deunyddiau mewn defnydd am gyn hired â phosib ac yn osgoi pob gwastraff. Mae symud i economi fwy cylchol yn allweddol i gyflawni canlyniadau amgylcheddol allweddol oherwydd gall leihau ein hallyriadau carbon, ein gorymelwa ar adnoddau naturiol a helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Yn hollbwysig, gall hefyd wella canlyniadau economaidd a chymdeithasol.

## *Maint y broblem*

### *Gwastraff*

7.538 Mae data[280] o 2010 yn dangos bod ychydig dros 54,700 tunnell o wastraff amaethyddol annaturiol y flwyddyn honno. Yn 2010, y swm mwyaf o wastraff amaethyddol a gynhyrchwyd yng Nghymru (tua 39%) oedd dyddodion a gweddillion cemegol, yn cynnwys cynhyrchion dipio defaid dros ben (gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn ddŵr). Gellir gwaredu'r rhan fwyaf o'r rhain ar dir amaethyddol trwy Drwydded neu Eithriad Amgylcheddol.

7.539 Mae plastig amaethyddol yn gyfran fawr (tua 30%) o'r gwastraff a gynhyrchir ar ffermydd. Deunydd lapio a chynfasau silwair yw hwn yn bennaf. Mae data o 2014 yn awgrymu bod cyfartaledd blynyddol gros o 8,500 tunnell o wastraff plastig fferm yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru (deunydd lapio a chynfasau silwair yn bennaf). Amcangyfrifir[281] bod cyfanswm blynyddol gros o 4,400 tunnell o wastraff plastig fferm yn cael ei gasglu yng Nghymru i'w ailgylchu. Mae hyn yn gadael gweddill o 4,100 tunnell heb gyfrif amdano yn flynyddol (data ar gyfer 2014).

---

279 Llywodraeth Cymru (2021) Mwy nag Ailgylchu strategaeth-mwy-nag-ailgylchu.pdf (llyw.cymru)

280 Llywodraeth Cymru (2014) Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned Datganiad Sefyllfa drafft Llywodraeth Cymru ar Wastraff Amaethyddol 140612-agricultural-waste-draft-position-statement-cy.pdf (llyw.cymru) Tabl 1. Mae'r datganiad sefyllfa yn nodi *nid yw rhai o'r amcangyfrifon yn Nhabl 1 yn fanwl gan mai cyfyngedig oedd y data dibynadwy a oedd ar gael ac oherwydd amgylchiadau mewn arferion ffermio: er enghraifft, mae'r model yn cynnwys data ar gyfer dipiau defaid Cypermethrin. Cafodd y mathau hyn o gynnyrch eu hatal dros dro yn 2006 oherwydd perygl llygredd, a'u tynnu oddi ar y farchnad yn barhaol yn 2012*

281 Yn ôl British Polythene Industries (BPI) yn Llywodraeth Cymru (2014) Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned Datganiad Sefyllfa drafft Llywodraeth Cymru ar Wastraff Amaethyddol

**Defnydd ac effeithlonrwydd dŵr**

7.540 Mae data o adroddiad SONARR Cyfoeth Naturiol Cymru[282] yn dangos, yn 2018, fod sector amaethyddol Cymru i gyfrif am 63,494 megalitr (0.5%) o gyfanswm y dŵr a dynnwyd. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys defnyddiau traul (lle nad yw dŵr yn cael ei ddychwelyd i'r amgylchedd lleol) a defnyddiau nad ydynt yn ddefnyddiau traul (megis ynni dŵr a dŵr yn llifo drwy ffermydd pysgod). Pan dynnir defnyddiau nad ydynt yn ddefnyddiau traul, mae'r cyfaint sy'n cael ei dynnu gan amaethyddiaeth yn disgyn i 2,997 megalitr (tua 0.1%) o gyfanswm cyfaint y dŵr traul a dynnwyd[283]. Mae ychydig dros 61% o drwyddedau tynnu dŵr ar gyfer amaethyddiaeth ar gyfer storio dŵr at ddefnydd tymhorol i ddyfrhau drwy chwistrellu. Mae adroddiad SONARR yn nodi bod bron pob un o'r trwyddedau hyn yn Sir Benfro.

**Defnydd ac effeithlonrwydd ynni**

7.541 Fel sector, mae amaethyddiaeth wedi cyfrif yn gyson am tua 2% o'r defnydd blynyddol o ynni yng Nghymru o 2005 hyd heddiw[284].

*7.542* Mae adroddiad SONARR CNC[285] yn nodi bod defnydd ynni amaethyddiaeth Cymru yn 2005 yn 1.9 *awr terra-watt* (TWh) y flwyddyn (1.7% o gyfanswm defnydd ynni Cymru) ac, yn 2017, yn 2.1 TWh y flwyddyn (2.4% % o gyfanswm defnydd ynni Cymru). Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon[286] yn nodi bod gan y sectorau moch, dofednod, bîff, godro, âr a garddwriaeth broffiliau defnyddio ynni gwahanol.

---

[282] Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR2020) Asesiad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy: Effeithlonrwydd Adnoddau – Dŵr (Saesneg yn unig) SoNaRR2020 Thema Effeithlonrwydd Dŵr (cyfoethnaturiol.cymru)

[283] Mae'n cyfeirio at symiau gweithgareddau tynnu dŵr trwyddedig sy'n cael eu hystyried yn ddefnyddiau traul, lle nad yw dŵr yn cael ei ddychwelyd i'r amgylchedd lleol. Ni chynhwysir defnyddiau nad ydynt yn ddefnyddiau traul a llifoedd drwy ffermydd pysgod.

[284]Llywodraeth Cymru (2020) Defnydd o ynni yng Nghymru 2018 defnydd-o-ynni-yng-nghymru-2018.pdf (llyw.cymru)

[285] Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR2020) Asesiad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy: Effeithlonrwydd Adnoddau – Ynni (Saesneg yn unig) SoNaRR Effeithlonrwydd Adnoddau - Ynni (cyfoethnaturiol.cymru) Tabl 2

[286] Yr Ymddiriedolaeth Garbon (2019) Energy efficiency in agriculture Agriculture-Energy-Efficiency.pdf (storage.googleapis.com)

**Tabl 55: Targedau gwastraff allweddol Cymru**

| Erbyn 2025 | Erbyn 2030 | Erbyn 2050 |
|---|---|---|
| • 26% yn llai o wastraff<br>• Dim gwastraff i safleoedd tirlenwi<br>• Gostyngiad o 50% yn y gwastraff bwyd y gellir ei osgoi<br>• Ailgylchu 70% | • 33% yn llai o wastraff<br>• Gostyngiad o 60% yn y gwastraff bwyd y gellir ei osgoi | • Defnydd adnoddau un blaned<br>• 62% yn llai o wastraff<br>• Diwastraff<br>• Carbon sero net |

**Defnydd ac effeithlonrwydd dŵr**

*7.543* Mae Strategaeth Ddŵr i Gymru 2015 Llywodraeth Cymru[287] yn cyflwyno blaenoriaethau ac egwyddorion Cymru ar gyfer adnoddau dŵr a sut y bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu cyflawni drwy amrywiaeth o amcanion allweddol a chamau gweithredu ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

**Defnydd ac effeithlonrwydd ynni**

7.544 Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru [288] ar gyfer Cymru sy'n fwy effeithlon o ran ynni erbyn 2025 yn Gymru sydd yn y sefyllfa orau bosibl i wireddu ei photensial llawn o ran effeithlonrwydd ynni, ac yn dod yn brif allforiwr technoleg a gwybodaeth effeithlonrwydd ynni.

## *Camau i sicrhau'r canlyniad*

7.545 Bydd nifer o gamau a nodir o dan "dibenion ar gyfer cymorth" eraill yn cyfrannu at ddefnydd effeithlon o adnoddau ar y fferm.

7.546 Mae cyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd[289] i hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau, a'r manteision i'r ffermwr, yn cynnwys y canlynol:

---

[287] Llywodraeth Cymru (2015) Strategaeth Ddŵr i Gymru Cefnogi rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy [Health standards framework english (gov.wales)]

[288] Llywodraeth Cymru (2016) Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru Strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf 2016–2026 [Effeithlonrwydd Ynni yng Nghymru (llyw.cymru)]

[289] Asiantaeth yr Amgylchedd (2021) Camau allweddol i ffermwyr Effeithlonrwydd adnoddau a gwastraff [Camau allweddol i ffermwyr - Effeithlonrwydd adnoddau a gwastraff (windows.net)]

a) Mae defnydd effeithiol o wastraff organig ffermydd yn lleihau costau gwrtaith sy'n cael ei gynhyrchu
b) Gwella cyfraddau ymdreiddio a chadw dŵr drwy leihau cywasgu eich priddoedd.

c) Mae priddoedd a reolir yn dda yn lleihau costau tanwydd, llafur a pheiriannau ar gyfer trin y tir, ac yn lleihau costau cynnal a chadw cyrsiau dŵr.

**Defnydd ac effeithlonrwydd dŵr**

*7.547* Mae adroddiad SONARR CNC[290] yn nodi bod dŵr yn gwneud cyfraniad hanfodol at wytnwch ecosystemau, a bod senarios newid hinsawdd a ragwelwyd ar gyfer y dyfodol yn cynnwys cyfnodau hwy o dywydd sych a digwyddiadau glaw mwy dwys, ac mae'n nodi ei bod yn gynyddol bwysig bod mesurau ar waith i gynnal gwytnwch ecosystemau, yn enwedig drwy reoli adnoddau dŵr.

7.548 Bydd rhagamcanion newid hinsawdd o gyfnodau hir o dywydd sych yn digwydd yn amlach yn gofyn am weithredu mesurau lliniaru megis storio dŵr ar y fferm ar gyfer dyfrhau er mwyn lleihau'r pwysau ar gyrsiau dŵr yn ystod cyfnodau sych.

7.549 Mae AHDB[291] yn nodi bod tywydd eithafol a newidiadau mewn tymheredd yn gallu gwneud fferm yn agored i broblemau gydag argaeledd dŵr, yn arbennig ar gyfer ffermydd da byw. Maent yn argymell y canlynol, *'rainwater harvesting such as on-farm winter storage ponds, reduces the pressure of abstraction on watercourses and mains water use at times when source supplies are low.'*

## *Defnydd ac effeithlonrwydd ynni*

7.550 Mae defnydd ac effeithlonrwydd ynni yn berthnasol i holl fusnes y fferm. Gall camau gweithredu yn y maes hwn amrywio'n eang ond mae canllaw ar effeithlonrwydd ynni a gynhyrchir gan yr Ymddiriedolaeth Garbon[292] yn dyfynnu

[290] Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR2020) Asesiad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy: Effeithlonrwydd Adnoddau – Dŵr (Saesneg yn unig) SoNaRR2020 Thema Effeithlonrwydd Dŵr (cyfoethnaturiol.cymru)

[291] water supply problems on farm | AHDB Maent yn nodi bod gwartheg sy'n llaetha angen rhwng 60 i 100 litr o ddŵr y dydd, tra gall hychod sy'n llaethu fod angen 15 i 30 litr y dydd.

[292] Carbon Trust (2019) Energy efficiency in agriculture Agriculture-Energy-Efficiency.pdf (storage.googleapis.com)

astudiaethau achos lle'r oedd gosod goleuadau LED mewn fferm ieir yn Lloegr wedi arbed £12,500 y flwyddyn.

### ***Manteision gweithredu***

*Dŵr*

7.551 Mae adroddiad SONARR CNC[293] yn nodi bod defnyddio llai o ddŵr yn helpu i wrthsefyll pwysau gan effeithiau tynnu dŵr ac effeithiau newid hinsawdd megis cyfnodau hirach mwy rheolaidd o lif isel.

*Ynni*

7.552 Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon yn nodi bod manteision gweithredu cyfleoedd arbed ynni yn amlweddog ac yn gallu arwain at nifer o ganlyniadau cadarnhaol i fusnes amaethyddol. Roedd hyn yn cynnwys lleihau costau a phroffidioldeb uwch - gall toriad o 20% mewn costau ynni gynrychioli'r un budd sylfaenol â chynnydd o 5% mewn gwerthiant.

### ***Annog cynhyrchu bwyd mewn modd amgylcheddol gynaliadwy***

**Costau'r mater i ddiwydiant/cymdeithas**

7.553 Mae cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn ceisio cydbwyso elfennau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cynhyrchu bwyd. Ers yr Ail Ryfel Byd, mae llywodraethau olynol wedi rhoi cymorth i bolisïau sydd wedi cynyddu cynhyrchiant amaethyddol a darparu bwyd fforddiadwy. Mae'r polisïau hyn wedi arwain at lefelau uwch o gynhyrchiant fesul hectar ond mae'r cynnydd hwn mewn ffermio dwys o ran mewnbwn wedi dod ar gost ehangach i'r amgylchedd a chymdeithas, a, gellid dadlau, gwydnwch ffermydd hefyd.

7.554 Mae'r system fwyd, wrth ddiwallu anghenion cymdeithas am gyflenwad o fwyd rhad, yn gyfrifol am lawer o effeithiau ar yr amgylchedd. Gyda thros 80% o dir Cymru yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol, mae ffermio a rheoli tir yn gysylltiedig â chyflwr yr amgylchedd naturiol ac yn dibynnu arno. Mae enghreifftiau o effeithiau negyddol ffermio ar yr amgylchedd yn cynnwys allyriadau llygryddion, gostyngiad

[293] Cyfoeth Naturiol Cymru (2020) Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR2020) Asesiad o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy: Effeithlonrwydd Adnoddau – Dŵr (Saesneg yn unig) SoNaRR2020 Thema Effeithlonrwydd Dŵr (cyfoethnaturiol.cymru)

mewn adnoddau naturiol, colli bioamrywiaeth a diraddio ecosystemau yng Nghymru a thu hwnt. Cydnabyddir yn eang effaith rhai arferion amaethyddol ar fioamrywiaeth. Yn benodol, mae llawer o arferion amaethyddol dwys yn lleihau bioamrywiaeth tir amaeth yn fawr drwy eu gweithredoedd, gan gynnwys defnyddio bioladdwyr a throi cynefin at ddefnydd âr neu laswelltir ungnwd.

7.555 Mae European Environment – State and Outlook 2020 yn cyfeirio at ddwysáu amaethyddol yn Ewrop (gan gynnwys y DU) fel un o brif achosion dirywiad ecosystemau a cholli bioamrywiaeth. Mae sawl adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) wedi tynnu sylw at ddirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth yng Nghymru, gan gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd sy'n gysylltiedig â thir fferm caeedig. Cymru yw un o'r gwledydd sydd wedi colli'r mwyaf o fyd natur yn y byd, gyda 17% o rywogaethau yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y pwysau mawr sydd wedi achosi colli bywyd gwyllt yn cynnwys rheolaeth o ffermydd. Er enghraifft, mae newidiadau rheoli tir yng Nghymru wedi achosi colli mwy na 90% o gynefinoedd glaswelltir lled-naturiol ers y 1930au, gan effeithio'n negyddol ar rywogaethau sy'n dibynnu ar y cynefin hwn.

7.556 Mae'r pwyslais ar gynhyrchu wedi cael effaith negyddol ar yr amgylchedd, ond nid yw o reidrwydd wedi arwain at ffermydd mwy proffidiol. Mae ffermio yn cefnogi twristiaeth a bwyd, ac mae'r ddau yn sectorau sylfaen o'r economi. Er bod polisïau a'r farchnad yn pwysleisio cynhyrchu bwyd am y gost isaf bosibl, mae ffermwyr yng Nghymru yn parhau i ddibynnu ar gymorthdaliadau i wneud elw.

7.557 Un o'r rhesymau am hyn yw bod yr amodau a'r dirwedd heriol yng Nghymru yn gallu cyfyngu ar gynhyrchiant a gwneud ffermio'n anoddach. Mae ffermio gwartheg a defaid yn addas iawn i hinsawdd a thopograffi Cymru, gydag allbwn amaethyddol o dda byw a chynhyrchion da byw yn bennaf. Mae'r rhan fwyaf o ffermydd yng Nghymru yn gymharol fach hefyd. Yn ôl Agriculture in the UK 2020, mae dros 50% o ffermydd Cymru o dan 20 hectar, gyda nifer cymharol fach o ffermydd mawr o gymharu â'r Alban a Lloegr. Ar gyfartaledd, yr incwm fferm cyfartalog yng Nghymru 2020-2021 oedd £34,300, yr isaf o bedair gwlad y DU. Ar gyfartaledd, mae 67% o incwm ffermydd Cymru yn dod o gymorthdaliadau.

7.558 Er bod amaethyddiaeth yn gwneud cyfraniad cymharol fach at GDP, mae gan ffermwyr Cymru safle unigryw yn y gymdeithas. Mae'r sector bwyd-amaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi wledig, gyda nifer o swyddi yn dibynnu ar gynhyrchu sylfaenol a'r gadwyn gyflenwi ehangach. Ynghyd â hyn, mae ffermwyr yn

gwneud cyfraniad pwysig fel stiwardiaid y dreftadaeth naturiol a diwylliannol sy'n bodoli fel rhan o'r holl dirweddau gwaith. Mae Cymru'n cynnwys tirweddau gwledig rhagorol sydd wedi esblygu i raddau helaeth o ganlyniad i ryngweithio dynol gyda nhw dros y 10,000 o flynyddoedd diwethaf.

7.559 Maent yn lleoedd o harddwch naturiol ac yn rhan werthfawr o'n treftadaeth, gan ddangos sut mae pobl a lleoedd wedi rhyngweithio dros amser. O ganlyniad, mae ein hasedau hanesyddol ar dir gwledig yn hanfodol i'n cymeriad cenedlaethol, ein hunaniaeth ddiwylliannol a'n heconomi. Nid yw'r farchnad yn gwobrwyo ffermwyr sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at reoli a gwella'r dirwedd a'r rôl bwysig sydd ganddi ar gyfer ymdeimlad pobl o le, yr economi a chymunedau gwledig.

7.560 Mae rhai agweddau ar gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy eisoes yn cael eu gwobrwyo gan y farchnad e.e. prisiau premiwm sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd organig. Fodd bynnag, mae yna lawer o bethau nad yw'r farchnad yn eu gwobrwyo. Yn benodol, anaml y caiff gwir werth cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ei adlewyrchu yn y pris mae ffermwr yn ei dderbyn am ei gynnyrch. Gall ffermio fod yn gyfrwng ar gyfer newid cadarnhaol, ac ail-gyfeirio cymorthdaliadau ffermydd tuag at gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yw'r prif ddull sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i gywiro methiannau'r farchnad. Mae gwneud hynny yn cydnabod bod cystadleurwydd ffermio, cynhyrchu bwyd a gwell gwydnwch amgylcheddol yn agendâu cyflenwol sy'n creu sector amaethyddiaeth cynaliadwy a gwydn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Hunangynhaliaeth a diogeledd bwyd**

7.561 Diogeledd bwyd yw gallu pobl Cymru i gael gafael ar ddigon o fwyd maethlon i ddiwallu eu hanghenion deietegol am fywyd iach (fel y nodir yn y Canllaw Bwyta'n Dda). Nid dim ond argaeledd bwyd sy'n effeithio ar ddiogeledd bwyd; mae ei fforddiadwyedd, ei ansawdd a'i ddiogelwch yn effeithio arno hefyd. Yn bwysig iawn, mae diogeledd bwyd hefyd yn cael ei effeithio gan effeithiau ein hinsawdd sy'n newid a'r argyfwng natur. Drwy gyfrannu at ddiogeledd bwyd, bydd y cynllun yn cyflawni cyfarwyddebau strategol SLM, gan gynnwys cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

7.562 Yn ôl adroddiad Diogeledd Bwyd y DU, mae gennym ni lefel uchel o ddiogeledd bwyd yn y DU. Yn ddomestig, rydym yn cynhyrchu 60% yn ôl gwerth o'r holl fwyd sydd ei angen arnom, gan godi i 74% o'r bwyd y gallwn ei dyfu neu ei fagu yn y DU. Rydym yn cynhyrchu mwy o gig oen a llaeth hylifol nag yr ydym yn ei fwyta a'i yfed ac, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ein cynhyrchiant mewn sectorau fel

dofednod a ffrwythau meddal wedi cynyddu. Mae'r cynhyrchu domestig cryf hwn, ar y cyd â masnach ryngwladol, yn cyfrannu at gyflenwad bwyd amrywiol a chadarn yn y DU. Bydd effeithiau'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ar ddefnydd tir amaethyddol yn cael eu monitro yn adroddiadau Diogeledd Bwyd y DU yn y dyfodol.

7.563 Er bod y cadwyni cyflenwi a sefydlwyd gan fanwerthwyr bwyd yn golygu eu bod yn gallu cynnal y cyflenwad o fwyd i raddau helaeth, mae'r pandemig Covid-19 wedi arwain at fwy o ffocws ar ddiogeledd bwyd a natur ryngwladol rhai cadwyni cyflenwi. Mae hunangynhaliaeth yn cyfrannu at ddiogeledd bwyd, ond nid ydynt yr un peth. Er nad yw'n bosibl i Gymru (neu'r DU) fod yn hunangynhaliol o ran cyflenwi bwyd, mae cyfle i ystyried sut y gallem fyrhau'r gadwyn gyflenwi, cyfrannu at wella diogeledd bwyd a chadw gwerth y bwyd a gynhyrchir yng Nghymru ar sail ei natur leol a chynaliadwy. Drwy weithio gyda ffermwyr i fyrhau a chryfhau cadwyni cyflenwi, gallwn leihau effaith siociau byd-eang arnom.

**Targedau presennol**

7.564 Dyma'r amcanion mwyaf perthnasol sydd wedi'u gosod yn Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant bwyd a diod o 2021:

a) Bob blwyddyn, bydd gwerth trosiant sector bwyd a diod Cymru yn tyfu'n fwy na gweddill y DU ac i o leiaf £8.5 biliwn erbyn 2025.

b) Bydd y cyfartaledd tair blynedd o Werth Ychwanegol Gros (GVA) yr awr a weithir yn y diwydiant yn cynyddu'n fwy na gweddill y DU.

c) Bob blwyddyn, bydd y gyfran o weithwyr y sector bwyd a diod sy'n derbyn o leiaf Cyflog Byw Cymru (£9.30 ar hyn o bryd) yn cynyddu, i gyrraedd 80% erbyn 2025.

d) Bob blwyddyn, bydd cynnydd yng nghyfran y busnesau yn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod sy'n cyflawni gwobrau sy'n briodol i'w busnes. Erbyn 2025, bydd o leiaf chwe chynnyrch arall o Gymru yn ymuno â Chynllun GI y DU.

7.565 Mae gwerth allforio am y flwyddyn a ffigurau hanesyddol yn ddangosydd pwysig a fydd hefyd yn cael ei fonitro.

7.566 Mae'r Rhaglen Lywodraethu (PfG) a'r Cytundeb Cydweithio yn ymrwymo i ddatblygu Strategaeth Fwyd Gymunedol (CSA) i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol. Gall y CSA gynnwys targedau/amcanion perthnasol i gynhyrchu bwyd mewn modd amgylcheddol gynaliadwy.

7.567 Bydd Bil Bwyd (Cymru), Cynnig Deddfwriaethol i Aelodau, yn cael ei gyflwyno i'r Senedd erbyn diwedd 2022. Diben y Bil yw sefydlu system fwyd fwy cynaliadwy i gryfhau diogeledd bwyd, gwella lles economaidd-gymdeithasol Cymru a gwella dewis defnyddwyr. Mae'r Bil drafft yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer nodau bwyd eilaidd, sy'n ymdrin â meysydd penodol gan gynnwys lles economaidd a'r amgylchedd.

7.568 Dylai cynhyrchu bwyd mewn modd amgylcheddol gynaliadwy hefyd gyfrannu at helpu pobl i gael cydbwysedd o fwyd iachach a mwy cynaliadwy, fel y nodir yn y Canllaw Bwyta'n Dda.

7.569 Tra bod cynhyrchu bwyd yn hanfodol i Gymru, mae natur yr argyfwng hinsawdd a chyfradd y dirywiad mewn bioamrywiaeth yn golygu bod rhaid i ni weithredu'n gynt a gyda mwy o ymdrech nag sydd wedi digwydd o'r blaen. Mae angen cyflawni hyn heb ddilyn yr arferion dwysáu amaethyddol sydd wedi cael effeithiau mor andwyol ar gymdeithas drwy ostyngiadau mewn ansawdd aer a dŵr, allyriadau carbon, gostyngiadau mewn bioamrywiaeth tir fferm ac ati. Felly, mae angen i gynhyrchu bwyd gyfrannu at y rhwymedigaethau/targedau ehangach hyn:

a) yr angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a dal a storio mwy o garbon, gan gyflawni sero net erbyn 2050.

b) yr angen i adfer bioamrywiaeth o fewn tirweddau amaethyddol, gan gyfrannu at y targed i 30% o dir gael ei warchod ar gyfer natur erbyn 2030.

c) yr angen i feithrin systemau ffermio gwydn a fydd yn cyfrannu at y Cynllun Gweithredu ar yr Economi drwy economi a chymunedau gwledig cryfach.

d) bod yn gyfrifol yn fyd-eang drwy ostwng effeithiau cynhyrchu bwyd yng Nghymru dramor, gan gynnwys peidio â symud cynhyrchu bwyd i ranbarthau a gwledydd sydd â safonau is o ran iechyd a lles anifeiliaid a'r amgylchedd.

**Camau i sicrhau'r canlyniad**

7.570 Ni all diogeledd bwyd gael ei gyflawni gan unrhyw un polisi ar wahân. Fodd bynnag, gall y diben cymorth hwn helpu i gyfrannu at ddiogeledd bwyd drwy:

a) cefnogi ffermwyr i weithredu i liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu i'r tywydd mwy eithafol a ddaw yn ei sgil.

b) cynnig sefydlogrwydd i ffermwyr a'u helpu i ddod yn economaidd gynaliadwy ac yn wydn, gan eu galluogi i barhau i gynhyrchu bwyd mewn byd cystadleuol sy'n newid.

c) cefnogi ffermwyr i ddarparu ar gyfer natur drwy gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu.

d) arallgyfeirio lle mae cyfleoedd yn y farchnad i gynhyrchu mwy o'r bwyd sy'n cael ei fwyta yng Nghymru a'r DU

e) ategu'r CSF drwy annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol.

7.571 Mae'r sefyllfa yn Wcráin wedi gwaethygu'r argyfwng diogeledd bwyd byd-eang drwy wthio prisiau gwenith, indrawn a gwrtaith i fyny. Drwy gefnogi cyfleoedd arallgyfeirio tuag at gynhyrchu mwy o'r bwyd rydym yn ei fwyta yng Nghymru, a byrhau cadwyni cyflenwi, byddwn yn gobeithio meithrin mwy o ddiogeledd bwyd yn y tymor hir drwy gynyddu cynaliadwyedd a gwydnwch amaethyddiaeth a rhannau eraill o'r system fwyd.

7.572 Tynnodd ymosodiad Rwsia ar Wcráin sylw hefyd at ein dibyniaeth ar fewnbynnau allanol ac, wrth symud ymlaen, rydym am gefnogi ffermwyr i leihau eu defnydd o'r mewnbynnau allanol costus hyn i helpu i'w gwneud yn fwy proffidiol a gwydn, yn ogystal â bod o fudd i'r amgylchedd. Er enghraifft:

a) targedu’r defnydd o faethynnau

b) disodli gwrtaith artiffisial gyda gwrtaith organig

c) cyflwyno'r defnydd o gnydau gorchudd a chodlysiau sefydlogi nitrogen.

### *Manteision*

7.573 Mae tystiolaeth gynyddol bod ffermio sy'n addas i natur o fudd i'r amgylchedd ac yn arwain at fusnesau fferm mwy proffidiol:

a) Daeth y Red Meat Benchmarking Project a'r adroddiad ar berfformiad ffermydd godro Cymru i'r casgliad bod canolbwyntio ar ba mor effeithlon y gellir cynhyrchu cynnyrch yn llawer pwysicach i broffidioldeb ffermydd na chanolbwyntio ar y pris y gallai ei gyflawni. Yn y cyd-destun hwn, mae dod yn fwy effeithlon yn golygu bod y fferm yn gweithio'n dda o fewn ei hamgylchedd drwy wneud y defnydd gorau o'r adnoddau naturiol sydd ar gael iddi.

b) Mae'r adroddiad Less is More yn argymell y dylai ffermwyr mewn ardaloedd ucheldirol ac ymylol ar draws y DU symud i ffwrdd o fodel busnes sy'n canolbwyntio ar

gynhyrchiant i un sy'n canolbwyntio ar faint yr elw. Canfu'r adroddiad fod lleihau niferoedd diadellau a buchesi i lefel lle mae stoc yn pori ar laswellt sydd ar gael yn naturiol yn unig (h.y. heb ddefnyddio gwrtaith artiffisial, plaladdwyr a bwydydd atodol) yn gwella incwm busnes y fferm. Yn ogystal, dylai lleihau lefelau stocio a chyflwyno arferion Rheoli Tir yn Gynaliadwy hefyd gynyddu gallu ffermydd ucheldir i ymdopi â newid yn y dyfodol.

c) Mae allbwn uwch yn cyfrif am 10-30% yn unig o elw uwch yn y chwartel uchaf o ffermydd sy'n perfformio orau tra bod costau is yn cyfrannu at 65-90% (Redman, 2015). Mae ffermydd sy'n perfformio'n well hefyd yn fwy gwydn i newid (Baker, 2017) a, thrwy wneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol, yn fwy tebygol o allu cyflawni canlyniadau SLM

7.574 Mae adroddiadau ERAMMP a chomisiynau tystiolaeth gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd annibynnol wedi dangos y bydd llawer o gamau a gymerir i wella dwysedd allyriadau nwyon tŷ gwydr hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad ariannol. Er enghraifft, bydd bod ag anifeiliaid iachach, gwneud y defnydd gorau o laswellt, bod yn llai dibynnol ar fewnbynnau a gwneud gwell defnydd o faethynnau ar ffermydd yn arbed arian i ffermydd ac yn gostwng eu hôl troed carbon.

**Helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau.**

**Maint y broblem**

*7.575* Yn ôl NFU Cymru:[294] *Gwnaiff ffermwyr Cymru gyfraniad allweddol at ddarpariaeth cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel mewn ardaloedd gwledig. Oherwydd eu natur, lleolir cymunedau gwledig Cymru mewn ardaloedd bychain neu anghysbell. Yn aml iawn yn y cymunedau hyn, ffermwyr a'u teuluoedd sy'n cefnogi a hwyluso llawer o agweddau bywyd cymunedol.*

[294] NFU Cymru – Ffermio – Creu Cymru Unedig. Darlun o sut mae ffermio Cymreig yn cyflawni ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

7.576 Mae gwaith ymchwil[295] a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi nifer o ganfyddiadau ynglŷn â rôl amaethyddiaeth mewn cymunedau gwledig yng Nghymru (er bod yr adolygiad yn nodi bod diffyg tystiolaeth bendant o bosibl i'w hategu[296]):

7.577 Mae amaethyddiaeth, trwy ei haelwydydd ffermio, yn gwneud cyfraniadau uniongyrchol at agweddau amrywiol ar gyfalaf cymdeithasol ac felly at gymdeithas mewn ardaloedd gwledig a llesiant trigolion yno. Mae'r cyfraniadau hyn yn canolbwyntio ar y canlynol yn bennaf: rhwydweithio cymdeithasol, cydlyniant cymunedol, gallu a chadernid cymdeithasol, a diwylliant (gan gynnwys yr iaith Gymraeg). Yn ogystal, bydd dimensiwn cymdeithasol i'r broses o greu swyddi ac incwm gan amaethyddiaeth; mae cyfraniad aelwydydd ffermio yn rhagori'n fawr ar eu pwysigrwydd rhifiadol ar hyn o bryd. Mae ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yn cynnwys eu perchenogaeth o dir a pheiriannau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gymuned (yn ogystal ag ar gyfer ffermio),eu sefydlogrwydd cymharol fel trigolion, a'r sefyllfa mewn sefydliadau a llywodraethu lleol sy'n deillio o hyn yn aml. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd cyffredinol ffermio ac aelwydydd ffermio i agweddau allweddol ar gydlyniant a chryfderau cymunedol yng Nghymru.

*7.578* Ceir cyfraniad economaidd hefyd: Yn ôl NFU Cymru, *Mae ffyniant economaidd hefyd yn agwedd bwysig ar gymunedau cydlynol, sy'n galluogi'r cymunedau i barhau i ffynnu. Mae busnesau cyflenwi sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag amaethyddiaeth yn elwa ar, ac yn ffynnu yng nghefn gwlad Cymru. Gyda ffermwyr yn brif gwsmeriaid iddynt, mae'r busnesau hyn yn ddibynnol ar gymuned amaethyddol sydd ganddi gysylltiadau da ac yn creu swyddi i bobl leol*. Mae amcangyfrifon ar gyfer 2021[297] yn dangos mai'r cyfanswm o bobl sy'n gweithio ar ddaliadau amaethyddol yng Nghymru yw 50,401[298]. O'r cyfanswm hwn, mae 37,953 o brif ffermwyr, cyfarwyddwyr, partneriaid busnes a'u priod. Hefyd, mae'r cyfanswm yn cynnwys 12,448 o weithwyr

---

[295] Agra CEAS consulting (2018) The social contribution of agriculture – an evidence review, adroddiad i Lywodraeth Cymru

[296] Yn ôl yr adroddiad: *Almost all the evidence available on these issues for Wales is anecdotal or very 'soft', comprising informal observations and opinions, though these are widely shared by both those in and outside agriculture*.

[297] Arolwg Mehefin o Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (2021).

[298] I roi'r data hwn yn ei gyd-destun, mae amcangyfrifon cynnar (Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru – Trosolwg o'r Farchnad Lafur, Chwefror 2022) ar gyfer mis Ionawr 2022 yn dangos mai cyfanswm y gweithwyr cyflogedig yng Nghymru yw 1.29 miliwn. Felly, mae cyflogaeth amaethyddol (tua 50,000) yn cynrychioli tua 3.8% o'r cyfanswm cyflogaeth yng Nghymru.

fferm llawn amser rheolaidd, rhan-amser rheolaidd a thymhorol/achlysurol. Mae data Arolwg Cymru o Amaethyddiaeth a Garddwriaeth yn dangos bod cyfanswm y gyflogaeth (gweithwyr rheolaidd ac achlysurol) ar bob fferm yng Nghymru wedi disgyn o 57,828 yn 2010 i 50,401 yn 2021, sef gostyngiad o 13% dros y cyfnod.

7.579 O safbwynt effaith economaidd ehangach ffermydd, dangosodd arolwg[299] NFU Cymru yn 2020 fod traean o'r ymatebwyr wedi dweud eu bod yn cefnogi neu'n prynu oddi wrth rhwng 21 a 50 o fusnesau eraill; a nododd un o bob deg ymatebydd eu bod yn cefnogi neu'n prynu oddi wrth 51 neu fwy o fusnesau.

**Camau i sicrhau'r canlyniad**

7.580 Mae camau sy'n cyd-fynd â'r amcanion SLM yn gallu cryfhau cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau, gan helpu cymunedau gwledig i ffynnu o safbwynt yr effaith bosibl ar gyflogaeth ar ffermydd ac oddi ar ffermydd, ac o safbwynt yr effaith bosibl ar gyfalaf cymdeithasol cymuned a llesiant cymunedol.

*7.581* Er enghraifft, o safbwynt cyflogaeth ar ffermydd, dangosodd tystiolaeth o arolwg o 579 o ffermydd sy'n cymryd rhan yng nghynllun Glastir o dan Raglen Monitro a Gwerthuso Glastir[300] mai dim ond ychydig o ymatebwyr i'r arolwg a nododd gynnydd (20) neu ostyngiad (19) yn nifer y bobl a gyflogir, waeth beth yw eu hanes yng nghyfranogiad y cynllun. Roedd y newid net cyffredinol yng nghyfanswm y bobl a gyflogir, gan ffermydd o bob math a maint, yn gynnydd ystadegol arwyddocaol, sef 1.9% ar gyfer ffermydd sy'n ymrwymo i unrhyw gytundeb cynllun Glastir, o'i gymharu â gostyngiad heb fod yn arwyddocaol o 1.5% ar gyfer ffermydd yn ymadael â chytundeb blaenorol ar gyfer cynllun Tir Cynnal neu Tir Gofal. Daeth yr adroddiad i'r casgliad hwn: *there is evidence of a small net increase in farm employment as a result of participation in the Glastir scheme, but the very low number of farms reporting any change means that this result should be treated with considerable caution.*

---

299 NFU Cymru (2020) Gweledigaeth dros Ffermio yn Ucheldir Cymru.

300 Anthony, S; Stopps, J a Whitworth, E (2017) Wales Farm Practices Survey. Statistical Analysis and Main Results. Annex 3. Yn: Emmett B.E. a'r tîm GMEP (2017) Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir. Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cymru (Cyfeirnod Contract: C147/2010/11). NERC/Canolfan Ecoleg a Hydroleg (Prosiectau CEH: NEC04780/NEC05371/NEC05782). Maint y sampl ar gyfer y canlyniadau hyn yw 579 o ffermydd yn cymryd rhan yng nghynllun Glastir.

7.582 Yn ôl gwerthusiad 2005[301] o effaith economaidd Tir Gofal, nododd 92% o'r ymatebwyr fod eu cytundeb Tir Gofal wedi arwain at fwy o angen am lafur. Roedd prosiectau cyfalaf yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r cynnydd yn y galw am gyflogaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith ychwanegol a greodd Tir Gofal wedi cael ei wneud gan gontractwyr (49%), ac roedd ffermwyr (33%) ac aelodau agos y teulu (9%) wedi gwneud y gwaith hefyd. Yn Lloegr[302] amcangyfrifwyd buddion economaidd Stiwardiaeth Lefel Mynediad (ELS), Stiwardiaeth Lefel Uwch (HLS), a Stiwardiaeth Lefel Mynediad Organig (OELS). Nododd y gwerthusiad fod 80% o'r holl wariant ES gan ddeiliaid cytundeb wedi'i wario yn lleol[303]. Roedd hyn yn wir am bryniannau contractwyr, cyflenwyr a chynghorwyr a holwyd.

*7.583* Yn ôl adolygiad yn 2021[304] o'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy: *Amlygodd sawl prosiect sut roeddent yn cyfrannu at fwy o wariant yn y gymuned leol drwy ddefnyddio contractwyr lleol fel mecanyddion, cyflenwyr adeiladwyr, a dylunwyr gwe ar gyfer yr holl weithgaredd posibl gyda chefnogaeth SMS. Honnodd y prosiectau fod y gwariant ychwanegol hwn yn rhoi hwb mawr ei angen i'r economi leol…… Teimlai prosiectau eraill y byddai'r gwelliannau a wnaed i'r dirwedd yn denu mwy o ymwelwyr a thrwy hynny y byddai'n cynyddu gwariant lleol.*

**Manteision gweithredu**

*7.584* Mae manteision cymunedol eraill sy'n gysylltiedig â chamau sy'n cyd-fynd â'r amcanion SLM yn cynnwys yr effaith gadarnhaol debygol ar gyfalaf cymdeithasol cymuned ac ar lesiant cymunedol. Ar gyfer y cyntaf, nododd adolygiad[305] o gynlluniau amaeth-amgylchedd ym Mharc Cenedlaethol y Peak District y canlynol: *upland farming communities are also seen as being important to maintaining social*

[301] Agra CEAS (2005) Gwerthusiad economaidd-gymdeithasol o Tir Gofal, adroddiad ar gyfer CCGC a Llywodraeth Cymru. Holwyd sampl o 251 o gyfranogwyr Tir Gofal (ychydig dros 20% o'r 1,166 o gyfranogwyr a oedd wedi derbyn taliadau ar ddechrau'r prosiect)
[302] Jane Mills, Paul Courtney, Pete Gaskell, Matt Reed a Julie Ingram (2010), Estimating the Incidental Socio-economic Benefits of Environmental Stewardship Schemes, Countryside and Community Research Institute, Prifysgol Caerloyw
[303] Rhagdybir bod hyn yn cyfeirio at wariant cylch cyntaf
[304] Heledd Bebb a Nia Bryer, OB3 Research gyda chyfraniadau gan Rob Owen a Sue Rice, Partneriaeth BRO (2021) Y Cynllun Rheoli Cynaliadwy: Adroddiad Gwerthusiad Proses a Damcaniaeth Newid, adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru
[305] Szvetlana Acs, Nick Hanley, Martin Dallimer, Kevin J. Gaston, Philip Robertson, Paul Wilson, Paul R. Armsworth (2010) The effect of decoupling on marginal agricultural systems: Implications for farm incomes, land use and upland ecology, *Land Use Policy 27 (2010) 550–563*

*capital (community inter-linkages and institutions), and for many years governments have offered additional supports to upland farmers in an attempt to sustain incomes, rural services and populations in these areas.* Ar gyfer yr ail, mae adolygiad[306] yn 2007 o'r cysylltiadau rhwng llesiant a'r amgylchedd naturiol yn cyfeirio at: "*the positive impact of engagement with the natural environment (particularly green spaces) on psychological wellbeing individually and at the community level".*

**Gwella gwytnwch busnesau amaethyddol**

7.585 Camau i helpu i gadw ffermwyr ar y tir trwy wella gwytnwch a ffyniant busnesau amaethyddol (fferm) yn y dyfodol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd sector amaethyddol Cymru a chynhyrchu bwyd a nwyddau eraill.


*7.586* Ni ddylid cyfuno'r cysyniad o wytnwch a chadw strwythurau presennol. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru[307] yn nodi: *Mae gwydnwch economaidd yn fwy nag economi all wrthsefyll neu adfer o ergyd economaidd. Golyga hefyd y gall ymaddasu i amgylchiadau newydd. Dros y tymor hirach mae'n golygu gallu trawsnewid. Mae nod gwydnwch yn herio ffyrdd traddodiadol o feddwl am yr economi ac yn mynnu ffyrdd newydd o feddwl.*

**Maint y broblem**

7.587 Mae incwm ffermydd yn dangos rhywfaint o anwadalrwydd o flwyddyn i flwyddyn yn sgil dylanwad yr amodau amaethyddol (gan gynnwys y tywydd) ac amodau'r farchnad, yn bennaf yn y sector llaeth.

306 Julie Newton (2007) Wellbeing and the Natural Environment: A brief overview of the Evidence, Prifysgol Caerfaddon

307 Cryfhau Gwydnwch Economaidd | CPCC




Ffynhonnell: Arolwg Busnesau Fferm Cymru

Incwm cyfartalog Busnesau Fferm fesul Fferm

Llaeth Gwartheg a Defaid (LFA) Gwartheg a Defaid (iseldir) Pob math o fferm

7.588 Fodd bynnag, hyd yn oed o dan y system bresennol o gymorth amaethyddol, trwy'r BPS a Glastir, mae tua thraean o ffermydd yng Nghymru yn gwneud colled gymharol[308], ond mae tua hanner y ffermydd yn gwneud elw sy'n fwy nag elw ymylol[309].

7.589 Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng dyledion ac asedau yn effeithio ar wytnwch ariannol fferm hefyd. O dan y system gymorth bresennol, mae'r data[310] yn dangos y canlynol o safbwynt dyledion presennol:

- mae gan 4% o ffermydd ddyledion ac asedau rhwng £25,000 a £50,000
- mae gan 3% o ffermydd ddyledion ac asedau rhwng £50,000 a £100,000
- mae gan 1% o ffermydd ddyledion dros £100,000, ac asedau rhwng £50,000 a £100,000

7.590 Yn y tymor byr, y ffermydd hyn, tua 8%, sy'n debygol o fod yn fwy agored i niwed oherwydd newidiadau ym mhroffidioldeb y busnes fferm.

308 Wedi'i fesur fesul £100 o gostau
309 rhwng £0 a £10 fesul £100 o gostau
310 Incymau Fferm yng Nghymru, mis Ebrill 2018 tan fis Mawrth 2019

7.591 Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Llywodraeth Cymru, 2017- diweddarwyd 2019)[311] yn nodi pwysigrwydd hyrwyddo gwytnwch gweithwyr, cwmnïau a'r economi yn ei chyfanrwydd. Mae dadleuon presennol am effaith economaidd Brexit, canlyniadau economaidd y newid yn yr hinsawdd a natur anwadal prisiau mewnbwn ac allbwn amaethyddol yn ein hatgoffa am bwysigrwydd gwytnwch yn yr economi amaethyddol.

**Camau i sicrhau'r canlyniad**

*7.592* Mae modd gwella gwytnwch busnesau fferm trwy amrywio ffrydiau incwm. Ymysg pethau eraill, nododd adolygiad[312] yn 2014 o wytnwch ffermio yng Nghymru *Os yw ffermydd am fod yn gryfach, bydd angen ceisio creu ffrydiau incwm ehangach hefyd.*

*7.593* Nododd yr adolygiad wedyn: *Maes arall y gellir ei ystyried er mwyn ychwanegu at incwm ffermydd yr ucheldir yw taliad am wasanaethau ecosystemau. Mae cymdeithas yn cael budd o nifer o adnoddau a phrosesau sy'n cael eu cyflenwi gan ecosystemau naturiol. Cyfeirir at y rhain gyda'i gilydd fel gwasanaethau ecosystemau ….. Mewn cyd-destun Cymreig mae TWE yn cynnwys ystod eang o weithgareddau a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â'r tir. Mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu ynni, ansawdd dŵr, dŵr ar gyfer gwaith prosesu diwydiannol, dal, storio a rheoli carbon, cyfleoedd ar gyfer mynediad i'r cyhoedd, lliniaru llifogydd neu amddiffyn rhag llifogydd.*

7.594 **Datrysiadau seiliedig ar natur:** Nod SLM a'r pwerau cymorth yw cyfrannu at bridd iach, aer glân, ac amgylchedd cryf sydd â mwy o fioamrywiaeth. Bydd y nodau hyn yn cael eu cyflawni trwy ddatrysiadau seiliedig ar natur, gan fod y canlyniadau rydym yn ceisio eu sicrhau yn gallu deillio o newidiadau mewn ymarfer rheoli ffermydd. Er enghraifft, dylai cynnwys coed yn y system ffermio helpu i leihau'r risg llifogydd, a bydd y broses o adfer mawnogydd a chynyddu deunydd organig mewn tir amaethyddol sydd wedi'i wella yn cyfrannu at ddatgarboneiddio. Bydd y Bil yn rhoi'r pwerau i Weinidogion gefnogi'r gweithgareddau hyn o dan y dibenion ar gyfer cymorth, a bydd gweithgareddau o'r fath yn cyfrannu at gryfder busnesau fferm.

[311] Buddsoddiad Rhanbarthol yng Nghymru Ar ôl Brexit (llyw.cymru)
[312] Kevin Roberts (2014) Adolygiad o gadernid ffermio yng Nghymru, adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru

7.595 **Gwella effeithlonrwydd adnoddau:** Mae’r Bil yn nodi mai gwella effeithlonrwydd adnoddau yw un o’r prif ddibenion y gall Gweinidogion ddarparu cymorth ar ei gyfer. Gellir gwell effeithlonrwydd adnoddau ar ffermydd trwy fesur a gwella perfformiad, sydd yn ei dro yn helpu i leihau’r defnydd o fewnbynnau a lleihau costau cyffredinol. Mae’r effeithlonrwydd hwn yn cael dylanwad cadarnhaol ar berfformiad ariannol ffermydd a manteision amgylcheddol cadarnhaol. Mae gwella effeithlonrwydd yn golygu bod ffermydd yn gweithio’n dda yn eu hamgylchedd ac yn manteisio’n llawn ar yr adnoddau naturiol sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, bydd llawer o gamau sy’n cael eu cymryd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad ariannol. Hefyd, mae ffermydd sy’n perfformio’n dda yn gallu gwrthsefyll newid yn well, a thrwy fanteisio’n llawn ar adnoddau naturiol, maent yn fwy tebygol o allu cyflawni dibenion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Oherwydd y Bil, bydd cynlluniau’r dyfodol yn gallu cynorthwyo cynlluniau i ddeall eu costau a nodi lle mae modd gwneud gwelliannau, gan gynnwys defnyddio ynni adnewyddadwy, er mwyn gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd.

**Manteision gweithredu**

7.596 Mae taliadau i ffermwyr i gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn gallu cyfrannu at ffrwd incwm sefydlog i’r ffermwr. Mae hwn yn gyfraniad pwysig at reoli natur anwadal incwm fferm. Yn wahanol i Gynllun y Taliad Sylfaenol pan oedd y DU yn aelod o’r Undeb Ewropeaidd, ni fyddai taliadau i gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael eu heffeithio gan y gyfradd gyfnewid rhwng yr UE a’r DU, ac yn wahanol i brisiau’r farchnad a dderbynnir ar gyfer cynnyrch amaethyddol, ni fyddent yn agored i natur anwadal y farchnad oherwydd (er enghraifft) cynhyrchu yn lle mewnforio.

7.597 Yn aml, bydd camau gweithredu ar ffermydd i wella ansawdd y pridd yn arwain at fanteision ehangach fel llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr, gwella ansawdd dŵr, gwella ansawdd aer, a chynyddu cadernid yr ecosystem gan gynnal gallu’r tir i gynhyrchu.

7.598 Rydym yn disgwyl y bydd y Bil yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyflogaeth. Mae tystiolaeth o Tir Gofal yng Nghymru[313] a Stiwardiaeth Lefel Mynediad yn Lloegr[314]

[313] Agra CEAS (2005). Gwerthusiad economaidd-gymdeithasol o Gynllun Tir Gofal, adroddiad ar gyfer CCGC a Llywodraeth Cymru. Holwyd sampl o 251 o gyfranogwyr Tir Gofal (ychydig dros 20% o’r 1,166 o gyfranogwyr a oedd wedi derbyn taliadau ar ddechrau’r prosiect).
[314] Mills, J., Courtney, P., a Gaskell, P. (2010). Assessing the Incidental socio-economic impacts of Environmental Stewardship.

wedi dangos bod y cynlluniau amaeth-amgylchedd hyn yn gysylltiedig â chynnydd yn y galw am lafur. Yn ogystal, ar lefel y DU, awgrymir y canlynol: "*the contribution of Pillar 2 to rural employment is higher (1.2%) compared to the contribution of Pillar 1 (1.0%)*[315]". Mae hyn yn awgrymu cyfraniad cadarnhaol cyffredinol at gryfder busnesau fferm.

**Cynnal yr iaith Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.**

**Maint y broblem**

7.599 Mae data diweddaraf Cyfrifiad 2021 yn dangos bod 17.8% o bobl yng Nghymru 3 oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg, o'i gymharu â 19.0% yn 2011 a 20.5% yn 2001.

7.600 Yr awdurdodau lleol â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yw Gwynedd (64.4%), Ynys Môn (55.8%), Ceredigion (45.3%) a Sir Gaerfyrddin (39.9%). Mae'r awdurdodau hyn yn cael eu dosbarthu'n Awdurdodau Lleol Gwledig. Yr awdurdod lleol â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yw Gwynedd (73,600), a Sir Gaerfyrddin (72,800) sy'n ail. Rhwng 2011 a 2021 cafwyd gostyngiad yng nghyfran a nifer y siaradwyr Cymraeg ym mhob Awdurdod Lleol Gwledig yng Nghymru.

| | **Siaradwyr Cymraeg: newid rhwng 2011 a 2021** | | |
|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol (Awdurdodau Lleol gwledig yn unig)** | **Nifer** | **Newid pwynt canran yn y gyfran** | **Newid (canran)** |
| Ynys Môn | -1,200 | -1.4 | -3.1% |
| Ceredigion | -3,300 | -2.0 | -9.4% |
| Sir Gaerfyrddin | -5,200 | -4.0 | -6.7% |
| Conwy | -1,600 | -1.5 | -5.2% |
| Sir Ddinbych | -1,300 | -2.1 | -5.9% |
| Gwynedd | -3400 | -1.0 | -4.4% |
| Sir Fynwy | -900 | -1.2 | -10.2% |
| Sir Benfro | -2,200 | -2.0 | -9.6% |
| Powys | -2,600 | -2.2 | -10.8% |

315 Rizov, M., Davidova, S., & Bailey, A. (2018). Employment effects of CAP payments in the UK non-farm economy. European Review of Agricultural Economics, 45(5), 723-748.

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021*

7.601 Nid yw'r Cyfrifiad yn gofyn i ymatebwyr am lefel eu gallu Cymraeg neu ba mor aml maen nhw'n defnyddio'r Gymraeg. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn amcangyfrif bod 10.7% o'r rhai 16 oed a hŷn yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn 2021[316], a bod 21.9% ychwanegol â rhywfaint o allu siarad Cymraeg (roedd 4.8% yn gallu siarad "cryn dipyn", roedd 11.0% yn gallu siarad "ychydig", a 6.1% yn gallu siarad "ychydig eiriau yn unig").

*Amaethyddiaeth a'r Iaith Gymraeg*

7.602 Cyhoeddwyd ystadegau lefel uchel o Gyfrifiad 2021 ym mis Rhagfyr 2022, yn ymwneud â sgiliau Cymraeg yn ôl ardal a grŵp oedran. Adeg ysgrifennu'r asesiad effaith hwn, nid oedd ystadegau yn ymwneud â sgiliau Cymraeg yn ôl diwydiant a galwedigaeth ar gael eto. Felly, mae'r adran ganlynol yn defnyddio data o Gyfrifiad 2011.


7.603 Yn ôl data o Gyfrifiad 2011,[317] er gwaethaf maint bach y sector amaethyddol (2% o holl weithwyr Cymru), mae cyfran gymharol fwy o'r holl siaradwyr Cymraeg (5% o'r holl siaradwyr) yn gweithio yn y sector amaethyddiaeth.

7.604 Mae gan y sector amaethyddiaeth (gan gynnwys pysgota a choedwigaeth) y gyfran uchaf o weithwyr sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru (43%), o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer pob math o weithwyr ym mhob sector (16.6%).

7.605 Yn aml, mae gan awdurdodau lleol gwledig gyfrannau uchel o siaradwyr Cymraeg yn y diwydiant amaeth, yn ogystal â chyfrannau uwch o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu cyfan (Ffigur 1). Fodd bynnag, mae tuedd i gyfran y siaradwyr Cymraeg yn y diwydiant amaeth fod yn uwch na'r gyfran ar gyfer gweithwyr o bob math yn yr awdurdodau lleol hyn. Er enghraifft, mae gan Ynys Môn gyfran uchel o gyfanswm y gweithlu sy'n siarad Cymraeg (58%), ond mae'r gyfran o weithwyr amaethyddol yn yr awdurdod lleol yn uwch (77%). Mae'r gwahaniaeth mwyaf i'w weld yng Nghonwy a Sir Ddinbych, sy'n awgrymu pwysigrwydd cymharol uwch amaethyddiaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg.

[316] Amcangyfrifon arolwg rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2021
[317] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/language/adhocs/008881ct08342011census

**Ffigur 1. Canran y gweithwyr amaethyddol sy'n gallu siarad Cymraeg o'i gymharu â phob diwydiant, yn ôl Awdurdod Lleol**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*

Amaethyddiaeth   Pob diwydiant

Gwynedd, Conwy, Ynys Môn, Ceredigion, Sir Ddinbych, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Sir y Fflint, Powys, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Wrecsam, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Bro Morgannwg, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen

*7.606* Mae tair thema *Cymraeg 2050* yn gysylltiedig, ac mae gan y sector amaethyddiaeth gyfran uwch o siaradwyr Cymraeg eisoes o'i gymharu â diwydiannau eraill. Mae yna botensial, felly, ar gyfer defnydd mwy o'r Gymraeg yn y sector amaethyddiaeth, o'i gymharu â diwydiannau eraill.

*Amodau ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg*

7.607 Nid yw'r ffaith fod rhywun yn gallu siarad Cymraeg yn golygu o reidrwydd y bydd yn ei defnyddio yn y gweithle, am nifer o resymau gwahanol. Mae adroddiad

Llywodraeth Cymru 'Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector'[318] yn cynnwys tystiolaeth bod busnesau bwyd-amaeth, gan gynnwys amaethyddiaeth, yn darparu amodau mwy ffafriol ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg o'i gymharu â diwydiannau eraill, a bod hyn yn ymestyn y tu hwnt i ryngweithio oddi mewn i'r busnes. Ar gyfer ffermydd, bydd rhyngweithio y tu allan i'r busnes yn cynnwys masnachu anifeiliaid, porthiant, peiriannau ac ati ac amrywiaeth o weithgareddau eraill. I'r 43% o ffermydd[319] yng Nghymru sydd wedi arallgyfeirio i feysydd eraill (e.e. twristiaeth), gall y rhyngweithiadau busnes hyn fod yn digwydd mewn amrywiaeth ehangach o fusnesau hefyd.

*Amaethyddiaeth a Chymunedau*

7.608 Mae gwaith ymchwil[320] ar ffermydd 'Bach'[321] a 'Bach Iawn'[322] yng Nghymru yn darparu rhywfaint o ddealltwriaeth o rôl ffermydd Cymru yn eu cymunedau. Mae 87% o holl ffermydd Cymru yn ffermydd Bach a Bach Iawn.

7.609 Canfu'r gwaith ymchwil fod ffermwyr ar ffermydd bach yn fwy tebygol na ffermwyr ar ffermydd bach iawn i wneud y canlynol:

- Gallu siarad Cymraeg yn rhugl*
- Siarad Cymraeg bob dydd
- Siarad Cymraeg yn y cartref*

7.610 Yn ogystal, roeddent yn fwy tebygol o feddu ar y nodweddion canlynol:

- Wedi cael profiad blaenorol o ffermio*
- Wedi etifeddu neu dderbyn cyfrifoldeb am y fferm teuluol
- Creu incwm o'r fferm i ennill bywoliaeth*
- Dibynnu ar warged masnachol a thaliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol i ennill bywoliaeth

---

[318] Llywodraeth Cymru (2014). Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth Sector. Rhif y Prosiect: 47/2014.

[319] Llywodraeth Cymru (2019). Incymau Fferm yng Nghymru, Mis Ebrill 2018 tan Fis Mawrth 2019.

[320] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/deall-cymhellion-ffermwyr-ffermydd-bach-bach-iawn-adroddiad-llawn.pdf

[321] Wedi'u diffinio fel ffermydd â chynnyrch safonol rhwng €25,000 a €125,000

[322] Wedi'u diffinio fel ffermydd â chynnyrch safonol o dan €25,000

- Cymryd rhan mewn cynllun amaeth-amgylchedd neu gadwraeth*
- Ymwneud â 'llawer' o sefydliadau cymdeithasol neu ffermio
- Ymgysylltu, cydweithio a chymdeithasu â ffermwyr eraill*
- Nodi eu bod yn teimlo'n rhan o'r cymunedau ffermio a gwledig

*Yn nodi bod y canfyddiad hwn yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol[323].

7.611 Roedd ffermwyr ar ffermydd Bach Iawn yn fwy tebygol o fod wedi prynu eu fferm (canfyddiad sy'n arwyddocaol o safbwynt ystadegol), o ymwneud ag 'ychydig' o sefydliadau cymdeithasol neu ffermio, a dwywaith yn fwy tebygol o gael eu haddysgu hyd at lefel gradd.

7.612 Hefyd, mae'r adroddiad yn edrych yn benodol ar y gwahaniaeth rhwng ffermwyr sy'n siarad Cymraeg a ffermwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg, gan nodi bod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o deimlo'n rhan o'r gymuned wledig ac o fod â lefelau uwch o ymgysylltiad â sefydliadau cymdeithasol a ffermio na'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. Hefyd, roedd siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o fod wedi etifeddu eu fferm, ac roedd y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn fwy tebygol o fod wedi prynu eu fferm.

7.613 Mae'r canfyddiadau hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer sefyllfa ffermwyr Cymru yn eu cymunedau. Maent yn awgrymu bod y ffermwyr sy'n ffermio i ennill bywoliaeth, ac sy'n fwy tebygol o fanteisio ar gynlluniau cymorth y llywodraeth, hefyd yn ffermwyr sy'n fwy tebygol o fod yn siaradwyr Cymraeg ac yn aelodau o deuluoedd ffermio sydd wedi'u hen sefydlu, sydd â lefelau uwch o gyfranogiad yn eu cymunedau lleol. Mae'n bwysig nodi nad yw'r astudiaeth yn ystyried nodweddion ffermydd Canolig, Mawr, neu Fawr Iawn[324].

**Targedau presennol**

7.614 Cymraeg 2050 yw strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol ar gyfer yr iaith Gymraeg. Mae Cymraeg 2050 yn nodi bod ardaloedd sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn ganolog i weledigaeth

[323] Derbyniodd yr arolwg 419 o ymatebion wedi'u cwblhau y gellir eu defnyddio yn dilyn cysylltiad cychwynnol â 1,916 o unigolion gan esgor ar gyfradd ymateb o 21.9%.
[324] Wedi'u diffinio fel ffermydd â chynnyrch safonol rhwng €125,000 a €250,000, €250,000 a €500,000 a mwy na €500,000 yn y drefn honno.

Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gan eu bod yn debygol o greu amodau ffafriol ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg. Po fwyaf yw nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg mewn ardal, y mwyaf o gyfleoedd sydd ar gael i allu defnyddio Cymraeg bob dydd. Dyma dargedau'r strategaeth:

1. Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
2. Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau Cymraeg yn unig, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.

7.615 ***Ymarfer Ffermio*** O ystyried cyfran uchel y siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yn y sector amaethyddiaeth, a'r duedd i'r siaradwyr hyn ymgysylltu â'u cymunedau lleol, mae gan unrhyw gamau sy'n cyfrannu at sefydlogrwydd economaidd ffermydd y potensial i sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer yr iaith Gymraeg trwy gadw ffermwyr sy'n siarad Cymraeg ar eu tir ac yn eu cymunedau. Mae camau sy'n gyson â Rheoli Tir yn Gynaliadwy, fel profi'r pridd, gwella mesurau bioddiogelwch, defnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol, gosod seilwaith casglu dŵr, a lleihau'r defnydd o ynni, yn gallu llywio a sicrhau arbedion effeithlonrwydd a/neu gynyddu refeniw.

7.616 ***Ymgysylltu â'r Cyhoedd*** Mae ffermwyr yng Nghymru mewn sefyllfa unigryw i alluogi a chynorthwyo'r cyhoedd i gael mynediad at yr amgylchedd naturiol. Mae mentrau fel Dydd Sul Fferm Agored[325] eisoes yn helpu ffermwyr yng Nghymru i rannu eu gwaith gyda chynulleidfa eang, a byddai cymorth i gynnal ymweliadau addysgiadol yn helpu mwy o ffermwyr i godi ymwybyddiaeth o ffermio a'r amgylchedd naturiol. Mae gwaith allgymorth ac ymweliadau addysgiadol yn blatfform delfrydol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg; mae enwau Cymraeg ar gyfer lleoedd a nodweddion y dirwedd yn hynod ddisgrifiadol, gan ddarparu gwybodaeth nid yn unig am nodweddion ffisegol y tir, ond am yr hanes cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol hefyd.

7.617 ***Nodweddion treftadaeth*** Mae llawer o safleoedd treftadaeth Cymru wedi'u lleoli ar dir amaethyddol, ac mae'r dirwedd ei hun yn bwysig o safbwynt diwylliant a threftadaeth. Amcangyfrifir bod 90% y cant o dir Cymru wedi'i neilltuo ar gyfer amaethyddiaeth trwy dir fferm neu dir comin[326]. Hefyd, mae treftadaeth yn gallu

---

[325] https://farmsunday.org/open-my-farm/wales
[326] Mehefin 2020 Arolwg o Amaethyddiaeth a Garddwriaeth: Canlyniadau Cymru (gov.wales)

cynnwys agweddau anniriaethol megis iaith, arferion a diwylliant. Mae gwaith ymchwil ar gyfer Historic England yn disgrifio ffenomen gwerth “dim defnydd”[327] o safbwynt treftadaeth; y ffaith fod asedau treftadaeth yn creu gwerth i bobl hyd yn oed os nad ydynt yn ymweld â nhw neu’n eu defnyddio. O ganlyniad, gall camau i gadw, cynnal, ac adfer asedau treftadaeth yng Nghymru ychwanegu gwerth diwylliannol at gymdeithas yn unol ag amcan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i “gynnal a gwella adnoddau diwylliannol”. Yn ogystal â diogelu ac adfer asedau treftadaeth ffisegol, gellid cynorthwyo ffermydd i ddiogelu a hyrwyddo treftadaeth anniriaethol, megis enwau lleoedd, neu hyd yn oed adfer geiriau ac enwau’r dirwedd nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach o bosibl.

**Manteision gweithredu**

7.618 ***Arferion Ffermio*** Mae astudiaethau y cyfeiriwyd atynt mewn rhannau eraill o’r ddogfen hon wedi dangos bod camau ar ffermydd yn gallu cael effaith gadarnhaol ar berfformiad ariannol fferm (gweler yr adrannau ar *Liniaru Peryglon Llifogydd a Sychder*, *Gwella ansawdd dŵr*, *Sicrhau a hyrwyddo safonau uchel o iechyd a lles anifeiliaid, a Gwella perfformiad da byw)*.

7.619 Nid yn unig y mae camau i gynyddu proffidioldeb ffermydd yn y tymor byr a’r tymor canolig yn helpu i gadw ffermwyr ar eu tir, maen nhw hefyd yn sicrhau cynaliadwyedd ffermio ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol yn y tymor canolig a’r hirdymor. Gallai hyn fod yn bwysig i’r iaith Gymraeg trwy gadw ffermwyr sy’n siarad Cymraeg yn eu cymunedau ar hyn o bryd, a thrwy ddarparu cyfleoedd economaidd hyfyw yn y dyfodol i ffermwyr sy’n siarad Cymraeg.

7.620 ***Ymgysylltu â’r Cyhoedd*** a ***Nodweddion Treftadaeth*** Mae’n fwy anodd o lawer mesur manteision diogelu a gwella adnoddau diwylliannol anniriaethol fel iaith mewn termau ariannol. Serch hynny, dangoswyd bod pobl yn cael gwerth o asedau treftadaeth waeth a ydynt yn eu defnyddio ai peidio. Mae hyn yn deillio o’r ffaith eu bod yn gwybod bod yr ased ar gael i eraill, ei fod ar gael i genedlaethau’r dyfodol, ac yn gwybod ei fod yn bodoli o gwbl. Holwyd ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru 2017-18 am eu hagweddau tuag at yr iaith Gymraeg[328]. Nododd yr arolwg fod 84%

[327] Microsoft Word - Final Report_270705.doc (historicengland.org.uk)
[328] Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2017-18: Y Gymraeg: Hyder ac Agweddau (llyw.cymru)

o’r ymatebwyr nad oeddent yn siarad Cymraeg yn cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r datganiad “Mae’r Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi” (y ffigur cyfatebol ar gyfer siaradwyr Cymraeg oedd 97%).

7.621 Yn ogystal:

- roedd 68% o’r holl ymatebwyr yn cytuno neu’n cytuno’n gryf bod angen i fwy o ymdrech gael ei gwneud i gefnogi’r iaith.
- roedd 62% o’r rhai nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg yn cytuno neu’n cytuno’n gryf y byddent yn hoffi gallu siarad Cymraeg.
- roedd 85% o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl yn cytuno neu’n cytuno’n gryf y byddent yn hoffi siarad Cymraeg yn well.

7.622 Bydd camau sy’n cael eu cymryd gan ffermwyr i ddiogelu a gwella’r iaith Gymraeg, neu i’w rhannu gydag eraill trwy ymgysylltu â’r cyhoedd, yn cyfrannu at iechyd ased diwylliannol sy’n bwysig iawn i’r cyhoedd yng Nghymru.

**Camau Nesaf**

7.623 Yn ei adroddiad ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru), roedd Pwyllgor Cyllid y Senedd wedi argymell y dylai’r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd (y Gweinidog) ymgymryd â gwaith modelu i amcangyfrif cost flynyddol y cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy gan ddibynnu ar ddefnydd o’r cynllun ymysg mathau o ffermydd gwahanol (argymhelliad 3). Hefyd, fe wnaeth y Pwyllgor argymell, fel rhan o’r adolygiad ôl-weithredu, y dylai’r Gweinidog feintioli’r manteision sy’n deillio o’r Bil (argymhelliad 7).

7.624 Byddwn yn gwneud gwaith modelu manwl yn ymwneud â’r cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy arfaethedig terfynol er mwyn efelychu lefelau defnydd gan ffermydd yng Nghymru. Hefyd, bydd y gwaith modelu yn efelychu’r effaith ar ganlyniadau amgylcheddol amrywiol, gan gynnwys ansawdd dŵr, ansawdd aer, allyriadau nwyon tŷ gwydr, a bioamrywiaeth. Byddwn yn meintioli’r manteision hyn os oes modd.

7.625 Hefyd, rydym wedi comisiynu ymgynghorwyr annibynnol i fodelu effaith y cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy arfaethedig terfynol ar ystod o ddangosyddion economaidd lefel fferm a lefel rhanbarthol, gan gynnwys (ar gyfer mathau o ffermydd gwahanol) yr effaith dybiannol ar fusnesau fferm.

**Annog busnesau amaethyddol i reoli ynni'n effeithiol (gan gynnwys trwy fabwysiadu arferion arbed ynni a defnyddio ynni'n effeithiol, a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar eu tir).**

Maint y broblem

7.626 Gall arferion ffermio carbon isel a thechnoleg arwain at arbedion sylweddol o ran costau a refeniw[329]. Mae sawl opsiwn, megis gwella iechyd da byw, ffermio manwl gywir a rheoli tail, yn creu arbedion sylweddol i ffermwyr o ran costau biliau milfeddygol is, cynnyrch cnydau uwch a chostau gwrtaith is. Gall yr arferion ffermio hyn esgor ar nifer o fanteision cymdeithasol eraill gan gynnwys gwella ansawdd aer, dŵr a phridd, lleihau plâu a chlefydau a gwella strwythur pridd.

7.627 Mae dadansoddiad o lwybr sero net y CCC[330] yn amcangyfrif bod costau preifat net newid defnydd tir a mabwysiadu arferion ffermio carbon isel i sicrhau allyriadau sero net yng Nghymru erbyn 2050 yn fwy na'r manteision preifat. Fodd bynnag, wrth ystyried manteision cymdeithasol yn unig, mae'r gymhareb costau a manteision (BCR) yn cynyddu i 3.3.

[329] Er enghraifft, gweler adroddiad yr Ymddiriedolaeth Garbon 2019 Energy Efficiency in Agriculture Agriculture-Energy-Efficiency.pdf (windows.net)
[330] Vivid Economics (2020) "Economic impacts of Net Zero land use scenarios"

**Tabl: Gwerth presennol a fesul blwyddyn effeithiau economaidd y senario Sero Net, 2019 i 2050**

| | Net Zero Scenario | |
|---|---|---|
| | Present value to 2050 | Annualised value to 2050 |
| Total Private Costs | 39 | 1.8 |
| Total Private Benefits | 23 | 1.1 |
| Private NPV | -17 | -0.7 |
| Private BCR | 0.6 | |
| Total Social Benefits | 105 | 4.3 |
| Total Benefits | 127 | 5.0 |
| Social NPV | 89 | 3.6 |
| Social BCR | 3.3 | |

Note: Estimates in present value terms are discounted at the UK social discount rate.
Source: Vivid Economics

7.628 Mae llwybr sero net yr CCC yn rhagweld y gall 56,000 hectar o dir amaethyddol newid symud i gynhyrchu bio-ynni (gan gynnwys coedwigaeth gylchdro fer) erbyn 2050[331]. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o gnydau bio-ynni yn hyfyw yn ariannol i'r sector preifat. Mae hynny'n dangos yr angen am bolisïau penodol i fynd i'r afael â'r rhwystrau economaidd rhag tyfu cnydau ynni.

**Camau i sicrhau canlyniadau**

7.629 Mae ffermydd yn gollwng allyriadau nwyon tŷ gwydr wrth ddefnyddio ynni a thanwydd (er enghraifft, diesel mewn peiriannau a nwy naturiol i wresogi adeiladau). Bydd SLM a phwerau cymorth yn helpu ffermydd i ostwng yr allyriadau hyn a dod yn sero net. Mae angen helpu ffermydd i ddeall pa welliannau sydd eu heisiau i ddod yn llai dibynnol ar danwydd ffosil. Mae yna lawer o wahanol bethau y gall ffermwyr eu gwneud a byddant yn cael eu cefnogi i wneud y pethau sy'n gweithio orau iddyn nhw. Er enghraifft, drwy ddefnyddio technolegau ynni isel, newid arferion rheoli (er enghraifft, osgoi troi tir) a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Maen nhw'n helpu'r fferm hefyd i fod yn fwy effeithlon, gan ddefnyddio llai o adnoddau ac arbed arian.

[331] The CCC (2020:70) “Advice Report: The Path to a Net Zero Wales”

**Manteision Gweithredu**

7.630 Daw manteision i ffermydd drwy gymell perchnogion tir i fabwysiadu arferion i reoli ynni yn effeithiol (gan gynnwys trwy fabwysiadu arferion arbed ynni a defnyddio ynni'n effeithlon), ac i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar eu tir.

7.631 Yn ategu'r pwrpas hwn y mae pwrpas y cymorth ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n disgrifio llawer o'r manteision y gall rheoli ynni'n effeithiol esgor arnyn nhw i fusnesau fferm.

## *Ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol*

7.632 Mae'r Dadansoddiad Cost a Budd hwn wedi ei strwythuro yn y modd canlynol:

a) Opsiynau
b) Costau a manteision
c) Asesiad effaith

## Opsiynau

7.633 Ar gyfer y cynnig hwn, dim ond dau opsiwn sy'n cael eu hystyried - busnes fel arfer a datblygu'r pwerau yn y bil. Mae hyn oherwydd bod y pwerau sy'n cael eu cynnig yma yn barhad o'r pwerau presennol sydd wedi'u datblygu'n gyntaf yn neddfwriaeth yr UE ac yna Deddf Amaethyddiaeth 2020. Yn hynny o beth, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried opsiynau polisi ehangach ar hyn o bryd, gan na fu unrhyw arwydd bod rhanddeiliaid na llunwyr polisi eisiau i opsiynau eraill ar gyfer pwerau deddfu dros amodau eithriadol yn y farchnad gael eu hystyried.

### *Opsiwn 1 – Busnes fel arfer*

7.634 Byddai busnes yn ôl yr arfer yn yr achos hwn yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn colli'r pwerau sydd ganddynt ar hyn o bryd i wneud datganiad o amodau eithriadol yn y farchnad mewn amaethyddiaeth a darparu cymorth ariannol mewn achosion o'r fath. Byddent yn colli'r pŵer i addasu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn ymwneud â chynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storfeydd Preifat (PIPSA). Mae'r

pwerau hyn wedi'u cynnwys yn Atodlen 5 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.[332] Mae'r pwerau yn destun darpariaeth "machlud haul", sy'n golygu y byddant yn dod i ben ar ddiwedd 2024. Byddai hyn yn gadael Gweinidogion Cymru heb y pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â mesurau argyfwng.

7.635 Ni fyddai unrhyw fantais i Weinidogion Cymru beidio â chael pwerau dros fesurau argyfwng neu addasu deddfwriaeth PIPSA. Byddai'n golygu na allent ymyrryd i gefnogi busnesau amaethyddol sy'n cael eu heffeithio gan argyfwng ar draws y farchnad. Byddai hefyd yn golygu, pryd bynnag y bydd cymorth ariannol mewn argyfwng yn cael ei ddarparu i fusnesau amaethyddol mewn rhannau eraill o'r DU, na fyddai ffermwyr Cymru'n cael eu hamddiffyn yn yr un modd. Hefyd, ni fyddent yn gallu diweddaru deddfwriaeth yn ymwneud â chynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storfeydd Preifat pan fydd hynny'n ddymunol.

### *Opsiwn 2 – Datblygu pwerau dros Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol yn y Bil*

7.636 Byddai datblygu pwerau ar gyfer amodau eithriadol yn y farchnad i Weinidogion Cymru yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn golygu y byddai Gweinidogion yn parhau i fod â'r pwerau sydd ganddynt ar hyn o bryd. Byddai hyn yn datrys y problemau sy'n cael eu disgrifio o dan yr opsiwn busnes fel arfer, gan y byddai Gweinidogion yn gallu ymateb i argyfyngau yn y sector a diweddaru deddfwriaeth PIPSA lle bo hynny'n ofynnol.

7.637 Prif fantais y dull hwn fyddai'r hyblygrwydd y mae'n ei roi i Weinidogion Cymru ymateb i anghenion y farchnad. Datblygwyd mesurau argyfwng i ganiatáu i Weinidogion ymateb yn gyflym os bydd argyfyngau ar draws y farchnad i gynnal diogeledd bwyd ac atal methiant eang busnesau yn y gadwyn cyflenwi bwyd-amaeth. Heb bwerau o'r fath, byddai'r sector hwn yn fwy agored i amodau eithafol fel tywydd garw, pandemig a sancsiynau.

[332] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2020/21/schedule/5/part/2/enacted

**Hwn yw’r opsiwn a ffefrir.**

## Costau a manteision

### *Opsiwn 1 – Busnes fel arfer*

7.638 Ni fyddai unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â’r opsiwn hwn. Ond byddai Gweinidogion Cymru yn colli'r pŵer i ymyrryd a chefnogi busnesau pe bai amodau eithriadol yn y farchnad. Mewn sefyllfa o'r fath, gallai busnesau Cymru gael eu rhoi dan anfantais o gymharu â'u cymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU.

### *Opsiwn 2 – Datblygu pwerau dros Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol yn y Bil*

7.639 Mae cyfrifo costau ar gyfer y cynnig hwn yn anodd iawn gan mai natur y pwerau arfaethedig hyn yw hwyluso ymateb i argyfwng. Ni allwn wybod pryd y bydd argyfwng yn digwydd, nac ar ba raddfa, felly ni allwn gynllunio costau disgwyliedig. Yr hyn sy'n bosibl yw dadansoddi costau yr aed iddynt yn y gorffennol pan ddefnyddiwyd pwerau tebyg i wneud cynlluniau ymyrryd mewn argyfwng.

7.640 Yn y cyfnod rhwng 2011-2021, lansiwyd dau gynllun ymyrryd mewn argyfwng i gefnogi'r sector godro. Daeth un ar ffurf cymorth i'r sector godro ar draws yr UE yn 2016[333], mewn ymateb i galedi a achoswyd gan ddiwedd cwotâu llaeth, gwaharddiad Rwsia ar fewnforion bwyd o'r UE a phrisiau olew isel. Dylid nodi nad yw'r cynllun hwn o bosibl yn adlewyrchu'n uniongyrchol y math o gynllun sy’n bosibl o dan y pwerau sy’n cael eu cynnig yma, gan ei fod wedi'i gynnig fel set ehangach o gymorth yr UE i'r sector godro. O dan gynllun 2016, cafodd €30,195,996 ei ddyrannu i'r DU o dan y mesur ymyrryd mewn argyfwng hwn. Ar y pryd, amcangyfrifodd swyddogion y byddai'r cymorth i Gymru tua £3.2 miliwn. Wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant, yn 2022 byddai hwn werth £3,656,000.

7.641 Yn 2020, lansiwyd cynllun i gefnogi'r sector godro pan orfododd y pandemig Covid-19 fusnesau lletygarwch a oedd yn defnyddio llawer o laeth, megis siopau coffi a bwytai, i gau. Er i'r cynllun hwn ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru

[333] https://ec.europa.eu/commission/presscorner/detail/en/IP_16_2563

2006,[334] fe'u defnyddiwyd mewn ffordd debyg i sut y gellid defnyddio'r pwerau arfaethedig yma. O dan y cynllun hwn, talwyd £1,018,500 i ffermwyr godro Cymru, sy'n gyfwerth â £1,079,000 ym mhrisiau 2022.

7.642 Mae'n debygol bod mesurau o'r fath wedi atal methiant busnesau godro Cymru a gafodd eu heffeithio gan ddigwyddiadau y tu allan i'w rheolaeth a chynnal cyflenwad llaeth i ddefnyddwyr a manwerthwyr yn y tymor hir.

7.643 O dan y pwerau arfaethedig ar gyfer amodau eithriadol yn y farchnad, ni fyddai angen is-ddeddfwriaeth ar gyfer datganiad o amodau eithriadol yn y farchnad. Gan y byddai unrhyw ymyrraeth o'r fath yn cael ei wneud dan amodau argyfwng, ni fyddai dadansoddiad cost a budd cwbl fanwl yn debygol o gael ei wneud i asesu costau ymyrraeth o'r fath. Mae'n arfer arferol i Lywodraeth Cymru werthuso cynllun unwaith y bydd wedi gorffen er mwyn asesu ei werth am arian a'i effeithiolrwydd.

7.644 Mae costau i addasu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn ymwneud ag Ymyrraeth Gyhoeddus a Chymorth Storfeydd Preifat yn debygol o fod yn fach.

7.645 Nid yw cwsmeriaid Cymru wedi defnyddio cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus neu Gymorth Storfeydd Preifat ers o leiaf 2000. Mae Llywodraeth Cymru wrthi’n datblygu deddfwriaeth i ddileu’r opsiwn ar gyfer cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus ac eithrio amodau eithriadol yn y farchnad, ac i ddiwygio sut mae cynlluniau Cymorth Storfeydd Preifat yn gweithredu, gan ddefnyddio pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru yn Neddf Amaethyddiaeth 2020.

7.646 Mae’r dadansoddiad cost a budd o’r gwaith hwn wedi dangos nad yw’r gwaith yn arwain at unrhyw gostau gan nad yw’r cynlluniau yn cael eu defnyddio yng Nghymru, ac oherwydd bod diwygio’r ddeddfwriaeth yn rhan o waith busnes fel arfer Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn debygol o fod yn wir am unrhyw ddiwygiadau i’r ddeddfwriaeth hon yn y dyfodol.

## Asesiadau effaith

7.647 Cwblhawyd asesiad effaith integredig ar gyfer y cynnig hwn, sy'n cynnwys yr asesiadau effaith canlynol:

a) Cydraddoldeb

[334] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents Atodlen 7, Paragraff 30

b) Prawfesur gwledig
c) Y Gymraeg
d) Bioamrywiaeth

7.648 Prin yw effeithiau'r cynnig am bwerau dros ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol ym Mesur Amaethyddiaeth (Cymru) a nodwyd drwy'r asesiad effaith integredig. Mae hyn, fel y disgrifir uchod, yn deillio o'r ffaith nad yw'r cynigion yn achosi newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio cyfredol ar gyfer ymyriadau mewn amodau eithriadol yn y farchnad, a'r ffaith nad oes cynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau arfaethedig i newid y fframwaith hwn.

7.649 Mae'r cynnig hwn o ddiddordeb mawr i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, gan fod ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol yn effeithio ar fusnesau fferm yn benodol. Yn yr un modd, mae'n cael effaith berthnasol ar y defnydd o'r Gymraeg, gan mai amaethyddiaeth yw'r proffesiwn sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Felly, bydd unrhyw gynnig sy'n effeithio ar yr economi amaethyddol yn cael effaith ar y Gymraeg.

7.650 Gan fod deddfwriaeth sylfaenol newydd yn cael ei chreu yn y cynnig hwn, mae ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder (JSII) wedi'i llenwi, ond gan fod y newidiadau'n parhau â'r drefn arferol, nid yw Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder yn cael sylw llawn ar gyfer y cynnig hwn.

## Tenantiaethau Amaethyddol

7.651 Mae'r Dadansoddiad Cost a Budd hwn ei strwythuro yn y modd canlynol:

a) Opsiynau
b) Costau a manteision
c) Asesiad cystadleuaeth

### Opsiynau

#### *Opsiwn 1 – Gwneud dim*

7.652 Ystyriwyd gadael y rheoliadau heb eu newid. Heb droi at y weithdrefn datrys anghydfod hwn, gall rhai tenantiaid gael eu cyfyngu'n annheg rhag bod yn rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), rhag cael cymorth ariannol o dan ddeddfwriaeth

amaethyddol arall neu rhag cydymffurfio â dyletswydd statudol, gyda risg o golled ariannol i'r tenant ac effaith ar ein gallu i gyflawni yn erbyn ein hamcanion strategol allweddol mewn perthynas â'r argyfwng hinsawdd a'r uchelgais 'sero net', materion iechyd cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag allyriadau amaethyddol a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

7.653 Yn ogystal, byddai tenantiaid cytundebau Deddf 1986 yng Nghymru) o dan anfantais o gymharu â thenantiaid yn Lloegr lle mae The Agricultural Holdings (Requests for Landlord’s Consent or Variation of Terms and the Suitability Test) (England) Regulations 2021 eisoes wedi'u gweithredu.

## *Opsiwn 2 – Diwygio Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (Deddf 1986)*

7.654 Byddai'r diwygiad yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i alluogi tenantiaid AHA atgyfeirio i ddatrys anghydfod unrhyw gymal yn eu prydles sy'n cyfyngu ar eu gallu i fanteisio ar gynlluniau cymorth ariannol yn y dyfodol sy'n cael eu llywodraethu gan y Bil Amaethyddiaeth (Cymru). Bydd manylion y weithdrefn anghydfod yn cael eu gosod mewn is-ddeddfwriaeth.

7.655 Mae’n gweithredu argymhellion y Grŵp Diwydiant Diwygio Tenantiaeth (TRIG) a chanlyniadau ein hymgynghoriad ar ddiwygio tenantiaeth yn 2019 a'n Papur Gwyn Amaeth (Cymru).

7.656 Byddai Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 yn parhau heb ei newid gan olygu y gallai tenantiaid FBT ei chael hi’n anodd ymuno â chynlluniau cymorth ariannol yn y dyfodol neu gydymffurfio â dyletswydd statudol, gan ddibynnu ar amodau cytundeb y denantiaeth.

## *Opsiwn 3 - Diwygio Deddf 1986 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol (ATA) 1995 (Deddf 1995)*

7.657 Byddai hyn yn galluogi tenantiaid â thenantiaeth Deddf 1995 (ATA), yn ogystal â thenantiaid AHA, i droi at y drefn datrys anghydfod i ddelio ag unrhyw gymal yn eu prydles sy'n cyfyngu ar eu gallu i fanteisio ar gynlluniau cymorth ariannol yn y dyfodol, gyda Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn disgrifio’r ddeddfwriaeth y gellid rhoi cymorth ariannol trwyddi.

7.658 Cafodd cwestiwn penodol am yr opsiwn hwn ei gynnwys ym Mhapur Gwyn Amaeth (Cymru). Er bod llai o ymatebwyr i'r adran nag adrannau eraill, y teimlad cyffredinol oedd nad oedd angen diwygio Deddf 1995. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod strwythur byrdymor nodweddiadol Tenantiaethau Busnes Fferm (FBTs) yn golygu eu bod yn cael eu negodi'n amlach, gan wneud y diwygiad yn llai perthnasol. Roedd eraill o'r farn bod digon o ddulliau eisoes ar waith ar gyfer FBTs, felly byddai gweithdrefnau ychwanegol yn ddiangen.

7.659 Mae trafodaethau dilynol gyda rhanddeiliaid yn awgrymu nad yw'r hyblygrwydd a roddir gan Ddeddf 1995 i bob pwrpas yn cael ei ddefnyddio'n helaeth a dywedir wrthym mai pŵer neu ddylanwad cyfyngedig iawn sydd gan denantiaid dros delerau'r FBTs. Dywedir wrthym fod hyn yn rhannol oherwydd y galw am dir rhent sy'n llawer mwy na'r cyflenwad.

7.660 Er bod y bwlch presennol yn y ddarpariaeth yn debygol o fod yn fach iawn, byddai gwelliant o'r fath yn dileu amwysedd wrth gymhwyso'r rheolau presennol ac o fudd mewn nifer fach o achosion heb effeithiau niweidiol amlwg mewn mannau eraill.

7.661 **Dyma'r opsiwn a ffefrir.**

## Costau a manteision

7.662 Mae Deddf 1986 yn berthnasol i gytundebau tenantiaeth amaethyddol a wnaed cyn 1 Medi 1995 ac i rai tenantiaethau (tenantiaethau olyniaeth yn bennaf) a roddwyd ar ôl y dyddiad hwnnw a eithriwyd yn benodol o gymhwyso Deddf 1995. Yn ôl Data Gweinyddol Taliadau Gwledig Cymru (RPW), roedd tua 1,700 o hawlwyr BPS â phrydlesau AHA yn cwmpasu tua 98,500 hectar o dir yn 2021. Mae hyn yn cyfateb i tua 11% o hawlwyr BPS ac 8% o gyfanswm arwynebedd hawlio'r BPS.

7.663 Mae'r AHA:

a) yn darparu sicrwydd deiliadaeth i'r tenant drwy osod cyfyngiadau ar unrhyw hysbysiad a roddir gan y landlord,
b) yn rhoi cyfleoedd i rai ar gyfer hyd at ddwy olyniaeth,
c) yn rheoleiddio telerau'r tenantiaeth,
d) yn digolledu'r tenant a'r landlord o dan wahanol amgylchiadau,
e) yn darparu ar gyfer amrywiaeth o faterion amrywiol eraill.

7.664 Mae'r Ddeddf yn darparu tri dull o ddatrys anghydfodau rhwng landlordiaid a thenantiaid, sef:

a) y Tribiwnlys Tir Amaethyddol;

b) cyflafareddu neu benderfyniad gan drydydd parti;

c) y llysoedd.

7.665 Cyflafareddu neu benderfyniad gan drydydd parti yw'r prif ddull o ddatrys anghydfod o dan y Ddeddf. Mae'r rhan fwyaf o anghydfodau, yn enwedig y rhai sy'n cael eu llywodraethu gan ystyriaethau amaethyddol ymarferol, yn gorfod cael eu cyfeirio at gyflafareddu o dan y Ddeddf.

7.666 Mae Deddf 1995 yn berthnasol i'r rhan fwyaf o gytundebau tenantiaeth a wnaed ar neu ar ôl 1 Medi 1995. Caiff y rhain eu galw'n 'Denantiaethau Busnes Fferm'.

7.667 Yn ôl data gweinyddol RPW, roedd 3,300 o hawlwyr BPS â phrydles FBT yn cwmpasu tua 148,300 hectar o dir yn 2021. Mae hyn yn cyfateb i tua 20% o hawlwyr BPS ac 12% o gyfanswm arwynebedd hawlio'r BPS.

7.668 Cyflwynwyd FBTs ar adeg pan oedd y sector gosod eiddo yn lleihau a phan oedd dewisiadau amgen i denantiaethau amaethyddol yn cael eu defnyddio yn eu lle. Teimlwyd bod hyn, yn rhannol, o ganlyniad i'r ffaith nad oedd diwygiadau blaenorol i denantiaeth amaethyddol wedi gwneud fawr ddim i ysbrydoli hyder landlordiaid yn y sector gosod eiddo.

7.669 Cyflwynwyd ATA 1995 gyda llawer mwy o ryddid contract i annog mwy o osod eiddo amaethyddol. Yn wahanol i Ddeddf 1986, nid yw'r ddeddfwriaeth yn darparu sicrwydd deiliadaeth na hawliau olyniaeth. Yn hytrach, mae partïon yn rhydd i drafod cytundebau unigryw, sy'n adlewyrchu eu buddiannau a'u huchelgeisiau penodol a natur unigol y daliad. Mae hyn yn cynnwys hyd y tymor, lefelau rhent ac amlder adolygiadau rhent.

### *Opsiwn 1: Gwneud Dim*

7.670 Byddai'r opsiwn hwn yn cadw'r sefyllfa bresennol neu fusnes fel arfer. Dyma'r llinell sylfaen ar gyfer asesu asesir costau a manteision cymharol yr opsiwn amgen.

7.671 Nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn 'gwneud dim' hwn.

### *Opsiwn 2: Diwygio Deddf 1986*

7.672 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddarpariaethau cyffredinol yn Neddf 1986 sy'n galluogi tenant i herio cymal cyfyngol yn ei brydles drwy broses datrys anghydfod. O ganlyniad, gall rhai tenantiaid AHA gael eu cyfyngu'n annheg rhag ymuno â'r SFS, gyda risg o golled ariannol i'r tenant ac effaith ar ein gallu i gyflawni yn erbyn ein hamcanion strategol allweddol

7.673 Bydd gwneud y diwygiad yn cynyddu cyfanswm yr anghydfodau sy'n codi. Ar gyfer pob achos newydd, bydd cost i fusnes a allai gael ei ysgwyddo naill ai gan y landlord, y tenant neu'r ddau (yn dibynnu ar natur yr achos).

7.674 Bydd costau amser i bob unigolyn, ond bydd hyn yn amrywio fesul achos. Mae'r ffaith nad yw cytundebau, trafodaethau ac anghydfodau sydd wedi codi rhwng tenantiaid amaethyddol a thirfeddianwyr hyd yma wedi'u datgelu yn ei gwneud hi'n amhosibl nodi'r gwir effaith. Mae'n amhosibl hefyd gwybod union nifer yr anghydfodau newydd a fydd yn codi o ganlyniad i'r ddarpariaeth hon, ac mae meintoli yn arwain at berygl o gamfarnu gormodol.

7.675 Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd y cynnig yn effeithio ar is-set fach o'r sector AHA yn unig. Yn y rhan fwyaf o achosion, rydym yn disgwyl y bydd y broses newydd yn cynnig cymhelliant i denantiaid a landlordiaid ddod i gytundeb a negodwyd er mwyn osgoi costau datrys anghydfod. Dim ond lleiafrif bach iawn na allant ddod i gytundeb a negodwyd a fydd yn dibynnu ar y darpariaethau, a hynny pan fetho pob dim arall.

7.676 Mae'r asesiad hwn yn dibynnu ar gyngor gan arbenigwyr o'r diwydiant sy'n amcangyfrif y gallai'r darpariaethau arwain at bump i ddeg anghydfod newydd y flwyddyn (1% o gytundebau AHA) sy'n golygu bod angen penodi cyflafareddwyr. Mae'r mwyafrif llethol o anghydfodau (99%) yn cael eu setlo heb fod angen cyflafareddu llawn, gyda dim ond 1% yn mynd drwy'r broses gyfan. Byddai hyn yn cyfateb i uchafswm o un anghydfod yn mynd i gyflafareddu llawn y flwyddyn.

7.677 Gall y partïon dan sylw benodi cyflafareddwyr yn uniongyrchol lle gallant gytuno ynghylch pwy ddylai'r rheini fod, neu os na allant gytuno, person a benodir gan Gymdeithas y Gyfraith Amaethyddol (ALA), Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol (CAAV) neu Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau Daliadau Amaethyddol (Ffi) 2022 yn pennu ffi benodi o £115.

7.678 Mae arbenigwyr yn y diwydiant yn amcangyfrif mai cost gyfartalog cyflafareddu llawn yw tua £25,000. Mae hyn yn cynnwys cost amser cyflafareddwr a ffioedd cysylltiedig ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol.

7.679 Mae’r costau’n llai lle penodir cyflafareddwyr ond lle daw’r partïon i gytundeb heb fod angen cyflafareddu llawn. Mae arbenigwyr yn y diwydiant yn amcangyfrif bod hyn oddeutu £15,000 fesul achos, yn bennaf drwy ffioedd cyfreithiol a osgowyd.

7.680 Mae penderfyniad arbenigol yn ddewis rhatach a chyflymach na chyflafareddu. Yn hytrach na bod partïon yn cyflwyno eu hachos i gyflafareddwr, maent yn cytuno i benodi trydydd parti a ddylai fod ag arbenigedd yn y mater y mae anghytundeb yn ei gylch. Mae’r person hwn yn adolygu’r dystiolaeth ac yn gwneud penderfyniad i setlo’r anghydfod. Mae’r penderfyniad yn rhwymo a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y gellir apelio yn ei erbyn neu ei herio. Mae’r broses fel arfer yn cymryd tri i chwe mis ac amcangyfrifir y bydd yn costio £5,000 ar gyfartaledd yn ôl asesiad TRIG yn 2014 i lywio Deddf Dadreoleiddio 2015. Bydd hyn wedi codi i tua £6,000 gan ystyried chwyddiant.

7.681 Mae arbenigwyr yn y diwydiant sy'n cynghori asesiadau prynu gorfodol yn aml nawr yn pennu bod amser ffermwr yn £35/awr. Gellid amcangyfrif yn rhesymol bod amser mewn anghydfodau yn 15 awr o amser tenantiaid a 5 awr o amser landlord, sy'n cyfateb i £700 am bob anghydfod.

7.682 O'r herwydd, rydym yn amcangyfrif bod cyfanswm y gost i fusnesau rhwng £86,000 a £167,000 y flwyddyn o'i weithredu drwy is-ddeddfwriaeth fel y nodir isod:

**Tabl 56: Costau cyflafareddu a nifer yr achosion**

| | | **Nifer yr achosion** | |
|---|---|---|---|
| **Math** | **Cost fesul achos** | **Senario gwaethaf** | **Senario gorau** |
| Cyflafareddu llawn | £25,000 | 1 | 1 |
| Cytundeb a negodwyd | £15,000 | 9 | 0 |
| Penderfyniad gan arbenigwr | £6,000 | 0 | 9 |
| Amser tenant | £525 | 10 | 10 |
| Amser landlordiaid | £175 | 10 | 10 |
| CYFANSWM | | £167,000 | £86,000 |

7.683 I rai, gallai'r costau a'r amser sydd eu hangen i fynd drwy'r broses atal unigolion a busnesau rhag defnyddio'r darpariaethau. Dim ond y rhai sydd o'r farn bod y manteision tebygol yn fwy na'r costau fydd yn ystyried cyflafareddu fel opsiwn ymarferol. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd y darpariaethau'n gymhelliant i denantiaid a landlordiaid ddod i gytundeb a negodwyd er mwyn osgoi costau datrys anghydfod, ond gan ddarparu dewis olaf deddfwriaethol i'r rhai na allant ddod i gytundeb rhesymol.

7.684 Bwriad yr opsiwn hwn yw hwyluso mynediad at gynlluniau cymorth ariannol i'r ffermwyr tenant hynny a allai fod wedi cael eu hunain wedi'u cyfyngu'n annheg fel arall. Mae manteision cymryd rhan mewn cynllun cymorth ariannol wedi'u nodi yn asesiadau effaith Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

### *Opsiwn 3: Diwygio Deddf 1986 a 1995.*

7.685 Er bod teimlad cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr i Bapur Gwyn Amaeth (Cymru) bod y ddarpariaeth hon yn llai perthnasol i FBTs gan eu bod yn cael eu trafod yn amlach, dangosodd trafod pellach â rhanddeiliaid mai ychydig iawn o bŵer neu ddylanwad sydd gan denantiaid dros amodau eu tenantiaeth.

7.686 Er yr ystyrir bod y bwlch presennol yn y ddarpariaeth yn fach iawn, byddai gwelliant o'r fath yn dileu amwysedd wrth gymhwyso'r rheolau presennol ac o fudd mewn nifer fach o achosion heb effeithiau niweidiol amlwg mewn mannau eraill.

7.687 Gan ddefnyddio'r un rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn Opsiwn 2 uchod, rydym yn amcangyfrif mai rhwng £172,000 a £334,000 y flwyddyn fydd cyfanswm y gost i fusnes, o'i gychwyn a'i weithredu fel y disgrifir isod.

**Tabl 57: Costau cyflafareddu a nifer yr achosion**

| | | **Nifer yr achosion** | |
|---|---|---|---|
| **Math** | **Cost fesul achos** | **Senario gwaethaf** | **Senario gorau** |
| Cyflafareddu llawn | £25,000 | 2 | 2 |
| Cytundeb a negodwyd | £15,000 | 18 | 0 |
| Penderfyniad gan arbenigwr | £6,000 | 0 | 18 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Amser tenant | £525 | 20 | 20 |
| Amser landlordiaid | £175 | 20 | 20 |
| CYFANSWM | | £334,000 | £172,000 |

#### *Asesiad o'r gystadleuaeth*

7.688 Mae'n annhebygol y bydd y darpariaethau'n cael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth.

## *Safonau Marchnata: Cynhyrchion Amaethyddol*

7.689 Mae'r Dadansoddiad Cost a Budd hwn wedi ei strwythuro yn y modd canlynol:

a) Opsiynau
b) Costau a manteision
c) Asesiad effaith

### Opsiynau

7.690 Ar gyfer y cynnig hwn, dim ond dau opsiwn sy'n cael eu hystyried - busnes fel arfer a datblygu'r pwerau yn y bil. Mae hyn oherwydd nad yw'r pwerau sy'n cael eu cynnig yma yn bwerau newydd, fel y cyfryw; yn hytrach, maent yn barhad o'r pwerau presennol sydd wedi'u datblygu'n gyntaf yn neddfwriaeth yr UE ac yna Deddf Amaethyddiaeth 2020. Yn hynny o beth, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried opsiynau polisi ehangach ar hyn o bryd, gan na fu unrhyw arwydd bod rhanddeiliaid na llunwyr polisi eisiau i opsiynau eraill ar gyfer pwerau deddfu mewn perthynas â Safonau Marchnata ar gyfer cynnyrch amaethyddol a bwyd gael eu hystyried.

#### *Opsiwn 1: Busnes fel arfer*

7.691 Yn yr achos hwn, byddai busnes fel arfer yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn colli'r pwerau sydd ganddynt ar hyn o bryd i wneud darpariaeth ynghylch safonau

marchnata ar gyfer cynnyrch amaethyddol a bwyd. Mae'r pwerau hyn wedi'u cynnwys yn Atodlen 5 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.335 Mae'r pwerau yn destun darpariaeth "machlud haul", sy'n golygu y byddant yn dod i ben ar ddiwedd 2024. Byddai hyn yn gadael Gweinidogion Cymru heb y pŵer i wneud darpariaeth ynghylch safonau marchnata o'r fath.

7.692 Ni fyddai unrhyw fantais i Weinidogion Cymru beidio â bod â phwerau dros safonau marchnata cynhyrchion amaethyddol a bwyd. Byddai'n golygu na allent addasu rheoliadau mewn ymateb i ddatblygiadau yn y gadwyn gyflenwi, megis technolegau newydd neu newid mewn hyder defnyddwyr. Byddai hefyd yn golygu, pryd bynnag y byddai rheoliadau safonau marchnata yn cael eu newid mewn rhannau eraill o'r DU, y byddai gwahaniaeth mewn safonau. Byddai hyn yn cynyddu'r baich gweinyddol i gwmnïau sy'n gweithredu ar draws ffiniau, ac mae gan lawer o broseswyr a manwerthwyr yng Nghymru gadwyni cyflenwi trawsffiniol.

### *Opsiwn 2: Datblygu pwerau i Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol yn y Bil*

7.693 Drwy ddatblygu pwerau safonau marchnata dros gynhyrchion amaethyddol a bwyd i Weinidogion Cymru ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru), byddai Gweinidogion yn parhau i fod â'r pwerau sydd ganddynt ar hyn o bryd. Byddai hyn yn datrys y problemau a ddisgrifir o dan yr opsiwn busnes fel arfer, gan y byddai Gweinidogion yn gallu ymateb i arloesedd technolegol a sefydliadol yn y sector, a lleihau'r risg o broblemau cyflenwi trawsffiniol.

7.694 Prif fantais y dull hwn fyddai'r hyblygrwydd y mae'n ei roi i Weinidogion Cymru ymateb i anghenion y farchnad. Mae rheoliadau safonau marchnata yn bodoli er mwyn gwella effeithlonrwydd y farchnad ac i gynnal hyder defnyddwyr mewn cynhyrchion amaethyddol a bwyd. Mae rheoliadau yn y maes hwn wedi'u diweddaru dros amser i ymateb i newidiadau yn nhrefn y farchnad a chwaeth defnyddwyr dros y blynyddoedd. Drwy barhau i allu gwneud darpariaeth ar gyfer safonau marchnata, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu parhau i ymateb i'r farchnad fel hyn.

**Hwn yw'r opsiwn a ffefrir.**

[335] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/21/schedule/5/part/4/enacted Paragraphs 16 & 17

## Costau a manteision

### *Opsiwn 1 – Busnes fel arfer*

7.695 Dyma'r opsiwn llinell sylfaen, felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddai Gweinidogion Cymru yn colli eu pwerau presennol i wneud darpariaeth ynghylch safonau marchnata ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwyd.

### *Opsiwn 2 Datblygu pwerau Safonau Marchnata yn y Bil*

7.696 Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau arfaethedig yn ymwneud â safonau marchnata yn y cyfnod amser a nodir, ond mae'n bosibl y bydd y pwerau'n cael eu defnyddio ar ryw adeg yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn oherwydd bod deddfwriaeth wedi'i gwneud yn rheolaidd gan ddefnyddio pwerau tebyg yn y gorffennol. Gan ddefnyddio cyfnod cyfeirio o 2011-2021, gwnaed rheoliadau safonau marchnata neu ddiwygiadau i reoliadau o'r fath naw gwaith gan ddefnyddio pwerau tebyg i'r rhai a gynigir yma.[336] Nod y darnau hyn o ddeddfwriaeth yn bennaf oedd gorfodi cyfraith yr UE.

7.697 Er ei fod yn seiliedig ar brofiadau yn y gorffennol, mae'n ymddangos yn debygol y bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio yn y cyfnod 2025-35; heb wybod beth fydd yn cael ei gynnig, mae'n amhosibl cyfrifo cost debygol deddfwriaeth o'r fath. O'r herwydd, nid oes cyfrifiad o gostau na manteision wedi'i gynnwys fel rhan o'r asesiad hwn. Felly, nid yw cost y rhan hon o'r Bil yn hysbys ar hyn o bryd.

7.698 Pe bai is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud gan ddefnyddio'r pwerau a gynigir yma, bydd RIA yn cael ei gwblhau ar gyfer y ddeddfwriaeth honno i bennu ei chostau a'i manteision tebygol.

[336] Roedd y rhain ar gyfer Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011, Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019, Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011, Rheoliadau Gwybodaeth Bwyd (Cymru) 2014, Rheoliadau Olew Olewydd (Safonau Marchnata) 2014, Rheoliadau Gwybodaeth Bwyd (Cymru) 2014 (OS 2014/2303), Rheoliadau'r Trefniant Cyffredin Sengl ar gyfer Marchnadoedd (CMO) (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013 (OS 2013/3270), Rheoliadau Safonau Ansawdd Bananas Gwyrdd (Cymru a Lloegr) 2012 (OS 2012/947), Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Diwygio) 2011 (OS 2011/2587) a Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Rheoli a Gorfodi, Trawsgydymffurfio, Craffu ar Drafodiadau ac Apelau) 2014 (OS 2014/3263)

## *Asesiadau effaith*

7.699 Cwblhawyd asesiad effaith integredig ar gyfer y cynnig hwn, sy'n cynnwys yr asesiadau effaith canlynol:

a) Cydraddoldeb
b) Prawfesur gwledig
c) Y Gymraeg
d) Bioamrywiaeth

7.700 Prin yw effeithiau'r cynnig am bwerau safonau marchnata ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwyd ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru) sydd wedi'u nodi drwy'r asesiad effaith integredig. Mae hyn, fel y disgrifir uchod, yn deillio o'r ffaith nad yw’r cynigion yn achosi newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio cyfredol ar gyfer safonau marchnata, ac nid oes cynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio'r pwerau arfaethedig i newid y fframwaith hwn.

7.701 Mae'r cynnig hwn o ddiddordeb arbennig i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, oherwydd bod safonau marchnata cynhyrchion amaethyddol a bwyd yn effeithio ar fusnesau fferm yn benodol. Yn yr un modd, mae'n cael effaith berthnasol ar y defnydd o'r Gymraeg, gan mai amaethyddiaeth yw'r proffesiwn sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Felly, bydd unrhyw gynnig sy'n effeithio ar yr economi amaethyddol yn cael effaith ar y Gymraeg.

7.702 Gan fod deddfwriaeth sylfaenol newydd yn cael ei chreu yn y cynnig hwn, mae ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder wedi'i llenwi, ond gan fod y newidiadau'n parhau, nid oes proses Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder lawn yn cael ei chyflawni ar gyfer y cynnig hwn.

## Dosbarthu Carcasau

7.703 Mae’r Dadansoddiad Cost a Budd hwn wedi ei strwythuro yn y modd canlynol

a) Opsiynau
b) Costau a manteision
c) Asesiad effaith

## Opsiynau

7.704 Ar gyfer y cynnig hwn, dim ond dau opsiwn sy'n cael eu hystyried - busnes fel arfer a datblygu'r pwerau yn y bil. Mae'r pwerau sy'n cael eu cynnig yma yn barhad o'r pwerau presennol sydd wedi'u datblygu'n gyntaf yn neddfwriaeth yr UE ac yna Ddeddf Amaethyddiaeth 2020. Yn hynny o beth, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried opsiynau polisi ehangach ar hyn o bryd, gan na fu unrhyw arwydd bod rhanddeiliaid na llunwyr polisi eisiau i opsiynau eraill ar gyfer pwerau deddfu dros ddosbarthu carcasau gael eu hystyried.

### *Opsiwn 1 – Busnes fel arfer*

7.705 Yn yr achos hwn, byddai busnes fel arfer yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn colli'r pwerau sydd ganddynt ar hyn o bryd i wneud darpariaeth ynghylch dosbarthu, adnabod a chyflwyno carcasau gwartheg, moch a defaid gan ladd-dai yng Nghymru. Mae'r pwerau hyn wedi'u cynnwys yn Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.[337] Mae'r pwerau yn destun darpariaeth "machlud haul", sy'n golygu y byddant yn dod i ben ar ddiwedd 2024. Byddai hyn yn gadael Gweinidogion Cymru heb y pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â chategoreiddio carcasau.

7.706 Ni fyddai unrhyw fantais i Weinidogion Cymru beidio â chael pwerau yn ymwneud â dosbarthu carcasau. Byddai'n golygu na allent addasu rheoliadau mewn ymateb i ddatblygiadau yn y gadwyn gyflenwi, megis technolegau newydd yn gwneud dosbarthu carcasau'n fwy effeithlon. Byddai hefyd yn golygu, pryd bynnag y byddai rheoliadau dosbarthu carcasau yn cael eu newid mewn rhannau eraill o'r DU, y

[337] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2020/21/schedule/5/paragraph/18/enacted

byddai yna wahaniaeth mewn safonau. Byddai hyn yn cynyddu'r baich gweinyddol i gwmnïau sy'n gweithredu ar draws ffiniau, ac mae gan lawer o broseswyr a manwerthwyr cig yng Nghymru gadwyni cyflenwi trawsffiniol.

### *Opsiwn 2 – Datblygu pwerau Dosbarthu Carcasau yn y Bil*

7.707 Byddai datblygu pwerau dosbarthu carcasau i Weinidogion Cymru yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn golygu y byddai Gweinidogion yn parhau i fod â'r pwerau sydd ganddynt eisoes o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020. Byddai hyn yn datrys y problemau a ddisgrifir o dan yr opsiwn busnes fel arfer, o ran y byddai Gweinidogion yn gallu ymateb i arloesedd technolegol a sefydliadol yn y sector, a lleihau'r risg o broblemau cyflenwi trawsffiniol.

7.708 Prif fantais y dull hwn fyddai'r hyblygrwydd y mae'n ei roi i Weinidogion Cymru ymateb i anghenion y farchnad. Mae rheoliadau dosbarthu carcasau yn bodoli i wella effeithlonrwydd y farchnad ac i gynnal hyder defnyddwyr mewn cynhyrchion cig. Mae rheoliadau yn y maes hwn wedi'u diweddaru dros amser i gynyddu effeithlonrwydd o'r fath ac ymateb i newidiadau yn nhrefn y farchnad dros y blynyddoedd. Drwy barhau i allu gwneud darpariaeth ar gyfer dosbarthu carcasau, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu parhau i ymateb i'r farchnad fel hyn.

**Hwn yw’r opsiwn a ffefrir**

## Costau a manteision

7.709 Bydd effaith debygol y cynnig hwn yn isel. Byddai’r opsiwn busnes fel arfer yn cael mwy o effaith na datblygu pwerau dosbarthu carcasau yn y Bil. Mae hyn oherwydd y bydd y pwerau presennol sydd gan Weinidogion Cymru i ddiwygio dosbarthu carcasau a geir yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 yn dod i ben ddiwedd 2024. Byddai gwneud dim yn awr yn rhoi lladd-dai Cymru dan anfantais pan gollir y pwerau hyn.

7.710 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio’r pwerau hyn i wneud rheoliadau yn ymwneud â dosbarthu carcasau defaid, ond nid ydynt wedi’u datblygu’n ddigon manwl fel bod modd mesur costau a manteision. Os caiff y cynnig hwn ei ddatblygu yn y bil, a bod y pwerau’n cael eu defnyddio yn y dyfodol, cynhelir dadansoddiad cost a budd ochr yn ochr â'r is-ddeddfwriaeth.

7.711 Pe na bai'r pwerau ar gyfer dosbarthu carcasau yn cael eu datblygu yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru), ni fyddai unrhyw gost gychwynnol chwaith, gan y byddai'n golygu y byddai lladd-dai yn parhau i gael eu rheoli o dan y rheoliadau presennol. Y risg gyda'r dull hwn yw pan fyddai newid rheoleiddio yn ddymunol i wella effeithlonrwydd y farchnad, hyder defnyddwyr neu resymau eraill, ni fyddai gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud y newid hwn. Felly, gallai hyn olygu cost i ladd-dai a fyddai wedi elwa o reoliadau wedi'u diweddaru.

### *Asesiadau effaith*

7.712 Cwblhawyd asesiad effaith integredig ar gyfer y cynnig hwn, sy'n cynnwys yr asesiadau effaith canlynol:

a) Cydraddoldeb
b) Prawfesur gwledig
c) Y Gymraeg
d) Bioamrywiaeth

7.713 Prin yw effeithiau'r cynnig am bwerau dosbarthu carcasau yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) sydd wedi'u nodi drwy'r asesiad effaith integredig. Mae hyn, fel y disgrifir uchod, yn deillio o'r ffaith nad yw'r cynigion yn achosi newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio cyfredol ar gyfer dosbarthu carcasau, a'r ffaith nad yw gwybodaeth am reoliadau ar gyfer dosbarthu carcasau defaid yn y dyfodol wedi'i datblygu'n llawn eto.

7.714 Mae'r cynnig hwn o ddiddordeb mawr i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, gan fod dosbarthu carcasau yn effeithio ar fusnesau fferm yn benodol. Yn yr un modd, mae'n cael effaith berthnasol ar y defnydd o'r Gymraeg, gan mai amaethyddiaeth yw'r proffesiwn sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Felly, bydd unrhyw gynnig sy'n effeithio ar yr economi amaethyddol yn cael effaith ar y Gymraeg.

7.715 Gan fod deddfwriaeth sylfaenol newydd yn cael ei chreu yn y cynnig hwn, mae ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder wedi'i llenwi, ond gan fod y newidiadau'n parhau, nid oes proses Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder lawn wedi'i chynnal ar gyfer y cynnig hwn.

# Coedwigaeth

## *Cyflwyniad*

7.716 Mae'r papur hwn yn nodi'r costau a'r manteision ar gyfer pob un o'r opsiynau a nodwyd yn y papur Arfarnu Opsiynau y mae Grŵp Rhanddeiliaid Darpariaethau Coedwigaeth y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) (a elwir o hyn ymlaen y Grŵp Rhanddeiliaid) wedi ei ystyried a chyflwyno sylwadau arno.

7.717 Cafodd y papur Arfarnu Opsiynau ei ystyried yn y lle cyntaf gan y Grŵp Rhanddeiliaid yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2022, ac roedd yn nodi'r opsiynau tebygol i gael eu hasesu ar gyfer Darpariaeth Coedwigaeth Bil Amaethyddiaeth (Cymru) 2022. Y rhain oedd:

a) Busnes fel Arfer – dim diwygiau i Ddeddf Coedwigaeth 1967

b) Diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 (fel y'i diwygiwyd) i alluogi ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed, ac i ganiatáu i drwyddedau gael eu diwygio, eu hatal a'u dirymu ar ôl eu gwneud.

7.718 Ni nodwyd unrhyw opsiynau pellach. Helpodd y grŵp rhanddeiliaid i nodi'r prif gostau a manteision i'w harchwilio yn y Dadansoddiad Cost a Budd hwn sy'n rhoi'r amcangyfrifon gorau o effeithiau tebygol y Ddarpariaeth Coedwigaeth o fewn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

7.719 Cadeiriwyd y Grŵp Rhanddeiliaid gan Lywodraeth Cymru o dan nawdd Fforwm Rheoli Tir Cymru a chafodd ei ffurfio ar gyfer rhanddeiliaid allweddol a phartïon sydd â buddiant yn y Darpariaethau Coedwigaeth er mwyn darparu mewnbwn gwerthfawr a sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n cael ei phasio gan Senedd Cymru wedi'i dylunio'n addas i'r diben. Mae CNC yn darparu ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp Rhanddeiliaid.

7.720 Asesir y costau a'r manteision o'u cymharu â senario Busnes fel Arfer (BAU) sylfaenol fel bod effeithiau'r cynigion - ac unrhyw amrywiadau awgrymedig ar y cynigion - yn cael eu cymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r opsiwn hwn (BAU) – a ddiffinnir fel parhad y trefniadau presennol – yn cydnabod bod yna gostau cysylltiedig a bod y costau hyn yn newid dros amser. Archwilir y fethodoleg a ddefnyddir a'r costau cysylltiedig isod.

## *Methodoleg*

7.721 Mae asesu costau a manteision posibl gweithredu'r cynigion yn cynnwys ystyried pwy sy'n cael eu heffeithio ac ym mha ffordd, a'r goblygiadau posibl o ran adnoddau i'r awdurdod trwyddedu (CNC), cyrff cyhoeddus perthnasol eraill (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) a'r sector preifat. Aseswyd costau CNC gan ddefnyddio'r un fethodoleg ag ar gyfer rhannau eraill Bil Amaethyddiaeth (Cymru) 2022 ac mae'r rhain, ynghyd â rhagor o wybodaeth ansoddol a meintiol, wedi'u defnyddio gan y Grŵp Rhanddeiliaid i ymchwilio i oblygiadau ariannol pob newid arfaethedig a phob opsiwn. Mae'r costau tebygol a amlinellir yn gostau y *gellid* eu nodi ac y cytunwyd arnynt mewn cydweithrediad â'r Grŵp Rhanddeiliaid Darpariaeth Coedwigaeth. Hefyd, cytunodd y Grŵp *nad oedd modd* mesur nifer o gostau ac eithrio mewn enghreifftiau unigol fel y'u nodir yn nhestun yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, oherwydd natur hynod amrywiol pob safle a thrwydded cwympo coed. Darperir costau a manteision mewn termau NPV (ar brisiau 2022) a chynhyrchir ystodau ar gyfer costau a manteision lle mae ansicrwydd, er enghraifft, pa mor aml y gallai pŵer newydd gael ei ddefnyddio neu nifer a gradd y staff a allai fod yn rhan o'r broses.

7.722 Asesir y Dadansoddiad Cost a Budd hwn dros y cyfnod 2022 i 2050 yn unol â'r darpariaethau eraill ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru) 2022. Mae'r Dadansoddiad hwn, er mwyn sicrhau cysondeb â rhannau eraill o RIA Llywodraeth Cymru, yn dilyn y camau a nodir yn y papur Common Approach to RIA a baratowyd ar gyfer Grŵp Cyfeirio RIA Bil Amaethyddiaeth (Cymru) Llywodraeth Cymru.

7.723 Mae'r dadansoddiad wedi cael ei lywio a'i graffu arno gan y Grŵp Rhanddeiliaid, sy'n cynnwys y sefydliadau canlynol: Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig, Confor, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Cymru, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Coed Cadw, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, CLA (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad), CNC a Llywodraeth Cymru. Gwahoddwyd sefydliadau eraill ond nid oeddent yn gallu cymryd rhan. Mae'r ffigurau wedi cael eu gwirio drwy eu trafod mewn cyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid a thrwy ohebiaeth e-bost.

7.724 Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid wedi gofyn pam fod y Dadansoddiad hwn yn canolbwyntio mwy ar gostau na manteision. Mae hyn oherwydd bod manteision economaidd y darpariaethau coedwigaeth yn heriol i'w cymhwyso ar y raddfa ofynnol

ac yn y fath fodd sy'n caniatáu cynnal dadansoddiad sensitifrwydd. Felly, er bod rhai astudiaethau trawiadol, mae'r rhain naill ai ddim yn berthnasol ar y lefel briodol neu ni ellir eu hallosod dros Gymru gyfan.

7.725 Lle na ellir mesur costau penodol (megis niwed i enw da o'r anallu i osod amodau ar drwyddedau cwympo coed) neu le disgwylir i effeithiau'r ddeddfwriaeth fod yn ddibwys (oherwydd bod gweithgareddau penodol yn cael eu gwneud o fewn y llinell sylfaen), darparwyd dull naratif. Yn yr un modd, ac am y rhesymau a roddir uchod, disgrifir manteision yn y naratif, yn enwedig pan fo'r rhain yn rhoi cyd-destun defnyddiol am y sector coedwigaeth.

7.726 Mae cyfyngu ar y cofnodion yn nhablau'r Dadansoddiad i gostau a manteision ychwanegol (ymylol) allweddol a'r rhai sy'n newid dros y cyfnod dadansoddi 28 mlynedd â'r fantais hefyd o alluogi'r ffigurau pwysicaf i sefyll allan.

7.727 Cyflwynir crynodeb cyffredinol o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob rhan o'r opsiwn am newid yn adran olaf y papur hwn.

## Opsiynau

7.728 Dadansoddiad Cost a Budd o bob opsiwn o fewn pob darpariaeth coedwigaeth sy'n diwygio Deddf Coedwigaeth 1967.

7.729 Mae'r opsiynau i'w hasesu fel a ganlyn:

a) **Opsiwn 1**: Busnes fel arfer
b) **Opsiwn 2 (a a b)**: Diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i alluogi ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed, a chaniatáu i drwyddedau gael eu diwygio, eu hatal a'u dirymu ar ôl eu gwneud.

7.730 Ni awgrymwyd unrhyw opsiynau eraill gan y Grŵp Rhanddeiliaid.

7.731 Er mwyn dangos yn well y dadansoddiad cost a budd, mae Opsiwn 2 wedi'i rannu'n

a) Opsiwn 2a: Ychwanegu Amodau Amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed

b) Opsiwn 2b: Galluogi trwyddedau cwympo coed i gael eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu ar ôl eu gwneud.

## *Opsiwn 1 – Busnes fel Arfer*

7.732 Diffinnir yr opsiwn hwn fel parhad o'r trefniadau presennol. Mae'n darparu llinell sylfaen y bydd cynigion ar gyfer newid yn cael eu cymharu yn ei herbyn. Cyflwynir y crynodeb hwn o'r costau presennol er mwyn gallu gwneud asesiad o gostau a manteision ychwanegol opsiynau amgen.

7.733 Mae'r opsiwn busnes fel arfer yn canolbwyntio ar y costau lefel uchel sy'n debygol o newid o'r newidiadau deddfwriaethol. Mae hyn yn tynnu sylw at effeithiau llinell sylfaen a allai newid lle credir bod costau presennol darparu'r gwasanaeth - fel y maent yma - wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn debygol o gynyddu yn y dyfodol.

7.734 Fel yr amlinellir yn y Fethodoleg, mae'n anodd mesur manteision, a darperir naratif.

7.735 Mae'r cyfrifiadau y tu ôl i'r ffigurau yn y tabl cryno Dadansoddiad Cost a Budd canlynol wedi'u nodi yn y naratif isod.

**Tabl 57: Opsiwn 1 (Busnes fel arfer) - TABL CRYNO DADANSODDIAD COST A BUDD**

| C/B* | Cam Gweithredu | 2022 | 2050 (heb ei ddisgowntio) |
|---|---|---|---|
| C | Costau cyffredinol y Sector Preifat i wneud cais am drwydded cwympo coed | £247,000 | £272,000 |
| C | Costau'r Sector Preifat i gefnogi data arolygon | £11,000 | £12,000 |
| C | Costau gweinyddu a chyfalaf CNC | £241,000 | £277,000 |
| C | Costau monitro a gorfodi CNC | £106,000 | £122,000 |
| C | Costau CNC mewn perthynas ag HRAs a chyngor cyn ymgeisio | £45,000 | £51,000 |
| C | Costau CNC i gefnogi polisi a diwygio rheoleiddio | £99,000 | £99,000 |
| C | Proses apelio CNC (a oedd yn cynnwys yr RAC gynt) | £1,000 | £1,000 |
| C | Proses apelio Llywodraeth Cymru | £2,000 | £2,000 |
| B | Ymgysylltu rhwng CNC ac ymgeiswyr am drwyddedau am faterion bywyd gwyllt ac amgylcheddol. Osgoi costau ailgyflwyno. | Anodd ei fesur | Anodd ei fesur |
| | **IS-GYFANSWM NET YR OPSIWN** | **£752,000** | **£836,000** |

*Cost/Budd

## *Costau cyffredinol y Sector Preifat i wneud cais am drwydded cwympo coed*

7.736 Nid oes unrhyw ffigurau dibynadwy o'r costau i'r sector preifat wrth baratoi eu ceisiadau am drwyddedau cwympo coed (FLA) i CNC, felly dim ond yn fras y gellir amcangyfrif y rhain. Mae Atodiad 1 Tabl 71 (Atodiad D) yn dangos 512 o FLA y flwyddyn ar gyfartaledd, y mae tua dwy ran o dair ohonynt (Atodiad 1 Tabl 72) yn cael eu cyflwyno gan asiant proffesiynol. Os yw FLA yn cymryd diwrnod ar gyfartaledd a bod cost asiant proffesiynol yn £600 y dydd[338] (a thybir cost o £250[339] y dydd ar gyfer y rhai sydd ddim yn defnyddio asiantau proffesiynol), yna cyfanswm y gost i'r sector preifat yw £205,000+£42,000 = £247,000. Nododd rhanddeiliaid fod y gwaith sy'n ofynnol i wneud cais am drwydded cwympo coed yn cynyddu. Os yw'r gwaith ychwanegol yn cynyddu i 10% yn ychwanegol dros amser hyd at 2050, yna gwerth heb ddisgownt cyfanswm y gost yn y dyfodol yw £247,000+10% = £272,000. Mae hyn yn golygu cost ymylol o +£25,000 y flwyddyn dros y cyfnod hwn yn nhermau 2022.

## *Costau'r Sector Preifat i gefnogi data arolygon*

7.737 Yn ôl Confor, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae CNC wedi bod yn gofyn am wybodaeth ychwanegol gan dirfeddianwyr ac asiantau i gefnogi eu FLAs, gydag ymholiadau pellach wedi cynyddu 20%.

7.738 Yn ôl Atodiad 1 Tabl 73 (Atodiad D), mae tîm Trwyddedu Coedwigaeth CNC yn ymgynghori â 43% o'r holl FLAs ar gyfartaledd – ffigur sydd wedi cynyddu dros y cyfnod o 4 blynedd hyd at 2018-19.

7.739 Er bod y rhan fwyaf o'r ymgynghoriadau hyn gyda Thimau Amgylchedd CNC, mae cyfran yn mynd at ymgyngoreion eraill gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, CADW (ar gyfer Henebion Cofrestredig) ac awdurdodau lleol (ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed (TPOs)). Ni fydd pob achos sy'n mynd i Dimau Amgylchedd CNC yn cael ateb os yw'r staff sy'n delio â nhw o'r farn bod y risg o

[338] Costau wedi'u darparu gan Confor (Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd)
[339] Amcangyfrif yn seiliedig ar brofiad CNC

niwed yn isel, ac amcangyfrifir bod 20% o'r ymgynghoriadau hyn ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) - neu wrth ymyl SoDdGA. Mae angen i arweinydd Tîm Amgylchedd CNC gadarnhau achosion o'r fath, ond mae'n annhebygol y byddant yn gosod gofyniad arolygu ychwanegol ar yr ymgeisydd.

7.740 Daw rhywfaint o wybodaeth o Ganolfannau Cofnodion Lleol (LRCs) – megis Cofnod yn y Gogledd - ond nid dyma ddylai fod yr unig ffynhonnell ddata oherwydd ar rai adegau bydd angen cynhyrchu gwybodaeth addas ar gyfer arolwg safle. Nid yw diffyg cofnodion o reidrwydd yn golygu nad oes gwerth i safle. Mae angen hwn lle mae angen asesu'r effeithiau disgwyliedig ar rywogaethau gwarchodedig hysbys neu'r rhai sy'n debygol o fod yn bresennol o fewn yr ardal sydd i'w chynaeafu neu’n agos iddi. Ar adegau, mae'n bosib hefyd y bydd angen arolwg poblogaeth ehangach. Felly, mae angen i ymgeisydd ystyried mynd ati i gasglu gwybodaeth neu gynnal arolygon cyn gwneud cais i CNC a defnyddio ei wasanaeth cyn ymgeisio. Dylai hyn fod yn cael ei wneud yn barod mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol bresennol a chydymffurfiaeth â Safon Coedwigaeth y DU (UKFS).

7.741 Pan fydd FLA yn dod i law, bydd CNC yn ystyried yn fewnol a yw'r wybodaeth a gyflwynir yn ddigonol i'r diben neu a oes angen cyngor arbenigol pellach. Os nad yw'r wybodaeth yn ddigon manwl, bydd cyfle i'r ymgeisydd gywiro hyn, a all naill ai gael ei wneud gan yr ymgeisydd ei hun os oes ganddo'r arbenigedd technegol priodol, neu gall ddewis defnyddio arbenigwr priodol yn y sector preifat. Gall hefyd ddewis i CNC wneud y gwaith hwn ar ei ran, a chodir tâl arno am hynny.

7.742 Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at y ffaith y dylai ymgeiswyr FLA ofyn am y data a'r cyngor gorau sydd ar gael mor gynnar â phosibl yn eu gwaith cynllunio/cyn ymgeisio a bod unigolion preifat a'r sector cadwraeth Sefydliad Anllywodraethol (NGO) yn aml yn amsugno costau gan gynnwys ymweliadau safle a chanllawiau am ddim. I adlewyrchu'r mewnbwn hwn gan gyrff gwarchod bywyd gwyllt, mae cyfrifiad yn seiliedig ar 20% o'r trwyddedau cwympo coed hynny a atgyfeirir ar gyfer ymgynghori (sef 43%, gweler Atodiad 1 Tabl 73) o amcangyfrif o 512 o FLAs y flwyddyn (Atodiad 1 Tabl 71) yn destun ymgynghoriad yn arwain at gost i'r sector preifat o 44 o drwyddedau cwympo coed x £250[340] y dydd = £11,000. Mae rhanddeiliaid yn amcangyfrif bod y gwaith hwn yn cynyddu 10% yn ychwanegol dros amser (gweler uchod), yna gwerth cyfanswm y gost yn y dyfodol yw

[340] Amcangyfrif gan CNC am waith ecolegol proffesiynol

£11,000+10% = £12,000. Mae hyn yn golygu cost ymylol o +£1,000 bob blwyddyn dros y cyfnod hwn yn nhermau 2022.

### *Costau gweinyddu a chyfalaf CNC*

7.743 Cyfanswm y gost i CNC o weinyddu rheoleiddio coedwigaeth, gan gynnwys ymgynghori mewnol a gorbenion CNC, yw £491,000[341]. O hyn, mae £241,000 yn gostau Trwyddedau Coedwigaeth CNC (£213,000) a gorbenion rheoli CNC (£28,000).

7.744 Mae disgwyl i waith busnes fel arfer CNC gynyddu 10% dros amser yn yr un modd ag ar gyfer ceisiadau’r sector preifat - h.y. mae mwy o waith i'w wneud dros y 28 mlynedd nesaf - ond disgwylir iddo hefyd gynyddu 5% arall er mwyn caniatáu mwy o graffu cyhoeddus ar geisiadau cwympo coed gan bartïon â diddordeb y mae'n ofynnol i CNC ymateb iddynt. Mae nifer yr adroddiadau gan aelodau'r cyhoedd neu grwpiau buddiant lleol yn codi dros y cyfnod hyd at 2050 hefyd, a dyna pam mae'n rhesymol dod i'r casgliad yma y bydd costau busnes fel arfer CNC yn cynyddu'n anghymesur. Mae hyn yn gost ymylol o +£36,000 y flwyddyn (h.y. £277,000) dros y cyfnod hwn yn nhermau 2022.

### *Costau monitro a gorfodi CNC a chostau CNC mewn perthynas ag HRAs a chyngor cyn ymgeisio i ymgeiswyr*

7.745 Fel y soniwyd uchod, cyfanswm y gost i CNC o weinyddu rheoleiddio coedwigaeth, gan gynnwys costau ymgynghori mewnol a gorbenion CNC, yw £491,000. O hyn, mae costau monitro a gorfodi CNC (£106,000) a chostau CNC mewn perthynas ag HRAs a chyngor cyn ymgeisio (£45,000) wedi cael eu gwahanu i wneud y costau hyn yn fwy gweladwy yn y dadansoddiad hwn. Disgwylir i waith busnes fel arfer CNC – ac felly costau cysylltiedig – gynyddu 15% dros amser hefyd, sy'n cynrychioli costau ymylol o +£16,000 a +£7,000 y flwyddyn (h.y. cyfanswm o £122,000 a £51,000 yn y drefn honno) dros y cyfnod hwn yn nhermau 2022.

[341] Costau amaeth a gorbenion CNC – Tab trwyddedau cwympo coed – 2020/21.

### *Costau CNC i gefnogi polisi a diwygio rheoleiddio*

7.746 Mae CNC yn wynebu costau o £99,000 y flwyddyn (£52,000 gan y Tîm Dulliau Rheoleiddio a £47,000 gan y Tîm Rheoli Tir Cynaliadwy) wrth ystyried y ddeddfwriaeth, darparu cymorth polisi a diweddaru canllawiau ar gyfer y sector mewn cysylltiad â'r gwaith hwn. Rhagwelir y bydd y costau hyn yn parhau i'r dyfodol rhagweladwy, ac fe'u rhagamcanwyd hyd at 2050. (Mae addasiadau o fewn y gost hon ar gyfer y pwerau newydd wedi'u cynnwys o fewn y costau sefydlu ar gyfer y pwerau newydd).

### *Proses apelio CNC*

7.747 Ystyrir apeliadau gan brosesau cwynion cyffredinol CNC. Mae'r nifer presennol o gwynion yn isel ac yn arwain at apeliadau i Lywodraeth Cymru unwaith bob dwy flynedd yn unig; fodd bynnag, gallai hyn gynyddu yn dilyn unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau, gan gynnwys, yn yr achos hwn, ddeddfwriaeth newydd. Mae CNC yn darparu gwybodaeth ac ymgysylltiad i gefnogi proses apelio ffurfiol Llywodraeth Cymru. Y gost i CNC o ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â'r un achos bob dwy flynedd yw tua £1,000 y flwyddyn.

### *Proses apelio Llywodraeth Cymru*

7.748 O dan rai amgylchiadau, gall unigolion apelio yn erbyn penderfyniadau CNC. Gall hyn olygu y bydd eu hachosion yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Cyfeirio sy'n cael ei ddethol o banel o bobl a benodwyd gan y Gweinidog. Mae'r Pwyllgor yn rhoi cyngor i'r Gweinidog, sy'n penderfynu ar bob achos. Amcangyfrifir mai cost proses apelio Llywodraeth Cymru yw £5,000 yr achos, felly ar gyfartaledd o un achos bob dwy flynedd, y gost (wedi ei thalgrynnu i'r eilrif cyfan agosaf) yw £2,000 y flwyddyn.

## Manteision

7.749 Mae coetiroedd a rheoli coetiroedd yn darparu llu o fanteision gwahanol, gan gynnwys dal a storio carbon, pren, puro dŵr, gwelliannau i ansawdd aer, sefydlogrwydd pridd, amwynder a hamdden. Nod y pwerau sy'n deillio o ddiwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967 o ganlyniad i'r Bil Amaethyddiaeth yw atal cwympo coed a fyddai'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall, gan ddarparu gwell amddiffyniad rhag difrod amgylcheddol. Nid oes disgwyl i'r defnydd cymesur o'r pwerau hyn gan CNC effeithio ar gyflawni'r manteision hyn, felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr opsiwn busnes fel arfer na'r opsiynau dilynol.

7.750 Mae manteision bioamrywiaeth a chadwraeth yn cael sylw o dan Opsiynau 2a a b.

7.751 Fodd bynnag, mae'r Grŵp Rhanddeiliaid yn dymuno cofnodi, lle mae costau busnes fel arfer wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd llawer o fanteision cysylltiedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

a) Gwell cyswllt rhwng CNC/ymgeiswyr parthed materion amgylcheddol allweddol

b) Ymgeiswyr yn barod i gytuno ar gamau gweithredu fel rhan o lythyrau cynghori trwyddedau cwympo coed

c) Ymgeiswyr yn mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Coedwig (FMP) hirdymor gyda Chytundeb Rheoli Tir (LMA) Adran 16 cysylltiedig gyda CNC

d) Mwya'n byd y mae modd sicrhau incwm cynaliadwy drwy reoli coedwigoedd, po fwyaf parod y bydd perchnogion i ymgymryd â gwaith uwchlaw'r isafswm rheoleiddio.

7.752 O'r 589 o FLAs a weinyddwyd yn 2019-20 (gweler Atodiad 1 Tabl 71 – Atodiad D), er enghraifft, mae 7 o'r rhain yn FMPs, a phob un â'i LMA Adran 16 yn cynnwys amodau y cytunwyd arnynt, a rhai ohonynt yn amodau amgylcheddol.

## Opsiwn 2a – Ychwanegu amodau amgylcheddol

7.753 Mae'r cyfrifiadau y tu ôl i'r ffigurau yn y tabl cryno Dadansoddiad Cost a Budd canlynol wedi'u nodi yn y naratif isod. Dyma'r costau ychwanegol i'r opsiwn busnes fel arfer.

7.754 Rhagdybiaethau:

a) Mae disgwyl i 95-100% o drwyddedau cwympo coed fod ag amodau llinell sylfaen wedi'u cymhwyso iddynt fel bod y drefn trwyddedau cwympo coed yn gydnaws â deddfwriaeth amgylcheddol eraill. Mae'n ofynnol eisoes i'r sector coedwigaeth gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol arall, ond bydd hyn yn ffurfioli cydymffurfiaeth o fewn y drefn trwyddedau cwympo coed.
b) Amcangyfrifir bod 31% o drwyddedau cwympo coed yn gofyn am gynnwys amodau penodol i safle, sy'n berthnasol lle mae trwyddedau cwympo coed ar safleoedd dynodedig neu'n agos atynt.
c) Amcangyfrifir bod disgwyl y bydd 4% o drwyddedau angen amodau pwrpasol lle mae gan safleoedd gyfuniad o nodweddion sensitif cymhleth.
d) Bydd 10-20% o'r holl drwyddedau cwympo coed yn cael eu monitro am gydymffurfiaeth ag amodau amgylcheddol gan CNC gan ddefnyddio dull rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg.
e) Ar ôl costau sefydlu cychwynnol, ychydig iawn o gostau parhaus ddylai fod i gymhwyso'r fframwaith amodau i drwyddedau cwympo coed.

**Tabl 58: Opsiwn 2a (Ychwanegu amodau) - TABL CRYNO DADANSODDIAD COST A BUDD**

| C/B | Cam Gweithredu | 2022 | 2050 (heb ei ddisgowntio) |
|---|---|---|---|
| C | Costau cyffredinol y Sector Preifat i wneud cais am drwydded cwympo coed | - | - |
| C | Costau'r Sector Preifat o gefnogi data arolygon a chael cyngor ecolegol proffesiynol | £97,000-£107,000 | £138,000-£152,000 |
| C | Sector preifat i ddarparu adroddiadau i CNC o'i amodau amgylcheddol | £8,000-£9,000 | £15,000-£16,000 |
| C | Costau amodau i'r Sector Preifat | Costau anhysbys | Costau anhysbys |
| C | Costau gweinyddu a chyfalaf CNC | - | - |
| C | Costau monitro a gorfodi CNC | £30,000 | £30,000 |
| C | Costau Sector Preifat sy'n gysylltiedig â monitro CNC | £3,000-£6,000 | £3,000-£6,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| C | Costau CNC ynghylch HRAs a chyngor cyn ymgeisio | £22,000 | £22,000 |
| C | Proses apelio CNC (yn cynnwys yr RAC gynt) | £2,000 | £2,000 |
| C | Proses apelio Llywodraeth Cymru | £10,000 | £10,000 |
| B | Bioamrywiaeth ac osgoi niwed amgylcheddol | Gwerth budd anhysbys | Gwerth budd anhysbys |
| B | Bydd hyder defnyddwyr mewn cynhyrchion pren *o ffynonellau cynaliadwy* yn cynyddu os nad oes niwed amgylcheddol cysylltiedig o *Ddeddf Coedwigaeth 1967* | Gwerth budd anhysbys | Gwerth budd anhysbys |
| | **IS-GYFANSWM NET YR OPSIWN (costau blynyddol yn unig)** | **£172,000 - £186,000** | **£220,000 - £238,000** |

## Costau

### *Costau cyffredinol y Sector Preifat i wneud cais am drwydded cwympo coed*

7.755 Mae hyn eisoes wedi'i drafod yn Opsiwn 1 (Busnes fel arfer) uchod.

### *Costau'r Sector Preifat o gefnogi data arolygon a chael cyngor ecolegol proffesiynol*

7.756 Mae disgwyl y bydd ychwanegu amodau amgylcheddol yn codi ymwybyddiaeth ymhlith ymgeiswyr o'r angen i nodi a yw rhywogaethau a warchodir yn bresennol mewn coetir a deall graddau'r boblogaeth. Bydd hyn yn galluogi ymgeiswyr i gynllunio cynigion cwympo coed sy'n cynnwys mesurau lliniaru ac i gytuno ar amodau amgylcheddol sy'n amddiffyn a gwarchod y rhywogaethau sy'n bresennol. Mae'n debygol y bydd modd i'r ymgeisydd gynnal rhyw fath o asesiad o bresenoldeb, ond efallai y bydd angen arolwg arbenigol ar sefyllfaoedd mwy manwl neu gymhleth.

7.757 Prin yw'r dystiolaeth sydd ar gael i seilio amcangyfrif o faint o arolygiadau ychwanegol fydd eu hangen ar y sector preifat mewn ymateb i ofynion newidiol CNC a diddordeb pellach gan randdeiliaid. Fodd bynnag, dylai gwybodaeth ategol mae CNC yn gofyn amdani fod yn gymesur, yn berthnasol ac yn angenrheidiol i'r broses gymeradwyo yn unol ag Egwyddorion Rheoleiddio CNC.

7.758 Mae'r opsiwn busnes fel arfer uchod eisoes wedi cynnwys cyfrifiad yn seiliedig ar 20% o'r 43% o'r trwyddedau cwympo coed sy'n cael eu hatgyfeirio ar hyn o bryd ar gyfer ymgynghori (gweler Atodiad 1 Tabl 73 – Atodiad D), sef y lefel arolygu sy'n ofynnol i ymgeiswyr ei wneud ar hyn o bryd. Mae'r cyfrifiad hwn yn dangos bod angen gwerth £11,000 o arolygu ar gyfartaledd ar 44 o drwyddedau cwympo coed bob blwyddyn yn seiliedig ar gyfradd ecolegol proffesiynol o £250 y dydd.

7.759 Daw'r arwydd gorau o ofynion arolygu ychwanegol posibl y Sector Preifat ar gyfer Opsiwn 2a (Ychwanegu amodau) o Atodiad 1 Tabl 75, sy'n dangos bod dull pecyn cymorth EPS wedi'i ddefnyddio ar gyfer 15 o drwyddedau Rhaglen Waith (PoW) y flwyddyn ar gyfartaledd ar gyfer gweithrediadau cynaeafu dros y deng mlynedd diwethaf ar ystad goed Llywodraeth Cymru. Mae'r math o arolwg sydd ei angen yn dibynnu ar bresenoldeb tebygol yr EPS yn seiliedig ar agosrwydd at boblogaethau hysbys ac addasrwydd cynefinoedd. Mae trwyddedu PoW yn ddull rhagweithiol sy'n ceisio pennu presenoldeb tebygol EPS gan ddefnyddio staff sydd â'r sgiliau arbenigol gofynnol.

7.760 Amcangyfrifir y gost ddisgwyliedig i'r sector preifat o gynnal arolygu tebyg drwy amcangyfrif cost 15 o drwyddedau Rhaglen Waith (PoW) y flwyddyn ar gyfer gweithrediadau cynaeafu'r sector preifat. Ystyrir bod 15 yn rhesymol - er bod maint y pren a gynaeafir yn y sector preifat yn is nag ar gyfer ystad goed Llywodraeth Cymru, mae hyn yn cael ei gydbwyso gan y gyfran uwch o goetir mewn dwylo preifat[342].

7.761 Felly, 15 o drwyddedau PoW x (10 diwrnod o amser arolygu x £250 y dydd fesul trwydded PoW) + (2 ddiwrnod o amser ymgynghorydd i baratoi pob trwydded PoW x £600 y dydd) = £56,000.

7.762 Yn ogystal â'r trwyddedau PoW, bydd cyfran o FLAs angen arolygu ychwanegol i gwmpasu ystod o rywogaethau sensitif eraill nad ydynt yn EPS. Cytunodd

[342] Mae 63% o gyfanswm y coetir mewn dwylo preifat (Forestry Facts and Figures 2021, Forest Research).

rhanddeiliaid fod hyn yn cyfateb i 10% ychwanegol o drwyddedau cwympo coed. Awgrymir 512 FLA y flwyddyn x 10% x ((2 ddiwrnod o amser arolygu x £250 y dydd) + (0.5 diwrnod o amser ymgynghorydd i baratoi pob FLA x £600 y dydd)) = £41,000.

7.763 Felly, cyfanswm y gost arolygu yw £56,000 + £41,000 = £97,000. Os cyfrifir yr ail o'r ddau ffigur hyn gan ddefnyddio 20% (yn hytrach na 10%), yna cyfanswm y gost fydd £138,000. Os yw'r rhain wedyn yn destun +10% arall dros amser (fel o'r blaen), yna bydd y costau'n codi i £107,000 a £152,000 yn y drefn honno.

### *Sector preifat i ddarparu adroddiadau i CNC o'i amodau amgylcheddol*

7.764 Cytunodd y Grŵp Rhanddeiliaid mai'r dull monitro mwyaf cost-effeithiol yw i ddeiliaid trwyddedau gyflwyno adroddiad lle'r oedd eu trwydded cwympo coed yn cynnwys amodau ac i CNC gynllunio cyfran y cytunwyd arni ar gyfer monitro, efallai 10-15%. Mae'r cyfrifiadau hyn yn seiliedig ar y ffaith bod 10% ac 20% o drwyddedau cwympo coed angen eu monitro am 2 awr o amser yr asiant fesul trwydded. Mae'r lefel isaf (10%) yn cyfateb i 512 FLA y flwyddyn x 10% x 2 awr x £600 y dydd ÷ 8 awr y dydd = £8,000; a'r lefel uchaf (20%) = £15,000. Yn amodol ar +10% arall dros amser (fel o'r blaen), mae'n dod i £9,000 ac £16,000.

### *Costau amodau i'r Sector Preifat*

7.765 Mae’r amodau arfaethedig yn amrywio o amodau sylfaenol i amodau safle penodol neu bwrpasol gan ddibynnu ar amgylchiadau’r safle. Fel yr amlinellir mewn rhagdybiaethau, mae amodau sylfaenol neu safonol i'w cymhwyso i 95-100% o drwyddedau cwympo coed â’r nod o ffurfioli cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol arall o fewn y system trwyddedau cwympo coed. Fel y cyfryw, ni ragwelir unrhyw gostau ychwanegol i'r sector preifat yn deillio o amodau sylfaenol dros yr hyn y maent eisoes yn ei wneud.

7.766 Fodd bynnag, mewn perthynas ag amodau penodol i safle, gan gynnwys y rhai ar gyfer safleoedd hynod sensitif neu gymhleth, mae'n debygol y bydd cost i'r sector preifat. Disgwylir i'r amodau hyn ymwneud ag amseriad gweithrediadau e.e. osgoi tymor nythu'r wiwer goch neu gadw rhannau o goetir er mwyn cynnal cynefin. Mae’n anodd darparu ystod o gostau ystyrlon oherwydd y tebygolrwydd anhysbys y bydd achosion gwahanol yn codi gan ddibynnu ar ffactorau hynod amrywiol megis graddfa

gweithrediadau, oed a rhywogaeth y coed sy'n cael eu cwympo, amodau safleoedd unigol, a'r sensitifrwydd amgylcheddol perthnasol.

7.767 Oedi: Mae ymgeiswyr yn cael eu hannog i ystyried eu hanghenion trwyddedu mewn da bryd cyn i weithrediadau ddechrau, gan mai dyma'r ffordd orau o leihau unrhyw gostau sy'n codi o oedi i weithrediadau. Mae ymyrraeth ar ôl i weithrediadau ddechrau, er enghraifft, o ymddangosiad sensitifrwydd annisgwyl, yn debygol o fod yn arbennig o ddrud wrth ymchwilio i gamau i liniaru'r effaith ar y sensitifrwydd. Gellir lleihau hyn drwy ymchwiliad safle trylwyr a chynllunio coedwigoedd da, gan gynnwys symud offer i ran wahanol o'r safle tra bod camau ymchwilio a lliniaru yn cael eu cymryd. Mae'r costau anfesuradwy hyn eisoes yn rhan o batrwm arferol cynllunio rheoli coedwigoedd, gan ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer gweithrediadau cwympo coed pan fydd angen e.e. atal y gwaith oherwydd presenoldeb annisgwyl aderyn Atodlen 1 o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae'r rhain yn cydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU y mae'n rhaid i bob trwydded cwympo coed gydymffurfio â hi, ac nid ydynt yn benodol i'r ddarpariaeth goedwigaeth hon. Felly nid yw'r gost yn hysbys.

7.768 Cadw coetiroedd: Gall rhannau o goetir gael eu gwahardd o drwydded cwympo coed oherwydd amodau amgylcheddol megis cadw cynefin i fywyd gwyllt. Gall yr ardaloedd hyn gael eu cadw dros dro wrth i ardaloedd sydd wedi'u torri a'u hailstocio dyfu i gymryd lle'r ardaloedd a gadwyd, gan ganiatáu iddynt gael eu gwaredu maes o law. Fodd bynnag, gall oedi cyn cwympo coed arwain at golli rhywfaint o werth pren gan ei fod yn rhy fawr i'r farchnad. Gall rheoli ardal a gedwir fel cynefin ddod â'i gostau ei hun hefyd. Mae cynllunio hirdymor da yn bwysig er mwyn lleihau costau. Oherwydd natur amrywiol iawn trwyddedau cwympo coed o ran mynychder, graddfa, rhywogaethau coed, ansawdd pren, maint y coetir a gadwyd fel cynefin, ni fu modd mynegi gwerth ariannol yma gan nad yw'r gost yn hysbys.

7.769 Bydd amlder achosion a chostau gwirioneddol cysylltiedig yn cael eu harchwilio fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu a gynhelir o fewn 3 blynedd i'r pwerau newydd hyn ddod i rym. Bydd hyn yn darparu dealltwriaeth well o'r broses o weithredu'r pwerau hyn a'r costau perthnasol.

## *Costau gweinyddu a chyfalaf CNC*

7.770 Mae tabl cryno Dadansoddiad Cost a Budd Opsiwn 1 (Busnes fel arfer) yn dangos mai cyfanswm y gost bresennol i CNC o weinyddu rheoleiddio coedwigaeth, gan gynnwys ymgynghori mewnol a gorbenion CNC, yw £491,000.

7.771 Er mwyn gweinyddu amodau amgylcheddol, bydd costau pellach i CNC gan gynnwys ymgynghori a datblygu amodau pwrpasol ar gyfer y safleoedd mwyaf sensitif. Mae'r costau hyn eisoes wedi'u nodi yn y Dadansoddiad Cost a Budd hwn, felly nid ydynt yn cael eu nodi eto yma.

## *Costau monitro a gorfodi CNC*

7.772 Ar hyn o bryd, mae >15% o drwyddedau cwympo coed yn cael eu monitro ar gyfer cydymffurfiaeth ag amodau ailstocio trwyddedau cwympo coed bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cael eu dewis gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg sy'n canolbwyntio'n fawr ar y safleoedd hynny y mae CNC yn credu y byddant yn methu. Am y rheswm hwn, amcangyfrifir y bydd tua 50% yn methu'r archwiliad ac angen estyniad i gyflawni'r ailstocio gofynnol. Pan fydd y rhain yn cael eu monitro ar gyfer cydymffurfiaeth, amcangyfrifir y bydd 50% yn methu eu hestyniad ac yn gofyn am hysbysiad gorfodi ailstocio wrth gael eu harchwilio drachefn[343].

7.773 Yn seiliedig ar y lefel bresennol o fonitro a gorfodi, byddem yn disgwyl y byddai nifer tebyg yn cael eu monitro ar gyfer cydymffurfiaeth ar gyfer amodau amgylcheddol, sef tua >15%. Byddai'r rhain yn digwydd ar gyfnod gwahanol i'r gwiriadau cydymffurfio presennol ac felly ni ellid eu cyfuno mewn un ymweliad. O'r rhain, efallai y bydd 50% yn methu ac yn derbyn hysbysiadau gorfodi. Gan fod angen yr amodau amgylcheddol pan fo gwaith yn digwydd, mae estyniadau'n annhebygol o fod yn berthnasol yn yr achosion hyn.

7.774 Mae cost ychwanegol monitro cydymffurfiaeth yn seiliedig ar ddyraniad gweinyddol o adroddiadau yn seiliedig ar fatrics risg, ymweliadau safle i wirio cydymffurfiaeth ac unrhyw dasgau gweinyddol sy’n gysylltiedig â chyhoeddi hysbysiadau gorfodi. Mae hyn yn rhoi cost cydymffurfio a monitro ychwanegol o £30,000 y flwyddyn.

[343] Data mewnol CNC

### *Costau sector preifat sy'n gysylltiedig â gwaith monitro CNC*

7.775 Amcangyfrifir bod costau asiantau'r sector preifat o ran ymgysylltu â CNC ar yr achosion monitro dilynol uchod yn 0.5 diwrnod/achos, felly 10-20 FLA y flwyddyn x 0.5 x £600 y dydd = £3,000 i £6,000 y flwyddyn.

### *Costau CNC ynghylch HRAs a chyngor cyn ymgeisio*

7.776 Cyngor cyn ymgeisio: Bydd ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed yn arwain at fwy o ymgynghori a chysylltu â Thimau Amgylchedd CNC (o'r sector coedwigaeth drwy gyngor cyn ymgeisio ac o Drwyddedu Coedwigaeth CNC fel rhan o ymgynghoriad mewnol CNC).

7.777 Costau Asesiad Risg Cynefin (HRA) CNC: Mae HRAs eisoes yn cael eu hystyried gan Drwyddedu Coedwigaeth CNC ar gyfer pob FLA, ac ymgynghorir yn fewnol gyda Thimau Amgylchedd CNC ar gyfran o'r rhain (gweler Atodiad 1 Tabl 73 – Atodiad D). Bydd llwyth gwaith ychwanegol i CNC o'r diddordeb cynyddol gan Dimau Amgylchedd CNC, ac mae arwydd o hynny'n deillio o'r dadansoddiad canlynol o faterion a gofnodwyd dros y 7 mlynedd diwethaf sy'n nodi'r llwyth gwaith tebygol pan fydd y ddarpariaeth goedwigaeth newydd ar waith:

a) Amddiffyniad i EPS (yn enwedig dyfrgwn) = 45%
b) Angen amodau gorfodadwy = 30%
c) Arall = pob un yn ffigurau sengl % (yn cynnwys canllawiau dŵr; osgoi tymor nythu adar; hau conwydd ar ACA; a thrwyddedu morol).

7.778 Cyfrifiad addas ar gyfer y gwaith pellach hwn yw 512 FLA y flwyddyn x 20%[344] x 4 awr x £31.80 yr awr ar gyfartaledd wedi'i bwysoli i staff CNC sy'n rhan o'r broses) = £13,000; ac am ddilyniant manylach, tua 20 FLA y flwyddyn x 2 diwrnod x £31.80 yr awr x 7.4 awr y dydd = £9,000. Cyfanswm y gost = £22,000. Cofnodir yr un ffigur ar gyfer 2022 a 2050 gan na ragamcanir cynnydd pellach mewn gwaith (ac felly cost) ar draws 28 mlynedd y Dadansoddiad Cost a Budd hwn.

[344] Yn seiliedig ar ddata mewnol CNC a gasglwyd

### *Proses apelio CNC*

7.779 Mae'r nifer presennol o apeliadau yn isel, er y gallai hyn gynyddu yn dilyn unrhyw newidiadau i amgylchiadau, gan gynnwys deddfwriaeth newydd yn yr achos hwn. Os oes cynnydd, yna mae hynny'n debygol o fod yn isel gan mai'r arfer disgwyliedig fydd i CNC gytuno ar bob amod gydag ymgeiswyr trwyddedau cwympo coed cyn i'r amodau gael eu gosod yn eu trwydded. Er hynny, mae'n anochel y bydd rhai achosion lle nad yw'r ymgeisydd neu ddeiliad presennol y drwydded (ar ôl caniatáu'r drwydded) yn cytuno â'r hyn mae CNC yn ei gynnig, gan arwain at apêl.

7.780 Mae CNC yn disgwyl y bydd nifer yr apeliadau'n cynyddu bedair gwaith, o un bob dwy flynedd i ddwy bob blwyddyn. Mae pob apêl yn costio £2,000 i CNC. Ni fydd yr hanner apêl y flwyddyn ar gyfer Busnes fel arfer (£1,000) a gofnodwyd yn gynharach yn cael ei ailadrodd yma er mwyn osgoi cyfrif dwbl. Yn yr un modd, bydd yr hanner apêl y flwyddyn ar gyfer diwygio, atal, dirymu (£1,000) yn cael ei nodi yn adran nesaf Opsiwn 2 (Diwygio etc), felly ni chaiff ei chynnwys yma. Yr hyn fydd yn cael ei gynnwys yma yw'r un apêl y flwyddyn am amodau newydd (£2,000). Mae hynny'n gynnydd o £2,000 y flwyddyn o Busnes fel arfer.

### *Proses apelio Llywodraeth Cymru*

7.781 Amcangyfrifir fod proses apelio Llywodraeth Cymru yn costio £5,000 yr achos. Ar hyn o bryd, ymdrinnir ag apeliadau Llywodraeth Cymru yn achlysurol, er y gallai'r mynychder gynyddu, yn enwedig gyda mwy o amodau amgylcheddol yn cael eu hapelio. Ar gyfer y Dadansoddiad Cost a Budd hwn, amcangyfrifir mai nifer yr achosion yw dau y flwyddyn (h.y. yn llai na'r amcangyfrif o dair apêl i CNC y flwyddyn) = £10,000.

## Manteision

### *Bioamrywiaeth ac osgoi niwed amgylcheddol*

7.782 Mae disgwyl i fioamrywiaeth a manteision amgylcheddol gynyddu o ganlyniad i'r ddarpariaeth i ychwanegu amodau amgylcheddol, gan mai'r nod yw lleihau niwed amgylcheddol a darparu gwell amddiffyniad i fywyd gwyllt. Gallai'r manteision

gynnwys amddiffyniad rhag cwympo coed yn ystod tymhorau bridio rhywogaethau, cadw cynefin neu gysylltedd, gan helpu i gynnal poblogaeth rhywogaethau, incwm o eco-dwristiaeth neu amddiffyn ansawdd dŵr i fyny'r afon o safle dynodedig. Mae gan rai manteision oblygiadau o ran costau e.e. amddiffyn poblogaethau'r wiwer goch rhag y wiwer lwyd, y gellid dadlau ei fod yn cael eu gwrthbwyso drwy arbed costau ailgyflwyno pe bai eu niferoedd yn gostwng.

7.783 Fodd bynnag, mae'r manteision hyn yn anodd eu mesur neu eu mynegi mewn termau ariannol. Mae amryw o astudiaethau, yn amrywio o'r Dasgupta Review: the Economics of Biodiversity, i waith Forest Research ar effeithiau gwerth bioamrywiaeth, i waith mwy arbenigol megis Dadansoddiad Cost a Budd Red Squirrels United ar gyfer Ynys Môn. Mae'r astudiaethau hyn naill ai ddim yn berthnasol ar y lefel briodol neu ni ellir eu hallosod dros Gymru gyfan.

7.784 Mae priodoli cyfran o fanteision bioamrywiaeth neu gadwraeth yn uniongyrchol i'r pwerau sy'n deillio o'r Bil hwn yn rhoi anhawster pellach, o ystyried natur amrywiol trwyddedau cwympo coed o ran mynychder, maint ac amodau safleoedd unigol. Am y rheswm hwn, nid oedd modd pennu gwerthoedd ariannol.

7.785 Ar ôl i’r pwerau hyn ddod i rym, bydd data perthnasol yn cael ei gasglu i fonitro’r manteision sy’n deillio o ddefnyddio amodau ychwanegol mewn trwyddedau cwympo coed fel rhan o adolygiad ôl-weithredu.

**Bydd hyder defnyddwyr mewn cynhyrchion pren o ffynonellau cynaliadwy yn cynyddu os nad oes niwed amgylcheddol cysylltiedig o *Ddeddf Coedwigaeth 1967***

7.786 Mae'r FSC UK Consumer Survey 2022 a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn amlygu ymwybyddiaeth a chefnogaeth gynyddol i gynhyrchion coedwig a gynhyrchir mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy. Mae'r cyhoedd yn barod i chwilio am a thalu am gynhyrchion a gynhyrchir mewn ffordd sy'n ystyriol o fyd natur ac mae busnesau sy'n gwneud hyn yn rhan allweddol o'u strategaeth farchnata yn manteisio ar y diddordeb cyhoeddus hwn y disgwylir iddo gynyddu mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

7.787 Dylai'r sector coedwigaeth fod yn chwilio am newyddion mwy cadarnhaol sy'n adlewyrchu ei gydymffurfiaeth â Safon Coedwigaeth y DU a'i barodrwydd i dderbyn mesurau amgylcheddol ychwanegol *sy'n cael eu cymhwyso'n synhwyrol* mewn modd

pwrpasol.  Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid wedi dweud yn glir na ddylai amodau ychwanegol annog pobl i beidio â rheoli coetiroedd, amharu ar gadwyni cyflenwi nac arwain at gwympo coed yn anghyfreithlon fel canlyniad anfwriadol. Geiriau allweddol yn yr uchod yw 'cymhwyso'n synhwyrol'. Mae lle hefyd i ragor o gynllunio coedwigoedd hirdymor o fewn y sector coedwigaeth.

7.788 Mae'r pŵer i osod amodau ar drwyddedau cwympo coed a chydymffurfiaeth gan y sector coedwigaeth yn ffordd wych i'r sector wella ei gymwysterau amgylcheddol drwy adeiladu ar Safon Coedwigaeth y DU, safonau ardystio megis UKWAS (UK Woodland Assurance Scheme) a mynd i'r afael â'r eithriad 'niwed a achosir gan ganlyniad gweithrediad cyfreithlon' yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae modd gwneud hyn drwy gytuno ar amodau rhesymol o fewn trwydded cwympo coed lle mae mater amgylcheddol neu fioamrywiaeth.

## Opsiwn 2b – Diwygio, Atal, Dirymu Trwyddedau Cwympo.

### *Costau*

7.789 Mae'r cyfrifiadau sy'n sail i'r ffigurau yn nhabl cryno'r Dadansoddiad Cost a Budd canlynol wedi'u nodi yn y naratif isod. Noder bod Opsiwn 1 Busnes fel Arfer yr un fath ag ar gyfer Darpariaeth Coedwigaeth 2a (Ychwanegu amodau) felly nid yw'n cael ei ailadrodd yma. Dyma'r costau ychwanegol i Fusnes fel Arfer ar gyfer yr opsiwn hwn.

**Tabl 59: Opsiwn 2b (Diwygio, atal, dirymu) - TABL CRYNO DADANSODDIAD COST A BUDD**

| C/B | Camau Gweithredu | 2022 | 2050 (heb ei ddisgowntio) |
|---|---|---|---|
| C | Costau diwygio gwirfoddol i'r Sector Preifat | £31,000 | £31,000 |
| C | Costau diwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo i'r Sector Preifat | Costau'n anhysbys | Costau'n anhysbys |
| C | Costau gweinyddu a chyfalaf CNC | £3,000 | £3,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| C | Costau monitro a gorfodi CNC | £3,000 | £3,000 |
| C | Iawndal am ddiwygio neu ddirymu trwydded | Costau'n anhysbys | Costau'n anhysbys |
| C | Bydd costau CNC ynghylch HRAs a chyngor cyn ymgeisio yn cynyddu gan fod mwy o waith i'w wneud | £1,000 | £1,000 |
| C | Proses apelio CNC (yn cynnwys yr RAC gynt) | £8,000 | £8,000 |
| C | Proses apelio Llywodraeth Cymru | £20,000 | £20,000 |
| B | Manteision sy'n deillio o bwerau i ddiwygio, atal neu ddirymu trwyddedau sydd eisoes wedi eu rhoi | Gwerth budd yn anhysbys | Gwerth budd yn anhysbys |
| | **IS-GYFANSWM NET YR OPSIWN** | **£66,000** | **£66,000** |

## Costau

### *Diwygio gwirfoddol i'r Sector Preifat*

7.790 Disgwylir y bydd deiliaid trwyddedau presennol yn gofyn am y cyfleuster hwn yn amlach o lawer. Mae yna nifer o resymau gwahanol am hyn: newidiadau i ardaloedd wedi'u mapio; newidiadau i ailstocio rhywogaethau; a newidiadau i amodau amgylcheddol yw'r rhai mwyaf tebygol.

7.791 Bydd defnyddio Cynlluniau Rheoli Coedwigoedd (FMP) hirdymor neu 10 mlynedd yn helpu'r sector coedwigaeth os yw graddfa'r Uned Rheoli Coedwigoedd yn cyfiawnhau cynlluniau o'r fath. Mae dull FMP yn cynnwys Tabl Goddefiant gyda 3 chategori o ddiwygiad sy'n gallu lleihau'r angen am ddiwygiad ffurfiol mewn rhai amgylchiadau.

7.792 Gofynnodd y Grŵp Rhanddeiliaid a yw arolygon newydd neu arolygon wedi'u diweddaru sy'n datgelu rhywogaethau ychwanegol yn debygol o arwain at ofyniad i ddiwygio – neu hyd yn oed atal neu ddirymu – trwydded. Mae hyn yn dibynnu a oedd yr arolwg a/neu'r asesiad cychwynnol yn ddigon trwyadl i fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol mwyaf tebygol. Rhaid i CNC weithredu mewn ffordd resymol a dilyn ei

Egwyddorion Rheoleiddio sydd wedi'u cyhoeddi ar ei wefan. Dylai hyn alluogi'r sector coedwigaeth (a diwydiannau eraill) i fwrw ymlaen yn hyderus gan ddefnyddio'r caniatâd a roddwyd iddo.

7.793 Felly, os oedd yr asesiad cychwynnol yn ddigon trwyadl, ni ddylai arolygon newydd neu arolygon sydd wedi'u diweddaru effeithio ar drwydded gwympo sydd eisoes yn bodoli gan fod pob cam rhesymol wedi ei gymryd. Gall safbwynt gwahanol gael ei gyflwyno os credir bod yr wybodaeth a ddefnyddiwyd i sicrhau trwydded wedi bod yn fwriadol anghyflawn neu gamarweiniol.

7.794 Mae'r cyfrifiad canlynol yn dangos y gost i'r sector coedwigaeth lle mae deiliaid presennol trwydded cwympo coed yn gofyn am ddiwygio cyfran (e.e. 5% y flwyddyn) o'u trwyddedau: 512 FLA y flwyddyn x 5% x £600 y dydd x 2 ddiwrnod = £31,000. Cofnodir yr un ffigur ar gyfer 2022 a 2050 gan nad oes cynnydd pellach mewn gwaith (ac felly cost) yn cael ei ragweld dros oes 28 mlynedd y Dadansoddiad Cost a Budd hwn.

### *Costau diwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed i'r Sector Preifat*

7.795 Un o effeithiau mwyaf uniongyrchol atal neu ddirymu trwydded ar berchennog coetir yw'r effaith uniongyrchol ar y contract pren sydd ganddo ar waith. Hefyd, bydd costau sy'n deillio o beiriannau segur tra bod gwaith wedi'i atal. Os yw trwydded yn cael ei hatal am dros wythnos, mae peiriannau yn debygol o gael eu symud o'r safle. Amcangyfrifir mai tua £6,000 fydd cost symud ac ailosod dau beiriant[345].

7.796 Mae'r pŵer i atal a dirymu trwyddedau cwympo coed wedi bodoli yn yr Alban ers tair blynedd, ond nid yw wedi'i ddefnyddio eto. Mae Hysbysiad Stop Dros Dro wedi'i gyhoeddi unwaith yn unig yn yr Alban.

7.797 Mae'r diwygiadau arfaethedig i'r Ddeddf Coedwigaeth yn caniatáu diwygio, atal, neu ddirymu trwyddedau cwympo coed os yw deiliad y drwydded wedi torri'r amodau neu os yw niwed amgylcheddol annisgwyl yn codi heb unrhyw fai ar ddeiliad y drwydded. Mae atal trwydded neu ei dirymu yn y pen draw yn cael ei ystyried yn ganlyniad eithafol gan y byddai costau i'r sector preifat yn debygol o fod yn uchel iawn ac yn dibynnu ar natur y safle a'r contract cyflenwi pren.

---

[345]Amcangyfrif o'r gost wedi'i ddarparu gan aelod o Confor – symud, ailosod a chychwyn safle. Offer tynnu llinell uchel neu winsh hyd at £10,000.

7.798 Am y rheswm hwn, ni ddylid defnyddio'r pwerau hyn ac eithrio yn yr amgylchiadau prin lle na fyddai diwygio'r amodau neu'r drwydded cwympo coed yn mynd i'r afael â'r mater, neu le na ellir cytuno arnynt. Ym mhob achos, rhaid i CNC weithredu'n gymesur ac yn rhesymol yn unol â'i Egwyddorion Rheoleiddio, a bydd yn gweithio gyda deiliaid trwyddedau cwympo i gytuno ar waith lliniaru neu adferol trwy ddiwygio er mwyn osgoi atal neu ddirymu trwydded lle bynnag y bo modd.

7.799 Mae costau i'r sector preifat yn ymwneud â diwygio amodau neu drwyddedau cwympo coed yr un fath â chostau'r amodau eu hunain i'r sector preifat fel yr amlinellwyd yn Opsiwn 2a. Oherwydd natur amrywiol iawn trwyddedau cwympo coed, megis graddfa gweithredoedd, oed a rhywogaeth y coed sy'n cael eu cwympo, a'r amgylchiadau sy'n deillio o ddefnyddio'r pwerau, nid yw'r gost i'r sector preifat ar gyfer diwygio, atal neu ddirymu yn hysbys. Nodir bod achosion atal neu ddirymu yn debygol o fod yn brin iawn, fel dewis olaf lle nad yw cytundeb neu ddiwygiad yn gallu datrys y broblem.

7.800 Yn yr un modd ag ar gyfer Opsiwn 2a, bydd amlder achosion a chostau gwirioneddol yn cael eu harchwilio fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu.

7.801 Nid oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd y bydd pwerau newydd i atal neu ddirymu yn cael effaith sylweddol ar y gadwyn gyflenwi neu'n arwain at gostau uwch i gynhyrchwyr pren.

### *Costau gweinyddu a chostau cyfalaf CNC*

7.802 Er bod disgwyl i'r prif ddefnydd o bwerau newydd i ddiwygio trwyddedau ddeillio o geisiadau gan ddeiliaid trwyddedau cwympo presennol, mae angen i CNC weinyddu'r ceisiadau hyn yn ogystal â gwasanaethu ei angen gweinyddol ei hun i ddiwygio trwydded cwympo coed. Gallai'r olaf gynnwys newid perchennog neu achos o roi trwydded mewn camgymeriad. Er nad yw'r sefyllfaoedd hyn yn digwydd yn aml, rhaid i CNC ymateb os ydynt yn digwydd.

7.803 O safbwynt y sector preifat, bydd defnyddio FMP hirdymor neu 10 mlynedd yn gymorth os yw'r sector coedwigaeth yn credu bod y manteision yn cyfiawnhau unrhyw gost ychwanegol. Mae dull FMP yn cynnwys Tabl Goddefiant gyda 3 chategori o ddiwygiad: mae diwygiadau Categori 1 yn cael eu diffinio fel 'oddi mewn i lefelau goddefiant' ac nid oes angen i CNC ymwneud â'r broses; mae diwygiadau Categorïau 2 a 3 yn gofyn am ymrwymiad amser gwahanol gan CNC.

7.804 Bydd CNC yn ysgwyddo costau ychwanegol wrth ymdrin â cheisiadau am ddiwygiadau gan ddeiliaid trwyddedau cwympo coed presennol. Mae'r cyfrifiad canlynol yn seiliedig ar ddiwygio 5% o drwyddedau cwympo: 512 FLA y flwyddyn x 5% x 4 awr x £31.80 yr awr = £3,000. Cofnodir yr un ffigur ar gyfer 2022 a 2050 gan nad oes cynnydd pellach mewn gwaith (ac felly cost) yn cael ei ragweld dros oes 28 mlynedd y Dadansoddiad Cost a Budd hwn.

### *Costau monitro a gorfodi CNC*

7.805 Bydd costau monitro ychwanegol ar gyfer CNC yn deillio o bwerau newydd i ddiwygio, atal a dirymu trwyddedau cwympo, yn enwedig os yw'r swyddogaethau atal a dirymu yn cael eu defnyddio.

7.806 Hefyd, bydd gwaith monitro (yn hytrach na phrosesu) diwygiadau gan CNC yn gysylltiedig â cheisiadau diwygio gan ddeiliaid trwyddedau cwympo coed presennol, a disgwylir y bydd y nifer hwn yn fach (amcangyfrifir 5% uchod). Dyma'r costau ychwanegol i CNC ar gyfer rheoli'r llwyth gwaith ychwanegol hwn: 512 FLA y flwyddyn x 5% x 4 awr x £31.80 yr awr = £3,000. Noder bod hwn yn gyfrifiad £3,000 ar wahân i'r hyn a gafwyd yn yr adran flaenorol.

7.807 Fel y nodwyd yn gynharach, ni ddylid defnyddio'r pwerau i atal neu ddirymu trwyddedau cwympo ac eithrio yn yr amgylchiadau prin lle na fyddai diwygio'r amodau neu'r drwydded gwympo yn mynd i'r afael â'r mater, neu na ellir cytuno arno. Nid yw'r pwerau hyn wedi'u defnyddio yn yr Alban ers eu cychwyn dair blynedd yn ôl, a disgwylir yr un sefyllfa yng Nghymru. Ym mhob achos, rhaid i CNC weithredu'n gymesur ac yn rhesymol yn unol â'i Egwyddorion Rheoleiddio, a bydd yn gweithio gyda deiliaid trwyddedau cwympo coed i gytuno ar waith lliniaru neu adfer trwy ddiwygiad er mwyn osgoi atal neu ddirymu trwydded lle bynnag y bo modd. Nid yw'r costau yn hysbys ar gyfer atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed.

### *Iawndal am ddirymu neu ddiwygio trwydded cwympo coed sydd eisoes wedi ei rhoi*

7.808 Mae’r newidiadau arfaethedig i’r Ddeddf Coedwigaeth yn caniatáu talu iawndal hefyd am ddibrisiant yng ngwerth pren o ganlyniad i roi’r hysbysiad. Bydd yr iawndal

ar gael pan gaiff trwydded gwympo ei dirymu neu ei newid oherwydd niwed amgylcheddol sy'n digwydd heb unrhyw fai ar ddeiliad y drwydded. Mae hyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth ddigolledu sydd eisoes o fewn Deddf Coedwigaeth 1967 am wrthod rhoi trwydded cwympo coed.

7.809 Ceir darpariaeth hefyd er mwyn gallu talu iawndal pan gaiff hysbysiad i newid, atal neu ddirymu trwydded (waeth a fu tramgwydd neu os nad oes bai) ei ganslo wedi hynny o ganlyniad i apêl lwyddiannus. Gallai’r iawndal gynnwys gwerth y dibrisiant yn y pren a/neu gostau rhesymol a ysgwyddir, gan ddibynnu ar y math o drwydded a ganslwyd. Mae hyn yn cyd-fynd ag Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

7.810 Hyd yma, nid oes unrhyw achosion wedi bod o dalu iawndal o dan ddarpariaeth bresennol y Ddeddf Coedwigaeth. Yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus a'i Egwyddorion Rheoleiddio, bydd CNC yn gweithio gyda deiliaid trwyddedau cwympo coed i gytuno ar waith lliniaru neu adfer trwy ddiwygio er mwyn osgoi atal neu ddirymu trwydded lle bynnag y bo modd. Gan fod amodau safleoedd a gwerth a chyfaint pren yn amrywiol iawn, a bod disgwyl i achosion iawndal fod yn brin, os ydynt yn codi o gwbl, nid yw'r costau yn hysbys.

### *Costau CNC ynghylch HRAs a chyngor cyn ymgeisio*

7.811 Fel yr amlinellir uchod, nid oes disgwyl i'r pŵer i atal a dirymu trwyddedau cwympo coed gael ei ddefnyddio ac eithrio mewn achosion eithafol lle nad oes modd penderfynu ar gamau lliniaru neu ddod i gytundeb.

7.812 Mae gwaith ychwanegol CNC sy'n deillio o HRA a chyngor ar ôl rhoi caniatâd i Drwyddedu Coedwigaeth CNC ar gyfer diwygiadau gwirfoddol yn debygol o fod yn fach (llai na'r amcangyfrif o 5% o achosion a fydd yn gofyn am y gwasanaeth hwn). Fodd bynnag, bydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno hefyd am gyngor mewnol yn deillio o niwed amgylcheddol annisgwyl, er bod y broses ymgeisio drwyadl yn debygol o olygu na fydd llawer o geisiadau o'r fath.

7.813 Dyma'r costau ychwanegol i CNC ar gyfer rheoli'r llwyth gwaith ychwanegol hwn: 512 FLA y flwyddyn x 5% x 20 awr x £31.80 yr awr = £1,000. Cofnodir yr un ffigur ar gyfer 2022 a 2050 gan nad oes cynnydd pellach mewn gwaith (ac felly cost) yn cael ei ragweld dros oes 28 mlynedd y Dadansoddiad Cost a Budd hwn.

7.814 Mae costau ychwanegol sy'n deillio o ddiwygio trwyddedau oherwydd torri amodau wedi'u cynnwys yn Opsiwn 2a.

### *Proses apelio CNC*

7.815 Mae'r nifer presennol o apeliadau yn isel, ond gallai hyn gynyddu yn dilyn unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau, gan gynnwys deddfwriaeth newydd yn yr achos hwn. Yr arfer disgwyliedig fydd i CNC drafod pob diwygiad, ataliad neu ddirymiad posibl ar gyfer trwydded cwympo coed gyda'r ymgeiswyr. Serch hynny, mae'n anochel y bydd rhai achosion lle nad yw deiliad y drwydded cwympo coed yn cytuno â'r hyn y mae CNC yn ei gynnig.

7.816 Rydym yn disgwyl i nifer yr apeliadau gynyddu, o un bob dwy flynedd i bedair bob blwyddyn. Mae pob apêl yn costio £2,000 i CNC. Felly, bydd cynnydd o £8,000 y flwyddyn o’i gymharu â Busnes fel Arfer.

### *Proses apelio Llywodraeth Cymru*

7.817 Amcangyfrifir mai £5,000 fesul achos fydd cost proses apelio Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin ag apeliadau yn achlysurol, ond gallai nifer yr achosion gynyddu am y gallai iawndal bellach gael ei dalu os bydd apêl yn erbyn hysbysiad a roddir o dan y pwerau newydd yn llwyddiannus. Mae nifer yr apeliadau sy'n ymwneud â diwygiadau yn dal yn debygol o fod yn gymharol isel, felly ar gyfer y Dadansoddiad Cost a Budd hwn, amcangyfrifir bod nifer yr achosion yn 4 y flwyddyn = £20,000.

## Manteision

### *Bioamrywiaeth ac osgoi niwed amgylcheddol*

7.818 Mae disgwyl i fanteision bioamrywiaeth ac amgylcheddol gynyddu o ganlyniad i'r ddarpariaeth i ddiwygio, atal a dirymu trwyddedau cwympo coed sydd eisoes wedi'u rhoi. Er mai dim ond mewn achosion prin ac eithafol lle nad oes modd cymryd camau lliniaru neu ddod i gytundeb y disgwylir i'r pŵer i atal neu ddirymu trwydded gael ei ddefnyddio, mae'r pŵer hwn yn cael ei ystyried yn ddull ataliol gwirioneddol.

7.819 Mae'r gallu i ddiwygio amodau neu drwyddedau cwympo coed yn cael ei ystyried yn ateb ymarferol a buddiol i anghysonderau mewn trwyddedau cwympo coed sydd eisoes wedi'u rhoi, gan ddiwygio amodau lle nad yw cydymffurfiaeth yn ymarferol bellach neu'n lliniaru neu'n osgoi niwed amgylcheddol annisgwyl. Fodd bynnag, mae'n anodd mesur neu fynegi'r manteision hyn mewn termau ariannol. Yn yr un modd ag ar gyfer Opsiwn 2a, bydd data perthnasol sy'n deillio o'r pwerau hyn yn cael ei archwilio fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu.

**Tabl 60: Costau sefydlu untro CNC ar gyfer Opsiynau 2a a b.**

| C/B | Camau gweithredu | 2022 | 2050 (heb ei ddisgowntio) |
|---|---|---|---|
| C | Costau sefydlu CNC | £345,000 | - |

7.820 Er y bydd costau cyfalaf trosiannol i CNC hefyd - fel costau creu canllawiau a ffurflenni newydd, diweddaru tudalennau gwe, darparu hyfforddiant ac ati - bydd y costau hyn yn cael eu hysgwyddo ym Mlynyddoedd 1 neu 2 yn dilyn pleidlais y Senedd yn 2022, a bydd y costau'n cael eu lleihau trwy addasu systemau presennol.

7.821 Trwy ddatblygu fframwaith clir ar gyfer amodau, bydd y broses o gymhwyso'r rhain yn fwy effeithlon, tryloyw a chymesur.

7.822 Bydd y gost o ddatblygu a chyflwyno fframwaith amodau yn gost untro o £345,000 ym Mlwyddyn 1. Er bod y gost hon yn sylweddol, mae CNC yn cynnig bod modd addasu gweithdrefnau presennol CNC am gost isel.

## Crynhoi'r costau a manteision

7.823 Nododd yr Arfarniad Opsiwn cychwynnol y costau ychwanegol sydd i'w hysgwyddo a'r manteision posibl (er nad yw'r manteision yn ymwneud â'r farchnad gan amlaf) yn sgil y cynnig polisi. Mae'r costau llawn sy'n gysylltiedig â'r opsiwn Busnes fel Arfer wedi'u cynnwys yn y Dadansoddiad Cost a Budd hwn, ond mae'r ffigurau sydd wedi'u crynhoi yn y tablau uchod yn canolbwyntio ar y newidiadau yng nghostau Busnes fel Arfer o ganlyniad i newid y gofynion ar gyfer ymgeiswyr.

7.824 Gwerth coedwigaeth i economi Cymru yw £665m y flwyddyn, a dylai'r cynigion sy'n cael eu harchwilio yma helpu'r diwydiant coedwigaeth i ffynnu wrth gyflawni ei ofynion cyfreithiol a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth. Hefyd,

mae Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i sicrhau bod mwy o goetiroedd yn cael eu rheoli, felly mae angen defnyddio'r pwerau hyn mewn ffordd gymesur a rhesymol.

7.825 O safbwynt y DU yn ehangach, mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon y pwerau eisoes i osod amodau amgylcheddol ar eu trwyddedau cwympo coed, ac mae'r Alban yn gallu diwygio, atal, a dirymu trwyddedau hefyd. Bydd y pŵer dirymu yn bwysig i Gymru hefyd os ydym am symud tuag at fwy o ddefnydd o Gydnabyddiaeth ar sail Perfformiad yn unol ag argymhelliad Tasglu Coed a Phren y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd.

7.826 Mae’r Opsiwn 2 (a a b) sy'n cael ei gynnig yn debygol o effeithio ychydig ar lawer o fusnesau, fel y gwelir yn yr wybodaeth yn ATODIAD D. Yn ogystal, disgwylir i'r effeithiau cost yn sgil y cynigion fod yn isel, gan fod angen i'r cynigion fod yn gymesur. Fodd bynnag, o ystyried yr amrywiad mawr mewn amlder defnydd, rhywogaethau, oedran ac amodau safleoedd, mae'n anodd amcangyfrif costau'r Opsiwn hwn i'r sector preifat. Hefyd, mae'n anodd rhoi gwerth ariannol ar lawer o'r manteision amgylcheddol, er eu bod yn cael eu hystyried yn niferus. Mae'r Dadansoddiad Cost a Budd hwn yn canolbwyntio ar gostau a manteision ychwanegol (neu ymylol) pob rhan o Opsiwn 2 y tu hwnt i’r hyn a fyddai’n digwydd o dan yr opsiwn Busnes fel Arfer.

7.827 Mae'r wybodaeth sydd ei hangen i gwblhau'r Dadansoddiad Cost a Budd wedi ei chasglu o sawl ffynhonnell, gan gynnwys y Grŵp Rhanddeiliaid yn benodol, a staff CNC hefyd. Hefyd, cyflwynwyd gwybodaeth gan gydweithwyr Llywodraeth Cymru (e.e. ERAMMP) a gan Forest Research. Mae Cyllid CNC wedi darparu gwybodaeth am gostau a chyflogau cyfartalog staff CNC.

7.828 Nodir bod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn hanfodol i ddatblygu Dadansoddiad Cost a Budd cadarn, ac y dylai'r gwaith hwn ddechrau yn gynnar yn y dadansoddiad. Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid o gynrychiolwyr allweddol wedi ymgysylltu â’r gwaith o ddatblygu'r Dadansoddiad Cost a Budd hwn a chyfrannu ato, ac rydym yn ddiolchgar am ei fewnbwn.

7.829 Nod y Dadansoddiad Cost a Budd hwn yw darparu amcangyfrif gorau o gostau a manteision y newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n cael eu cynnig gan y ddarpariaeth coedwigaeth. Yn yr ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Amaeth (Cymru) ym mis Rhagfyr 2016, dywedodd Gweinidogion Cymru yn glir nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno taliadau am drwyddedau cwympo coed. Felly, mae'r Dadansoddiad

Cost a Budd hwn yn seiliedig ar y polisi presennol o ariannu trwyddedau cwympo coed drwy Gymorth Grant presennol Llywodraeth Cymru.

7.830 Mae'r Dadansoddiad Cost a Budd hwn wedi canolbwyntio ar Gostau Cylchol - y costau ychwanegol sy'n deillio o'r cynigion hyn. Mae yna Gostau Pontio hefyd, sef costau untro yn bennaf sy'n ymwneud â rhoi'r polisi ar waith. Er bod y gost hon yn sylweddol, mae CNC yn cynnig bod modd addasu gweithdrefnau presennol CNC am gost isel. Gweler y tabl canlynol.

**Tabl 61: Costau pontio a chostau cylchol**

| Costau pontio | Costau cylchol |
|---|---|
| **Canllawiau:** I'w cynhyrchu | **Cydymffurfiaeth:** Ymgeiswyr i ddarparu manylion ychwanegol a bod yn ymwybodol o weithdrefnau newydd |
| **Ymgyfarwyddo:** Ymgeiswyr i ymgyfarwyddo â'r canllawiau newydd | **Gweinyddiaeth:** Beichiau ychwanegol posibl ar gyfer rhai ymgeiswyr, y bydd angen iddynt ddarparu mwy o wybodaeth yn eu ceisiadau. Costau ychwanegol i CNC weinyddu ceisiadau a sicrhau eu bod wedi'u cyflwyno yn briodol |
| **Cyfathrebu:** Argymell osgoi gormod o gyfathrebu | **Monitro:** Ymgeiswyr i ddarparu adroddiadau fel sylfaen ar gyfer gwaith monitro CNC. Bydd angen archwiliadau ar hap. Bydd angen gwaith dilynol os yw CNC yn canfod diffyg cydymffurfiaeth |
| **Hyfforddiant:** Angenrheidiol ar gyfer ymgeiswyr yn ogystal ag ar gyfer staff CNC. Diddordeb posibl gan randdeiliaid hefyd | **Gorfodi:** Amcangyfrifir y gall 0-3 achos y flwyddyn gael eu hasesu fel rhai 'achos i'w ateb' lle bydd angen ystyried cymryd camau pellach |

| | |
|---|---|
| **Eiddo:** Dim costau ychwanegol gan y bydd safleoedd a staff presennol yn cael eu defnyddio | **Sancsiynau ac apeliadau:** Y system apeliadau trwydded bresennol i'w hymestyn i'r pwerau newydd. Lleihau costau ychwanegol trwy ddefnyddio prosesau presennol |
| **TG:** Defnyddio systemau presennol ond efallai y bydd angen gwella MapDataCymru. Angen posibl i ddarparu mwy o wybodaeth mynediad gan Ganolfannau Cofnodion Lleol | **Cynnal a chadw:** Ni ragwelir y bydd angen unrhyw seilwaith newydd |

7.831 Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i effeithiau posibl y cynigion hyn ar y System Gyfiawnder. Ar hyn o bryd, nid yw Trwyddedu Coedwigaeth CNC yn defnyddio'r system gyfiawnder yn aml ar gyfer troseddau yn ymwneud â thrwyddedau cwympo coed gan mai ychydig iawn (llai nag 1 y flwyddyn) o achosion Cwympo Coed Anghyfreithlon Honedig (AIF) sy'n cyrraedd y cam hwn. Amcangyfrifir bod angen dwyn achos o ddiffyg cydymffurfiaeth ag amodau amgylcheddol yn y llys mewn 0-3 achos y flwyddyn.

7.832 Mae effaith y cynigion yn y Dadansoddiad Cost a Budd hwn wedi cael ei hystyried ar sail yr effaith leiaf sydd ei hangen i gyfiawnhau costau eu gweithredu. Mae effeithiau tebygol yn cynnwys y canlynol:

a) Bydd angen i ymgeiswyr am drwyddedau cwympo coed ddarparu gwybodaeth ategol ychwanegol i CNC lle bo hynny'n berthnasol er mwyn dangos effeithiau amgylcheddol tebygol eu cynigion. Bydd rhywfaint o'r wybodaeth hon yn dod o gofnodion presennol (e.e. o LRCs) ond bydd angen i wybodaeth arall ddod o waith arolygu priodol. Mae llawer o ymgeiswyr eisoes yn darparu digon o wybodaeth i CNC.

b) Mae CNC yn disgwyl nifer cyfyngedig o geisiadau gan ddeiliaid trwyddedau cwympo coed presennol i ddiwygio eu trwyddedau. Mae'n debygol iawn y bydd y ceisiadau hyn yn gysylltiedig â cheisiadau dilynol am grantiau i blannu neu reoli coetir.

c) Bydd CNC yn ysgwyddo costau ychwanegol wrth fonitro amodau amgylcheddol lle mae'r rhain yn cael eu cymhwyso, ac wrth gymryd camau gweithredu pellach.

d) Bydd CNC yn ysgwyddo costau gorfodi wrth ymdrin â throseddau posibl, o'r ymchwiliad cychwynnol i gyflwyno achos i'w ystyried ymhellach, i fynd ag achos i'r llys. Gall sancsiynau sifil gynnig opsiynau eraill yn y dyfodol, ond nid oes sylfaen ddeddfwriaethol i'r rhain ar gyfer troseddau coedwigaeth ar hyn o bryd.

## Crynodeb o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn – Arfarniad Opsiwn

7.833 Mae'r adran hon (Arfarniad Opsiynau) yn nodi'r Opsiwn a Ffefrir ac yn esbonio pam mae'r opsiwn hwn wedi'i ddewis, wedi'i ategu gan y dadansoddiad blaenorol. Er mwyn dangos manylion costau a manteision, noder bod Opsiwn 2 wedi'i rannu fel hyn:

a) Opsiwn 2(a): Ychwanegu Amodau Amgylcheddol at drwyddedu cwympo coed
b) Opsiwn 2(b): Sicrhau bod modd diwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed ar ôl eu rhoi.

7.834 Mae'r ddwy ran o Opsiwn 2 yn cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd gan eu bod yn gyd-ddibynnol; mae'r gallu i ddiwygio, atal neu ddirymu trwydded cwympo coed yn galluogi opsiynau gorfodi i ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed.

7.835 Fel y nodwyd gan y Grŵp Rhanddeiliaid yn gynnar yn natblygiad y Dadansoddiad Cost a Budd, mae'r Dadansoddiad hwn yn canolbwyntio mwy ar gostau na manteision. Costau arian parod yw'r rhan fwyaf o'r costau (sy'n cynnwys gwariant ariannol gwirioneddol) tra bod y rhan fwyaf o'r manteision yn fanteision nad ydynt yn arian parod (a elwir hefyd yn fanteision nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad), ac mae'n anodd rhoi gwerth ariannol arnynt na'u cymhwyso dros Gymru gyfan mewn ffordd sy'n destun dadansoddiad sensitifrwydd.

7.836 Fel yr amlinellwyd yn gynharach, mae rhai astudiaethau gwych yn ymwneud â manteision nad ydynt yn arian parod. Mae'r rhain yn cynnwys Bateman et al 2013[346] a amlinellodd gynnydd disgwyliedig o 20% yng ngwerth net tir i gymdeithas ar gyfartaledd; ac astudiaeth yn 2001 a oedd yn amcangyfrif bod economi'r amgylchedd wedi cyfrannu gwerth £8.8 biliwn o nwyddau a gwasanaethau bob blwyddyn i

[346]Bringing Ecosystem Services into Economic Decision-Making: Land Use in the UK – Bateman et al, 2013

economi Cymru (£12.0 biliwn ym mhrisiau 2014). Fodd bynnag, nid yw llawer o'r astudiaethau hyn yn berthnasol ar lefel clwstwr neu nid oes modd eu hallosod dros Gymru gyfan.

7.837 Mae priodoli cyfran o fanteision bioamrywiaeth neu gadwraeth yn uniongyrchol i'r pwerau sy'n deillio o'r Bil hwn yn creu anhawster pellach, o ystyried natur amrywiol trwyddedau cwympo coed o safbwynt amlder, graddfa ac amodau safleoedd unigol. Am y rheswm hwn, nid oedd modd creu gwerthoedd ariannol ar gyfer manteision.

7.838 Er gwaethaf yr heriau sy'n bodoli wrth fynegi'r manteision yn yr un modd â'r costau, mae'r Grŵp Rhanddeiliaid wedi bod yn gwbl glir ei fod o'r farn bod manteision darpariaethau coedwigaeth Bil Amaethyddiaeth (Cymru) 2022 yn sylweddol. Fodd bynnag, nid oes modd cyflwyno tabl sy'n dangos gwerth presennol manteision llai gwerth presennol costau, ac yna crynodeb cyffredinol o'r holl gostau a manteision.

7.839 Bwriad y tabl canlynol yw ceisio efelychu hyn trwy grynhoi costau a manteision pob rhan o'r opsiwn ar gyfer newid (Opsiwn 2a Amodau trwyddedau cwympo ac Opsiwn 2b Diwygio, atal, dirymu trwyddedau cwympo). Mae'r holl ffigurau yn rhai heb eu disgowntio, wedi'u talgrynnu i'r 1,000 agosaf. DS. Dim ond crynodeb o'r costau y gellir eu mesur yw hwn - nid yw'n cynnwys costau a manteision anhysbys.

**Tabl 62: Newidiadau i gostau/manteision o bob rhan o Opsiwn 2 mewn perthynas â Busnes fel Arfer**

| Opsiwn | **2022** | **2050** |
|---|---|---|
| 2a. Ychwanegu Amodau | £172,000 - £186,000 | £220,000 - £238,000 |
| b. Diwygio, atal, dirymu trwyddedau cwympo coed | £66,000 | £66,000 |
| CYFANSWM costau blynyddol | £238,000 - £252,000 | £286,000 - £304,000 |
| 2a. Costau sefydlu (untro) | £345,000 | - |

7.840 Gair i gloi:

a) Mae yna gynnydd parhaus yng nghostau Busnes fel Arfer dros 28 mlynedd y Dadansoddiad Cost a Budd hwn sy'n deillio o'r safonau uwch sydd eisoes yn berthnasol i ymgeiswyr trwyddedau cwympo coed. Disgwylir i'r safonau hyn barhau.

b) Mae cynnydd amlwg yng nghostau'r ddwy ran o Opsiwn 2, er ei bod yn anodd gwybod i ba raddau y byddai'r cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso gan y manteision amgylcheddol.

c) Er nad oes modd mesur y manteision sy'n deillio o Opsiwn 2 mewn termau ariannol, credir y byddant yn arwyddocaol.

7.841 Mae cais yn cael ei wneud am bwerau o dan Opsiwn 2 - i ddiwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i ddarparu pwerau i ychwanegu amodau a diwygio/atal/dirymu trwyddedau cwympo coed sydd eisoes wedi'u rhoi - er mwyn atal cwympo coed a fyddai'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall.

7.842 Prif effaith hyn yw diogelu bywyd gwyllt a darparu gwarchodaeth rhag niwed amgylcheddol, a thrwy wneud hyn, lleihau effaith trwyddedau cwympo coed ar yr argyfwng natur, gan sicrhau bod y diwydiant coedwigaeth yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol at yr argyfwng newid hinsawdd.

7.843 Mae hefyd yn galluogi gorfodi amodau "amgylcheddol" o'r fath o dan y Ddeddf Coedwigaeth; yn helpu'r Ddeddf Goedwigaeth i gyd-fynd â deddfwriaeth amgylcheddol arall megis Rheoliadau Cynefinoedd 2017 ac yn galluogi CNC i gyflawni ei ddyletswydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR) ac Adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

7.844 Ar y sail hon, mae Opsiwn 2 wedi'i ddewis fel yr opsiwn a ffefrir.

## Maglau a Thrapiau Glud

7.845 Bydd y Dadansoddiad Cost a Budd hwn yn cael ei strwythuro yn y modd canlynol:

a) Opsiynau

b) Costau a Manteision (gan gynnwys Asesiadau Effaith)

## Opsiynau

7.846 Amcan y polisi yw gwahardd y defnydd o faglau a thrapiau glud yng Nghymru ar sail rhesymau lles anifeiliaid. Mae'r sail resymegol ar gyfer hyn wedi'i nodi yn y Memorandwm Esboniadol.

7.847 Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried ar gyfer pob mater:

### *Maglau*

a) **Opsiwn 1:** Busnes fel arfer – caniatáu i'r defnydd o faglau i reoli llwynogod a rhywogaethau 'pla' eraill barhau.

b) **Opsiwn 2:** Cyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru sy'n caniatáu defnyddio maglau, yn amodol ar rai amodau, gan y rhai sy'n gymwys i gael trwydded.

c) **Opsiwn 3:** Gwahardd defnyddio maglau ym mhob sefyllfa.

### *Trapiau glud*

a) **Opsiwn 1:** Busnes fel arfer – caniatáu i'r defnydd o drapiau glud barhau.

b) **Opsiwn 2:** Gwahardd defnyddio trapiau glud gan aelodau'r cyhoedd ond cyflwyno cynllun trwyddedu a fydd yn derbyn ceisiadau gan reolwyr plâu proffesiynol i gael caniatâd i ddefnyddio trapiau glud mewn rhai achosion ac o dan amodau rheoledig.

c) **Opsiwn 3:** Gwahardd defnyddio trapiau glud ym mhob sefyllfa.

7.848 Disgrifir pob opsiwn isod, ynghyd â chostau a manteision cysylltiedig, lle bo hynny'n berthnasol. Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn archwilio Opsiynau 1 a 2 ar gyfer maglau neu drapiau glud yn fanwl gan nad ydynt yn bodloni'r amcan polisi.

### *Maglau*

### *Opsiwn 1: Busnes fel arfer – caniatáu i'r defnydd o faglau i reoli llwynogod a rhywogaethau 'pla' eraill barhau*

7.849 Mae maglau'n cael eu defnyddio fel bod modd dal llwynogod neu gwningod o amgylch y gwddf a'u ffrwyno nes bod y gweithredwr yn gallu ailymweld â'r safle a

lladd yr anifail. Mae ciperiaid, rheolwyr tir a ffermwyr yn defnyddio'r dulliau cyfreithiol hyn o faglu a lladd anifeiliaid – llwynogod yn bennaf[347] – y bernir eu bod yn bla oherwydd eu bod yn lladd adar hela ac ŵyn. Credir eu bod yn cael eu defnyddio'n helaeth yng Nghymru, ond mae rhai amcangyfrifon yn debygol o fod yn anghywir i raddau helaeth oherwydd bod pobl yn gyndyn o ddweud eu bod yn eu defnyddio, ac ni fyddai cofnodion gwerthiant yn darparu unrhyw arwydd clir gan fod pobl yn gallu gwneud eu maglau eu hunain; eu prynu o'r tu allan i Gymru; a'u hailddefnyddio dro ar ôl tro.

7.850 Lluniodd Llywodraeth Cymru *Cod ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid*[348] yn 2015. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth wedi'i chyflwyno ynglŷn â sut mae defnyddwyr maglau yn cydymffurfio â'r Cod hwn. Yn y cyfamser, parhau mae adroddiadau am achosion o ddefnyddio maglau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Cod hwn, dal rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu, ac anifeiliaid yn dioddef. Yn wir, ni allai'r adroddiad blynyddol cyntaf i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (CCERA) ddarparu sicrwydd bod y Cod wedi'i fabwysiadu'n eang gan ddefnyddwyr maglau. Felly, ni ddisgwylir y bydd y defnydd o faglau yn lleihau yn naturiol dros amser, ac o ganlyniad, mae lles anifeiliaid yn annhebygol iawn o wella'n annibynnol a heb ymyrraeth.

7.851 Mae'r cod ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid yn seiliedig ar ddefnyddio magl wedi'i haddasu sy'n cydymffurfio â'r Cod (cyfeirir ati weithiau fel 'Atalydd Cebl Dyngarol’). Nod yr addasiadau yw gwella lles anifeiliaid a sicrhau bod llai o anifeiliaid nad ydynt wedi'u targedu yn cael eu dal. Nid yw'r addasiadau yn gwaredu'r holl risgiau, ac yn wir, ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos eu heffeithiolrwydd gan grwpiau defnyddwyr maglau yn y chwe blynedd ar ôl lansio'r Cod, er gwaethaf ceisiadau mynych.

7.852 Ni fyddai 'Busnes fel Arfer' yn cyflawni'r amcan polisi a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n dilyn ymrwymiad maniffesto etholiad y Senedd yn 2021 i wahardd maglau. Ni fyddai'n dderbyniol chwaith i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru a sefydliadau'r sector cyhoeddus sydd wedi lobïo i wahardd y defnydd o faglau.

---

[347] Yn ôl adroddiad gan Defra yn 2012, nid yw maglau cwningod yn cael eu defnyddio mor eang â maglau llwynogod. Ar sail canlyniadau’r arolwg, awgrymir mai dim ond 115 o ddaliadau yng Nghymru sy'n defnyddio maglau cwningod, a bod cyfartaledd o 12 magl yn cael eu defnyddio ar bob daliad ar unrhyw adeg (o'i gymharu â rhwng 17,200 a 51,600 o faglau llwynogod sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru). Weithiau mae maglau'n cael eu defnyddio i ddal cwningod ar gyfer bwyd. Defra, UK - Science Search

[348] Cod ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid | LLYW. CYMRU

### *Opsiwn 2: Cyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru sy'n caniatáu defnyddio maglau, yn destun amodau penodol, gan y rhai sy'n gymwys i gael trwydded.*

7.853 Ar gyfer system drwyddedu i ddefnyddio maglau, byddai angen i gorff priodol neu asiantaeth briodol weinyddu'r cynllun a monitro cydymffurfiaeth, gan godi ffioedd ar raddfa sy'n gallu adennill yr holl gostau dan sylw.

7.854 Ar hyn o bryd, mae nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol yn rheoleiddio'r defnydd o faglau a'r math o faglau sy'n gyfreithiol i'w defnyddio yng Nghymru, gan gynnwys y rhai o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Fodd bynnag, nid yw Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn caniatáu ychwanegu, diddymu neu reoleiddio dulliau maglu sydd wedi'u gwahardd. Felly, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i gyflwyno system drwyddedu.

7.855 Mae'r *Cod ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid* wedi bod ar waith ers dros chwe blynedd bellach, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu ei fod wedi llwyddo i fynd i'r afael phryderon lles anifeiliaid sydd yn rhan annatod o'r arfer o faglu. Mae system drwyddedu yn feichus i'w gweinyddu, ac nid yw'n cynnig unrhyw welliannau ychwanegol i les anifeiliaid chwaith, y tu hwnt i'r symbolaidd, na'r hyn y bwriadwyd i'r Cod arfer orau ei wneud (ond bernir ei fod wedi methu â'i wneud[349]). Waeth a ydynt yn cydymffurfio â'r cod ymarfer, gellir ystyried bod maglau yn annynol oherwydd y gofid – ac yn aml y poen - a achosir i'r anifail sydd wedi'i ddal am gyfnod hir o bosibl.

7.856 Mae Pwyllgor Deisebau'r Senedd wedi ystyried defnyddio a gwerthu maglau yng Nghymru, a thrafodwyd y mater gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn ystod tymor diwethaf y Senedd. Yn ôl adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn 2017: '*rydym wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru baratoi deddfwriaeth ddrafft yn awr i sicrhau ei bod mewn sefyllfa i weithredu ar unwaith pe bai ymdrechion cyfunol y llywodraeth, y diwydiant a thirfeddianwyr yn methu â gwireddu uchelgeisiau'r Cod'*.

[349]Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi annog grwpiau defnyddwyr maglau i gyflwyno ffigurau ac astudiaethau achos i gefnogi'r defnydd parhaus o faglau, ond nid oes unrhyw ffigurau sylweddol na thystiolaeth o welliannau i les anifeiliaid wedi eu darparu.

7.857 Rhwng 2010 a 2015[350] cyflwynodd yr Alban reoliadau gwahanol ar ddefnyddio maglau a oedd yn cynnwys nifer o ofynion mewn perthynas â lleoli a gosod maglau; yr hyfforddiant sydd ei angen ar y rhai sy'n defnyddio maglau; a nodi a chofnodi lleoliad maglau trwy dagio, ymhlith gofynion eraill. Er bod y gofynion hyn yn cynorthwyo'r broses orfodi, nid ydynt yn mynd i'r afael â'r holl bryderon.

7.858 Mae grwpiau lles wedi dweud nad yw'r rheoliadau wedi gwneud unrhyw beth i wella lles anifeiliaid, nid yn unig mewn perthynas â materion cydymffurfiaeth, ond oherwydd nad oes modd sicrhau nad yw rhywogaethau nad ydynt wedi'u targedu yn cael eu dal. O safbwynt y rhywogaethau sydd wedi'u targedu, nid oes modd sicrhau nad yw eu lles yn cael ei beryglu. Wedi'r cyfan, mae ffordd y mae magl ddirwyn yn gweithio yn ddibynnol ar yr anifail yn rhoi’r gorau i frwydro, ac nid yw hynny yn wir bob amser am anifail gwyllt.

7.859 Ymhlith yr ymatebwyr a nododd yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Amaeth (Cymru) (a oedd yn gofyn am safbwyntiau ar faglau) nad oeddent eisiau gwaharddiad llwyr, roedd rhai o blaid rheolaethau llymach - gan gyfeirio at system yr Alban. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cydnabod y pryderon mewn perthynas ag anifeiliaid nad ydynt yn cael eu targedu sy'n cael eu lladd neu eu hanafu gan faglau, ond nid oeddent yn cynnig tystiolaeth ar sut y gall rheoliadau atal hyn rhag digwydd, neu yn wir leihau dioddefaint rhywogaethau targed. Nid oedd mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi rheoleiddio.

7.860 Mae digon o dystiolaeth i ddangos bod maglau yn annynol, yn achosi lefel annerbyniol o ddioddefaint[351,352] ac yn dal rhywogaethau nad ydynt wedi'u targedu waeth beth yw'r math o fagl[353] - o ganlyniad, mae yna bryder na fyddai rheoleiddio, i bob pwrpas, ond yn arwain at drwyddedu creulondeb.

---

[350] Snares (Scotland) Order 2010, wedi'i ddilyn yn ddiweddarach gan a13 o'r Wildlife and Natural Environment (Scotland) Act 2011 sy'n gosod darpariaethau newydd yn a11 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981; The Snares (Identification Numbers and Tags) (Scotland) Order 2012; a’r Snares (Training) (Order) 2015.

[351] Munro, R. a Munro, H.M.C. (2008) ‘Traps and Snares’ *in Animal Abuse and Unlawful Killing Forensic Veterinary Pathology*. Caeredin, Elsevier Saunders

[352] Rochlitz, I., Pearce, G.P. a Broom, D.M. (2010) The Impact of Snares on Animal Welfare. OneKind Report on Snaring, Centre for Animal Welfare and Anthrozoology, Department of Veterinary Medicine, Cambridge University Animal Welfare Information Service.

[353] Short, M. J., Weldon, A. W., Richardson, S. M., a Reynolds, J. C. (2012). Selectivity and injury risk in an improved neck snare for live-capture of foxes. *Wildlife Society Bulletin*, 36(2), 208-219.

7.861 Nid yw cynllun trwyddedu ar gyfer defnyddwyr maglau yn cyflawni'r amcan polisi, sef gwahardd y defnydd ohonynt yng Nghymru. Mae'r cyhoedd a sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru wedi lobïo yn gadarn am wahardd yr arfer hwn.

### *Opsiwn 3: Gwahardd defnyddio maglau ym mhob sefyllfa.*

7.862 Gall maglau achosi dioddefaint corfforol a meddyliol i'r anifeiliaid sy'n cael eu dal, yn enwedig gan y gallai anifail fod yn gaeth am oriau lawer - yn gyfreithlon, neu am ddiwrnodau - yn anghyfreithlon[354]. Mae maglau'n gallu arwain at farwolaeth araf a phoenus i'r anifail sydd wedi'i ddal. Wrth i'r anifail frwydro i ryddhau ei hun, gall y fagl lithro i'r corff neu i'r cymalau is, a gall yr anifail anafu ei hun ymhellach wrth geisio cnoi trwy'r fagl.

7.863 Mae natur maglau yn golygu nad ydynt yn gwahaniaethu, ac o ganlyniad, mae llawer o rywogaethau eraill nad ydynt wedi'u targedu yn cael eu dal, gan gynnwys mathau eraill o fywyd gwyllt megis ceirw, ysgyfarnogod, moch daear, adar, a dyfrgwn. Hefyd, mae rhywogaethau domestig fel cŵn a chathod, yn ogystal â da byw ffermydd, wedi cael eu dal, eu hanafu, a hyd yn oed eu lladd. Felly, nid oes modd sicrhau safonau uchel o les anifeiliaid yng Nghymru os yw maglau yn parhau i fod yn ddull a ganiateir o reoli 'plâu'.

7.864 Mae trafodaethau gydag arbenigwyr Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill sy'n gwneud gwaith rheoli llwynogod wedi dangos bod dulliau amgen sy’n fwy effeithlon a llai creulon o reoli 'plâu' yn bodoli. Y dull mwyaf effeithlon o reoli llwynogod yw defnyddio reifflau, gyda lens delweddu thermol, yn y nos. Mae'n bwysig nodi bod y gwaharddiad ar faglau yn ymwneud â'r dull a ddefnyddir ac nad yw'n atal gwaith rheoli llwynogod trwy ddefnyddio dulliau eraill.

7.865 Mae'r rhan fwyaf o'r cyhoedd yn credu bod angen gwahardd maglau yng Nghymru. Yr ymateb cyffredinol i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Amaeth (Cymru), a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, oedd yr angen i wahardd defnyddio maglau yn gyfan gwbl. Roedd yr ymatebwyr yn poeni am faglu rhywogaethau nad ydynt wedi'u targedu heb wahaniaethu, ac am les yr holl rywogaethau sy'n cael eu dal mewn maglau.

---

[354] O dan a11 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n anghyfreithlon methu â gwirio magl sydd wedi'i gosod o leiaf unwaith bob 24 awr.

7.866 Nododd y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon (LACS) fod arolwg YouGov a gomisiynwyd ganddi ym mis Ionawr 2021 wedi canfod bod 78 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru am i'r defnydd o faglau gael ei wneud yn anghyfreithlon[355].

7.867 Mae dwy ddeiseb yn ymwneud â Chymru yn benodol wedi'u cyflwyno dros y blynyddoedd diwethaf yn galw am wahardd maglau. Roedd deiseb i'r Senedd (P-06-1159) wedi'i llofnodi gan 6,514 o bobl pan gafodd ei hystyried wedi ei chau gan y Pwyllgor Deisebau ym mis Hydref 2021 gan fod y pwnc eisoes yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru. Roedd deiseb gynharach i'r Senedd (P-05-715) o dan arweiniad y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon wedi'i llofnodi gan 1,405 o bobl erbyn mis Tachwedd 2017, ac fe gafodd ei chau gan y Pwyllgor Deisebau yn sgil trafodaeth ac argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

7.868 Roedd deiseb a lansiwyd yn Senedd y DU yn 2021 yn galw am wahardd gwerthu, defnyddio a chynhyrchu maglau dirwyn wedi'i llofnodi gan dros 100,000 o bobl, ac o ganlyniad, roedd yn destun dadl yn Neuadd San Steffan ar 9 Ionawr 2023. Ymatebodd Defra cyn i'r ddeiseb gau ym mis Ionawr 2022 trwy ddatgan: 'The Government recognises that some people consider snares to be an inhumane and unnecessary means of trapping wild animals and will launch a call for evidence on the use of snares', gan ychwanegu 'the Government will ensure it has the very latest understanding on this issue, and our position will be informed by the responses received[356]'.

7.869 Mae Llywodraeth Yr Alban wedi ymrwymo i adolygiad arall o faglau, ac mae adroddiadau diweddar yn awgrymu y bydd gwaharddiad yn un o'r opsiynau dan ystyriaeth[357]. Gallai'r penderfyniad hwn fod wedi cael ei ysgogi gan arolwg barn a gomisiynwyd gan un sefydliad lles anifeiliaid yn 2021 a ganfu fod 76 y cant o Albanwyr am weld gwaharddiad ar ddefnyddio maglau[358].

7.870 Mae 75 y cant o wledydd yr UE wedi gwahardd defnyddio maglau, felly hefyd y Swistir. Ar wahân i wledydd y DU, credir mai dim ond 6 gwlad arall sy'n caniatáu defnyddio maglau, ond mae gan o leiaf un o'r rheiny - Gwlad Belg - waharddiadau rhanbarthol ar waith.

---

355 Calls for Welsh Government to ban barbaric snares | League Against Cruel Sports
356 https://petition.parliament.uk/petitions/600593
357 Snares to trap animals could be banned due to illegal use | Scotland | The Times
358 76% of Scots want to see a ban on the use of snares - OneKind

7.871 Mae'r gwaharddiad ar faglau yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn ceisio ei gwneud yn drosedd i ddefnyddio maglau mewn unrhyw sefyllfa. Ni fydd y Bil yn atal rheolwyr tir, ciperiaid, a ffermwyr rhag defnyddio dulliau eraill o reoli plâu. Ystyrir bod defnyddio reifflau yn y nos gyda delweddu thermol yn ddull mwy effeithlon a llai creulon o ymdrin â llwynogod.

7.872 Bydd gwahardd y defnydd o faglau yn anfon neges glir nad yw dulliau fel hyn o reoli plâu yn dderbyniol yng Nghymru, sy'n ceisio cynnal safonau uchel o les anifeiliaid.

## Trapiau Glud

### *Opsiwn 1: Busnes fel arfer – caniatáu i'r defnydd o drapiau glud barhau.*

7.873 Gall unrhyw un brynu trapiau glud o amrywiaeth eang o fanwerthwyr, ac maent yn cael eu defnyddio'n bennaf[359] i ddal cnofil gan ei goes neu ei ffwr pan ddaw i gysylltiad â'r glud. Mae'r trapiau hyn yn cael eu defnyddio'n aml gan aelodau'r cyhoedd yn ogystal â nifer o reolwyr plâu proffesiynol.

7.874 Nid oes gofyniad i ddefnyddiwr trap glud fod ag unrhyw sgiliau neu wybodaeth am y cnofil y mae'n ceisio ei ddal, na'r hyn sydd angen ei wneud ar ôl iddo gael ei ddal. Mae'n bosibl na fydd llawer o ddefnyddwyr nad ydynt yn weithwyr proffesiynol yn gwybod sut i drin a lladd yr anifail ar ôl ei ddal, ac efallai y byddant yn taflu'r fagl gyda'r anifail byw yn sownd wrthi heb sylweddoli y gallai wneud hynny fod yn drosedd o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

7.875 Hefyd, mae'n bosibl y bydd defnyddwyr yn cyflawni trosedd os ydynt yn lladd yr anifail mewn ffordd greulon, a gallai hynny ddigwydd yn aml os nad oes ganddynt yr wybodaeth na'r sgiliau perthnasol. Dangosodd un arolwg barn YouGov[360] na fyddai dros hanner yr ymatebwyr yn gwybod beth i'w wneud ag anifail byw sydd wedi'i ddal, neu y byddent yn argymell cam gweithredu fel boddi, sy’n anghyfreithlon. Dim ond 20 y cant a oedd yn ymwybodol o'r dull a ffefrir, a'r dull cyfreithiol, sef taro'r anifail gydag ergyd gadarn i achosi marwolaeth ar unwaith.

[359]Hefyd, defnyddir byrddau/trapiau glud ar gyfer pryfed a phlâu, megis chwilod du, ac ni fydd y rhain yn cael eu gwahardd gan fod y gwaharddiad arfaethedig yn berthnasol i fertebratau’n unig.
[360]Humane Society International (HSI), 2015. Inhumane, Indiscriminate, Indefensible: The case for a UK ban on rodent glue traps. Ar gael yn: https://www.hsi.org/wp-content/uploads/assets/pdfs/hsi-glue-trap-report.pdf

7.876 Hefyd, nodwyd bod rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu wedi cael eu dal mewn trapiau glud, gan gynnwys anifeiliaid anwes fel cathod, gan arwain at anaf difrifol a hyd yn oed marwolaeth. Roedd tri o bob pedwar digwyddiad yn ymwneud â thrapiau glud y bu'n rhaid i'r RSPCA ymateb iddynt rhwng 2016 a 2021 yn ymwneud â dal rhywogaethau nad oeddent wedi'u targedu, ac a fu farw mewn llawer o achosion, gan gynnwys tylluanod ac adar gwyllt eraill, gwiwerod, draenogod, a chathod anwes - ac yn bwysig, nodwyd bod y trapiau glud yn yr achosion hyn wedi'u gosod gan y cyhoedd/amaturiaid a rheolwyr plâu proffesiynol.

7.877 Nodwyd bod anifeiliaid a oedd wedi eu dal yn y trapiau hyn wedi dioddef anafiadau difrifol a phoenus gan gynnwys coesau wedi'u datgymalu neu eu torri, rhwygiadau croen, a hunan-anafu os yw'r anifail wedi ceisio, er enghraifft, cnoi trwy goes i ddianc. Mae anifeiliaid sydd wedi'u dal yn dioddef o flinder, dadhydradu a newyn yn aml, a gallant foddi yn y glud neu gael eu bwyta gan anifeiliaid eraill.

7.878 O ystyried y pryderon lles difrifol hyn, ni fyddai 'Busnes fel arfer' yn bodloni'r safonau lles anifeiliaid uchel y mae Cymru yn ceisio eu sicrhau, ac ni fyddai'n cyflawni'r amcan polisi sydd wedi'i nodi fel ymrwymiad Gweinidogol cadarn yn y Bil Amaethyddiaeth. Ni fyddai'n dderbyniol chwaith i sefydliadau trydydd sector Cymru sydd wedi galw ers amser am wahardd defnyddio trapiau glud.

### *Opsiwn 2: Gwahardd defnyddio trapiau glud gan aelodau'r cyhoedd ond cyflwyno cynllun trwyddedu a fydd yn derbyn ceisiadau gan reolwyr plâu proffesiynol i gael caniatâd i ddefnyddio trapiau glud mewn rhai achosion ac o dan amodau rheoledig.*

7.879 Mae nifer o ddarpariaethau deddfwriaethol sy'n llywodraethu trapio anifeiliaid gan gynnwys Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Plâu 1954, ynghyd â Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ar ôl i'r anifail gael ei ddal (pan ystyrir ei fod 'dan ofal dyn’). Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw beth i atal unrhyw unigolyn rhag defnyddio trap glud i ddal cnofil. Mae angen deddfwriaeth newydd er mwyn gwahardd defnydd cyffredinol, gydag eithriadau ar gyfer rheolwyr plâu proffesiynol mewn rhai amgylchiadau.

7.880 Ni ystyriwyd system reoledig sy'n hygyrch i bawb, gan gynnwys y cyhoedd, nad yw'n gwahardd unrhyw un (ar yr amod bod ganddo drwydded) (sydd i bob pwrpas yn bedwerydd opsiwn). Mae hyn yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn sy'n dangos bod trapiau glud yn greulon yn gynhenid. Mae'r potensial ar gyfer dioddefaint yn cynyddu yn sylweddol os yw'r trapiau'n cael eu defnyddio gan bobl nad oes ganddynt unrhyw sgiliau na phrofiad o ladd y cnofilod sy'n cael eu dal gan y trapiau hyn mewn ffordd ddyngarol – sy'n arwain at gyflawni troseddau. Nid oedd yr opsiwn hwn yn bodloni'r amcan polisi i atal dioddefaint mamaliaid sy'n cael eu dal gan faglau glud trwy waharddiad.

7.881 Cynhaliwyd ymgynghoriad â rhanddeiliaid ar drapiau glud rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ionawr 2022. Cafwyd ymatebion gan y ddau gorff rheoli plâu mwyaf yn y DU, sef Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain (BPCA) a Chymdeithas Genedlaethol Technegwyr Plâu (NPTA). Mae'r ddau sefydliad yn cefnogi gwahardd y cyhoedd (gan gynnwys rheolwyr plâu amatur) rhag gallu defnyddio trapiau glud. Fodd bynnag, maent yn dymuno gweld eithriad ar gyfer rheolwyr plâu proffesiynol ar sail amddiffyn iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn seiliedig ar ba mor gyflym y mae angen iddynt allu dal y cnofil, neu os yw gwenwyn yn aneffeithiol. Fodd bynnag, mae'r ddau sefydliad yn cydnabod mai dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y mae rheolwyr plâu yn defnyddio trapiau glud at y dibenion hyn[361].

7.882 Yn ystod yr ymgynghoriad, roedd awdurdodau lleol hefyd wedi cyfeirio at yr achosion penodol hyn lle mae rhai rheolwyr plâu yn credu bod angen defnyddio trapiau glud, gan gynnwys sefyllfaoedd fel cartref person bregus gyda symudedd cyfyngedig, neu ysbyty, neu ardal paratoi bwyd mewn bwyty – pob un yn sefyllfaoedd lle mae angen dal y cnofil yn gyflym. Fel arfer, nid yw rheolwyr plâu awdurdodau lleol yn gadael y safle nes bod yr anifail yn cael ei ddal a'i ladd yn gyflym er mwyn lleihau dioddefaint (er nad oedd hynny'n ymrwymiad gan y ddau gorff rheoli plâu yn eu hymatebion - y cwbl a nodwyd ganddynt oedd gofyniad i wirio'r trap dim mwy na 12 awr ar ôl ei osod[362]).

[361]Yn ôl y BPCA, mewn sampl o 404 o aelodau sy'n defnyddio byrddau glud, dyma'r canrannau a oedd yn defnyddio trapiau glud at y dibenion hyn: bob dydd - 6 y cant, bob mis - 30 y cant, bob chwarter - 18 y cant, bob blwyddyn - 16 y cant, llai nag unwaith y flwyddyn - 3 y cant a byth - 3 y cant. Nid oedd gwybodaeth am faint o'r ymatebwyr sy'n gweithredu yng Nghymru wedi'i chynnwys - sy'n ystyriaeth berthnasol o gofio bod problemau gyda chnofilod yn fwy tebygol mewn ardaloedd poblog.

[362]Nid yw'r 12 awr a nodir yn ofyniad cyfreithiol, ond mae'n dod o god ymarfer y diwydiant a ddiweddarwyd yn 2017 gan y Gynghrair Rheoli Plâu (sy'n cynnwys BPCA, NPTA a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd). Mae'r Cod yn cynnwys ystod o safonau gan gynnwys yr angen i wirio trapiau glud o fewn 12 awr i'w gosod, neu o leiaf cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

7.883 Fodd bynnag, mae dulliau amgen digonol ar gael, ac nid oes unrhyw broblemau'n cael eu hadrodd gan wasanaethau rheoli plâu sydd wedi gosod gwaharddiad eu hunain ar ddefnyddio trapiau glud – maent yn gallu dal y cnofil ym mhob sefyllfa. Dylid nodi ei bod yn bosibl y bydd rheolwyr plâu proffesiynol yn dewis pa ddull rheoli i'w ddefnyddio ar sail cymhellion economaidd lle, er enghraifft, byddant yn dewis yr opsiwn lleiaf dwys o ran adnoddau. Mewn gwladwriaethau a gwledydd lle mae trapiau glud wedi'u gwahardd ond eu bod ar gael i reolwyr plâu proffesiynol mewn rhai amgylchiadau, mae ceisiadau am drwyddedau wedi bod yn isel iawn (ac yn gostwng yn gyson yn Seland Newydd, er enghraifft) – sy'n awgrymu y gallai dulliau amgen fod wedi bod yn ddigonol yn yr amgylchiadau hynny.

7.884 Derbyniwyd sylwadau gan chwe awdurdod lleol yng Nghymru i'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid. O'r rhain, ymatebodd dau i ddweud nad ydynt byth yn defnyddio trapiau glud, a nododd dau eu bod ond yn eu defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol o gyfyngedig. Nododd un awdurdod lleol fod y defnydd hwn yn llawer llai nag 1 y cant o'r holl ddigwyddiadau rheoli plâu, ac nid oedd awdurdod lleol arall wedi defnyddio'r trapiau hyn yn y 12 mis blaenorol.

7.885 Ymatebodd dau awdurdod lleol i ddweud nad ydynt byth yn defnyddio trapiau glud ar gyfer anifeiliaid asgwrn cefn gan eu bod yn cael eu hystyried yn greulon, felly mae dulliau amgen o reoli plâu yn cael eu hystyried yn well. Nid oedd un awdurdod lleol mewn dinas sy'n defnyddio trapiau glud o bryd i'w gilydd yn credu y byddai gwaharddiad yn arwain at unrhyw effeithiau mawr, ac roedd yn cefnogi'r cynnig. I'r perwyl hwn, ni chredir y bydd y gwaharddiad ar drapiau glud yn cael effaith negyddol ar awdurdodau lleol yng Nghymru.

7.886 Er mwyn cyflwyno system drwyddedu ar gyfer defnyddio trapiau glud mewn rhai amgylchiadau gan reolwyr plâu proffesiynol yng Nghymru, byddai angen i gorff neu asiantaeth briodol allu gweinyddu'r cynllun a monitro cydymffurfiaeth, gan godi ffioedd ar raddfa adennill costau. Credir bod nifer ac amlder y digwyddiadau lle mae trapiau glud yn cael eu defnyddio yn isel iawn yng Nghymru - fel y nodir yn yr ymgynghoriad - felly ni fyddai hyn yn gymesur â chostau gweithredu system drwyddedu a monitro cydymffurfiaeth.

7.887 Hefyd, mae'n bwysig nodi nad oes Cod Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) ar gyfer rheolwyr plâu ac nid oes angen unrhyw gymwysterau na thrwydded i wneud gwaith o'r fath. Felly, byddai penderfynu ar gais dilys am drwydded i ddefnyddio trap

glud yn achosi problemau mawr[363], gan ei gwneud yn anodd iawn diffinio pwy sydd wedi'i eithrio yn y rheoliadau.

7.888 Nid oes amheuaeth bod angen gweithgareddau rheoli plâu, yn enwedig mewn ardaloedd poblog. Fodd bynnag, mae yna ddigon o ddewisiadau amgen ar gael i drapiau glud sy'n llai creulon o lawer, yn rhad, yn hawdd cael gafael arnynt, ac yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys trapiau sbring sydd â'r fantais ychwanegol o fod yn drapiau y gellir eu defnyddio dro ar ôl tro (yn wahanol i drapiau glud) sy’n helpu'r amgylchedd ac yn lleihau costau. Hefyd, mae digon o gyngor ar gael ar atal cnofilod mewn amgylcheddau domestig a masnachol.

7.889 Bydd Deddf Trapiau Glud (Troseddau) 2022 yn gwahardd y cyhoedd rhag defnyddio trapiau glud yn Lloegr, ond yn caniatáu i reolwyr plâu trwyddedig wneud hynny. Mae hyn wedi ennyn beirniadaeth clymblaid o sefydliadau lles[364] a oedd wedi lobïo am waharddiad llawn er mwyn gwella lles anifeiliaid sy'n cael eu hystyried yn bla yn ystod gweithrediadau i'w gwaredu. Hefyd, bydd angen i Defra archwilio sut i drwyddedu rheolwyr plâu er mwyn gwneud rheoliadau yn hyfyw. Mewn cyferbyniad, mae Llywodraeth yr Alban yn ceisio cyflwyno gwaharddiad llawn yn Yr Alban.

7.890 Roedd yr opsiwn hwn yn bodloni'r bwriad polisi yn rhannol gan na fyddai aelodau'r cyhoedd yn cael defnyddio trapiau glud. Fodd bynnag, pe bai rheolwyr plâu proffesiynol yn cael parhau i ddefnyddio trapiau glud, hyd yn oed mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn, ni fyddai'r canlyniad yn cyflawni'r amcan polisi a nodwyd, sef cynnal safonau uchel o les anifeiliaid yng Nghymru. Os yw aelodau'r cyhoedd yn gweld bod rheolwyr plâu yn gallu defnyddio trapiau glud, mae yna bryder y gallent gamddehongli hyn fel sêl bendith i'r dulliau hyn, gan ddod i'r casgliad (anghywir) ei bod yn bosibl diogelu lles anifeiliaid trwy ddefnyddio'r trapiau hyn.

7.891 Hefyd, byddai'r broses o sefydlu a chyflwyno unrhyw system reoleiddio yn arwain at gost uniongyrchol a fyddai'n anghymesur â'r nifer fach o reolwyr plâu sy'n bodoli – fel y dangoswyd gan yr arolwg o awdurdodau lleol Cymru – a fyddai’n gwneud cais am drwydded yn ôl pob tebyg. Hyd yn oed yn nwylo medrus rheolwyr plâu proffesiynol,

[363] Lle mae yna systemau trwyddedu eraill ar gyfer defnyddio trapiau glud, megis y system a oedd ar waith tan yn ddiweddar yng Ngwladwriaeth Fictoria yn Awstralia (mae gwaharddiad llawn wedi’i gyflwyno bellach), dylid nodi ei bod yn ofynnol i reolwyr plâu proffesiynol gael trwydded weithredu ac maent yn cael eu rheoleiddio gan lywodraeth y wladwriaeth. Nid yw Lloegr wedi rhyddhau unrhyw fanylion eto ynglŷn â sut y bydd rheolwyr plâu yn cael eu diffinio yn y ddeddfwriaeth i wahardd trapiau glud yn Lloegr – ni fydd yn dod i rym tan y gwanwyn yn 2024.

[364] BVA welcomes Bill to ban public use of inhumane rodent glue traps

ni ellir ystyried bod byrddau glud yn ddigon trugarog. Mae dulliau digonol, effeithlon a llai creulon o reoli 'plâu' ar gael ac ar waith yn rheolaidd yng Nghymru.

### *Opsiwn 3: Gwahardd defnyddio trapiau glud ym mhob sefyllfa.*

7.892 Ymatebodd amrywiaeth o sefydliadau lles anifeiliaid y trydydd sector, a Chymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA) a Chymdeithas Swolegol Milfeddygol Prydain (BVZS) i'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid, ac roedd pob un blaid gwaharddiad llawn. Darparwyd amrywiaeth o dystiolaeth a phapurau academaidd i gefnogi'r ddadl ac asesu effeithiolrwydd dewisiadau amgen ac i ba raddau y maent yn llai creulon. Hefyd, nododd y BVA/BVZS fod dull trapio tebyg ar gyfer adar (glud adar) eisoes yn anghyfreithlon. Er bod y ddau gorff rheoli plâu a ymatebodd yn ffafrio deddfwriaeth sy'n caniatáu i'w haelodau gael eu heithrio, fe wnaethant gydnabod hefyd fod trapiau glud yn greulon yn nwylo pobl nad ydynt yn weithwyr proffesiynol, a'u bod yn gallu dal rhywogaethau nad ydynt wedi'u targedu.

7.893 Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r farn bod trapiau glud yn greulon[365,366], a'u bod yn gallu achosi dioddefaint meddyliol a chorfforol hir i'r anifail sy'n cael ei ddal. Mae astudiaethau achos o anifeiliaid anwes ac anifeiliaid gwyllt sydd wedi cael eu dal mewn trapiau glud wedi denu'r sylw cyhoeddus mwyaf. Fodd bynnag, mae'r potensial i ddioddef yn berthnasol i bob bod ymdeimladol, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hystyried yn 'blâu'. Rhaid cofio bod gwasanaethau rheoli plâu proffesiynol sy'n defnyddio trapiau glud, megis y rhai sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol yng Nghymru, yn cael eu defnyddio ar gyfer nifer hynod gyfyngedig o achosion yn unig, sydd ynddo ei hun yn cydnabod potensial yr anifail dan sylw i ddioddef.

7.894 Ar ôl nodi yn wreiddiol y gallai rheoliadau gael eu cyflwyno i gyfyngu ar y defnydd o drapiau glud i reolwyr plâu proffesiynol yn unig, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei bwriad i ddeddfu ar gyfer gwaharddiad llawn ym mis Ionawr 2022. Roedd hyn yn

---

[365]Baker, S.E., Ayers, M., Beausoleil, N.J., Belmain, S.R., Berdoy, M., Buckle, A.P., Cagienard, C., Cowan, D., Fearn-Daglish, J., Goddard, P., Golledge, H.D.R., Mullineaux, E., Miniog, T., Simmons, A. a Schmolz, E. (2022) An assessment of animal welfare impacts in wild Norway rat (Rattus norvegicus) management. Animal Welfare 2022, (31) tt 51-68.
[366]Scottish Animal Welfare Commission: report on the use of rodent glue traps in Scotland [www.gov.scot/publications/scottish-animal-welfare-commission-report-use-rodent-glue-traps-scotland/documents](www.gov.scot/publications/scottish-animal-welfare-commission-report-use-rodent-glue-traps-scotland/documents)

dilyn deiseb â thros 5,000 o lofnodion arni yn yr Alban yn galw am wahardd defnyddio a gwerthu trapiau glud.

7.895 Heb os, rhaid ymdrin â chnofilod sydd wedi meddiannu mannau pobl gan eu bod yn gallu trosglwyddo nifer o glefydau. Fodd bynnag, gall y risg hon, mewn gwirionedd, gynyddu trwy ddefnyddio trapiau glud pan mae cnofilod sy'n cael eu dal ynddynt yn aros yn fyw, yn aml am gyfnodau hir, gan barhau i gynhyrchu wrin ac ysgarthion, sy'n gallu peri risg uniongyrchol i iechyd pobl. Nid yw trapiau glud yn cynnig ateb parhaol i'r sefyllfaoedd hyn, a gallent arwain at y boblogaeth leol o gnofilod yn bridio ac yn cynyddu ar raddfa gyflymach. Rhaid mynd i'r afael â ffynonellau bwyd a phwyntiau mynediad er mwyn atal problemau pellach.

7.896 Mae cefnogaeth gyhoeddus glir i wahardd trapiau glud. Roedd deiseb ddiweddar gan Change.org wedi sicrhau dros 75,000 o lofnodion, a chyflwynwyd deiseb arall yn y Senedd yn 2021, ond bu'n rhaid ei gwrthod ar sail weithdrefnol gan ei bod wedi'i chyflwyno ar ôl cyhoeddiad y Gweinidog ar gyflwyno deddfwriaeth i wahardd trapiau glud. Dangosodd arolwg barn YouGov (y cyfeiriwyd ato yn gynharach) fod 68 y cant o'r ymatebwyr o blaid gwaharddiad ar drapiau glud a dim ond 9 y cant sy'n ei wrthwynebu.

7.897 Mae'r gwaharddiad ar drapiau glud yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn ceisio ei gwneud yn drosedd i ddefnyddio trapiau glud mewn perthynas ag anifeiliaid asgwrn cefn. Ni fydd y Bil yn atal unrhyw un rhag rheoli plâu mewn modd cyfrifol a heb fod yn greulon, ac mae digon o ddewisiadau amgen a mesurau atal yn bodoli ar eu cyfer.

7.898 Bydd gwahardd trapiau glud fel modd o ddal cnofilod yn cyfleu pa mor aneffeithiol a chreulon ydynt, ac yn helpu i newid agweddau tuag at y creaduriaid ymdeimladol hyn gan gynnwys sut i ddelio â chnofilod neu eu hatal yn y lle cyntaf. Bydd gwahardd defnyddio trapiau glud (heb eithriad) yn adlewyrchiad gwell o gymdeithas sy'n ystyried bod dull rheoli plâu o'r fath yn annerbyniol. Dyma'r opsiwn sy'n cyflawni'r amcan polisi orau ac sy'n cynnal safonau uchel o les anifeiliaid yng Nghymru.

## Maglau

## Costau a Manteision

### *Opsiwn 1: Busnes fel arfer – caniatáu i'r defnydd o faglau barhau ar gyfer llwynogod a rhywogaethau 'pla' eraill.*

7.899 Dyma'r opsiwn sylfaenol, felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddai effaith dioddefaint sylweddol ar anifeiliaid yn parhau, sy'n anghydnaws ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau safonau uwch o les anifeiliaid.

### *Opsiwn 2: Cyflwyno cynllun trwyddedu neu gofrestru sy'n caniatáu defnyddio maglau, yn destun amodau penodol, gan y rhai sy'n gymwys am drwydded.*

7.900 Byddai sefydlu system drwyddedu a system monitro a gorfodi dilynol yn creu costau sylweddol na fyddai modd eu talu trwy adennill costau drwy godi tâl yn unig. Nid yw costau'r system drwyddedu yn yr Alban yn hysbys, ac mae'n debygol na fyddent yn darparu cymhariaeth ddefnyddiol o ystyried nad yw plismona yn faes sydd wedi'i ddatganoli yng Nghymru fel yn yr Alban (mae'r heddlu yn elfen hanfodol o'r system reoleiddio ar gyfer maglau yn yr Alban).

7.901 Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu sawl trefn drwyddedu ar ran Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw un ohonynt yn cynnig cymhariaeth uniongyrchol at ddibenion y Dadansoddiad Cost a Budd hwn - mae'r broses yn cael ei llesteirio ymhellach gan y diffyg gwybodaeth sydd ar gael am ddefnyddio maglau (gan gynnwys nifer y defnyddwyr a nifer y maglau) yng Nghymru. O ganlyniad, byddai angen sefydlu trefn reoleiddio newydd, a byddai angen adnoddau ychwanegol ar Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gallu gwneud y canlynol: datblygu'r system drwyddedu; asesu ceisiadau; cyhoeddi trwyddedau; a rheoleiddio gweithgareddau deiliaid trwyddedau.

7.902 Nid yw'r opsiwn hwn wedi'i gostio oherwydd i wneud hynny byddai angen buddsoddiad ychwanegol yn y sylfaen dystiolaeth er mwyn deall graddfa debygol y trwyddedau sydd eu hangen a'r cwmpas i ddarparu amddiffyniad a gorfodi priodol. Felly, er gwaethaf ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, nid oedd modd creu amcangyfrif ystyrlon o'r gost i sefydlu system drwyddedu yng Nghymru, felly nid yw'r gost yn hysbys. Heb wasanaeth heddlu wedi'i ddatganoli yng Nghymru, byddai angen creu a chynnal hyfforddiant (ar gyfer defnyddwyr maglau ac arolygwyr) a

gwasanaethau arolygu/gorfodi hefyd. Mae'n annhebygol y gellid talu holl gostau o'r fath trwy incwm system drwyddedu.

7.903 Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei darparu i ddangos bod y cod ymarfer gwirfoddol, sydd wedi bod ar waith ers dros 6 blynedd bellach, wedi gwella amodau lles anifeiliaid sydd wedi'u targedu ac anifeiliaid nad ydynt wedi'u targedu sy'n cael eu dal gan faglau. Mae defnyddwyr maglau sy'n argymell system drwyddedu wedi seilio'r gofynion ar y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Ymarfer. Fodd bynnag, ni ddangoswyd bod y Cod yn cael ei ddilyn, ac nid oes tystiolaeth y byddai gofyniad i gydymffurfio ag amodau trwyddedu yn gwella hyn.

7.904 Yn ôl ymgyrchwyr yn erbyn maglau, nid yw'r system reoleiddio yn yr Alban sy'n gosod rhwymedigaethau ar ddefnyddwyr ac ar y broses o osod maglau wedi gwella safonau lles anifeiliaid yn ddigonol. Yn aml, nodir nad yw maglau yn cydymffurfio â'r gofynion neu nad ydynt yn cael eu harchwilio bob 24 awr yn unol â'r gyfraith[367].Codwyd pryderon eraill yn ymwneud â heriau gorfodi: y ffaith bod rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu yn cael eu dal o hyd; problemau yn ymwneud ag arferion hyfforddi. Comisiynwyd Scottish Natural Heritage gan Lywodraeth yr Alban i gynnal adolygiad o ddeddfwriaeth faglu yn 2017[368], a nododd fod digwyddiadau yn ymwneud â maglu wedi lleihau. Fodd bynnag, nid oedd y cylch y gwaith yn ystyried a yw maglau yn sylfaenol greulon, ac a yw'r defnydd parhaus ohonynt yn gydnaws â safonau lles uchel mewn unrhyw amgylchiadau.

7.905 O ystyried bod anifeiliaid yn treulio rhywfaint o amser wedi'u dal mewn magl cyn eu bod yn cael eu darganfod, mae pryder y bydd anifeiliaid yn dioddef o leiaf rhywfaint o ofid yn ystod y cyfnod hwn. Hefyd, os nad yw'r fagl yn cydymffurfio â'r cod neu os nad yw'n gweithio'n iawn, gall yr anifail gael ei anafu a bod mewn cryn boen am y cyfnod hwn. Yn ogystal â'r ffaith nad yw maglau yn eu hanfod yn gallu gwahaniaeth rhwng anifeiliaid a'u bod yn aml yn dal rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu, mae'n amlwg na fyddai system drwyddedu yn gwneud llawer i leddfu'r pryderon lles anifeiliaid sylweddol hyn yn ymwneud â maglau.

7.906 Nid yw'r opsiwn polisi hwn yn mynd i'r afael yn briodol ag amcanion lles anifeiliaid Gweinidogion, grwpiau buddiant lles anifeiliaid a'r cyhoedd, ac o'r herwydd nid yw'n cael ei ystyried ymhellach.

---

367 Cruel-Indisriminate-OneKind-and-LACS-report-on-snaring.pdf

368 Adolygiad o faglu ar gyfer Llywodraeth yr Alban, wedi'i baratoi gan Scottish Natural Heritage - gov.scot (www.gov.scot)

7.907 Un o fanteision yr opsiwn hwn fyddai galluogi defnyddwyr trwyddedig i barhau i ddefnyddio maglau ond, fel y nodwyd uchod, nid yw'n dileu'r risg y bydd rhywogaethau targed a'r rhai nad ydynt yn cael eu targedu yn dioddef anaf a gofid os ydynt yn cael eu dal mewn magl.

### *Opsiwn 3: Gwahardd defnyddio maglau ym mhob sefyllfa.*

7.908 Mae maglau'n cael eu defnyddio'n bennaf gan reolwyr tir, ciperiaid a ffermwyr er mwyn dal llwynogod a lleihau achosion o ladd ŵyn ac adar hela a fagwyd at ddibenion saethu. Mae'r dyfeisiau'n cael eu hystyried yn adnodd rheoli 'plâu' hanfodol gan y rhai sy'n eu defnyddio. Un rheswm am hyn yw'r ffaith nad ydynt yn llafur-ddwys. Mae eu heffeithlonrwydd yn seiliedig ar fygythiad uniongyrchol i les anifeiliaid trwy system nad yw'n defnyddio llawer o adnoddau, gan fod un person yn gallu gosod dwsinau, os nad cannoedd, o faglau mewn un ardal, a'u gadael yno nes dychwelyd yn hwyrach - mae hyd at 24 awr yn gyfreithlon - i wirio a yw anifail wedi'i ddal.

7.909 Hefyd, mae'r amodau hyn yn disgrifio sefyllfa lle mae rhywun *yn* cydymffurfio â'r gyfraith a'r cod ymarfer - ond efallai ei bod yn anodd canfod a yw magl yn cael ei gwirio bob 24 awr. Hefyd, mae maglau anghyfreithlon yn cael eu defnyddio, fel y rhai sy'n cloi yn awtomatig, neu arferion gwael pan fydd maglau yn cael eu gosod er ei bod yn hysbys bod rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu yn byw yn yr ardal - fel moch daear, dyfrgwn, ceirw, etc.

7.910 Mae grwpiau lles anifeiliaid a chyfrannau helaeth o'r cyhoedd yn credu bod maglau yn greulon yn eu hanfod – i rai gallai'r safbwynt hwn ymestyn i ddulliau rheoli 'plâu' o bob math. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r gwaharddiad ar faglau yn atal gwaith rheoli plâu. Yn wir, ystyrir bod mathau eraill o reoli plâu yn fwy effeithlon ac yn llai creulon – a'r dull a ffefrir yw saethu yn y nos gyda chymorth delweddu thermol, neu lamp. Mae hyn yn dileu'r posibilrwydd o ladd rhywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu, ac achosi dioddefaint i unrhyw anifail sy'n aros i gael ei ganfod mewn magl.

7.911 Penderfynwyd mai dim ond gwaharddiad ar ddefnyddio maglau fydd yn cynorthwyo camau gorfodi ac yn darparu eglurder ar ddulliau derbyniol o reoli plâu. Dim ond y cam hwn a fydd yn cyflawni'r amcan polisi o godi safonau lles anifeiliaid yng Nghymru.

## *Effaith ar reolwyr tir, ciperiaid a ffermwyr*

7.912 Defnyddir maglau yn bennaf fel modd o reoli llwynogod er mwyn amddiffyn adar hela sydd wedi'u magu i'w saethu ac - i raddau llawer llai - ŵyn. Yn ôl astudiaeth a gomisiynwyd gan Defra[369] yn 2012 yn ymwneud â defnydd maglau ac i ba raddau y maent yn greulon, roedd 6 y cant o ddaliadau tir yn defnyddio maglau, ac er bod nifer cyfartal o ffermwyr a chiperiaid yn eu defnyddio, roedd ciperiaid yn gosod mwy o lawer ohonynt. Trwy ddull allosod, roedd yr adroddiad yn amcangyfrif bod rhwng 17,200 a 51,600 o faglau yn cael eu defnyddio yng Nghymru ar unrhyw adeg ar gyfer llwynogod. Hefyd, mae'n bwysig nodi mai'r rheswm a roddwyd gan gyfranogwyr yr astudiaeth nad ydynt yn defnyddio maglau oedd y ffaith nad oeddent yn angenrheidiol, neu eu bod yn defnyddio dulliau rheoli eraill.

7.913 Hefyd, nododd astudiaeth Defra fod 84 y cant o ddefnyddwyr maglau wedi dweud eu bod wedi ceisio osgoi dal rhywogaethau nad oeddent wedi'u targedu, ond bod 60 y cant wedi dal rhywogaethau nad oeddent wedi'u targedu ar ryw adeg neu'i gilydd. Mae rhywogaethau nad oeddent wedi'u targedu yn cynnwys ysgyfarnogod, ceirw, dyfrgwn, a chŵn anwes a chathod domestig (roedd 5 o'r 17 o ddefnyddwyr maglau cwningod yn yr astudiaeth wedi dal cath o leiaf unwaith).

7.914 Nododd astudiaeth Defra mai'r mochyn daear oedd yr anifail nad oedd wedi'i dargedu a ddalwyd amlaf, gyda 25 y cant o ymatebwyr yn nodi bod y rhywogaeth hon wedi'i dal yn eu maglau. O ystyried bod 13 y cant o'r ymatebwyr wedi cyfaddef iddynt osod maglau gyda'r bwriad o ladd yn hytrach na ffrwyno, mae yna le i bryderu nid yn unig bod rhywogaethau targed yn cael eu dal yn gymharol aml, ond bod nifer sylweddol yn cael eu lladd yn fwriadol yn y broses.

7.915 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi trafod y cynnig i wahardd maglau gydag arbenigwyr Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill sy'n defnyddio'r dewis amgen, llai creulon, o saethu llwynogod. Mae'r gwasanaethau saethu hyn ar gael ledled Cymru ac yn aml yn cael eu darparu'n ddi-dâl.

7.916 Nid yw cost colledion ŵyn ac adar hela wedi cael ei harchwilio'n llawn gan nad yw'r gwaharddiad ar faglau yn atal rheoli llwynogod, ac oherwydd bod y dull amgen,

---

[369] Defra, UK - Science Search
http://randd.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=None&Completed=0&ProjectID=14689

saethu, yn cael ei ystyried yn fwy effeithlon. Fodd bynnag, yn ôl adroddiad Hybu Cig Cymru[370] yn 2011, roedd colledion ŵyn a briodolwyd i ysglyfaethu *ynghyd ag* amodau tywydd yn gyfrifol am 4 - 6 y cant o'r holl golledion ŵyn – roedd pob achos arall, er enghraifft, afiechyd (9-10 y cant), mam wael (8-13 y cant) a marw-enedigaeth (24-26 y cant) wedi cael effaith llawer mwy. Mae'n hysbys bod llwynogod yn un o brif ysglyfaethwyr adar hela sy'n cael eu magu i'w saethu, ac efallai fod hyn wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o bosibl oherwydd y gostyngiad yn niferoedd cwningod[371] a'r cynnydd mewn adar hela anfrodorol sy'n cael eu rhyddhau bob blwyddyn[372] sydd, mae'n debyg, wedi gwella'r cyflenwad bwyd ar gyfer llwynogod.

7.917 Mae gwaith ymchwil wedi canfod bod llawer o'r ysglyfaethu yn digwydd ger corlannau rhyddhau, a'i fod yn lleihau ar ôl i'r adar wasgaru. Cyfrifoldeb y ciper yw diwallu anghenion yr adar dan ei ofal, sy'n cynnwys creu corlannau rhyddhau sy'n eu gwarchod rhag ysglyfaethwyr, a'r ardal gyfagos lle mae adar ifanc yn archwilio nes eu bod yn gallu hedfan a chlwydo. Mae hyn yn gwella lles yr adar hela ac yn lleihau faint o fwyd sydd ar gael i ysglyfaethwyr (gan gynnwys adar ysglyfaethus).

7.918 Disgwylir y bydd defnyddwyr presennol maglau yn wynebu rhywfaint o amharu ar eu busnes wrth iddynt gaffael neu ddod yn gyfarwydd â dewisiadau amgen. Fodd bynnag, mae'r cyhoeddiad i wahardd maglau eisoes wedi'i wneud, gan roi digon o gyfle i giperiaid a ffermwyr newid i ddulliau rheoli llwynogod nad ydynt yn greulon gan gynnwys dulliau sy'n atal ysglyfaethwyr - rhywbeth a ddylai fod yn rhan o ddulliau hwsmonaeth da yn barod. Felly, £sero yw'r amcangyfrif gorau o'r effaith ar reolwyr tir, ciperiaid a ffermwyr.

## *Effaith ar fusnesau*

7.919 Mae maglau yn eitemau rhad iawn, ac mae prisiau'n amrywio o gyn lleied â £1.80 yr un i hyd at £3 yr un ar gyfer maglau sy'n cydymffurfio â'r cod. Maent ar gael o

[370] https://meatpromotion.wales/images/resources/Gwneud_i_Bob_Oen_Cyfri.pdfLlwyddodd Hybu Cig Cymru i sicrhau cyllid o Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 - 2013, a defnyddiwyd cyfran ohono ar gyfer rhaglen i fonitro colledion ŵyn a chanfod y prif achosion - roedd data o 70 o ffermydd o bob rhan o Gymru wedi darparu'r wybodaeth sylfaenol.
[371] www.bto.org/sites/default/files/publications/bbs-report-2019.pdf
[372] www.rspb.org.uk/globalassets/downloads/documents/birds-and-wildlife/gamebird-shooting-review/mason-et-al-2020-rspb-gamebird-review.pdf

amrywiaeth o fanwerthwyr. Mae pobl yn gallu gwneud eu maglau eu hunain hefyd, ond nid oes unrhyw ddata ar gael ar y rhaniad rhwng y ddau nac ar werthiant blynyddol yng Nghymru, a rhaid nodi bod modd eu hailddefnyddio hefyd. Heb os, bydd manwerthwyr a dosbarthwyr yn gweld y farchnad yng Nghymru yn cau iddynt yn dilyn y gwaharddiad, ond bydd y marchnadoedd mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt, am y tro o leiaf, yn parhau ar agor, felly gall yr effaith fod yn gymharol isel. Nid yw manwerthwyr yn arbenigo yn y cynnyrch hwn yn unig, yn bennaf oherwydd ei fod yn eitem gwerth isel. O’r herwydd, ni ragwelir y bydd y gwaharddiad yn arwain at unrhyw effaith fasnachol arwyddocaol yng Nghymru.

7.920 O safbwynt busnesau sy'n defnyddio maglau ar hyn o bryd, byddai'r arfer hwn yn dod i ben. Fodd bynnag, nid yw dewisiadau amgen yn fwy costus o reidrwydd, fel sydd wedi'i drafod mewn perthynas â saethu. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol chwaith o unrhyw adroddiadau bod rheolwyr tir a ffermwyr nad ydynt yn defnyddio maglau yn wynebu anfantais economaidd.

7.921 Mae rhanddeiliaid sy'n defnyddio maglau wedi bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o waharddiad ers nifer o flynyddoedd. Roedd y trafodaethau ar gydymffurfio â'r cod ymarfer yn seiliedig ar y cyd-destun na allai unrhyw welliannau i les anifeiliaid arwain at opsiynau rheoleiddio pellach, gan gynnwys gwaharddiad. Bu maglau'n destun llawer o waith craffu yn y Senedd, trwy Gwestiynau Aelodau, deisebau, ac fel rhan o waith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, a oedd yn argymell drafftio deddfwriaeth os nad oedd pobl yn cydymffurfio â'r cod ac nad oedd y cod yn llwyddo.

7.922 Ers hynny, mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi'r bwriad i gynnwys gwaharddiad ar faglau yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru). Mae'n annhebygol y bydd y gwaharddiad hwn yn dod i rym tan hydref 2023. Dylai'r cyfnod ychwanegol hwn gynyddu'r tebygolrwydd o gydymffurfio â'r gyfraith gan y bydd yn caniatáu i ddefnyddwyr presennol ddefnyddio stociau presennol (cost y stocrestr), a newid i ddulliau rheoli cyfreithlon a llai creulon eraill.

### *Effaith ar gyrff statudol*

7.923 Mae gan awdurdodau lleol a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion y pwerau i ymchwilio i droseddau creulondeb i anifeiliaid a'u herlyn, ond y gwir amdani yw bod adnoddau'n cyfyngu ar ei gallu i wneud hyn. Wrth ymweld â ffermydd[373], gall yr Asiantaeth ddod yn ymwybodol o'r defnydd anghyfreithlon o faglau (ar ôl cyflwyno'r gwaharddiad); fodd bynnag, ni chredir y bydd hyn yn debygol yn gyffredinol, ac felly ystyrir mai £sero yw cost y gwaharddiad ar faglau i Awdurdodau Lleol neu'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

### *Effaith ar unigolion*

7.924 Mae nifer fach o anifeiliaid nad ydynt yn cael eu targedu sy'n cael eu dal mewn maglau yn anifeiliaid anwes - cathod a chŵn yn benodol. Yn aml, mae perchnogion yr anifeiliaid hyn yn wynebu costau milfeddygol sylweddol a chyfnod hir o adsefydlu ar gyfer eu hanifail anwes. Nid oes modd casglu data yn ymwneud â'r costau hyn, ac felly nid ydynt yn hysbys ar hyn o bryd. Serch hynny, byddai'r gwaharddiad ar faglau yn arbed arian i unigolion gan na fyddai eu hanifeiliaid yn cael eu hanafu yn y dyfodol.

### *Effaith ar sefydliadau'r trydydd sector*

7.925 Mae sawl sefydliad lles anifeiliaid yn monitro ac yn ymchwilio i'r defnydd o faglau gan ffermwyr a chiperiaid yng Nghymru. Gall rhai o'r sefydliadau hyn fod yn rhan o'r gwaith o achub ac adsefydlu anifeiliaid ag anafiadau sydd wedi'u dal mewn maglau – gan gynnwys rhywogaethau targed, yn ogystal â moch daear neu gŵn a chathod. Ar ôl gwahardd maglau, rhagwelir y bydd llai o achosion o ddal anifeiliaid gwyllt ac anwes sydd angen gofal wedyn.

[373]Nid yw Awdurdodau Lleol na'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn ymweld â safleoedd magu adar hela am resymau lles anifeiliaid yn rheolaidd ar hyn o bryd gan nad oes angen i'r busnesau hyn gael trwydded i fagu neu ryddhau adar hela. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid, gan gyflwyno system gofrestru ar gyfer saethu, er nad oes manylion ar gael eto i benderfynu a fydd hyn yn cynnwys awdurdodau lleol. Er bod Awdurdodau Lleol a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn ymweld â ffermydd, mae'r ymweliadau hyn yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid bron yn ddieithriad, a byddent yn annhebygol o ddarganfod unrhyw ddefnydd anghyfreithlon o faglau fel rhan o'r gwaith hwn.

7.926 Byddai hyn yn arwain at lai o gostau i sefydliadau lles mewn perthynas â ffioedd milfeddygol a chyfnodau adsefydlu hir mewn canolfannau achub anifeiliaid. Ar hyn o bryd[374], gall o leiaf un sefydliad, y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid (RSPCA), erlyn unigolion (neu sefydliadau corfforaethol) sy'n cael eu hamau o ddefnyddio maglau yn anghyfreithlon (er enghraifft, rhywogaeth nad yw’n cael ei thargedu, neu drwy beidio â gwirio maglau mor aml ag sy’n ofynnol), felly gallai nifer yr achosion ostwng os yw’r gwaharddiad yn gweithredu fel rhwystr yn unol â'r bwriad. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â diben elusennol y sefydliad a nodir ar hyn o bryd. Ni nododd unrhyw sefydliad lles anifeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad unrhyw effeithiau negyddol, ac roeddent yn croesawu'r cynnig i wahardd maglau oherwydd effaith gadarnhaol y gwaharddiad ar safonau lles anifeiliaid.

### *Effaith ar Heddluoedd*

7.927 Bwriedir i swyddogion troseddau bywyd gwyllt y pedwar llu heddlu yng Nghymru barhau i fod yn bennaf gyfrifol am erlyn troseddau sy'n gysylltiedig â maglau, er dim ond cyfran fach o’u gwaith yw’r achosion hyn. Ar hyn o bryd, maent ymchwilio i droseddau yn ymwneud â defnyddio maglau yn anghyfreithlon (y math o fagl ac ati). Fodd bynnag, mae'n anodd iawn profi'r troseddau hyn. Felly, mae disgwyl i'r gwaharddiad ar bob magl fynd i'r afael â'r heriau hyn, egluro'r gyfraith, a galluogi mesurau gorfodi. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y mwyafrif llethol o ddefnyddwyr maglau yn newid i ddulliau amgen o reoli plâu ac y bydd y ddeddfwriaeth yn gweithredu fel rhwystr gan osgoi gwaith ychwanegol i'r heddlu. Am y rheswm hwn, yr amcangyfrif gorau o'r costau yw £sero.

### *Effaith ar y System Gyfiawnder*

7.928 Bydd y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn creu troseddau newydd. Bydd person sy'n defnyddio magl i ddal anifail gwyllt yn cyflawni trosedd. Bydd person sy'n euog o drosedd, o gael collfarn ddiannod, yn gallu cael dedfryd o garchar am gyfnod nad

[374] Er deallir bod y sefydliad wedi cyhoeddi ei fwriad i roi'r gorau i erlyn.

yw'n hirach na 6 mis neu ddirwy ddiderfyn - sy'n cyd-fynd â'r hyn a nodir yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

7.929 Ystyriwyd yr effeithiau a ragwelir ar y system cyfiawnder troseddol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhagweld na fyddai fawr ddim effaith ar y system gyfiawnder. Felly'r amcangyfrif gorau o'r effaith ar y System Gyfiawnder yw £sero.

### *Effaith ar Lywodraeth Cymru*

7.930 Bydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gostau hysbysu am y gwaharddiad ar ddefnyddio maglau. Ar gyfer defnyddwyr yn y diwydiant, rhagwelir y bydd hyn ar ffurf llythyrau at gynrychiolwyr o'r diwydiant a rheolwyr tir, a'r undebau amaeth. Oherwydd nifer y manwerthwyr sy'n cyflenwi maglau i ddefnyddwyr yng Nghymru a thu hwnt, disgwylir y bydd cyhoeddusrwydd yn ymwneud â phasio'r Bil yn cyrraedd llawer o fusnesau, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Byddai post uniongyrchol, cyhoeddi Hysbysiadau i'r Wasg a defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru am gyfnod sy'n cyfateb i oddeutu wythnos o amser Swyddog Gweithredol yn costio £750. Disgwylir i’r gost hon gael ei hysgwyddo yn 2023-24.

7.931 Ni ragwelir y bydd unrhyw gostau gweithredu eraill i Lywodraeth Cymru gan na fydd angen canllawiau pellach ar ôl cyflwyno'r gwaharddiad.

## Manteision

7.932 Mae digon o dystiolaeth i ddangos bod maglau yn greulon ac yn achosi lefel annerbyniol o ddioddefaint[375,376] ac yn dal rhywogaethau nad ydynt wedi'u targedu waeth beth yw'r math o fagl[377]. Mae dulliau amgen o reoli plâu, sy'n cynnig amodau lles anifeiliaid gwell, ar gael yn hawdd ac eisoes yn cael eu defnyddio gan lawer o

[375] Munro, R. a Munro, H.M.C. (2008) ‘Traps and Snares’ *in Animal Abuse and Unlawful Killing Forensic Veterinary Pathology*. Caeredin, Elsevier Saunders

[376] Rochlitz, I., Pearce, G.P. a Broom, D.M. (2010) The Impact of Snares on Animal Welfare. OneKind Report on Snaring, Centre for Animal Welfare and Anthrozoology, Department of Veterinary Medicine, Cambridge University Animal Welfare Information Service.

[377] Short, M. J., Weldon, A. W., Richardson, S. M., a Reynolds, J. C. (2012). Selectivity and injury risk in an improved neck snare for live-capture of foxes. *Wildlife Society Bulletin*, 36(2), 208-219.

reolwyr tir a ffermwyr. Heb os, mae gwaharddiad yn cael effaith ar y rhai sy'n defnyddio maglau ar hyn o bryd, a rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r ffaith hon. Fodd bynnag, mae Gweinidogion, a'r mwyafrif o ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus, yn credu bod cyfiawnhad cadarn ar sail lles anifeiliaid dros fwrw ymlaen â'r gwaharddiad.

7.933 Mae'n amlwg bod safonau gwell mewn lles anifeiliaid o fudd i'r gymdeithas ehangach[378]. Mae'n cyfrannu at les ac at falchder yn enw da Cymru fel cenedl sy'n parchu ac yn diogelu anifeiliaid. Hefyd, mae'r gwaharddiad yn cynnig cyfle i drafod rheoli llwynogod (a chwningod) mewn cyd-destun ehangach er mwyn herio cysyniadau o'r hyn sy'n gyfystyr â 'phla' a sut y gall termau o'r fath gyfrannu at ddelwedd negyddol o anifeiliaid penodol. Mae pob anifail yn ymdeimladol, yn gallu teimlo poen a dioddefaint, ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod deddfwriaeth ac arferion yn adlewyrchu hynny – a'r gwaharddiad ar ddefnyddio maglau yw'r cam nesaf.

7.934 Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod maglau yn greulon a bod angen eu gwahardd - a bydd hyn yn adlewyrchu dymuniadau'r bobl yn well yn ogystal â'r sylfaen wyddor a thystiolaeth lles anifeiliaid. Mae'r opsiwn hwn (3) yn arwain at y budd mwyaf i les anifeiliaid heb amharu ar ddulliau eraill o reoli 'plâu', ac felly mae'n cyflawni'r amcan polisi.

---

[378] Mae adroddiad diweddar wedi canfod nad yw'r pandemig wedi cael effaith ar frwdfrydedd y cyhoedd ym Mhrydain dros les anifeiliaid, yn ôl tystiolaeth rhoddion – gyda 27% o roddwyr yn cefnogi elusennau anifeiliaid, gan roi cyfanswm o £1 biliwn (amcangyfrif).

# Trapiau Glud

## Costau a Manteision

### *Opsiwn 1: Busnes fel arfer – caniatáu i'r defnydd o drapiau glud barhau.*

7.935 Dyma'r opsiwn llinell sylfaen, felly nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddai effaith dioddefaint sylweddol ar anifeiliaid yng Nghymru yn parhau, sy'n anghydnaws ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau safonau uwch o les anifeiliaid.

### *Opsiwn 2: Gwahardd defnyddio trapiau glud gan aelodau'r cyhoedd ond cyflwyno cynllun trwyddedu a fydd yn derbyn ceisiadau gan reolwyr plâu proffesiynol i gael caniatâd i ddefnyddio trapiau glud mewn rhai achosion ac o dan amodau rheoledig.*

7.936 Byddai cyflwyno system drwyddedu yn creu mwy o broblemau a byddai'n debygol o arwain at rai costau i'r pwrs cyhoeddus. Mae rheoli cnofilod yn broblem yn yr amgylchedd trefol yn bennaf, ac o'r herwydd, nid oes unrhyw gynlluniau trwyddedu cyfochrog naturiol i'w defnyddio neu eu hefelychu ar gyfer strwythur newydd. Efallai mai'r gymhariaeth agosaf yw Cyfoeth Naturiol Cymru sy’n gweithredu nifer o gyfundrefnau trwyddedu ar ran Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oes unrhyw un o'r rhain yn gymhariaeth uniongyrchol (o safbwynt model adennill costau) at ddibenion y Dadansoddiad Cost a Budd hwn. Mae'r sefyllfa yn fwy anodd oherwydd y diffyg gwybodaeth am nifer y defnyddwyr posibl a'r defnydd o drapiau glud gan gwmnïau rheoli plâu proffesiynol yng Nghymru.

7.937 Mae'r ffigurau ar gyfer defnydd gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn eithriadol o isel (o ystyried bod rhai ohonynt wedi cyflwyno gwaharddiad eu hunain; nododd un arall ei fod yn defnyddio trapiau glud ar gyfer llai nag 1 y cant o'r holl ddigwyddiadau rheoli plâu; ac nid oedd un arall wedi eu defnyddio yn y 12 mis blaenorol). O

ganlyniad, byddai angen sefydlu trefn reoleiddio newydd, a byddai angen adnoddau ychwanegol ar Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gallu gwneud y canlynol: datblygu'r system drwyddedu; asesu ceisiadau; cyhoeddi trwyddedau; a rheoleiddio gweithgareddau deiliaid trwyddedau.

7.938 Nid yw'r opsiwn hwn wedi'i gostio oherwydd byddai angen buddsoddiad ychwanegol yn y sylfaen dystiolaeth er mwyn deall graddfa debygol y trwyddedau sydd eu hangen a'r cwmpas i ddarparu amddiffyniad a gorfodi priodol. Fodd bynnag, byddai hon yn system drwyddedu arwyddocaol ar gyfer yr hyn a allai fod yn nifer isel iawn o geisiadau bob blwyddyn. Felly, mae'n annhebygol iawn y byddai nifer y ceisiadau am drwyddedau yn dod yn agos at adennill y costau gofynnol ar gyfer gweithredu system drwyddedu newydd.

7.939 Nid yw'r opsiwn polisi hwn yn mynd i'r afael yn briodol â phryderon lles anifeiliaid Gweinidogion, grwpiau buddiant a'r cyhoedd, ac o'r herwydd nid yw'n cael ei ystyried ymhellach.

### *Opsiwn 3: Gwahardd defnyddio trapiau glud ym mhob sefyllfa.*

7.940 Mae trapiau glud ar gael yn rhwydd yng Nghymru, a chredir eu bod yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd a rheolwyr plâu proffesiynol (busnesau annibynnol a busnesau yn y sector cyhoeddus, megis awdurdodau lleol). Prin iawn yw'r defnydd o drapiau glud, os o gwbl, ymysg y rhai sy'n cael eu cyflogi i wneud gwaith rheoli plâu. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw llawer o'r cyhoedd yn ymwybodol bod trapiau glud yn cael eu hystyried yn greulon gan nad yw’n anghyfreithlon i'w defnyddio; eu bod ar gael yn rhwydd; a'u bod yn cael eu defnyddio weithiau gan reolwyr plâu (sy'n gosod esiampl).

7.941 Byddai gwaharddiad llawn, heb unrhyw eithriadau, ar ddefnyddio trapiau glud yn darparu'r amddiffyniad mwyaf rhag y dioddefaint y maent yn ei achosi, a hwn fyddai'r opsiwn symlaf i'w orfodi. Yn allweddol, hwn yw'r dewis hawsaf i'w ddeall a'i ddilyn gan y cyhoedd ac mae'n adlewyrchu'r awydd i sicrhau safonau lles anifeiliaid uchel yng Nghymru.

### *Effaith ar fusnesau*

7.942 Deellir bod gwaith cynhyrchu trapiau glud yn cael ei wneud dramor, felly nid yw’r mater yn berthnasol i’r dadansoddiad hwn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd dosbarthwyr a manwerthwyr yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan waharddiad llawn. Byddai'r farchnad trapiau glud bresennol yn cau. Fodd bynnag, nid yw'r busnesau na'r cyflenwyr hyn yn seilio eu busnesau ar un eitem gwerth isel yn unig, a gan fod y prisiau manwerthu mor isel (rhwng £1.50 a £2 yr un), ychydig iawn o elw sy'n cael ei wneud o werthu trapiau glud, ac maent yn cynrychioli cyfran fechan o werthiant yn unig. Er y byddai'r farchnad trapiau glud yn dod i ben ar gyfer manwerthwyr/cyflenwyr, byddent yn cael eu digolledu gan y cynnydd yng ngwerthiant dewisiadau amgen o reoli cnofilod. £sero fyddai'r amcangyfrif gorau o'r effaith ar ddosbarthwyr a manwerthwyr.

7.943 Mae’r cwmnïau masnach sy'n cynrychioli cwmnïau rheoli plâu masnachol a ymatebodd i’r ymgynghoriad wedi datgan eu bod yn dymuno parhau i ddefnyddio trapiau glud ac nad ydynt am iddynt gael eu gwahardd. Fodd bynnag, nid oes llawer i awgrymu y byddai’r gwaharddiad yn cael effaith negyddol ar eu haelodau gan fod digon o ddulliau rheoli amgen ar gael yn rhwydd i’r cwmnïau hyn[379]. Yn wir, mae rhai rheolwyr plâu proffesiynol wedi cyflwyno eu gwaharddiad eu hunain (am resymau lles anifeiliaid) ar drapiau glud, ac maent yn defnyddio dulliau amgen yn hynod effeithiol a heb unrhyw effaith amlwg ar eu busnes.

7.944 Cyhoeddodd Gweinidogion y bwriad i wahardd trapiau glud yn ystod hydref 2021, ond mae'n annhebygol o ddod i rym tan hydref 2023. Dylai'r cyfnod hwn gynyddu'r tebygolrwydd o gydymffurfio â'r gyfraith gan y bydd yn caniatáu i ddefnyddwyr presennol ddefnyddio stociau presennol (cost stocrestr), a newid i ddulliau rheoli cyfreithlon a llai creulon eraill.

7.945 Er y byddai busnesau (mawr a bach fel ei gilydd) sy'n defnyddio trapiau glud yn cael eu heffeithio, mae dewisiadau amgen ac effeithiol ar gael, ac mae'r dulliau hyn eisoes yn cynrychioli eu prif ddewis (a'r unig ddewis i rai busnesau) wrth weithredu. Er enghraifft, mae trapiau sbring confensiynol yn ddewis amgen effeithiol a chost isel sydd ar gael yn rhwydd. Bydd unrhyw wariant ychwanegol cychwynnol ar drapiau amgen yn cael ei wrthbwyso gan ostyngiad mewn costau parhaus gan fod modd

[379] Baker, S.E., Ayers, M., Beausoleil, N.J., Belmain, S.R., Berdoy, M., Buckle, A.P., Cagienard, C., Cowan, D., Fearn-Daglish, J., Goddard, P., Golledge, H.D.R., Mullineaux, E., Sharp, T., Simmons, A. a Schmolz, E. (2022) An assessment of animal welfare impacts in wild Norway rat (Rattus norvegicus) management. Animal Welfare 2022, (31) tt 51-68.

ailddefnyddio'r trapiau. Felly, nid ydym yn rhagweld y bydd gwaharddiad ar drapiau glud yn cael llawer o effaith ariannol ar fusnesau yn y tymor hwy. Fodd bynnag, nid oedd modd mesur y gost i fusnesau, felly nid yw'r gost yn hysbys.

### *Effaith ar awdurdodau lleol*

7.946 Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli plâu wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwahanol (mae graddfa'r cyfrifoldeb hwn yn amrywio o un awdurdod lleol i’r llall). Yn ystod yr ymgynghoriad, roedd dau o'r chwe awdurdod lleol a gynrychiolwyd wedi nodi nad ydynt byth yn defnyddio trapiau glud, a nododd dau arall eu bod ond yn eu defnyddio mewn nifer cyfyngedig iawn o achosion - roedd un awdurdod lleol yn gallu mesur hyn fel llawer llai nag 1 y cant o'r holl ddigwyddiadau rheoli plâu, ac nid oedd yr awdurdod arall wedi’u defnyddio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y Gwasanaethau Rheoleiddio ar y Cyd yn amcangyfrif iddynt ddefnyddio trapiau glud ar gyfer cnofilod tua deuddeg gwaith y flwyddyn.

7.947 Yn dilyn gwaharddiad ar drapiau glud, bydd yn rhaid i'r pedwar awdurdod lleol[380] sy'n defnyddio trapiau glud newid i ddulliau amgen, ac maent wedi datgan yn ystod yr ymgynghoriad y gallai gymryd mwy o amser iddynt ddal yr anifeiliaid targed o ganlyniad. Awgrymwyd y gallai hyn arwain at gau rhai cyfleusterau cyhoeddus, ac y gallai ymweld â safleoedd sawl tro gynyddu costau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth gyfatebol i gefnogi hyn, yn enwedig o ystyried bod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi penderfynu peidio â defnyddio trapiau glud (gan eu bod yn greulon) ac nad ydynt wedi nodi unrhyw gostau ychwanegol nac effeithiau negyddol.

7.948 Gall y gwariant cychwynnol ar drapiau amgen arwain at gynnydd bach mewn costau i'r Awdurdod Lleol, ond mae cost dewisiadau amgen yn debygol o leihau dros amser oherwydd bod modd eu hailddefnyddio, yn wahanol i drapiau glud.

7.949 Mae gan Awdurdodau Lleol y pŵer i ymchwilio ac erlyn achosion o greulondeb i anifeiliaid. Fodd bynnag, nid oes modd ymdrin â niferoedd mawr o achosion oherwydd diffyg adnoddau ac, o'r herwydd, mae'n annhebygol y byddant yn dwyn unrhyw achos mewn perthynas â'r drosedd newydd o ddefnyddio trap glud.

[380]Nid oedd 16 awdurdod lleol wedi ymateb i'r ymgynghoriad, ac mae'n rhesymol tybio bod rhai ohonynt yn defnyddio trapiau glud a rhai yn osgoi eu defnyddio.

7.950 Mae'r awdurdod lleol sy'n darparu'r gwasanaethau rheoli plâu mwyaf yng Nghymru yn defnyddio trapiau glud o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, wrth ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd nad yw'n credu y byddai'r gwaharddiad yn cael unrhyw effeithiau mawr, ac roedd yn cefnogi cyflwyno'r gwaharddiad. O ganlyniad, amcangyfrifir mai £sero fydd yr effaith gyffredinol ar Awdurdodau Lleol.

## *Effaith ar unigolion*

7.951 Byddai tua 22 y cant o'r cyhoedd yn ystyried defnyddio trapiau glud i ddal cnofilod[381]. Dyma un o'r prif bryderon wrth ystyried nad oes angen unrhyw hyfforddiant na sgiliau yn ymwneud â sut mae'n rhaid lladd yr anifail sydd wedi'i ddal (yn gyfreithlon). Byddai gwaharddiad ar drapiau glud yn golygu bod angen i unigolion ddod o hyd i ddull amgen – a llai creulon - fodd bynnag, mae'r dulliau hyn ar gael yn rhwydd ac maent yn fwy tebygol o ladd yr anifail mewn ffordd briodol.

7.952 Mae'n bosibl y bydd gwahaniaeth bach yn y gost i'r unigolyn rhwng prynu trap glud a phrynu trapiau eraill i'w defnyddio yn y cartref, er enghraifft. Fodd bynnag, gellir adennill y gost hon o ystyried bod modd ailddefnyddio dulliau eraill fel trapiau sbring sy'n cael effaith llawer llai ar yr amgylchedd na bwrdd glud untro, sydd wedi'i orchuddio â gludydd nad yw'n sychu ac sydd angen ei waredu'n briodol. Er nad oes modd mesur y gost i'r unigolyn (sy'n gost anhysbys felly), ni ddisgwylir iddi fod yn uchel.

## *Effaith ar sefydliadau'r trydydd sector*

7.953 Gall yr RSPCA ymchwilio i achosion o greulondeb i anifeiliaid a'u herlyn yn breifat wedyn. Fodd bynnag, mae'r sefydliad wedi cyhoeddi ei fwriad i roi'r gorau i erlyn yn llwyr a throsglwyddo ei dystiolaeth i Wasanaeth Erlyn y Goron (nid oes dyddiad wedi'i gyhoeddi ar gyfer hyn). Rhwng 2016 a 2021, dim ond 7 achos a gofnodwyd gan yr RSPCA yn ymwneud â thrapiau glud yng Nghymru. Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth yn ymwneud ag erlyniadau, felly mae'n annhebygol bod unrhyw un o'r 7 digwyddiad wedi arwain at euogfarn lwyddiannus.

---

[381] https://www.hsi.org/wp-content/uploads/assets/pdfs/hsi-glue-trap-report.pdf

7.954 Mae yna heriau o ran tystiolaeth, yn bennaf o ran profi bod yr anifail wedi dioddef, yn enwedig o ystyried nad yw trapiau glud wedi'u gwahardd ar hyn o bryd. Ni ddisgwylir i'r gwaharddiad ar drapiau glud newid y lefel hon o weithgaredd i'r elusen. Mae'r heriau sy'n bodoli a'r nifer isel o ddigwyddiadau sy'n cael eu hadrodd yn golygu y bydd yn anodd sicrhau erlyniadau, a byddant yn arwain at gost gysylltiedig. Fodd bynnag, mae hyn yn cyd-fynd â'r diben a nodwyd ar hyn o bryd. Roedd pob sefydliad lles anifeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad rhanddeiliaid yn cefnogi gwaharddiad llawn ar ddefnyddio trapiau glud.

## *Effaith ar Heddluoedd*

7.955 Mae'r heddlu yn gallu ymchwilio i achosion o greulondeb i anifeiliaid, a byddai hyn yn cynnwys y gwaharddiad newydd ar drapiau glud. Mewn gwirionedd, nid oes modd ymchwilio i lawer o'r achosion hyn oherwydd diffyg adnoddau, ac mae'n annhebygol iawn y byddai'r drosedd o ddefnyddio trap glud yn cael ei hadrodd/ei chanfod.

7.956 Bydd cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth newydd yn seiliedig ar y dybiaeth, fel y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth, y bydd mwyafrif o bobl yn cydymffurfio â'r gyfraith. Unwaith y bydd y gwaharddiad a nodwyd ar drapiau glud wedi'i basio yn Yr Alban ac y bydd y gwaharddiad yn Lloegr yn dod i rym (gwanwyn 2024) efallai y bydd modd cyflwyno cyfyngiadau ar werthu trapiau glud er mwyn cynorthwyo mesurau gorfodi. Byddai angen adolygiad o unrhyw effaith ar yr heddlu cyn gwneud hynny. £sero yw'r amcangyfrif gorau o'r goblygiadau cost presennol i'r heddlu yng Nghymru.

## *Effaith ar y System Gyfiawnder*

7.957 Bydd y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn creu troseddau newydd. Bydd person sy'n defnyddio trap glud i ddal anifail asgwrn cefn yn cyflawni trosedd. Bydd person sy'n euog o drosedd yn dilyn collfarn ddiannod y cael dedfryd o garchar am gyfnod nad yw'n hirach na 6 mis neu ddirwy ddiderfyn - sy'n cyd-fynd â'r hyn a nodir yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

7.958 Ystyriwyd yr effeithiau a ragwelir ar y system cyfiawnder troseddol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhagweld na fyddai fawr ddim effaith ar y system gyfiawnder. Felly'r amcangyfrif gorau o'r effaith ar y System Gyfiawnder yw £sero.

### *Effaith ar Lywodraeth Cymru*

7.959 Ni ragwelir y bydd angen unrhyw gostau gweithredu ar gyfer Llywodraeth Cymru gan na fydd angen canllawiau pellach yn dilyn gweithredu'r gwaharddiad.

7.960 Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo’r costau i gyfathrebu'r gwaharddiad ar ddefnyddio trapiau glud. Ar gyfer defnyddwyr y diwydiant, rhagwelir y bydd hyn ar ffurf gohebiaeth gyda'r ddau gorff proffesiynol ar gyfer rheoli plâu; y saith bwrdd iechyd lleol; Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd; a'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, yn ogystal â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

7.961 Oherwydd y niferoedd uchel o fanwerthwyr sy'n cyflenwi trapiau glud i ddefnyddwyr yng Nghymru a thu hwnt, disgwylir y bydd cyhoeddusrwydd ynghylch hynt y Bil yn cyrraedd sawl busnes yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o'r gwaharddiad ymhlith llawer o aelodau'r cyhoedd. Gellir gwella hyn ymhellach drwy gydweithio â'r sefydliadau lles anifeiliaid yng Nghymru a'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac sydd â nifer sylweddol o gefnogwyr.

7.962 Byddai post uniongyrchol, cyhoeddi Hysbysiadau i'r Wasg a'r defnydd o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru am yr hyn sy'n cyfateb i oddeutu wythnos o amser Swyddog Gweithredol, yn golygu £750. Disgwylir i’r gost hon gael ei hysgwyddo yn 2023-24.

## Manteision

7.963 Ni ellir gwadu bod cnofilod yn gallu peri risg difrifol i iechyd y cyhoedd mewn mannau y mae pobl yn eu meddiannu. Mae'n rhesymol tybio hefyd bod sefyllfaoedd sy'n gofyn am ateb cyflym, fel ysbytai, pan fo'r sefyllfa'n ymwneud â'r ifanc a'r rhai sydd fel arall yn agored i niwed, ac mewn unrhyw fath o wasanaeth bwyd. Mae'n rhaid i unrhyw newid arfaethedig i'r offer sydd ar gael i fynd i'r afael â'r problemau cnofilod hyn asesu'r costau cysylltiedig yn gyntaf. Fodd bynnag, mae'r ffordd rydym yn trin anifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o'n cymdeithas ac o'r herwydd mae Gweinidogion yn credu bod yn rhaid i les anifeiliaid - nad yw bob amser yn bosibl ei fesur mewn termau ariannol - fod â rhan lawn yn yr asesiad hwnnw hefyd.

7.964 Yn achos byrddau glud, mae yna ddigon o ddewisiadau amgen, eisoes yn cael eu defnyddio'n rheolaidd, sy'n gallu helpu i atal cnofilod rhag dod i mewn a bod yn bla, gyda'r fantais o wella safonau lles anifeiliaid yng Nghymru.

7.965 Ar hyn o bryd, mae'r hyn sy'n cael ei ystyried yn fethiant o ran gwybodaeth yn y pwynt prynu, a amlygwyd gan yr HSI yn eu hadroddiad[382]yn 2015, lle mae'r pecynnu ar gyfer trapiau glud yn dangos cnofilod cartŵn yn gwenu, a hyd yn oed ddelweddau o rywogaethau o anifeiliaid anwes poblogaidd fel mochyn cwta a gerbil. Nid yw'n syndod nad yw defnyddwyr wedyn yn sylweddoli'r cysyniadau a'r ffeithiau allweddol, fel dyngarwch y trap; ei effeithiolrwydd; a'u cyfrifoldebau cyfreithiol o ran lladd yr anifail unwaith y mae wedi cael ei ddal.

7.966 Bydd terfynau newydd – sy'n deillio o'r gwaharddiad ar drapiau glud - ar yr hyn yr ystyrir sy'n ddull derbyniol o ymdrin â phroblem cnofilod, yn helpu i arwain defnyddwyr ac yn helpu i lunio gwell gwybodaeth am ddefnyddio dulliau mwy trugarog. Disgwylir i hyn arwain at fanteision net i les anifeiliaid. Yn ei dro, bydd hyn o fudd i'r rhywogaethau targed yn ogystal â'r anifeiliaid anwes a bywyd gwyllt sydd heb eu targedu ond sydd ar hyn o bryd yn dioddef oherwydd y trapiau glud.

7.967 Mae gweinidogion yn glir ynghylch y ffaith bod cyfiawnhad sylweddol o ran lles anifeiliaid dros gyflwyno gwaharddiad ar ddefnyddio trapiau glud, ond fel y dangoswyd eisoes, ychydig iawn o effeithiau fydd o gyflwyno'r gwaharddiad a bydd y gost gysylltiedig o'i weithredu yn isel iawn os oes cost o gwbl. Gellir ailddefnyddio dewisiadau amgen fel trapiau sbring a thrapiau byw, ac felly maent yn fwy cost effeithlon, ond yn bwysicach fyth, maent yn well i'r amgylchedd, ac mae hyn yn cyd-fynd yn well â nodau newid hinsawdd Cymru.

7.968 Mae safonau uwch o ran lles anifeiliaid yn amlwg o fudd i gymdeithas ehangach[383]. Maent yn cyfrannu at les ac at falchder yn enw da Cymru fel cenedl sy'n parchu ac yn gwarchod anifeiliaid. Mae'r gwaharddiad yn cynnig cyfle hefyd i drafod y gwaith o reoli cnofilod mewn cyd-destun ehangach er mwyn herio cysyniadau o'r hyn sy'n gyfystyr â 'phla' a sut gall termau o'r fath gyfrannu at ddelwedd negyddol o rai anifeiliaid. Mae pob anifail yn ymdeimladol, ac yn gallu teimlo poen a dioddefaint ac mae Llywodraeth Cymru'n gweithio er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth ac arferion yn

[382] Ibid.

[383] Mae adroddiad diweddar wedi canfod nad yw'r pandemig wedi effeithio ar frwdfrydedd y cyhoedd ym Mhrydain dros les anifeiliaid fel y gwelwyd mewn rhoddion - gyda 27 y cant o roddwyr yn cefnogi elusennau anifeiliaid, gan roi cyfanswm o tua £1 biliwn.

adlewyrchu hynny - gyda'r gwaharddiad ar y defnydd o drapiau glud yn gam nesaf ymlaen.

7.969 Mae Llywodraeth Cymru'n fodlon bod trapiau glud yn annynol. Bydd gwaharddiad llwyr yn adlewyrchu'n well yr wyddor lles anifeiliaid a’r sylfaen dystiolaeth ac mae'n cyd-fynd â chynllun y llywodraeth i ymdrechu'n barhaus i wella lles anifeiliaid. Mae'r opsiwn hwn (3) yn arwain at y budd mwyaf i les anifeiliaid heb lesteirio gwaith rheoli cnofilod angenrheidiol, ac felly'n bodloni amcan y polisi.

## *Atodiad A. Tynnu Cymorth yn ôl: Gostyngiad mewn Incwm Busnesau Ffermio - cymharu â data sy'n deillio o Arolwg o Fusnesau Ffermio Cymru[384].*

7.970. Mae Tabl 63 yn dangos nifer y ffermydd ym mhoblogaeth yr Arolwg o Fusnesau Ffermio. Nid yw hyn yn cynnwys pob fferm fach iawn sydd ag Allbwn Safonol o lai na €25,000.

7.971. Mae tua 14,000 o ffermydd wedi'u heithrio o gyfanswm o 24,500, ond mae'r ffermydd hyn yn cynhyrchu tua 5% o Allbwn Safonol Cymru. Nid yw'r Arolwg o Fusnesau Ffermio yn cynnwys ffermydd sy'n arbenigo mewn garddwriaeth, dofednod neu foch385, tua 100 o ffermydd sydd â rhwng 10% a 15% o gyfanswm yr Allbwn Safonol.

**Tabl 63. Poblogaeth yr Arolwg o Fusnesau Ffermio**

| Math o fferm | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| Godro | 1,407 | 1,378 | 1,454 | 1,427 |
| Defaid SDA [386] | 3,328 | 3,316 | 2,508 | 2,611 |
| Defaid/bîff SDA | 1,245 | 1,254 | 1,877 | 1,833 |
| Defaid/bîff DA[387] | 1,988 | 2,015 | 1,981 | 2,065 |
| Defaid/bîff ar dir isel | 1,176 | 1,208 | 1,197 | 1,204 |
| Eraill a chymysg | 485 | 497 | 510 | 560 |
| **Cyfanswm** | **9,629** | **9,668** | **9,527** | **9,700** |

[384] Mae'r Arolwg o Fusnesau Ffermio yn arolwg blynyddol o gyllid ffermydd a chaiff y canlyniadau eu hadrodd ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae data'r Arolwg o Fusnesau Ffermio 2019-20 yn seiliedig ar 501 o ffurflenni (yn is na'r 550 arferol oherwydd bod Covid wedi effeithio ar y gwaith casglu). O bob fferm sy'n cymryd rhan mae set gyflawn o gyfrifon busnes y fferm.

[385] Mae'r ffermydd arbenigol wedi'u gwahardd oherwydd bod y niferoedd bach dan sylw yn golygu na ellid cynhyrchu amcangyfrifon ariannol dibynadwy.

[386] SDA - Ardal dan Anfantais Ddifrifol

[387] DA – Dan Anfantais

7.972. Mae Tabl 64 yn dangos cyfanswm taliadau BPS cyfanredol i Gymru ar gyfer ffermydd sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Amcangyfrifon yw ffigurau o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio, yn hytrach na ffigurau diffiniol o Daliadau Gwledig Cymru, er mwyn eu cysylltu â theipoleg ac elw ffermydd.

**Tabl 64. Taliadau BPS cyfanredol (£miliwn), Arolwg o Fusnesau Ffermio**

| **Math o fferm** | **2016-17** | | **2017-18** | | **2018-19** | | **2019-20** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £miliwn | *%* | £miliwn | *%* | £miliwn | *%* | £miliwn | *%* |
| Godro | 28 | *12%* | 27 | *11%* | 27 | *12%* | 26 | *11%* |
| Defaid SDA | 100 | *45%* | 114 | *49%* | 91 | *40%* | 93 | *41%* |
| Defaid/bîff SDA | 26 | *12%* | 26 | *11%* | 46 | *20%* | 42 | *19%* |
| Defaid/bîff DA | 37 | *17%* | 37 | *16%* | 33 | *14%* | 32 | *14%* |
| Defaid/bîff ar dir isel | 20 | *9%* | 21 | *9%* | 20 | *9%* | 21 | *9%* |
| Eraill a chymysg | 11 | *5%* | 10 | *4%* | 10 | *4%* | 11 | *5%* |
| **Cyfanswm** | **222** | ***100%*** | **234** | ***100%*** | **227** | ***100%*** | **226** | ***100%*** |

7.973. Mae cyfanswm taliadau BPS ar gyfer y ffermydd hyn yn £222-234 miliwn dros y cyfnod. Mae ffermydd ddefaid SDA yn cyfrif am y gyfran fwyaf o daliadau (rhwng 40-49%).

7.974. Mae'r canlyniadau isod yn dangos amcangyfrifon poblogaeth wedi'u codi ar gyfer y 9,700 o ffermydd sydd ag Allbwn Safonol o €25,000 o leiaf. Mae amcangyfrifon ar gyfer poblogaeth gyffredinol yr arolwg yn cael eu cyfrifo drwy ail-bwysoli ymatebion yr arolwg.

7.975. Mae proffidioldeb cymharol yn cael ei fynegi fel £ elw fesul £100 o gostau - mae'n cael ei ddefnyddio i geisio cyfrif am wahanol faint economaidd ffermydd. Dyma'r diffiniadau a ddefnyddiwyd yn y tablau isod:

Elw - o leiaf £10 am bob £100 o gostau

Elw ymylol - o leiaf £0 a llai na £10 fesul £100 o gostau

Unrhyw golled - pob gwerth negyddol

7.976. Mae Tabl 65 yn dangos proffidioldeb cymharol ffermydd ar gyfer ffermydd sydd â gwahanol lefelau o allbwn safonol - Mae allbwn safonol yn y tabl hwn yn mesur gwerth cyfanswm yr allbwn o'r canlynol:

Cynhyrchu amaethyddol;

Arallgyfeirio;

Colofn 1 (BPS);

Colofn 2 (Glastir).

7.977. Mae grwpiau'n[388] seiliedig ar y gwerthoedd canlynol o allbwn ar fferm (mewn £ miloedd) - o dan £125,000; £125,000 i £250,000; £250,000 i £500,000 ac o leiaf £500,000. Mae'r rhifau'n rhoi nifer y ffermydd ym mhob dosbarth.

**Tabl 65: Proffidioldeb cymharol ffermydd yn ôl allbwn safonol**

| **Band allbwn** | **Elw** | **Elw ymylol** | **Unrhyw golled** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Llai na £125,000 | 2 752 | 929 | 2 219 | 5 899 |
| £125,000 i £250,000 | 1 275 | 389 | 623 | 2 287 |
| £250,000 i £500,000 | 494 | 235 | 204 | 934 |
| o leiaf £500,000 | 308 | 89 | 183 | 580 |
| **CYFANSWM** | **4 829** | **1 642** | **3 229** | **9 700** |

**Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Arolwg o Fusnesau Ffermio 2019-2020**

7.978. Y pwyntiau allweddol yw:

- Mae 3,229 (33%) o'r 9,700 o ffermydd yn gwneud colled. O'r 3,229 o ffermydd hyn, mae ychydig dros ddwy ran o dair (69%) yn y band allbwn lleiaf (llai na £125,000)
- I'r gwrthwyneb, mae 4,829 (50%) o'r 9,700 o ffermydd yn gwneud elw sy'n fwy nag elw ymylol. O'r 4,849 o ffermydd hyn, mae 57% yn y band allbwn lleiaf (llai na £125,000)
- Mae cyfran y ffermydd ym mhob band maint sy'n gwneud colled yn amrywio o 38% (llai na £125,000), 31% (o leiaf £500,000), 27% (£125,000 i £250000), i 22% (£250,000 i £500,000)

[388] Mae grwpiau'n fympwyol, wedi'u cynllunio i roi digon o ffermydd ym mhob dosbarth

- Mae cyfran y ffermydd ym mhob band maint sy'n gwneud elw sy'n fwy nag elw ymylol yn amrywio o 56% (£125,000 i £250,000), 53% (£250,000 i £500,000, ac o leiaf £500,000), i 47% (llai na £125,000)
- Mae hyn yn tynnu sylw at yr amrywiaeth mawr mewn perfformiad sy'n bodoli mewn ffermydd o'r un band maint yn economaidd

7.979. Isod rydym yn edrych ar sut mae’r ffigurau’n edrych o gael eu dosbarthu yn ôl math o fferm (yn gyffredinol)

**Tabl 66: Proffidioldeb cymharol fferm yn ôl math o fferm**

| Math | Elw | Elw ymylol | Unrhyw golled | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Godro | 632 | 336 | 459 | 1 427 |
| Pori SDA | 2 751 | 618 | 1 075 | 4 444 |
| Pori DA | 674 | 332 | 1 059 | 2 065 |
| Eraill | 773 | 356 | 635 | 1 764 |
| **CYFANSWM** | **4 829** | **1 642** | **3 229** | **9 700** |

**Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Arolwg o Fusnesau Ffermio 2019-2020**

7.980. Y pwyntiau allweddol yw:

- O'r 3,229 o ffermydd sy'n gwneud colled, mae 33% yn ffermydd pori mewn SDA ac mae 33% arall yn ffermydd pori mewn DA, ac mae 14% yn ffermydd godro
- O'r 4,829 o ffermydd sy'n gwneud elw mawr, mae 57% yn ffermydd pori mewn SDA, mae 14% yn ffermydd pori mewn DA, ac mae 13% yn ffermydd godro
- Mae cyfran y ffermydd o fewn gwahanol fathau o ffermydd sy'n gwneud colled yn amrywio o 51% (pori mewn DA), 32% (godro), i 25% (pori mewn SDA)
- Mae cyfran y ffermydd o fewn gwahanol fathau o ffermydd sy'n gwneud elw sy'n fwy nag elw ymylol yn amrywio o 62% (pori mewn SDA), 44% (godro), i 33% (pori mewn DA)
- Mae hyn yn amlygu'r amrywiaeth mawr mewn perfformiad sy'n bodoli o fewn ffermydd o'r un math.

## *Diddymu taliadau BPS*

7.981. Edrychir nawr ar y ffordd y mae'r ffigurau hyn yn newid os ydym yn diddymu taliad BPS o'r mesur o allbwn safonol 389. Mae'r ffigyrau (sy'n dangos nifer y ffermydd mewn categorïau gwahanol) bellach yn edrych fel hyn:

**Tabl 67: Proffidioldeb cymharol ffermydd yn ôl allbwn safonol heb BPS**

| Band allbwn | Elw | Elw ymylol | Unrhyw golled | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Llai na £125,000 | 568 | 598 | 4 733 | 5 899 |
| £125,000 i £250,000 | 576 | 347 | 1 365 | 2 287 |
| £250,000 i £500,000 | 240 | 153 | 540 | 934 |
| o leiaf £500,000 | 218 | 170 | 192 | 580 |
| **CYFANSWM** | **1 601** | **1 268** | **6 831** | **9 700** |

**Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Arolwg o Fusnesau Ffermio 2019-2020**

7.982. Dyma'r prif newidiadau rhwng Tabl 66 a 67:

- Mae nifer y ffermydd sy'n gwneud colled yn codi o 3,229 i 6,831 - cynnydd o 3,602 o ffermydd sy'n gwneud colled. Mae cyfran cyfanswm y ffermydd sy'n gwneud colled yn codi o 33% i 70%
- O fewn y band maint llai na £125,000, mae nifer y ffermydd sy'n gwneud colled wedi codi 2,514, sy'n gynnydd o 113%
- O fewn y band maint £125,000 i £250,000, mae nifer y ffermydd sy'n gwneud colled wedi codi 742, sy'n gynnydd o 119%
- O fewn y band maint £250,000 i £500,000 mae nifer y ffermydd sy'n gwneud colled wedi codi 336, sy'n gynnydd o 165%

389 Dadansoddiad statig yw hwn ac nid yw'n caniatáu unrhyw addasiad gan y ffermwr i golli BPS (er enghraifft, i leihau costau cynhyrchu). Gall y dadansoddiad statig felly amcangyfrif yn rhy uchel nifer y ffermydd a all wneud colled yn y sefyllfa hon mewn gwirionedd. Yn ogystal, nid yw ond yn ystyried elw cymharol, ac nid yw'n ystyried mesurau eraill o ran gwydnwch ariannol y fferm fel y cydbwysedd rhwng asedau a rhwymedigaethau.

- O fewn y band maint dros £500,000, mae nifer y ffermydd sy'n gwneud colled wedi codi 9 yn unig, sy'n gynnydd o 5%
- Serch hynny, hyd yn oed heb BPS, mae cyfran y ffermydd ym mhob band maint sy'n gwneud elw sy'n fwy nag elw ymylol yn amrywio o 10% (o dan £125,000), 25% (£125,000 i £250,000), 26% (£250,000 i £500,000), i 38% (dros £500,000)

## *Diddymu taliadau BPS a Glastir*

7.983. Edrychir nawr ar y ffordd y mae'r ffigurau'n newid os ydym yn diddymu taliadau Glastir hefyd[390]. Erbyn hyn mae cyfanswm allbwn y fferm yn cynnwys allbwn o werthu cynnyrch amaethyddol ac allbwn o arallgyfeirio yn unig. Nid oes cymorth amaethyddol yn cael ei ddarparu.

7.984. Mae'r ffigurau (sy'n dangos nifer y ffermydd mewn categorïau gwahanol) bellach yn edrych fel hyn:

**Tabl 68: Proffidioldeb cymharol ffermydd yn ôl allbwn safonol heb BPS neu Glastir**

| Band allbwn | Elw | Elw ymylol | Unrhyw golled | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Llai na £125,000 | 477 | 383 | 5 039 | 5 899 |
| £125,000 i £250,000 | 429 | 291 | 1 567 | 2 287 |
| £250,000 i £500,000 | 240 | 153 | 540 | 934 |
| o leiaf £500,000 | 218 | 135 | 226 | 580 |
| **CYFANSWM** | **1 365** | **963** | **7 373** | **9 700** |

**Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Arolwg o Fusnesau Ffermio 2019-2020**

- Mae nifer y ffermydd sy'n gwneud colled yn codi o 6,831 i 7,373 - cynnydd o 542 o ffermydd yn gwneud colled. Mae cyfran cyfanswm y ffermydd sy'n gwneud colled yn codi o 70% i 76%

[390] Fel yr uchod, dadansoddiad statig yw hwn, ac nid yw'n caniatáu unrhyw addasiad gan y ffermwr i golli BPS (er enghraifft, i leihau costau cynhyrchu). Gall y dadansoddiad statig felly amcangyfrif yn rhy uchel nifer y ffermydd a all wneud colled yn y sefyllfa hon mewn gwirionedd.

- O fewn y band maint llai na £125,000, mae nifer y ffermydd sy'n gwneud colled wedi codi 306 - mae 85% o ffermydd yn y band maint hwn yn gwneud colled erbyn hyn.
- O fewn y band maint £125,000 i £250,000, mae nifer y ffermydd sy'n gwneud colled wedi codi 202 - mae 69% o ffermydd yn y band maint hwn yn gwneud colled erbyn hyn
- O fewn y band maint £250,000 i £500,000, mae nifer y ffermydd sy'n gwneud colled wedi aros yr un fath - mae 58% o ffermydd yn y band hwn yn gwneud colled
- O fewn y band maint dros £500,000, mae nifer y ffermydd sy'n gwneud colled wedi codi 34 - mae 39% o ffermydd yn y band hwn yn gwneud colled
- Serch hynny, hyd yn oed heb BPS a Glastir, mae cyfran y ffermydd o fewn pob band maint sy'n gwneud elw sy'n fwy nag elw ymylol yn amrywio o 8% (llai na £125,000), 19% (£125,000 i £250,000), ac yn aros yr un fath (â thabl 3 dim BPS) ar 26% (£250,000 i £500,000) a 38% (dros £500,000) ar gyfer y ddau gategori mwyaf o fferm

7.985. Nawr rydym am weld sut bydd Tabl 66 yn edrych os yw'n cael ei ddosbarthu'n yn ôl y math cyffredinol o fferm ac nid maint economaidd:

**Tabl 69: Proffidioldeb cymharol ffermydd yn ôl math o fferm heb BPS neu Glastir**

| Math | Elw | Elw ymylol | Unrhyw golled | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Godro | 461 | 307 | 659 | 1 427 |
| Pori SDA | 222 | 435 | 3 787 | 4 444 |
| Pori DA | 299 | 97 | 1 669 | 2 065 |
| Eraill | 383 | 124 | 1 257 | 1 764 |
| **CYFANSWM** | **1 365** | **963** | **7 373** | **9 700** |

**Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Arolwg o Fusnesau Ffermio 2019-2020**

7.986. Dyma'r prif newidiadau rhwng Tablau 66 a 69:

- Mae cyfanswm nifer y ffermydd sy'n gwneud colled wedi cynyddu o 3,229 i 7,373, cynnydd o 4,144 o ffermydd (128%). O'r cynnydd hwn yn y ffermydd sy'n gwneud colled, mae 65% o'r cynnydd yn dod o ffermydd yn y categori ffermydd pori mewn SDA
- O ganlyniad, mae cyfran cyfanswm y ffermydd sy'n gwneud colled bellach yn llawer mwy ar gyfer y categori ffermydd pori mewn SDA. O'r 7,373 o ffermydd sy'n gwneud

colled, mae 51% yn ffermydd pori mewn SDA, mae 23% yn ffermydd pori mewn DA, ac mae 9% yn ffermydd godro.
- O fewn pob math o fferm, mae cyfran y ffermydd sy'n gwneud colled yn amrywio o 85% (ffermydd pori mewn SDA), 80% (ffermydd pori mewn DA) i 46% (ffermydd godro)
- Serch hynny, hyd yn oed heb BPS a Glastir, mae cyfran y ffermydd o bob math sy'n gwneud elw sy'n fwy nag elw ymylol yn amrywio o 32% (godro), 14% (pori mewn DA) i 5% yn unig ar gyfer ffermydd pori mewn SDA.

**Crynodeb cyffredinol**

- O ran cadw'r sefyllfa bresennol, mae'r ffigurau'n awgrymu amrywioldeb mawr ym mherfformiad ffermydd rhwng ffermydd o'r un maint yn economaidd, a ffermydd o'r un math
- Mae'r ffigurau'n awgrymu bod tua hanner yr holl ffermydd yn gwneud elw sy'n fwy nag elw ymylol, a bod tua thraean yn gwneud colled
- Os caiff BPS a Glastir eu diddymu, bydd cyfran y ffermydd sy'n gwneud colled yn codi i 76%, ac mae'r cynnydd mwyaf o bell ffordd (yn nifer y ffermydd sy'n gwneud colled) yn cael ei achosi o ganlyniad i golli BPS yn hytrach na cholli Glastir
- Mae ffermydd pori SDA a DA yn cael eu taro'n neilltuol o galed, gyda 80-85% o ffermydd yn gwneud colled wedi i daliadau BPS a Glastir gael eu diddymu, o gymharu â 46% o ffermydd godro
- Mae nifer fach o ffermydd yn parhau i wneud elw sy'n fwy nag elw ymylol wedi i daliadau BPS a Glastir gael eu diddymu - mae'r ffigur uchaf i ffermydd godro, gyda thua thraean yn parhau i wneud elw mawr.

7.987. Mae rhagdybiaethau model llawn ar gael yn ERAMMP Adroddiad-60 IMP Senarios Defnydd Tir. Yma rydym yn amlinellu rhagdybiaethau allweddol mewn perthynas ag Opsiynau 1 a 2 o'r dadansoddiad cost a budd.

**Rhagdybiaethau Senarios T2**

- Mae Senario Masnach yr UE yn cynnwys cynhyrchion bwyd, mae unrhyw effeithiau sylweddol tariffau uchel gan yr UE ar gynhyrchion o Gymru wedi cael eu hosgoi gyda chytundeb masnach y DU/UE. Fodd bynnag, daeth rhwystrau nad oeddent yn ymwneud â masnachu i rym ar ôl 31 Rhagfyr 2020, gan arwain at gostau ychwanegol yn sgil gwaith archwilio ychwanegol, biwrocratiaeth, gofynion newydd o ran seilwaith ac oedi mewn porthladdoedd.
- Mae'r DU yn ffurfio trefniant tollau newydd gyda'r UE.
- Mynediad heb dariff a chwota ar gyfer allforion y DU i'r UE ac oddi yno.
- Mynediad heb dariff a chwota ar gyfer mewnforion i'r DU o'r UE.
- Nid yw tariffau a threfniadau masnach eraill ar gyfer mewnforion ac allforion y DU gyda gweddill gwledydd y byd yn newid o gymharu â'r Llinell Sylfaen
- O fewn y modelu, cynrychiolwyd y fargen fel newidiadau i brisiau gât y fferm ar gyfer cynnyrch llaeth, cig eidion a chig oen gan ddefnyddio gwerthoedd o senario FAPRI 1[391] yn dilyn uchelgeisiau papur gwyn Llywodraeth y DU. Dyma'r newidiadau i'r prisiau a ddefnyddiwyd Llaeth +1.2%; Cig Eidion +3%; Chig oen -1%.

**Cymorth a rheoleiddio amaethyddol**

7.988. BPS Mae'r llinell sylfaen yn cynnwys taliadau Colofn 1 y PAC. Ar gyfer modelu, y cyfraddau BPS a gymhwyswyd[392] oedd:

[391] FAPRI-UK Brexit Report - FINAL Clean.pdf (afbini.gov.uk)

[392] Cafodd y disgrifiadau o'r taliadau sydd ar gael eu cymryd o'r Agricultural Budgeting and Costing Book No. 83 – gwerthoedd hanesyddol Tachwedd 2016 i adlewyrchu'r hyn a dalwyd allan yn 2015. Cydnabyddir, oherwydd etifeddiaeth o daliadau pwrpasol a'r broses o bontio i gynllun cyfradd safonol, bod ystod o werthoedd wedi'u talu. Ar gyfer modelu llinell sylfaenol, rydym yn cymhwyso fel a ganlyn: i. cyfartaledd cyfradd safonol 107.6 EUR (£78.70); ii. + 25.6 EUR (£18.72) o daliad ailddosbarthu ar y 54 hectar cyntaf

- cyfartaledd cyfradd safonol o €107.6/ha (£78.70/ha);
- a €25.6/ha (£18.72/ha) o daliad ailddosbarthu ar y 54 hectar cyntaf

7.989. Cafodd y taliadau hyn eu tynnu o’r senario modelu diddymu BPS.

7.990. Glastir yn yr IMP, Tybir bod taliadau Glastir yn niwtral o ran cost ac nad ydynt yn dylanwadu ar Incwm Busnes Fferm (FBI). Nid yw'r ffordd y caiff arferion fferm eu modelu yn sensitif i Glastir.

7.991. Nid yw'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) wedi cael ei fodelu. Ni wneir taliadau uniongyrchol i ffermwyr dan y cynllun hwn.

7.992. Nid yw Trawsgydymffurfio wedi'i fodelu'n benodol. Mae'r model yn tybio bod dewisiadau sy'n effeithlon yn economaidd yn cael eu gwneud (yn hytrach nag arferion gorau *fel y cyfryw*), yn amodol ar gyfyngiadau agronomig yn ymwneud â'r canlynol e.e. cyflwr pridd, llethr, y porthiant sydd ar gael, hinsawdd, Parth Perygl Nitradau ac ati. Fodd bynnag, caiff arfer gwael (e.e. gor-stocio) ei atal.

7.993. Nid yw Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 wedi'u cynnwys.

**Tybiaethau o ran trawsnewid**

Ffermydd yn aros yr un fath, newid o ran math o fferm, ac o dan bwysau

7.994. Trawsnewid o ran math o fferm yw: newid o ran math o fferm ar ffermydd hyfyw; gadael amaethyddiaeth llawn amser; neu newid math o fferm drwy werthu a phrynu. Y ffermydd a nodir fel "gadael ffermio llawn amser" yw'r ffermydd hynny sy'n methu â chyflawni Incwm Busnes Fferm wedi'i fodelu (FBI) o £6,000 y flwyddyn gydag unrhyw fath o fferm[393]. Dim ond FBI y mae'r model yn ei ystyried.

7.995. Ni ellir modelu a yw ffermydd o’r fath yn newid i fod yn ffermydd rhan-amser; yn arallgyfeirio i weithgareddau nad ydynt yn amaethyddol neu’n rhoi'r gorau i ffermio'n gyfan gwbl, felly mae'r modelau'n tybio bod y ffermydd hyn yn gadael amaethyddiaeth.

7.996. Mae ffermydd wedi'u dyrannu i'r Ardaloedd Bach yn ôl y gyfran fwyaf.

---

[393] Mae ‘Liddon, A., Moxey, A.., Ojo, M., Patton, M., Philippidis, G., Scott, C., Shrestha, S. a Wallace, M., 2019. Mae Brexit: 'How might UK Agriculture Thrive or Survive?' yn tybio bod fferm yn gynaliadwy cyn belled â bod gan y ffermwr neu'r priod incwm blynyddol oddi ar y fferm o > £6000 (sy'n seiliedig ar y lwfans gwaith uchaf i dderbyn Credyd Cynhwysol llawn heb gymorth gyda chostau tai), hyd yn oed os nad yw'r fferm yn hyfyw. Mae hyn yn seiliedig ar O'Donoghue et al. 2016). O'Donoghue, C., Devisme, S., Ryan, M., Conneely, R., Gillespie, P., Vrolijk, H. (2016). How might UK Agriculture Thrive or Survive? A pilot study. Studies in Agricultural Economics, 118, 163- 171.

7.997. Adroddir y canlyniadau gan ddefnyddio'r rhagdybiaeth y byddai ffermydd, dros y tymor hir, yn trawsnewid i'r system ffermio fwyaf proffidiol os nad yw eu system bresennol yn hyfyw.

7.998. I symleiddio, mae'r modelau bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau yn yr IMP yn tybio y bydd fferm o'r fath yn gadael amaethyddiaeth ac y bydd y defnydd o'r tir yn newid i goedwigaeth neu bydd yn adfywio'n naturiol. Os yw fferm lawn amser gyfredol yn methu â chyflawni FBI blynyddol o £6,000 y flwyddyn o leiaf yn ei math bresennol o fferm ond gall gyflawni FBI blynyddol o £6,000 o leiaf y flwyddyn ar ffurf amgen, tybir y bydd y fferm yn newid math drwy werthu a phrynu[394].

7.999. Mae'r IMP yn tybio, os bydd fferm yn sicrhau FBI o £13,000 o leiaf ar y fferm ar ei ffurf bresennol, gall drawsnewid i fath amgen drwy weithredu bwriadol gan y ffermwr, os gall math amgen o fferm sicrhau isafswm cynnydd mewn elw o'r uchaf o'r ddau opsiwn canlynol: o leiaf £5,000 y flwyddyn neu 25% o FBI y fferm ar ei ffurf bresennol[395].

7.1000. Nid yw'r Model Dyrannu Tir (LAM) o fewn yr IMP yn tybio amserlen lar gyfer trawsnewid math o fferm, a fydd yn dibynnu ar ffactorau sy'n benodol i'r fferm, fel olyniaeth cenedlaethau. Fodd bynnag, mae allbynnau modelu yn tybio bod newid yn digwydd yn ôl amserlen gyffredin fel y gellir asesu'r canlyniadau cyfanredol am fanteision amgylcheddol.

[394] Mae model ERAMMP yn tybio na fydd gan fferm o'r fath y mynediad i gyfalaf i ariannu newid; ond bydd gan brynwr y cyfalaf i wneud hynny.
[395] Ar ôl caniatáu ar gyfer y costau ariannu (10% y flwyddyn) ar gyfer unrhyw gynnydd yng nghyfalaf tenantiaid sydd ei angen

# *Atodiad C. Tybiaethau prisiau a ddefnyddiwyd yn y modelu IMP ar gyfer goblygiadau defnydd tir y Senario Cytundeb Masnach gyda'r UE (T2)*

7.1001. Dangosir y prisiau mewnbwn ac allbwn a ddefnyddir yn y senario T2 yn Nhabl 70. Mae prisiau allbwn wedi cael eu newid: Llaeth +1.2%, Cig Eidion +3% a Chig Oen -1%

**Tabl 70. Tybiaethau Prisiau IMP**

| | | **Gwerthoedd llinell sylfaen (2015)** | **Gwerthoedd T2 Cytundeb gyda'r UE** |
|---|---|---|---|
| Amodau Economaidd Cyffredinol | | | |
| · Cyfradd llog | % | 5% | 5% |
| · Cyfradd chwyddiant | % | 2% | 2% |
| · Tanwydd/Disel | £/l | 0.45 | 0.45 |
| Da byw | | | |
| Prisiau allbwn | | | |
| · Llaeth | £/l | 0.35 | 0.354 |
| · Difa Buchod Godro | £/pen | 500 | 515 |
| · Llo Godro | £/pen | 131 | 135 |
| · Gwartheg tew | £/kg pwysau byw | 1.85 | 1.795 |
| · Buwch bîff i'w difa | £/pen | 500 | 515 |
| · Oen tew | £/kg pwysau byw | 1.68 | 1.663 |
| · Gwlân defaid | £/kg | 1.3 | 1.3 |
| · Mamog i'w difa | £/pen | 52 | 52 |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau mewnbwn | | | |
| Cynnwys lleithder fel y'i masnachir fel arfer. Gweler allbwn cnydau hefyd ar gyfer bwydydd da byw eraill a sarn | | | |
| · Dwysfwyd llaeth | £/t | 230 | 230 |
| · Dwysfwyd llaeth - egni uchel | £/t | 260 | 260 |
| · Dwysfwyd bîff a defaid | £/t | 250 | 250 |
| · Betys siwgr triagl | £/t | 225 | 225 |
| · Bêls silwair mawr | £/t | 40 | 40 |
| · Gwellt bwyd a sarn | £/t | 65 | 65 |
| | | | |
| · Costau milfeddyg a meddyginiaeth gwartheg godro | £/buwch | 73 | 73 |
| · Costau Ffrwythloni Artiffisial Gwartheg Godro | £/buwch | 40 | 40 |
| · Costau milfeddyg a meddyginiaeth gwartheg bîff | £/buwch | 27 | 27 |
| · Costau milfeddyg a meddyginiaeth ar gyfer defaid £/mamog | £/mamog | 10.4 | 10.4 |
| | | | |
| · Buwch odro cadw | £/pen | 1600 | 1619 |
| · Mamog cadw | £/pen | 138 | 136.6 |
| · Hwrdd cadw | £/pen | 480 | 475 |
| · Ŵyn stôr | £/pen | 52 | 51.5 |
| · Buwch bîff cadw | £/pen | 1700 | 1751 |
| · Tarw bîff cadw | £/pen | 4200 | 4326 |
| · Llo sugno (stôr) | £/ kg pwysau byw | 1.8 | 1.854 |
| Peiriannau a llafur | | | |
| · Cost llafur blynyddol i'r fferm (cyflogau + 10 awr yr wythnos goramser + Cyfraniadau Yswiriant Gwladol) | £/ blwyddyn | 22000 | 22000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gweithiwr safonol | | |
| · Cost tractor (pob peiriant drwy ddirprwy) 130kw 4wd | £/tractor | 68400 | 68400 |
| Cnydau | | | |
| Prisiau allbwn | | | |
| Cynnwys lleithder fel y'i masnachir fel arfer | | | |
| · Gwenith bwydo | £/t | 122 | 120.78 |
| · Gwenith bara | £/t | 152 | 150.48 |
| · Gwellt gwenith | £/t | 55 | 55 |
| · Haidd bwydo | £/t | 125 | 123.75 |
| · Haidd bragu | £/t | 152 | 150.48 |
| · Gwellt haidd | £/t | 65 | 65 |
| · Rêp had olew | £/t | 265 | 265 |
| · Tatws cynnar | £/t | 200 | 200 |
| · Prif gnwd tatws i'w bwyta | £/t | 130 | 130 |
| · Prif gnwd tatws ar gyfer bwyd stoc | £/t | 30 | 30 |
| Costau mewnbwn | | | |
| · Gwrtaith N | £/kg N | 0.77 | 0.77 |
| · Gwrtaith P | £/kg P2O5 | 0.6 | 0.6 |
| · Gwrtaith K | £/kg K2O | 0.46 | 0.46 |
| · Chwynladdwyr cynffonwellt du (agrocemegion eraill drwy ddirprwy) | £/ degfed dogn | 2.2 | 2.2 |
| · Chwynladdwyr Ceirch Gwyllt (agrocemegion eraill drwy ddirprwy) | £/ degfed dogn | 3.5 | 3.5 |
| Hadau | | | |
| · Gwenith Gaeaf | £/kg | 0.31 | 0.31 |
| · Gwenith Gwanwyn | £/kg | 0.35 | 0.35 |
| · Haidd Gaeaf | £/kg | 0.31 | 0.31 |
| · Haidd Gwanwyn | £/kg | 0.36 | 0.36 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rêp Had Olew | £/kg | 9 | 9 |
| · Tatws Cynnar Hadyd | £/kg | 0.26 | 0.26 |
| · Tatws Prif Gnwd Hadyd | £/kg | 0.3 | 0.3 |
| · Maip porthiant | £/kg | 5 | 5 |
| · Indrawn porthiant | £/kg | 5.5 | 5.5 |
| · Hadau glaswellt | £/kg | 2.19 | 2.19 |

## *Atodiad D: Atodiadau i'r Dadansoddiad Cost a Budd Coedwigaeth*

ATODIAD 1: Ystadegau trwyddedau cwympo coed ac ystadegau trwyddedu rhywogaethau

**Tabl 71: Ceisiadau am drwyddedau cwympo coed a'r trwyddedau a roddwyd dros 6 mlynedd i 2021-22**

| Blwyddyn Ariannol | Rhoddwyd | Dirymwyd | Tybir ei fod wedi'i wrthod | Gwrthodwyd | Ar y gweill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2016-17 | 467 | 25 | 4 | 0 | 0 | 496 |
| 2017-18 | 405 | 24 | 2 | 1 | 0 | 432 |
| 2018-19 | 506 | 25 | 1 | 0 | 1 | 533 |
| 2019-20 | 550 | 31 | 8 | 0 | 0 | 589 |
| 2020-21 | 466 | 32 | 11 | 2 | 0 | 511 |
| 2021-22 | 371 | 18 | 11 | 1 | 108 | 509 |
| **Cyfartaledd** | **461** | **26** | **6** | **1** | **AMHERTHNASOL** | **512** |

**Tabl 72: Dadansoddiad o Geisiadau am Drwyddedau Cwympo Coed (FLA) yn 2019-20 yn ôl maint y coetir a'r defnydd o asiant**

| Band Maint | Perchennog (dim asiant) | Asiant (graddfa fach) | Asiant (y 5 mawr[†]) | CYFANSYMIAU |
|---|---|---|---|---|
| 0-<0.5ha | 38 (8.6ha ) | 15 (4.3ha) | 12 (2.3ha) | 65 (15.2ha) |
| 0.5-<1 ha | 33 (22.2ha) | 22 (17.2ha) | 8 (6.1ha) | 63 (45.5ha) |
| 1-<2 ha | 36 (47.7ha) | 35 (49.7ha) | 16 (22.8ha) | 87 (120.2ha) |
| 2-<5 ha | 45 138.2ha) | 35 (115.2ha) | 40 (132.2ha) | 120 (385.7ha) |
| 5-<10hectar | 31 (227.7hectar) | 25 (174.6hectar) | 51 (373.4ha) | 107 (775.8ha) |
| 10-<20ha | 18 (246.0ha) | 12 (170.3ha) | 45 (679.4ha) | 75 (1095.7ha) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 20-<50ha | 11 (281.4ha) | 7 (209.1ha) | 29 (851.7ha) | 47 (1342.2ha) |
| 50ha+ | 1 (139.6ha) | 2 (409.4ha) | 9 (973.1ha) | 12 (1522.1ha) |
| **Cyfansymiau** | **213 (1111.4ha)** | **153 (1149.8ha)** | **210 (3041.1ha)** | **576* (5302.3ha)** |

*Mae cyfanswm y ceisiadau am drwyddedau cwympo coed (FLA) yn wahanol i'r tabl blaenorol gan fod y 576 yn cynnwys ceisiadau a oedd ar y gweill adeg y dadansoddiad

†Y 5 mawr = Tilhill, Pryor & Rickett, Bronwin & Abbey, Hugh Wheeldon & Co, Flintshire Woodlands

**Tabl 73: Ymgynghoriad mewnol â Thimau Amgylchedd CNC dros 4 blynedd hyd at 2018-19**

| **Blwyddyn Ariannol** | Nifer y Trwyddedau Cwympo Coed ym mhob Blwyddyn Ariannol | Anfonwyd ar gyfer ymgynghori | Canran |
|---|---|---|---|
| 2015-16 | 437 | 146 | 33% |
| 2016-17 | 496 | 194 | 39% |
| 2017-18 | 432 | 179 | 41% |
| 2018-19 | 533 | 297 | 56% |
| Cyfartaledd | 474 | 204 | 43% |

7.1002. Cynhelir ymgynghoriad mewnol rhwng Adran Trwyddedu Coedwigaeth CNC a Thimau Amgylchedd CNC pan fo effaith bosibl ar safle dynodedig (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig neu safle RAMSAR).

7.1003. Anfonwyd 33% o'r 437 o FLAs a gofrestrwyd yn 2015-16 ar gyfer ymgynghori. Anfonwyd 88% o'r rhain at Dimau Amgylchedd CNC a'r 12% a oedd yn weddill at ymgyngoreion eraill gan gynnwys y Parc Cenedlaethol, CADW (ar gyfer Henebion Rhestredig) ac awdurdodau lleol (ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed).

7.1004. Drwy gymhwyso'r gymhareb hon (o 88%) i nifer cyfartalog yr FLAs yr ymgynghorwyd arnynt (43% o Dabl 73) a nifer cyfartalog yr FLAs (512 o Dabl 71), ceir ffigur o 37% a oedd yn destun ymgynghoriad mewnol (≡189 o FLAs). Mae gan yr 189

o FLAs a anfonwyd at Dimau Amgylchedd CNC y potensial mwyaf o ran amodau amgylcheddol.

7.1005. Mae'r ffigurau yn Nhabl 73 yn dangos bod lefel yr ymgynghori'n cynyddu. Bydd ymgynghoriad gwiwerod coch yn flaenllaw yn y ffigur hwn o 37%, er o ddadansoddi materion a gofnodwyd dros y 7 mlynedd diwethaf sydd angen sylw pan fydd y ddarpariaeth goedwigaeth newydd yn ei lle, mae'n debygol y bydd nifer yr amodau sy'n ymwneud â'r wiwer goch yn isel iawn (gan nad yw'r wiwer goch yn cael ei chrybwyll unwaith yn y rhestr o faterion).

**Tabl 74: Nifer y trwyddedau cwympo coed a roddwyd ym mharthau'r wiwer goch**

| | **Blwyddyn rhoi trwydded cwympo coed** | |
|---|---|---|
| **Parth y Wiwer Goch** | **2020-21** | **2021-22†** |
| Ynys Môn* | 5 (22.2 ha) | 7 (21.6 ha) |
| Clocaenog | 4 (12.4 ha) | 2 (12.1 ha) |
| Y Canolbarth | 8 (254.2 ha) | 3 (62.0 ha) |
| **Cyfansymiau** | **17 (288.8 ha)** | **12 (95.7 ha)** |


7.1006. * Mae Ardaloedd Craidd y Wiwer Goch yn DataMapWales yn ardaloedd lle mae presenoldeb gwiwerod coch a gwiwerod llwyd yn golygu bod angen creu coetiroedd newydd i ffafrio'r gwiwerod coch brodorol. Nid yw Ynys Môn wedi'i chynnwys gan fod y wiwer lwyd wedi'i difa yma ac o ganlyniad dim ond gwiwerod coch sydd yn bodoli yn yr ardal hon.

7.1007. †Lluniwyd yr wybodaeth hon ym mis Rhagfyr 2021 felly mae'r ffigyrau yn y golofn hon yn cynrychioli'r trwyddedau i gwympo coed a roddwyd yn yr 8 mis hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2021.

7.1008. Yr amrywioldeb yn y canfyddiadau o'r dadansoddiad uchod fu'r prif reswm dros y ffaith na chynhaliwyd gwaith dadansoddi pellach er y gallai fod yn werth ychwanegu'r ardal ehangach o goedwig at y ffigurau hyn er mwyn darparu mwy o gyd-destun. Er nad yw'n ymddangos bod achos ac effaith clir rhwng ardal drwyddedig ac effeithiau ar wiwerod coch, byddai hyn, serch hynny, yn gwneud prosiect ymchwil diddorol i ymchwilio ymhellach i'r effeithiau. Mae'r effeithiau hyn yn debygol o fod yn rhai lleol, a dyna lle mae angen ystyried defnyddio thema gwybodaeth arbenigol sy'n elfen ganolog o'r dadansoddiad cost a budd hwn.

**Ffigur 5: Nifer y ceisiadau am drwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop ar ystad goed Llywodraeth Cymru**

7.1009. Ers i drwyddedau ar gyfer gweithrediadau cynaeafu gychwyn ar ystad goed Llywodraeth Cymru (o'r cyfnod cyn cychwyn CNC yn 2013), defnyddiwyd dull pecyn cymorth Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop i drwyddedu 15 Rhaglen Waith y flwyddyn ar gyfartaledd a dyma'r cyfartaleddau cyffredinol: Pathewod 67%; Ystlumod 22%; Dyfrgwn 8% a Madfallod Dŵr Cribog 3%.




7.1010. ATODIAD 2: Ffactorau pellach sy'n cael eu hystyried wrth weinyddu trwyddedau cwympo coed

7.1011. Mae'r amser y mae Adran Trwyddedu Coedwigaeth CNC wedi'i gymryd i weinyddu trwydded cwympo coed yn amrywio o 4 awr o amser CNC i 40+ o oriau. Mae'r tabl canlynol gyda'i 9 categori yn dangos yr elfennau (wedi'u lliwio'n felyn) o drwyddedau cwympo coed a allai fod yn destun amodau llai llym os gall yr ymgeisydd wneud mwy (h.y. gwell tystiolaeth). Mae'r awgrym hwn yn cyd-fynd yn dda â system o Gydnabyddiaeth ar sail Perfformiad. Y rhannau mewn print trwm yw'r rhannau sydd o bosibl fwyaf tebygol o gael amod amgylcheddol wedi'i ychwanegu atynt. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi cael eu disgrifio'n fanwl yn y dadansoddiad cost a budd hwn.

**Tabl 75: Gwiriadau ar geisiadau am drwyddedau cwympo coed a wnaed gan Adran Trwyddedu Coedwigaeth CNC**

| Rhif | Categori | Ardaloedd sydd fwyaf tebygol o fod ag amodau amgylcheddol |
|---|---|---|
| 1 | Gofyniad cyn ymgeisio | Wedi'i wneud yn briodol (Y/N), penderfyniad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) (datgoedwigo, ffyrdd, chwareli, creu coetiroedd), **Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd**, asesiadau tirwedd, gofyniad uwchgyfeirio (e.e. o fewn |

| | | |
|---|---|---|
| | | CNC neu Llywodraeth Cymru), gwaith CNC pwrpasol y gwneir cais amdano gan ymgeisydd (gan gynnwys gwaith a gomisiynwyd i wneud cais 'a wnaed yn briodol') |
| 2 | Maint | Fel rheol gyffredinol, po fwyaf y coetir y mwyaf o wirio sy'n rhaid ei wneud. Mae ffactorau ychwanegol sy'n gysylltiedig â maint yn cynnwys cyfagosrwydd, uchder, Dalgylchoedd Sensitif i Asid |
| 3 | Cyfyngiadau posibl | **Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, rhywogaethau a warchodir gan y DU, adar Atodlen 1**, Safleoedd Coetir Hynafol, Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol, clefyd coed (yn enwedig llarwydd ac onnen) |
| 4 | Amodau | Llwyrgwympo ac ailstocio; **amodau trwyddedau cwympo coed y gellir eu gorfodi yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â 'chyfyngiadau posibl' uchod** |
| 5 | Angen ymgynghoriad mewnol CNC | Bioamrywiaeth, adnoddau dŵr, ansawdd dŵr |
| 6 | Angen ymgynghoriad allanol | Awdurdod lleol (Gorchmynion Cadw Coed, ardaloedd cadwraeth, rheoliadau gwrychoedd, datblygiad a ganiateir), Awdurdod Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (sydd ill dau wedi'u cynnwys yn asesiad o'r effaith amgylcheddol rheoliadau coedwigaeth), CADW (Henebion Rhestredig, parciau a gerddi hanesyddol), ymgysylltu â rhanddeiliaid (lle mae angen mewnbwn CNC) |
| 7 | Angen mathau eraill o ganiatâd CNC | **Croesfannau dŵr, trwyddedau rhywogaethau a warchodir**, gwrthod tybiedig |
| 8 | Cydnabyddiaeth ar sail Perfformiad | **Cydymffurfio â Chategorïau 2 a 3 diwygio** (gweler nodyn cyfarwyddyd y Cynllun Rheoli Coedwigoedd tudalen 50 a thabl goddefgarwch Atodiad 5 ar dudalen |

| | | |
|---|---|---|
| | | 80). Mae gwelliannau Categori 1 yn cynnwys gweithio o fewn goddefgarwch penodol |
| 9 | Mesurau lliniaru a gynigir gan ymgeisydd | Cyflwyno cynlluniau (e.e. datganiadau dull cynaeafu, cynlluniau cludo nwyddau, cynlluniau rheoli dŵr), **lliniaru Rheoliadau Cynefinoedd**, sicrhau caniatâd pellach |

# Pennod 8 - Asesiadau Effaith Integredig

8.1. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig llawn, sy'n cwmpasu'r holl ddarpariaethau sydd wedi'u cynnwys ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru). Mae'r *Asesiad Effaith Integredig* llawn wedi'i gyhoeddi ac mae crynodeb o'r effeithiau posibl wedi'i gynnwys isod ar gyfer y pynciau canlynol (nodir lleoliad y pynciau hyn yn yr Asesiad llawn mewn cromfachau):

a) Llesiant Cymdeithasol (Adran 2)

b) Llesiant Diwylliannol (Adran 3)

c) Llesiant Economaidd (Adran 4)

d) Effeithiau ar y System Gyfiawnder (Adran 4)

e) Llesiant Amgylcheddol (Adran 5)

f) Hawliau Plant (Atodiad A)

g) Cydraddoldeb (Atodiad B)

h) Prawfesur Gwledig (Atodiad C)

i) Diogelu Data (Atodiad D)

j) Y Gymraeg (Atodiad E)

k) Bioamrywiaeth (Atodiad F)

*l)* Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Atodiad G)

## *Llesiant Cymdeithasol*

8.2. Dylai gosod Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) fel fframwaith polisi'r dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru gael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau drwy amddiffyn ein hadnoddau naturiol a sicrhau canlyniadau iechyd cadarnhaol i bobl Cymru. Bwriad SLM yw diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol a chyfrannu at y nodau llesiant fel y'u nodir yn Adran 4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd y fframwaith SLM yn galluogi ffermwyr i gael eu cefnogi i ddarparu canlyniadau SLM ac am eu cyfraniad at iechyd a llesiant ein cenedl. Bydd hyn yn dod â manteision i ffermwyr, teuluoedd sy'n ffermio, cymunedau gwledig, defnyddwyr cynnyrch o Gymru a phobl Cymru.

8.3. Rhagwelir y bydd SLM a'r pwerau cymorth yn cael nifer o effeithiau ar iechyd y cyhoedd yn gyffredinol ac ar y gymuned ffermio. Nod y fframwaith SLM yw cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, gyda manteision iechyd cysylltiedig fel gwell ansawdd aer a dŵr, a llai o berygl o lifogydd a sychder.

8.4. Fodd bynnag, gallai lefel y newid gael effeithiau negyddol ar iechyd meddwl ffermwr os nad yw'n cael ei reoli'n briodol. Bydd cyngor, arweiniad a chefnogaeth glir yn bwysig i helpu i liniaru hyn. Yn ogystal, bydd y newid yn digwydd dros sawl blwyddyn er mwyn rhoi sefydlogrwydd i ffermwyr wrth symud o'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) presennol i'r SFS arfaethedig.

8.5. Dylai'r Bil gynnig manteision cymedrol i benderfynyddion ffordd o fyw iechyd pobl Cymru. Dylai gwell cyfleoedd i gael mynediad at gefn gwlad ac ymgysylltu ag ef gyfrannu at ganlyniadau gwell o ran iechyd corfforol a meddyliol i'r boblogaeth gyffredinol, felly hefyd welliannau i ddiogelwch bwyd o ganlyniad i safonau iechyd a lles anifeiliaid gwell.

8.6. Bydd y darpariaethau safonau marchnata yn y Bil yn parhau â gallu Gweinidogion Cymru i effeithio ar y ffordd y mae cynhyrchion amaethyddol yn cael eu cyflwyno i ddefnyddwyr yng Nghymru, gan gynnwys defnyddio termau sy'n cyfleu nodweddion neu briodoleddau sy'n ychwanegu gwerth. Yn ogystal â'r manteision a ddaw yn sgil hyn i ddefnyddwyr, mae busnesau sy'n cynhyrchu a gwerthu nwyddau bwyd a diod yn elwa o effeithlonrwydd cynyddol safonau cyson ar draws y gadwyn cyflenwi bwyd.

8.7. Mae'r ddarpariaeth yn y Bil i wahardd maglau yn gam pwysig i warchod anifeiliaid rhag niwed yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae maglau'n achosi poen a dioddefaint sylweddol i lwynogod ac i rywogaethau sydd heb eu targedu fel moch daear ac anifeiliaid anwes (h.y., cŵn a chathod). Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r farn bod trapiau glud hefyd yn annynol; yn aml maent yn achosi dioddefaint meddyliol a chorfforol estynedig i anifeiliaid sy'n cael eu dal. Mae achosion yn y gorffennol wedi cynnwys anifeiliaid anwes ac anifeiliaid gwyllt yn cael eu dal yn ogystal ag anifeiliaid a ystyrir yn 'blâu', ac mae digon o ddulliau amgen, mwy trugarog, o reoli plâu ar gael.

## ***Lles Diwylliannol***

8.8. Nod Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer diwylliant yw 'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden'.

8.9. Mae'r Bil yn gosod amcan strategol i warchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, i hyrwyddo mynediad y cyhoedd atynt ac ymgysylltiad y cyhoedd â nhw a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni; felly mae diwylliant a threftadaeth yn ganolog i ddyfodol ffermio yng Nghymru. Yn ogystal, bydd y pwerau ar gyfer cymorth yn y dyfodol yn galluogi Gweinidogion i gefnogi camau gweithredu'n uniongyrchol o dan y dibenion, gan gynnwys "Gwarchod a gwella tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol", "Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd at gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol a'u hymgysylltiad â nhw" a "Chynnal yr iaith Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.".

8.10. Bwriad y Bil, trwy amcanion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yw cefnogi prosesau cynhyrchu bwyd cynaliadwy a busnesau amaethyddol gwydn yn y cymunedau a'r economïau lleol lle maen nhw'n gweithredu. Bydd yn helpu i sicrhau bod ffermydd a thir Cymru yn parhau i fod yn un o gonglfeini diwylliant Cymru ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Bydd yn sicrhau y gellir rhoi cymorth uniongyrchol i'r camau sy'n gwarchod a gwella ein diwylliant a'n treftadaeth, gan gynnwys y Gymraeg, yn unol â'r amcanion strategol.

8.11. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth y bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfranogiad pobl yn y celfyddydau neu mewn chwaraeon. O ran hamdden, fodd bynnag, disgwylir i'r gwaith o Reoli Tir yn Gynaliadwy a'r pwerau cymorth alluogi manteision cymedrol i bobl Cymru, gan y bydd y Bil yn sicrhau y gellir cefnogi mwy o gyfleoedd i gael mynediad at gefn gwlad, a chael mwynhad ohono. Bydd hyn yn cyfrannu at fwy o ymwybyddiaeth a mwynhad o asedau treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol.

8.12. Mae potensial ar gyfer is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â darpariaethau safonau marchnata i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu a gwerthu bwyd a nwyddau eraill o Gymru a wneir o gynhyrchion amaethyddol, sy'n rhan o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

8.13. Bydd darpariaethau sy'n galluogi mesurau ymyrraeth yn y farchnad yn cael eu defnyddio er mwyn atal busnesau rhag methu ar raddfa eang o ganlyniad i amharu ar y farchnad ar raddfa fawr. Byddai atal cau nifer fawr o ffermydd ar yr un pryd yn diogelu'r diwylliant a'r dreftadaeth sydd ynghlwm wrth ffermio yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys dulliau ffermio a rheoli tirwedd, yn ogystal â thafodieithoedd a therminoleg sy'n benodol i'r sector yn y Gymraeg a ddefnyddir gan ffermwyr a'u teuluoedd.

## *Lles Economaidd*

8.14. Bwriad Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) yw cael effaith gadarnhaol ar fusnesau fferm a chefnogi sector gwydn nawr ac yn y tymor hir. Disgwylir y bydd mabwysiadu SLM fel fframwaith polisi'r dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru yn cael effaith gadarnhaol ar fusnesau fferm. Nod y cymorth yw cynnal a gwella cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol, a chymdeithasol busnesau fferm yng Nghymru. Yn benodol, ceir diben ar gyfer "Gwella cadernid busnesau amaethyddol", ac mewn llawer o achosion, gallai ariannu'r dibenion eraill drwy weithredu ar y fferm gynyddu cynhyrchiant y sector gan leihau costau yr un pryd.

8.15. Rydym yn cydnabod y gallai symud o'r system bresennol sy'n seiliedig ar hawliau i un sy'n seiliedig ar gymorth i gyflawni SLM effeithio ar fusnesau fferm yn wahanol. Felly, bydd cyfnod pontio wedi'i reoli rhwng y system bresennol o gymorth a'r SFS arfaethedig er mwyn osgoi ansicrwydd ac i atal taliadau rhag dod i ben yn ddisymwth.

8.16. Mae gan y gwaith o ddarparu cymorth o dan ddibenion fel gwella mynediad ac ymgysylltu, a dŵr glanach, y potensial i ddod â budd economaidd i Gymru drwy hamdden a thwristiaeth. Nodwyd bod ansawdd cefn gwlad a thirwedd Cymru yn gymhelliad pwysig i ymwelwyr yn Arolwg Ymwelwyr Cymru.

8.17. Rydym yn disgwyl i'r broses o weithredu SLM gael effaith gadarnhaol ar y sector cyhoeddus drwy leihau costau, er enghraifft mewn perthynas ag ymateb i ddigwyddiadau o lygredd amaethyddol neu achosion o glefydau.

8.18. Ar hyn o bryd, nid ydym yn disgwyl i gynigion y fframwaith SLM effeithio yn gadarnhaol nac yn negyddol ar y trydydd sector.

8.19. Caiff amodau llinell sylfaen eu cymhwyso i bob trwydded gwympo er mwyn cysoni trefn y trwyddedau cwympo â deddfwriaeth amgylcheddol arall. Mae eisoes yn ofynnol i'r sector coedwigaeth gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol arall felly ni ddylai fod costau ychwanegol yn deillio o gymhwyso'r amodau llinell sylfaen, ond fe fydd yn ffurfioli cydymffurfiaeth o fewn y drefn ar gyfer trwyddedau cwympo coed. Gall costau gwneud cais am drwyddedau cwympo coed i ymgeiswyr gynyddu ond maent yn dibynnu ar amodau'r safle unigol. Gall costau cydymffurfio â mwy o amodau sy'n benodol i'r safle mewn trwyddedau cwympo coed fod yn amrywiol iawn, fodd bynnag rydym yn disgwyl i'r pwerau hyn gael eu defnyddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) dim ond lle bo angen a dylent fod yn gymesur yn unol ag egwyddorion Cyfraith Gyhoeddus, cod y rheoleiddwyr ac Egwyddorion Rheoleiddio CNC ei hun.

8.20. Bydd y darpariaethau safonau marchnata yn cael effaith nodedig ar fusnes. Mae dadansoddiad cost a budd manwl o'r cynnig hwn wedi'i wneud fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys costau'r sector preifat a'r sector cyhoeddus.

8.21. Mae darpariaethau sy'n rhoi'r pŵer i Lywodraeth Cymru ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol yn debygol o gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar fusnesau, gan nad pwrpas y pwerau yw cynnal busnesau aneffeithlon. Yn hytrach cânt eu defnyddio pan fo argyfwng sy'n effeithio ar sector penodol.

## *Effaith ar y System Gyfiawnder*

8.22. Bydd gwahardd maglau a thrapiau glud yn creu dwy drosedd newydd yn ogystal â chosbau cysylltiedig. Mae effeithiau disgwyliedig ar y system cyfiawnder troseddol wedi cael eu hystyried gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sydd wedi dod i'r casgliad mai ychydig iawn o effaith a fyddai neu dim effaith o gwbl. Bydd copi o'r ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder ar gael pan gyflwynir y Bill.

8.23. Mae'r darpariaethau coedwigaeth yn creu trosedd newydd pan na fydd camau wedi'u cymryd i unioni tramgwydd. Gall peidio â chydymffurfio ag elfennau eraill nad ydynt yn ymwneud â'r camau gofynnol, mewn hysbysiadau a roddir i orfodi'r pwerau newydd, arwain at ddirwy o dan adran 17 "Cosb am gwympo coed heb drwydded". Nid yw hon yn drosedd newydd. Fodd bynnag, bydd yr amgylchiadau lle mae'r drosedd yn codi nawr yn ehangach gan y bydd yn cwmpasu hefyd y rhai nad ydynt wedi cydymffurfio â hysbysiad a roddir o dan y pwerau newydd, er enghraifft lle bo'u trwydded cwympo coed wedi'i hatal neu ei ddirymu. Mae lefel y ddirwy o dan adran 17 wedi'i diwygio i "ddirwy ddiderfyn" yn unol ag adran 24 o'r Ddeddf ac yn unol â'r drosedd newydd a amlinellir uchod er mwyn bod yn ataliad fwy effeithiol.

8.24. Ceir y lefel hon o ddirwy hefyd yn Lloegr. Mae darpariaeth wedi'i gwneud sy'n caniatáu'r potensial i dalu iawndal os caiff hysbysiad a gyflwynir i ddiwygio, atal neu ddirymu trwydded (waeth pa amodau a dorrir ac os nad oes bai) ei ganslo'n ddiweddarach o ganlyniad i apêl lwyddiannus.  Gellir digolledu am ddibrisiant yng ngwerth pren a/neu dreuliau rhesymol, yn dibynnu ar y math o hysbysiad a ganslwyd. Yn unol ag egwyddorion Cyfraith Gyhoeddus a'i Egwyddorion Rheoleiddio, bydd CNC yn gweithio gyda deiliaid trwydded cwympo i gytuno ar waith lliniaru neu adfer drwy welliannau er mwyn lleihau nifer yr apelau ac iawndal posibl.

8.25. Bydd copi o'r ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder ar gael pan gyflwynir y Bill.

### *Lles Amgylcheddol*

8.26. Bydd Gosod SLM fel fframwaith polisi'r dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru yn helpu i gyflawni pob un o'r tair Blaenoriaeth Genedlaethol fel y'u nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol; y rhain yw dod o hyd atebion seiliedig ar natur, cynyddu ynni adnewyddadwy a dulliau o ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, a mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar leoedd wrth wneud hynny.

8.27. Mae Senedd Cymru wedi cymeradwyo targed sero net ar gyfer 2050, gyda thargedau interim ar gyfer 2030 a 2040, a chyfres o gyllidebau carbon 5 mlynedd.

8.28. Nod y Bil yw cael effaith gadarnhaol ar les amgylcheddol mewn sawl ffordd. Mae'r nodau strategol yn cynnwys lliniaru i'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, yn ogystal â chynnal a gwella gwytnwch ecosystemau.

8.29. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn a'n targedau cenedlaethol, mae'r dibenion ar gyfer cymorth yn y dyfodol yn cynnwys dal a storio cymaint o garbon ag sy'n bosibl, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau, diogelu tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol, a chynhyrchu bwyd mewn modd sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol. Gellid disgwyl i sawl un o'r dibenion eraill effeithio'n gadarnhaol ar les amgylcheddol hefyd.

8.30. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod amaethyddiaeth a chymunedau gwledig yn ehangach yn arbennig o agored i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Os na chymerir camau i fynd i'r afael â heriau'r argyfyngau hinsawdd a natur, mae'r broses o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a gwydnwch economïau a chymunedau gwledig mewn perygl. Rydym yn disgwyl i'r Bil gael effaith gadarnhaol, ac i ffermwyr sy'n derbyn cymorth yn y dyfodol, rydym yn disgwyl i'r Bil gael effaith sylweddol ar eu gallu i addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd fel cynnydd mewn tymheredd, gwyntoedd cryfach, mwy o law, a phatrymau tywydd mwy anrhagweladwy.

### *Hawliau Plant*

8.31. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

8.32. Mae UNICEF wedi datgan bod yr argyfwng hinsawdd yn argyfwng hawliau plant. Mae hawliau sylfaenol mynediad at ddŵr glân, aer glân ac iechyd dan fygythiad oherwydd newid hinsawdd ac mae plant yn agored i niwed mewn modd anghymesur. Mae'r DU wedi cael ei sgôr 'canolig' ar y mynegai risg oherwydd cysylltiad uchel â sioc a pheryglon amgylcheddol, sy'n dangos bod hawliau plant yn y DU dan fygythiad oherwydd newid hinsawdd.

8.33. Felly, dylai unrhyw gamau a gymerir i liniaru'r newid yn yr hinsawdd a lleihau cysylltiad â pheryglon llygredd aer a thywydd eithafol leihau felly'r bygythiadau i hawliau plant yng Nghymru a gwella lles. Mae'r Bil yn gosod lliniaru’r newid yn yr hinsawdd fel un o amcanion strategol SLM. Bydd hyn yn sicrhau bod yr argyfwng hinsawdd yn cael sylw wrth gefnogi a rheoleiddio amaethyddiaeth yn y dyfodol. Bydd yr un diben ar ddeg ar gyfer cymorth yn sicrhau y gellir gweithredu'n uniongyrchol er mwyn lliniaru'r risg hon ac felly dylai fod o fudd cadarnhaol i blant.

8.34. Mae plant mewn ardaloedd gwledig yn debygol o fod yn fwy agored i effeithiau tywydd eithafol fel llifogydd. Bydd SLM a phwerau cymorth yn sicrhau y gellir cefnogi gweithredoedd i liniaru yn erbyn y digwyddiadau hyn ac felly gallai plant yn yr ardaloedd hyn yn benodol elwa. Yn ogystal, disgwylir i blant mewn ardaloedd gwledig elwa o wytnwch cynyddol cymunedau gwledig a chynaliadwyedd y sector amaethyddol dros y tymor hir.

### *Cydraddoldeb*

8.35. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i roi sylw dyledus i'r angen i ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai heb nodwedd warchodedig.

8.36. Cynhaliwyd Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Bil hwn. Mae wedi dangos nad yw'r cynigion yn eu cyfanrwydd yn debygol o effeithio'n andwyol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

8.37. Er hynny, mae wedi nodi bod gwahaniaethau demograffig rhwng poblogaethau trefol a gwledig yng Nghymru, a bod ffermwyr yng Nghymru yn fwy tebygol o feddu ar nodweddion penodol o gymharu â phoblogaeth Cymru yn ei chyfanrwydd. Mae'n bwysig felly i ystyried i ba raddau y bydd effeithiau disgwyliedig y Bil yn cael eu teimlo gan wahanol gymunedau yng Nghymru.

8.38. Disgwylir i'r broses o osod Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) fel fframwaith polisi'r dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru gefnogi cynaliadwyedd ffermydd Cymru yn amgylcheddol ac o ran busnes. Dylai hyn effeithio'n gadarnhaol ar bobl ifanc yn y gymuned amaethyddol, gan sicrhau y gellir eu denu i aros ar eu ffermydd teuluol ac yn eu cymunedau lleol. Dylai hyn fod o fudd i ffermwyr hŷn hefyd a allai fod yn poeni am y trefniadau olyniaeth ar gyfer eu fferm.

8.39. Mae dros ddwy ran o dair o ffermwyr Cymru dros 55 oed, ac felly bydd y Bil yn effeithio ar bobl hŷn yn fwy na phobl ifanc. Rydym wedi nodi allgáu digidol, llai o barodrwydd i fabwysiadau technoleg newydd, a heriau corfforol fel elfennau a allai rwystro ffermwyr hŷn rhag gweithredu arferion SLM a chymryd rhan yn y SFS arfaethedig, a byddwn yn ceisio lliniaru'r materion hyn wrth i gynigion polisi ddatblygu.

8.40. Mae pobl ifanc sy'n ymuno â'r byd ffermio o'r newydd yn wynebu heriau fel mynediad at dir a mynediad at gyllid. Rydym yn parhau i ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol a byddwn yn ystyried sut i adeiladu ar y cynnig presennol i bobl ifanc wrth i ni ddatblygu ein cynigion ar gyfer y cynllun a chymorth a chyngor i'r dyfodol.

8.41. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dilyn y Cyfrifiad yn dangos bod pobl sy'n perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi'u crynhoi i raddau helaeth mewn ardaloedd trefol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y byddant yn llai tebygol o brofi rhai o effeithiau'r Bil, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol. Er enghraifft, mae gan fynediad gwell i gefn gwlad y potensial i fod o fudd anghymesur i'r rhai sy'n byw mewn amgylcheddau gwledig neu sydd â'r modd i gael mynediad iddynt. Mae gwahaniaethau hysbys o ran mynediad i gefn gwlad rhwng grwpiau ethnig; mae angen rhagor o waith er mwyn deall y rhain a mynd i'r afael â nhw.

8.42. Mae ffermio yn parhau i fod yn ddiwydiant i ddynion yn bennaf yng Nghymru, ond mae amcangyfrifon arolygon yn dangos bod nifer y menywod sy’n ffermio yng Nghymru wedi mwy na dyblu ers 2001. Yn ogystal, mae natur ffermydd fel busnesau teuluol yn golygu bod menywod yn gwneud gwaith hanfodol yn y busnes yn aml hyd yn oed os nad ydynt ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau ffermio. Bydd y Bil yn berthnasol i bob fferm yng Nghymru yn yr un modd, ac ni ddisgwylir unrhyw effeithiau negyddol penodol o safbwynt rhyw a rhywedd.

8.43. Bydd y darpariaethau sy'n ymwneud â thenantiaethau yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng landlordiaid a thenantiaid drwy gymell trafodaeth a chytundebau a drafodwyd er mwyn osgoi costau datrys anghydfod, gan ddarparu'r un pryd dewis deddfwriaethol

arall i'r rhai na allant ddod i gytundeb rhesymol. Mae'n bosibl os yw'r darpariaethau'n ymddangos yn orgymhleth neu'n feichus, gallai hyn atal rhai pobl mewn grwpiau gwarchodedig rhag eu defnyddio. Fodd bynnag, mae canllawiau a arweinir gan y diwydiant yn hygyrch iawn i denantiaid, landlordiaid a chynghorwyr proffesiynol drwy gyrff sy'n cynrychioli'r diwydiant.

### ***Prawfesur Gwledig***

8.44. Tra bod y Bil yn ymwneud yn benodol â'r diwydiant amaethyddol, mae tua 90% o'r tir yng Nghymru yn dir fferm neu dir comin, gyda ffermydd yn cynnig budd economaidd a chymdeithasol i'w cymunedau. Y disgwyl felly yw y bydd y Bil yn cael effaith ar gefn gwlad Cymru y tu hwnt i gât y fferm, ac mae’r Bil yn cynnwys diben penodol ar gyfer cymorth i *“helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau’r cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a’u cymunedau.”*

8.45. Mae manteision iechyd cadarnhaol cymunedau gwledig yn cynnwys aer a dŵr glanach oherwydd llai o lygredd amaethyddol, a mwy o gyfleoedd i fwynhau manteision byd natur drwy fynediad gwell i'r tir o'u cwmpas.

8.46. Nod Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) yw cael cydbwysedd rhwng anghenion economaidd, cymdeithasol, a diwylliannol ochr yn ochr â chanlyniadau amgylcheddol. Bwriad y dull hwn yw cefnogi gwydnwch cymunedau gwledig, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, gan y bydd ffermwyr yn cael cymorth i ffermio'n gynaliadwy ac aros ar eu tir, gan felly gynnal y cyfalaf cymdeithasol o fewn cymunedau gwledig.

8.47. Wrth i ni ddylunio'r SFS yn y dyfodol, rydym yn archwilio ffyrdd y gallwn ddarparu cymorth ar gyfer y diwydiant ehangach a'r gadwyn gyflenwi y tu hwnt i gât y fferm, ar gyfer gweithgarwch sy'n bodloni'r diffiniad o weithgareddau ategol ac amcanion strategol y Bil. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fusnesau gwledig a'r gymuned wledig ehangach.

8.48. Gallai darpariaethau sy'n ymwneud â safonau marchnata arwain at newid deddfwriaeth yn y dyfodol ar gyfer cynhyrchion amaethyddol, ac o ganlyniad byddai newidiadau i'r ffordd y caiff busnesau bwyd ac amaeth eu rhedeg. Nid oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i newid safonau marchnata ar hyn o bryd. Gall newidiadau o'r fath fod yn anoddach i fusnesau bach a chanolig mewn ardaloedd gwledig addasu iddynt, gan fod ffermydd Cymru yn aml yn cyflogi nifer isel iawn o staff, a’u bod yn wynebu problemau wrth geisio defnyddio gwasanaethau oherwydd eu lleoliad anghysbell. Fodd bynnag, gallai newidiadau sy'n gwella effeithlonrwydd

cadwyni cyflenwi, neu sy'n rhoi hwb i hyder defnyddwyr mewn cynnyrch amaethyddol, ddod â budd ariannol i fusnesau gwledig.

8.49. Bydd y pŵer i ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol yn galluogi Llywodraeth Cymru i leihau ergydion o ganlyniad i ddigwyddiadau eithafol y farchnad. Pe bai sawl busnes fferm yn methu ar yr un pryd yn absenoldeb cefnogaeth o'r fath, mae'n debygol y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar gydlyniad cymunedol gwledig, y Gymraeg a diwylliant gwledig Cymru. Byddai'r effeithiau anuniongyrchol hyn yn ychwanegol at effeithiau economaidd amlwg wrth i fusnesau fethu ar raddfa mor eang.

### *Diogelu Data*

8.50. Ar hyn o bryd mae Deddf Amaethyddiaeth (Y DU) 2020 yn rhoi pwerau casglu a rhannu data i Weinidogion Cymru (Atodlen 5, Rhan 3, paragraffau 10 – 15). Bydd y pwerau hyn yn dod i ben, yn ‘machlud’, ar 31 Rhagfyr 2024 ac felly mae angen rhoi darpariaeth briodol yn eu lle ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru). Mae'r Bil yn rhoi parhad i'r pwerau hyn, ond mae'r cwmpas posibl yn cael ei ehangu.

8.51. Bydd y newidiadau'n sicrhau y gellir cael parhad a chysondeb wrth gasglu data a byddant yn sicrhau ein bod yn gallu casglu gwybodaeth am yr holl dir sy'n cael ei ffermio a'i gadwyn gyflenwi gysylltiedig, waeth beth fo cyrchfan yr allbwn ar ôl gadael y fferm. Mae data cyson yn arbennig o bwysig i Lywodraeth Cymru ymyrryd â chymorth ariannol os oes amodau eithriadol yn y farchnad.

8.52. Rydym o'r farn y bydd yr effeithiau ar unigolion a busnesau yn fach, ond mae'r pwerau'n bwysig fel y gall Llywodraeth Cymru fonitro amaethyddiaeth yn effeithiol a darparu cymorth.

8.53. Bwriad y Bil yw darparu sail gyfreithiol ar gyfer casglu data yn y dyfodol yn y maes hwn. Pe bai'r sail gyfreithiol hon yn cael ei defnyddio ar gyfer casglu data yn y dyfodol, byddai angen is-ddeddfwriaeth ar gyfer unrhyw reoleiddio casglu data a fyddai'n cynnwys ymgynghori ac Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data. Byddai angen cyhoeddi cynnig drafft ar gyfer unrhyw ofyniad i gasglu data a byddai angen sicrhau amser ar gyfer adborth.

8.54. Rydym yn parhau i ymgynghori â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a bydd y broses hon yn parhau ar gyfer cyflwyno unrhyw is-ddeddfwriaeth ddilynol. Mae proses sgrinio mewn perthynas ag Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi'i chwblhau ac nid oes angen asesiad llawn o'r fath ar hyn o bryd.

## *Y Gymraeg*

8.55. Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050. Mae'n ddyletswydd statudol arnom i roi ystyriaeth lawn i effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg ac mae'n rhaid i ni ystyried sut mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rhai sy'n ei siarad.

8.56. Er gwaethaf y ffaith bod y sector amaethyddol yn fach o ran maint (2% o'r holl weithwyr yng Nghymru), mae amaethyddiaeth yn cyfrif am gyfran gymharol fwy o'r holl siaradwyr Cymraeg (5% o'r holl siaradwyr). Y sector amaethyddiaeth (gan gynnwys pysgota a choedwigaeth) sydd â'r gyfran uchaf o weithwyr Cymraeg eu hiaith yng Nghymru sef 43%, o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer gweithwyr ar draws pob sector sef 17%.

8.57. Ceir tystiolaeth bod busnesau bwyd-amaeth, gan gynnwys amaethyddiaeth, yng Nghymru yn cynnig amodau mwy ffafriol i ddefnyddio'r Gymraeg o gymharu â diwydiannau eraill, gyda chyfrannau uchel o'r gweithlu nid yn unig yn gallu siarad Cymraeg, ond yn ei defnyddio yn y gweithle. Mae ymchwil yn dangos bod bron i ddwy ran o dair (65%) o Gymry Cymraeg ar ffermydd bach a bach iawn yng Nghymru yn siarad yr iaith yn ddyddiol.

8.58. O ystyried y gyfran gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg mewn amaethyddiaeth, pa mor gyffredin yw'r Gymraeg ar ffermydd teuluol bach, a'r dystiolaeth bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio bob dydd yn y diwydiant, mae potensial y gallai'r Bil gael effaith amlwg ar y Gymraeg.

8.59. Bwriad y Bil a'r SFS arfaethedig yw gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd a'r Argyfwng Natur mewn ffordd sy'n fuddiol i ffermydd a chymunedau gwledig. Mae pedwaredd amcan SLM yn y Bil yn nodi'r nod penodol o gynnal, hyrwyddo, a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ochr yn ochr â chadwraeth a gwella adnoddau diwylliannol yn ehangach. Mae'n rhaid i ddatblygiad unrhyw gefnogaeth amaethyddol yn y dyfodol ystyried holl amcanion SLM ac felly mae'r Gymraeg yn elfen allweddol o fframwaith polisi amaethyddol Cymru yn y dyfodol. Yn ogystal, ceir diben ar gyfer rhagor o gymorth i *"gynnal yr iaith Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd."*

8.60. Nod y Bil yw cefnogi gwydnwch busnesau fferm yn y tymor hir, gan gyfrannu at gyflogaeth i siaradwyr Cymraeg iau nawr ac yn y dyfodol, ar ffermydd ac mewn busnesau lleol, gan felly gefnogi'r diwydiant amaethyddol a chymunedau gwledig ehangach.

8.61. Bydd y gwasanaeth cynghori a fydd yn cyd-fynd â'r SFS arfaethedig yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog, yn unol â Safonau'r Gymraeg ac i gefnogi Cymraeg 2050. Bydd hyn yn rhoi cyfle i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr y Gymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac yn fwy anffurfiol gyda chyfoedion, gan helpu i sicrhau bod defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd bob dydd.

8.62. Mae gan ail-strwythuro'r diwydiant, yn enwedig unrhyw symudiad tuag at lai o ffermydd yn ffermio arwynebeddau mwy, y potensial i effeithio'n negyddol ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg. Mae'r SFS arfaethedig yn cael ei gynllunio ar yr egwyddor y dylai fod ar gael i bob math o ffermydd. Rydym yn ystyried sut y gallwn strwythuro taliadau, er enghraifft drwy gapio, er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n deg. Bydd cyfnod o bontio rhwng y system bresennol o gymorth a chyn i unrhyw gynllun gael ei gyflwyno yn y dyfodol er mwyn sicrhau y gall ffermydd addasu a gwneud yn siŵr nad yw taliadau'n cael eu diddymu'n ddisymwth.

8.63. Hyd yma, mae tri ymgynghoriad a chyfnod o gyd-ddylunio wedi eu cwblhau ar ddyfodol cymorth amaethyddol yng Nghymru. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried effaith ein cynigion ar y Gymraeg ac mae eu hatebion wedi helpu i lunio'r Bil ac wedi helpu gyda'r gwaith o ddylunio'r cynllun arfaethedig. Bydd canlyniadau’r rhaglen wedi’i chyd-ddylunio yn helpu i sicrhau bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl o ran y Gymraeg yn cael eu nodi ac yr eir i'r afael â nhw mor gynnar â phosibl.

## *Bioamrywiaeth*

8.64. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchelgais clir i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru. Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 wedi ymrwymo i 'ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn'.

8.65. Nod y Bil yw cael effeithiau cadarnhaol, uniongyrchol ar fioamrywiaeth, drwy'r fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM). Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ddarparu cymorth i amaethyddiaeth a'i reoleiddio mewn ffordd sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion SLM yn eu tyb nhw. Un o amcanion strategol y Bil yw "*Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion a ddaw yn eu sgil,"* tra bod "*Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau*" yn un o'r dibenion y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu darparu cymorth ar ei gyfer.

8.66. Disgwylir i'r Bil gefnogi'r ddarpariaeth gynyddol o gynefinoedd gweithredol drwy alluogi cymorth ar gyfer cynnal a gwella cyflwr cynefinoedd, amrywiaeth a gwytnwch ecolegol cynefinoedd lled-naturiol, coetiroedd fferm a choed a gwrychoedd eraill ar dir y fferm. Bydd y Bil yn sicrhau y gellir hefyd gynnal a chadw a chreu nodweddion tirwedd sy'n darparu cynefinoedd pwysig i fywyd gwyllt ar yr holl dir amaethyddol ledled Cymru a bydd yn diogelu amddiffyniadau i'r cynefinoedd hyn a allai fod wedi cael eu colli fel arall.

8.67. Mae'r Bil yn gosod "*Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol a’u hymgysylltiad â nhw*" fel un o ddibenion SLM y gellir darparu cymorth ar ei gyfer. Drwy hyn, gellir rhoi gwell cyfle i bobl fwynhau'r awyr agored a gwella eu dealltwriaeth o fioamrywiaeth Cymru.

8.68. Yn dibynnu ar y defnydd ac ymddygiad y cyhoedd, gall gwell mynediad fod yn risg i fioamrywiaeth a gall gael effeithiau negyddol ar gynhyrchu bwyd, ac felly dylai darparu cymorth ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu hefyd helpu i hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a lleihau'r potensial ar gyfer effeithiau negyddol yn sgil mynediad gwell.

8.69. Mae'r Bil yn cyflwyno'r gofyniad i fonitro ac adrodd ar gyflawni SLM a'r dibenion SLM a ariennir o dan bwerau cymorth, gan gynnwys mewn perthynas â bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau. Bydd cynlluniau’r dyfodol yn destun prosesau monitro a gwerthuso cadarn a bydd y canfyddiadau ar gael i'r cyhoedd.

## *Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol*

8.70. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas ac mae'n cwmpasu ffactorau amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys incwm a chyfoeth, ond hefyd amddifadedd mewn perthynas â ffactorau fel gwaith, iechyd, a'r amgylchedd ffisegol.

8.71. Er bod ffermwyr fel arfer yn perthyn i fan canol dosbarthiad economaidd-gymdeithasol yr Ystadegau Gwladol (NS-SEC), mae yna amrywiaeth eang o brofiad ymhlith ffermwyr o ran incwm yn benodol, a fydd yn pennu eu hamgylchiadau economaidd ac yn effeithio ar eu safon byw a chanlyniadau eraill.

8.72. Ar gyfer cymunedau gwledig yng Nghymru yn fwy cyffredinol, mae'r darlun o ran mesurau amddifadedd yn un cymysg, gyda chanlyniadau gwell yn gyffredinol ym meysydd iechyd ac addysg, canlyniadau mwy gwael ym maes mynediad at

wasanaethau, a chanlyniadau mwy cynnil ym meysydd incwm, cyflogaeth, tai, yr amgylchedd ffisegol, a diogelwch cymunedol.

8.73. Mae'r Bil yn mynd i'r afael â mesurau anfantais ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol drwy'r pwerau i gefnogi ffermwyr i gyflawni'r canlyniadau rydym yn eu ceisio, gan gynnwys gwell canlyniadau iechyd i bobl Cymru, llai o berygl o lifogydd a sychder, a mynediad gwell i gefn gwlad.

8.74. Ni ddisgwylir y bydd y Bil yn effeithio ar unrhyw un mewn modd sy'n gwaethygu anghydraddoldeb canlyniadau oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol. Er hynny, rydym yn cydnabod bod y Bil yn newid sylweddol ym mholisi amaethyddol Cymru, a bydd angen ystyried hyn wrth i gynigion ar gyfer y SFS gael eu datblygu. Bydd cyfnod pontio wedi'i reoli felly rhwng y system bresennol o gymorth a'r SFS arfaethedig er mwyn osgoi ansicrwydd ac er mwyn osgoi i daliadau gael eu diddymu'n ddisymwth.

8.75. Mae aelwydydd sy'n wynebu amddifadedd yn debygol o'i chael hi'n anoddach gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd a cholledion mewn bioamrywiaeth yn y dyfodol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi bod ffermwyr a gweithwyr amaethyddol ymhlith y rhai y bydd y pethau hyn yn effeithio fwyaf ar eu galwedigaeth. Bwriad y Bil yw mynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd a bydd y dibenion ar gyfer cymorth yn y dyfodol yn sicrhau y gellir targedu materion penodol fel llygredd aer, llygredd dŵr, a risg llifogydd. Wrth i ni gynllunio'r SFS arfaethedig, rydym yn archwilio nifer o gamau SLM a fydd yn helpu ffermwyr i leihau eu costau, gan gael effaith gadarnhaol ar incwm ffermwyr.

# Pennod 9 - Adolygiad ôl-weithredu

## *Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) a Chymorth yn y Dyfodol*

9.1. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi adroddiad bob pum mlynedd yn nodi eu hasesiad o (a) y cynnydd cronnus a wnaed ers i'r ddyletswydd SLM ddod i rym tuag at gyflawni'r amcanion SLM drwy arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt a (b) y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd tuag at gyflawni'r amcanion hynny drwy arfer y swyddogaethau hynny. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi *Datganiad o Ddangosyddion a Thargedau* i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion SLM. Rhaid i'r adroddiad nodi (ymysg pethau eraill) y cynnydd a wnaed tuag at y dangosyddion a'r targedau.

9.2. Adroddir yn erbyn pob cynllun cymorth (ariannol neu fel arall). Mae dwy lefel o adrodd gorfodol, *Adroddiad Blynyddol* ac *Adroddiad Effaith*. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cyfleu'r agwedd ariannol ar y pŵer cymorth, faint o arian sydd wedi'i wario, ar beth ac i bwy. Bydd angen cwblhau'r Adroddiad Effaith bob pum mlynedd er mwyn asesu effaith yr holl gymorth. Bydd strategaeth fonitro a gwerthuso yn sail i hwn. Bydd yn edrych ar effaith pob cynllun o ran cyflawni'r amcanion SLM, a yw'r cynllun(iau) yn addas i'r diben a'r hyn y gall fod angen ei newid i adlewyrchu'r effaith ddymunol.

9.3. Mae'r darpariaethau'n ceisio sicrhau gweithrediad effeithiol ac atebolrwydd ac ymgysylltiad priodol â'r Senedd, grwpiau â buddiant ac eraill. Mae'r darpariaethau'n bwysig i asesu effeithiolrwydd polisi ac i ddarparu sylfaen dystiolaeth bwysig a datblygol ar gyfer datblygu polisi parhaus.

## *Ymyrryd mewn Marchnadoedd Amaethyddol*

9.4. Ni fydd adolygiad ôl-weithredu strwythuredig. Os bydd y pwerau'n cael eu defnyddio i ddatgan amodau eithriadol yn y farchnad, ac er mwyn i gynlluniau cymorth ariannol gael eu lansio wedi hynny, bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu effaith y pwerau ac mewn sefyllfa i argymell unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

### *Tenantiaethau Amaethyddol*

9.5. Ar ôl ei weithredu, byddwn yn monitro effaith y darpariaethau drwy ymgysylltiad parhaus â chynrychiolwyr y diwydiant drwy'r Grŵp y Diwydiant ar Ddiwygio Tenantiaethau (TRIG). Bydd yr wybodaeth hon yn sail i'r angen am unrhyw ddiwygiadau i'r is-ddeddfwriaeth.

### *Safonau Marchnata*

9.6. Ni fydd adolygiad ôl-weithredu strwythuredig. Os bydd y pwerau'n cael eu defnyddio i greu is-ddeddfwriaeth ar safonau marchnata ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwyd, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu effaith y pwerau ac mewn sefyllfa i argymell unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

### *Dosbarthu Carcasau*

9.7. Ni fydd adolygiad ôl-weithredu strwythuredig. Os bydd y pwerau'n cael eu defnyddio i greu is-ddeddfwriaeth ar ddosbarthu carcasau, bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu effaith y pwerau ac mewn sefyllfa i argymell unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

### *Coedwigaeth*

9.8. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth o fewn 3 blynedd i gychwyn diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967. Bydd hynny'n cynnwys adolygu'r modd y mae CNC yn rhoi'r pwerau ar waith ac archwiliad o ba mor aml y ceir achosion a beth yw eu gwir gostau cysylltiedig er mwyn deall yn well sut mae'r pwerau'n cael eu gweithredu a'u costau. Byddwn yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a rhanddeiliaid i gytuno ar gasgliad o ddata perthnasol er mwyn monitro effaith y darpariaethau. Lle bynnag y bo modd, bydd y broses casglu data yn cyd-fynd â gweithgarwch presennol neu waith perthnasol arall.

## *Maglau a Thrapiau Glud*

9.9. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer y Cydgysylltydd Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt, rôl heddlu sy'n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y pedwar heddlu yng Nghymru. Bydd y gwaith o asesu effeithiolrwydd y gwaharddiad ar faglau a thrapiau glud yn rhan o waith y Cydgysylltydd. Bydd cyfleoedd hefyd i gynrychiolwyr y sector roi tystiolaeth ar sut mae pob gwaharddiad yn gweithio'n ymarferol.

## Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

# BIL AMAETHYDDIAETH (CYMRU)

---

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ("y Bil") fel y'i cyflwynwyd i Senedd Cymru ar 26 Medi 2022.

2. Fe'u lluniwyd gan Adran Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil, a phan na fo angen esboniad na sylw ar adran unigol o'r Bil, nis rhoddir.

### TROSOLWG CYFFREDINOL O'R BIL

4. Mae'r Bil yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy ("RhTG") yng Nghymru.

5. Mae'r Bil yn sefydlu'r amcanion RhTG yn fframwaith trosfwaol ar gyfer polisi amaethyddol, gan ei fod yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer swyddogaethau penodol yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Gwneir darpariaeth ar gyfer monitro ac adrodd manwl: y bwriad yw caniatáu asesu cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion, darparu sylfaen dystiolaeth bwysig, a hwyluso craffu ac atebolrwydd.

6. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth, ac mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth. Mae'r Bil hwn yn rhestru dibenion penodol y caiff cymorth ei ddarparu ar eu cyfer (er y caiff hefyd ei ddarparu ar gyfer dibenion eraill nad ydynt wedi eu rhestru). Mae'r dibenion hyn yn cynnwys dibenion sy'n ymwneud â chynhyrchu bwyd, newid yn yr hinsawdd, nwyon tŷ gwydr, ansawdd yr aer ac ansawdd dŵr ac iechyd anifeiliaid. Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer o gymorth yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion RhTG. Y bwriad yw y bydd y dull integredig hwn yn galluogi'r cynhyrchiant cynaliadwy o fwyd a nwyddau eraill ochr yn ochr â chyflawni'r camau gweithredu i gefnogi'r amcanion eraill sy'n ymwneud â RhTG.

7. Caniateir hefyd arfer y pŵer o gymorth mewn cysylltiad â gweithgareddau penodol sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth. Diffinnir rhain yn y Bil fel "gweithgareddau ategol".

8. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth arall sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol sy'n disodli'r ddarpariaeth bresennol (sydd â therfyn amser iddi) ar gyfer Cymru yn Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (y cyfeirir ati drwy'r Nodyn Esboniadol hwn fel "Deddf 2020"). (Mae hefyd yn diddymu'r Atodlen honno ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 2020.)

9. Mae'r Bil yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 er mwyn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ganiatáu i denant daliad amaethyddol gael gafael ar weithdrefnau cymrodeddu, pan fo landlord wedi gwrthod cais i amrywio tenantiaeth, neu gais am ganiatâd, a wnaed at ddibenion y tenant i gael mynediad at fathau penodol o gymorth (gan gynnwys cymorth a ddarperir o dan adran 8).

10. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 er mwyn galluogi ychwanegu amodau pellach at drwyddedau cwympo coed ac i alluogi trwyddedau i gael eu diwygio, eu hatal dros dro neu eu dirymu mewn amgylchiadau penodol.

11. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 er mwyn gwahardd y defnydd o faglau (ac atalyddion cebl eraill) a thrapiau glud.

12. Mae'r Bil yn cynnwys 54 o adrannau a 3 Atodlen. Rhennir y Bil i 6 Rhan fel a ganlyn:

**Rhan 1 - Rheoli Tir yn Gynaliadwy**
**Rhan 2 - Cymorth ar gyfer amaethyddiaeth etc.**
**Rhan 3 – Materion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol**
**Rhan 4 - Coedwigaeth**
**Rhan 5 - Bywyd Gwyllt**
**Rhan 6 - Cyffredinol**

**Atodlen 1 – Cynhyrchion amaethyddol sy'n berthnasol i ddarpariaethau safonau marchnata**
**Atodlen 2 - Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol etc. sy'n ymwneud â Rhannau 1 i 3**
**Atodlen 3 – Diwygiadau canlyniadol etc. i'r Rheoliad CMO**

## SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

## RHAN 1 - RHEOLI TIR YN GYNALIADWY

### Yr amcanion

13. Mae'r Rhan hon o'r Bil yn nodi pedwar amcan RhTG ac yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer swyddogaethau penodol yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion hynny. Y nod, wrth wneud hynny, yw sicrhau bod y sector amaethyddol yng Nghymru yn cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy, yn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt, a hefyd yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

14. Mae'r fframwaith RhTG, sy'n cynnwys yr amcanion RhTG a'r ddyletswydd RhTG, wedi ei ddatblygu drwy broses ymgynghori gynhwysfawr a gofnodwyd yn Brexit a'n Tir[396], Ffermio Cynaliadwy a'n Tir[397], a Phapur Gwyn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)[398]. Maent hefyd yn

[396] Brexit a'n Tir - diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru (llyw.cymru) (2018)
[397] Ffermio Cynaliadwy a'n Tir (llyw.cymru) (2019)
[398] Papur Gwyn Amaeth (Cymru) (llyw.cymru) (2020)

cyd-fynd â rhaglenni a mentrau rhyngwladol megis rhaglen y Cenhedloedd Unedig, "Decade on Ecosystem Restoration 2021-2030", a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2019.

**Adran 1 - Yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy**

15. Mae adran 1 yn sefydlu pedwar amcan RhTG.

16. Mae is-adran (2) yn darparu mai'r amcan cyntaf yw cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy. Yn ymarferol, mae hyn yn debygol o ofyn am ganolbwyntio ar gynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol, yn economaidd ac yn gymdeithasol, sy'n hyrwyddo safonau uchel o iechyd a lles anifeiliaid ac sy'n diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i wneud yr un fath.

17. Mae is-adran (3) yn darparu mai'r ail amcan yw lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.

18. Mae lliniaru newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynnwys lleihau newid yn yr hinsawdd drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gweithredol ac allyriadau nwyon tŷ gwydr ymgorfforedig yn ogystal â chynnal a chynyddu gallu'r tir amaethyddol i ddal ac atafaelu carbon. Allyriadau gweithredol yw'r rheini sy'n cael eu hallyrru wrth gwblhau gweithred, ac allyriadau ymgorfforedig yw'r rheini sy'n cael eu hallyrru gan gynnyrch neu ddeunydd wrth eu cynhyrchu a'u cludo (e.e. allyriadau yn sgil cynhyrchu gwrtaith).

19. Mae addasu i newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynnwys gweithredu i leihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Gall y camau gweithredu hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau mewn arferion er mwyn sicrhau'r cynhyrchiant parhaus o fwyd a nwyddau eraill, mesurau rheoli llifogydd yn naturiol a'r defnydd o goed i roi cysgod.

20. Mae is-adran (4) yn darparu mai'r trydydd amcan yw cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu. Gall cynnal gwytnwch ecosystemau ofyn am reoli ecosystemau yn weithredol a chamau gweithredu i atal dirywiad. Gall gwella gwytnwch ecosystemau ofyn am, er enghraifft, fesurau megis creu cynefinoedd a newidiadau mewn arferion (e.e. camau gweithredu yn ymwneud ag ansawdd dŵr).

21. Mae is-adran (6) yn darparu, at ddibenion yr amcan cyntaf, fod y ffactorau sy'n berthnasol i ba un a yw bwyd a nwyddau eraill yn cael eu cynhyrchu mewn modd cynaliadwy yn cynnwys gwytnwch busnesau amaethyddol o fewn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt, ymysg pethau eraill.

22. Mae is-adran (7) yn disgrifio'r ffactorau sy'n berthnasol i wytnwch ecosystemau at ddibenion y trydydd amcan. Gall ecosystemau gwydn, er enghraifft, fod yn fwy bioamrywiol, a all fod o gymorth i arafu a gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth, ac â'r gallu i addasu'n fwy i newid, gan gynnwys effeithiau newid yn yr hinsawdd.

23. Gall y manteision a geir gan ecosystemau gwydn gynnwys, er enghraifft, aer glân, dŵr glân, storio carbon yn well, gwell iechyd pridd a chynnydd ym mhresenoldeb ac effeithiolrwydd peillwyr.

24. Mae is-adran (5) yn darparu mai'r pedwerydd amcan yw cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

25. Mae'r pedwerydd amcan yn ymwneud â diogelu, cynnal a gwella adnoddau diwylliannol a chefn gwlad, a hyrwyddo mynediad ac ymgysylltiad â hwy. Mae cefn gwlad yn cynnwys, er enghraifft, tir amaeth a choetir, yn ogystal â phrydferthwch yr amgylchedd naturiol. Gall adnoddau diwylliannol gynnwys, er enghraifft, safleoedd ac adeiladau hanesyddol. Mae'r amcan hwn hefyd yn ymwneud â chynnal y Gymraeg, er enghraifft drwy gefnogi pobl a chymunedau sy'n defnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn codi ymwybyddiaeth a chyfleoedd i'w defnyddio a'i lledaenu.

26. Mae is-adran (8) yn diffinio "adnoddau diwylliannol" at ddibenion y pedwerydd amcan.

27. Mae is-adrannau (2) i (5) hefyd yn darparu mai wrth wneud pethau sydd wedi eu hanelu at gyflawni pob amcan RhTG, y nod yw (a) diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, a (b) cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Golyga hyn bod cyfrannu at gyflawni pob amcan hefyd yn cyfrannu at ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant o dan adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Y ddyletswydd

### Adran 2 - Dyletswydd Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r amcanion

28. Mae adran 2(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer swyddogaethau penodol yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaeth honno'n briodol.

29. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried pob un o'r pedwar amcan RhTG pan fyddant yn arfer swyddogaeth y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddi, ac wedi hyn, bydd angen arfer y swyddogaeth yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion hynny (i'w hystyried gyda'i gilydd), i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaeth honno'n briodol. Bwriedir i'r amcanion RhTG ategu ei gilydd, ac, mewn rhai achosion, golyga hyn y caiff camau gweithredu eu cymryd sy'n cyfrannu at yr holl amcanion, er nid o reidrwydd yn gyfartal. Mewn achosion eraill, efallai na fydd hyn yn bosibl, er enghraifft, pan nad yw arfer swyddogaeth benodol yn cael unrhyw effaith mewn cysylltiad ag un neu ragor o'r amcanion.

30. Ym mhob achos, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer swyddogaethau perthnasol yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at yr amcanion (i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaeth honno'n briodol). Golyga hyn pan fo mwy nag un opsiwn i Weinidogion Cymru, bydd angen iddynt ddewis yr opsiwn y maent yn ystyried sy'n fwyaf buddiol yn nhermau ei gyfraniad at gyflawni'r amcanion RhTG.

31. Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt wedi eu nodi yn is-adran (2) ac yn ddarostyngedig i'r eithriadau yn adran 3.

32. Mae is-adran (2) yn darparu bod y swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt yn:
- swyddogaethau o dan y Ddeddf hon;
- swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad arall sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ar gyfer (i) amaethyddiaeth, neu

weithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu (ii) gweithgareddau ategol;

- swyddogaethau o dan unrhyw ddeddfiad arall sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i Weinidogion Cymru reoleiddio (i) amaethyddiaeth, neu weithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, neu (ii) gweithgareddau ategol.

33. Diffinnir "amaethyddiaeth" yn adran 48; diffinnir "gweithgaredd ategol" yn adran 49; a diffinnir "swyddogaethau" yn adran 51.

34. Gall gweithgareddau eraill a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth gynnwys, er enghraifft, gweithgareddau neu ddigwyddiadau hamdden pan fo prif ddefnydd y tir yn parhau'n amaethyddol yn bennaf e.e. gweithgareddau neu ddigwyddiadau a gynhelir ar gyfer nifer penodol o ddyddiau yn unig yn ystod unrhyw flwyddyn benodol.

### Adran 3 - Eithriadau rhag y ddyletswydd yn adran 2

35. Mae adran 3 yn darparu nad yw'r ddyletswydd yn adran 2 yn gymwys i'r swyddogaethau a restrir ym mharagraffau (a) i (f).

36. Mae'r swyddogaethau a eithrir yn ymwneud yn bennaf â chynllun y taliad sylfaenol, gan gynnwys darpariaeth ganlyniadol a throsiannol sy'n ymwneud â chynllun y taliad sylfaenol a'r polisi amaethyddol cyffredin. Mae cynllun y taliad sylfaenol yn system cymorth incwm cynhwysol nad yw'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion RhTG.

### Monitro ac adrodd

37. Mae'r darpariaethau monitro ac adrodd yn gosod gofynion ar Weinidogion Cymru i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion RhTG. Mae'r darpariaethau yn manylu ar y gofyniad i osod dangosyddion a thargedau, yn ogystal â llunio adroddiad. Mae'r darpariaethau adrodd a monitro yn gwneud darpariaeth ar gyfer craffu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r Senedd. Maent hefyd yn gweithredu i ddarparu sylfaen dystiolaeth barhaus ar gyfer cefnogi tueddiadau polisi'r dyfodol a'r arferion gorau i'w canfod.

### Adran 4 - Dangosyddion a thargedau rheoli tir yn gynaliadwy

38. Mae adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi dangosyddion a thargedau er mwyn mesur cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion RhTG drwy arfer y swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn adran 2 yn gymwys iddynt.

39. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio datganiad sy'n nodi dangosyddion sydd i'w cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion RhTG drwy arfer y swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn adran 2 yn gymwys iddynt, a thargedau mewn perthynas â'r dangosyddion hynny.

40. Bydd dangosyddion yn darparu metrigau mewn modd y gellir mesur cyfraniad cam gweithredu tuag at yr amcanion RhTG. Bydd targedau yn nodi'r lefel o gynnydd a ddymunir yn erbyn y metrig y mae dangosydd penodol yn ei fanylu.

41. Er enghraifft, gellir mynd i'r afael â'r trydydd amcan ("cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu") drwy sawl dangosydd. Gallai un ohonynt fod yn ostyngiad yn lefelau llygryddion mewn afonydd sy'n llifo is-law gweithgareddau amaethyddol ac ategol. Wedi hyn, byddai targed penodol yn cael ei osod

yn erbyn y dangosydd hwnnw a byddai'r dangosydd a'r targed yn cael eu hadrodd arnynt yn yr adroddiad RhTG a lunnir o dan adran 6.

42. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i'r datganiad gynnwys, yn isafswm, o leiaf un dangosydd neilltuol ar gyfer pob amcan RhTG, ac o leiaf un targed neilltuol sy'n ymwneud ag o leiaf un dangosydd neilltuol ar gyfer pob amcan RhTG. Mae hyn er mwyn sicrhau y cyfrifir cynnydd yn gywir ac yn effeithiol.

43. Mae is-adran (3 - 5) yn darparu y caiff y datganiad hefyd nodi dangosyddion pellach (y caiff pob un fod ar gyfer un amcan RhTG neu ar gyfer mwy nag un), a thargedau pellach (y caiff pob un ymwneud ag un dangosydd, pa un a yw'n cael ei nodi o dan is-adran (2) neu is-adran (3), neu â mwy nag un).

44. Mae is-adran (6) yn darparu y caiff dangosydd neu darged ymwneud â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.

45. Mae is-adran (7) yn darparu y caniateir gosod targed drwy gyfeirio at unrhyw gyfnod y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

46. Mae is-adran (8) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r datganiad a'i osod gerbron Senedd Cymru yn ddim hwyrach na 31 Rhagfyr 2025.

47. Mae is-adran (9) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru adolygu a diwygio'r datganiad ar unrhyw adeg ac mae is-adran (10) yn darparu bod is-adrannau (2) i (8) yn gymwys mewn perthynas â datganiad diwygiedig fel y maent yn gymwys i'r datganiad gwreiddiol.

48. Mae is-adran (11) yn darparu pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r datganiad, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, gyhoeddi'r datganiad diwygiedig a'i osod gerbron Senedd Cymru.

### Adran 5 - Camau i'w cymryd wrth lunio neu ddiwygio dangosyddion a thargedau

49. Mae adran 5 yn nodi'r camau y mae rhaid eu cymryd wrth lunio neu ddiwygio dangosyddion a thargedau.

50. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i adroddiadau, polisïau a materion eraill penodol wrth lunio neu ddiwygio dangosyddion a thargedau.

51. Mae hyn yn ceisio sicrhau bod y gwaith monitro ac adrodd ar RhTG yn rhoi ystyriaeth briodol i nodau, polisïau a gwaith adrodd ar gynaliadwyedd ehangach, i'r graddau y maent yn berthnasol.

52. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac unrhyw bersonau eraill y maent yn eu hystyried yn briodol wrth lunio neu ddiwygio dangosyddion a thargedau.

### Adran 6 - Adroddiadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy

53. Mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiadau RhTG ac yn manylu ar gynnwys ac amseru'r adroddiadau hynny.

54. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad mewn perthynas â phob cyfnod adrodd (fel y'i diffinnir gan is-adran (9)).

55. Mae is-adran (1)(a) yn darparu bod rhaid i'r adroddiad nodi asesiad Gweinidogion Cymru o'r cynnydd cronnus a wnaed, ers i adran 2 ddod i rym, tuag at gyflawni'r amcanion RhTG drwy arfer y swyddogaethau y mae'r ddyletswydd yn adran 2 yn gymwys iddynt.

56. Mae is-adran (1)(b) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad nodi asesiad Gweinidogion Cymru o'r cynnydd a wnaed, yn ystod y cyfnod adrodd, tuag at gyflawni'r amcanion hynny drwy arfer y swyddogaethau hynny.

57. Mae is-adran (2) yn datgan bod rhaid i'r adroddiad nodi, mewn perthynas â phob dangosydd yn y datganiad (neu'r datganiad diwygiedig) a gyhoeddir o dan adran 4, y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r dangosydd hwnnw yn ystod y cyfnod adrodd a sut y mae hynny wedi cyfrannu at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy.

58. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i'r adroddiad nodi, mewn perthynas â phob targed yn y datganiad (neu'r datganiad diwygiedig), pa un a yw'r targed wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd ai peidio.

59. Mae is-adrannau (4) i (6) yn pennu'r ddarpariaeth y mae rhaid i'r adroddiad ei gwneud yn ddibynnol ar a yw targed wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd (is-adran (4)), nad yw targed wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd (is-adran (5)), neu nad yw Gweinidogion Cymru hyd yma wedi gallu penderfynu pa un a yw targed wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd ai peidio (is-adran (6)).

60. Mae is-adran (7) yn nodi materion eraill y caiff adroddiadau RhTG eu hasesu ac adrodd arnynt. Gall y rhain gynnwys y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd allweddol mewn perthynas â chyflawni'r amcanion RhTG, a'r effaith y mae'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion hynny yn ei chael ar gyflawni nodau eraill e.e. nod Cymru sero net 2050.

61. Mae is-adran (8) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, yn ddim hwyrach na 12 mis ar ôl pob cyfnod adrodd, gyhoeddi'r adroddiad sy'n ymwneud â'r cyfnod adrodd a'i osod gerbron y Senedd.

62. Mae is-adran (9) yn diffinio'r "cyfnod adrodd" ac mae is-adran (10) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau i ddiwygio is-adran (9). Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, er enghraifft, hyd y cyfnod adrodd. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (adran 47(6) a (7)).

### Adran 7 - Camau i'w cymryd wrth lunio adroddiadau

63. Mae adran 7 yn nodi'r adroddiadau, y polisïau a'r materion eraill y mae rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt wrth lunio adroddiadau RhTG. Mae'n ceisio sicrhau bod adrodd ar RhTG yn cael ei gwblhau yng nghyd-destun adrodd a chamau gweithredu cynaliadwyedd ehangach a wneir yng Nghymru a bod data priodol yn cael ei ystyried wrth adrodd am gynnydd tuag at yr amcanion RhTG. Mae hefyd yn ceisio annog dull cydlynus wrth adrodd am gamau gweithredu amgylcheddol a chamau gweithredu eraill ledled Cymru.

## RHAN 2 - CYMORTH AR GYFER AMAETHYDDIAETH ETC.

**Pennod 1 - Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth**

64. Mae'r Bennod hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu cymorth ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag, amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy'n cael eu cynnal yng Nghymru. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth, gan gynnwys drwy gyfrwng cynllun neu gynlluniau cymorth sy'n galluogi ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion RhTG.

65. Mae'r pŵer i ddarparu cymorth, yn ymarferol, yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru gefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy sydd â'r bwriad i gefnogi ymrwymiadau amgylcheddol a hinsawdd Llywodraeth Cymru a chefnogi llesiant dinasyddion ymhellach wrth iddo ymwneud ag amaethyddiaeth yng Nghymru.

**Adran 8 - Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth**

66. Mae adran 8 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu cymorth ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag, amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol sy'n cael eu cynnal yng Nghymru. Caiff cymorth fod yn gymorth ariannol, neu fel arall, er enghraifft gallai Gweinidogion Cymru ddewis arfer y pŵer i wneud taliad am gamau gweithredu neu i ddarparu cymorth a chyngor cyfarwyddol.

67. Mae adran 8(2) yn nodi rhestr (nad yw'n gynhwysfawr) o ddibenion y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cymorth yng Nghymru ar eu cyfer, neu mewn cysylltiad â hwy . Nid yw Gweinidogion Cymru wedi eu cyfyngu gan y dibenion a restrir yn adran 8(2) a chaniateir iddynt ddarparu cymorth at ddibenion eraill, cyhyd â bod y dibenion eraill ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth a/neu weithgareddau ategol yng Nghymru. Mae'r dibenion a restrir yn adran 8(2) yn rhoi cyd-destun yn nhermau'r nodau polisi y rhagwelir cefnogaeth ar eu cyfer. Mae'r dibenion yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion RhTG y manylir arnynt yn adran 1.

68. Mae'r diben yn is-adran (2)(a) yn cyfeirio at annog cynhyrchu bwyd mewn modd sy'n amgylcheddol gynaliadwy. Er enghraifft, gellid darparu cymorth ar gyfer tyfu cnydau mewn modd sy'n lleihau neu'n dileu'r angen am wrtaith artiffisial.

69. Mae'r diben yn is-adran (2)(b) yn anelu at helpu cymunedau gwledig i ffynnu, ac i gryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau. Gallai hyn gynnwys cefnogi gwytnwch economaidd busnesau amaethyddol drwy ffermydd yn arallgyfeirio a chryfhau busnesau fferm er mwyn cefnogi a chyfrannu tuag at gymunedau (lleol) gwledig ffyniannus, fel cefnogi ac annog cynnydd mewn bioamrywiaeth neu wytnwch ecosystemau ar ffermydd, drwy brosiectau cydweithredol fel perllannau cymunedol, neu gynorthwyo busnesau fferm i arallgyfeirio i werthu i ddefnyddwyr yn uniongyrchol, drwy focsys cig a / neu focsys llysiau.

70. Mae'r diben yn is-adran (2)(c) yn darparu ar gyfer gwella gwytnwch busnesau amaethyddol. Gall cymorth gael ei anelu at gadw ffermwyr ar y tir a chynyddu gwytnwch busnesau amaethyddol a'u ffyniant yn y dyfodol. Er enghraifft, ceisio denu newydd-ddyfodiaid a cheisio cefnogi cynllunio ar gyfer olyniaeth, sy'n cyfrannu tuag at gyflawni cynaliadwyedd sector amaethyddol Cymru ac o ran cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill.

71. Mae'r diben yn is-adran (2)(d) yn ymwneud â chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd. Gallai hyn gynnwys hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws pob lefel gymhwysedd ac annog dysgwyr newydd ar draws y sector amaethyddol.

72. Mae'r diben a restrir yn is-adran (2)(e) yn ymwneud â lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Er enghraifft, gallai cymorth geisio annog ffermydd i leihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys drwy wneud defnydd effeithlon o danwydd ac ynni, lleihau mewnbynnau allanol a chael da byw a chnydau cynhyrchiol.

73. Mae is-adran (2)(f) yn nodi'r diben o atafaelu a storio carbon i'r graddau gorau posibl. Gallai hyn olygu creu stociau carbon newydd, a gwella rhai sy'n bodoli eisoes ar ffermydd, er enghraifft drwy gynyddu cyfanswm y carbon sydd mewn pridd, adfer mawndiroedd, plannu coed a/neu wrychoedd a rheoli coetir ffermydd.

74. Y diben yn is-adran (2)(g) yw cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau. Gallai hyn olygu cefnogi ffermwr i fabwysiadu gwahanol dechnegau ffermio sy'n osgoi effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, rhywogaethau a chynefinoedd, a sicrhau manteision iddynt.

75. Y diben a restrir yn is-adran (2)(h) yw cadw a gwella tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol. Gallai cefnogaeth a ddarperir ar gyfer, neu mewn cysylltiad â'r diben hwn, er enghraifft, fod i gefnogi ffermwyr i gynnal adeiladau hanesyddol a all fod ganddynt ar eu tir.

76. Y diben a restrir yn is-adran (2)(i) yw gwella ansawdd yr aer. Bwriedir i'r cymorth a ddarperir ar gyfer, neu mewn cysylltiad â'r diben hwn, gael ei anelu at gamau gweithredu sy'n arwain at aer sydd â llygredd cyfyngedig (nwyon niweidiol a gronynnau a wneir gan bobl) gan gynnwys deunydd gronynnol mân (PM2.5), amonia (NH3) a chyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn fethan (NMVOC).

77. Mae is-adran (2)(j) yn darparu ar gyfer y diben o wella ansawdd dŵr. Y nod polisi sydd wrth wraidd y diben hwn yw sicrhau bod amgylchedd y dŵr (gan gynnwys dŵr mewndirol) yn cael ei reoli'n gynaliadwy er mwyn cefnogi cymunedau iach, busnesau sy'n ffynnu a chynnydd mewn bioamrywiaeth.

78. Y diben a restrir yn is-adran (2)(k) yw cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol ac ymgysylltiad y cyhoedd â hwy. Gallai'r camau gweithredu a gymerir mewn cysylltiad â'r diben hwn gynnwys cefnogi ffermwyr i wella llwybrau troed cyhoeddus i'w gwneud yn fwy hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

79. Mae is-adran (2)(l) yn rhestru'r diben ynghylch lliniaru risgiau o lifogydd a sychder. Gellid darparu cefnogaeth ar gyfer, neu mewn cysylltiad â'r diben hwn, er enghraifft, i alluogi ffermydd i baratoi at gyfnodau o lawiad isel neu uchel, lleihau'r risgiau i'r fferm a chymunedau o lifogydd a sychder gan gynnwys drwy reoli llifogydd ar sail natur.

80. Y diben yn is-adran (2)(m) yw cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid. Gallai'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer, neu mewn cysylltiad â'r diben hwn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr, neu eu hannog, i lunio cynllun iechyd anifeiliaid a'i weithredu a/neu gymryd camau gweithredu sy'n gwella lles anifeiliaid megis darparu cysgod neu ofod addas.

81. Mae is-adran (2)(n) yn darparu ar gyfer y diben o sicrhau effeithlonrwydd adnoddau i'r graddau gorau posibl. Gallai'r gefnogaeth a ddarperir ar gyfer, neu mewn cysylltiad â'r diben, er enghraifft, gynorthwyo ffermydd i ddilyn dull economi gylchol drwy gadw adnoddau a deunyddiau mewn defnydd cyhyd ag sy'n bosibl a lleihau gwastraff.

82. Mae adran 8(3) yn darparu y caniateir i gymorth a ddarperir o dan y pŵer i ddarparu cymorth gael ei ddarparu o dan gynllun, neu fel arall. Er enghraifft, drwy drosglwyddo gwybodaeth a gwasanaeth arloesi.

83. Mae is-adran (4) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o ddibenion drwy reoliadau (drwy ychwanegu diben newydd, dileu diben, neu newid disgrifiad o ddiben). Gallai hyn, er enghraifft, adlewyrchu newid i ymrwymiadau Llywodraeth Cymru a'r amcanion RhTG. Fel arall, gellid ystyried nad yw un neu ragor o'r dibenion yn cael eu hystyried yn angenrheidiol mwyach ac felly bod angen eu disodli i adlewyrchu sefyllfa wedi'i diweddaru.

**Adran 9 - Darpariaeth bellach ynghylch cymorth o dan adran 8**

84. Mae adran 9 yn darparu y caniateir i gymorth a ddarperir o dan y pŵer o gymorth yn adran 8 ei roi yn ariannol neu fel arall. Yn ymarferol, mae'r modd y caiff cymorth ei roi yn debygol o ddibynnu ar unrhyw nifer o ffactorau, er enghraifft y canlyniad a fwriedir a math/nifer y derbynwyr. Mae is-adran (2) yn pennu y caniateir darparu cymorth ariannol drwy grantiau, benthyciadau neu warantau, ond caniateir darparu cymorth ar unrhyw ffurf arall. Mae is-adran (3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod amodau ar unrhyw gymorth a ddarperir: yn ymarferol, gallai enghreifftiau fod yn brawf o weithredu, amserlenni a hyd contractau.

85. Mae is-adran (4) yn datgan y caniateir i'r amodau hyn gynnwys darpariaeth i gymorth gael ei ad-dalu. Caniateir codi llog ar arian y mae'n ofynnol ei ad-dalu.

86. Mae is-adran (5) yn darparu y caniateir darparu cymorth o dan adran 8 i berson neu sefydliad sydd wedi sefydlu a/neu'n gweithredu "cynllun trydydd parti". Rhaid i'r cymorth gael ei roi mewn cysylltiad â sefydlu neu weithredu'r "cynllun trydydd parti" hwnnw. Golyga hyn y caniateir darparu cymorth o dan adran 8 mewn cysylltiad â gwariant a ysgwyddwyd gan drydydd parti wrth sefydlu a gweithredu cynllun, ac ar gyfer cyllid a ddarperir drwy'r cynllun hwnnw. Byddai hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyllido, er enghraifft, partneriaethau lleol neu sefydliadau eraill i gyflawni prosiectau cydweithredol sy'n seiliedig ar y tirwedd sy'n gwella'r amgylchedd hanesyddol a'r tirwedd dynodedig ar draws nifer o ffermydd.

87. Mae is-adran (6) yn darparu diffiniad o "cynllun trydydd parti" at ddibenion is-adran (5): mae'n gynllun sy'n darparu cymorth ar gyfer neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth neu weithgareddau ategol, ac sy'n cael ei wneud gan drydydd parti (nid Gweinidogion Cymru).

88. Mae is-adrannau (7) ac (8) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddirprwyo swyddogaethau mewn perthynas â rhoi cymorth gan gynnwys rhoi canllawiau neu arfer disgresiwn.

**Adran 10 - Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi gwybodaeth am gymorth**

89. Mae adran 10 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch cyhoeddi gwybodaeth benodedig (fel a bennir yn y rheoliadau) am gymorth sy'n cael ei ddarparu, neu sydd wedi ei ddarparu o dan adran 8. Caiff yr wybodaeth y caniateir ei phennu yn y rheoliadau gynnwys gwybodaeth am dderbynnydd unrhyw gymorth a ddarperir, swm unrhyw gymorth a ddarperir, a dibenion unrhyw gymorth a ddarperir.

90. Mae adran 10(2) yn caniatáu i'r rheoliadau osod gofynion. Felly, er enghraifft, gallai'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson - gan gynnwys Gweinidogion Cymru - ddarparu'r wybodaeth a bennir.

91. Yn nhermau polisi, bwriad cyhoeddi gwybodaeth am y ddarpariaeth o gymorth yw hyrwyddo tryloywder a chaniatáu i'r hyn sydd wedi ei gyflawni neu sy'n ofynnol o'r cymorth a roddir gael ei ddangos yn glir.

**Adran 11 - Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch gwirio cymhwysedd ar gyfer cymorth, etc.**

92. Mae adran 11 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau, a chaniateir iddynt gael eu harfer er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch gwirio a yw'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth o dan adran 8 wedi eu bodloni a'r canlyniadau, pan nad ydynt wedi eu bodloni, ynghylch gorfodi cydymffurfedd ag amodau, ynghylch monitro i ba raddau y mae dibenion y cymorth wedi eu cyflawni, ac ynghylch ymchwilio i droseddau a amheuir. Bwriedir i'r pwerau hyn sicrhau bod cymorth amaethyddol a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei weinyddu yn gywir a bod y rhai sy'n cael cymorth o dan y pŵer i ddarparu cymorth yn ddarostyngedig i graffu ac atebolrwydd priodol.

93. Mae is-adran (2) yn darparu rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r mathau o ddarpariaeth y caniateir eu cynnwys mewn unrhyw reoliadau a wneir o dan is-adran (1). Er yr ystyrir mai dyma rai o'r prif faterion y gallai fod angen i'r rheoliadau fynd i'r afael â hwy, caniateir i reoliadau gael eu gwneud ar gyfer unrhyw un o'r dibenion a nodir yn is-adran (1) ac ni chyfyngir ar gynnwys unrhyw reoliadau a wneir yn y dyfodol i'r meysydd hynny a restrir yn is-adran (2).

94. Mae is-adran (2)(f) yn caniatáu i reoliadau o dan adran 11 wneud darpariaeth ynghylch adennill cymorth ariannol (er enghraifft, gallai'r rheoliadau ganiatáu i'r cymorth gael ei adennill, gyda llog, pan fo person wedi torri amod).

95. Mae is-adran (2)(h) yn caniatáu i reoliadau o dan adran 11 wneud darpariaeth ynghylch y camau i'w cymryd gan berson y darperir neu y darparwyd cymorth iddo, er mwyn unioni amodau a dorrwyd.

96. Mae is-adran (2)(i) a (j) yn caniatáu i reoliadau o dan adran 11 wneud darpariaeth ynghylch cosbau ariannol, gan gynnwys sicrwydd ar gyfer taliad.

97. Mae is-adran (2)(k) yn caniatáu i'r rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch gwahardd person rhag cael cymorth am gyfnod a bennir, neu hyd nes i amodau a bennir gael eu bodloni. Er enghraifft, gallai'r rheoliadau ganiatáu i'r taliad cymorth gael ei atal dros dro hyd nes bod person wedi unioni toriad.

98. Mae is-adran (2)(l) yn caniatáu i'r rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer apelau.

99. Mae is-adran (2)(m) yn caniatáu i'r rheoliadau roi swyddogaethau i berson: gallai hyn er enghraifft gael ei ddefnyddio i wneud darpariaeth sy'n rhoi swyddogaethau i weinyddwr cynllun.

100. Mae is-adran (3) yn darparu na chaiff rheoliadau a wneir o dan adran 11 awdurdodi mynediad i annedd breifat (er enghraifft, i wirio cydymffurfedd) oni bai bod gwarant wedi ei roi gan weithdrefn farnwrol. (Mae adran 51 yn diffinio "annedd breifat".)

101. Mae is-adran (4) yn darparu, os yw'r rheoliadau yn gwneud darpariaethau ar gyfer cosbau, y caniateir iddynt roi llog ar gosbau sydd i'w talu. Caniateir i'r llog fod yn daladwy o ddiwrnod a ddarperir yn y rheoliadau eu hunain, neu ar ddiwrnod a bennir (er enghraifft gan weinyddwr cynllun) o dan y rheoliadau.

**Adran 12 - Adroddiad blynyddol ynghylch cymorth a ddarparwyd o dan adran 8**

102. Mae adran 12 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio adroddiad blynyddol, mewn perthynas â phob cyfnod adrodd, ynghylch y cymorth ariannol a chymorth arall a ddarparwyd yn ystod y cyfnod. Mae is-adran (5) yn darparu mai'r cyfnod adrodd cyntaf yw'r cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae adran 8 yn dod i rym ac sy'n dod i ben â 31 Mawrth 2025; bydd cyfnodau adrodd dilynol yn cyd-fynd â blynyddoedd ariannol (1 Ebrill hyd at 31 Mawrth).

103. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodol gael ei chynnwys yn yr adroddiad. Dyma gyfanswm unrhyw gymorth ariannol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod adrodd, manylion yr holl gymorth ariannol a chymorth arall a ddarparwyd o dan bob cynllun cymorth a sefydlir o dan adran 8, a disgrifiad o unrhyw gymorth ac eithrio cymorth ariannol a ddarparwyd yn ystod y cyfnod adrodd, ond nid o dan gynllun.

104. Gall Gweinidogion Cymru, fel y nodir yn is-adran (3), gynnwys unrhyw wybodaeth arall yn yr adroddiad y maent yn ystyried ei bod yn briodol. Bydd yr hyn a ystyrir yn briodol yn ddibynnol ar amgylchiadau penodol, ond enghraifft bosibl fyddai gwybodaeth am unrhyw gymorth ariannol sy'n cael ei adennill a'r rhesymau am y cam gweithredu hwn.

105. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad blynyddol a'i osod gerbron Senedd Cymru yn ddim hwyrach na 12 mis ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd.

**Adran 13 - Adroddiad Effaith**

106. Mae adran 13 yn nodi dyletswydd Gweinidogion Cymru i lunio (ar gyfer pob cyfnod adrodd) Adroddiad Effaith yn ymwneud â chymorth a ddarparwyd o dan adran 8. Y bwriad yw sicrhau bod effaith ac effeithiolrwydd yr holl gefnogaeth a ddarparwyd yn ystod y cyfnod hwnnw yn unol ag adran 8 yn cael eu gwerthuso bob pum mlynedd, gan gynnwys asesiad ar sut, ac i ba raddau y gwnaeth y cymorth gyflawni'r dibenion, ac i ba raddau y gwnaeth gyfrannu at gyflawni'r amcanion RhTG.

107. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adroddiad Effaith nodi'r holl ddibenion y darparwyd cymorth ar eu cyfer o dan adran 8, yn ystod y cyfnod adrodd.

108. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i'r Adroddiad Effaith gynnwys asesiad o effaith ac effeithiolrwydd y cymorth a roddwyd yn ystod y cyfnod adrodd, gan gynnwys asesiad o'r canlynol: (a) ym mha fodd, ac i ba raddau, y gwnaeth y cymorth gyflawni'r dibenion a fwriadwyd; a (b) ym mha fodd, ac i ba raddau, y gwnaeth darparu'r cymorth gyfrannu at gyflawni'r amcanion RhTG. Nod nodi'r dibenion yn y modd sy'n ofynnol o dan is-adran (2) yw amlygu'r cysylltiad rhwng cymorth a ddarperir a'r canlyniad a fwriadwyd gan gymorth

o'r fath a'i nod yw sicrhau bod modd mesur effaith ac effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir yn glir yn erbyn y dibenion.

109. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru asesu ac adrodd ar unrhyw faterion eraill y maent yn ystyried eu bod yn berthnasol ar gyfer asesu effaith ac effeithiolrwydd cymorth a ddarparwyd yn ystod y cyfnod adrodd. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw unrhyw gamau gweithredu a gymerir o dan gynllun cymorth yn addas o hyd; a ydynt wedi eu cyflawni; ar y gweill o hyd; neu heb eu gweithredu, ynghyd ag unrhyw gamau unioni er mwyn gwella'r mater. Gallai'r wybodaeth hon hyd yn oed ddangos pa un a yw'r gwaith o weinyddu unrhyw gynllun yn addas i'r diben ai peidio.

110. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Asesiad Effaith a'i osod gerbron Senedd Cymru yn ddim hwyrach na 12 mis ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd.

111. Mae is-adran (6) yn diffinio'r "cyfnod adrodd" yn achos yr Adroddiad Effaith cyntaf, y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae adran 8 yn dod i rym hyd at 31 Rhagfyr 2029. Ar gyfer Adroddiadau Effaith dilynol, y 'cyfnod adrodd' fydd cyfnodau olynol o bum mlynedd.

112. Mae is-adran (7) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio'r cyfnod adrodd. Caiff hyn ei roi ar waith, er enghraifft, er mwyn i'r cyfnod adrodd gyd-fynd â hyd contractau'r cynlluniau o dan adran 8.

**Adran 14 - Camau i'w cymryd wrth lunio adroddiad o dan adran 13**

113. Mae adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i faterion penodol wrth lunio Adroddiad Effaith. Mae'r rhain yn cynnwys y dibenion a restrir yn adran 8(2), pob adroddiad blynyddol a gyhoeddir mewn perthynas â'r cyfnod y mae'r Adroddiad Effaith yn ymwneud ag ef, a'r Adroddiad Effaith diweddaraf. Mae'n ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw faterion eraill y maent yn eu bod yn briodol, gan adlewyrchu'r angen am hyblygrwydd i deilwra pob Adroddiad Effaith i unrhyw amgylchiadau penodol a allai fod yn berthnasol.

114. Y bwriad wrth wraidd hyn yw hyrwyddo a chwblhau gwerthusiad cadarn o effaith y cymorth a ddarparwyd o dan y pŵer i ddarparu cymorth.

**Pennod 2 - Pwerau i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ariannol a chymorth arall**

115. Mae Pennod 2 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth bresennol, sy'n disodli rhai pwerau sydd â therfyn amser iddynt yn Neddf 2020.

**Adran 15 - Pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol**

116. Mae adran 15 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol i'r graddau y mae'n cael effaith o ran Cymru. Bwriad y pŵer hwn yw caniatáu i Weinidogion Cymru wneud newidiadau i ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol, er enghraifft mewn cysylltiad â symud o daliadau a wneir o dan gynllun y taliad sylfaenol a dod â chynllun y taliad sylfaenol i ben. Rhestrir y ddeddfwriaeth y mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w haddasu o dan yr adran hon yn is-adran (2).

**Adran 16 - Pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r polisi amaethyddol cyffredin**

117. Mae adran 16 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud ag ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin i'r graddau y mae'n cael effaith o ran Cymru.

118. Bwriad y pŵer hwn yw galluogi Gweinidogion Cymru i wneud addasiadau i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin er mwyn sicrhau proses bontio a reolir. Y bwriad yw y bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu ar gyfer parhau â gweithredu cymorth ffermio presennol am gyfnod penodol, wrth gyflwyno unrhyw gynllun newydd o dan adran 8. Bwriad hyn yw sicrhau bod y sector amaethyddol yn gweithredu'n effeithiol. Rhestrir y ddeddfwriaeth y mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w haddasu o dan yr adran hon yn is-adran (2).

### Adran 17 - Pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer gwenynyddiaeth

119. Mae Rhaglen Wenynyddiaeth yr UE yn cefnogi gwenyna drwy'r rhaglenni gwenynyddiaeth cenedlaethol, sydd â'r nod o wella amodau cyffredinol ar gyfer cynhyrchu a marchnata mêl a chynhyrchion gwenynyddiaeth eraill. Mae'n cynnwys cymorth technegol i wenynwyr, brwydro yn erbyn clefydau a phlâu, trawstrefa, cymorth y labordy a'r farchnad ar gyfer cynhyrchion gwenynyddiaeth, ailstocio, rhaglenni ymchwil gynhwysol, monitro'r farchnad a gwella ansawdd cynhyrchion.

120. Mae adran 17 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â gwenynyddiaeth i'r graddau y mae'n cael effaith o ran Cymru. Rhestrir y ddeddfwriaeth y mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w haddasu o dan yr adran hon yn is-adran (2).

### Adran 18 - Pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig

121. Mae adran 18 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â datblygu gwledig i'r graddau y mae'n cael effaith o ran Cymru. Rhestrir y ddeddfwriaeth y mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w haddasu o dan yr adran hon yn is-adran (2).

### Adran 19 - Pwerau eraill i addasu deddfwriaeth nad yw'r pwerau yn y Bennod hon yn effeithio arni

122. Mae'r adran hon yn pennu nas effeithir ar unrhyw bŵer arall o dan ddeddfiad i addasu darpariaethau deddfwriaeth sy'n llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol, neu'n ymwneud â'r polisi amaethyddol cyffredin, gwenynyddiaeth neu ddatblygu gwledig gan y pwerau a roddir yn y Bennod hon.

## Pennod 3 - Ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol

### Adran 20 - Datganiad yn ymwneud ag amodau eithriadol yn y farchnad

123. Mae adran 20 yn gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru wneud datganiad "amodau eithriadol yn y farchnad", er mwyn gallu rhoi cymorth ariannol fel a ddisgrifir yn adran 21.

124. Mae is-adran (2) yn nodi prawf dwy-ran i benderfynu a oes amodau eithriadol yn y farchnad yn bodoli ai peidio. Mae is-adran (3) yn nodi beth sy'n rhaid ei gynnwys mewn datganiad amodau eithriadol yn y farchnad.

125. Mae is-adran (5) yn datgan bod datganiad amodau eithriadol yn y farchnad yn cael effaith hyd nes dyddiad a bennir yn y datganiad o dan is-adran (3): effaith is-adran (4) yw bod rhaid i'r dyddiad hwn fod o fewn y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddir y datganiad.

126. Mae is-adran (6) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddirymu datganiad a wnaed o dan is-adran (1) drwy wneud a chyhoeddi datganiad pellach i'r perwyl hwnnw.

127. Mae is-adrannau (7) ac (8) yn caniatáu i Weinidogion Cymru estyn datganiad amodau eithriadol yn y farchnad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis, os yw'r amodau eithriadol yn y farchnad yn parhau yn ystod cyfnod o saith niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod a bennwyd yn wreiddiol yn y datganiad o dan is-adran (3).

128. Mae is-adran (9) yn datgan nad yw'r ffaith bod datganiad a wnaed o dan is-adran (1) mewn perthynas ag amodau eithriadol yn y farchnad wedi dod i ben, neu wedi ei ddirymu yn atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud a chyhoeddi datganiad amodau eithriadol yn y farchnad arall yn ymwneud â'r un amodau eithriadol yn y farchnad.

129. Mae is-adran (10) yn datgan bod rhaid gosod copi o unrhyw ddatganiad a wneir ac a gyhoeddir o dan yr adran gerbron Senedd Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae is-adran 11 yn nodi bod cyhoeddi datganiad i'w wneud yn electronig.

**Adran 21 - Amodau eithriadol yn y farchnad: y pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru**

130. Mae'r adran hon yn pennu'r pwerau sydd ar gael wrth i ddatganiad amodau eithriadol yn y farchnad gael effaith.

131. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu, neu gytuno i ddarparu, cymorth ariannol i gynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru y mae'r amodau eithriadol yn y farchnad a ddisgrifir yn y datganiad wedi cael, yn cael, neu'n debygol o gael, effaith andwyol ar eu hincwm.

132. Effaith is-adran (3) yw nad yw bodolaeth y pŵer o dan adran 21 yn atal Gweinidogion Cymru rhag defnyddio unrhyw bwerau eraill sydd ar gael i ddarparu cymorth ariannol i gynhyrchwyr amaethyddol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) pwerau o dan ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir. (Yr effaith yw nad yw'r pŵer sydd ar gael o dan adran 21 yn cyfyngu ar unrhyw bwerau a allai hefyd fod ar gael i Weinidogion Cymru, er enghraifft, o dan adran 8.)

133. Mae is-adran (4) yn caniatáu darparu cymorth ariannol ar unrhyw ffurf ac mae is-adran (5) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i'w ddarparu yn ddarostyngedig i amodau.

134. Mae is-adran (6) yn datgan y caniateir i'r amodau hynny gynnwys darpariaeth i gymorth ariannol o dan adran 21 gael ei ad-dalu. Mae is-adran (7) yn egluro y caiff Gweinidogion Cymru barhau i ddarparu cymorth ariannol ar ôl diwedd y cyfnod y mae'r datganiad amodau eithriadol yn y farchnad yn cael effaith, ar yr amod bod cais wedi ei wneud amdano yn ystod y cyfnod hwnnw.

## Adran 22 – Pŵer i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrraeth yn y farchnad gyhoeddus a chymorth ar gyfer storio preifat

135. Mae adran 22 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrraeth yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat, i'r graddau y mae'n cael effaith o ran Cymru.

136. Mae is-adran (2) yn pennu bod y pŵer o dan yr adran hon yn cynnwys pŵer i newid y cynhyrchion sy'n gymwys am ymyrraeth yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat. Gallai hyn fod o ganlyniad i'r ffaith bod amodau yn y farchnad ar gyfer cynnyrch penodol wedi newid, sy'n golygu nad oes galw am storio'r cynnyrch hwnnw mwyach.

137. Mae'r ddeddfwriaeth y mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w haddasu o dan yr adran hon wedi ei rhestru yn is-adran (3).

138. Mae is-adran (4) yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â'r Rheoliad CMO (a ddiffinnir yn adran 51). Mae'r Rheoliad CMO yn ymwneud â marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol.

139. Mae Rhan 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2020 yn datgymhwyso darpariaethau penodol yn y Rheoliad CMO, o ran Cymru, cyhyd ag y bo'r ddarpariaeth bresennol â therfyn amser iddi ynghylch amodau eithriadol yn y farchnad yn Atodlen 5 i Ddeddf 2020 yn para. Gan fod y Bil yn cymryd lle'r ddarpariaeth â therfyn amser iddi yn Atodlen 5, mae Atodlen 3 i'r Bil yn diwygio'r Rheoliad CMO o ganlyniad i hynny (gan na fydd y diwygiad a wnaed iddo gan Atodlen 7 i Ddeddf 2020 yn briodol mwyach). Ond, gan nad yw'r diwygiad a wnaed i'r Rheoliad CMO gan Atodlen 7 i Ddeddf 2020 eto mewn grym, mae Atodlen 3 yn darparu (yn Rhan 1) ddiwygiadau canlyniadol amgen i'r Rheoliad CMO.

140. Yn adran 22, mae is-adran (4) yn nodi hyd nes y bydd y naill neu'r llall o'r diwygiadau canlyniadol yn Rhan 1 o Atodlen 3 mewn grym, bod cyfeiriadau yn adran 22 at amodau eithriadol yn y farchnad yn cynnwys cyfeiriadau at amgylchiadau sy'n destun mesurau o dan unrhyw un neu ragor o Erthyglau 219, 220, 221 a 222 o'r Rheoliad CMO. Darpariaeth ddarfodol yw hon, ac ni chaiff effaith mwyach pan fydd naill ai paragraff 1 neu baragraff 2 o Atodlen 3 wedi ei gychwyn. Yr effaith yw caniatáu hyblygrwydd o ran cychwyn adran 22 a Rhan 1 o Atodlen 3.

## Pennod 4 – Tenantiaethau amaethyddol

## Adran 23 – Daliadau Amaethyddol: datrys anghydfod sy'n ymwneud â chymorth ariannol

141. Mae Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 (yn adran 19A) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu i denant daliad amaethyddol allu cyfeirio anghydfod â landlord y tenant i'w gymrodeddu, pan fo'r anghydfod yn ymwneud â chais o fath penodol a wneir gan y tenant, a bo'r landlord wedi gwrthod y cais. Mae'r adran yn disgrifio'r mathau o gais dan sylw, gan gynnwys cais a wneir at ddiben galluogi'r tenant i wneud cais am gymorth ariannol perthnasol (*"relevant financial assistance")*.

142. Mae adran 23 yn diwygio'r diffiniad o gymorth ariannol perthnasol (*"relevant financial assistance")* yn adran 19A o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 i gynnwys cymorth ariannol o dan adran 8, cymorth ariannol o dan gynllun trydydd parti fel y'i diffinnir yn

adran 9(6), cymorth ariannol o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol, cymorth ariannol o dan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r polisi amaethyddol cyffredin, cymorth ariannol o dan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer gwenynyddiaeth, cymorth ariannol o dan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig, a chymorth ariannol o dan adran 21. Mae hefyd yn gwneud rhai diwygiadau canlyniadol.

143. Bwriad y diwygiadau hyn yw mynd i'r afael â'r posibilrwydd y gallai fod angen cael cydsyniad landlord o dan denantiaeth amaethyddol, neu amrywiad ar y denantiaeth ei hun, er mwyn manteisio ar gymorth ariannol o dan y ddeddfwriaeth y cyfeirir ati, gan gynnwys cymorth ariannol o dan adran 8. Effaith y diwygiadau yw y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy reoliadau, o dan adran 19A o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, ar gyfer cyfeirio anghydfod ynghylch gwrthod cydsyniad o dan yr amgylchiadau hyn i'w gymrodeddu.

## RHAN 3 – MATERION SY'N YMWNEUD AG AMAETHYDDIAETH A CHYNHYRCHION AMAETHYDDOL

### Pennod 1 – Casglu a rhannu data

144. Mae'r Bennod hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu.

### Adran 24 – Cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth: gofyniad i ddarparu gwybodaeth

145. Mae Adran 24 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i bersonau penodol ddarparu gwybodaeth am faterion penodol. Y personau hynny yw personau sydd mewn "cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth", neu sydd â chysylltiad agos â chadwyn gyflenwi o'r fath, ac mae'r wybodaeth dan sylw yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig ag unrhyw un neu ragor o weithgareddau'r person y mae cysylltiad rhyngddynt â'r gadwyn gyflenwi, i'r graddau y mae'r gweithgareddau hynny yn cael eu cynnal yng Nghymru. Diffinnir "cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth" yn adran 25.

146. Mae is-adran (2) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau o'r fath ddarparu gwybodaeth o'r fath.

147. Mae is-adran (4) yn darparu na chaniateir gosod gofyniad o dan is-adran (1) neu is-adran (2) ar unigolyn mewn cadwyn gyflenwi os yw'r unigolyn hwnnw yn y gadwyn gyflenwi gan mae ef, neu aelod o'i aelwyd, yw defnyddiwr olaf cynnyrch terfynol y gadwyn gyflenwi. Y bwriad yw sicrhau na fydd defnyddwyr cyffredin yn ddarostyngedig i ofynion o'r fath a ddisgrifir.

148. Mae is-adran (5) yn eithrio o'r gofynion unrhyw wybodaeth sy'n ddarostyngedig i fraint gyfreithiol.

149. Mae is-adran (6) yn darparu bod rhaid i unrhyw ofyniad a osodir o dan is-adran (1) fod yn ysgrifenedig.

### Adran 25 – Ystyr "cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth"

150. Mae is-adran (2) yn diffinio "cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth".

151. Mae is-adran (3) yn diffinio personau "mewn" cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth. Mae is-adran (4) yn diffinio personau sydd â "cysylltiad agos" â chadwyn gyflenwi bwyd-amaeth,

gan gynnwys personau sy'n cyflenwi hadau, stoc, cyfarpar, bwyd anifeiliaid, gwrtaith, plaladdwyr, meddyginiaethau neu eitemau tebyg, yn ogystal â phersonau sy'n darparu gwasanaethau sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid, iechyd planhigion a diogelwch bwyd.

**Adran 26 – Gweithgaredd perthnasol: gofyniad i ddarparu gwybodaeth**

152. Mae adran 26 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i berson sy'n cynnal "gweithgaredd perthnasol" (ac nad yw "mewn" cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, neu â "cysylltiad agos" â chadwyn o'r fath) ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwnnw, i'r graddau y mae'n cael ei gynnal yng Nghymru. Diffinnir "gweithgaredd perthnasol" yn adran 27.

153. Mae is-adran (2) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau o'r fath ddarparu gwybodaeth o'r fath.

154. Mae is-adran (4) yn darparu na chaniateir gosod gofyniad o dan is-adran (1) nac is-adran (2) ar berson mewn perthynas â gweithgaredd perthnasol i'r graddau y cynhelir y gweithgaredd ac eithrio i wneud elw neu i gael budd.

155. Mae is-adran (5) yn eithrio o'r gofynion unrhyw wybodaeth sy'n ddarostyngedig i fraint gyfreithiol.

156. Mae is-adran (6) yn darparu bod rhaid i unrhyw ofyniad a osodir o dan is-adran (1) fod yn ysgrifenedig.

**Adran 27 – Ystyr "gweithgaredd perthnasol"**

157. Mae adran 27 yn diffinio "gweithgaredd perthnasol": yr effaith yw bod gweithgaredd a restrir yn adran 48(1) (sy'n diffinio "amaethyddiaeth") yn "gweithgaredd perthnasol", a bod "gweithgaredd ategol" hefyd yn "gweithgaredd perthnasol". Diffinnir "gweithgaredd ategol" yn adran 49.

158. Canlyniad y diffiniadau hyn, ynghyd ag adran 26, yw ei bod yn bosibl gosod gofyniad i ddarparu gwybodaeth o dan adran 26 mewn cysylltiad ag, er enghraifft, weithgaredd sy'n ymwneud â garddwriaeth addurniadol, neu weithgaredd sy'n ymwneud â thyfu cnydau ar gyfer ynni.

**Adran 28 – Gofyniad i bennu dibenion y caniateir prosesu gwybodaeth ar eu cyfer**

159. Mae is-adran (1) yn gosod rhwymedigaeth ar ofyniad a osodir o dan adran 24 neu 26 i bennu'r dibenion y caniateir prosesu'r wybodaeth ar eu cyfer. Rhaid i'r dibenion fod ar y rhestr o ddibenion yn is-adran (4) neu fod wedi eu cwmpasu gan y rhestr honno.

160. Bwriad y dibenion yn is-adran (4), ymysg pethau eraill, yw caniatáu prosesu gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n helpu ffermwyr a chynhyrchwyr eraill i gynyddu cynhyrchiant, lleihau gwastraff a gwella gwytnwch i amrywiaeth o risgiau.

161. Y bwriad hefyd yw caniatáu prosesu gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n cefnogi iechyd anifeiliaid a phlanhigion drwy gasglu a rhannu data ar enedigaethau, marwolaethau a symudiadau anifeiliaid, arwyddion o glefyd a'r defnydd o feddyginiaeth filfeddygol, yn ogystal â mewnfudo planhigion, a phlâu a chlefydau planhigion.

**Adran 29 – Dyletswydd i gyhoeddi gofyniad o dan adran 24(1) neu 26(1) ar ffurf drafft**

162. Mae is-adran (1)(a)(i) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi drafft o ofyniad o dan adran 24(1) neu adran 26(1) cyn ei osod. Mae is-adran (1)(a)(ii) a (iii) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi disgrifiad o'r personau y bwriedir gosod y gofyniad arnynt, a'r terfyn amser ar gyfer sylwadau. Effaith is-adran (1)(b) yw y caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a ddaeth i law, benderfynu gosod y gofyniad naill ai ar y ffurf a gyhoeddwyd neu ar ffurf ddiwygiedig.

163. Mae is-adran (2) yn nodi, ar ôl penderfynu ar delerau terfynol y gofyniad, y caiff Gweinidogion Cymru osod y gofyniad ar unrhyw adeg ar berson o fewn y disgrifiad a gyhoeddir o dan is-adran (1)(a)(ii).

**Adran 30 – Darparu'r wybodaeth ofynnol a chyfyngiadau ar ei phrosesu**

164. Mae adran 30 yn pennu na chaniateir prosesu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i ofyniad ac eithrio at y dibenion a bennir yn y gofyniad.

165. Mae is-adran (3) yn darparu bod y cyfyngiad hwn ar brosesu yn gymwys i dderbynnydd yr wybodaeth, ac i unrhyw berson y datgelir yr wybodaeth iddo wedyn. (Ond, mewn achos person y datgelir yr wybodaeth iddo wedyn, ni chaniateir prosesu'r wybodaeth mewn ffyrdd sy'n groes i delerau'r datgeliad, hyd yn oed pan fo telerau'r gofyniad gwreiddiol yn caniatáu'r math hwn o brosesu.)

166. Mae is-adran (5) yn nodi materion y caniateir delio â nhw yn y gofyniad i ddarparu gwybodaeth.

167. Mae is-adran (6) yn gosod rhwymedigaeth ar y gofyniad i bennu'r mathau o brosesu y caniateir eu defnyddio wrth drin yr wybodaeth a roddir ac ar ba ffurfiau y caniateir i'r wybodaeth gael ei datgelu.

168. Mae is-adran (7) yn nodi na chaniateir i'r wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r gofyniad fod yn ddarostyngedig i fathau o brosesu heblaw am y rheini a bennir yn y gofyniad (oni bai bod y gofyniad yn pennu amgylchiadau y caniateir i ffurfiau eraill o brosesu neu ddatgelu ddigwydd odanynt).

169. Mae is-adran (8) yn pennu, pan fwriedir datgelu gwybodaeth a ddarperir o dan ofyniad ar ffurf a bennir yn y gofyniad, neu a ganiateir ganddo, mae'r gofyniad yn is-adran (9) yn gymwys.

170. Mae is-adran (9)(a) yn darparu pan fwriedir datgelu'r wybodaeth ar ffurf nad yw'n ffurf ddienw, rhaid i'r person sy'n bwriadu datgelu'r wybodaeth ystyried a fyddai datgelu'r wybodaeth ar y ffurf honno yn rhagfarnu, neu yn gallu rhagfarnu, buddion masnachol unrhyw berson.

171. Mae is-adran (9)(b) yn darparu, os yw'r person sy'n bwriadu datgelu'r wybodaeth yn ystyried y byddai datgelu'r wybodaeth ar y ffurf honno (h.y. ar ffurf nad yw'n ffurf ddienw) yn rhagfarnu, neu yn gallu rhagfarnu, buddion masnachol unrhyw berson, rhaid i'r wybodaeth gael ei datgelu yn hytrach ar ffurf ddienw.

172. Effaith is-adran (10) yw bod eithriad i'r gofyniad a osodir gan is-adran (9)(b): os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod er budd y cyhoedd i'r wybodaeth gael ei datgelu ar ffurf nad yw'n ffurf ddienw, caniateir i'r wybodaeth gael ei datgelu ar ffurf nad yw'n

ddienw, cyn belled â bod y datgeliad ar ffurf a ganiateir gan y gofyniad y darparwyd yr wybodaeth odano.

173. Mae is-adran (11) yn diffinio ystyr "prosesu", mewn perthynas â gwybodaeth.

**Adran 31 – Gorfodi gofynion gwybodaeth**

174. Mae adran 31 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer gorfodi gofyniad a osodir o dan adran 24 neu 26. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch (ymysg pethau eraill) gosbau am beidio â chydymffurfio, ac apelau.

175. Mae hyn yn golygu y gellir dyroddi gofynion sy'n cynnwys gwybodaeth am y sancsiynau a gaiff eu cymhwyso os na chydymffurfir â gofynion (os bydd rhywun yn methu â darparu gwybodaeth neu'n darparu gwybodaeth anwir).

176. Mae is-adran 3(e) yn darparu ar gyfer rhoi swyddogaethau i bersonau mewn cysylltiad â gorfodi gofynion.

177. Effaith is-adran (4) yw y gellir pennu'r cosbau y darperir ar eu cyfer yn y rheoliadau drwy gyfeirio at incwm, trosiant neu elw person. Yr amcan yw caniatáu gosod dirwyon ar lefelau priodol ar gyfer personau gwahanol.

**Pennod 2 – Safonau Marchnata: Cynhyrchion amaethyddol**

178. Mae adran 32 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â safonau y mae rhaid i gynhyrchion amaethyddol penodol gydymffurfio â hwy pan gânt eu marchnata yng Nghymru. Mae'r pwerau yn disodli pwerau â therfyn amser iddynt a roddwyd gan baragraff 16 o Atodlen 5 i Ddeddf 2020.

**Adran 32 – Safonau marchnata**

179. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch safonau y mae rhaid i gynhyrchion amaethyddol penodol gydymffurfio â hwy pan gânt eu marchnata yng Nghymru. Y cynhyrchion hynny yw'r cynhyrchion a restrir yn Atodlen 1.

180. Mae is-adran (2) yn darparu rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o faterion y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth yn eu cylch; er enghraifft, meini prawf megis edrychiad, math o ffermio neu ddull cynhyrchu, a storio a chludiant.

181. Mae is-adran (3) yn nodi na chaiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y man ffermio neu'r tarddle mewn perthynas â dofednod byw, cig dofednod na brasterau taenadwy.

182. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch gorfodi ac yn nodi rhai o'r materion y caniateir eu cynnwys, gan gynnwys pwerau mynediad, creu troseddau diannod a gosod cosbau ariannol.

183. Mae is-adran (5) yn nodi na chaiff rheoliadau a wneir o dan adran 32 awdurdodi mynediad i annedd breifat heb warant a ddyroddir gan ynad heddwch. Diffinnir "annedd breifat" yn adran 51.

184. Mae is-adran (6) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o gynhyrchion amaethyddol yn Atodlen 1 (pa un ai drwy ychwanegu cynnyrch at y rhestr, dileu cynnyrch, neu newid y disgrifiad o gynnyrch).

**Pennod 3**

**Dosbarthiad carcasau penodol etc.**

185. Mae adran 33 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â dosbarthiad, dull adnabod a chyflwyno carcasau penodol gan ladd-dai yng Nghymru. Mae'r pwerau yn disodli pwerau â therfyn amser iddynt a roddir gan baragraff 18 o Atodlen 5 i Ddeddf 2020.

**Adran 33 – Dosbarthiad carcasau**

186. Mae is-adran (1) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch dosbarthiad, dull adnabod a chyflwyniad carcasau buchol, moch a defaid gan ladd-dai yng Nghymru.

187. Mae is-adran (2) yn nodi y caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran 1 gynnwys darpariaeth am orfodi, ac y caiff hyn gynnwys, er enghraifft, ddarpariaeth sy'n rhoi pwerau mynediad, sy'n creu troseddau diannod ac sy'n gosod cosbau ariannol.

188. Mae is-adran (3) yn nodi na chaiff rheoliadau a wneir o dan adran 33 awdurdodi mynediad i annedd breifat heb warant a ddyroddir gan ynad heddwch. Diffinnir "annedd breifat" yn adran 51.

189. Mae is-adran (4) yn diffinio "moch" at ddibenion yr adran hon o'r Rheoliadau mewn ffordd sy'n cynnwys baeddod gwyllt a moch fferal eraill.

**RHAN 4 – COEDWIGAETH**

**Adran 34 – Trosolwg o'r Rhan**

190. Mae'r adran hon yn egluro'r ffordd y mae'r rhan hon o'r Bil yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 (p. 10) o ran Cymru.

**Adran 35 – Amodau trwyddedau cwympo coed**

191. Mae adran 35 yn diwygio adran 10 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i alluogi Corff Adnoddau Naturiol Cymru ("CNC"), fel yr awdurdod coedwigaeth priodol ("*appropriate forestry authority*") i Gymru o dan y Ddeddf, i osod amodau ar roi trwydded cwympo coed os yw CNC yn ystyried y byddai'n hwylus i wneud hynny at ddiben (i) gwarchod neu wella harddwch naturiol, neu (ii) gwarchod fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffysiograffegol, neu gynefinoedd naturiol.

192. Ar hyn o bryd, mae adran 10 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 yn galluogi CNC i osod amodau at ddibenion penodol wrth roi trwyddedau cwympo coed. Mae'r diwygiad hwn yn ychwanegu diben arall y bydd CNC yn gallu gosod amodau ar ei gyfer ar drwyddedau cwympo coed newydd. Bydd yn galluogi CNC i gynnwys amodau ar drwyddedau cwympo coed er mwyn atal achosion o gwympo coed a fyddai'n groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall. Er enghraifft, gellid cynnwys amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid trwyddedau beidio â chwympo coed mewn ardaloedd penodol er mwyn diogelu cynefin, neu i gwympo coed ar adegau penodol o'r flwyddyn yn unig, neu i wneud gwaith cyfalaf i liniaru effaith cwympo coed ar yr amgylchedd os yw CNC yn ystyried y byddai'n hwylus i

wneud hynny er mwyn gwarchod fflora neu ffawna penodol, neu er mwyn osgoi niwed i'r amgylchedd.

**Adran 36 – Diwygio trwyddedau cwympo coed drwy gytundeb**

193. Mae adran 36 yn mewnosod is-adran newydd (3A) yn adran 10 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i alluogi CNC, fel yr awdurdod coedwigaeth priodol i Gymru o dan y Ddeddf, a deiliaid trwydded a roddir o dan yr adran honno i gytuno (ar unrhyw adeg) i ddiwygio'r drwydded cwympo coed.

194. Bwriad y gallu i ddiwygio trwydded cwympo coed drwy gytundeb cilyddol yw helpu i fynd i'r afael â newidiadau mewn amgylchiadau neu i adlewyrchu newidiadau o'r fath, er enghraifft pan fo ffiniau wedi newid neu pan fo angen ailblannu gyda rhywogaethau coed gwahanol, neu pan ddaw materion sensitif eraill i'r amlwg ar ôl i'r drwydded gael ei rhoi.

**Adran 37 – Amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwyddedau cwympo coed**

195. Mae adran 37 yn mewnosod dwy adran newydd (adrannau 24C a 24D) yn Neddf Coedwigaeth 1967 i alluogi CNC, fel yr awdurdod coedwigaeth priodol i Gymru, i amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwydded cwympo coed o dan amgylchiadau penodol (heb gytundeb).

196. Mae'r set gyntaf o amgylchiadau, a nodir yn adran 24C, yn codi pan fo CNC yn ystyried na chydymffurfiwyd, neu na chydymffurfir, ag amod yn y drwydded (heblaw am amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i wneud gwaith).

197. O dan yr amgylchiadau hyn, caiff CNC roi hysbysiad i'r person sy'n gyfrifol (*"the person responsible"*) sy'n atal y drwydded dros dro, neu sy'n addasu neu'n hepgor amod yn y drwydded, neu sy'n gosod amod newydd. At hynny, pan fo'r amod a gafodd ei dorri, neu sy'n cael ei dorri, wedi ei osod at y diben a nodwyd yn adran 10(2)(c) o Ddeddf Coedwigaeth 1967 (a fewnosodir gan adran 35 o'r Bil hwn), caiff CNC hefyd roi hysbysiad i'r person sy'n gyfrifol (*"the person responsible")* sy'n dirymu'r drwydded.

198. Caiff hysbysiad a roddir o dan adran 24C hefyd bennu camau y mae rhaid i'r person sy'n gyfrifol (*"the person responsible")* eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r achos o dorri amod, yn ogystal â'r cyfnod y mae rhaid cymryd y camau hynny o'i fewn.

199. Gwneir darpariaeth ar gyfer atal dros dro drwydded cwympo coed yn llawn neu'n rhannol, a nodir pryd y gellir dod â chyfnod atal dros dro i ben cyn y dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

200. Mae gallu CNC fel yr awdurdod priodol i gymryd camau gorfodi pan fo'r person sy'n gyfrifol (*"the person responsible")* yn methu â chymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad a roddir o dan adran 24C wedi ei nodi yn adran 24C(9), (10) ac (11). Mae adran 24C(10) hefyd yn darparu ei bod yn drosedd i berson beidio â chymryd y camau a nodir yn yr hysbysiad oni bai bod esgus rhesymol ganddo. Trosedd ddiannod yn unig yw'r drosedd hon, a gellir ei chosbi drwy ddirwy.

201. Diffinnir y person sy'n gyfrifol (*"the person responsible")*, at ddibenion adrannau 24C a 24D, yn adran 24C(13).

202. Mae’r ail set o amgylchiadau, a nodir yn adran 24D, yn codi pan fo CNC yn ystyried bod cwympo coed yn unol â’r drwydded yn achosi, neu’n debygol o achosi, niwed sylweddol i (i) harddwch naturiol, neu (ii) fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffysiograffegol, neu gynefinoedd naturiol. Felly mae’r amgylchiadau hyn yn wahanol: mae pwerau CNC yn codi pan na fo deiliad y drwydded wedi torri amod yn y drwydded ac (o ganlyniad i hynny) nad yw ar fai. Yma, caiff CNC roi hysbysiad i’r person sy’n gyfrifol (*“the person responsible”)* sy’n atal dros dro neu’n diwygio’r drwydded neu, os bydd CNC yn ystyried na fyddai atal dros dro neu ddiwygio’r drwydded yn atal y niwed, sy’n dirymu’r drwydded.

203. Gwneir darpariaeth ar gyfer atal dros dro drwydded cwympo coed yn llawn neu’n rhannol, a nodir pryd y gellir dod â chyfnod atal dros dro i ben cyn y dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

**Adran 38 – Digolledіad**

204. Mae adran 38 yn mewnosod adran newydd 24E yn Neddf Coedwigaeth 1967 i ddarparu i ddigolledіad fod yn daladwy o dan rai amgylchiadau ar ôl cael hysbysiad a roddir o dan adran 24C neu 24D. Mae’r darpariaethau hyn yn debyg i’r darpariaethau digolledіad yn adrannau 10 ac 11 o Ddeddf 1967 sy’n gymwys pan wrthodir rhoi trwydded cwympo coed i berson.

205. O dan adran newydd 24E o Ddeddf 1967, mae hawl i ddigolledіad pan fo trwydded cwympo coed yn cael ei hatal dros dro, ei diwygio neu ei dirymu gan hysbysiad a roddir o dan adran 24D o’r Ddeddf honno. Mae hefyd hawl i ddigolledіad pan fo trwydded cwympo coed yn cael ei hatal dros dro, ei diwygio neu ei dirymu gan hysbysiad a roddir o dan adran 24C o’r Ddeddf honno, ond dim ond (i) os bydd Gweinidogion Cymru yn canslo’r hysbysiad yn dilyn apêl neu (ii) os hysbysiad sy’n atal dros dro drwydded cwympo coed ydyw, ac y rhoddir cyfarwyddyd i CNC ddod â’r cyfnod atal dros dro i ben.

206. Mae swm y digolledіad sy’n daladwy mewn cysylltiad ag atal dros dro, diwygio neu ddirymu trwydded cwympo coed yn seiliedig ar faint o werth a gollwyd o’r pren sy’n tyfu o ganlyniad i atal dros dro, diwygio neu ddirymu’r drwydded. Defnyddir yr un sail i gyfrifo digolledіad pan fo cais am drwydded cwympo coed yn cael ei wrthod. At hynny, pan fo hysbysiad a roddir o dan adran 24C o’r Ddeddf honno yn pennu camau y mae rhaid eu cymryd a phan fernir, ar apêl, fod y camau hynny yn afresymol neu’n anghymesur, mae digolledіad yn daladwy am unrhyw gostau yr eir iddynt yn rhesymol wrth gwblhau’r camau hynny.

**Adran 39 – Apelau**

207. Mae adran 39 yn mewnosod is-adrannau newydd yn adran 25 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 sy’n ymwneud ag apelau yn erbyn penderfyniadau a wneir o dan y Ddeddf. Mae’r is-adrannau newydd yn darparu ar gyfer dwyn apelau yn erbyn hysbysiadau a roddir o dan adran 24C neu 24D o Ddeddf 1967 (a fewnosodir gan adran 37).

208. Fel rheol gyffredinol, nid yw hysbysiadau a roddir o dan adran 24C neu 24D o’r Ddeddf honno mewn cysylltiad â thrwydded cwympo coed yn cymryd effaith hyd nes bod cyfle wedi ei roi i ddwyn apêl neu fod yr apêl wedi cael ei phenderfynu. Fodd bynnag, gall hysbysiad a roddir o dan adran 24C neu 24D o’r Ddeddf gymryd effaith ar unwaith (i) i’r graddau y mae’r hysbysiad yn atal dros dro drwydded cwympo coed, neu (ii) i’r graddau y mae’r hysbysiad yn diwygio neu’n dirymu trwydded cwympo coed am fod CNC yn ystyried bod angen gwneud hynny er mwyn ymateb i risg difrifol, a hwnnw ar fin digwydd, o niwed i’r nodweddion amgylcheddol a ddisgrifir yn adran 25(2B)(b).

**Adran 40 – Cosb am gwympo coed heb drwydded**

209. Mae adran 40 yn diwygio adran 17 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i ddarparu mai dirwy ddiderfyn yw'r gosb am droseddau a gyflawnir mewn cysylltiad â thir yng Nghymru. Mae'r drosedd yn adran 9(1) yn codi o dan unrhyw amgylchiadau pan fo coed yn cael eu cwympo heb awdurdod trwydded cwympo coed. O ganlyniad i hyn, byddai'r drosedd hon yn cael ei chyflawni nid yn unig pan gaiff coed eu cwympo ac nad oes trwydded mewn bodolaeth, ond hefyd, e.e., pan fo coed yn cael eu cwympo er gwaethaf y ffaith bod y drwydded wedi ei hatal dros dro neu ei dirymu o dan hysbysiad a roddir o dan adran 24C neu 24D, neu gan dorri amod ynghylch cwympo coed.

210. Nodir dau fecanwaith amgen yn adran 40 i ddwyn y newid hwn i effaith: mae hyn yn angenrheidiol am fod diwygiad tebyg wedi ei wneud o ran Loegr, ond nid yw wedi ei ddwyn i rym eto.

**Adran 41 – Diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Coedwigaeth 1967**

211. Mae adran 41 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967. Mae angen y diwygiadau hyn o ganlyniad i newidiadau a wneir i'r Ddeddf honno gan adrannau 35 i 39.

**RHAN 5 – BYWYD GWYLLT**

**Adran 42 – Trosolwg o'r Rhan**

212. Mae adran 42 yn nodi'r dibenion y mae'r Rhan hon o'r Bil yn diwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (p. 69) ar eu cyfer.

**Adran 43 – Gwahardd defnyddio maglau a thrapiau glud**

213. Mae adran 43 yn diwygio adran 11(1) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i'w gwneud yn drosedd i ddefnyddio dyfeisiau penodol er mwyn lladd neu gymryd anifeiliaid penodol, neu i ddefnyddio'r dyfeisiau hynny pan fo'n debygol y byddant yn dal anifeiliaid penodol neu'n achosi anaf iddynt.

214. Mae'r diwygiad i adran 11(1) o Ddeddf 1981 yn ei gwneud yn drosedd:

- i osod magl neu atalydd cebl arall yn ei lle neu yn ei le yng Nghymru, os yw'r fagl neu'r atalydd o fath sy'n debygol o achosi anaf i unrhyw anifail gwyllt sy'n dod i gysylltiad â hi neu ag ef, ac y caiff ei gosod neu ei osod mewn modd o'r fath;
- i ddefnyddio magl neu atalydd cebl arall yng Nghymru at ddiben lladd neu gymryd unrhyw anifail gwyllt;
- i osod trap glud yn ei le yng Nghymru, os yw'r trap o fath sy'n debygol o ddal unrhyw anifail asgwrn cefn (an-ddynol) sy'n dod i gysylltiad ag ef, ac y caiff ei osod mewn modd o'r fath;
- i ddefnyddio trap glud yng Nghymru at ddiben lladd neu gymryd unrhyw anifail asgwrn cefn (an-ddynol).

**Adran 44 – Addasu gwaharddiadau ar ddefnyddio dulliau eraill i ladd neu gymryd anifeiliaid gwyllt**

215. Mae adran 44 yn diwygio adran 11(2) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i addasu'r gwaharddiadau ar osod yn ei le neu yn ei lle unrhyw drap neu fagl, neu unrhyw ddyfais drydanol i ladd neu stynio, neu unrhyw sylwedd gwenwynig, sylwedd a wenwynwyd neu sylwedd llesgáu. Effaith yr addasiadau yw y bydd y gwaharddiadau yn gymwys pan fo'r defnydd o'r eitemau hynny yn "debygol" o achosi anaf i anifail gwyllt o'r

fath a bennir yn y darpariaethau hynny (yn hytrach na phan fo'r defnydd yn bwriadu achosi (*"calculated to cause")* anaf i anifail gwyllt o'r math hwnnw).

**Adran 45 – Diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**

216. Mae adran 45 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae'r diwygiadau hyn yn gysylltiedig â'r newidiadau a wneir i'r Ddeddf honno gan adrannau 43 a 44.

217. Er enghraifft, cafodd y gwaharddiad a osodir gan adran 11(1)(be) o Ddeddf 1981 (a fewnosodir gan adran 45(2)(c)) ei osod yn flaenorol, o ran Cymru ac o ran Lloegr, gan adran 11(1)(b) o Ddeddf 1981. Mae adran 45(2)(b) yn diwygio adran 11(1)(b) o Ddeddf 1981 fel nad yw'n gymwys o ran Cymru mwyach, ac mae adran 45(2)(c) yn mewnosod adran 11(1)(be) newydd sy'n gymwys o ran Cymru. Gwnaed hyn er mwyn gallu rhoi'r gwaharddiadau sy'n gymwys o ran Lloegr mewn grŵp gyda'i gilydd, wedi ei ddilyn gan y gwaharddiadau sy'n gymwys o ran Cymru (gan gynnwys y rheini a fewnosodir gan adran 43).

## RHAN 6 – CYFFREDINOL

**Adran 46 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, drosiannol etc.**

218. Mae adran 46 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed y maent yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol at ddiben unrhyw ddarpariaeth yn y Bil, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o'r fath, neu ar gyfer rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth o'r fath. Caiff rheoliadau o'r fath addasu unrhyw ddeddfiad (fel y'i diffinnir yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019), gan gynnwys y darpariaethau yn y Bil hwn.

**Adran 47 – Rheoliadau o dan y Ddeddf hon**

219. Mae adran 47 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch rheoliadau a wneir o dan y Bil hwn, ac yn nodi gweithdrefn Senedd Cymru sy'n gymwys i'r rheoliadau hynny.

220. Mae is-adran (3) yn darparu bod pŵer i wneud rheoliadau o dan y Bil yn cynnwys pŵer i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

221. Mae is-adran (4) yn darparu bod pŵer i wneud rheoliadau o dan y Bil yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed.

222. Mae is-adran (7) yn nodi'r darpariaethau o fewn y Bil sy'n rhoi pŵer i wneud rheoliadau, ac na chaniateir eu gwneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad. Mae is-adran (8) yn darparu bod gweithdrefn o'r fath hefyd yn gymwys pan fo rheoliadau yn addasu unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol.

**Adran 48 – Ystyr "amaethyddiaeth" a chyfeiriadau perthnasol**

223. Mae ystyr "amaethyddiaeth" yn ganolog i ddarpariaethau penodol yn y Bil, yn benodol y ddyletswydd RhTG (adran 2) a'r pŵer i ddarparu cymorth (adran 8). Mae adran 48 yn diffinio "amaethyddiaeth" at ddibenion y Bil. Mae'r diffiniad yn eang ei gwmpas. Y bwriad yw adlewyrchu'r ystod eang o weithgareddau ffermio sy'n cael eu cynnal yng Nghymru ar hyn o bryd, a chynnwys gweithgareddau yr ystyrir eu bod yn weithgareddau ffermio

traddodiadol, e.e. tyfu cnydau ar gyfer bwyd, yn ogystal â gweithgareddau ffermio mwy modern, e.e. amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir, sy'n cynnwys datblygiadau mwy diweddar megis ffermio fertigol.

224. Mae "da byw" yn rhan o'r diffiniad o "amaethyddiaeth", ac mae is-adran (2) yn darparu diffiniad o ystyr y term hwn, er eglurder. Yn yr un modd, mae'r diffiniad o "amaethyddiaeth" yn cynnwys cyfeiriad at "amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir", sy'n arfer gymharol newydd sy'n esblygu. Mae is-adran (2) yn darparu diffiniad o'r term hwn.

225. Mae is-adran (3) yn egluro bod termau penodol i'w dehongli yn unol â'r diffiniad o "amaethyddiaeth", gan gynnwys "busnesau amaethyddol".

**Adran 49 – Ystyr "gweithgaredd ategol"**

226. Mae adran 49 yn diffinio "gweithgaredd ategol" at ddibenion y Bil.

227. Yn y diffiniad, mae paragraff (a) yn pennu gweithgareddau penodol a gynhelir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth (fel y'i diffinnir yn adran 48), ac mae paragraff (b) yn cyfeirio at weithgareddau eraill a restrir, nad oes angen eu cynnal ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth, ond y mae rhaid iddynt fod yn gysylltiedig â chynhyrchion sy'n deillio o amaethyddiaeth.

228. Bwriad y diffiniad yw nodi'r gweithgareddau a gynhelir gan y sector amaethyddol, yn ogystal â'i weithgareddau craidd, i gefnogi busnes a chanlyniadau amgylcheddol y sector.

**Adran 50 – Pŵer i ddiwygio adrannau 48 a 49**

229. Mae adran 50 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r diffiniadau o "amaethyddiaeth" a "gweithgaredd ategol" drwy reoliadau.

230. Bwriad rhoi'r pŵer hwn yw sicrhau bod modd i'r Bil addasu, er enghraifft, i unrhyw newidiadau mewn arferion amaethyddol neu ffermio yn y dyfodol a allai ddeillio o ddatblygiadau ym maes rheoli tir neu ddatblygiadau technolegol yn y dyfodol.

**Adran 51 – Dehongli arall**

231. Mae adran 51 yn diffinio geiriau a thermau eraill a ddefnyddir yn y Bil.

**Adran 52 – Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau etc.**

232. Mae is-adran (1) yn rhoi effaith i Atodlen 2 sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol, sy'n ymwneud â Rhannau 1 a 3, i ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol.

233. Mae is-adran (2) yn rhoi effaith i Atodlen 3, sy'n diwygio'r Rheoliad CMO.

**Adran 53 – Dod i rym**

234. Mae adran 53 yn dwyn darpariaethau'r Bil i rym.

235. Mae is-adran (1) yn dwyn y darpariaethau a ganlyn o'r Bil i rym drannoeth diwrnod y Cydsyniad Brenhinol: Rhan 4 (ond dim ond at ddiben gwneud rheoliadau o dan adran 32 o Ddeddf Coedwigaeth 1967) a Rhan 6 (ac eithrio adran 52, ac Atodlenni 2 a 3).

236. Mae is-adran (2) yn dwyn y darpariaethau a ganlyn i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â diwrnod y Cydsyniad Brenhinol: Rhan 1 (RhTG); Pennod 1 o Ran 2 (pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth); Pennod 2 o Ran 2 (pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ariannol a chymorth arall); Pennod 4 o Ran 2 (tenantiaethau amaethyddol), a Rhan 5 (bywyd gwyllt).

237. Mae is-adran (3) yn dwyn darpariaethau penodol o Atodlen 2 i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â diwrnod y Cydsyniad Brenhinol, yn ogystal ag adran 52, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau hynny. (Yn achos y darpariaethau a bennir ym mharagraffau (a) a (b), ni chânt eu cychwyn ac eithrio at ddibenion a bennir.) Mae hyn er mwyn sicrhau, i'r graddau y mae diwygiadau canlyniadol a diddymiadau yn Atodlen 2 yn ymwneud â'r darpariaethau yn y Bil sy'n cael eu cychwyn gan is-adran (2), fod y diwygiadau a'r diddymiadau hynny eu hunain yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis.

238. Mae is-adran (4) yn darparu bod pob darpariaeth arall yn y Bil yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

239. Mae is-adran (5) yn caniatáu i orchymyn o dan is-adran (4) bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol, a gwneud darpariaethau darfodol, darpariaethau trosiannol a darpariaethau arbed.

**Adran 54 – Enw byr**

240. Mae'r adran hon yn rhoi enw byr y Bil, sef "Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023".

### Atodlen 1 – Cynhyrchion amaethyddol sy’n berthnasol i ddarpariaethau safonau marchnata

241. Cyflwynir Atodlen 1 gan adran 32. Mae’n cynnwys y rhestr o gynhyrchion amaethyddol y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â hwy o dan adran 32.

242. Mae paragraffau 1 i 9 yn gweithredu drwy gyfeirio at y Rheoliad CMO (a ddiffinnir yn adran 51); mae paragraff 10 yn gweithredu drwy gyfeirio at y Rheoliad Gwin a Bersawrwyd fel y’i diffinnir ym mharagraff 11.

### Atodlen 2 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol etc. sy’n ymwneud â rhannau 1 i 3

243. Cyflwynir Atodlen 2 gan adran 52.

### Rhan 1: Diwygiadau, Diddymiadau ac Arbedion sy’n ymwneud â Deddf Amaethyddiaeth 2020

244. Mae paragraff 1 yn cyflwyno’r diwygiadau i Ddeddf 2020.

245. Mae paragraff 1(2) yn diddymu’r adran o Ddeddf 2020 sy’n cyflwyno Atodlen 5 i’r Ddeddf honno. Mae Atodlen 5 i Ddeddf 2020 yn gwneud darpariaeth o ran Cymru yn unig, ac mae wedi ei diddymu gan y Bil hwn (gweler paragraff 1(9)).

246. Mae paragraff 1(3) y diddymu’r adran o Ddeddf 2020 sy’n darparu bod darpariaethau penodol yn y Ddeddf o ran Cymru yn dod i ben ar ddiwedd 2024, am fod y darpariaethau dan sylw wedi eu diddymu gan y Bil hwn.

247. Mae paragraff 1(4) yn diddymu darpariaeth benodol yn yr adran o Ddeddf 2020 sy’n cyflwyno Atodlen 7 i’r Ddeddf honno. Mae Atodlen 7 i Ddeddf 2020 yn diwygio’r Rheoliad CMO (a ddiffinnir yn adran 51) o ganlyniad i ddarpariaethau penodol yn y Ddeddf honno, y mae rhai ohonynt wedi eu diddymu gan y Bil hwn, ac felly mae paragraff 1(4) yn diddymu’r cyfeiriadau at y darpariaethau a ddiddymir.

248. Mae paragraff 1(5) yn diwygio pŵer Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf 2020 i wneud darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol neu ddarpariaeth ganlyniadol mewn cysylltiad â darpariaethau yn y Ddeddf honno, er mwyn dileu cyfeiriadau at y darpariaethau hynny sydd wedi eu diddymu gan y Bil hwn. Mae hefyd yn sicrhau na all yr Ysgrifennydd Gwladol wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliannol na darpariaeth ganlyniadol y byddai Gweinidogion Cymru wedi gallu ei gwneud pe na bai’r darpariaethau hynny wedi eu diddymu gan y Bil hwn.

249. Mae paragraff 1(6) yn diwygio pŵer Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf 2020 i wneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â darpariaethau yn y Ddeddf honno sy’n dod i rym, er mwyn dileu cyfeiriadau at ddarpariaethau a ddiddymir gan y Bil hwn.

250. Mae paragraffau 1(7) ac 1(8) yn diwygio dwy adran arall o Ddeddf 2020 i ddileu cyfeiriadau at ddarpariaethau yn y Ddeddf honno a ddiddymir gan y Bil hwn.

251. Mae paragraff 1(9) yn diddymu Atodlen 5 i Ddeddf 2020, sy’n gymwys o ran Cymru yn unig.

252. Mae paragraff 1(10) yn diddymu'r diwygiadau canlyniadol a wnaed i'r Rheoliad CMO (a ddiffinnir yn adran 51) gan Rannau 2 a 4 o Atodlen 7 i Ddeddf 2020. Mae'r ddarpariaeth yn Atodlen 3 yn disodli'r ddarpariaeth hon.

253. Mae paragraff 2 yn darparu bod rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 2 o Atodlen 5 i Ddeddf 2020 yn parhau mewn grym er i'r darpariaethau hynny gael eu diddymu, a'u bod yn cael effaith fel pe baent wedi eu gwneud o dan adran 15 o'r Bil hwn.

**Rhan 2: Diwygiadau i Ddeddfau eraill**

254. Mae Rhan 2 yn diwygio pedair Deddf arall i'w gwneud yn ofynnol i ystyried yr adroddiad(au) RhTG (a gyhoeddir o dan adran 6) wrth arfer swyddogaethau penodol (gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud â llunio, mabwysiadu ac adolygu cynlluniau ac adroddiadau eraill).

**Atodlen 3 – Diwygiadau canlyniadol etc. i'r Rheoliad CMO**

255. Cyflwynir Atodlen 3 gan adran 52. Mae'n diwygio'r Rheoliad CMO (a ddiffinnir yn adran 51), sy'n ymwneud â marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol.

**Rhan 1: Diwygiadau sy'n ymwneud â Phennod 3 o Ran 2 (ymyrraeth mewn marchnadoedd)**

256. Mae Rhan 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2020 yn datgymhwyso darpariaethau penodol yn y Rheoliad CMO, o ran Cymru, cyhyd ag y bo'r ddarpariaeth bresennol â therfyn amser iddi ynghylch amodau eithriadol yn y farchnad yn Atodlen 5 i Ddeddf 2020 yn para. (Mae'r darpariaethau sydd wedi eu datgymhwyso yn ymwneud ag amodau eithriadol yn y farchnad.)

257. Gan fod y Bil yn disodli'r ddarpariaeth â therfyn amser iddi yn Atodlen 5 i Ddeddf 2020, mae Rhan 1 o Atodlen 3 yn diwygio'r Rheoliad CMO o ganlyniad i hynny mewn perthynas ag ymyrraeth mewn marchnadoedd (gan na fydd y diwygiad a wnaed i'r Rheoliad CMO gan Atodlen 7 i Ddeddf 2020 yn briodol iddo mwyach). Ond, gan nad yw'r diwygiad a wnaed i'r Rheoliad CMO gan Atodlen 7 i Ddeddf 2020 mewn grym eto, mae Atodlen 3 yn darparu (yn Rhan 1) ddiwygiadau canlyniadol amgen i'r Rheoliad CMO.

258. Mae'r diwygiad ym mharagraff 1 yn gwneud darpariaeth sy'n gymwys os bydd paragraff 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2020 wedi ei ddwyn i rym cyn paragraff 1 o Atodlen 3 (ac mae wedi diwygio'r Rheoliad CMO i Gymru er mwyn datgymhwyso Erthyglau 219, 220, 221 a 222 o Ran V o'r Rheoliad CMO i Gymru).

259. Effaith y diwygiad ym mharagraff 1 yw diwygio'r diwygiad a wnaed i'r Rheoliad CMO gan baragraff 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2020, drwy ddileu'r elfen o'r diwygiad hwnnw â therfyn amser iddi (nid yw'r elfen â therfyn amser iddi yn briodol mwyach gan nad oes terfyn amser i'r ddarpariaeth a wneir gan y Bil ar gyfer amodau eithriadol yn y farchnad). Y canlyniad terfynol yw bod Erthyglau 219, 220, 221 a 222 o Ran V o'r Rheoliad CMO wedi eu datgymhwyso mewn perthynas â chynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru, ar sail benagored.

260. Mae paragraff 2 yn cael yr un effaith, sef datgymhwyso Erthyglau 219, 220, 221 a 222 o Ran V o'r Rheoliad CMO mewn perthynas â chynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru, ar sail benagored. Fodd bynnag, mae strwythur gwahanol i'r diwygiad yn y paragraff hwn, ac ni

fydd yn cael effaith os yw'r diwygiad ym mharagraff 2 o Atodlen 7 i Ddeddf 2020 wedi ei gychwyn cyn i Ran 1 o Atodlen 3 gael ei chychwyn.

**Rhannau 2 a 3: Diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 32 (safonau marchnata) ac adran 33 (dosbarthiad carcasau)**

261. Mae Rhan 4 o Atodlen 7 i Ddeddf 2020 yn diwygio erthyglau yn y Rheoliad CMO mewn perthynas â safonau marchnata a dosbarthiad carcasau yng Nghymru.

262. Effaith y diwygiadau ym mharagraffau 4 i 12, a pharagraffau 24 i 26 (Rhan 3), o Atodlen 3 yw rhoi cyfeiriadau i'r Bil yn lle cyfeiriadau i Ddeddf 2020 yn yr erthyglau perthnasol yn y Rheoliad CMO.

**Rhan 4: Darpariaeth arbed**

263. Mae paragraffau 31 a 32 yn cadw rheoliadau presennol a wnaed gan y Comisiwn Ewropeaidd o dan y Rheoliad CMO sy'n rheoleiddio dosbarthiad carcasau a safonau marchnata mewn perthynas â chynhyrchion amaethyddol sy'n cael eu marchnata yng Nghymru. Yr effaith yw y bydd y rheoliadau hyn yn parhau i fod yn gymwys, er bod y pwerau y cawsant eu gwneud odanynt wedi eu datgymhwyso yng Nghymru.

**COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU**

17. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar: **https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/deddfwriaeth/**

| **Cyfnod** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 26 Medi 2022 |
| Cyfnod 1 – Dadl | 7 Chwefror 2023 |
| Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau | 8 Chwefror 2023 – 21 Ebrill 2023 |
| Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau | 16 Mai 2023 |
| Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Senedd | I'w gadarnhau |
| Y Cydsyniad Brenhinol | Awst 2023 |

# Atodiad 2
## Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen/ paragraff |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd | Datganiad Aelod | Tudalen 1 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalennau 12-90 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Disgrifir y costau a'r opsiynau ar dudalennu 110-434 |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br><br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br>(b) manylion y Bil, ac<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau); | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 90-100 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 90-100 |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 90-100 |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen/ paragraff |
|---|---|---|---|
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | Tudalennau 434-465 |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>3.1 y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;<br>3.2 yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br><br>3.3 costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br>5.10<br>3.4 dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>3.5 ar bwy y byddai'r costau'n syrthio | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 110-127<br><br>Tudalennau 127 – 434 i weld manylion yr opsiynau a'r costau a'r manteision |
| 26.6(ix) | Nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol; | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 110-127<br><br>Tudalennau 127 – 434 i weld manylion yr opsiynau a'r manteision a'r anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol |
| 26.6(x) | os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br><br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pwer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer; | Pennod 5 – Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tudalennau 100-110 |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen/ paragraff |
|---|---|---|---|
| | (b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer;<br>© gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); | | |
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio | Pennod 6 – Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 110-127 |
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Crynodeb o'r RIA – Costau cydymffurfio, gweler tudalen 110<br><br>Pennod 7<br><br>Tudalennau 377, paragraffau 7.838 a 7.839 ynghylch coedwigaeth<br><br>Tudalen 381 paragraffau 7.935 a 7.936 ynghylch maglau<br><br>Tudalen 389 paragraffau 7.964 a 7.965 ynghylch trapiau glud<br><br>Pennod 8 |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen/ paragraff |
|---|---|---|---|
| | | | Tudalennau 417 paragraffau 8.22 ynghylch maglau a thrapiau glud ac 8.23 ynghylch coedwigaeth |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Atodiad 3 –Tabl Tarddiadau | Tudalennau 465-471 |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy’n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi’n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Atodiad 4 – Atodlen Ddiwygiadau | Tudalennau 471-499 |

# Atodiad 3

## Tabl Tarddiadau

Bwriedir i'r tabl isod ddarparu gwybodaeth ynghylch tarddiad y darpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth (Cymru). Nid yw'r tabl yn darparu canllawiau diffiniol na chyflawn, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r nodiadau esboniadol ar y Bil. Er bod gofal wedi ei gymryd i sicrhau bod y ddogfen mor gywir ag y bo'n rhesymol ymarferol, nid yw'n honni bod yn awdurdodol, ac ni ddylid dibynnu arni fel pe bai'n awdurdodol.

**ALLWEDD I'R BYRFODDAU**

| | |
|---|---|
| AA 2020 | Deddf Amaethyddiaeth 2020 |

| ADRAN/PARAGRAFF | CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES | NEWID SYLWEDDOL |
|---|---|---|
| **Rhan 1: Rheoli Tir yn Gynaliadwy** | | |
| 1-7 | Newydd | Amh |
| **Part 2: Support for Agriculture etc.** | | |
| 8-14 | Newydd | Amh |
| 10-14 | Newydd | Amh |
| 15 | Paragraff 2 & 3, Atodlen 5 i AA 2020 | Oes |
| 16 | Paragraff 4, Atodlen 5 i AA 2020 | Oes |
| 17 | Paragraff 5, Atodlen 5 i AA 2020 | Na |
| 18 | Paragraff 6, Atodlen 5 i AA 2020 | Na |
| 19 | New | Amh |
| 20 | Paragraff 7, Atodlen 5 i AA 2020 | Na |
| 21 | Paragraff 8, Atodlen 5 i AA 2020 | Na |
| 22 | Paragraff 9, Atodlen 5 i AA 2020 | Na |
| 23(2)(a) | Paragraff 7, Atodlen 3 i AA 2020 | |
| **23(2)(c)** | Newydd ond mewnosodir is-adran (j) (amodau eithriadol yn y farchnad) sy'n tarddu o Baragraff 7, Atodlen 3 o AA 2020. | Na |

| | | |
|---|---|---|
| **Rhan 3: Materion sy'n ymwneud ag Amaethyddiaeth a Chynhyrchion Amaethyddol** | | |
| 24 | Paragraff 10, Atodlen 5 i AA 2020 | Na |
| 25 | Paragraff 11, Atodlen 5 i AA 2020 | Na |
| 26-27 | Newydd | Amh |
| 28 | Paragraff 12, Atodlen 5 i AA 2020 | Na |
| 29 | Paragraff 13, Atodlen 5 i AA 2020 | Na |
| 30 | Paragraff 14, Atodlen 5 i AA 2020 | Na |
| 31 | Paragraff 15, Atodlen 5 i AA 2020 | Na |
| 32 | Paragraff 16, Atodlen 5 i AA 2020 | Na |
| 33 | Paragraff 18, Atodlen 5 i AA 2020 | |
| **Rhan 4: Coedwigaeth** | | |
| 34-41 | Newydd | Amh |
| **Rhan 5: Bywyd Gwyllt** | | |
| 42-45 | Newydd | Amh |
| **Rhan 6: Cyffredinol** | | |
| 46 | Adrannau 53(2) a 54(2) AA 2020 | Na |
| 47 | Adran 50 AA 2020 | Na |
| 48-54 | Newydd | Amh |
| **Atodlen 1: Cynhyrchion amaethyddol sy'n berthnasol i ddarpariaethau safonau marchnata** | | |
| Yr Atodlen Gyfan | Paragraff 17, Atodlen 5 i AA 2020 | Na |
| **Atodlen 2: Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol etc sy'n ymwneud â rhannau 1 i 3** | | |
| Yr Atodlen Gyfan | Newydd | Amh |
| **Atodlen 3: Diwygiadau canlyniadol etc. i'r Rheoliad CMO** | | |
| Yr Atodlen Gyfan | Newydd/ Atodlen 7 i AA 2020 | Amh neu Na |

# Atodiad 4

# Atodlen Ddiwygiadau

DIWYGIADAU I'W GWNEUD GAN FIL AMAETHYDDOL (CYMRU)

Bwriedir i'r ddogfen hon ddangos sut y byddai darpariaethau'r amrywiol ddeddfau a mesurau fel yr oeddent yn gymwys o ran Cymru ar 19 Awst 2022 yn edrych wedi iddynt gael eu diwygio gan Fil Amaethyddiaeth (Cymru) (pe bai'n cael ei ddeddfu fel y'i cyflwynwyd ar 26 Medi 2022.

- Deddf Coedwigaeth 1967
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- Deddf Daliadau Amaethyddol 1986
- Deddf yr Amgylchedd 1995
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
- Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
- Deddf Amaethyddiaeth Act 2020
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf yr Amgylchedd 2021
- REUL 1308/2013 Sefydlu Trefniadaeth Gyffredin o'r Farchnad

Ceir llinell drwy'r testun sydd i gael ei ddileu gan Fil Amaethyddiaeth (Cymru) e.e. ~~mae testun sydd wedi ei ddileu yn edrych fel hyn~~. Mae testun sydd i'w ychwanegu gan Fil Amaethyddiaeth (Cymru) wedi ei danlinellu, e.e. mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn. Rhoddir y cyfeiriadau at y darpariaethau diwygio perthnasol yn y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Cynhwysir nifer o ddarpariaethau cysylltiedig o'r Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, er mwyn helpu i ddeall y diwygiadau arfaethedig.

**Rhybudd**

Mae'r testun hwn wedi ei lunio gan swyddogion Adran Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrech wedi ei gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf neu'r Bil.

At ddiben helpu pobl i ddeall effaith Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn unig y mae'r testun wedi ei lunio. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

| Deddf Coedwigaeth 1967 | **Diwygir gan** |
|---|---|
| Section 10 Application for felling licence and decision of appropriate authority forestry authority thereon<br>(2) Subject to the provisions of this Act (and, in particular, to their duty to take advice under section 37(3)), the appropriate forestry authority may on any such application grant the licence, or grant it subject to conditions, or refuse it, but shall grant it unconditionally except in a case where it appears to them to be expedient to do otherwise—<br>(a) in the interests of good forestry or agriculture or of the amenities of the district; ~~or~~<br>(b) for the purpose of complying with their duty of promoting the establishment and maintenance of adequate reserves of growing trees; or | *Rhan 4*<br>*Adran 41(2)* |
| (c) in relation to land in Wales, after consultation with the applicant for the licence, for the purpose of -<br>(i) conserving or enhancing natural beauty;<br>(ii) conserving flora, fauna, geological or physiographical features, or natural habitats."<br>(3) A felling licence shall continue in force for such period (not being less than one year from the date on which it is granted) as may be specified therein. | *Adran 35* |
| (3A) The appropriate forestry authority in relation to Wales, and a person granted a felling licence by that authority under subsection (2), may agree to amend the licence at any time. | *Adran 36* |
| Section 12 conditional licences<br>(1) The conditions which may under section 10(2)(a) or (b) above be attached to a felling licence are such as the [appropriate forestry authority] after consultation with the applicant for the licence, determine to be expedient for securing—<br>(a) the restocking or stocking with trees of the land on which the felling is to take place, or of such other land as may be agreed between the [appropriate forestry authority] and the applicant; and<br>(b) the maintenance of those trees in accordance with the rules and practice of good forestry for a period not exceeding ten years. | *Adran 41(3)* |
| Section 17 Penalty for felling without licence.<br>(1) Anyone who fells a tree without the authority of a felling licence, the case being one in which section 9(1) of this Act applies so as to require such a licence, shall be guilty of an offence and<br>(a) in relation to an offence committed in Wales, liable on summary conviction to a fine not exceeding level 4 on the standard scale or twice the sum which appears to the court to be the value of the tree, whichever is the higher, or<br>(b) in relation to an offence committed in England, liable on summary conviction to a fine. | *Adran 40(2)*<br>*Dim ond os yw adran 40(1) yn gymwys* |

| | |
|---|---|
| Section 17 Penalty for felling without licence.<br>Anyone who fells a tree without the authority of a felling licence, the case being one in which section 9(1) of this Act applies so as to require such a licence, shall be guilty of an offence and<br>(a) in relation to an offence committed in Wales, liable on summary conviction to a fine, or<br>(b) in relation to an offence committed in England,<br>~~liable on summary conviction to a fine not exceeding [level 4 on the standard scale]~~[1] ~~or twice the sum which appears to the court to be the value of the tree, whichever is the higher.~~ | *Dim ond os yw adran 40(3) yn gymwys* |
| 24C Variation of conditions or suspension or revocation of licence after breach: Wales<br>(1) The provisions of this section apply if, in relation to a felling licence granted in relation to land in Wales, the Natural Resources Body for Wales considers that any condition of the licence—<br>(a) has not been complied with,<br>(b) is not being complied with, or<br>(2) But this section does not apply to a condition requiring works to be carried out (as to which see section 24).<br>(3) The Natural Resources Body for Wales may give to the person responsible a notice which makes provision for one or more of the following—<br>(a) a suspension of the felling licence, either in full or in part;<br>(b) a variation or removal of any existing condition of the felling licence or an imposition of a new condition;<br>(c) where the circumstances referred to in subsection (4) apply, a revocation of the felling licence.<br>(4) The circumstances are that the condition that has not been complied with, is not being complied with or is likely not to be complied with, was imposed for the purpose mentioned in section 10(2)(c).<br>(5) A notice given under subsection (3) may also make provision—<br>(a) requiring the person responsible to take such steps as may be specified in the notice , and<br>(b) specifying the period (not being less than the prescribed period after the notice has become operative) within which those steps must be completed.<br>(6) A notice given under subsection (3) must (a) set out the reasons for giving the notice;<br><br>(b) specify the condition that has not been or is not being complied with; | *Rhan 4*<br>*Adran 37* |

| | |
|---|---|
| (c) if the notice suspends the felling licence, specify the period for which the licence is to be suspended;<br><br>(d) if the notice varies conditions or revokes the felling licence, specify the date upon which the variation or revocation takes effect;<br><br>(e) if the notice suspends the felling licence in part, specify the felling that may continue.<br>(7) Where a notice given under subsection (3) suspends a felling licence, either in full or in part, the suspension ends with the earlier of—<br>(a) the expiry of the period specified in the notice under subsection (6)(c), and<br><br>(b) the date specified in any further notice given to the person responsible by the Natural Resources Body for Wales under this paragraph.<br><br>(8) The Natural Resources Body for Wales may give a further notice under subsection (7)(b) if it considers that the suspension should be lifted sooner than the date specified in the notice given under subsection (7)(b). (9) If—<br><br>(a) a notice given under subsection (3) requires a person to take steps in accordance with subsection (5)(a), and<br>3.6<br>(b) those steps have not been completed before the end of the period specified in that notice in accordance with subsection (5)(b),<br><br>the Natural Resources Body for Wales may enter on the land and take those steps.<br><br>(10) A person who, without reasonable excuse, fails to take any steps required by a notice given under subsection (3) commits an offence and is liable on summary conviction to a fine (but this does not affect the powers of the Natural Resources Body for Wales under subsection (9)).<br><br>(11) Proceedings in respect of an offence under subsection (10)—<br><br>(a) must be commenced within the period of six months starting on the day the person commencing the proceedings becomes aware of the offence;<br><br>(b) may not be commenced more than two years after the date of the offence. | |

| | |
|---|---|
| (12) A person who is required by a notice under subsection (3) to take steps may take the steps notwithstanding any lease, covenant or contract relating to the trees or land affected by the notice.<br><br>(13) For the purposes of this section and section 24D, “the person responsible” is—<br>(a) the applicant for the licence, if on the date the notice is given the applicant has such estate or interest in the land as is referred to in section 10(1);<br><br>(b) in any other case, the owner of the land.<br>24D Suspension, amendment or revocation of tree felling licence where no breach: Wales<br>(1) The provisions of this section apply if, in relation to a felling licence granted in relation to land in Wales, the Natural Resources Body for Wales considers that felling in accordance with the licence is causing, or is likely to cause, significant harm to—<br>(a) natural beauty, or<br>(b) flora, fauna or geological or physiographical features or natural habitats.<br><br>(2) The Natural Resources Body for Wales may give to the person responsible a notice which makes provision for one or more of the following—<br>(a) a suspension of the felling licence;<br>(b) an amendment of the felling licence<br>(c) if the Natural Resources Body for Wales considers that amending the felling licence would not prevent the harm that is being caused or is likely to be caused, a revocation of the felling licence.<br><br>(3) A notice given under subsection (2) must<br>(a) set out the reasons for giving the notice;<br><br>(b) specify the harm that felling in accordance with the licence is causing or is likely to cause;<br><br>(c) if the notice suspends the felling licence, specify the period for which the licence is to be suspended;<br><br>(d) if the notice amends or revokes the felling licence, specify the date upon which the amendment or revocation takes effect;<br>3.7<br>(e) if the notice suspends the felling licence in part, specify the felling that may continue.<br>3.8<br>(4) Where a notice given under subsection (2) suspends a felling licence, either in full or in part, the suspension ends with the earlier of— | |

| | |
|---|---|
| (a) the expiry of the period specified in the notice under subsection (3)(c), and<br><br>(b) the date specified in any further notice given to the person responsible by the Natural Resources Body for Wales under this paragraph.<br><br>(5) The Natural Resources Body for Wales must give a further notice specifying a date under subsection (4)(b) if it considers that felling in accordance with the felling licence (as it would have effect after that date) would neither cause nor be likely to cause the harm specified in the notice that suspended the licence.<br><br>24E Compensation following receipt of a notice under section 24C or 24D: Wales<br>(1) If in the case of any trees the Natural Resources Body for Wales suspends, amends or revokes a felling licence by giving a notice under section 24D(2), any person who is for the time being the owner of the trees is entitled to compensation under and in accordance with this section.<br><br>(2) If in the case of any trees the Natural Resources Body for Wales gives a person a notice under section 24C(3) and either—<br><br>(a) the notice is cancelled by the Welsh Ministers under section 25(4), or<br><br>(b) in the case of a notice that suspends a felling licence, a direction is given to the Natural Resources Body for Wales under section 25(4)(a)(i) to give a notice ending the suspension,<br><br>any person who is for the time being the owner of the trees is entitled to compensation under and in accordance with this section.<br><br>(3) Where a person is entitled to compensation following an appeal made on the grounds in section 25(1A)(b), compensation is payable to that person for any expenses reasonably incurred in connection with completing the steps specified in the notice.<br><br>(4) Where a person is entitled to compensation in any other case, compensation is payable to that person for any depreciation in the value of the trees which is attributable to deterioration in the quality of the timber comprised in the trees as a result of the giving of the notice.<br><br>(5) Compensation is recoverable from the Natural Resources Body for Wales on a claim made in the prescribed manner following— | *Adran 38* |

(a) the receipt of a notice under section 24D(2),

(b) the cancellation of a notice under section 25(4), or

(c) the giving of a direction under section 25(4)(a)(i).

(6) A claim for compensation that is payable under subsection (4) may be made in respect of deterioration in the quality of the timber that occurs on or after the date on which—

(a) the notice given under section 24D(2) takes effect,

(b) the notice is cancelled by the Welsh Ministers under section 25(4), or

(d) a direction is given under section 25(4)(a)(i).

(7) But—

(a) no claim may be made in respect of deterioration occurring more than ten years before the date of the claim; and

(b) if the trees have been felled, no claim may be made after the expiration of one year from the date of the felling.

(8) In calculating compensation -

(a) no account is to be taken of a deterioration in the quality of the timber which is attributable to neglect of the trees on or after the date on which—

(i) the notice under section 24D(2) takes effect,
(ii) the cancellation of the notice under section 25(4) takes effect, or
(iii) a direction under section 25(4)(a)(i) is given; and

(b) the value of the trees at any time is to be ascertained on the basis of prices current at the date of the claim.

(8) If—

(a) after amending a felling licence under section 24D(2) the Natural Resources Body for Wales agrees to further amend the licence under section 10(3A) so that it has the same effect as it had immediately before the licence was amended, or

(b) after revoking a felling licence under section 24D(2) the Natural Resources Body for Wales grants a new licence that has the same effect as the licence that was revoked,

| | |
|---|---|
| then in calculating compensation payable in consequence of the amendment or revocation, no account is to be taken of deterioration occurring after the licence is amended under section 10(3A) or after a new licence is granted.<br><br>(10) Any question of disputed compensation is to be determined in accordance with section 31. | |
| Section 25: appeal against notices<br>*25.— Appeal against notice under s. 24, S.24C or s.24D.*<br><br>(1) If a person to whom a notice under section 24 is given claims—<br>(a) that the works in question have been carried out in accordance with the conditions of the felling licence or, in the case of felling directions, that they have been complied with; or<br>(b) that the steps required by the notice to be taken are not required by the conditions or directions,<br>he may by a notice served on the Minister where the notice is given in respect of land or trees in England or Wales in the prescribed manner and within the prescribed period after the receipt of the notice under section 24, request the Minister to refer the matter to a committee appointed in accordance with section 27 below.<br><br>(1A) If a person to whom a notice under section 24C(3) or section 24D(2) is given claims—<br>(a) in respect of a notice given under section 24C(3), that a condition referred to in the notice has been complied with or is being complied with,<br>(b) in respect of a notice given under section 24C(3), that steps specified in the notice are unreasonable or disproportionate,<br>(c) in respect of a notice given under section 24C(3), that the variation of a condition of the felling licence, or the imposition of a new condition, is unreasonable or disproportionate,<br>(d) in respect of a notice given under section 24D(2), that the felling is not causing the harm specified in the notice or is not likely to cause the harm,<br>(e) in respect of a notice given under section 24D(2) to revoke a felling licence, that the harm or likely harm specified in the notice could be prevented by amending the felling licence,<br>(f) in respect of a notice given under section 24D(2), that the amendment to the felling licence is unreasonable or disproportionate, or<br>(g) in respect of a notice given under either section 24C(3) or 24D(2), that suspending or revoking the felling licence is unreasonable or disproportionate,<br>that person may by a notice served on the Welsh Ministers, in the prescribed manner and within the prescribed period after the receipt of the notice under section 24C(3) or section 24D(2), request the Welsh Ministers to refer the matter to a committee appointed in accordance with section 27. | *Adran 39* |

| | |
|---|---|
| (1B) This subsection applies if a person to whom a notice is given under section 24C(2) or 24D(3) suspending a felling licence claims that the suspension should be ended by a notice given under section 24C(7)(b) or 24D(4)(b).<br><br>(1C) If subsection (1B) applies the person mentioned in that subsection may, by a notice served on the Welsh Ministers in the prescribed manner, request the Welsh Ministers to refer the matter to a committee appointed in accordance with section 27.<br><br>(2) A notice under section 24 shall be inoperative until the expiration of the prescribed period for the purposes of subsection (1) above and, where a request to the Minister under that subsection is made, until the conclusion of any proceedings under this section in pursuance of the request.<br><br>("(2A) A notice under section 24C(3) or section 24D(2) does not take effect until the expiration of the period prescribed under subsection (1A) and, where a request is made to the Welsh Ministers under that subsection, until the conclusion of any proceedings under this section in pursuance of the request.<br><br>(2B) But subsection (2A) does not apply (and a notice may take effect immediately)—<br>(a) to the extent that a notice suspends a felling licence;<br>(b) to the extent that a notice revokes a felling licence, varies or removes a condition, imposes a new condition, or otherwise amends a felling licence, where the Natural Resources Body for Wales considers that that is necessary to respond to an imminent and serious risk of harm to—<br>(i) natural beauty, or<br>(ii) flora, fauna, geological or physiographical features, or natural habitats.<br><br>(3)Where such a request is made by a person receiving a notice under section 24, <u>24C or 24D</u>, the Minister shall, unless he is of opinion that the grounds for the request are frivolous, refer the matter accordingly to a committee so appointed.<br><br>(4)The committee to whom a matter is referred under this section, after complying with section 27(3), shall make a report on the reference to the Minister who shall, after considering the report, confirm —<br>(a) in the case of a reference relating to a request under subsection (1C)—<br>(i) direct the Natural Resources Body for Wales to give the person who made the request a notice under section 24C(7)(b) or 24D(4)(b) (as the case may be) ending the suspension, or | |

(ii) give that person a notice setting out reasons why a direction under sub-paragraph (i) is not being given;
(b) in the case of any other reference, confirm or cancel the notice to which the reference relates.

***26 Expenses etc. in connection with notices under s. 24 or s.24C.***

*Adran 41(4)*

(1)If the appropriate forestry authority, in the exercise of their powers under section 24 or section 24C, enter on land and take any steps required by a notice under that section, they may recover from the person to whom the notice was given any expenses reasonably incurred in connection therewith.

(2)The appropriate forestry authority may remove and either retain or dispose of trees felled by them in the exercise of their said powers, and shall, on a claim made in the prescribed manner by the owner of any trees so removed, pay to him a sum equal to the value of those trees after deducting any expenses reasonably incurred by them in connection with the removal or disposal.

(3)Subject to any express agreement to the contrary, any expenses incurred by a person for the purpose of complying with a notice under section 24 or section 24C, and any sums paid by a person in respect of expenses of the appropriate forestry authority under either of those sections ~~that section~~, shall be deemed to be incurred or paid by that person—

(a) where the notice under section 24 relates to works required to be carried out in pursuance of conditions of a felling licence, for the use and at the request of the applicant for the licence;

(b) where ~~the~~ a notice under section 24 requires compliance with felling directions, for the use and at the request of the person to whom the directions were given.

(c) where a notice is given under section 24C, for the use and at the request of the applicant for the licence.

(4) Any sums recoverable by or from the appropriate forestry authority under this section may be recovered as a simple contract debt.

**29 Provisions relating to mortgages, heritable securities and settled land.**

*Adran 41(5)*

(1) Where the interest of the owner of trees in England or Wales is for the time being subject to a mortgage—

| | |
|---|---|
| (a) a claim for any compensation or sum payable under section 11, section 24E or section 26 of this Act in respect of the trees may be made either by the mortgagor or by the mortgagee;<br><br>(b) in either case the compensation or sum shall be paid to the mortgagee or, if more than one, to the first mortgagee, and shall be applied by him as if it were proceeds of the sale of the trees.<br><br>**F2**(2). . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .<br><br>(3)Subject to the foregoing provisions of this section, where the owner of trees comprised in a settlement within the meaning of the Settled Land Act 1925 is a tenant for life who is impeachable for waste in respect of the trees, any compensation or sum payable under section 11, section 24E or section 26 of this Act in respect of the trees shall be paid to the trustees of the settlement, and shall be applied by them in accordance with section 66(2) of the Settled Land Act 1925 as if it were proceeds of sale of timber cut and sold with the consent of the trustees under that section.<br><br>Section 31<br>*31.— Determination of matters arising under ss. 11, 14, 21, 22 and 24E.* ~~*and 22.*~~ | *Adran 41(6)* |
| | |
| Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 | **Diwygir gan** |
| Section 11<br>(1) Subject to the provisions of this Part, if any person—<br>(a) sets in position in England any self-locking snare which is of such a nature and so placed as to be calculated to cause bodily injury to any wild animal coming into contact therewith;<br>(b) uses for the purpose of killing or taking any wild animal any self-locking snare, whether or not of such a nature or so placed as aforesaid, any bow or cross-bow or any explosive other than ammunition for a firearm;<br>(ba) sets in position in Wales any snare, or other cable restraint, which is of such a nature and so placed as to be likely to cause bodily injury to any wild animal coming into contact with it;<br>(bb) uses in Wales for the purpose of killing or taking any wild animal any snare, or other cable restraint, whether or not of such a nature or so placed as aforesaid;<br>(bc) sets in position in Wales any glue trap which is of such a nature and so placed as to be likely to catch any animal coming into contact with it; | Adran 43(a),<br><br>Adran 44 a 45 |

(bd) uses in Wales for the purpose of killing or taking any animal any glue trap, whether or not of such a nature or so placed as aforesaid;
(be) uses in Wales for the purpose of killing or taking any wild animal any bow or cross-bow or any explosive other than ammunition for a firearm;
(c) uses as a decoy, for the purpose of killing or taking any wild animal, any live mammal or bird whatever
(d) knowingly causes or permits to be done an act which is mentioned in the foregoing provisions of this section,
he shall be guilty of an offence.

(2) Subject to the provisions of this Part, a person shall be guilty of an offence if that person—
(a) uses, otherwise than in Wales, any trap or snare or in Wales, any trap other than a glue trap, for the purpose of killing or taking or restraining any wild animal included in Schedule 6 or 6ZA;
(b) sets in position, otherwise than in Wales, any trap or snare or in Wales, any trap other than a glue trap of such a nature and so placed as to be—
(i) in England ~~and Wales~~, calculated to cause bodily injury to any wild animal included in Schedule 6 or 6ZA;
(ii) in Scotland or Wales, likely to cause bodily injury to any such wild animal;
(c) sets in position any electrical device for killing or stunning, or any poisonous, poisoned or stupefying substance, of such a nature and so placed as to be—
(i) in England ~~and Wales~~, calculated to cause bodily injury to any wild animal included in Schedule 6;
(ii) in Scotland or Wales, likely to cause bodily injury to any such wild animal;
(d) uses for the purpose of killing or taking any wild animal included in Schedule 6—
(i) any electrical device for killing or stunning;
(ii) any poisonous, poisoned or stupefying substance;
(iii) any net;
(iv) any automatic or semi-automatic weapon;
(v) any device for illuminating a target or sighting device for night shooting;
(vi) any form of artificial light or any mirror or other dazzling device;
(vii) any gas or smoke not falling within sub-paragraph (ii);
(viii) any sound recording used as a decoy; or
(ix) any mechanically propelled vehicle in immediate pursuit of any such animal;
(e) uses any mechanically propelled vehicle for the purpose of driving any wild animal included in Schedule 6; or
(f) knowingly causes or permits to be done an act mentioned in paragraphs (a) to (e).
(3) Subject to the provisions of this Part, if any person—
(a) sets in position or knowingly causes or permits to be set in position, otherwise than in Wales, any snare which is of such a nature

| | |
|---|---|
| and so placed as to be calculated to cause bodily injury to any wild animal coming into contact therewith; and<br>(b) while the snare remains in position fails, without reasonable excuse, to inspect it, or cause it to be inspected, at least once every day,<br>he shall be guilty of an offence.<br><br>(7) In any proceedings for an offence under subsection (2)(f) relating to an act which is mentioned in subsection (2)(b) or (c) it shall be a defence to show that the article was set in position for the purpose of killing or taking, in the interests of public health, agriculture, forestry, fisheries or nature conservation, any wild animals which could be lawfully killed or taken by those means and that he took or caused to be taken all reasonable precautions to prevent injury thereby to any wild animals included in the relevant Schedule<br>(7ZA) For the purposes of paragraphs (bc) and (bd) of subsection (1), “animal” means a vertebrate (other than a human). | |
| Section 16: Power to grant licences<br>(3) Sections 9(1), (2), (4) and (4A), 11(1) <u>( a), (b), (be), (c) and (d)</u> and (2) and 13(1) do not apply to anything done—<br>(a) for scientific or educational purposes;<br>(b) for the purpose of ringing or marking, or examining any ring or mark on, wild animals;<br>(c) for the purpose of conserving wild animals or wild plants or introducing them to particular areas;<br>(d) for the purpose of protecting any zoological or botanical collection;<br>(e) for the purpose of photography;<br>(f) for the purpose of preserving public health or public safety;<br>(g) for the purpose of preventing the spread of disease; or<br>(h) for the purpose of preventing serious damage to livestock, foodstuffs for livestock, crops, vegetables, fruit, growing timber or any other form of property or to fisheries,<br>if it is done under and in accordance with the terms of a licence granted by the appropriate authority.<br><br>(3ZA) A licence granted under subsection (3) may permit the use <u>in England</u> of a trap or snare <u>, or, in Wales, of a trap other than a glue trap,</u> for the purpose of killing, taking or restraining a wild animal included in Schedule 6ZA only if the trap or snare—<br>(a) meets the conditions relating to certification (see subsections (3ZB) to (3ZF)); or<br>(b) meets the approved design conditions (see subsections (3ZG to (3ZI)).<br>This subsection is subject to (3ZJ).<br>(3ZG) For the purposes of subsection (3ZA)(b) a trap or snare meets the approved design conditions if it—<br>(a) has been constructed by the person using it; and | Adran 43(b) |

| | |
|---|---|
| (b) complies with a design approved for this purpose by or on behalf of the Secretary of State (where it is used in England or Scotland) or the Welsh Ministers (where a trap other than a glue trap is used in Wales). ~~(where it is used in Wales).~~<br><br>(3ZI) In subsection (3ZH), *"the relevant authority"* means—<br>(a) the Secretary of State, for designs of traps or snares approved for use in England;<br>(b) the Welsh Ministers, for designs of traps ~~or snares~~ approved for use in Wales;<br>(c) the Scottish Ministers, for designs of traps or snares approved for use in Scotland. | |
| Section 19A Disputes relating to requests for landlord's consent or variation of terms.<br><br>(7) In this section—………<br>*"relevant financial assistance"* means financial assistance under—<br>(a) section 1 of the Agriculture Act 2020 (powers of Secretary of State to give financial assistance),<br>(b) section 21 of~~, or paragraph 8 of Schedule 5 to, that Act (powers of Secretary of State and Welsh Ministers~~ that Act (powers of Secretary of State to give financial assistance in exceptional market conditions), ~~or~~<br>(c) a scheme of the sort mentioned in section 2(4) of that Act (third party schemes);<br>(d) section 8 of the Agriculture (Wales) Act 2023 ("the 2023 Act") (Welsh Ministers' power to provide support),<br>(e) a scheme of the sort mentioned in section 9(6) of the 2023 Act (meaning of "third party scheme" for purposes of power to provide support),<br>(f) the basic payment scheme, as defined in section 15 of the 2023 Act (power to modify legislation governing the basic payment scheme),<br>(g) legislation relating to the financing, management and monitoring of the common agricultural policy, as defined in 16 of the 2023 Act (power to modify legislation relating to the common agricultural policy),<br>(h) legislation relating to support for apiculture, as defined in section 17 of the 2023 Act (power to modify legislation relating to support for apiculture),<br>(i) legislation relating to support for rural development, as defined in section 18 of the 2023 Act (support for rural development),<br>(j) section 21 of the 2023 Act (powers of Welsh Ministers to give financial assistance in exceptional market conditions); | *Rhan 2*<br>*Adran 23* |
| Deddf yr Amgylchedd 1995 | **Diwygir gan** |
| Section 66 National Park Management Plans.<br>(1) Subject to subsection (2) below, every National Park authority shall, within three years after its operational date, prepare and publish | |

| | |
|---|---|
| a plan, to be known as a National Park Management Plan, which formulates its policy for the management of the relevant Park and for the carrying out of its functions in relation to that Park.<br><br>(7A) A National Park authority for a park in Wales which is proposing to publish, adopt or review any plan under this section must have regard to—<br>(a) the state of natural resources report published under section 8 of the Environment (Wales) Act 2016, ~~and~~<br>(b) any area statement published under section 11 of that Act for an area that includes all or part of the park and<br>c) the sustainable land management report published under section 6 of the Agriculture (Wales) Act 2023” | |
| Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 | **Diwygir gan** |
| *Section 90: Supplementary provisions relating to management plans.*<br>(1A) In the case of an area of outstanding natural beauty in Wales, a conservation board or relevant local authority which is proposing to publish, adopt or review any plan under section 89 must have regard to—<br>(a) the state of natural resources report published under section 8 of the Environment (Wales) Act 2016, ~~and~~<br>(b) any area statement published under section 11 of that Act for an area that includes all or part of the area of outstanding natural beauty and<br>(c) the sustainable land management report published under section 6 of the Agriculture (Wales) Act 2023”. | Atodlen 2<br>Rhan 2 |
| Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 | **Diwygir gan** |
| *Section 90: Supplementary provisions relating to management plans.*<br>(1A) In the case of an area of outstanding natural beauty in Wales, a conservation board or relevant local authority which is proposing to publish, adopt or review any plan under section 89 must have regard to—<br>(a) the state of natural resources report published under section 8 of the Environment (Wales) Act 2016, ~~and~~<br>(b) any area statement published under section 11 of that Act for an area that includes all or part of the area of outstanding natural beauty and<br>(c) the sustainable land management report published under section 6 of the Agriculture (Wales) Act 2023”. | Atodlen 2<br>Rhan 2 |
| Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 | **Diwygir gan** |
| Section 60B: Procedure for preparation and publication of framework<br>(1) Before publishing the National Development Framework for Wales, the Welsh Ministers must—<br>(a) prepare a draft of the Framework,<br>(b) carry out an appraisal of the sustainability of the policies set out in the draft, and | Atodlen 2<br>Rhan 2 |

| | |
|---|---|
| (c) carry out consultation in accordance with the statement of public participation.<br>(1A) In preparing the draft Framework under subsection (1)(a), the Welsh Ministers must have regard to the most recent sustainable land management report published under section 6 of the Agriculture (Wales) Act 2023.” | |
| Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 | **Amended by** |
| Section 6:<br>(1) Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i’r graddau y bo hynny’n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny’n briodol.<br><br>(5) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau’r llywodraeth roi sylw i—<br><br>(a) y rhestr a gyhoeddir o dan adran 7;<br><br>(b) yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a gyhoeddir o dan adran 8;<br><br>(c) unrhyw ddatganiad ardal a gyhoeddir o dan adran 11 ar gyfer ardal sy’n cynnwys ardal gyfan neu ran o ardal y mae’r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hi.<br><br>(d) yr adroddiad rheoli tir yn gynaliadwy a gyhoeddir o dan adran 6[j022] o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. | Schedule 2<br>Part 2 |
| Deddf Amaethyddiaeth 2020 | **Diwygir gan** |
| Section 46 Wales<br><br>[repealed] | Atodlen 2 |
| Section 47: Duration of provisions in relation to Wales<br><br>[repealed] | |
| Section 52: Consequential amendments<br>Schedule 7 amends the CMO Regulation in consequence of—<br>(a) Chapter 2 of Part 2 (intervention in agricultural markets: England);<br>~~(b) Part 2 of Schedule 5 (intervention in agricultural markets: Wales);~~<br>(c) Part 5 (agricultural products);<br>~~(d) Part 4 of Schedule 5 (marketing standards and carcass classification: Wales);~~<br>(e) Part 4 of Schedule 6 (marketing standards and carcass classification: Northern Ireland). | |

| | |
|---|---|
| *Section 53: Power to make consequential etc provision*<br>(1) The Secretary of State may, subject to subsections (5) and (6), by regulations make supplementary, incidental or consequential provision in connection with any provision of this Act.<br><br>(2) The Welsh Ministers may by regulations make supplementary, incidental or consequential provision in connection with—<br>(a) sections 33 to 35, so far as relating to Wales,<br>(b) section 36 and Schedule 3, so far as relating to Wales,<br>(c) sections 38 and 39, so far as relating to Wales,<br>(d) section 46 and Schedule 5,<br>(e) section 47, and<br>(f) section 52 and Schedule 7 so far as they apply in relation to Wales.<br><br>(3) The Scottish Ministers may by regulations make supplementary, incidental or consequential provision in the law of Scotland in connection with—<br>(a) sections 33 to 35, so far as relating to Scotland, and<br>(b) sections 38 and 39, so far as relating to Scotland.<br><br>(4) DAERA may by regulations make supplementary, incidental or consequential provision in the law of Northern Ireland in connection with—<br>(a) sections 33 and 34, so far as relating to Northern Ireland,<br>(b) sections 38 and 39, so far as relating to Northern Ireland,<br>(c) section 48 and Schedule 6, and<br>(d) section 52 and Schedule 7 so far as they apply in relation to Northern Ireland.<br><br>(5) The Secretary of State may not make regulations under subsection (1) containing provision which could be made—<br>(a) by the Welsh Ministers under subsection (2)(a) or (b) or under that subsection so far as it would have allowed the Welsh Ministers to make supplementary, incidental or consequential provision in connection with— (i) section 46 and Schedule 5, (ii) section 47, and (iii) section 52 and Schedule 7 so far as applying in relation to Wales, but for the repeal of those provisions by the Agriculture (Wales) Act 2023, ~~(d) to (f),~~<br>(b) by the Scottish Ministers under subsection (3)(a), or<br>(c) by DAERA under subsection (4)(a), (c) or (d). | |

| | |
|---|---|
| *54 Power to make transitional etc provision*<br>(1) The appropriate authority may by regulations make transitional, transitory or saving provision in connection with the coming into force of any provision of this Act.<br>(2) The appropriate authority is—<br>(a) the Welsh Ministers, for provision in connection with—<br>(i) sections 33 to 35, so far as relating to Wales,<br>(ii) section 36 and Schedule 3, so far as relating to Wales,<br>(iii) sections 38 and 39, so far as relating to Wales,<br>(iv) section 46 and Schedule 5,<br>(v) section 47, and<br>(vi) section 52 and Schedule 7 so far as they apply in relation to Wales~~,~~ | |
| *Section 56: Extent*<br>(1) The following provisions of this Act extend to England and Wales only—<br>(a) Part 1, apart from sections 17 and 18;<br>(b) Chapter 2 of Part 2;<br>(c) Chapter 1 of Part 3;<br>(d) section 36 and Schedule 3;<br>(e) section 37 and Schedule 4;<br>(f) section 40;<br>(g) section 46 and Schedule 5. | |
| *Section 57: Commencement*<br>(3) The following provisions, so far as not brought into force by subsection (1)(b) or (c), come into force on such day as the Welsh Ministers may by regulations made by statutory instrument appoint—<br>(a) so far as relating to Wales—<br>(i) section 34(3) and (4),<br>(ii) paragraphs 10 to 16 and 18 of Schedule 3, and<br>(iii) section 36 so far as relating to those paragraphs,<br>(b) Part 2 of Schedule 5, and section 46 so far as relating to that Part, and<br>(c) Parts 2 and 4 of Schedule 7, and section 52 so far as relating to those Parts~~.~~ | |
| *Schedule 5*<br>[repealed] | |
| *Schedule 7*<br>*[omit Part 2]*<br>*[omit Part 4]* | |
| *Deddf yr Amgylchedd 2021* | **Diwygir gan** |
| Paragraph 2 of Schedule 16<br>*1 Introductory*<br>Part 2 of the Forestry Act 1967 (power to control felling of trees) is amended as follows. | *Adran 40(5)* (dim ond os yw adran |

| | |
|---|---|
| *2 Penalty for felling without licence: increase of fine*<br>In section 17(1) (penalty for felling without a licence)—<br>in paragraph (b), omit the words after “fine” to the end<br>(a) after "and" insert—<br>"(a) in relation to an offence committed in Wales,";<br>(b) at the end insert<br>", or<br>(b) in relation to an offence committed in England, liable on summary conviction to a fine | 40(3) y Ddeddf hon yn cymwys) |
| REUL 1308/2013 sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd<br><br>*Article 73 Scope*<br>Without prejudice to any other provisions applicable to agricultural products, as well as to the provisions adopted in the veterinary, phytosanitary and food sectors to ensure that products comply with hygiene and health standards and to protect animal, plant and human health, this Section lays down the rules concerning marketing standards. Those rules shall be divided between obligatory rules and optional reserved terms for agricultural products.<br><br>References in this Section to marketing standards as they apply in relation to products marketed in Wales, include standards set in regulations under section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023. ~~under paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020.~~<br><br>Article 75: Establishment and content<br>A2. This Article does not apply in relation to products marketed in Wales (see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023”). ~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~<br><br>*Article 78 Definitions, designations and sales descriptions for certain sectors and products*<br>3. The appropriate authority in England, Wales or Scotland may make regulations concerning the modifications, derogations or exemptions to the definitions and sales descriptions provided for in Annex VII. Those regulations shall be strictly limited to demonstrated needs resulting from evolving consumer demand, technical progress or the need for product innovation.<br>4. In order to ensure that operators have a clear and proper understanding of the definitions and sales descriptions provided for in Annex VII, the appropriate authority in England, Wales or Scotland may make regulations concerning the rules on their specification and application.<br>5. In order to take into account the expectations of consumers and the evolution of the milk products market, the [ appropriate authority [ in England, Wales or Scotland may make regulations to specify the milk products in respect of which the animal species from which the milk | |

| | |
|---|---|
| originates is to be stated, if it is not bovine, and to lay down the necessary rules.<br>7. Paragraphs 3 to 5 do not apply in relation to products marketed in Wales ((see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023) ~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~<br><br>*Article 80 Oenological practices and methods of analyses*<br>3. When authorising oenological practices for wine [under paragraph 2A , the [Secretary of State shall:<br>(a) take into account the oenological practices and methods of analyses recommended and published by the OIV, as well as the results of experimental use of as-yet unauthorised oenological practices;<br>(b) take into account the protection of human health;<br>(c) take into account the possible risk of consumers being misled due to their well established perception of the product and their corresponding expectations, having regard to the availability and feasibility of informational means to exclude such risks;<br>(d) allow the preservation of the natural and essential characteristics of the wine and not cause a substantial change in the composition of the product concerned;<br>(e) ensure an acceptable minimum level of environmental care;<br>(f) respect the general rules concerning oenological practices and the rules laid down in Annex VIII.<br>4. In order to ensure the correct treatment of unmarketable wine products, the [ Secretary of State may [, with the consent of the relevant authorities in Wales and Scotland, make regulations concerning rules on the procedures referred to in the second subparagraph of paragraph 2 of this Article, and derogations therefrom concerning the withdrawal or destruction of wine products that do not comply with the requirements.<br>5. The Secretary of State may make regulations laying down the methods referred to in point (d) of Article 75(5) for products listed in Part II of Annex VII. Those methods shall be based on any relevant methods recommended and published by the OIV, unless the relevant authorities in Wales and Scotland agree that they would be ineffective or inappropriate<br>7. Paragraphs 3 to 5 do not apply in relation to products marketed in Wales (see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023) ~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~ | |
| Article 86 Reservation, amendment and cancellation of optional reserved terms<br><br>This Article and Articles 87 and 88 do not apply in relation to products marketed in Wales (see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023). ~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~ | |

| | |
|---|---|
| Article 91 Implementing powers in accordance with the examination procedure<br><br>This Article does not apply in relation to products marketed in Wales (see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023)<br>~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~<br>The appropriate authority in England, Wales or Scotland]6 may make regulations:<br>(a) establishing the list of milk and milk products referred to in the second paragraph of point 5 of Part III of Annex VII and spreadable fats referred to in point (a) of the sixth paragraph of point I of Part VII of Annex VII;<br>(b) laying down rules for the implementation of the marketing standards by sector or product;<br>(c) laying down rules for determining whether products have undergone processes contrary to the authorised oenological practices;<br>(d) laying down rules for the methods of analysis for determining the characteristics of products;<br>(e) laying down rules for fixing the tolerance level;<br>(f) laying down rules for the implementation of the measures referred to in Article 89;<br>(g) laying down rules for the identification or registration of the producer and/or the industrial facilities in which the product has been prepared or processed, for the certification procedures and for the commercial documents, accompanying documents and records to be kept.<br><br>Article 119 Compulsory particulars<br>1. Labelling and presentation of the products referred to in points 1 to 11, 13, 15 and 16 of Part II of Annex VII marketed in [Great Britain]1 or for export shall contain the following compulsory particulars:<br>(a) the designation for the category of the grapevine product in accordance with Part II of Annex VII;<br>(b) for wines with a protected designation of origin or a protected geographical indication:<br>(i) the term "protected designation of origin" or "protected geographical indication"; and<br>(ii) the name of the protected designation of origin or the protected geographical indication;<br>(c) the actual alcoholic strength by volume;<br>(d) an indication of provenance;<br>(e) an indication of the bottler or, in the case of sparkling wine, aerated sparkling wine, quality sparkling wine or quality aromatic sparkling wine, the name of the producer or vendor;<br>(f) an indication of the importer in the case of imported wines; and<br>(g) in the case of sparkling wine, aerated sparkling wine, quality sparkling wine or quality aromatic sparkling wine, an indication of the sugar content. | |

2. By way of derogation from point (a) of paragraph 1, the reference to the category of the grapevine product may be omitted for wines whose labels include the name of a protected designation of origin or a protected geographical indication.
3. By way of derogation from point (b) of paragraph 1, the reference to the terms "protected designation of origin" or "protected geographical indication" may be omitted in the following cases:
(a) where a traditional term in accordance with point (a) of Article 112 is displayed on the label in accordance with the product specification referred to in Article 94(2);
(b) in exceptional and duly justified circumstances specified in regulations made by the Secretary of State in order to ensure compliance with existing labelling practices.

Sub-paragraph (b) of this paragraph does not apply in relation to products marketed in Wales see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023). ~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~

Article 122: Delegated powers
A2. This Article does not apply in relation to products marketed in Wales (see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023). ~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~
1. In order to take into account the specific characteristics of the wine sector, the appropriate authority in England, Wales or Scotland]6 may make regulations concerning rules and restrictions on:
(a) the presentation and use of labelling particulars other than those provided for in this Section;
(b) compulsory particulars concerning:
(i) terms to be used to formulate the compulsory particulars and their conditions of use;
(ii) terms referring to a holding and the conditions for their use;
(iv) provisions allowing further derogations in addition to those referred to in Article 119(2) as regards the omission of the reference to the category of the grapevine product; and
(v) provisions on the use of languages;
(c) optional particulars concerning:
(i) terms to be used to formulate the optional particulars and their conditions of use;
(d) the presentation concerning:
(i) the conditions of use of certain bottle shapes, and a list of certain specific bottle shapes;
(ii) the conditions of use of "sparkling wine"-type bottles and closures;
(iv) provisions on the use of languages.
2. In order to ensure the protection of the legitimate interests of operators, the appropriate authority in England, Wales or Scotland may make regulations concerning rules as regards temporary labelling and presentation of wines bearing a designation of origin or a geographical indication, where that designation of origin or geographical indication fulfils the necessary requirements.

| | |
|---|---|
| 4. In order to take account of the specific characteristics in trade between the United Kingdom and certain third countries,<br>the appropriate authority in England, Wales or Scotland may make regulations concerning derogations from this Section as regards products to be exported where required by the law of the third country concerned.<br>Article 123: Implementing powers in accordance with the examination procedure<br>This Article does not apply in relation to products marketed in Wales (see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023).<br>~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~<br>The appropriate authority in England, Wales or Scotland may make regulations laying down necessary measures concerning the procedures and technical criteria applicable to this Section, including the necessary measures for the certification, approval and verification procedures applicable to wines without a protected designation of origin or a protected geographical indication. | |
| REUL 1308/2013 sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd<br><br>*Article 73 Scope*<br>Without prejudice to any other provisions applicable to agricultural products, as well as to the provisions adopted in the veterinary, phytosanitary and food sectors to ensure that products comply with hygiene and health standards and to protect animal, plant and human health, this Section lays down the rules concerning marketing standards. Those rules shall be divided between obligatory rules and optional reserved terms for agricultural products.<br><br>References in this Section to marketing standards as they apply in relation to products marketed in Wales, include standards set in regulations under section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023.<br>~~under paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020.~~<br><br>Article 75: Establishment and content<br>A2. This Article does not apply in relation to products marketed in Wales (see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023”).<br>~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~<br><br>*Article 78 Definitions, designations and sales descriptions for certain sectors and products*<br>3. The appropriate authority in England, Wales or Scotland may make regulations concerning the modifications, derogations or exemptions to the definitions and sales descriptions provided for in Annex VII. Those regulations shall be strictly limited to demonstrated needs resulting from evolving consumer demand, technical progress or the need for product innovation.<br>4. In order to ensure that operators have a clear and proper understanding of the definitions and sales descriptions provided for in | |

| | |
|---|---|
| Annex VII, the appropriate authority in England, Wales or Scotland may make regulations concerning the rules on their specification and application.<br>5. In order to take into account the expectations of consumers and the evolution of the milk products market, the [ appropriate authority [ in England, Wales or Scotland may make regulations to specify the milk products in respect of which the animal species from which the milk originates is to be stated, if it is not bovine, and to lay down the necessary rules.<br>7. Paragraphs 3 to 5 do not apply in relation to products marketed in Wales ((see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023) ~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~<br><br>*Article 80 Oenological practices and methods of analyses*<br>3. When authorising oenological practices for wine [under paragraph 2A , the [Secretary of State shall:<br>(a) take into account the oenological practices and methods of analyses recommended and published by the OIV, as well as the results of experimental use of as-yet unauthorised oenological practices;<br>(b) take into account the protection of human health;<br>(c) take into account the possible risk of consumers being misled due to their well established perception of the product and their corresponding expectations, having regard to the availability and feasibility of informational means to exclude such risks;<br>(d) allow the preservation of the natural and essential characteristics of the wine and not cause a substantial change in the composition of the product concerned;<br>(e) ensure an acceptable minimum level of environmental care;<br>(f) respect the general rules concerning oenological practices and the rules laid down in Annex VIII.<br>4. In order to ensure the correct treatment of unmarketable wine products, the [ Secretary of State may [, with the consent of the relevant authorities in Wales and Scotland, make regulations concerning rules on the procedures referred to in the second subparagraph of paragraph 2 of this Article, and derogations therefrom concerning the withdrawal or destruction of wine products that do not comply with the requirements.<br>5. The Secretary of State may make regulations laying down the methods referred to in point (d) of Article 75(5) for products listed in Part II of Annex VII. Those methods shall be based on any relevant methods recommended and published by the OIV, unless the relevant authorities in Wales and Scotland agree that they would be ineffective or inappropriate<br>7. Paragraphs 3 to 5 do not apply in relation to products marketed in Wales (see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023) ~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~ | |
| Article 86 Reservation, amendment and cancellation of optional reserved terms | |

| | |
|---|---|
| This Article and Articles 87 and 88 do not apply in relation to products marketed in Wales (see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023). ~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~<br><br>Article 91 Implementing powers in accordance with the examination procedure<br><br>This Article does not apply in relation to products marketed in Wales (see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023)<br>~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~<br>The appropriate authority in England, Wales or Scotland]6 may make regulations:<br>(a) establishing the list of milk and milk products referred to in the second paragraph of point 5 of Part III of Annex VII and spreadable fats referred to in point (a) of the sixth paragraph of point I of Part VII of Annex VII;<br>(b) laying down rules for the implementation of the marketing standards by sector or product;<br>(c) laying down rules for determining whether products have undergone processes contrary to the authorised oenological practices;<br>(d) laying down rules for the methods of analysis for determining the characteristics of products;<br>(e) laying down rules for fixing the tolerance level;<br>(f) laying down rules for the implementation of the measures referred to in Article 89;<br>(g) laying down rules for the identification or registration of the producer and/or the industrial facilities in which the product has been prepared or processed, for the certification procedures and for the commercial documents, accompanying documents and records to be kept.<br><br>Article 119 Compulsory particulars<br>1. Labelling and presentation of the products referred to in points 1 to 11, 13, 15 and 16 of Part II of Annex VII marketed in [Great Britain]1 or for export shall contain the following compulsory particulars:<br>(a) the designation for the category of the grapevine product in accordance with Part II of Annex VII;<br>(b) for wines with a protected designation of origin or a protected geographical indication:<br>(i) the term "protected designation of origin" or "protected geographical indication"; and<br>(ii) the name of the protected designation of origin or the protected geographical indication;<br>(c) the actual alcoholic strength by volume;<br>(d) an indication of provenance; | |

| | |
|---|---|
| (e) an indication of the bottler or, in the case of sparkling wine, aerated sparkling wine, quality sparkling wine or quality aromatic sparkling wine, the name of the producer or vendor;<br>(f) an indication of the importer in the case of imported wines; and<br>(g) in the case of sparkling wine, aerated sparkling wine, quality sparkling wine or quality aromatic sparkling wine, an indication of the sugar content.<br>2. By way of derogation from point (a) of paragraph 1, the reference to the category of the grapevine product may be omitted for wines whose labels include the name of a protected designation of origin or a protected geographical indication.<br>3. By way of derogation from point (b) of paragraph 1, the reference to the terms "protected designation of origin" or "protected geographical indication" may be omitted in the following cases:<br>(a) where a traditional term in accordance with point (a) of Article 112 is displayed on the label in accordance with the product specification referred to in Article 94(2);<br>(b) in exceptional and duly justified circumstances specified in regulations made by the Secretary of State in order to ensure compliance with existing labelling practices.<br><br>Sub-paragraph (b) of this paragraph does not apply in relation to products marketed in Wales see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023). ~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~<br><br>Article 122: Delegated powers<br>A2. This Article does not apply in relation to products marketed in Wales (see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023). ~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~<br>1. In order to take into account the specific characteristics of the wine sector, the appropriate authority in England, Wales or Scotland]6 may make regulations concerning rules and restrictions on:<br>(a) the presentation and use of labelling particulars other than those provided for in this Section;<br>(b) compulsory particulars concerning:<br>(i) terms to be used to formulate the compulsory particulars and their conditions of use;<br>(ii) terms referring to a holding and the conditions for their use;<br>(iv) provisions allowing further derogations in addition to those referred to in Article 119(2) as regards the omission of the reference to the category of the grapevine product; and<br>(v) provisions on the use of languages;<br>(c) optional particulars concerning:<br>(i) terms to be used to formulate the optional particulars and their conditions of use;<br>(d) the presentation concerning:<br>(i) the conditions of use of certain bottle shapes, and a list of certain specific bottle shapes;<br>(ii) the conditions of use of "sparkling wine"-type bottles and closures; | |

| | |
|---|---|
| (iv) provisions on the use of languages.<br>2. In order to ensure the protection of the legitimate interests of operators, the appropriate authority in England, Wales or Scotland may make regulations concerning rules as regards temporary labelling and presentation of wines bearing a designation of origin or a geographical indication, where that designation of origin or geographical indication fulfils the necessary requirements.<br>4. In order to take account of the specific characteristics in trade between the United Kingdom and certain third countries, the appropriate authority in England, Wales or Scotland may make regulations concerning derogations from this Section as regards products to be exported where required by the law of the third country concerned.<br>Article 123: Implementing powers in accordance with the examination procedure<br>This Article does not apply in relation to products marketed in Wales (see section 32(1) of the Agriculture (Wales) Act 2023).<br>~~(see paragraph 16(1) of Schedule 5 to the Agriculture Act 2020).~~<br>The appropriate authority in England, Wales or Scotland may make regulations laying down necessary measures concerning the procedures and technical criteria applicable to this Section, including the necessary measures for the certification, approval and verification procedures applicable to wines without a protected designation of origin or a protected geographical indication. | |